CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

# Gwaith Llawdden

# CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD PRIFYSGOL CYMRU

## CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

*Cyfarwyddwr*
Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PhD, DLitt, FBA

*Golygydd y Gyfres*
Ann Parry Owen, BA, PhD

*Cymrodyr Ymchwil*
R. Iestyn Daniel, BA, PhD
Rhiannon Ifans, BA, PhD
Barry James Lewis, MA, MPhil, PhD

*Golygydd Ymgynghorol*
Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPhil, DLitt, FBA

*Bwrdd Golygyddol*
Gareth A. Bevan, MA
Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PhD
A. Cynfael Lake, MA, PhD
Peredur Lynch, BA, PhD

# GWAITH LLAWDDEN

golygwyd gan

R. IESTYN DANIEL

ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2006

ⓗ Prifysgol Cymru ©, 2006.
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded CC BY-NC-SA 4.0.

Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 77 7

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

# *Dull y golygu*

Golygwyd gwaith Llawdden am y tro cyntaf gan Mrs Mari Ellis (*née* Mary Gwendoline Headley) yn 'Barddoniaeth Llawdden a Rhys Nanmor' (M.A. Cymru [Bangor], 1938). Er fy mod yn cyflwyno golygiad newydd o gerddi Llawdden yn y gyfrol hon, hoffwn gydnabod fy nyled i draethawd Mrs Ellis, a chyfeirir yn gyson at y gwaith hwnnw.

Gan na ellid yn aml ganfod 'prif destun' o blith y gwahanol gopïau, lluniwyd testunau cyfansawdd o'r cerddi gan ddangos y darlleniadau amrywiol (ac eithrio'r rhai orgraffyddol pur) yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun. Os ceir yr un amrywiad mewn grŵp o lawysgrifau, fe'i cofnodir yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw, hyd y gellir. Defnyddir cromfachau i ddynodi darlleniad sydd wedi ei ychwanegu yng nghwr y ddalen neu uwchben y testun. Os oes gair neu ran o linell yn eisiau mewn llawysgrif, nodir hynny drwy roi'r gair neu'r geiriau (yn orgraff y testun golygedig) mewn bachau petryal. Pan fo llinell neu linellau yn eisiau mewn llawysgrif, nodir y rheini mewn bachau petryal wrth nodi trefn y llinellau. Fodd bynnag, os yw gair neu eiriau'n annarllenadwy neu wedi cael eu dileu oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny â bachau petryal gwag.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai bod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG[3] xlvi); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-, -aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai bod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-, -ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffur²au Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *ymy, yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), &c.

Yn yr Eirfa ar ddiwedd gwaith y beirdd rhestrir y geiriau a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'). Rhestrir hefyd eiriau dieithr neu eiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r arfer, gan gynnig aralleiriad ar eu cyfer. Rhoddir llythyren fechan i bob enw cyffredin, er bod rhai enwau â phriflythyren yn y testun pan fônt yn cyfeirio at Dduw, Crist neu'r Drindod. Yn y mynegeion i enwau priod rhestrir pob enw person a phob enw lle sy'n digwydd yn y cerddi.

# *Diolchiadau*

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: Golygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; y Bwrdd Golygyddol, Dr Ann Parry Owen, Golygydd y gyfres hon, a'r Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, y Golygydd Ymgynghorol; yr Athro Emeritws Ralph A. Griffiths, Mr Daniel Huws, Mr Richard Hughes, Mrs Susan Jenkins, Mr Richard Suggett.

# *Cynnwys*


DULL Y GOLYGU .......... v
DIOLCHIADAU .......... vi
BYRFODDAU
Llyfryddol .......... ix
Termau a geiriau .......... xx

GWAITH LLAWDDEN
RHAGYMADRODD .......... 1
TESTUN
1. Y Grog yng Nghaer .......... 25
2. I Fair .......... 29
3. I ferch .......... 33
4. I ferch .......... 35
5. I gusan .......... 37
6. Moliant tri mab Owain ap Gruffudd o Riwsaeson .......... 41
7. I ddiolch i Hywel am groen hydd .......... 47
8. I ddiolch i Weurful ferch Madog o Abertanad am baun a pheunes ac i ofyn paun gan ei gŵr Gruffudd a hithau dros Ddafydd Llwyd o'r Drenewydd .......... 50
9. I ofyn march gan Syr Siôn Bwrch dros Ddafydd Llwyd .......... 53
10. Moliant Phylib ap Rhys o Genarth .......... 56
11. Moliant Phylib ap Rhys a Gwenllïan o Genarth .......... 59
12. Moliant Phylib ap Rhys a Gwenllïan o Genarth .......... 62
13. Moliant Phylib ap Rhys a Gwenllïan o Genarth a'u pum mab .......... 65
14. I ofyn cleddyf a bwcled gan Phylib ap Rhys o Genarth dros Siancyn y Glyn .......... 67
15. Moliant Morgan ap Hywel o Groesgynon .......... 71
16. I ddymuno gwellhad i Faredudd Fychan ap Maredudd o Arddfaelog .......... 74
17. I ofyn saled gan Fadog ap Hywel o Elfael dros Ddafydd ap Maredudd Fychan o Arddfaelog .......... 77

18. Moliant Brycheiniog....80
19. I ofyn dau filgi gan Ddafydd ab Ieuan dros Faredudd Fychan ap Maredudd o Arddfaelog....82
20. Moliant Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Hergest a'i dri mab....85
21. Marwnad Elen Gethin o Linwent....88
22. I ofyn march gan Watgyn ap Tomas o Hergest dros Siôn ap Watgyn o Frodorddyn....91
23. I ofyn dau ych du gan Watgyn ap Tomas o Hergest....94
24. I ofyn gwalch gan Robert Chwitnai o swydd Henffordd dros Siôn Bromwych....97
25. I ofyn cymorth gan Syr Water Defras o Weblai a Bodenham....100
26. I ddiolch i Rys ap Dafydd Goch o Wynllŵg a Gwrhái am ddau alarch....103
27. I ofyn dau ych coch gan Syr Dafydd Mathau o Landaf....107
28. I ofyn tarw coch gan Risiart ap Siancyn Twrberfil o Landudwg....110
29. Moliant Ieuan Gwyn ap Gwilym Fwyaf o Bryscedwyn a Goleuddydd....117
30. Ymryson Hywel Swrdwal â Llawdden am ferch....120
31. Ateb Llawdden....122
32. Ymryson Ieuan ap Hywel Swrdwal â Llawdden am lateiaeth....124
33. Ateb Llawdden....126
34. Ymryson Llawdden a Dafydd ab Edmwnd....128
35. I blentyn maeth....130
36. Dychan i fardd gwael....131

NODIADAU....133
GEIRFA....247
Enwau personau....269
Enwau lleoedd....274

LLAWYSGRIFAU....277
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF....285
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU....287

# *Byrfoddau*

## *Llyfryddol*

| | |
|---|---|
| Act | ‘Actau yr Apostolion’ yn y Testament Newydd |
| ASCent | *Apocryffa Siôn Cent,* gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2004) |
| B | *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–93 |
| P.C. Bartrum: WG1 | *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974) |
| P.C. Bartrum: WG2 | *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983) |
| BaTh | *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a’r Alban*, gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996) |
| BD | *Brut Dingestow*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942) |
| BDG | *Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym*, gol. Owen Jones a William Owen (Llundain, 1789) |
| Bedo Aerddrem, &c.: Gw | Robert Stephen, ‘The Poetical Works of Bedo Aerddrem, Bedo Brwynllys and Bedo Phylip Bach’ (M.A. Cymru [Bangor], 1907) |
| BL Add | Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain |
| Bl B XIV | *Blodeugerdd Barddas o’r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Dafydd Johnston (Llandybïe, 1989) |
| Boutell | *Boutell’s Heraldry*, revised by J.P. Brooke-Little (London and New York, 1983) |
| BRh | *Breudwyt Ronabwy*, gol. Melville Richards (Caerdydd, 1948) |
| ByCy | *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953) |

| | |
|---|---|
| Card | Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd |
| CAMBM | *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum* |
| J. Cartwright: ForF | Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wyryfdod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999) |
| CBPM | G. Hartwell Jones, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* (London, 1912) |
| CGD | Bleddyn Owen Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c. 1350–c. 1630* (Caerdydd, 1998) |
| CLC[2] | *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997) |
| CLlH | *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935) |
| CM | Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. |
| CMCS | *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–93; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993– |
| CO[3] | *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans (Caerdydd, 1997) |
| CP | G.E. Cokayne, *The Complete Peerage* (13 vols., London, 1910–40) |
| CSF | F.G. Payne, *Crwydro Sir Faesyfed* (2 gyf., Llandybïe, 1966–8) |
| CSTB | *Cywyddau Serch y Tri Bedo*, gol. P.J. Donovan (Caerdydd, 1982) |
| Cylchg LlGC | *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 1939– |
| CyT | *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol*, gol. Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston, Jenny Rowland (Caerdydd, 2003) |
| D | *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632) |
| Dat | 'Llyfr y Datguddiad' yn y Testament Newydd |

| | |
|---|---|
| R.R. Davies: LSMW | R.R. Davies, *Lordship and Society in the March of Wales* (Oxford, 1978) |
| DE | *Gwaith Dafydd ap Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914) |
| DGA | *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, ed. Helen Fulton (Llandysul, 1996) |
| DGG$^2$ | *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935) |
| DGGD | *Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch,* gol. Bleddyn O. Huws (Abertawe, 1998) |
| DGIA | H.M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996) |
| DN | *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923) |
| DNB | *Dictionary of National Biography*, ed. Leslie Stephen and Sidney Lee (Oxford, 1917) |
| DrOC | *Drych yr Oesoedd Canol*, gol. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (Caerdydd, 1986) |
| DWH | Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3) |
| L. Dwnn: HV | *Heraldic Visitations of Wales*, ed. Samuel Rush Meyrick (2 vols., Llandovery, 1846) |
| EANC | R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938) |
| Études | *Études celtiques*, 1936– |
| EEW | T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923) |
| EVW | Margaret Enid Griffiths, *Early Vaticination in Welsh with English Parallels* (Cardiff, 1937) |
| EWGP | *Early Welsh Gnomic Poetry*, ed. Kenneth Jackson (Cardiff, 1961) |
| EWGT | *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966) |

| | |
|---|---|
| G | *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63) |
| GBDd | *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994) |
| GBF | *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian M. Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996) |
| GC | *Gwaith Casnodyn*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1999) |
| GCBM i | *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991) |
| GDB | *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995) |
| GDC | *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2002) |
| GDEp | *Gwaith Dafydd Epynt*, gol. Owen Thomas (Aberystwyth, 2002) |
| GDG | *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952) |
| GDG$^3$ | *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979) |
| GDGor | *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997) |
| GDID | *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992) |
| GDLl | *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964) |
| GEO | *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997) |
| GGDT | *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli,* gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Aberystwyth, 1995) |

| | |
|---|---|
| GGH | *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990) |
| GGl$^2$ | *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961) |
| GGLl | *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000) |
| GGM | *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill*, gol. Nerys Ann Howells (Aberystwyth, 2001) |
| GGMD ii | *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd ii: Cerddi Crefyddol*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2005) |
| GGrG | *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans *et al.* (Aberystwyth, 1997) |
| GHS | *Gwaith Hywel Swrdwal a'i Deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000) |
| GIBH | *Gwaith Ieuan Brydydd Hir,* gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000) |
| GIF | *Gwaith Iorwerth Fynglwyd*, gol. Howell Ll. Jones ac E.I. Rowlands (Caerdydd, 1975) |
| GIG | *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988) |
| GILlF | *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2003) |
| GIRh | *Gwaith Ieuan ap Rhydderch*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2003) |
| Glam Bards | J. Morgan Williams, 'The Works of Some Fifteenth Century Glamorgan Bards' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1923) |
| GLD | *Gwaith Lewys Daron,* gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994) |
| GLGC | *Gwaith Lewis Glyn Cothi*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1995) |
| GLM | *Gwaith Lewys Môn,* gol. Eurys I. Rowands (Caerdydd, 1975) |

| | |
|---|---|
| GLMorg | *Gwaith Lewys Morgannwg*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2004) |
| GLlBH | *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996) |
| GLlF | *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. Kathleen Anne Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994) |
| GLlG | *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998) |
| GLlGt | *Gwaith Llywelyn ap Gutyn,* gol. R. Iestyn Daniel (i ymddangos) |
| GLlLl | *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989) |
| GM | *Gwassanaeth Meir*, gol. Brynley F. Roberts (Caerdydd, 1961) |
| GMB | *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994) |
| GMBr | *Gwaith Mathau Brwmffild*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2002) |
| GMRh | *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion,* gol. Enid Roberts (Aberystwyth, 2003) |
| GMW | D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964) |
| GO | *L'œuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1) |
| GOLlM | *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel*, gol. Eurys Rolant (Caerdydd, 1984) |
| GP | *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934) |
| GPC | *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–2002) |
| GPhE | *Gwaith Syr Phylib Emlyn, Syr Lewys Meudwy a Mastr Harri ap Hywel*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2001) |

| | |
|---|---|
| R.A. Griffiths: PW i | Ralph A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972) |
| GSC | *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996) |
| GSCMB | 'Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor' (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1962) |
| GSCyf | *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd 'Sypyn Cyfeiliog' a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998) |
| GSDT | *Gwaith Syr Dafydd Trefor,* gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2005) |
| GSH | *Gwaith Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999) |
| GSRh | *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995) |
| GST | *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (2 gyf., Caerdydd, 1980) |
| GTP | *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958) |
| Gwilym Tew: Gw | Anne Elizabeth Jones, 'Gwilym Tew: Astudiaeth Destunol a Chymharol o'i Lawysgrif, Peniarth 51, ynghyd ag Ymdriniaeth â'i Farddoniaeth' (Ph.D. Cymru [Bangor], 1981) |
| Gwyn 3 | *Gwyneddon 3*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1931) |
| HCLl | *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953) |
| HMNLW | *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943– ) |
| HMSS | *Selections from the Hengwrt MSS*, ed. Robert Williams and G. Hartwell Jones (2 vols., London, 1876–92) |

| | |
|---|---|
| ID | *Casgliad o Waith Ieuan Deulwyn*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1909) |
| IG | *Gweithiau Iolo Goch*, gol. Charles Ashton (Croesoswallt, 1896) |
| IGE | *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (Bangor, 1925) |
| IGE[2] | *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937) |
| Io | 'Yr Efengyl yn ôl Sant Ioan' yn y Testament Newydd |
| J | Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen |
| LBS | S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13) |
| LGCD | *Lewys Glyn Cothi (Detholiad)*, gol. E.D. Jones (Caerdydd, 1984) |
| J.E. Lloyd: HW[3] | J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939) |
| Luc | 'Yr Efengyl yn ôl Sant Luc' yn y Testament Newydd |
| Llawdden, &c.: Gw | Mary Gwendoline Headley, 'Barddoniaeth Llawdden a Rhys Nanmor' (M.A. Cymru [Bangor], 1938) |
| LlCy | *Llên Cymru*, 1950– |
| LlGC | Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| Llst | Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| Llywelyn Siôn, &c.: Gw | Thomas Oswald Phillips, 'Bywyd a Gwaith Meurig Dafydd (Llanisien) a Llywelyn Siôn (Llangewydd)' (M.A. Cymru [Caerdydd], 1937) |
| Marc | 'Yr Efengyl yn ôl Sant Marc' yn y Testament Newydd |

| | |
|---|---|
| Math | 'Yr Efengyl yn ôl Sant Mathew' yn y Testament Newydd |
| MCF | Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (codwyd yr wybodaeth yn 2005) |
| MED | *Middle English Dictionary* (Michigan, 1963– ) |
| MFGLl | Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau (Caerdydd 1978) |
| Mont Coll | *Collections Historical and Archaeological ... by the Powysland Club*, 1868– |
| J. Morris-Jones: CD | John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925) |
| J. Morris-Jones: WS | John Morris-Jones, *Welsh Syntax* (Cardiff, 1931) |
| Mos | Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| MWM | Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff and Aberystwyth, 2000) |
| NBSBM | Tegwen Llwyd, 'Noddwyr Beirdd yn Siroedd Brycheiniog a Maesyfed' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1987) |
| NBSD | Robert Lewis Roberts, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir Drefaldwyn' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1980) |
| NCE | *New Catholic Encyclopaedia* (15 vols., New York, 1967–79) |
| NLWCM | J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts,* i (Aberystwyth, 1921) |
| OBWV | *The Oxford Book of Welsh Verse*, ed. Thomas Parry (Oxford, 1976) |
| $ODCC^3$ | *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., Oxford, 1967, revised 2005) |
| ODNB | *Oxford Dictionary of National Biography from the Earliest Times to the Year 2000*, ed. H.C.G. Mathew and Brian Harrison (Oxford, 2004) |

| | |
|---|---|
| OED$^2$ | *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989) |
| PACF | John Edwards Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Bangor, 1914) |
| Pant | Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| PBA | *Proceedings of the British Academy,* 1903– |
| Pen | Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| Peniarth 57 | *Peniarth MS. 57*, transcribed by E. Stanton Roberts (Cardiff, 1921) |
| Peniarth 76 | *Peniarth 76*, copïwyd gan E. Stanton Roberts a golygwyd gan W.J. Gruffydd (Caerdydd, 1927) |
| PKM | *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930) |
| RB | *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. John Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890) |
| RBCWP | Gerald J. FitzGerald, 'The Religious Background of the Classical Welsh Poets (1435–1535)' (M.A. Liverpool, 1964) |
| RWM | *Reports on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E. |
| 2 Sam | 'Ail Lyfr Samuel' yn yr Hen Destament |
| SCWMBLO | Falconer Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford,* vi (Oxford, 1924) |
| SDR | *Chwedleu Seith Doethon Rufein*, gol. Henry Lewis (Wrecsam, 1925) |
| R.L. Thomson: Owein | *Owein*, ed. R.L. Thomson (Dublin, 1968) |
| TLlM | G.J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948) |

| | |
|---|---|
| TN | *Testament Newydd ein Arglwydd Jesv Christ*, William Salesbury (London, 1567) |
| Treigladau | T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952) |
| TW | Geiriadur Syr Thomas Wiliems, *Thesaurus Linguæ Latinæ et Cambrobritannicæ* yn Pen 228 |
| TYP³ | *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (third ed., Cardiff, 2006) |
| WATU | Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969) |
| WCD | P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary* (Aberystwyth, 1993) |
| G. Williams: RRR | Glanmor Williams, *Recovery, Reorientation, and Reformation Wales, c. 1415–1642* (Oxford, 1987) |
| WLl | *Barddoniaeth Wiliam Llŷn*, gol. J.C. Morrice (Bangor, 1908) |
| WML | *Welsh Medieval Law,* ed. A.W. Wade-Evans (Oxford, 1909) |
| W Surnames | T.J. Morgan and Prys Morgan, *Welsh Surnames* (Cardiff, 1985) |
| WVBD | O.H. Fynes-Clinton, *The Welsh Vocabulary of the Bangor District* (Oxford, 1913) |
| WWR² | H.T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (second ed., Stroud, 1995) |
| YB | *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–) |
| YGIV | *Ystorya Gwlat Ieuan Vendigeit*, gol. Gwilym Lloyd Edwards (Caerdydd, 1999) |

## *Termau a geiriau*

| | | | |
|---|---|---|---|
| a. | ansoddair, -eiriol | goddr. | goddrych |
| adf. | adferf | gof. | gofynnol |
| amhff. | amherffaith | gol. | golygwyd gan |
| amhrs. | amhersonol | grb. | gorberffaith |
| anh. | anhysbys | grch. | gorchmynnol |
| ardd. | arddodiad, -iaid | grff. | gorffennol |
| arg. | argraffiad | gthg. | gwrthgyferbynier, -iol |
| *art.cit.* | *articulo citato* | gw. | gweler |
| At. | Atodiad | gwrth. | gwrthrych |
| b. | benywaidd | Gwydd. | Gwyddeleg |
| ban. | bannod | H. | Hen |
| be. | berfenw | h.y. | hynny yw |
| bf. (f.) | berf, -au | *ib.* | *ibidem* |
| *c.* | *circa* | *id.* | *idem* |
| c. (g.) | canrif | *l.c.* | *loco citato* |
| C. | Canol | ll. | lluosog; llinell |
| C.C. | cyn Crist | Llad. | Lladin |
| cf. | cymharer | llaf. | llafariad |
| cmhr. | gradd gymharol | llau. | llinellau |
| cpl. | cyplad | llsgr. | llawysgrif |
| Cym. | Cymraeg | llsgrau. | llawysgrifau |
| cys. | cysylltair, cysylltiad | myn. | mynegol |
| d.g. | dan y gair | n. | nodyn |
| dib. | dibynnol | neg. | negydd, -ol |
| Diw. | Diweddar | *ob.* | *obiit* |
| e. | enw | O.C. | oed Crist |
| eb. | enw benywaidd | *op.cit.* | *opere citato* |
| ebd. | ebychiad | pres. | presennol |
| ed. | *edited by, edition* | prs. | person, -ol |
| e.e. | er enghraifft | pth. | perthynol |
| eg. | enw gwrywaidd | r | *recto* |
| eith. | eithaf | rh. | rhagenw, -ol |
| e.p. | enw priod | rhif. | rhifol, -ion, rhifyn |
| *et al.* | *et alii* | S. | Saesneg |
| *ex inf.* | *ex informatione* | *s.n.* | *sub nomine* |
| f. | ffolio | td. | tudalen |
| *fl.* | *floruit* | tt. | tudalennau |
| ff. | ffolios | traeth. | traethiad, -ol |
| Ffr. | Ffrangeg | un. | unigol |
| g. | (c.) canrif; gwrywaidd | v | *verso* |
| gn. | geiryn | vols. | *volumes* |

# *Rhagymadrodd*

## *Bywyd y Bardd*

Bardd oedd Ieuan Llawdden—neu 'Lawdden' fel y'i hadnabyddir gan amlaf[1]—a flodeuai yn ail a thrydydd chwarter y bymthegfed ganrif ac a gysylltir â chanolbarth a de-ddwyrain Cymru ac â'r Gororau. Dengys ei waith feistrolaeth gyflawn ar gerdd dafod draddodiadol, ac fel crefftwr aeth safon ei gywirdeb yn fath o ddihareb ymysg beirdd eraill. Y mae ei gerddi hefyd yn amrywiol eu natur ac yn cynnwys darnau tra chofiadwy.

Mewn oes ddiweddarach, cafodd Llawdden (megis amryw o feirdd eraill y cyfnod) y fendith gymysg o ddenu sylw'r hynafiaethydd dyfeisgar Iolo Morganwg a luniodd ryw fath o gofiant pytiog a gwasgarog iddo yn ei lawysgrifau.[2] Ymhlith rhai o honiadau mwy adnabyddus Iolo, gellir nodi bod Llawdden yn blentyn anghyfreithlon, yn offeiriad ym Machynlleth, ei fod wedi ennill cadair yn eisteddfod Caerfyrddin yn 1451, wedi trefnu mesurau cerdd dafod, ac wedi dychwelyd i Landeilo Tal-y-bont ym Mro Gŵyr yn hwyr yn ei oes a'i gladdu yno. Ymdriniodd G.J. Williams yn nodweddiadol feistraidd â stori Iolo gan ddangos mai dychmygwaith cyfoethog ydoedd yn ei hanfod gydag ambell friwsionyn o wirionedd.[3] Er mor ddifyr yw deongliadau Iolo, seilir yr astudiaeth hon ar ffynonellau dilys a dibynadwy.

### *Achau a theulu*

Ni chafwyd dim goleuni ar linach Llawdden[4] yn yr achau. Cyfeiria Llawdden ei hun unwaith at ei dad gan honni iddo fod yn fardd i dad Watgyn ap Tomas, ond nis enwa.[5] Mewn man arall ceir cyfeiriad o bosibl at ei daid ond, drachefn, ni chrybwyllir enw (gw. 23.39n). Ymddengys, er hynny, ei fod yn briod â merch o'r enw Annes (32.38) ac iddo gytuno i fagu plentyn anghyfreithlon a oedd yn fab i Faredudd Fychan ap Maredudd ap Hywel ap Phylib Dorddu o Arddfaelog (gw. cerdd 35). Y mae'r enw *Llawdden* yn anghyffredin,[6] a cheir bardd arall o'r enw Tomas Llawdden a

[1] Digwydd ei enw fel 'Llawdden' (gan amlaf) neu 'Ieuan Llawdden' yn y llsgrau. Yn 26.64, 28.59 cyfeiria ato'i hun fel *Ieuan*.

[2] Gw. G.J. Williams, *Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad* (Llundain, 1926), 85–95.

[3] Gw. *l.c.*; TLlM 53.

[4] Sylwer nad oes a wnelo Llawdden y bardd â'r Llawdden a oedd yn dad gwehelyth yn Uwch Aeron, Ceredigion (gw. P.C. Bartrum: WG1 'Llawdden' 1–9).

[5] 22.23–4.

[6] Yn ôl EANC 103, daw o'r e.prs. Llad. *Laudentius*.

ganodd farwnadau i uchelwr o'r enw Gwilym fab Tomas Fychan ac i glerigwr o'r enw Gwilym Gwallter;[7] ond os yw anghyffredinedd enwau'r ddau fardd yn awgrymu perthynas bosibl, ni ellir honni unrhyw berthynas neilltuol rhyngddynt ar sail y ddwy gerdd hyn. Gellir meddwl am feirdd eraill o fri na wyddys bron dim am eu tras, ac yn eu plith ddau fardd mwyaf y bymthegfed ganrif, sef Guto'r Glyn a Lewys Glyn Cothi.

Yng nghofnodion Llysoedd y Sesiynau Mawr sir Aberteifi, 13 Medi 1546, crybwyllir gŵr o'r enw Hywel ap Morus ap Llawdden o Lanbadarn Fawr a gafodd, ynghyd â phymtheg o bobl eraill, ei ryddhau, trwy broclamasiwn, o amheuaeth o ffelwniaeth.[8] Yn amseryddol, y mae'n bosibl mai ŵyr i'r bardd ydoedd Hywel; ond y mae'n bosibl hefyd, wrth gwrs (ac efallai'n fwy tebygol), mai un o ddisgynyddion llwyth niferus Llawdden ab Iorwerth ab Uchdryd yng Ngheredigion a olygir.[9]

*Bro*

Y mae'r dystiolaeth am fro Llawdden, ar y llaw arall, dipyn yn helaethach. Yn ôl llawysgrif Llst 135, 62 (ail hanner yr 16g.), gŵr o Faelienydd ydoedd, ac yn llai penodol, dywedir yn llawysgrif Gwyn 9, 32 (1801) mai gŵr o sir Faesyfed ydoedd. Yn llawysgrifau BL Add 14866, 36$^{r}$, 169$^{r}$ (ysgrifennwyd 1586–7), Gwyn 1, 80$^{r}$ (16g. / 17g.), Gwyn 3, 96$^{v}$, 106$^{r}$ (*c.* 1600), Pen 112, 679 (cyn 1610), a Card 2.40 [= RWM 26], 118 (*c.* 1714), honnir mai gŵr o Fachynlleth oedd Llawdden. Yn llawysgrif Pen 49, 172$^{r}$, (1595x1630), dywed John Davies, Mallwyd, mewn rhestr dan y teitl 'Beirdd a Phrydyddion', *Llowdden a gant i Mr Robert Whitney i Arglwys fferis. i Dd Mathau o Landaf. i watkyn fychan o Hergest i Domas ap Rosser ai dri meib*, a gyferbyn â'r geiriau, yng nghwr chwith y ddalen, ceir yr enw *Rhaiadr Gwy*, sef y fan lle yr oedd Llawdden, ym marn Davies, yn byw. Yn llawysgrif Gwyn 3, 97$^{v}$, dywedir hefyd, ond mewn llaw ddiweddarach, sef llaw Peter Bailey Williams, mai gŵr o Gastell Llwchwr ym Morgannwg oedd Llawdden. Yn llawysgrif LlGC 9176A, 56$^{r}$ (19g.), sydd hithau yn llaw Peter Bailey Williams, dywedir mai gŵr o sir Gaerfyrddin neu Frycheiniog ydoedd a newidiwyd hyn wedyn i ddweud mai o *câs Lychwr* yr oedd yn hanu.

Gwelir, felly, fod Llawdden yn cael ei gysylltu yn y llawysgrifau uchod â chwe ardal wahanol: Maelienydd ym Maesyfed, Machynlleth, Rhaeadr Gwy, Casllwchwr, sir Gaerfyrddin a Brycheiniog.

[7] Gw. MFGLl 4073; MCF. Ceir y farwnad gyntaf yn LlGC 16964A, 91$^{v}$, a'r llall yn Pen 60, 104 a Pen 312, ii, 75.

[8] *ho[w]ell ap mor[e]s ap llowthen nuper de llanbadarn vawre alias captus ibidem per suspectionem felonie*, gw. Great Sessions 18/6/unnumbered rex membrane, [11$^{v}$]. Diolchaf i Mr Richard Sugget am dynnu fy sylw at y cofnod hwn.

[9] Gw. 9.58n. Yn P.C. Bartrum: WG2 'Llowdden' 7 (A, B) rhestrir un Hywel Wyn o'r 15g. a oedd yn fab i un o blant Llawdden ap Rhys ap Llawdden, ac enw un o'r plant hynny oedd Morus.

Ceir tystiolaeth gan Lawdden ei hun i'w gysylltiad â Maelienydd. Wrth ofyn am ychen cochion gan Ddafydd Mathau o Landaf, dywed, *Dau ychen o'i fen a fydd / I'm iau lawn ym Maelienydd* (27.29–30). Ymhellach, daw'n eglur mai ei fwriad oedd cyplysu'r ychen cochion ag ychen duon a gawsai eisoes gan Watgyn ap Tomas o Hergest (cerdd 23). Gan hynny, y mae'n debygol mai ym Maelienydd yr oedd yn byw pan gyflwynodd y cais hwnnw hefyd ac, os felly, nid syn iddo awgrymu bod Watgyn yn cael yr anifeiliaid mewn marchnadfa ychen yn Hirddywel yng ngogledd y cantref (23.63–4). Yn fwy penodol, wrth erchi tarw coch gan Risiart ap Siancyn Twrberfil, dywed am yr anifail, *E wna lloi yng Nghefn-y-llys / Drwy Gymru fel draig Emrys*. Enw ar gantref a phlwyf yn ne Maelienydd oedd Cefn-llys, er mai anodd yw gwybod ai am ardal y cyntaf ynteu'r ail yr oedd Llawdden yn meddwl (gw. 28.61n).

Ceir ateg i gysylltiad Llawdden â Machynlleth yng nghywydd ymryson Ieuan ap Hywel Swrdwal ag ef (cerdd 32) oherwydd y mae'n deg casglu oddi wrth y cyfeiriad at Annes, cymar Llawdden ym Machynlleth (32.39–40), mai yno yr oedd y ddeuddyn yn byw ar y pryd. Ceir tystiolaeth hefyd sy'n cysylltu Llawdden ag ardal a gyfetyb yn fras i hen diriogaeth Powys Wenwynwyn (de Powys), a gynhwysai Fachynlleth, oherwydd yn un o'i gywyddau serch sonia am *ein sir* (5.2) gan gyffelybu tegwch ei gariad i Afon Efyrnwy a'i chysylltu ag ardal Is Coed, sef Caereinion Is Coed, y mae'n debyg (gw. 5.2n). Mewn cywydd dychan i Ddafydd ab Edmwnd sonia Guto'r Glyn am feirdd dig yn ymlid Dafydd trwy wahanol rannau o Gymru. Pan ddaw i fro Llawdden, dywed *Trwy Ddyfi nâd traw Dafydd, / Trwy Hafren Llawdden a'i lludd*:[10] yr oedd Afon Hafren yn llifo trwy dde Powys Wenwynwyn. Yn olaf, sylwer ar y cyfeiriad at Bowys ym moliant Llawdden i Ieuan Gwyn ap Gwilym Fwyaf o Bryscedwyn, *Cyd bo aml, ced heb omedd, / Ym aur ym Mhowys y medd*, (29.11–12).

Ynglŷn â chysylltiad honedig Llawdden â Rhaeadr Gwy, gwyddys iddo ymddiddori mewn merch o'r dref honno (gw. cerdd 33), ond ni phrawf hynny, wrth reswm, iddo fyw yno. Y mwyaf y gellir ei faentumio, ar bwys tystiolaeth John Davies, Mallwyd, yw ei bod yn bosibl ei fod wedi preswylio yno am ryw gyfnod.

Ynglŷn â chysylltiad Llawdden â Chasllwchwr, diau bod hwn yn tarddu o honiadau Iolo Morganwg mai brodor o lannau Llwchwr ym Mro Gŵyr oedd Llawdden (a gw. yr adran nesaf). Er gwaethaf eu diweddarwch a'u hawduraeth, y mae'r honiadau hyn, fel y dadleuodd G.J. Williams, wedi eu seilio ar gywydd moliant a ganodd Llawdden i ddeuddyn o Fro Gŵyr, sef Ieuan Gwyn ap Gwilym Fwyaf o Bryscedwyn ym mhlwyf Llandeilo Tal-y-bont a'i wraig Goleuddydd (cerdd 29, a gw. y sylwadau rhagarweiniol iddi), lle y dywed Llawdden iddo dderbyn nawdd gan Ieuan o'i ieuenctid. Ni ddywed Iolo mai o Gasllwchwr yn benodol yr oedd Llawdden yn dod (ac ni

[10] GGl$^2$ 190 (LXXI.43–4).

welwyd unrhyw dystiolaeth i'r perwyl hwnnw), ond gellir ystyried tystiolaeth Peter Bailey Williams yn amrywiad ar stori Iolo. O ran hynny, yn y nodiadau bywgraffyddol hynny sy'n dilyn storïau Iolo dywed William Owen, Robert Williams, Gweirydd ap Rhys, a D. Emrys Lewis fod Llawdden yn hanu o Lynllwchwr yn sir Gaerfyrddin, hynny yw ar ochr y sir honno i Afon Llwchwr, nid ochr sir Forgannwg.[11] Yr oedd rhyw duedd ymysg yr hynafiaethwyr hyn i amrywio union ardal man geni'r bardd.

Pa faint o bwys y gellir ei roi ar yr honiadau hyn sy'n cysylltu Llawdden â Chasllwchwr neu fannau eraill ym Mro Gŵyr? Yn ei gywydd i Ieuan Gwyn a Goleuddydd o Bryscedwyn, tarddell yr honiadau, dywed Llawdden ei fod wedi derbyn tâl ac enwogrwydd gan Ieuan Gwyn er yn gynnar yn ei fywyd (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 29), a barnodd G.J. Williams ar sail hyn fod y bardd yn hanu o Fro Gŵyr yn wreiddiol.[12] Fodd bynnag, ceir datganiadau tebyg gan feirdd eraill—math o dopos ydynt—a bro mebyd y bardd yr hiraethir amdani i bob golwg y tu allan i'w briod gynefin. Mewn cywydd i ddymuno i wennol fynd yn gennad drosto i fro Penllyn, dyhea Huw Cae Llwyd am ei gyfeillion ym mhlwyf Llandderfel *Lle bu fy hynt gynt i gael / Byd da a bywyd diwael*[13] a lle y *Cawn yn eu mysg canu mawl, / Cynullwn acw yn ollawl*.[14] Barn Leslie Harries oedd mai o'r ardal honno, felly, yr oedd y bardd yn dod;[15] eithr ni chanwyd yr un o gerddi Huw Cae Llwyd sydd ar glawr yng ngogledd Cymru, sy'n awgrymu, o leiaf, nad bardd o'r rhanbarth hwnnw ydoedd.[16] Drachefn, mewn cywydd i Siôn ap Hywel o Ewias, dywed Lewys Glyn yr *Awn gynt ..., / Yn ieuanc iawn, i Euas*,[17] ond gwyddys mai bardd o sir Gaerfyrddin oedd Lewys. Eto fyth, medd Lewys Môn yn ei farwnad i Gatrin ferch Forgan o Radur, *Dy ddilid ... / a fu hap ym yn fab bach. Trimaib ywch yn troi ym bunt; / ...*[18] Ni ddylid, felly, ddibynnu

[11] Gw. William Owen, *The Cambrian Biography: or Historical Notices of Celebrated Men among the Ancient Britons* (London, 1803), 203; Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen, from the Earliest Times to the Present, and Including Every Name Connected with the Ancient History of Wales* (Llandovery, 1852), 274; R.I. Prys (Gweirydd ap Rhys), *Hanes Llenyddiaeth Gymreig o'r Flwyddyn 1300 hyd y Flwyddyn 1650* (Liverpool, [1885]), 219; D. Emrys Lewis, 'Rhai o Hen Feirdd Machynlleth', *Y Genhinen*, xxxii, 214. Yn Llawdden, &c.: Gw xii dywedir, 'Y mae traddodiad cryf o blaid Dyffryn Llychwr fel man genedigol Llawdden, eithr ochr sir Gaerfyrddin i'r Dyffryn a'i hawlia. Y mae awduron a ddilyn Iolo yn selog ar bob pwnc arall yn anghytuno ag ef ar hyn. Yn sicr, Iolo a'i taflodd ar draws yr afon at ei noddwr cynnar yn sgîl ei gywydd iddo.' Fodd bynnag, os oedd traddodiad yn bodoli cyn dyddiau Iolo fod Llawdden yn dod o ochr sir Gaerfyrddin i Ddyffryn Llwchwr, ni wyddys amdano. Rhaid cofio hefyd fod tuedd bendant gan awduron y nodiadau bywgraffyddol i ddilyn eu rhagflaenwyr yn beiriannaidd.

[12] G.J. Williams, *Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad* (Llundain, 1926), 90.

[13] HCLl 54 (XI.79–80).

[14] *Ib.* 54 (XI.85–6).

[15] *Ib.* 12.

[16] Y man agosaf i ogledd Cymru lle y canodd oedd Llangurig yn y canolbarth, gw. *ib.* 93–4 (XXXV). Perthyn amryw o'i gerddi i'r de-ddwyrain.

[17] GLGC 274 (122.31–2).

[18] GLM 141–2 (XXXIX.25–7). Gw. hefyd *ib.* xvi, 441.

ar eiriau Llawdden fel prawf ei fod yn hanu o Fro Gŵyr yn wreiddiol, ac y mae'n fwy tebygol mai ymweld yn unig ag Ieuan Wyn a'i wraig a wnaeth. Gan fod tystiolaeth y gallai beirdd ddechrau barddoni yn gynnar iawn yn eu hoes,[19] efallai mai fel prentis yng nghwmni athro barddol y bu hynny.

Ynglŷn â chysylltiad Llawdden â sir Gaerfyrddin, efallai mai fel enghraifft arall o'r honiad ei fod yn dod o ochr sir Gaerfyrddin o Glynllwchwr y dylid dehongli hyn. Yr unig sail a gafwyd dros ei gysylltu â'r rhanbarth hwn yw'r ymryson y dywedir iddo ei gynnal â Dafydd ab Edmwnd yn eisteddfod Caerfyrddin (gw. cerdd 34), ond ni phrawf hynny, wrth reswm, mai brodor o sir Gaerfyrddin ydoedd.

Yn olaf, ni welwyd unrhyw dystiolaeth i ategu barn Peter Bailey Williams mai gŵr o Frycheiniog oedd Llawdden, ac efallai mai ei hunig sail yw cerdd Llawdden i Frycheiniog (cerdd 18).[20]

Gellir casglu'n bendant ar sail y dystiolaeth uchod fod Llawdden wedi preswylio mewn dau le gwahanol yn ei oes, sef ym Machynlleth ac yng Nghefn-llys ym Maelienydd. Ymddengys ei fod yn gymharol ifanc pan oedd yn cartrefu ym Machynlleth, oherwydd dyna pryd y bu ef ac Ieuan ap Hywel Swrdwal yn cystadlu am ferch a ddenasai eu bryd (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 33). Yn yr un parth o Gymru hefyd y canodd gywydd serch i ryw ferch anhysbys (cerdd 5). Ar y llaw arall, yr oedd mewn cryn oedran ym Maelienydd oherwydd disgrifia ei hun fel *Henawdur* (23.61) ac un *oediog iawn* (27.15). Gan fod Llawdden yn sôn yn ei gywydd serch am *ein sir* (5.2) ac, yn ôl pob tebyg, yn ŵr ifanc ar y pryd, byddai'n deg casglu mai gŵr o dde Powys ydoedd yn wreiddiol ac iddo symud i Faelienydd yn ddiweddarach yn ei oes. Dichon mai rywbryd wedi iddo gyrraedd blynyddoedd henaint (yn hytrach na chyn hynny) y symudodd i Faelienydd; yn ei gywydd i ofyn i Watgyn ap Tomas o Hergest am ychen duon (cerdd 23), a ganodd pan oedd yn hen, esbonia i'w noddwr ei fod yn dymuno rhoi'r gorau i glera gwlad a byw ar ei dyddyn. Gellir tybio mai'r rheswm y symudodd i'r ardal honno oedd er mwyn sicrhau digon o gynhaliaeth iddo'i hun ar ôl rhoi'r gorau i glera oherwydd yno byddai'n nes at deuluoedd pwerus a chyfoethog y Gororau megis Fychaniaid Hergest.

*Ei gartref: honiadau Iolo Morganwg*

Cyfeiriwyd uchod at dyb Iolo Morganwg mai brodor o lannau Llwchwr ym Mro Gŵyr oedd Llawdden. Wrth ysgrifennu 'hanes' Llawdden, manyla Iolo ar hyn gan ddweud, ar ôl honni i'r bardd fod yn offeiriad ym Machynlleth:

> ... but he returned to his native place, and to the house wherein he says

[19] E.e., yn ei farwnad i'w fab Siôn, a fu farw'n bump oed, cyfeiria Lewys Glyn Cothi ato fel *fy mardd doeth*, GLGC 512 (237.34). Cf. hefyd GGl$^2$ 305 (CXIX.9–12) *Moli bûm ymylau byd, / Malu sôn melys ennyd, / A chablu er yn chweblwydd, / Erchis ym eiriach y swydd*.

[20] Y mae'n bosibl hefyd mai ym Mrycheiniog yr oedd gwrthrych cerdd 19, Dafydd ab Ieuan, yn byw, gw. sylwadau rhagarweiniol y gerdd.

> he was brought up and received his name, the House of Glanllychwr in the parish of Llandeilo Tal y Bont in Gower, the Western part of Glamorgan, where his aunt and uncle lived.[21]

Ac mewn nodyn a geir ar daflen ynghyd â llythyr dyddiedig 10 Tachwedd 1803 a anfonwyd ato gan Rees Evans dywed:

> From Pont ar Ddulais over large and rich meads to Landeilo Tal y Bont. Good and large double Church-Bridge. The Tower on the brink of Lloughor river, here deep and smooth, very fine near the Church. on 7 grave stones are the ages of 90 – 93 – 84 – 86 – 85 – 84 – 82 – 82 – 81 – 87 – Church appears to have been built about 1300c fine larger old yews. all married there ait Tradition – Llawdden a native of this Parish and buried here. Cwrt y Carnau at a small distance and in this Parish, – Llynn Llychwr the Birth place of Llawdden standes about half a mile to the Right, when within ¾ of a mile from Swansea to Pont ar Ddulais.[22]

Yn ôl y darnau hyn, ganwyd Llawdden a'i fagu mewn tŷ o'r enw *Glanllychwr* neu *Llynn Llychwr*—camgymeriad, y mae'n debyg, am *Glynn Llychwr*[23]—ym mhlwyf Llandeilo Tal-y-bont,[24] ac y mae naws ymarferol ac arsylwadol yr ail ddarn fel pe bai'n rhoi tinc o ddilysrwydd i'r hyn a ddywedir. Yn y rhestrlen ar gyfer map degwm o blwyf Llandeilo Tal-y-bont, dyddiedig 14 Rhagfyr 1840, rhestrir yn yr adran sy'n ymwneud ag ardal Glynllwchwr ac Ynysllwchwr, bentrefan o'r enw Glynllwchwr yng nghyffiniau dwyreiniol Pontarddulais[25] ac sydd bellach wedi diflannu oddi ar y mapiau. A ddichon mai un o adeiladau'r pentrefan hwn a oedd gan Iolo mewn golwg a'i fod yn cofnodi traddodiad lleol dilys mai yno y ganwyd Llawdden? Sylwer i ddechrau, mai'r cyntaf o'r ddau ddyfyniad uchod yw'r cynharaf gan mai'r ffurf *Glanllychwr* sy'n cyfateb agosaf i'r ffurf *glan Llychwr* a geir yng nghywydd Llawdden i Ieuan Gwyn a'i wraig (gw. 29.16, 24, 43–4), ffynhonnell manylion Iolo am fro enedigol Llawdden, a bod Iolo wedi cymryd geiriau'r gerdd fel enw lle yn hytrach nag fel disgrifiad daearyddol. Sylwer wedyn, yn yr ail ddyfyniad, fod y ffurf wedi newid i *Llynn Llychwr* (camgymeriad, fel yr awgrymwyd uchod, am *Glynn Llychwr*) ac, yn adysgrifau Iolo ei hun o gerdd Llawdden, mai'r ffurf gyda *Glyn* a geir

[21] LlGC 13158A [= Llanofer C71], 188.

[22] LlGC 21281E, rhif 164. Cymerir mai ystyr y ddwy linell olaf yw fod *Llynn Llychwr* o fewn tri chwarter milltir i Bontarddulais ar y ffordd a arweiniai yno o Abertawe, a hanner milltir i'r dde o'r pwynt hwnnw. Ni chyfeiria G.J. Williams at y darn hwn yn *op.cit.* a diolchaf i'r Athro Geraint Jenkins am dynnu fy sylw ato.

[23] Ni welwyd unman o'r enw *Llynllwchwr*; cf. hefyd yr anghysonder yn yr un dyfyniad rhwng sillafiad Seisnig Iolo yn *Landeilo* a'i sillafiad Cymreig yn *Lloughor* (llau. 1, 2).

[24] Cf. Richard Williams, *Montgomeryshire Worthies* (2nd ed., Newtown, 1894), 168, 'He [sef Llawdden] was born at a house called Glyn Llychwr, near Pontardulais, in the parish of Llandilo Talybont.'

[25] Rhestrir hefyd 'ran' o Lynllwchwr yn ogystal â Glynllwchwr Isaf a rhan ohono.

yn groes i dystiolaeth y llawysgrifau cynharach. Byddai'n rhesymol, felly, awgrymu i Iolo, ac yntau eisoes yn gyfarwydd â cherdd Llawdden, fynd am dro i blwyf Llandeilo Tal-y-bont. Yno sylwodd ar y pentrefan Glyn-llwchwr—neu ryw ran ohono—a'i uniaethu â *glan Llychwr* y gerdd, ac yna, yn ei adysgrifau ei hun o'r gerdd, newid y darlleniad hwnnw yn fwriadol i *Glyn Llychwr.*[26] Byddai'r camau hyn yn nodweddiadol o arferion Iolo, ac ni ddylid pwyso ar y dystiolaeth hon o'i eiddo ynghylch cartref Llawdden.

*Dyddiadau*

Cyfeirir at Lawdden mewn gwahanol ffynonellau sy'n dangos mai bardd o'r bymthegfed ganrif ydoedd. Ceir rhestr gan Gutun Owain o feirdd a cherddorion a oedd yn gyfoeswyr iddo yn llawysgrif LlGC 1585D, 133$^{r–v}$.[27] Perthynai dalennau'r rhestr yn wreiddiol i lawysgrif J 141 a ysgrifennwyd ganddo tua 1499.[28] Fel y dywed Daniel Huws, 'Gwerth mawr y rhestr o safbwynt amseru'r beirdd a'r cerddorion a enwir yw fod modd dweud am y rhai sydd yn llaw Gutun fod 1500 yn *terminus ante quem* ar eu cyfer.'[29] Enwir Llawdden ar ffolio 133$^{r}$. Yn llawysgrif BL Add 31055 [= RWM 32], 48$^{r}$, a ysgrifennwyd gan Thomas Wiliems yn 1591–7, cyfeirir at Lawdden fel un o'r prydyddion a oedd yn byw *yn amser y Trydydh Clymiad ar Gerdh*, ynghyd â beirdd eraill megis Dafydd ab Edmwnd, Guto'r Glyn, Dafydd Nanmor, Lewys Glyn Cothi, Iorwerth Fynglwyd, Huw Cae Llwyd, Hywel Swrdwal, Ieuan ap Rhydderch, Tudur Penllyn, Hywel Cilan. Yn ôl John Davies, Mallwyd, yn ei restr o feirdd ar ddiwedd D, yr oedd ei flodau yn 1450.

Ceir y dystiolaeth bwysicaf, fodd bynnag, ynglŷn â dyddiadau Llawdden yn ei gerddi. Yn ei foliant i Frycheiniog (cerdd 18) cyfeiria at *iarll* (18.59) a oedd eto'n fyw, sef Syr Wiliam Herbert, Iarll Cyntaf Penfro yn ôl pob tebyg, ac y mae hyn yn dyddio'r cywydd rhwng 8 Medi 1468 pan urddwyd Herbert yn Iarll Penfro a 27 Gorffennaf 1469 pan ddienyddiwyd ef. Ymhellach, yn ei gywyddau i erchi ychen gan Watgyn ap Tomas o Hergest a Syr Dafydd Mathau o Landaf—cerddi na ellid bod wedi eu cyfansoddi cyn i Watgyn ddod i feddiant Hergest yn sgil marwolaeth ei dad ar 26 Gorffennaf 1469—cyfeiria ato'i hun, fel y gwelwyd eisoes, fel *Henawdur* (23.61) a gŵr *oediog iawn* (27.15). Gan iddo ganu marwnad i Elen Gethin, gweddw Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Hergest, a bod hithau wedi sicrhau pardwn gan y pab yn 1474 i'r sawl a weddïai dros enaid ei gŵr, y mae'n dilyn bod y bardd yntau yn dal ar dir y byw yng nghanol y 1470au. Rhwng popeth, felly, gellir dodi blynyddoedd Llawdden rhwng *c.* 1400 a *c.* 1475–80. Os felly, fel amryw o

[26] Cf., o ran hynny, y modd yr ychwanegodd at yr un adysgrifau gwpled a gyfansoddwyd ganddo ef ei hun, gw. 29.4n. Am enghreifftiau eraill o ymwneud Iolo â cherddi Llawdden, gw. isod tt. 19–20, 21, 22, 27 a sylwadau rhagarweiniol cerdd 28.

[27] Gw. Daniel Huws, 'Rhestr Gutun Owain o wŷr wrth gerdd', *Dwned*, x (2004), 79–88.

[28] *Ib.* 79.

[29] *Ib.* 80.

feirdd eraill y cyfnod, cafodd oes hir.[30]

Ceir tystiolaeth ynghylch man claddu Llawdden. Dywedir mewn rhestr o feddau'r beirdd yn llawysgrif LlGC 3029B [= Mos 110], 188, mai yn *Gwynedh yn Riw abon* y claddwyd ef. Gwir nad yw Rhiwabon yng Ngwynedd, ond dichon y defnyddir yr enw Gwynedd yn llac yma am ogledd Cymru; ac yn sicr deuai Maelor Gymraeg ar adegau o fewn cylch dylanwad gwleidyddol Gwynedd.

*Ei yrfa*

Yn ei gywydd i Ieuan Gwyn ap Gwilym Fwyaf o Bryscedwyn ym mhlwyf Llandeilo Tal-y-bont a'i wraig Goleuddydd (cerdd 29), dywed Llawdden iddo ganu ar eu haelwyd yn ei febyd. Er na ddylid casglu oddi wrth ei eiriau mai'r ardal honno oedd ei gynefin gwreiddiol (gw. uchod), eto dangosant, o leiaf, iddo ddechrau barddoni yn gynnar yn ei fywyd. Prif sylfaen y gweddill y gellir ei ddysgu am ei yrfa yw ei gylch clera, a gynrychiolir gan ei holl gerddi ac eithrio cerddi 31, 33, 34–6 sy'n wahanol eu natur. Nodir yn gyntaf y ffeithiau crai perthnasol gan drefnu'r cerddi yn ôl sir.

Yn ei fro enedigol, sef sir Drefaldwyn, canodd ddwy gerdd: cywydd moliant i Hywel, Dafydd a Llywelyn, tri mab Owain ap Gruffudd ab Ieuan o Riwsaeson ym mhlwyf Llanbryn-mair yng nghwmwd Cyfeiliog (cerdd 6); cywydd diolch am groen hydd i ryw Hywel, o bosibl Hywel ap Gruffudd ap Siencyn o Lwydiarth ym mhlwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa yng nghantref Mechain (cerdd 7).

Yn swydd Amwythig canodd ddwy gerdd: cywydd i ofyn paun gan Ruffudd ab Ieuan Fychan a'i wraig Gweurful o Abertanad (cerdd 8); cywydd i ofyn march dros Ddafydd Llwyd gan Syr Siôn Bwrch, Arglwydd Mawddwy, y Drefrydd (S. *Wattlesborough*) (cerdd 9).

Yn swydd Gaer canodd un gerdd, sef awdl i'r grog yng Nghaer (cerdd 1). Ni wyddys pwy oedd noddwr y gerdd.

Yn sir Faesyfed canodd wyth cerdd: pum cywydd yn ymwneud â Phylib ap Rhys a'i deulu o Genarth ym mhlwyf Saint Harmon yng nghwmwd Gwerthrynion (cerddi 10–14), un ohonynt i Phylib ap Rhys yn unig (cerdd 10), dau i Phylib ap Rhys a'i wraig Gwenllïan (cerddi 11–12), un iddynt hwy a'u pum mab (cerdd 13), ac un i ofyn cleddyf a bwcled gan Phylib dros Siancyn y Glyn (cerdd 14); cywydd moliant i Forgan ap Hywel ap Phylib ap Cadwgan ap Phylib Dorddu o Groesgynon ym mhlwyf Llanbister yng nghantref Maelienydd (cerdd 15); cywydd i Faredudd Fychan ap Maredudd ap Hywel ap Phylib Dorddu o Arddfaelog ym mhlwyf Llanbister yng nghantref Maelienydd (cerdd 16); cywydd i ofyn saled gan Fadog ap Hywel ap Madog Fychan o gantref Elfael dros Ddafydd ap Maredudd Fychan o Arddfaelog (gw. uchod) (cerdd 17).

[30] Cf. hefyd a ddywedir yn Bleddyn Owen Huws, 'Dyddiadau Ieuan Gethin', LlCy xx (1997), 51.

Yn sir Frycheiniog canodd ddwy gerdd o bosibl: cywydd moliant i Frycheiniog, wedi ei ganu, gellir tybio, yn rhywle yn y sir honno; cywydd i ofyn dau filgi gan Ddafydd ab Ieuan ap Morgan, o Frycheiniog, fe ddichon, dros Faredudd Fychan ap Maredudd ap Hywel o Arddfaelog (gw. uchod).

Yn swydd Henffordd canodd chwe cherdd: pedwar cywydd yn ymwneud â Fychaniaid Hergest (cerddi 20–3), sef cywydd moliant i Domas ap Rhosier o Hergest a'i dri mab (cerdd 20), cywydd marwnad i Elen Gethin (cerdd 21), cywydd i ofyn march gan Watgyn Fychan dros Siôn ap Watgyn o Frodorddyn (cerdd 22), a chywydd i ofyn dau ych ganddo (cerdd 23); cywydd i ofyn gwalch gan Robert, Arglwydd Chwitnai, dros Siôn Bromwych (cerdd 24); cywydd i ofyn cymorth gan Syr Water Defras, Arglwydd Fferis (cerdd 25).

Yn sir Fynwy canodd un gerdd, sef cywydd i ddiolch i Rys ap Dafydd Goch o Wynllŵg a Gwrhái am ddau alarch (cerdd 26).

Yn sir Forgannwg canodd dair cerdd: cywydd i ofyn ychen gan Ddafydd Mathau o Landaf dros Watgyn Fychan o Hergest (cerdd 27); cywydd i ofyn tarw coch gan Risiart Twrberfil o Landudwg (cerdd 28); cywydd moliant i Ieuan Gwyn ap Gwilym Fwyaf o Bryscedwyn ym mhlwyf Llandeilo Tal-y-bont a'i wraig Goleuddydd (cerdd 29).

Gellir ychwanegu ychydig at y darlun hwn. Gwyddys, ar sail tystiolaeth Guto'r Glyn, i Lawdden ganu ar aelwyd Dafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion o'r Drenewydd yn sir Drefaldwyn.[31] Dysgwn hefyd oddi wrth ymryson Llawdden â Hywel Swrdwal (cerdd 31) ei fod yn adnabod noddwyr o'r enw Gwilym Fychan a Siôn Fychan, sef o bosibl Gwilym Fychan o'r Peutun, ger Aberhonddu, a Siôn ab Ieuan ap Llywelyn Crugeryr o Lanfihangel Nant Melan yn Llythyfnwg, Elfael.

Dengys y ffeithiau uchod mai canolbarth a de-ddwyrain Cymru a'r Gororau oedd cylch clera Llawdden. Os canodd i noddwyr yng ngorllewin Cymru hefyd, ni chadwyd dim o'r cynnyrch.

Y mae rhai o gerddi Llawdden y gellir eu dyddio,[32] a chyfatebant, yn fras, i flynyddoedd cynnar neu ddiweddar y bardd. Ymysg ei gerddi cynnar gellir nodi ei gywydd i ddiolch am groen hydd i ŵr o'r enw Hywel, sef Hywel ap Gruffudd ap Siencyn o Lwydiarth o bosibl (cerdd 7); ei dri chywydd serch (cerddi 3–5); ei gywydd i Phylib ap Rhys o Genarth pan oedd hwnnw ar herw (cerdd 10); ei gywydd i Hywel ap Madog Fychan o Elfael i ofyn am salet (cerdd 17); ei gywydd moliant i Ieuan Gwyn o Bryscedwyn a'i wraig Goleuddydd (cerdd 29). Efallai y gellid dodi'r rhain i gyd yn ugeiniau'r bymthegfed ganrif.

Y cerddi y gellir eu dyddio i flynyddoedd diweddar Llawdden yw ei gywyddau i Frycheiniog a Thomas ap Syr Rhosier Fychan o Hergest (cerddi 18 a 20), Medi 1468–Gorffennaf 1469; ei gywyddau i Watgyn Fychan o

[31] GGl² 113 (XLII.43–4, 47–8).
[32] Gw. hefyd sylwadau rhagarweiniol y cerddi hyn.

Hergest i ofyn am farch ac am ychen duon ac i Syr Dafydd Mathau o Landaf i geisio ychen (cerddi 22, 23 a 27), rywbryd wedi marw Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Hergest yng Ngorffennaf 1469; ei gywydd i ofyn cymorth gan Syr Water Defras, Arglwydd Fferis (cerdd 25), Gorffennaf 1471–Ionawr 1472; ei farwnad i Elen Gethin (cerdd 21), rywbryd heb fod yn gynharach na 1474. Y tebyg yw mai i'r cyfnod olaf hwn hefyd y perthyn ei gywydd i ofyn tarw coch gan Risiart Twrberfil o Landudwg (cerdd 28). Efallai hefyd mai rywbryd yn ystod y cyfnod hwn yn ne-ddwyrain Cymru a'r Gororau y canodd Llawdden ei gywydd i ofyn gwalch gan Robert Chwitnai (cerdd 24) ac i ddiolch i Rys ap Dafydd Goch o Wynllŵg a Gwrhái am ddau alarch (cerdd 26).

Anodd yw cynnig dyddiadau pendant ar gyfer cerddi clera eraill Llawdden. Y mae'n amlwg mai wedi i Phylib ap Rhys o Genarth ddychwelyd o fod yn herwr y canodd Llawdden y cywyddau eraill iddo a'i deulu (cerddi 11–14) gan eu bod erbyn hynny, i bob golwg, yn sefydlog eu byd, ond y mae'n anodd gwybod pa faint yn ddiweddarach.

O gyfuno'r dystiolaeth ddaearyddol ac amseryddol am gerddi clera Llawdden, byddai'n deg dweud ei fod wedi clera yn sir Drefaldwyn ac yn sir Faesyfed yn rhan gyntaf ei fywyd, ac yna yn sir Faesyfed, sir Frycheiniog, sir Fynwy, sir Forgannwg a swydd Henffordd yn ei henaint, gan ganu'n bennaf yn sir Faesyfed ac yn swydd Henffordd. Yr oedd ei deithiau yn ardal de-ddwyrain Cymru a swydd Henffordd yn ddiau yn gysylltiedig â'i benderfyniad i symud i Faelienydd i fyw ar ei dyddyn a bod yn nes at noddwyr goludog a fyddai'n hwyluso'i fyd yn hynny o beth.

Heblaw teithio o lys i lys am gynhaliaeth, bu Llawdden hefyd yn ymryson â beirdd eraill. Bu'n ymryson â Hywel Swrdwal ac â'i fab Ieuan ap Hywel Swrdwal, yn y ddau achos ynglŷn â helyntion carwriaethol (cerddi 31 a 33). Bu ymryson byr hefyd rhyngddo a Dafydd ab Edmwnd yn yr eisteddfod bwysig a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin tua 1451 dan nawdd Gruffudd ap Nicolas. Yno cyhuddodd Llawdden Ddafydd o lwgrwobrwyo Gruffudd i roi'r gadair iddo yn dilyn cystadleuaeth ar y pedwar mesur ar hugain (cerdd 34 a cf. cerdd 36).

*Agweddau eraill ar fywyd Llawdden*

Er mai bardd yn bennaf oedd Llawdden, y mae rhai ffeithiau eraill ynghylch ei fywyd y bernir eu bod yn teilyngu eu crybwyll.

Megis llawer o feirdd, yr oedd yn amaethwr. Ceir digon o arwyddion o hyn yn ei waith, yn enwedig yn ei gywyddau i ofyn i noddwyr am anifeiliaid neu i ddiolch amdanynt (gw. cerddi 23, 26–8 yn bennaf), ac fel y gwelwyd, ym mlynyddoedd ei henaint dymunai ymgynnal trwy amaethu yn unig.

Yr oedd yn hoff o hela. Gwelir hyn yn ei gywyddau i ddiolch am groen hydd ac i ofyn am ddau filgi a gwalch (cerddi 7, 19, 24). Yn hyn o beth yr

oedd yn cyfranogi yn un o brif ddiddordebau haenau uwch y gymdeithas.[33]

Peth a flinai Lawdden yn achlysurol oedd pryder ynghylch elfennau digyfraith yn y gymdeithas megis lladron a gwylliaid. Yn ei gywydd i ofyn march gan Watgyn Fychan o Hergest (cerdd 22) portreada ei noddwr fel gwastrodwr rhywrai gwrthnysig ym Mhowys. Yn ei gywydd moliant i Phylib ap Rhys a Gwenllïan o Genarth a'u pum mab, sonia am y rhyfela a'r celanedd yn y blaenau (13.29–33), ac yn ei gywydd i Syr Water Defras, yr Arglwydd Fferis (cerdd 25), ymbilia arno i adfer heddwch a threfn i wlad a aethai'n ysglyfaeth i wylliaid. Ceir yr un gŵyn gan feirdd eraill, megis Lewys Glyn Cothi[34] a Siôn Ceri.[35] Yr oedd sawl rheswm am yr aflywodraeth hon. Un, yn ddiau, oedd natur bywyd yn y Mers. Yng ngeiriau llachar H.T. Evans:

> It is a commonplace of history that the Marches experienced every species of lawlessness which national acerbities, official vindictiveness, and the negation of effective judicial administration, could engender in a land of pathless woods and inaccessible mountains. The Marches were deluged by all the barbarous evils of a degenerate feudalism, countless in number and variety. Scientific atrocity had almost become an axiom of life. The savage licence and wolfish avarice of the strong were let loose upon the weak and the law-abiding. No recorded deed of romantic heroism relieves the abject brutality of a Lord Powys, the murderer of Griffith Vaughan, or the dexterous perfidy of a Grey of Ruthin. There is no splendid villainy even, such as is recorded in the annals of some of the Italian states during the century, unless it be the murder of Sir Christopher Talbot who was struck to the heart at his own castle of Caws. Official records present nothing better than a frightful spectacle of barbarity, a catalogue of robberies and tragedies.[36]

Ac yn ddiweddarach, yn nechrau'r bymthegfed ganrif, cafwyd gwrthryfel Owain Glyndŵr gyda'i holl sgil-effeithiau maith, ac ar ben hynny, yng nghanol y ganrif, Ryfeloedd y Rhosynnau. Fel amaethwr a chanddo ofal am anifeiliaid, byddai gan Lawdden, yn naturiol, lawer o achos i deimlo pryder, ac yn un o'i gywyddau sonia amdano'i hun yn cysgu yn agos at ei ychen i'w hamddiffyn rhag ysbeilwyr y nos (23.39–44).

Y mae lle i gredu bod Llawdden yn ŵr llythrennog. Tystia ei gywydd i'r Forwyn Fair (cerdd 2), lle y cyfeiria ato'i hun yn defnyddio'r preimer (2.27–

[33] Gw. G. Williams: RRR 115.
[34] E.e. GLGC 283–4 (cerdd 126).
[35] Gw. GSC 12.
[36] WWR$^2$ 18–19. Cf. hefyd G. Williams: RRR, e.e. 29, 39, 46–50, 59, 76, 78, 210. Ffactorau eraill, wrth gwrs, fuasai gwrthryfel Owain Glyndŵr a Rhyfeloedd y Rhosynnau a'u heffeithiau ar Gymru.

8), yn eglur ei fod yn medru darllen, a'r tebyg yw, felly, ei fod yn medru ysgrifennu hefyd, megis yr oedd amryw o feirdd eraill ei oes (e.e. Lewys Glyn Cothi, Gwilym Tew, Dafydd Epynt, &c.) wrth gofnodi eu cerddi eu hunain.[37] Yn y cyswllt hwn, yr oedd yn drawiadol—hyd yn oed ar ôl cymryd i ystyriaeth rai darlleniadau llwgr a llinellau rhy hir neu fyr—gystal oedd darlleniadau'r rhan fwyaf o'r cerddi a chyn lleied o amrywio testunol sylweddol a geid, boed nifer y copïau yn helaeth neu beidio.[38] Ai un rheswm am hyn yw fod y cerddi yn tarddu'n wreiddiol o gynseiliau yn llaw yr awdur ei hun a'u bod, o ganlyniad, wedi dioddef llai gan ormes trosglwyddiad llafar?

*Cyfeiriadau ato*

Yn ogystal â'r cyfeiriadau at Lawdden a nodwyd eisoes, sylwyd ar y cyfeiriadau canlynol ato yn y farddoniaeth. Efallai fod rhai ohonynt yn ystrydebol neu ffansïol.

Mewn rhai cyfeiriadau canmolir Llawdden am ei ddawn a'i ddysg. Y mae geiriau Guto'r Glyn yn ei gywydd moliant i Ddafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion o'r Drenewydd yn bur adnabyddus. Wrth sôn am ddau o feirdd yr aelwyd honno, sef un o'r Swrdwaliaid a Llawdden, dywed:

Llawdden â'i fwyell eiddaw
Ni âd gwŷdd deunydd lle daw.[39]Ac fel y dywed G.J. Williams, 'ymddengys i'r ymadrodd "ôl bwyall Llawdden" ddyfod yn fath o ddihareb',[40] oherwydd dywed Thomas Wiliems yn ei eiriadur *Ol Bwyall gwr dyscedic doethgall. val ôl bwyall Lowdden ar gerdd*.[41] Mewn cywair tebyg y sonia Edmwnd Prys am Lawdden pan wêl Siôn Tudur fel:

Llawdden a channwyll addysg,
Llawn llwybraidd iawn lle bo'r ddysg.[42]

Ymddengys Llawdden fel carwr brwd mewn cyfeiriadau eraill. Cyfeiriwyd eisoes at ei ymrysonau â Hywel Swrdwal a'i fab Ieuan (gw. cerddi 31, 33). Ymddengys mai dyma hefyd yw byrdwn geiriau Gwilym ab Ieuan Hen yn ei 'Gywydd y Pais' i Faredudd Fychan o Linwent ym mhlwyf Llanbister pan ddywed:

Llawdden, cadwai fwynwen, fu
(Hael wyd) yn ei hoeledu.[43]

Mewn cywydd—gan Ruffudd ap Cynwrig, efallai—i'r llwynog i erchi

[37] Gw. hefyd Tudur Hallam, 'Ysgrifen(nu) Lewys Glyn Cothi', LlCy xxiii (2000), 74–94.
[38] Eithriadau yw cerddi 1, 6, 27, 28.
[39] GGl[2] 113 (XLII.47–8).
[40] G.J. Williams, *op.cit.* 86.
[41] TW i, 218.
[42] GST i, 562 (142.9–10).
[43] GDID 93 (XII.24–6).

iddo ladd paun Dafydd Nanmor, dywedir:

A lladd, latai frawd, Llawdden,
A dwg ei bais deg a'i ben.[44]

Trwy uniaethu'r paun â Llawdden, ymddengys mai'r awgrym yw fod Llawdden yn ŵr coegfalch. Cymharer geiriau agoriadol y gerdd ymryson â Llawdden gan Hywel Swrdwal, *Balch yw Llawdden eleni, / Banw mawr, medd pob un i mi* (cerdd 30.1–2). Tybed hefyd nad oes awgrym o'r un peth yn y dicräwch a welir yn y cyntaf o'i englynion i blentyn maeth (cerdd 35)?[45]

Mewn cywydd dychan i Ddafydd ab Edmwnd, a oedd wedi digio llawer o feirdd yn arw â'i eiriau, sonia Guto'r Glyn am y beirdd yn ymlid Dafydd trwy wahanol rannau o Gymru megis cŵn yn hela rhyw anifail. Pan ddaw i gwr Llawdden o Gymru dywed:

Trwy Ddyfi nâd traw Dafydd,
Trwy Hafren Llawdden a'i lludd.[46]

Ond er bod y cwpled yn gymorth i leoli Llawdden yn ddaearyddol (gw. uchod), ni pherthyn dim arwyddocâd neilltuol i'r gosodiad y bydd Llawdden yn rhwystro Dafydd, gan mai dyna a wna'r beirdd eraill hwythau. Diau mai Dafydd ab Edmwnd yw gwrthrych cywydd dychan arall gan Ddeio ab Ieuan Du, sydd yntau'n crybwyll Llawdden:

'Mi a sorrwn masweiriau'
Medd Llawdden am frwynen frau.[47]

Sylwer hefyd ar y dystiolaeth ganlynol. Yn eu cywyddau ymryson â Llawdden, disgrifia'r Swrdwaliaid Lawdden fel *[l]liw torth haidd* (30.8) a *Llawdden lwyd* (32.54), cyfeiriadau naill ai at ei farf neu at liw ei wedd (ymhellach, gw. 5.54n). Sonia Hywel amdano fel *Fy nghâr ymbilgar bolgest* (30.33), gan awgrymu efallai fod Llawdden yn foliog neu'n hoff o'i fwyd (neu'r ddau), a dywed Ieuan ei fod yn *[F]wrdeisiwr* (32.28) sy'n *berchen tŷ da* (32.47) *Mewn y dref* (32.50), gan olygu, yn ddiau, fod Llawdden yn byw bywyd llewyrchus ddigon ym mwrdeistref Machynlleth.

### *Ei waith*

Y mae 34 o gerddi wedi goroesi y gellir eu hystyried yn waith dilys Llawdden, sef 30 o gywyddau (cerddi 2–29, 31, 33) a phennill pedair llinell o hyd ar ffurf cywydd (rhan gyntaf cerdd 35); awdl (cerdd 1); a thri englyn unigol (cerddi 34, ail ran cerdd 35, a 36). Dylid crybwyll hefyd y pum llinell ganlynol o gerddi a briodolir iddo ond nas ceir mewn unrhyw gerdd sydd

[44] IGE² 331 (llau. 21–2) ond ychwanegwyd y ddau goma ar ôl *lladd* a *frawd*.
[45] Cf. hefyd 2.53–4n, 26.64.
[46] GGl² 190 (LXXI.43–4).
[47] GDID 119 (XXIII.61–2).

wedi goroesi dan ei enw: yng Ngeirfa Wiliam Llŷn dyfynnir dan y gair *Archenad* 'gwisc ai dillad' y llinell *archenad aur a chiniaw*, a than *Dihewyd* 'Ewyllys', *yw dihewyd i howel*;[48] yn llawysgrif Llst 55, 63, y cwpled agoriadol, *y gwr coch tebig i'r cwyr / y sy wenith y synwyr*, a'r llinell sengl, *ath darian ar waith durew*. A chymryd bod y rhain yn waith dilys Llawdden, deuir â chyfanswm ei gynnyrch sydd wedi goroesi i 1996 o linellau.[49]

Gellir dosbarthu'r cerddi yn ôl themâu fel a ganlyn:

*Crefyddol*: awdl i Dduw (cerdd 1) a chywydd i Fair (cerdd 2).
*Serch*: tri chywydd i ferch (neu ferched) (cerddi 3–5).
*Moliant*: naw cywydd (cerddi 6, 10–13, 15, 18, 20, 29).
*Marwnad*: un cywydd (cerdd 21).
*Dychan*: un englyn (cerdd 36 ond gw. hefyd sylwadau rhagarweiniol y gerdd).
*Gofyn*: deg cywydd (cerddi 8–9, 14, 17, 19, 22–4, 27–8).
*Diolch*: dau gywydd (cerddi 7, 26).
*Ymryson*: dau gywydd ac un englyn (cerddi 31, 33–4).
*Eraill*: cywydd i ddymuno gwellhad (cerdd 16), cywydd i ofyn cymorth i gadw trefn (cerdd 25), a dau englyn ynglŷn â derbyn mab maeth (cerdd 35).

Er nad oes ond dwy gerdd grefyddol gan Lawdden ar glawr, eto y maent ymysg cynnyrch mwyaf diddorol y bardd: ceir yn yr awdl ddisgrifiadau o'r grog yng Nghaer a'i hanes, ac yn y cywydd gyfeiriadau at y preimer ac oriau 'Gwasanaeth Mair' a ffurfiai ran ohono. Confensiynol iawn yw'r cerddi serch ac y maent i gyd yn enghreifftiau o'r math 'goddrychol', rhagor y math 'gwrthrychol' sydd â fframwaith storïol neu ddramatig. Y mae cerddi mawl Llawdden yn rhai grymus. Ymhlith y mwyaf cofiadwy y mae ei gywydd i dri mab Owain ap Gruffudd o Riwsaeson (cerdd 6) gyda'i gyffelybiaethau trawiadol, ei gywydd panoramig i Frycheiniog (cerdd 18) a'i gywydd teimladwy i Ieuan Gwyn ap Gwilym Fwyaf o Bryscedwyn a'i wraig Goleuddydd (cerdd 29). Dwys a phriodol yw'r cywydd marwnad i Elen Gethin, ac y mae'r englyn dychan yn gryno ac effeithiol. Y math mwyaf niferus o gerdd yng nghanu Llawdden yw'r cywydd gofyn, ac ynddynt dengys gryn fedr. Yn neilltuol, y mae ei ddisgrifiadau o anifeiliaid yn sawru'n gryf ac yn drawiadol o gynefindra â hwy ac adnabyddiaeth fanwl o'u teithi. Ceir enghraifft gofiadwy o hyn yn ei gywydd i ofyn dau ych gan Watgyn Fychan pan sonia amdano'i hun yn cysgu'n agos at ei ychen i'w hamddiffyn rhag lladron y nos ac am y math o sŵn a wnânt wrth gnoi'r gwair (23.39–52), neu yn ei ddisgrifiad o walch (24.21–44) neu darw coch (28.27–66). Gwelir yr un nodweddion hefyd yng nghywyddau diolch

[48] Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1983), yr Atodiad.
[49] Yng ngherdd 8 y mae ail hanner y cwpled sy'n dechrau ar l. 9 yn eisiau.

Llawdden, sy'n ffurfio rhan o'r un *genre* â'r cywyddau gofyn. Yn ei ddau gywydd ymryson ag Ieuan Swrdwal a'i fab Hywel (cerddi 31 a 33) dengys Llawdden ei hun yn ymrysonwr medrus a allai ddal ei dir, ond amherffaith yw crefft ei englyn ymryson â Dafydd ab Edmwnd (cerdd 34 a gw. y sylwadau rhagarweiniol). Medrus iawn, drachefn, yw'r cywydd i ddymuno gwellhad i Faredudd Fychan ap Maredudd, ac yn y ddau englyn i blentyn maeth gwelir hiwmor doniol, nodwedd na welir fel arfer yng nghanu Llawdden sy'n tueddu mwy at gyfrwystra. Ceir ambell dinc o'r canu brud[50] yn ei gerddi a pheth o ddylanwad Siôn Cent.[51]

Y mae Llawdden yn nodweddiadol o feirdd canol y bymthegfed ganrif yn gyffredinol o ran meistrolaeth ar fydr a chynghanedd,[52] themâu a chyfeiriadaeth, clera, nawdd, ac ati, ac nid hawdd o'r herwydd yw diffinio ei arbenigrwydd. Gellir, serch hynny, dynnu sylw at rai pethau yn ei gerddi sy'n haeddu eu crybwyll. Y mae'n fardd hyderus, diddan, traddodiadol ei naws. Y mae ganddo arddull glir, gadarn, ddiwastraff a bywiog sy'n dangos meistrolaeth lwyr ar holl ofynion cynghanedd a mydr, a bernir mai cwbl haeddiannol yw'r deyrnged a dalodd Guto'r Glyn iddo a'r bri a fwynhâi yn gyffredinol am safon ei grefft (gw. uchod). Ymdeimlir yn neilltuol yn ei waith â'i agosrwydd at y pridd ac at anifeiliaid, ac â'i ganfyddiad byw o wrthrychau materol, wrth eu disgrifio a'u dyfalu. Chwedl Mary Gwendoline Headley, 'yn ei allu i ddisgrifio creaduriaid a phethau y rhagora Llawdden'.[53] Efallai na cheir ynddo'r nodweddion a welir yn ei gyfoeswyr mawr Guto'r Glyn a Lewys Glyn Cothi sy'n codi eu canu yn ei grynswth i dir uwch ac ehangach, ond o fewn terfynau ei ddawn neilltuol ei hun gellir dweud ei fod ymhlith y goreuon o feirdd mwy traddodiadol a chonfensiynol ei gyfnod.

## *Awduraeth*

*Am y gŵr mwy' a gerais*[54]

Ceir y cywydd hwn mewn 29 llawysgrif yn ôl MFGLl 422, 2401 ac MCF. Yn un ohonynt ceir dau destun.[55] Mewn 28 testun priodolir y gerdd i Ddafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd (Dafydd Llwyd o Fathafarn) ac mewn dau i Lawdden. Fel y gwelir, tenau iawn yw'r dystiolaeth o blaid Llawdden. Derbyniwyd y gerdd ymhlith cerddi dilys Dafydd Llwyd yn GDLl 120–2 (cerdd 53).

[50] Gw. 9.35–8, 15.33–4, 49, 18.53–6, 20.11–18 a'r nodiadau.
[51] Gw. 1.65n; 2.29–30n, 53–4n; cerdd 18 o ran pwnc a nodiadau 21–2, 28, 31, 45, 57; 20.53n.
[52] Tynnir sylw at unrhyw afreoleddau neu bwyntiau perthnasol eraill ym mydryddiaeth a chynghanedd Llawdden yn y nodiadau ar y cerddi.
[53] Llawdden, &c.: Gw xxxiv.
[54] GDLl 120–2 (cerdd 53).
[55] BL Add 31085, 132$^{v}$, 206$^{r}$.

*Anna a wnaeth i nyni*
Cyhoeddwyd y cywydd hwn yn GHS cerdd 21 fel gwaith Hywel Swrdwal, a gw. yno, tt. 10–11, am drafodaeth ar ei hawduraeth.

*Arglwydd pellenigrwydd parch*[56]
Ceir y cywydd hwn mewn 28 llawysgrif yn ôl MFGLl 984, 1010, 1257, 1692, 1867, 2396 ac MCF, ond yn un ohonynt ceir dau destun ohono.[57] Mewn 17 testun fe'i priodolir i Iolo Goch, mewn pump i Ruffudd ap Dafydd Fychan, mewn dau i Wilym Tew, mewn dau i Lawdden, mewn un i Ruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan, mewn un i Ruffudd ap Madog Fychan, ac mewn un i Ierwerth Dafydd Fychan. Fodd bynnag, awdur y priodoliad i Lawdden yw Iolo Morganwg: yn BL Add 14970, 62ʳ, mewn olnod i'w destun o'r gerdd, cais brofi mai Llawdden, nid Iolo Goch, yw'r gwir awdur, a dilynir ei farn yn BL Add 31090, 172ʳ. Amheuwyd y gerdd fel gwaith Iolo Goch yn IG 320 a'i gwrthod gan Ddafydd Johnston,[58] ond prin y gellir ei derbyn yn waith Llawdden ar sail y dystiolaeth uchod. Diddorol sylwi bod Iolo Morganwg hefyd yn sôn (BL Add 14970, 62ʳ) am briodoliad i Gwilym ab Ieuan Hen, ond ni fanyla ac ni welwyd y cyfryw briodoliad o'r gerdd yn y llawysgrifau.

*Calennig yw cael einioes* (cerdd 2)
Ceir y cywydd hwn mewn 15 llawysgrif. Fe'i priodolir mewn 12 i Lawdden, mewn un i Faredudd ap Rhys, ac mewn dwy i Ddafydd ap Gwilym. Yn ôl Thomas Parry, 'y mae'r llsgrau. yn gryfach o blaid Llawdden na DG. Felly hefyd yr arddull',[59] ac ni ellir llai na chytuno â'i farn. Gellid ychwanegu mai llawysgrifau diweddar yw'r rhai sy'n priodoli'r cywydd i Ddafydd, a pherthynant yn agos i'w gilydd. Perthyn y llawysgrif sy'n priodoli'r cywydd i Faredudd ap Rhys i ganol yr ail ganrif ar bymtheg, ond nid oes dim rheswm dros gredu mai Maredudd ap Rhys yn hytrach na Llawdden yw ei awdur.[60]

*Cam oedd ar gyhoedd roi'r gair—yma gwn* (cerdd 34)
Rhestrir y llinell hon yn MFGLl 2396 ac MCF, o BL Add 15003, 71ᵛ. Nid yw namyn fersiwn gwahanol o linell gyntaf cerdd 34 a wnaed gan Iolo Morganwg a hynny, fe ymddengys, i wella'r gynghanedd.

56 IG 321–4 (XXIX). Fe'i golygwyd hefyd yn Glam Bards 253.
57 Bodewryd 1, 290, 426.
58 David R. Johnston, 'Gwaith Iolo Goch' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1984), 139–40.
59 GDG clxxiv.
60 Ceir cerdd i Fair gan Faredudd, gw. GMRh cerdd 18. Tebyg mai ei enw fel clerigwr yn ogystal â bardd a barodd i rywun dadogi'r gerdd dan sylw arno.

*Cefais rodd, cof y sy ras*[61]
Ceir y cywydd hwn mewn deg llawysgrif yn ôl MFGLl 1257, 2397 ac MCF. Mewn wyth fe'i priodolir i Wilym ab Ieuan Hen, mewn un i Lawdden neu Wilym ab Ieuan Hen, ac mewn un i Lawdden neu Ruffudd ab Ieuan Hen. Ond ymddengys mai Iolo Morganwg yw awdur y priodoliad i Lawdden,[62] a phrin y gellir ffafrio ei dystiolaeth ef ar draul tystiolaethau eraill. Derbynnir y gerdd yn waith Llawdden yn Llawdden, &c.: Gw 107–9 (XXXV) ond fel eiddo Gwilym ab Ieuan Hen yn GDID 111–12 (XX).

*Cerais dan hug o urael*
Cyhoeddwyd y cywydd hwn a thrafod ei awduraeth yn GILlF cerdd 2 lle y'i priodolir i Ieuan ap Llywelyn Fychan.

*Cwning can nwsing, cywion isel—cainc*
Gw. *Gweithiwch, ac na chofiwch chwi—na'ch iachau.*

*Denaist dy gariad ynof*[63]
Ceir y cywydd hwn mewn naw llawysgrif yn ôl MFGLl 2397 ac MCF. Fe'i priodolir mewn saith i Wilym ab Ieuan Hen ac mewn dwy i Lawdden, ond mewn llawysgrif yn llaw Iolo Morganwg[64] ac mewn llawysgrif ddiweddar arall[65] yn unig y priodolir y gerdd i Lawdden.

*Edwart a'i wŷr âi drwy'r tân* (cerdd 28)
Yn MFGLl 565 ac RWM i, 694, priodolir y testun o'r cywydd hwn a geir yn Pen 114, 168, i Ddeio ab Ieuan Du, ond gan mai Llawdden a'i piau yn ôl priodoliad y llawysgrif (Pen 114, 169), y mae'r catalogau yn wallus.

*Eurwn gerdd gyda'r un gainc* (cerdd 6)
Ceir y cywydd hwn mewn 39 llawysgrif. Mewn 34 fe'i priodolir i Lawdden, mewn tair i Ddeio ab Ieuan Du, mewn un i Lawdden neu i Ddeio ab Ieuan Du, ac mewn un i Sypyn Cyfeiliog. Fel y gwelir, y mae mwyafrif mawr y llawsgrifau o blaid Llawdden. Digwydd y priodoliadau i Ddeio ab Ieuan Du yn y ddwy lawysgrif gynharaf,[66] ond nid yn ôl cynharwch priodoliad yn unig y mae barnu dilysrwydd awduraeth cerdd. Ynglŷn â'r priodoliad i Sypyn Cyfeiliog,[67] nid yw'r testun ymysg y goreuon a hawdd credu mai'r rheswm y priodolwyd y gerdd iddo oedd ei chysylltiadau â Chyfeiliog. Yn Llawdden, &c.: Gw 51–5 (XVII) fe'i derbynnir ymhlith cerddi dilys

61 GDID 111–12 (XX). Fe'i golygwyd hefyd yn Llawdden, &c.: Gw 107–9 (XXXV).
62 BL Add 14970, 66ʳ. Adleisio'r farn honno a wneir yn BL Add 31090, 179ʳ.
63 GDID 86–7 (IX). Fe'i golygwyd hefyd yn Llawdden, &c.: Gw 69–72 (XXII).
64 BL Add 14970, 64ᵛ.
65 BL Add 31090, 174ᵛ.
66 LlGC 17114B [= Gwysanau 25], 109, *c.* 1560; Card 5.167, 84ᵛ, *c.* 1565–72.
67 J 140 [= RWM 15], 444.

Llawdden ac yn GDID 55–7 (Atodiad A2), 142–3, ni chynigir awdur ar ei chyfer.

*Ffyniant yt fu'r moliant mau* (cerdd 14)
Ceir y cywydd hwn mewn deg llawysgrif. Mewn naw fe'i priodolir i Lawdden ac mewn un i Lewys Glyn Cothi. Y mae pob lle i gredu mai gwaith Llawdden ydyw o ran ei deithi, ac y mae'n perthyn yn agos i gylch y cywyddau a ganodd Llawdden i Phylib ap Rhys ap Phylib Fychan o Genarth.

*Golwg Duw ar dylodion*
Rhestrir y llinell hon yn MFGLl 2398 ac MCF fel y'i ceir yn Card 3.4 [= RWM 5], 263. Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 262–3 (LXXVI), ond dryll ydyw o'r awdl a adwaenir fel 'Englynion y Misoedd'.[68] Yn ôl K.H. Jackson, fe'i priodolir yn y llawysgrifau i Aneirin, Myrddin, Mab Cloch neu Fab Claf ap Llywarch a Sypyn Cyfeiliog,[69] ac ni chrybwylla'r priodoliad hwn i Lawdden. Ymddengys mai canol neu ail hanner y bymthegfed ganrif oedd adeg cyfansoddi'r gerdd, a chyfetyb hynny yn ddigon agos i gyfnod Llawdden. Prin, er hynny, y gellir ei phriodoli iddo ef gan fod rhai darlleniadau amheus a llinellau coll yn y testun hwn, a diau nad yw'r priodoliad ond dyfaliad arall ynghylch cerdd anhysbys ei hawduraeth.[70] Cyfetyb y testunau i EWGP 41, adran 9 (ll. 4)–42, diwedd adran 12.

*Golwg Duw ar dy weision*
Rhestrir y llinell hon yn MCF, o Card 3.4 [= RWM 5], 263, ond yr un llinell yn yr un lle yn yr un llawysgrif ydyw â *Golwg Duw ar dylodion* uchod, gyda *weision* yn wall am *dylodion*.[71]

*Gweithiwch, ac na chofiwch chwi–na'ch iachau*[72]
Cyfres o ddau englyn a geir, yn gyflawn neu gyda'r naill englyn neu'r llall yn unig,[73] mewn naw llawysgrif yn ôl MFGLl 81, 566, 4368 ac MCF. Mewn un fe'i priodolir i Fleddyn Ddu, mewn un—sy'n cynnwys yr unig fersiwn cyflawn—i Ddeio ab Ieuan Du, mewn un—a honno'n ddiweddar—i Lawdden, mewn un i Wiliam Phylib, ac mewn pump y mae'n ddienw. Y

[68] Fe'u cyhoeddwyd yn T.H. Parry-Williams, *Canu Rhydd Cynnar* (Caerdydd, 1932), 244–53 (cerdd 66); EWGP 37–42 (IX). Gw. hefyd Nicolas Jacobs, ' ''Englynion'' y Misoedd: Testun B neu Fersiwn Llanstefan 117 a Pheniarth 155', *Dwned*, vi (2000), 9–24; *id.* ' ''Englynion'' y Misoedd: Testun C neu Fersiwn Nyffryn', LlCy xxv (2002), 1–11; *id.* 'Nodiadau ar y Canu Gwirebol. I. ''Englynion' y Misoedd: Testun A neu'r Fersiwn Cyffredin', *Dwned* ix (2003), 65–80.
[69] EWGP 13–14.
[70] Cf. Llawdden, &c.: Gw 411, 'Nid oes lle i gredu mai Llawdden yw'r awdur.'
[71] Cf. *ib.* 262 (LXXVI.1) *weision*.
[72] GDID 52 (cerdd 24) (fersiwn cyflawn); GBDd cerdd 9 (yr ail bennill).
[73] Dechreua'r ail englyn â'r ll. *Cwning can nwsing, cywion isel—cainc, l.c.*

mae'r dystiolaeth yn gryfaf o blaid Deio ab Ieuan Du[74] ac yn wannaf o blaid Llawdden.[75] Yn GDID 52 (cerdd 24) fe'i derbyniwyd yn waith Deio ab Ieuan Du ac yn GBDd cerdd 9 yn waith Bleddyn Ddu.

*Gwilym lwydlym, ail Idloes* (cerdd 31)
Rhestrir y llinell hon yn MCF fel y digwydd yn Pen 196, 63. Fodd bynnag, nid dechrau cerdd ydyw ond llinell gyntaf cwpled ar ffurf dyfyniad sy'n cyfateb i gerdd 31.19–20 isod.

*Gŵn glas, oll yn las, a'r lliw'n lân—ysgawn*
Ceir yr englyn hwn mewn un llawysgrif yn ôl MFGLl 2396 ac MCF a'i briodoli i Lawdden. Digwydd yn BL Add 15003, 71ʳ, sydd yn llaw Iolo Morganwg, fel ateb i englyn i ddillad gŵr y dywedir i Ddafydd ab Edmwnd ei ganu yn Eisteddfod Caerfyrddin ac a oedd cystal fel na cheisiodd yr un o'r beirdd eraill gystadlu ar yr un pwnc.[76] Y mae'n amlwg, felly, fod Iolo Morganwg wedi ffugio'r englyn hwn er mwyn priodoli buddugoliaeth ddychmygol i Lawdden o'r de dros Ddafydd ab Edmwnd o'r gogledd.

*Gwn gur er gwen ei goroen* (cerdd 3)
Ceir y cywydd hwn mewn chwe llawysgrif, un ohonynt yn cynnwys dau destun o'r gerdd. Yn LlGC 3056D [= Mos 160], 267, fe'i priodolir mewn olnod i Lywelyn ap Gutyn, ond dengys olion rhifiant blaenorol y llawysgrif fod dwy ddalen ar goll rhwng ffolios 137ᵛ (= td. 266) a 140ʳ (= td. 267) ac ni chyfetyb y testun i gerdd Llawdden ond hyd waelod td. 266, a rhan ddiweddarach o gerdd Llywelyn ap Gutyn hyd ei diwedd a geir ar d. 267.[77]

*Gwyn ei fyd i gyd a fo 'n ei geudod* (cerdd 1)
Rhestrir y llinell hon yn MFGLl 2399 ac MCF, o Llst 135, 91, ond dryll ydyw sy'n cyfateb i gerdd 1.57–60 isod.

*Heaf glod, hy wyf a glas*[78]
Ceir y cywydd hwn mewn 17 llawysgrif yn ôl MFGLl 1259, 2399 ac MCF, ond yn un ohonynt ceir dau destun ohono.[79] Mewn 15 testun fe'i priodolir i Wilym ab Ieuan Hen, mewn dau i Lawdden neu Wilym ab Ieuan Hen, ac mewn un (cwpled yn unig[80]) y mae'n ddienw. Gwelir bod tystiolaeth y llawysgrifau yn pwyso'n gryf o blaid Gwilym ab Ieuan Hen.

74 LlGC 1238B, 107. Dyma'r testun a ddefnyddir yn GDID 52 (cerdd 24).
75 J 88 [= RWM 18], 69.
76 Gw. G.J. Williams, 'Eisteddfod Caerfyrddin', *Y Llenor*, v (1926), 99, a sylwadau rhagarweiniol cerdd 34 isod.
77 Ni nodir y bwlch hwn yn RWM i, 224.
78 GDID 93–4 (XII).
79 Llst 133 rhifau 458, 669.
80 Pen 221, 169.

*Hywel winfaeth hael iawnfudd*[81]

Ceir y cywydd hwn mewn 11 llawysgrif yn ôl MFGLl 71, 1764, 2399 ac MCF. Fe'i priodolir mewn chwech i Lawdden, mewn dau i Ieuan Deulwyn, mewn un i Fedo Phylib Bach, mewn un i Lawdden ac i Fedo Phylib, ac mewn un y mae'n ddienw gan fod y testun yn anghyflawn. Fe'i hystyriwyd yn waith Ieuan Deulwyn gan Ifor Williams, er mai dau destun yn unig o'r gerdd a oedd yn hysbys iddo ef. Cywydd ydyw i ofyn bytheiaid gan Hywel ap Llywelyn Fychan o Geredigion dros Domas Mathau o Forgannwg. Canodd Llawdden gywydd i ofyn ychen gan Ddafydd Mathau o Landaf (cerdd 27), ac os un o feibion Dafydd Mathau oedd Tomas[82] ni fyddai'n syndod gweld Llawdden yn mynd ar ofyn aelod arall o'r un tylwyth (er nad oes un o'i gerddi dilys yn dangos iddo ganu i noddwr yng Ngheredigion). Fodd bynnag, er nad yw cerddi Ieuan Deulwyn yn cynnwys Morgannwg o fewn ei gylch clera, yr oedd y cylch hwnnw yn eang iawn[83] ac nid oes dim rheswm pam na allasai fod wedi teithio yno o Gydweli, ei fro, i gyflawni cais ar ran Tomas Mathau. Dengys cymharu'r testunau mai'r ddau a briodola'r gerdd i Ieuan Deulwyn sy'n rhoi'r darlleniadau gorau[84] ac sydd agosaf o'r herwydd at y gerdd wreiddiol. Y mae'r rhai sy'n ei rhoi i Lawdden,[85] ar y llaw arall, er eu bod yn fwy niferus, yn perthyn i gylch sy'n tarddu o gynsail nad oedd mor agos at ffurf wreiddiol y gerdd. Diogelach, felly, yw cymryd mai Ieuan Deulwyn yw gwir awdur y gerdd hon. Gellir ychwanegu y ceir ynddi hefyd rai cyffyrddiadau o hiwmor ysmala nad ydynt yn nodweddiadol o Lawdden.

*Mae dyn a wisg amdani*[86]

Ceir y cywydd hwn mewn 13 llawysgrif yn ôl MFGLl 200, 263, 1775, 2399 ac MCF.[87] Fe'i priodolir mewn un llawysgrif i Ddafydd ab Edmwnd, mewn wyth i Ddafydd ap Gwilym, mewn un i Ieuan Dyfi, mewn dwy i Lawdden, ac mewn un llawysgrif y mae'n ddienw. Gellir gwrthod y priodoliad i Ddafydd ap Gwilym: fel y dywed Thomas Parry, 'dengys ei grefft ar

[81] ID 81–2 (XLIII). Fe'i golygwyd hefyd yn Llawdden, &c.: Gw 112–15 (XXVII).

[82] Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gwaithfoed' 5. Yr oedd gan Ddafydd Mathau ddau fab o'r enw Tomas, *l.c.*

[83] Dengys y cerddi a gyhoeddwyd yn ID iddo ganu trwy ogledd-orllewin a de-orllewin Cymru, Maesyfed, Gwent, a Bro Gŵyr.

[84] Sef llsgrau. Llst 53, 427, a Pen 96, 627. Dyma'r testunau a ddefnyddiwyd yn ID 81–2 (XLIII). Mwy boddhaol hefyd yw trefn eu llau. Pwynt arall a allai fod yn berthnasol yw fod yr amrywiadau testunol yn fwy niferus a sylweddol nag yn achos cerddi Llawdden yn gyffredinol, sy'n awgrymu mwy o ddylanwad trosglwyddiad llafar.

[85] Sef llsgrau. BL Add 14970, 59$^{v}$; BL Add 31090, 169$^{r}$; CM 129, 156; LlGC 3056D [= Mos 160], 250; LlGC 3057D [= Mos 161], 435; LlGC 19905B [= J. Gwenogvryn Evans II 2], 134$^{r}$; Llst 123, 297 (fe'i priodolir yno hefyd, td. 299, mewn llaw wahanol, i *Bedo phylip*).

[86] DE 28–9 (XVI). Fe'i golygwyd hefyd yn Llawdden, &c.: Gw 105–7 (XXXIV).

[87] Sylwer bod un o'r testunau yn llsgr. Card 1.53 [= RWM 52], 81 (lle y priodolir y gerdd i Ddafydd ap Gwilym), oherwydd nis nodir yn RWM ii, 256.

unwaith mai i'r 15g. y mae'n perthyn'.[88] Ni chafwyd dim lle i anghydweld â barn Thomas Roberts mai gwaith Dafydd ab Edmwnd yw'r cywydd hwn, a bernir ei bod yn gydnaws o ran ysbryd â'i ganu serch ef.

*Mae un iarlles mewn eurllin*[89]
Ceir y cywydd hwn mewn 19 llawysgrif yn ôl MFGLl 201, 264, 2399, 2425 ac MCF. Mewn naw fe'i priodolir i Ddafydd ab Edmwnd, mewn chwech i Ddafydd ap Gwilym, mewn dwy i Ddafydd ap Gwilym neu Ddafydd ab Edmwnd neu Lawdden, mewn un i Ddafydd ab Edmwnd neu Ddafydd ap Gwilym, ac mewn un i Ddafydd ab Edmwnd neu Lywelyn ab Edmwnd. Gwelir mai ychydig yw'r dystiolaeth o blaid Llawdden. Yn ôl Thomas Parry, 'Y mae'n ddigon clir wrth yr arddull mai cynnyrch y 15g. ydyw',[90] a thebyg yw'r gerdd yn hyn o beth i ganu Dafydd ab Edmwnd. Yn DE 41–3 (XXIII) fe'i derbynnir yn waith Dafydd ab Edmwnd.

*Morgan synnwyr anianol* (cerdd 15)
Ceir y cywydd hwn mewn 13 llawysgrif, tair ohonynt yn cynnwys dau destun yr un o'r gerdd. Ym mhob un fe'i priodolir i Lawdden ac eithrio yn Card 2.617 [= Hafod 3] (*c.* 1620–5). Yn y llawysgrif honno fe'i priodolir i Ieuan Deulwyn, ac fel un o gerddi'r bardd hwn y cyhoeddodd Ifor Williams y testun.[91] Fodd bynnag, yn dilyn y priodoliad i Ieuan Deulwyn ceir gan law arall y geiriau *medd rai llowdden*, ac yna gan drydedd law *pwy bynnag da*. Y mae'r gerdd yn gwbl gydnaws â cherddi eraill Llawdden; sylwer hefyd ar y gyfatebiaeth eiriol rhwng 15.43–4 a 13.31–2 (gw. nodyn). Ymddengys na wyddai Ifor Williams am destunau eraill o'r gerdd hon, ac fe'i rhoddir yma yn hyderus i Lawdden.

*O châr dyn, fel chwarae dis*[92]
Ceir y cywydd hwn mewn 10 llawysgrif yn ôl MFGLl 60, 2400 ac MCF. Mewn naw fe'i priodolir i Fedo Brwynllys ac mewn un i Lawdden: yn CSTB 44 (XXXIV) fe'i derbynnir yn waith Bedo Brwynllys.

*Pa wrol iôn, pur ei wledd*[93]
Ceir y cywydd hwn mewn 17 llawysgrif yn ôl MFGLl 2400, 2448, 2708 ac MCF. Dau destun, fodd bynnag, nid un sydd yn CM 11 (tt. 52 a 428), a cheir testun arall yn LlGC 13127A (td. 204). Mewn 15 testun priodolir y gerdd i Lawdden, mewn dau i Lywelyn ab y Moel, ac mewn dau i Owain ap

88 GDG clxxx.
89 BDG 64–5 (XXXV); DE 41–3 (XXIII).
90 GDG clxxx.
91 ID 70–2 (XXXVIII).
92 CSTB 44 (XXXIV). Fe'i golygwyd hefyd yn Llawdden, &c.: Gw 121–3 (XL).
93 IGE 200–2 (LXXII); IGE$^2$ 201–2 (LXVII). Fe'i golygwyd hefyd yn Llawdden, &c.: Gw 115–19 (XXXVIII).

Llywelyn ab y Moel. Yn amseryddol, gellid bod wedi cyfansoddi'r gerdd gan Lawdden yn gynnar yn ei fywyd, oherwydd, fel y sylwodd Ifor Williams, dengys tystiolaeth fewnol y gerdd mai 1414–21 oedd adeg ei chyfansoddi.[94] Fodd bynnag, cyfeiria'r awdur at wrthrych ei gerdd, Maredudd ab Ifan o Ystum Cegid, fel *Nen f' 'ynys*,[95] sef arglwydd ei ardal, a chan y cysylltir ei awdurdod ag ... *Eifionydd. / ... / ... Llŷn ac Arfon. / ... / Holl Benllyn hyd Ferwyn faith*,[96] y mae'n dilyn mai rhywun o'r cyrion hynny oedd y bardd: yng nghanolbarth Cymru yr oedd gwreiddiau Llawdden (gw. td. 5). Trawiadol wahanol hefyd i arddull Llawdden yw arddull ac ysbryd y cywydd hwn gyda'i frawddegau hwy a'i symudiad arafach, myfyrgar, a haws fyddai credu mai cynnyrch gŵr â blynyddoedd ei ieuenctid yn bell o'i ôl ydyw.[97] Yn IGE 200–2 (LXXII) fe'i derbynnir yn waith Llywelyn ab y Moel ac yn IGE$^2$ 200–2 (LXVII), yn betrus, yn waith Moel y Pantri.

*Peunydd yr wyf yn poeni*[98]
Cywydd serch y dywedir amdano yn DGA 174, 'of thirty-six copies, seven attribute the poem to Ieuan Rhaeadr, seven to Llawdden and two to Gruffudd ap Ieuan ap Llywelyn Fychan, all 15th-century poets. The rest attribute it to Dafydd ap Gwilym, but [Thomas] Parry thinks it is more likely to date from the 15th century.' Disgrifia Parry arddull y gerdd fel un 'seml a chypledol'.[99] Bernir yma ei bod yn wahanol i arddull arferol Llawdden, ac yn sicr i arddull ei gerddi serch (cerdd 3, 4, 5).

*Tomas, Andras ar windref*[100]
Ceir y cywydd hwn mewn 17 llawysgrif yn ôl MFGLl 568, 2400 ac MCF. Mewn 16 fe'i priodolir i Ddeio ab Ieuan Du ac mewn un i Lawdden, ond yn yr olaf newidiwyd y priodoliad gan law arall a rhoi'r gerdd i Ddeio ab Ieuan Du.[101] Gan mai cywydd i ofyn am elyrch ydyw a bod Llawdden wedi canu cywydd diolch am elyrch (cerdd 26), hawdd deall sut y gallai rhywun fod wedi ei gambriodoli i Lawdden. Yn GDID 23–5 (cerdd 10) fe'i derbynnir yn waith Deio ab Ieuan Du.

[94] IGE$^2$ lviii.
[95] *Ib.* 200 (ll. 16).
[96] *Ib.* 201 (llau. 6–10).
[97] Cywirer, gan hynny, y farn a fynegwyd yn GSCyf 88.
[98] BDG 173–4 (LXXXIX); *Detholion o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1927), 7–8 (IV); DGG$^2$ 7–8 (IV); *Barddoniaeth yr Uchelwyr: detholiad*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1957), 75–6 (cerdd 31); DGA 37 (cerdd 14). Fe'i golygwyd hefyd yn Llawdden, &c.: Gw 119–21 (XXXIX).
[99] GDG clxxii.
[100] GDID 23–5 (cerdd 10).
[101] LlGC 3050D [= Mos 147], 181.

*Y ferch â'r ael winau fain*[102]
Ceir y cywydd hwn mewn 20 llawysgrif yn ôl MFGLl 55, 63, 284, 493, 1776, 2401, 3051 ac MCF. Mewn un ohonynt ceir dau destun.[103] Mewn saith testun fe'i priodolir i Ieuan Dyfi, mewn pump i Fedo Aeddren, mewn dau i Fedo Brwynllys, mewn dau i Syr Dafydd Owain, mewn dau i Robert Leiaf (Robert ap Gruffudd Leiaf), mewn un i Fedo Aeddren neu Ieuan Dyfi neu Robert Leiaf, mewn un i Ddafydd ap Gwilym neu Lawdden neu Robert Leiaf, ac mewn un y mae'n ddienw. Bychan yw'r dystiolaeth o blaid Llawdden. Yn HCLl 139–40 (LXIV) fe'i derbynnir yn waith Huw Cae Llwyd.

*Y ferch a gerais yn faith*[104]
Ceir y cywydd hwn mewn 19 llawysgrif yn ôl MFGLl 55, 63, 283, 569, 995, 2401 ac MCF. Mewn wyth fe'i priodolir i Fedo Aeddren, mewn pedair i Fedo Brwynllys, mewn dwy i Ddeio ab Ieuan Du, mewn dwy i Fedo Brwynllys neu Ruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan, mewn un i Ddeio ab Ieuan Du neu Ddafydd ap Gwilym, mewn un i Lawdden, ac mewn un y mae'n ddienw. Nid yw'r dystiolaeth hon o blaid rhoi'r gerdd i Lawdden. Yn GDID 60–1 (Atodiad A4) fe'i ceir heb briodoliad.

*Y fun addfwyn foneddfawr*[105]
Ceir y cywydd hwn mewn 16 llawysgrif yn ôl MFGLl 1260, 1827, 2401 ac MCF. Ychwaneger testun llawysgrif BL Add 4866, 213. Mewn wyth llawysgrif fe'i priodolir i Robin Ddu o Fôn, mewn pedair i Wilym ab Ieuan Hen (a thair o'r rheini yn llaw Llywelyn Siôn), mewn dwy i Lawdden, mewn un i Ieuan Tew Brydydd, mewn un i Lewys Morgannwg, ac mewn un i Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys (Hywel Dafi). Anodd, ar sail y dystiolaeth hon, fyddai hawlio'r gerdd i Lawdden.

*Y gleisiad difrad yw e—i'w ddichwain*
Rhestrir y llinell hon, sy'n ddechrau cyfres o dri englyn, yn MFGLl 2401 ac MCF o lawysgrif BL Add 15003, 58ʳ. Ychwaneger testunau llawysgrifau LlGC 13118B, 80, LlGC 13125B, 269, LlGC 13131A, 406. Y mae'r pedair llawysgrif hyn yn llaw Iolo Morganwg, a diau mai ei greadigaeth ef yw'r gerdd. Fel y dywed G.J. Williams, '... ni ellir ameu nad y "gleisiad blaen uriad blin" yn y cywydd [sef 29.39 isod] a barodd iddo lunio'r englynion hwylus y soniasom amdanynt, gan glymu'r ffigur wrth yr hen air mai teg yw edrych tuag adref ar ôl treiglo pob tref'.[106]

102 HCLl 139–40 (LXIV).
103 LlGC 21582E, 3ʳ, 26ʳ.
104 GDID 60–1 (Atodiad A4). Fe'i golygwyd hefyd yn Llawdden, &c.: Gw 123–5 (XLI).
105 GDID 121–2 (Atodiad B1). Fe'i golygwyd hefyd yn Llawdden, &c.: Gw 129–31 (XLIII).
106 G.J. Williams, *op.cit.* 88, 91. Ceir copi o'r 'hen air' hefyd yn LlGC 10745B, 38. Cyhoeddwyd englyn cyntaf y gyfres yn OBWV 269 (cerdd 131) fel gwaith Llawdden.

*Y lleian, hardd fu llun hon*[107]
Ceir y cywydd hwn mewn 36 llawysgrif yn ôl MFGLl 1905 ac MCF. Mewn 33 fe'i priodolir i Iorwerth Fynglwyd, mewn un i Lawdden, ac mewn dwy y mae'n ddienw. Tenau iawn, felly, yw'r dystiolaeth o blaid Llawdden, ac fel brodor o Saint-y-brid ym Mro Morgannwg byddai gan Iorwerth Fynglwyd, yn naturiol, fwy o reswm na'r cyffredin dros ganu i Ffraid, gwrthrych y gerdd. Yn GIF 94–5 (cerdd 43) fe'i derbynnir yn waith Iorwerth Fynglwyd.

[107] GIF 94–5 (cerdd 43).

*1*

## *Y Grog yng Nghaer*

Y Grog odidog y doded—Dy lun
Rhwng dau lanw i'th weled
I dre Gaer i droi gwared
Ar y llofft a'th freichiau ar lled.

Llydan fu'r aur glân a'r g'leuni—i'th gylch,
Doeth o gylchoedd gweilgi
Llwyth o goed teg llei'th gad ti,
Llun haul mewn llanw a heli.

Pum gweli o heli, hoelion—a'u golchyn'
O gylchoedd Iwerddon;
Ni olchai'r môr Dy goron
Na'th draed na'th friwaed na'th fron.

Pen Dy fron yn don, nid oes—lewenydd
Heb oleuni'r teircroes,
A'th enw mewn llyfr a'th einioes
Oedd Grist ar y drydedd groes.

Croes wen lychanwen, gwelwch ynnyn—cwyr
Uwch y côr llei'r ydym,
Croes a gair dan y crys gwyn,
Croes Duw ddelw Crist o Ddulyn.

Dy lun, ein pen Cun a'n cynnydd—golau,
Mi a'i gwelaf beunydd;
Dwys ym mhob eglwys y bydd
Dioddefaint Duw Ddofydd.

Duw Tad a Mab Rhad, y mae pryf,—Satan
(Nis gosotych wrthyf!);
Dy wirgrog, mab Duw eurgryf,
A'th Ysbryd hefyd a'm tyf.

Iesu, mae'n tyfu mewn y tafod
Dy eiriau moliant drwy rym aelod;
Tyfiant gwŷdd a fydd, am Dy fod—yn rhydd,
Tir llewenydd y tair lleianod.

Y mae'r awenydd fal môr ynod,
Ni thry awenydd eithr ohonod;
Mae'r awen, Duw Rhên, mor hynod—ynof
Mal cof heb angof, medd Pawl, yngod.

Seiliaist, dewisaist, da fu Dy osod,
Â'th air y peraist fal llythr parod,
Sul ar dasg a Phasg a physgod—i wŷr,
A da amhybyr yw dim hebod.

Saethau heb ochel yw'r Saith Bechod
Yn saethu arnom y saith ddiwrnod;
Saith blaned a red o rod—ffurfafen,
Saith seren wisgwen yw Dy wasgod.

Gwelir Dy randir, gwelir y Drindod,
A gwely i Fair yn glaf erod;
Gwledd i frenhinedd yn hynod—a ddaw
I ymwrandaw am ei morwyndod.

Llun ych ac asen, llyna eich gosod,
Llun preseb Sioseb y sy isod,
Llewenydd Dofydd yn dyfod—i'r byd,
Lle hyfryd i gyd i'r holl giwdod.

At Addaf ydd af yn fyr ddefod,
O Addaf yr henym, oedd ŵr hynod;
Hynaf fu Addaf am fod—yn bennaf
A rhifo i Addaf bob rhyfeddod.

Gwyn ei fyd i gyd a rôi gardod
A'i galon i wystl mewn glân ystod;
Gwyn ei fyd hefyd, tafod—diweniaith,
A geidw ei obaith a'i gydwybod.

Duw fu 'n y dechrau, pen cleddau clod,
Duw fo 'n y diwedd, da fu'n dyfod;
Duw fry, dwg ymy Dy gymod—er neb
Yn fy nghywirdeb neu 'n fy nghardod.

Meddyliaf fy nghyffes, nesnes mae’r nod,
Maddeuant i’m pen am a ddywod;
Mynnwn i’r corff hwn, rhag ffonnod—Iddew,
Na bo heb olew ar bob aelod.

Mi a wnaf achwyn am y nef uchod,
Ac am gysegr landeg i’m gosod,
Am enaid nawnaid yn unnod—ag Ef
I nofio adref i’r wen fedrod.

Mi a wnaf yma am y nef amod;
Oni cheir yna yn iach i’r annod:
Mi a af yr haf llei mae’r rhòd—bennaf;
Nychaf o’r llei ’dd af garllaw ddyfod.

Dyfod yn barod heb oriog—weddi
At wiwDduw trugarog;
Dydd Brawd, rhag diwedd bradog
Dy alw yw grym delw’r Grog.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14973, $30^r$ B—BL Add 31090, $185^v$ C—Card 4.10 [= RWM 84], 122 D—Llst 52, 24 E—Llst 133, $369^r$ [= rhif 1161] $F^1$—Llst 135, 61 $F^2$—Llst 135, 91

Ymranna’r rhain yn ddau ddosbarth: A–E ac $F^1F^2$ gydag $F^2$ yn ddryll o destun tebyg i $F^1$.[1] Tebyg iawn i’w gilydd yw A–E ond pur wahanol yw $F^1$ ac ni rydd gystal darlleniadau gan amlaf. Barnwyd mai yn $DF^1$ y ceir y darlleniadau gorau, a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
1 *D* o doded. 3 $F^1$ yn Re gaer vn roi. 4 $F^1$ or llofft; $F^1$ fryche. 5 $F^1$ ywr; *D* ai. 6 $F^1$ yn amgylchon y wylgi. 8 $F^1$ yn llyn hael yn llawn heli. 9 $F^1$ pym wheli heli; $F^1$ golchay. 10 $F^1$ yn amgylchen. 12 $F^1$ waed. 13 $F^1$ llywenydd. 14 $F^1$ kyn goleyni y tayr kroes. 16 $F^1$ lle by grist; $DF^1$ drydydd. 17 $F^1$ wen ywch anwen. 18 $F^1$ ywchakor ymredyn. 19 $F^1$ o gaer. 20 $F^1$ dyw ay ddelw. 21 $F^1$ ym hen kyn er. 22 $F^1$ mine gwelaf. 24 $F^1$ dy ddioddefaint di dyw. 27 *D* evrgryff. 29 $F^1$ dyw iessu maen yn tyfy o fywn tafod. 30 $F^1$ o eyre a moliant y dyr ym aylod. 31 $F^1$ gwyd y. 32 $F^1$ ti yw llywenydd; $F^1$ llyanod. 34 $F^1$ thryr. 35 $F^1$ may; $F^1$ hen; $F^1$ ynod. 36 $F^1$ ac angof gan bawb. *Ar ôl ll. 40 yn D ceir* Y tra-chwant: A wna r tra-choll. 41 $F^1$ y sayth heb ochell or sayth

[1] Cyfetyb i lau. 57–60 o’r testun golygedig.

peched. 42 $F^1$ syn syrthio arnom bob sayth niwarnod. 43 $F^1$ y Red o Rod y ffyrfadden. 44 $F^1$ gwisken sy ny gogwsgod. 45 $F^1$ yd randir a gwelyr drindod. 46 $F^1$ gwely fayr. 47 $F^1$ gwled gan frenhinedd hynod y. 48 $F^1$ ym orandaw am y moryndod. 49 $F^1$ assen fel llynach gossod. 50 $F^1$ y sydd. 51 $F^1$ dofyd vn. 52 *D* hyffryd. 53 $F^1$ athaf; $F^1$ hyn oedd ddefod. 54 $F^1$ henym m oedd. 55 $F^1$ penaf fy addaf am y vod yn hena. 57 $F^1$ y gyd y fo ny geydod. 58 $F^1$ yn ystwyth; *D* wstvl. 59 $F^1$ hefyd y tafod. 61 $F^1$ fo yn ddechre ym ben. 62 $F^1$ dyw yfo yn diwedd ni da fo yn diod; *D* Dvw a vo. 63 *D*$F^1$ Jnni; $F^1$ yr nef. 64 $F^1$ am ynghywirdeb i neb fyynghardod. 65 $F^1$ nes nes yni r nod. 66 $F^1$ meddeyant. 67 $F^1$ mynwn r korff. 68 $F^1$ bon. 69 $F^1$ myfi naf; $F^1$ am nef. 70 $F^1$ gyssec llan wr ym. 71 $F^1$ henaid; $F^1$ ynaid r nef. 72 $F^1$ adre o. 73 $F^1$ myfi naf; $F^1$ am nef. 74 *D*$F^1$ yna; $F^1$ or; *D*$F^1$ amod. 75 $F^1$ myfi af o chaf lle mayr Rod yr haf. 76 *D* Ni chaf, $F^1$ lle ny chaf; $F^1$ Rac llaw.

*Teitl / rhaglith*
*D* Owdwl Jr Grog o Gaer llion o waith Llowdden: hen brydydd.

*Priodoliad*
*D* Llowdden, $F^1$ llawddyn o velenydd ay k.

*Trefn y llinellau*
*D* 1–64, [65–8], 69–80.
$F^1$ 1–24, [25–8], 29–36, [37–40], 45–8, 41–4, 49–56, 61–76, 57–60, [77–80].

## *2*
## *I Fair*

Calennig yw cael einioes,
Caru merch y’m ceir i’m oes.
Nid cariad, anwastad wedd,
Ar ryw un o’r rhianedd;
Ni charaf, newidiaf nod,
Ni soniaf am fursennod;
Yng nghôr Duw mae ’nghariad i,
Mwya’ budd, a mab iddi:
Mair chwannog, merch i Anna,
I enaid dyn newid da.
Morwyn Siohasym uriad,
Mair fyw, mamaeth yw i’w thad;
A’i mab yn arglwydd i mi,
Unfryd oedd, yn frawd iddi.

Annerch hon a wnair â chwech
O’r dabl o eiriau dibech:
*Ave Maria* ofeg,
Ac o rad Duw geiriau teg;
*Gratia plena* bob planed,
Hyn yw gras i hon o gred.
Pwy a’n try rhag y poen trwm?
Os tycia *Dom’nus tecum*.
Os hyn a’i beichioges hi,
Arwyddion teg yw’r eiddi.

Yn fore dwedaf fawrair,
Ac yn f’oes blygain i Fair.
I Dduw Bab mae gweddi bêr,
*Hora prima* o’r preimer.
Meddyliaid am wŷdd elawr
Ydd wyf yn y drydedd awr.
Awr chweched, er däed dyn,
Meddylied am ddau elyn.

Awr nawn oedd dda yn unawr,
Pe da’r un o’r pedair awr:

Awr nawn, o'i wirion eni,
Duw a roes ar y groes gri.
Iesu, marw fu o'i fodd,
Ar y pren, Ŵr, a'n prynodd.

O chedwais fy mhechodau
Heb gyffes o'r fynwes fau,
Wrth f'arglwyddes cyffesaf.
Duw gwyn, pa benyd a gaf?
I'w ddwyn, o bai ffydd ynof,
Yn ufydd fal Dafydd y dof.
Ni chiliaf, myn cloch Eilfyw,
Dan fedd pei'm cleddid yn fyw.

Mi a luniaf, mau lawnwaith,
Gywyddau neu salmau saith,
A naw antem o newydd,
A phob gair i Fair a fydd.
Gosber pan fynner ei fod,
Llaswyr rhag y lle isod.

Y carchar gynt, tremynt trwm,
Petrus, oedd *limbo patrum*.
Gofyn Mab Duw a'i gyfarch
Weithian rhag purdan yw'n parch.
Gwyn Ei fyd, cawn nef o'i ôl,
A gâi byth le gobeithiol.

Er Duw Iesu, aur dwysog,
Ac er grym geiriau y Grog,
Clyw fy modd am y clwyf mau,
Mair wyry, am ofer eiriau;
Dwg fi, Duw, er dy deg fam,
Syberw, i fynwes Abram.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14866 [= RWM 29], $35^{r}$ B—BL Add 31090, $123^{r}$ C—Card 3.37 [= RWM 20], 81 D—Card 5.10i [= RWM 48], 233 E—CM 242, 110 F—LlGC 673D, 65 G—LlGC 695E, 28 H—LlGC 6499B, 126 I—LlGC 8497B, $181^{r}$ J—Llst 124, 191 K—Llst 167, 269 L—Pen 73, 11 M—Pen 112, 676 N—Pen 195, $61^{r}$ O—Pen 312i, 6

Y mae'r rhain yn eithaf tebyg i'w gilydd a gellir eu rhannu'n ddau brif ddosbarth: ABD–HKLMN a CIJO, gyda'r cyntaf yn ymrannu'n bellach yn AB, D–HKLN, M.[1] Barnwyd mai yn nhestunau ACG–O y ceir y darlleniadau gorau, a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Y mae rhai darlleniadau yn N sydd yn aneglur neu'n anghyflawn oherwydd traul; ni nodwyd y rhain oni bai bod achos i gredu y byddai darlleniad yn wahanol i ddarlleniad y testun golygyddol pe bai'n gyflawn. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*

4 *HL* ir rhiw, *O* ar yr; (*M*) yr; *AGK* o. 5 *K* nodd. 6 *CJ* soniai; *K* fvrsenodd. 7 *O* ngoor; *N* yngharidi. 8 *J* bydd. 9 *CIJ* mair yw chynyrch; *O* çanog. 10 *C* tyn a wnaud ta, *J* dyn a wnaid da; *K* newidd. 11 *A* siosaysym, *C* siohaswn, *G* Sohachym, *HL* Siohadssym, *I* Jachim, *J* Siohsem, *K* siosaesym, *M* Siohaysym, *N* Joakum, *O* Siohaetsym; *AGHKLM* eüraid, *CJ* evriad, *N* evrad, *M* euraid (eurad), *O* euraid (*cywiriad:* eurad *gan yr un llaw*). 12 *JK* yw; *CGJN* mameth, *K* mamet, *M* morwyn (mamaeth); *A* yw i, *HJL* yw, *M* yụ i (*cywiriad:* yụ iụ *gan yr un llaw*), *N* i; *AGHKLM* thaid. 13 *CHKLN* ni. 15 *HL* Merch honn; *CIJ* a merch hon a wnaeth ar; *O* wna yr çweç. 16 *G* o, *HL* Ar; *CGIJKNO* dabl eiriau. 17 *A* o roeg (*cywiriad:* ofeg), *GHKLN* o roeg, *M* o Roec (ofec). 18 *C* ay rodd dvw o radd deg, *I* a yrrodd dûw o radd deg, *J* a rodd dvw o radd deg; *O* a garud duụ. 19 *CHJKMNO* grasia; *O* pob. 20 *CIJNO* yw'r; *HL* grâs honn; *CJ* hwn a. 21 *CIJ* pwy yw a'n try o'n poen, *O* Pụy yụ an try ṛag poen; *G* am; *G* i. 22 *GKNO* tykie; *K* decwm. 24 *CIJ* weddi. 25 *A* fore (*cywiriad:* farw), (*M*) farụ; *C* farw i doedai, *GIJKN* varw y doedaf, *HL* fore i dweda; *A* dweda (*cywiriad:* duga), (*M*) dyga. 26 *CGIJK* yn fyw, (*M*) yn fyụ); *AGHKL* o. 27 *K* dvw; *A* bab (*cywiriad:* fab), *CIJ* vab, (*M*) fab; *K* mae'r weddi, *L* mae y weddi, *O* mau weḍi; *CIJ* mae'r weddi verr; (*AM*) ferr. 28 *HKLN* wra; *CJ* yn periamav or, *I* yn y preimiau or, *O* [*hora*] preima or; *O* perumer. 29 *ACHIJL–O* meddylied, *K* meddyliad; *CIJO* wedd. 30 *CIJO* yn ddwys; *G* drydydd. 31 *A* nawed (*cywiriad:* chweched), *HL* naw, *K* nawn, *N* y nawn; *A* daed dyn (*cywiriad:* daed fo'r dyn), *G* dayed fo yr dyn, *HIKL–O* daed vo'r dyn. 32 *AG–N* meddylied; *CJ* am y ddav; *O* dau. 33 *J* awn, *L* naw; *A* oedd dda yn unawr (*cywiriad:* oedd orau'n unawr), *CIJO* oedd oraû vnawr, *M* orau un aụr (orau n un aụr). 34 *GK* doe; *CJ* peder. 35 *G* Ar awr; *A* nawn wirion (*cywiriad:* nawn oi wiriaw), *CJ* awn oi wirion, *G* naw wirion, *HL* naw wiriaw, *KN* nawn wirion, *M* naụn wiriaụ (naụn oi wirion), *O* naụn oi wiriaụ; *A* e ni (*cywiriad:* i ni), *M* i ni (e ni), *O* i ni. 36 *L* ar groes. 37 *I* marw vn. 38 *A* y (*cywiriad:* un), *GKM* un, *O* yr un. 39 *GK* chedwis. 40 *K* vaw. 41 *K* varglwyddes i keffesaf. 42 *C* nar penyd, *IJO* ner penyd, *GHKLN* mawr benyd. 43 *G* dwyn, *J* ddwy; *A* i mae (*cywiriad:* o bai),

[1] Sylwer, serch hynny, fod perthynas eiriol agos iawn rhwng A ac M er bod trefn llinellau'r ddau yn wahanol.

*M* i mae (o bai); *CJ* yno. 44 *GHKLN* [Yn]; *A* fal Dafydd (*cywiriad:* bob dydd), *CIJ(M)O* bob dydd; *CJ* do. 45 *O* [Ni chiliaf]. 47 *CIJ* a wna yma vnwaith; *O* wna ynnau. 48 *C* gowddav. 49 *K* nav; *CIJ(M)O* acen, *N* anten; ACGHJ—O oi. 50 *N* y fydd. 52 *C* a lloswyr, *GJKN* a llaswyr; *GK* rrac lle. 53 *AM* ey, *N* [Y]. 54 *K* lwmbw patrawm, *N* lvmbw pa[ ]. 55 *O* fab. 56 *GKN* y pvrdann; *CJ* rag y pvrdan; *N* iw. 57 *N* fud; *CJ* fyd ar hyd yrhol, *I* vyd er hyd yr hol, (*M*) fyd er hyd y ṛol; (*M*) kaid, *O* caid. 59 *C* dwsog. 60 *O* geiriau'r grog. 61 *CI* modd mae clwyf; *N* am clwy; *GHKL* klwy; *J* modd mae clwyf im av, *O* moḍ mae clụy im au. 62 *CJO* fair; *A* wyrf (*cywiriad:* wyryf), *CHIJL* wyrf, *GK* wyryf, *M* wyrf (wyruf), *N* wryf; (*AM*) oer, *N* hofer. 63 *CIJO* a dwg; *ACG–JL–O* fi er, *K* vy er. 64 *A* duw syberw; *G* svber, *N* Syber wy; *K* y; *G* Abraham.

*Teitl*
*A* i fair, *CHJL* kowydd i Vair, *G* Cowydd i ddvw (*mewn llaw wahanol*), *K* Kowid i fair, *M* kowyḍ moliant i fair forwyn.

*Priodoliad*
*A* Llowdden ai cant gwr o fachynllaith ynghyfeiliawg oedd ef, *CHJL* Llowdden ai kant, *G* Maredydd ap Rees ai kant, *I* Llowdden, *K* ni wn i pwy ai kant, *M* ḷoụḍen: a: k: gụr o faḷynḷaeṭ, *N* Dafydd ab Gwilim.

*Trefn y llinellau*
*A* 1–64 (*llau. 23–4 wedi'u hychwanegu gan law wahanol*).
*CJ* 1–8, 10, 9, 11–30, [31], 32–52, [53–4], 55–64.
*GHKLN* 1–22, [23–4], 25–64.
*I* 1–8, 10, 9, 11–32, 35–6, 33–4, 37–52, [53–4], 55–64.
*M* 1–22, 25–6, 23–4, 27–32, 35–6, 33–4, 37–64.
*O* 1–8, 10, 9, 11–32, 35–6, 33–4, 37–52, [53–4], 55–64.

*3*

## *I ferch*

Gwn gur, gwen ei goroen,
Gwiwfawr bwyll—gwae fi o’r boen!—
Rhoddi gwen, hoen ysblennydd,
Yn rhwym lle ni chaid yn rhydd.
Tra fo dwylo f’adolwyn
Yng nghaeth, nid bychan fy nghwyn
O bob tu heb garu’n gall,
Dawn oroen, i’r dyn arall.
Tost oedd, er dwyn tyst iddi,
Duw’n fach, na bawn deau fi!
Mynnwn o fod, mwyn iawn fu,
Datod y rhwym o’i deutu,
Allwydd llestair cymheiriaid,
A’i gellwng er blwng i’r blaid
Myn Dewi, i mewn dwyawr,
Bun fwyn, yn rhydd o’r boen fawr!
Tra sor, mawr yw trais hiraeth
Tra fo gwen gangen yn gaeth.

Hon ni beiddiaf ei henwi,
Aur fwyn dâl, er f’enaid i,
Na dyfod un cyfnod cain
Du’r heol y daw’r rhiain,
Nac annerch bun, harddlun hyd,
Nac anfon, mwy nog ynfyd,
Gair at ferch rhag f’amherchi
Ym mhen neb, mawr yw ’mhoen i!
Minnau ’n y dref ni lefys
Fy hun, da ei llun, fynd i’w llys;
Nych oedd ganu’n iach iddi,
Ni chymeraf arnaf i.
Cariad girad a’m goryw;
Canfod lliw’r ôd, llafur yw
Troi o’r min, unrhyw trai’r môr,
Hanner gair, hoen eiry goror.

Pwy, rhiain wych, pe rhôn, wen,
A'i gwelai, dwf gwialen,
Gwen loywfain, gwae ni lefys,
Tra blin fu, troi blaen ei fys,
Na chellwair nac ymeiriaw,
Na throead llygad na llaw,
Na gwarae â dyn gwirion
Goris allt, na gair o sôn,
Nac yfed medd, na'i gofyn,
Na'i charu, hoen gweunblu gwyn,
Na dyfod, na chael rhodio
Er mwyn bun i'r man y bo,
Fun roddiad, fwyn arwyddion,
F'un enaid, rhag tybiaid hon!

*Ffynonellau*
A—BL Add 14991, 263$^v$ B—BL Add 31090, 191$^r$ C—LlGC 2030B [= Pant 64], 20 D—LlGC 3056D [= Mos 160], 266 E—Llst 118, 222 $F^1$—Pen 251, 227 $F^2$—Pen 251, 232$^v$

Pur debyg i'w gilydd yw'r rhan fwyaf o'r rhain ond gwahaniaetha AC yn fwy. Tebyg iawn yw DE serch bod D yn anghyflawn. Barnwyd mai yn CE$F^1F^2$ y ceir y darlleniadau gorau a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
1 $F^2$ Gwenn gur; $F^2$ groen. 3 *C* yspennydd. 5 $F^2$ try. 9 $F^2$ dwyn tysladdi. 13 *CE*$F^1F^2$ allwyd; $F^2$ cymheiriad. 14 $F^1$ gollwng. 15 $F^2$ Mam; $F^1$ Dewi rhown mewn. 17 $F^1$ Trassair, $F^2$ tra sarr. 19 *C* faiddiaf, $F^2$ beidiaf. 21 $F^1$ nad. 22 $F^1$ Duw'r; *C*$F^1$ daw. 23 *C* fun; *C* bud. 24 *C* mwyn. 25 *C* vannerch i, $F^1$ fy amherchu, $F^2$ fanherchi. 26 *C* yw'n hoen i. 28 $F^2$ yw (*cywiriad:* i *gan yr un llaw*); *C* llun yw llys. 31 *C* goriad; *C* gariw. 32 *C* lowir, $F^1$ llyfyr. 33 $F^1$ Troi'r mîn. 35 *C* rhillin. 36 *C* Ai gwr ladwl gwialen; $F^1$ gwele dros. 37 *C* gwen llywr vun gwae; $F^1$ loyw fron. 38 *C* troblid vyn rroi a blaen. 39 *C* ymwiriaw. 40 *C* Na thro at llygad. 41 *C* gwaref, *E*$F^2$ gwarav. 45 *C* dyllod. 47 $F^1$ fu'n; *C* rodiad; $F^1$ fyw'n. 48 $F^1$ fu'n; $F^2$ tybiad.

*Teitl*
*C* kowydd merch y bardd yn achwyn am briodi i gariad; $F^1$ Cywydd Merch.

*Priodoliad*
*C* llawden, *E*$F^1F^2$ llawdden ai kant.

## *4*
## *I ferch*

Blin yw taith y blaned des,
Blinach caru bileines;
Os blin i'r haul ysblennydd
Ac i'r gwynt ar frig y gwŷdd,
Os blin geirw is blaen goror
A thonnau ymylau'r môr,
Ac os blin y drycinoedd,
Blinach yw, bileinach oedd.
Un fodd â'r edn anheddir
A dry nos ar y draen ir,
Mae i minnau, bûm wannach,
Ddraen cariad, ysbaddad bach.
Fy swydd, heb gam rhwydd yr haf,
Ugain Mai fu gan mwyaf
Rhodio'r dydd, rhwydau diddos,
Heb gael neb na gwely nos.
Amserol oedd ym sorri;
Pe sorrwn, iawn a wnawn i!
Llawer cam ofer am wen;
Heb un cam be bawn cymen.
Llawer tro, garllaw'r tai 'r oedd,
A rodiais, diwair ydoedd.
Neges heb neges a wnawn,
Ffordd yno heb ffyrdd uniawn.
Olau dynion a welynt
Fal Adda ac Efa gynt.
Amlach no'r gwellt wrth ymliw
Olau 'nhraed ar lan y rhiw.
Pe durew fai, ped oerwr,
Olau'i gas a wŷl y gŵr.
Pe cerddwn, od gwn, nid gau,
Er saint gymaint o gamau
A gerddais, diymgais, dir allt,
Er ei mwyn, aur ei manwallt,
Diau cawn (pand oedd deg hyn?)
Faddau pechodau chwedyn.

Llawer cusan ac annerch,
Llawer o symlder i'w serch,
Llawer cae, llawer cywydd,
Bedw a roes, weithian bid rydd,
Llawer gair, llwyr y gwiriwn,
Llawer ym sydd oed dydd twn,
Llawer cred aeth i'r rhedyn,
Llawer haf y lliwir hyn,
Llawer trem a llawer tro,
Llawer hun llai er honno.
Diddiolch deuwedd ewyn,
Delw fy mhoen fu dâl am hyn.
Mae tâl mab am ofalon?
Gweniaith a hud y gwnaeth hon.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14997 [= RWM 24], $88^{r}$ B—BL Add 14999, $47^{r}$ C—LlGC 428C, 69

Tebyg i'w gilydd yw AB, ac adysgrif yw C o A. Seiliwyd y golygiad, felly, ar AB a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
2 *AB* milennies. 3 *AB* ir ysplennydd. 8 *A* blin iach oedd, *B* blinia choedd. 11 *A* wnnach. 14 *B* vgann. 18 *B* wnawn ni. 31 *B* gwan dgav. 32 *B* sain. 33 *A* dirallt, *B* dir allt. 35 *B* panadoedd; *A* dro. 38 *AB* llawer ossymdler. 40 *A* weithian brydydd *a'i ddilyn fel darlleniad amgen gan* bid rydd. 44 *B* haf lli wir. 46 *A* gair im llwyr gofio. 47 *A* diddiollch. 48 *B* ymoen. 49 *AB* mab ovalon.

*Priodoliad*
*A* llowddden ai kant, *B* llowddden.

## *5*
## *I gusan*

Tripheth, mawr y’u trahoffir,
A ennyn serch yn ein sir:
Annerch gan oleuferch lân
A chae Esyllt a chusan.
Myn y saint, minnau y sydd
Lifreifardd ar lyfr Ofydd.
Cefais gan wen galennig,
Cofl o aur braisg cyfliw’r brig;
Nid calennig, dda ddigawn,
O’r Sieb ond un eres iawn;
Nid cae euraid, nod cywrain,
Eithr cusan dyn fechan fain.

Anfones ’y nyn feinael
O gwr ei min a’i gwrm ael,
Enid y glod, Indeg law,
Ym gusan am ei geisiaw.
Hwn mi a’i cuddiaf yn hawdd,
Hudoles a’i hadeilawdd;
Hwyr yn wir y’i rhown i neb,
Hoyw Urddonen hardd wyneb.
Cired a bair gwared gwir,
Tlws a bair minws meinir.

Pwy’r ferch a ddirperai fawl
A’i rhoes ym yn rhesymawl?
Mwynen a geidw ym einioes
Â’i min, myn y rhin, a’i rhoes.
Da fu fwynen, dwf Enid,
Deuliw lloer, er dialu llid;
Dodes â’i genau didwyll,
Do, gae bach a’m dug o bwyll.
Digon yw ym o deg nod
Ôl ei min, eiliw manod.
Da fu’r insel, Dyfr unsud,
Da gan hon, digon o hud.

Mal un o greiriau Ieuan,
Y mae'n glo ar fy min glân.
Mawr oedd flas, debygaswn,
Myrr a thus, ym yr aeth hwn.
Merch a'i hanfones â'i mant,
Mwy les ym, mêl a simant.
Mwyn oedd roi ar fy min i
Mold sabl fal mawlwawd Sibli.
Mae ar yr ên mwy o rad,
Mal ysgâr melys gariad.
Iach yw'r galon a'r fron frau
Achos un o'i chusanau.
Eurwyd min y cyfrinach
Ag ysbonc ei gwëus bach.

Ni allaf hyd pan eillier
Mynnu pacs ond o'i min pêr.
O chais merched ei chusan
Is Coed, oerfel ym os cân'!
Cymwys o beth y plethwyd
Capten ar fin Llawdden llwyd,
Clo deufin clau diofer,
Cwnstabl ar bob parabl pêr.
Balch yw'r llef fis Mehefin,
Bu glod mawl cael bwcled min.

Pei cawn eilwaith, f'anrhaith fain,
Gan lwyddferch gynnil addfain
Y fernagl, liw ton Fyrnwy,
O fin hon byddwn fyw'n hwy!

*Ffynonellau*
A—Bangor (Mos) 5, 148$^{r}$ B—BL Add 10314, 61 C—BL Add 14970, 50$^{r}$ D—BL Add 31090, 162$^{r}$ E—Bodley Welsh f 4, 183 F—Card 2.114 [= RWM 7], 768 G—Card 3.4 [= RWM 5], 32 H—CM 22, 144 I—CM 23, 40$^{r}$ J—CM 243, 67 K—LlGC 3048D [= Mos 145], 751 L—LlGC 3057D [= Mos 161], 191 M—LlGC 5269B, 197$^{v}$ N—LlGC 13127A, 184 O—LlGC 19905B [= J. Gwenogvryn Evans II 2], 125$^{v}$ P—LlGC 21248D, 62$^{r}$ Q—Pen 57, 163 R—Pen 76, 134 S—Pen 112, 460

Gellir rhannu'r rhain yn bum grŵp: A, B–FI–ORS, G, HP, Q, ond perthyn HP yn agos iawn i'r ail grŵp. Pur debyg i'w gilydd yw testunau'r ail grŵp a'r trydydd, ac yn AGQ y gwelir y gwahaniaethu mwyaf. Barnwyd mai yn

nhestunau AF–MO–S y ceir y darlleniadau gorau, a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*

2 *AFJ–MORS* yn vn, *H* yn em. 3 *A* sef annerch; *IMO* gan y loywferch; *AFGKLQRS* loywferch. 4 *L* essylt. 5 *H* saint a minnav; *G* mine sydd. 6 *I* lifer fardd; *Q* o. 8 *AFIKLMOQRS* kofyl avr, *J* kwfl avr, *P* kofl avr (*cywiriad:* kofl o avr *gan yr un llaw*); *A* braisg cyfliw eiry i brig, *FGIKLPR* braisc kyfliwr bric, *H* braisg kyfliw yr brig, *MOS* braisc kyfliw ar brig. 10 *MOQS* o; *Q* siop; *IL* ond yn, *J* onid yn, *Q* gan ddyn. 11 *R* kav; *M* kwyrain, *Q* kyfrain. 12 *M* eith; *G* kussa. 14 *A* min yna eigwrw mael. 19 *A* yn wir ni roddwn i neb; *Q* wir y [ ]eb. 20 *A* Jorddonen iraidd wyneb; *Q* howy; *Q* hardd yn eb. 21 *A* cwred; *A* gwored. 23 *FHIKPRS* pwy ywr verch, *L* pwy verch; *AIJKLMOS* ddirprwyai *FR* ddirpwyai, *HP* ddirpwr, *Q* ddirpwriai. 24 *R* aroes. 25 *K* mwynwen. 26 *Q* Myn y rhin ai min yrhoes. 27 *HP* yw; *J* feinwen; *G* dw; *L* einid. 28 *AFGHJ–MOPRS* delw, *I* delwe; *G* ir; *AFGI–LRS* dial; *HMOP* dial i llid. 29 *G* min. 30 *HO* doe; *G* duc bwyll. 31 *AFGHILMOPRS* digon yw o; *A* deg yn nod, *FMORS* deg y nod, *HP* deg i nod. 33 *AFHJKMOPRS* deivr, *G* dur, *I* dofr, *L* ddeivyr. 34 *AQ* dogyn; *G* digan hud. 35 *F* greie; *FKLR* ivan, *I* Jian, *J* Javan. 36 *Q* [Y] Maen. 37 *G* yw blas. 38 *G* myn; *AFH–MOPRS* ymvarth hwn. 39 *I* merch vm ai danfones, *J* merch ym anfones, *L* merch ym ai anvones; *Q* a ddanvones; *P* danfones; *A* [ ]i; *J* mawr chwant. 40 *G* mwy les ym; *I* o. 42 *A* mawl, *GQ* Molt; *G* kais hawl, *Q* mowlwar. 43 *Q* aren; *J* y wenn; *G* em; *H* mawr. 44 *R* mel; *AFHI–LOPS* ysgor, *G* sger, *M* ysgar, *QR* ystor. 45 *O* yw; *AKL* vay. 46 *K* o; *I* ai cvsanav. 47 *AF–IKLMOPR* Evrodd ai minn gyvrinach; *J* gyrodd ai min gyfrinach, *S* E rodd ai min gyfrinach. 48 *I* gyfa; *Q* ysbok; *HMO* ai; *AI–MOQRS* gwevvss, *F* gefys, *HP* gwevs. 50 *P* peth (pax); *M* pax oi min, *R* paxs nod i min; *AHIJKLP* i. 51 *ILR* ynghysan. 52 *I* och vm os. 53 *Q* Kynwys. 54 *G* katben. 55 *I* klae. 56 *G* kwnstab, *K* cwnstable. 57 *G* lle vis. 59 *Q* vwy[ ]. 60 *I* gau; *A* hoewverch, *FHKLMOPRS* lowferch, *I* ilferch, *J* loywfer; *HP* gwenn; *A* afain, *HP* olevfain, *I* aelfain, *J* wiwfain, *Q* addvwyn. 61 *J* [Y] fernagl; *Q* vernac; *G* y vyrnw, *FKMOQRS* y fyrnwy, *I* o fowrnwy, *J* y fyrnwyf, *L* y vornwy. 62 *G* ben hon; *J* hwyf.

*Teitl*

*F* kowydd kvssan merch, *J* Cowydd ir kvsan etto, *K* Cow: mawl i ferch am gvsan, *L* k: i ferch o waith Llowdden, *MOS* kowydd ir kvssan, *P* kowydd y kvsan.

*Priodoliad*

*AFGI–MQRS* llowdden ai kant, *HOP* Llowdden.

*Trefn y llinellau*
*A* 1–56, (13–22), [57–8], 59–62.
*B–FI–ORS* 1–12, [13–22], 23–40, [41–2], 43–56, [57–8], 59–62.
*G* 1–12, [13–24], 25–62.
*HP* 1–12, [13–22], 23–40, [41–2], 43–54, 56, 55, [57–8], 59–62.
*Q* 1–20, [21–2], 23–36, [37–8], 39–44, 47–8, [49–50], 51–2, 45–6, 53–6, [57–8], 59–62.

## *6*
## *Moliant tri mab Owain ap Gruffudd o Riwsaeson*

Eurwn gerdd gyda'r un gainc
I drywyr fel derw ieuainc,
Tri dyn, wrth weled rhai da,
Gorau tri ond gwŷr Troea.

Mawr yw grym llysiau a main,
Tri mwy byw tri maib Owain:
Hywel groyw, uchel grechwen,
Hael a mawr yw dan helm wen,
Milwr hoyw'n moli rhiain,
Melys yw, fal mêl ei sain;
Mae 'n ei fraich ddeufaich o ddur,
Mae nerth megis mewn Arthur.

Dafydd, o'r unwydd yr aeth
O'r imp hwnnw rym pennaeth;
Impyn â thelyn ni thau,
Ac impyn y prif gampau;
Uchelgrair Bryn-Mair a'i medd,
A maen gwn ym min Gwynedd.

Uchel yw trem Lywelyn,
Angel llei dêl yn lle dyn.
Caf ar hwn ddwyn cof yrhawg,
Caf alw Owain Cyfeiliawg;
Cywydd serch i ferch a fyn,
A thalm ar grwth a thelyn.

Llyna gyrff llawen a gaid,
Llawenydd yw eu llonaid,
Angylion a meibion medd,
Ac organau gwŷr Gwynedd.
Gwên ac Elystan yw'r gwŷr,
Gwinwydd Seisyllt ac Ynyr.
Pand ieuainc peunod Owain?
Pwy a ŵyr rhif campau'r rhain?

Pob un â'i gamp ei hunan
A bwysai wlad Bowys lân.
Ni fedrai fil o fydrwyr
Rannu'r gamp i'r un o'r gwŷr.
I'r diwethaf o'r doethion
A weler y rhodder hon!

Mae'r brodyr (mor bur ydynt!)
Mal cledd Maelgwn Gwynedd gynt:
Hywel yw'r pwmel heb bai,
Ys Dafydd yw'r groes difai.
Un fetel yw Llywelyn
Â'r llafn dur. Ai llai ofn dyn?
Teg yw'r gwŷr, nid hagr eu gwaith,
Teirw teilwng y tair talaith.

Tair afon gynt a rifwyd
O ddwyfron Pumlumon lwyd:
Hafren a Gwy, hoywfron gwedd,
A Rheidiol, fawr anrhydedd.
Tair geirw a red trwy'r goror,
Ac un ymysg eigion môr.
Felly'r gwŷr, fy llwyr gariad,
A ran y tir o'r un tad.

Teg yw'r farn a rof arnun',
Teirllaw yn neidiaw yn un,
Tyrs o gŵyr, teiroes Garwy,
Un tân a'u hennyn ynt-hwy,
Tridyn un natur ydynt,
Ac un nerth drwy'r gynnen ŷnt,
Tri o wŷr yn torri onn,
Tidau aur at y dewrion,
Tri maib Owain, term bywyd,
Tair organ fyddan' ar fyd,
Tri thŵr mewn toreth arian,
Tri afal aur tyrfa lân,
Tri a ganan' trigeinawr,
Tri cheiliog Cyfeiliog fawr,
Tri a eilw o waed Troilus,
Tri phen a wna tair ffon us,
Tri chyfanheddrwydd blwyddyn,
Tri haf o'r un tir yw hyn.

Teg fydd i brydydd garbron
Torri cwlwm tair colon.
Trindod byd trwy undod barch,
Trywlwf rhwng y tri alarch.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14970, 43$^{r}$ B—BL Add 14971 [= RWM 21], 41$^{v}$ C—BL Add 14978, 22$^{v}$ D—BL Add 15000, 161$^{r}$ E—BL Add 15015, 299$^{r}$ F—BL Add 31056, 96$^{v}$ G—BL Add 31061, 76$^{v}$ H—BL Add 31090, 138$^{r}$ I—Bodley Welsh e 4, 29$^{r}$ J—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 345$^{v}$ K—Card 2.630 [= Hafod 20], 58$^{r}$ L—Card 3.37 [= RWM 20], 109 M—Card 4.101 [= RWM 83], 183$^{r}$ N—Card 4.330 [= Hafod 26], 465 [= rhif 188] O—Card 5.44, 197$^{v}$ [= rhif 214] P—Card 5.167 [= Thelwall], 84$^{v}$ Q—CM 27, 39 R—Gwyn 1, 79$^{v}$ S—J 101 [= RWM 17], 454 T—J 140 [= RWM 15], 441 U—LlGC 170C, 166 V—LlGC 970E [= Merthyr Tudful], 400 [= rhif 252] W—LlGC 1247D, 30 X—LlGC 3056D [= Mos 160], 253 Y—LlGC 6499B, 687 Z—LlGC 6511B, 102 a—LlGC 13061B, 37$^{r}$ b—LlGC 13063B, 51$^{r}$ c—LlGC 13127A, 167 d—LlGC 17114B [= Gwysanau 25], 107 e—LlGC 19905B [= J. Gwenogvryn Evans II 2], 126$^{v}$ f —LlGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 124$^{v}$ [= rhif 286] g—Llst 53, 58 h—Llst 55, 14 i—Llst 123, 598 j— Llst 133, 218$^{v}$ [= rhif 689] k—Llst 134, 178$^{r}$ [= rhif 275] l—Llst 156, 55 m—Pen 251, 235

Gellir dosbarthu'r rhain yn fras fel a ganlyn. i. ABHNQWceil, sy'n ymrannu ymhellach yn AHQWci, Bel, N; ii. CDEUY: CDEY, U; iii. FRX: F, RX; iv. GIj: G, Ij; v. JS; vi. KOVZabfk: KVa, OZf, b, k; vii. L; viii. M; ix. Pdm: Pd, m; x. T; xi. g. Y mae rhai darlleniadau yn N yn anghyflawn oherwydd traul; ni nodwyd y rhain oni bai bod rhywbeth i awgrymu y byddai'r darlleniad yn wahanol i ddarlleniad y testun golygedig pe bai'n gyflawn. Barnwyd mai yn BCFGI–RTVX–abd–l y ceir y darlleniadau gorau, a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Y mae rhai darlleniadau yn FN yn aneglur neu'n anghyflawn oherwydd traul; ni nodwyd y rhain oni bai bod achos i gredu y byddai darlleniad yn wahanol i ddarlleniad y testun golygyddol pe bai'n gyflawn. Pytiau yn unig o'r gerdd a geir yn h ond cynhwyswyd yr amrywiadau er diddordeb ac oherwydd cynharwch cymharol y llawysgrif. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*

1 *T* Pü rwn, *m* Grwn; *I* gyda'r un gaingc *mewn llaw wahanol*, *h* [gyda'r un gainc]. 2 (*I*) drowyr … deri …; *CLMQYgi* deri, *N* der; *I* Jeuaingc *mewn llaw wahanol*, *MVa* jaüank, *TZ* jaink. 3 *M* Dri; *IKOTafk* rhoi. 4 *C* er, *Q* ond (*cywiriad:* er), *TYi* er; *C* trea. 5 *Ij* os mawr grym, *g* a mawr grym; *RX* fydd; *KOVZabfk* byw; *e* ai. 6 *CTYim* troi mae; *KOVZabfk* mwy yw byw; *BGILPQTgilm* trimab. 7 *GI* howel gorvchel grechwen, *Pd* howel vchel i

grechwen, *h* [Hywel] gwr vchel grechwen, *j* Hywel goruchel grechwen, *yna* groyw uchel gr; *KVZabfk* hael, *O* hael (*cywiriad:* hyw *gan yr un llaw*); *CJKORTVX–bfghkm* garw; *KOVZabfk* gorychwenn, *N* grech nen. 8 *V* hae; *BLMel* hael yw a mawr dann, *NQg* hael yw am aûr dan; *GITjm* am avr yw; *JRX* am avr dan i helm; *KOVZabfk* mawr dan helem. 9 *d* melwr; *CYi* milwr hir moli, *h* milwr hir yn moli; *KOVZabfk* hir; *KOVZabfk* molir hain; *Td* rrain. 10 *KOVZabk* melys wiw yn malüsain, *f* melyswiw ym malysain, *h* melus yw yn moli sain; *m* mal y mêl sain; *J* yw sain, *T* y sain. 11 *e* Mae' nerth i fraich; *LQ* ddevfaich ddvr. 12 *I* mae n nerth, *L* mae ynerth; *Pd* gan, *Tj* yn. 13 *RX* ar; *T* oreywü dd y; *CKOVYZabfkm* onwydd. 14 *Pd* hwn yr ym penaeth, *T* hwn ir vn pennaeth, *X* hwnw Rvm pennaeth (*cywiriad:* hwnw ir vn pennaeth *gan yr un llaw*). 15 *L* ae. 17 *Pd* llywarch grair; *ei* Vchel gair; *KOVZabfk* bronn, *M* mab; *Pd* y, *h* a. 18 *Bl* ag or ganav gwyr gwynedd, *e* ar organau gwyr Gwynedd; *KOVZabfk* gwyn, *T* yw n, *j* gwin (gwn); *m* yn min. 19 *i* vchwel; *GJRXY* i; *CGJPRXYdh* drem, *T* term; *CGIJMPQRTXYdgijm* llywelyn. 21 *T* hwr. 22 *BCGLMNQTYeghjlm* val, *I* val (*cywiriad:* alw); *G* owen. 23 *Pd* A chowydd; *G* yverch. 24 *i* thalyn; *KOVZabf* o, *k* o *neu* a; *L* gwrth. 25 *V* gorff, *f* goryf; *C* gyrff yn llawen, *Yi* gyrff yn llawn; *Oa* gorff llawena gaid, *bk* llawena a gaid; *Pd* llawn; *j* eu naid; *T* gais. 26 *BCGILMNQegim* a llywenydd i llon aid, *J* a llywenydd yw llonaid, *T* a llywenüdd i llonais, *Y* A llawenydd ei llonaid, *h* a llywenydh y llonaid, *j* A llawenydd ei llonaid (llawnaid), *l* a llawenydd a llonaid; *K* y llonaid. 27 *CYgi* yngylion meibion y medd, *G* englynion meibion y medd, *I* engylion mwynion y medd (*cywiriad:* englynion a meibion medd), *L* yngylion meibion medd, *M* yngylion meibion y meibion y medd (*sic*), *j* Englynion mwynion ai medd (Engylion a meibion medd). 28 *I* Gwynedd *mewn llaw wahanol*. 29 *Y* Gwein; *m* Gwen Elystan; *T* gwe or ol (*a* d *uwchben a rhwng y llythrennau*) ysglan yw r; *j* og (ac); *Q* Leystan; *KOVZabfk* y, *L* yw or. 30 *Y* Gweinwydd; *m* Sasilld; *k* Seisyllt Ynyr. 31 *G* bond, *T* pan; *KOVZabfk* jaüank, *Pd* ivangk; *G* bevnod, *T* pennod, *b* prenod. 32 *IKOVZabfj* pwy wyr, *k* pwy wy; *L* ri; *LT* gampau. 33 *J* ar, *l* a; *h* gainc. 34 *Tm* bassai lü; *G* powys. 35 *g* naw; *Ij* frowdwyr, *KOVZabfk* vedrwyr, *LQ* awdvrwyr, *m* frydwyr. 36 *G* varnv yr, *I* barnv r, *j* Barnu r (Rannu); *KOVZabfk* rannv gamp; *KOVZabfgk* ar, *X* r (*cywiriad:* ir). 37 *KLMOVZabfk* y, *g* yr. 38 *e* a a weler; *Ij* ar a weler Rrodder; *Tm* welir; *KOVZabfk* weler river ar honn; *Tm* rhoddir. 39 *Gd* mae brodr; *T* brvdür; *m* byr. 40 *GIJg* achledd, *i* A chledd (Mal cl); *BGJRXdefgj* maelgwyn, *F* maegwn; *m* maelgwynedd; *l* ynt. 41 *T* howel i fw m bel i fwm bel heb fai (*sic*); *K* hyw, *OVZabfk* Hüw; *j* yw pwmel; *GJL* bwmel; *KOZabfk* lle delai, *V* he delai; *GL* vai, *J* ay, *M* hai. 42 *CFGILPQRTYdim* os, *KOVZabfgk* a; *F* dafydd fo ywr; *KOVZabdfk* y. 43 *G* vedel. 44 *IJKOTVZabfgj* a, *Q* a (*cywiriad:* ar), *h* [Â'r]; *G* llafyn evr ai ai (*sic*) ofan dy; *FKa* dvr llai; *h* [ai llai ofn dyn]; *IJOPVZbdfgj* nid, *TYl* a; *k* nid ofn (*cywiriad:* nid all ofn); *T* lla. 45 *g* tyrs o gwyr tairoes ai gwaith; *d* wyr (*cywiriad:* yw'r); *G* ni, *Ij* ond; *I* hygar; *j* hygar gwaith; *Ghm* y; *Yi* ei. 46 *G*

terw, *g* tyrav; *CFGJORTVXYai* teilwng tair; *Bel* or. 47 *L* y tair. 48 *Ij* ar, *j* Ar (O), *h* trwy; *h* dhwyfro, *m* dwyfron; *FGIRYgj* plymlymon, *KOVZabfk* benn lymon, *T* büm lymon, *l* plymllymon. 49 *Gg* hafren gwy; *G* hyfrwy i gwedd, *X* hyfryn i [ ], *gj* hoiwfron i gwedd, *l* dwy hyffrid i gwedd. 50 *G* rreidiol or vn anrrydedd; *Ij* mewn anrhydedd, *X* fwy anrh[ ], *l* fawr i hanrhudedd. 51 *BGJKLMNOPVZabdefhkl* tri; *FRXg* tri o geirw; *KOVZabhkl* gair, *LPd* garw; *JT* geirw rhed; *I* geirwon ynt (*cywiriad:* geirwon a red), *g* geirw ynt; *j* geirwon ynt trwy r (geirw a red trwy); *C* tvra, *Ti* tü ar, *Y* tir a; *KOVZabfk* trwy ragor, *MQ* trwy i goror, *g* trwy goror, *m* i goror. 52 *C* [ ] yn i mvsg, *G* ac yn vn mysg, *L* ag yn y mysg, *Q* ag yn i mysg (*cywiriad:* ag un â mysg), *RX* ag yn i mysg, *Yi* ag yn ei mysg; *Pd* egin; *G* eigion [môr], *I* eigion y mor. 53 *C* [ ]llvr; *G* velly yr gwyr, *OVZabfk* velly gwyr; *TY* fü; *h* fillwyr gariad. 54 *C* [ ]anv tir, *FGIJKORTXZbf* irannvr tir, *LMNQVahjkm* i rannv tir, *Pd* yn rrannv tir, *Y* Rhannu tir; *Pd* yr, *T* ar. 56 *Pd* teir law, *f* tri llaw; *CMYim* aneidiaw, *GL* yn eidiaw, *I* yn teg neidiaw. 57 *CYi* teirs; *L* tri thorst o gwyr; *T* gwŷr; *FLQ* teiroes a garwy; *BCGIJNRXYejl* gaerwy, *h* gorwy, *m* garwyf; (*X*) teiroes a a *a'r gweddill yn ansicr, mewn llaw wahanol*. 58 *KOVZabfk* yn vn tant i moliant hwy, (*X*) tan ai hymofvn y *a'r gweddill yn ansicr, mewn llaw wahanol*, *h* yn vn tan y nynant wy; *BCJLNQRTXYeilm* ag vn, *FGg* yn vn; *j* Ac tan; *Qgj* hynvnt, *i* hynnan; *BCFJNQRTXYegij* hwy, *G* [ynt hwy], *Ll* twy, *m* hwyf. 59 *J* o, *X* mewn; *G* nadvr, *I* nadtur. 60 *g* [Ac]; *T* nen; *IPTdj* drwy, *g* yn y; *T* gynt, *X* [ ]. 63 *BLMQgjlm* mab; *g* owen; *Y* Owain wr ein bywyd; *BL* trem. 64 *OVak* tri; *g* fyddan fyd. 65 *k* mal; *BCFGJK–OQTVY–befgiklm* traeth o arian, *I* torth arian (*cywiriad:* traeth o arian), *PRX* traeth arian, *d* traeth aran. 66 *J* avr mewn tyrva. 67 *J* gynnal, *KOVZabfk* ganon. 68 *KOVZak* gyvailiog. 69 *X* Troielvs, *j* Troyalus. 70 *X* wna r tair. 71 *a* chyvanhrwydd; *BLQel* chyfnheddrwydd y flwyddyn, *h* chyfarwydd y flwyddyn; *i* flwyddyn. 72 *RX* haf ywr vn tyrav hynn; *j* ar; *KOVZabfk* ar y tir; *NQT* tri, *l* tro. 73 *T* tri a fü dd o brüdd gar bron; (*N*) gan; *I* brydyddion *a* -ion *mewn llaw wahanol*, *L* brydd; *I* [garbron], *g* oi bronn. 74 *P* tore, *d* tor; *B* troi kwl yn y tair, *e* troi cwlm yn y tair; *l* kwlwn; *CGIPQYij* kwlwm val tair, *MN* cwlm y tair, *d* kwlwn val tair, *g* kolwm fal tair; *T* bai r; *GPYdg* kalon, *m* kolofn. 75 *T* D rm dod, *m* Trinded; *BCGIJKOQTVZabefgijk* bid, *d* bydd; *F* vnd[ ], *LQT* vndeb; *L* parch. 76 *B* triwlns, *C* trvwlwyf, *F* trwylw *ond a'r llythyren olaf yn ansicr*, *J* trylwyf, *G* trevlo, *INeg* tri wlwf, *KOVZabfk* tryw lw, *LQ* tri wlw, *P* trvwlyf, *R* trywlyf, *Tm* try lwyn, *X* trywlys, *Y* Welwyf, *d* trowlyf, *i* trvwlwyf, *j* Tri wlf, *l* triwlw; *M* trwlw y rhwng; *Y* rhwng tri.

*Teitl*

*B* kywydd y feibion Owen kyfeiliog, *C* Cowyd i feibion owain Cyfeiliog, *G* 3 mab owain, *I* 3 mab owain Cyfeiliog, *a* Cyfeiliog *mewn llaw wahanol*, wmffre wynn morüs owen, *K* Llyma gywydd tri mab owain kyveiliog, *M* kowydd i dri broder o gyfeiliog, *OVbfk* llyma gywydd trimaib Owain kyfeiliog, *Q* kowydd moliant i dri mab Owen kyfeiliog, *R* Cy: moliant i

drywyr, Tri mab Owain, Hywel—Dafydd a Llywelyn, Meibion o Ryw, *mewn tair llaw wahanol*, *T* kowü dd i dri mab owain gyfeiliawg, *X* k: i dri mab owen o lanbrynmair, *Y* Cywydd i feibion Owain Gefeiliog Twysog Powys, *Z* llyma gywydd tri mab owain kyvailiog, *a* kywydd tri maib Owain kyvailiog, *d* kywyd moliant i dri maib ywain o gyvelioc, *e* C: i dri meib Owain o Gyfeiliog mab Gr. ap [ ] ap Meilir, *g* kowydd 3 mab owen, *h* lhawdhen, *i* Cyw: i dri brodyr oedd yn dyfod allan Owen Cyfeiliog *mewn llaw wahanol*, Cyw: mol: i drimayb Owen Cyfeiliog. Howel, Dafydd, a llywelyn, *j* Tri meib Owein Wmffr Wyn Morus, ac Owein, *l* kywydd tri maib Owen, *m* Cowydd i ddau mab Owain Kyfeiliog.

*Priodoliad*
*BCIJKLMQXZfgilm* Llowdden ai kant, *FGej* llowdden, *N* Llowdden Deio ab Jeuan ddv [ ] eraill, *OVabk* jeuan llawdden ai kant, *Pd* deio ap jeuan ddv ai k, *R* llowdden ai kant *ac yna mewn llaw wahanol* Gwr o Fachynlleth oedd, *T* Syppyn kyfeiliog ai kank, *Y* Llowdden ai Cant 1450.

*Trefn y llinellau*
*BQei* 1–48, [49–50], 51–60, [61–2], 63–76
*CY* 1–14, [15–18], 19–32, [33–4], 35–48, [49–50], 51–60, [61–2], 63–8, [69–70], 71–6
*FR* 1–48, [49–50], 51–8, [59–64], 65–8, [69–70], 71–6
*G* 1–44, 47–56, 45–6, 57–8, 65–6, 59–60, [61–4], 67–8, [69–70], 71–6
*I* 1–44, 47–56, 45–6, 57, [58], 65–6, 59–60, [61–4], 67–8, [69–70], 71–6
*J* 1–48, [49–50], 51–60, [61–4], 65–8, [69–70], 71–6
*KVa* 1–48, [49–50], 51–8, [59–62], 63–8, [69–70], 71–2, [73–4], 75–6
*L* 1–48, [49–50], 51–8, [59–62], 63–76
*M* 1–48, [49–50], 51–6, [57–62], 63–70, [71–2], 73–6
*N* 1–32, [33–50], 51–60, [61–2], 63–76
*OZf* 1–46, 48, 47, [49–50], 51–8, [59–62], 63–8, [69–70], 71–2, [73–4], 75–6
*Pm* 1–48, [49–50], 51–60, [61–2], 63–8, [69–70], 71–6
*T* 1–26, [27–8], 29–48, [49–50], 51–60, [61–2], 63–8, [69–70], 71–6
*X* 1–58 (49–50), (57–60), [61–2], 63–70 (63–4, 69–70), (69), 71–6
*b* 1–46, 48, 47, [49–50], 51–8, [59–62], 63–8, [69–70], 71–2, [73–4], 75–6
*d* 1–48, [49–50], 51–6, (57–8 *mewn llaw wahanol*), 59–60, [61–2], 63–8, [69–70], 71–6
*g* 1–52, [53–4], 57–8, 55–6, 61–4, 59–60, 65–8, [69–70], 71–6
*h* 1, [2–6], 7, [8], 9–10, [11–15], 16–17, [18], 19, [20], 21, [22–5], 26, [27–32], 33–4, [35–43], 44–8, [49–50], 51–3, [54–6], 57–8, [59–70], 71, [72–6]
*j* 1–44, 47–56, 45–6, 57–8, (63–4), 65–6, 59–60, [61–2], 67–8, (69–70), 71–6
*k* 1–46, 48, 47, [49–50], 52, 51, 53–8, [59–62], 63–8, [69–70], 71–2, [73–4], 75–6
*l* 1–48, (49–50 *mewn llaw wahanol*), 51–60, [61–2], 63–76

## *7*
## *I ddiolch i Hywel am groen hydd*

Y gŵr â chŵn a gyrch hydd
Drwy'r glyn o'r dŵr i'r glennydd,
Hywel, awn i hely unwaith
Hydd coch, nid i wahodd caith.
Yfory mi a fwriwn
Ar goed (collais gais, od gwn).
Hwyr yw imi ysbïaw
Hyddod yr iarll heddiw draw.
O Fair wen, pan dyfo'r ŷd,
A gaid carw o Goed Cywryd?
O chair, n'edwch i arall
Fwrw'r llith o ŵyl Fair i'r llall.

Carwn hyddod, hir froder,
A chig hydd a fydd ar fêr.
Melys yw rhoi wmlys 'r hydd
Mewn gwin er mwyn ei gynydd.
Cig yt, hael, at y cog tau,
Crwn main, a'r croen i minnau.

Da y brodiwyd i brydydd
Dwbled, gwell no'r felfed fydd.
Gwisg wen fydd i'm gwasgu'n fain
Fal y'i rhoed ar foly rhydain.
Ni ddug iwrch, ni ddwg iyrchell
Neu hydd gwyn iawn hyddgen well.
Main y bernid y sidan.
Mawr drud, cymered ei ran.
Mi a gâr croen i am garw cryf,
Manffris gwyn, mae'n ffres gennyf.
Ffyrfach yw 'nghorff o'i arfaeth,
A ffens yw rhag ffon a saeth.
Pais a weithiwyd, pei saethydd,
Is law'r hug i selu'r hydd.
Mae'n dda i'r bwa ei bod
Mewn ffridd am na ffy'r hyddod:

Ffroen dda ni chyffry'n ddiwall
Carw 'n y llwyn rhag croen y llall.
Breuddwyd a llwybr a wyddwn
Brutus, hael fu'r brat ais hwn:
Bu bwys iddo bob asen
Ar ei gwisg, yr ewig wen.
Meudwy i Fedlem ydwyf,
Â chroen ar fy mraich yr wyf.
Deall a gawn, dull y gŵr,
Dudded Ieuan Fedyddiwr.
Croen, a weddodd crwn iddaw,
Camel dros bob cymal draw,
A ffaling braff a welais
A fu am hydd yw fy mhais.
Gwisg yw rhag ias y gaeaf,
Ac ni ad tes ar gnawd haf.
Lliw a wedda oll iddi
Blawd aur ar fy nwbled i.
Mae'n ystôr, 'y menestr wyd,
Weddill hon, ddoe y lluniwyd
Pwynts arfau, gwerth punt, sierfel,
A phwrs a menig a phêl.
Iach yw i fardd, o châi fod,
Anheddu mewn crwyn hyddod,
Nid rhaid ym ddwyn natur dof
Os anadl carw sy ynof.
Eurdonnen hyddgen yw hon
I'm galw rhag magu eilon.

Iefanc wyf ar fainc Ofydd
Amser haf ym mhais yr hydd;
Amdo carw a'm dwg hiroes.
Oed yr hydd i'r dyn a'i rhoes!

*Ffynonellau*
A—BL Add 14967 [= RWM 23], 102 B—BL Add 14970, 52$^{v}$ C—BL Add 14971 [= RWM 21], 120$^{r}$ D—BL Add 31090, 144$^{v}$ E—LlGC 13127A, 191 F—LlGC 19905B [= J. Gwenogvryn Evans II 2], 129$^{r}$ G—LlGC 642B, 63$^{v}$ H—Pen 112, 35

Tebyg iawn i'w gilydd yw'r rhain. Barnwyd mai yn ACFGH y ceir y darlleniadau gorau, a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Y mae rhai darlleniadau yn G sy'n aneglur neu'n anghyflawn oherwydd traul; ni

nodwyd y rhain oni bai bod achos i gredu y byddai darlleniad yn wahanol i ddarlleniad y testun golygyddol pe bai'n gyflawn. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
2 *F* ar dwr. 6 *AGH* o. 13 *C* hyddod froder, *G* hyddod [hir] froder. 16 *A* gydd (*cywiriad*: gynydd). 19 *ACFGH* dy. 20 *CF* no; *G* melfed. 22 *F* fol y rhydain. 23 *CF* ddwg iwrch. 26 *A* ir ran. 27 *CF* ga'r. 35 *A* chyffry (*cywiriad:* chyffryn), *C* chyffryn (*cywiriad:* chyffryn *gan yr un llaw*), *F* chyffry'n; *G* chyffry dd[ ], *H* chyffry ddiwall. 38 *ACFGH* brytas. 40 *A* ewic gwen. 41 *AGH* verdlem, *C* ffedlem. 46 *F* draw *mewn llaw wahanol*. 59 *ACFGH* dwyn; *AGH* do, *CF* dof. 60 *AGH* yno. 61 *ACFGH* Evrddonen. 66 *AH* oed yr hydd, *C* oed yr (*cywiriad:* oedran *gan yr un llaw*) hydd.

*Teitl*
*A* i ofyn croen hydd *mewn llaw wahanol*, *C* J ofyn kroen hydd, *F* Dechrau *mewn llaw wahanol*, *G* [ ]oen hydd.

*Priodoliad*
*ACH* llowdden ai kant, *F* Llowdden.

## *8*

## *I ddiolch i Weurful ferch Madog o Abertanad am baun a pheunes ac i ofyn paun gan ei gŵr Gruffudd a hithau dros Ddafydd Llwyd o'r Drenewydd*

Can hawddfyd yt, hyfryd dâl,
Cares wendeg caer syndal,
Gweurful ferch Fadog erfai,
Gwawr y ddwy Faelawr ddi-fai!
Y rhyw blaned o Fredudd,
Rhoddi a wnaeth rhoddion Nudd;
Rhoddes ym, myn grym y Grog,
Rhyw baun, esgyll rhubanog,
A'i beunes wrth ei benwn,
[ ].

Angel adar yng ngwledydd
Oedd ef cyn dyfod ei ddydd.
Maith y tristaodd 'y myd
Marw 'y mhaun, mawr 'y mhenyd.
Mae'r beunes, leianes lwyd,
Yn wylo, edn wineulwyd.
Gweddw yw'r ferch am ordderchwr,
Gweiddi mae fal gŵydd am ŵr.
Braidd y daw, breuddwyd eos,
'Deryn aur i dyru nos.
Cerdd a ddanfonaf lle caid
Ceiliog arall clog euraid,
A blaen ei 'denydd a'i blu
A ddyrchaif i ordderchu,
A'i droi yn glog, 'deryn glwys,
A'i dreiglo fal gwydr eglwys.
Lleidraidd ei fantell wydrin,
Llewych gwaith Adar Llwch Gwin.

Gruffudd â'r ddeurudd arab,
Gwalchmai adar Mai yw'r mab,
Mab Ieuan, â'i ran yr aeth,
Fychan, a oes fechnïaeth?

Brodiwr teg, un bryd â’r tad,
Brytaniaid Abertanad.
Eirchiad wyf o wlad y wledd
Am baun y mab o Wynedd.
Archaf, a chludaf ei chlod,
Archangel, i’r ferch yngod.
Och ym, on’d digri’ o chaid
Esgob ieir ysguboriaid?

Ysgafn ei droed a’i esgair,
Esgyll ffyn, ysgewyll ffair.
Manblu i gysgu a gâr
Mal sidan, Melwas adar.
Moled ar hwn mold yr haul,
Mwyn iawn, esgyll mân araul;
Mawrddail fal capel Merddin,
Megis camlod rhod yr hin;
To sêr fal tywys arian,
Troellau teg fal trilliw tân.

Hed a wna merched y medd
Ym i’w dwyn o’i adanedd,
Ac o’i esgyll y gwisgaf
Ddyrnaid teg ddiwyrnod haf.

O daw arglwydd i Bowys
Ar fwyd Dafydd Llwyd i’r llys,
Teg fydd gwasanaeth bwrdd tâl
O’r paun gwiw a’r pwn gwyal,
A’i blu’n deg, o’r blaen y daw
Ar ddesgyl newydd wisgaw.
Anrheg llew o’r Dre Newydd,
F’anrhaith, y penrhaith a’i rhydd,
Haela’ gwraig dan haul a gro
Haelion a ŵyr ei hilio.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14967 [= RWM 23], 96  B—BL Add 31090, $150^{v}$

Copi yw B o A, i bob golwg, felly ni ddangoswyd darlleniadau amrywiol o B. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 hawdd vryd talygvryd tal. 3 vrerch. 15 vynaches. 17 Gweddwr. 20 y derfyn. 25 y deryn. 27 lleidredd. 28 llewyrch. 34 Brytanaidd. 40 i air. 42 ysgiwyll. 51 hede.

*Priodoliad*

llowdden ai kant.

*9*

*I ofyn march gan Syr Siôn Bwrch dros Ddafydd Llwyd*

Y llew ’n aer a’r llaw’n wrol,
A’r lliw’n aur, ieirll yn ei ôl,
Llywydd ar y Drefrydd draw,
Llu sydd yn wŷr llys iddaw.
Llyna’r dref fal llanw ar draeth
Lle ffynnodd llu a phennaeth,
Tŵr Gwyn fal y try’r gannaid,
Tri gwin yn y tŵr a gaid.
Llyma gaer lle mae gwerin
Llïon gynt yn llenwi gwin,
Llawer gwin seler i Siôn,
Llawer gŵr, llew o’r goron,
Llawer gynner ac onnen,
Llawer gwayw a llurig wen,
Mordwy ym Mawddwy fal môr,
A thŵr Ewsam a’i thrysor.
Egin oedd, fal gwinwydden,
Gwynedd oll, Gwynionydd wen,
Gwreiddyn mewn gwe o ruddaur,
Gwenwynwyn walch, gynau’n aur,
Gorau iarll ei gaer a’i win,
Gorau meistr gwŷr a mwstrin,
Gorau gŵr fal y gwŷr gynt
I eirchiaid am a erchynt.

   Gŵr y sydd yn gâr i Siôn
A eirch rhodd o’i feirch rhuddion;
O ddeugyff mi a ddygwn
Fab Syr Gruffudd i’r hydd hwn:
Dafydd o’r gwinwydd gwynion
Llwyd y sydd lle deuai Siôn.
O chaf un o’i feirch iefainc
Dan y ffrwyn fal edn o Ffrainc,
’Y mryd, gyda Maredudd,
Ymwan ar hwn mewn aur rhudd.
O delai dros Fôr Dulyn
Y tair gwart gyda’r tarw gwyn,

Gwennwys â draig wynias draw
A gâi dir gyda'i euraw.
Erchi 'r wyf farch o ryfel
O dre'r Bwrch i daro'r bêl,
Â'r march i'r alarch o Rys
Drwy Gymru fal draig Emrys.
Hafal dur fal y darian
Yn y tyrch ag onnwayw tân,
Dragwn od eir o agos,
Derwen â glaif, dur yn glòs.
Un wedd ar ei gefn oeddwn
Ym min y gad â maen gwn.
Llwdn gorwyllt llydan garir,
Llun hydd dan wayw, llinon hir.

Llaw ac eddestr lle gwyddynt
A gâi'r gair â'r gwŷr gynt:
Gorwydd Syr Ffwg ap Gwarin,
Hwn a droes henw 'n y drin;
Ac un a droes ag onn draw
Gei o Warwig i'w euraw;
A'r trydydd, ar gynnydd gŵr,
Iarll Llawdden yw'r lluyddwr.

Gwennwys gyda'i feirch gwynion
A rydd sêr ar orwydd Siôn;
Yr ebol â'r gwayw rebwnt
Mewn aur rhudd, ymwanwyr hwnt;
Ebol marchog urddol gwyn
A wnâi filwr yn felyn.
O rhydd i walch rhudd i'w ddwyn,
Aur a wisg ar ei Wasgŵyn,
Gorwydd gan arglwydd a gaf
Ar orwydd a oreuraf.

*Ffynonellau*

A[1]—BL Add 14967 [= RWM 23], 15 A[2]—BL Add 14967 [= RWM 23], 35 B—BL Add 14970, 51[r] C—BL Add 14971 [= RWM 21], 116[r] D—BL Add 31090, 141[v] E—Card 4.10 [= RWM 84], 1122 F—LlGC 8497B, 200[r] G—LlGC 13127A, 187 H—LlGC 17113E [= Gwysanau 24], 13[r] I—LlGC 19905B [= J. Gwenogvryn Evans II 2], 127[v] J—Llst 122, 200 K—Pen 112, 32

Tebyg iawn i'w gilydd yw'r rhain i gyd, a diau eu bod yn tarddu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o'r un gynsail. Barnwyd mai yn nhestunau $A^1A^2$CFHIJK y ceir y darlleniadau gorau, a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 277–84.

*Amrywiadau*
1 *CI* avr. 2 *J* ar lliw n ieirll avr yn ei ol (*cywiriad:* ar llaw'n avr ieirll yn ei ol *gan yr un llaw*); *K* lliw avr. 3 *$A^1A^2$HK* ar drefrydd. 7 *$A^1$H* dryr. 9 *$A^1$HK* llynna. 12 *FHJ* ar. 14 *F* w[ ]. 20 *F* valch; *K* gemav; *CI* genav avr. 22 *$A^2$* mwstin. 24 *F* eirchiad. 25 *FHK* gwr sydd. 27 *K* y ddevgyff. 29 *JK* gwnnion. 30 *J* son. 33 *$A^2$* mreredudd. 34 *F* [ ]wan. 35 *CIK* Od elai. 36 *$A^2$* twr, *J* twr (tarw). 37 *J* drig; *$A^1$* ymas, *C* wyniais, *FHJ* ynias, *K* ynias. 38 *$A^2$* Ac ai dir gwedi. 40 *I* Burch. 41 *J* alalch. 43 *$A^1A^2$CFH–K* Aval; *CIK* daran. 44 *$A^1$I* onway. 45 *F* oi, *J* iw. 46 *FH* gayf. 52 *CI* a gair y gyd ar gwyr, *K* a gair gida yr gwyr. 53 *H* gorwedd; *K* Gwaring. 54 *$A^1$FHJ* J hwn; *F* dwn (hwnn); *CIK* henw y; *$A^2$* hennwn drin. 55 *FHJ* a gwn; *CI* ag am. 59 *JK* gwnnion. 65 *J* y gwalch. 67 *$A^1A^2$FH* orwydd; *F* gain, *H* gam.

*Teitl*
*$A^1$* C. i Sr Siôn Bwrch o Fowddwy i ofyn March (*mewn llaw wahanol*), *$A^2$* C. i S$^r$ Siôn Bwrch Arglwydd Mowddwy i ofyn March (*mewn llaw wahanol*), *C* J ofyn March rhvdd, *F* Cywydd i ofyn march g[ ] syr Sion Burgh marchog arglwydd mowddwy o waith llowdden, *H* gofynn March (*mewn llaw wahanol*), *I* C: i ofyn march, *J* Cyw: i ofyn march gan Sion Bwrch arglwydd Mowddwy. dros Ddafydd llwyd, *K* kowydd i Sion i erchi march rhvdd i lowdden (hyd i gwn i.).

*Priodoliad*
*$A^1A^2$CHJK* llowdden ai kant, *I* Llowdden.

*Trefn y llinellau*
*$A^2$*1–28, [29–30], 31–68
*I* 1–17, [18], 19–68

## *10*
## *Moliant Phylib ap Rhys o Genarth*

Caru ’dd wyf anfon cerdd dda,
Ced Merddin, lle caid mawrdda,
Caru Phylib, corff eilon,
Cariad y ddeheuwlad hon.
Caru rhoi y mae carw Rhys,
Ar gymorth, aur ac emys,
Unben o Phylib, iawnbost,
Fychan, Fendigeidran gost.
Enaid ynn yw ’n anad neb,
Wrthrynion Arthur wyneb,
Ail i nêr o Lyn Aeron,
Ieuan Llwyd, yw, ’nilled iôn!
Profi enaid prif fonedd
A gaid i’r mab gyda’r medd,
Pren mewn afallen felly,
Pêr ei frig, a impir fry.
Pren ydyw Phylib ap Rhys
O flaen imp y Fêl Ynys,
Arferoedd têr ar farwn,
Rho Duw hael, a roed i hwn,
Haelioni hil i Einiawn,
A phryd gŵr a ffriw deg iawn.
Mawredd a roed i’m eryr,
A moesau gwalch ymysg gwŷr,
Teg ar farch, nid hagr yw fo,
Teÿrnaidd, rhad Duw arno!

Mae hiraeth, lywodraeth lân,
Ar ei genedl, ŵyr Gynan.
Nid oes i’n gwlad ond adar
Na brig coed i’n bro a’i câr,
Na cherddor, ni a chwarddwn,
Ni chaid ond yn annerch hwn.
Siwrnai deg y sy arnaf,
O’i serch, erbyn trimis haf,
Anfon drwy Bumlumon draw
Gywyddau’n anrheg iddaw;

’Y nghred, er pelled fo’r parch,
Mi ymwelaf â’m alarch.

Eisiau mawr, Iesu, ym oedd,
Yn ei wlad annwyl ydoedd,
Pan aeth hwn, mab pennaeth hir,
Frëyr haelder, fro’r heldir.
Bo iddaw, gafael ar ben,
Bwriad Owain ab Urien;
Y gŵr o draeth Llychwr draw
A lwyddodd ei chwedl iddaw.
Hen iawn oedd hwnnw a wnaeth,
Hir arwain, brig herwriaeth,
Nes cael gwir a thir a thai
Odduchod ni heddychai.
O chiliodd mab uchelwr,
Phylib yw’r cyffelyb ŵr:
Gwrthod annefod a wnaeth,
A galw am fuddugoliaeth,
Trigo a fyn tra gâi fod
Yn rhydd fal un o’r hyddod.

Cyd bo da cymanfa medd
Gwlad Arwystl a’i gloyw diredd,
Buan y dêl o Bowys
I dir ein gwlad, dëyrn glwys.
Lle bu’r tai a llwybr y tad,
A rhandir y gorhendad,
Unoed Rhys yno y trig,
Yno y dyly gan Nadolig,
Einioes hir drwy enw a serch
A roddir i nai Rydderch!

*Ffynhonnell*
LlGC 728D, 105

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. isod td. 281.

*Darlleniadau’r llawysgrif*
6 air ar. 12 yw enilledion. 15 evallen. 19 arverwnn. 20 Roi. 38 i ymwelaf. 45 llochwr. 52 gyffelib.

*Teitl*
kowydd moliant i phylib ab Rys llowdden ai kant.

*Priodoliad*
llowdden ai kant.

## *11*
## *Moliant Phylib ap Rhys a Gwenllïan o Genarth*

Phylib, ei gorff a welir,
Uchelwr teg, uwchlaw'r tir,
Ap Rhys, yn cynnal pob rhan
O fuchedd Phylib Fychan,
A chynnal ei drychannyn,
Gair a gwledd mal gwŷr y Glyn.
Ieuan Llwyd, un llaw ydoedd,
A thafod aur Gwaithfóed oedd.
Ei hepil ef ym mhob plas
A fyn arddelw cefn urddas.
Mae teiran, Elystan lwyth,
Yn henllys y brenhinllwyth.
I bob rhan, Phylib ap Rhys,
Yno deiryd nai deuRys.
Nid anodd am nad anael
Naddu cerdd bonheddig hael.
Fal nod difilain ydyw,
F'angel doeth yn fy ngwlad yw.
Pennaf swydd ym bob blwyddyn
Peri gwawd i'r mab hir gwyn;
Pennaf swydd, impyn fy serch,
Ynn yw rhoddi nai Rhydderch.
Uchelwr gwych ei helynt,
Uwch ei gorff no'r iachau gynt.
Uchel, dirgel fydd derwgoed,
Uwch yw cerdd mab o Uwch Coed;
Uchel fydd cildant telyn,
Uwch yw'r glod i'r ferch o'r Glyn.
Arian Gwenllïan o'i llys
Draw a rannwyd drwy'r ynys,
Un henw â'r Owain heinyf
Ab y trydydd Gruffudd gryf.
Moli ŵyr Gruffudd Maelawr
A ddaw i mi yn dda mawr.
Nes yw'r arglwyddes o'r Glyn
Nog unferch wen i Gynfyn.

Pur iawn i Phylib ap Rhys
Yw bonedd ym mhob ynys;
Pur yw pob rhai o Owain,
Os pur defnydd mur o'r main.
Wynt-wy yw urddas ein tir
A phrifiach gwlad o phrofir.
Phylib ydyw cyff haelwych,
Gwenllïan yw'r winllan wych,
A'u meibion, wyrion i arth,
A fydd gwinwydd i Genarth.
Ac yno cawn ganu cyrn
Uwch Coed o iachau cedyrn,
Ac enw'r gŵr a'r wraig yno
Yn wehelyth byth y bo.
Dafydd gafas da Ifor,
Ac Efa oedd wreigdda'r iôr,
Iolo rodd o law Rydderch,
Ail gan Fawd, oleugain ferch.
Undasg ar y dynionda
Wyf hyd hyn, cefais fyd da.
Gweaf innau i'r ddau ddyn
Ganiad Iolo gan delyn.
Naw cywydd y sydd dan sêl
Yn glych dros naw gŵyl uchel.
Nawpasg nid af yn nepell
I garu gŵr a gwraig well
A'u rhaid gyda'r anrhydedd,
Er ein mwyn ond aur a medd.
Peri aur, Phylib ap Rhys,
A wnâi ymy, neu emys,
A medd a rhwyddaur a main
Er ei chywydd merch Owain.

*Ffynhonnell*
LlGC 728D, 101

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. isod td. 281.

*Darlleniadau'r llawysgrif*
4 vwchedd. 12 henllysr. 21 pena; y. 24 noi. 48 kedern *ond a'r ail* e *yn aneglur*. 51 lowas. 52 grwaigdda'r. 64 er in onid.

*Teitl*
kowydd moliant phylip ab Rys llowdden ai kant.

*Priodoliad*
llowdden ai kant.

## *12*
## *Moliant Phylib ap Rhys a Gwenllïan o Genarth*

Ffynnaist, Duw fo d’orffennwr,
Phylib gun, gyffelib gŵr,
Ffodiog yw dy broffwydiad,
A phoed i ti ffawd y tad.
Wellwell fych wrth f’ewyllys,
Waladr hael o aelwyd Rhys,
Ŵyr Phylib, oroff hoywlwys,
Fychan, ein pen fych a’n pwys!
Bonedd Ricert ab Einiawn,
Blodau yw dy bleidiau iawn.
Help wyd i’r wlad yn gadarn,
Hil Waithfóed, wehelyth farn.
Beunydd teg yw’r bonedd tau,
Blodeuaist blaid y Deau.
Wrth rannu tir Gwrthrynion
Aelod teg wyd i’r wlad hon.
Arwain ystad y tad teg
Yr wyd ar dy lawn redeg.
Ei ran nis câi ŵr unoed
Yn y llys ar Rys erioed.
Duw a ellwng d’ewyllys
I ddwyn rhan o ddoniau Rhys.
Duw ar bawb a ran da’r byd,
Duw a gynnail da gennyd.
Caru ’dd wyd cerdd a adwaen,
Campau dy bleidiau o’r blaen;
Caru gyda’th lu i’th lys
Cerddwriaeth, câr i ddeuRys;
Caru dwyn cusan mwyn merch,
Caru rhoddion, câr Rhydderch.
Gŵr wyd â phryd goreudeg,
Gŵr mwyn o dir Garmon deg.
Mae ’n fy mryd mewn fy mrodir,
Moliant oedd ym mlaen y tir,
Rhwymo gair rhôm o gariad
Â thi, Arglwydd nef a Thad.

Rhamant yw fal y rhwymer
Fod y glod, fywyd y glêr.

Od af, ni haeraf hiroed,
Fry â'ch cerdd, Ifor Uwch Coed,
Moli 'r wyf, mâl arofyn,
Merch glaer, hil Marchog y Glyn,
Goreuraid haul blaid hil blant,
Gwenllïan, gannwyll ielant,
Hil y gŵr a heliai gaith,
Helmog ganllaw gwŷr Cynllaith,
Hyloywawr o hil Owain,
Hil Gruffudd, ael fuchudd fain.
Bellach mi a grybwyllaf
Bleidiau hon, liw blodau haf,
Ar glod â'm tafod, ni'm tawr,
Ac ar foliant, Eigr Faelawr.
Euraf gerdd yr haf er hon,
I lath aur o lwyth Aeron,
Gwryd abl, geiriau diblyg,
Gwenddydd o hil Gruffudd Gryg.
Doniog oedd, gafael dynion,
Yr un sain o'r ynys hon,
O flodau y Deau dir
Ac o nawdd-dud Gwynedd-dir.
Ni bu mewn tŷ wyry' well
O blaid brehyriaid Hiriell.

Duw a phen a wna ffynnu
Annedd o lân fonedd fu;
Einioes ywch, ddeuddyn, unoed,
Yno y'ch ceir yn Uwch Coed.

*Ffynhonnell*
LlGC 728D, 101

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. isod td. 281.

*Darlleniadau'r llawysgrif*
7 oeroff; hoywbwys. 8 vychan pwys. 21 duw a ellyngodd dy wllys. 25 adwaeden. 43 havlblaid. 58 ir vn ffair. 60 novÞdvd; gvynedir. 61 wefry.

*Teitl*
kowydd moliant i phylib ab Rys llowdden ai kant.

*Priodoliad*
llowdden ai kant.

## *13*

## *Moliant Phylib ap Rhys a Gwenllïan o Genarth a’u pum mab*

Af fry lle ’r  wyf ar wahodd
Uwch Coed lle rhoed llawer rhodd.
Deled fal dadlau dilys
Bob rhai at Phylib ap Rhys.
Teirmil a red at Armon
I weled hael y wlad hon.
Ei dŷ a’i swllt gyda’i serch
Oedd rydd fal neuadd Rydderch.
I’r gŵr mae aur ac arian,
Ni bydd ei brydydd heb ran;
I’r ferch y mae aur ar fys
I roi llyn i’r holl ynys.
Llawen fydd Gwenllïan fain,
Lloer dda’n rhoi llawrodd Owain.
Llw gwen y sy ’n llaw ei gŵr
Ar gynnig aur i gannwr.
Llaw’r gŵr, myn allor Garmon,
A ryddhâi a roddai hon.
Nid oedd ddiffrwyth dau ddyffryn,
Nid drwg blodau y ddau ddyn,
Garmon Glyn Aeron eirwir,
Gwenfrewy Glyn Dyfrdwy dir;
Goleuni neu lili lamp,
Gŵr cerddgar a gwraig harddgamp.
Y gŵr ymysg aur a medd
A gâr enaid gwirionedd.
Cywir a mwyn yw’r carw mau,
Call yw, ewythr cellïau.

Ni bu o’r byd na bwrw’r bêl
Eithr hafog a thir rhyfel;
Byd brân a barcutanod,
Blin fu i’r blaenau ei fod.
Ef a ŵyr fry, Ifor fraint,
Ochel hwn a chael henaint.
Ei dda a’i rent oedd o ras,
Am ei wirdda mae urddas.

Ni mynnai wledd mewn ei wlad
Nac arlwy o fewn gorwlad.
Hyn a bair, hwy no barwn,
Hil a had o'r gŵr hael hwn.

Ei bumaib fydd byw, Ámen!
On'd da'r pyst? Yntau yw'r pen:
Rhys gadr mewn rhwysg ac oedran,
Nid oedd lai Maredudd lân;
Os had y sy hwyaf,
O hwnnw gŵr hen a gaf.
Deufab, Owain a Dafydd,
Dwylaw'r tad yn daly'r oed hydd.
Adar a dyf, dri a dau,
Arglwyddwaed yn rhoi gwleddau.
Cateri'n rhoddi yw'r rhain,
Coed gwiw cyhyd ag Owain.

Ffynnodd, coel o'r un ffunyd,
Phylib ap Rhys, bumbys byd,
Pum gwregys i'r llys a'r llan,
A phum tŵr a phum tarian.
Pumaib teg yw'r imp yma,
Pumnyn plant y ddeuddyn dda.
Peri o Dduw'r pump a'r ddau
A'u hoedl fal y planedau!

*Ffynhonnell*
LlGC 728D, 117

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. isod td. 281.

*Darlleniadau'r llawysgrif*
3 deved; dillys. 11 verch mae. 17 llwr. 43 rrwystr. 48 dalyr. 50 glweddav. 53 kael.

*Teitl*
kowydd moliant phylib ab Rys llowdden ai kant.

*Priodoliad*
llowdden ai kant.

## *14*
## *I ofyn cleddyf a bwcled gan Phylib ap Rhys o Genarth dros Siancyn y Glyn*

Ffyniant yt yw'r moliant mau,
Phylib, fasarn ffiolau.
Rhoes Duw yt air Rhys dy dad,
Rhaglaw oes, rhywiog leisiad,
Ŵyr Phylib, oroff helynt,
Fychan, frawd i Gynan gynt.
Carw teg wyt o Ricart iawn,
A fu bennaf, fab Einiawn,
Hil Ieuan, ceinciau lawer,
Llwyd o'r Glyn lle deuai'r glêr.
Hael wyd fry yn y tŷ tau,
Hil Waithfóed, hael o'th fwydau.
Myned lle y dymunwn,
Mal y tad mawl yt a wn,
A'th ran yn nhir Gwerthryniawn,
Â'r gair ydd wyd ar gerdd iawn.
Rhodded yt foesau Rhydderch,
Rhoddion a bair sôn am serch;
Rhoddid Duw yn rhwydd yt, iôn,
Rhan o ddoniau'r hen ddynion.

Brawd o gyfraith, uniaith wyf,
A brawd yt o bryd ytwyf.
Pei gwypud, heilud hoywledd,
Bod Siancyn y Glyn heb gledd,
(Rhagorol ym dy foli),
Rhag dyn y'm anrhegud i.
Bûm yn ymofyn drwy'r byd,
Bliant unllaw, blaen tanllyd.
Arf o fetel a welais
Ar dy glun, oreudeg lais.
Minnau a'i dwg i'm einioes.
Mal crair yw ei amlwg groes.
Os mewn rhyfel y gwelwn
A dwyn hynt i dynnu hwn,

Delw'r Grog yn fy ngogylch,
Dewr y'm cair i'w droi i'm cylch.
Gwelir, fal fflamgwyr golau,
Goleuni fydd i'r glun fau.

Gwenllïan, gwiwne lleuad,
Greirwy o Lyn Dyfrdwy dad,
Hael o'i gwin, liw haul ei gwallt,
Hil yr hydd, hael o'r Rhuddallt,
Merch a fydd llwyrblaid i mi
Ar gleddyf, hil arglwyddi.
Ei cherddor fal y chwarddwyf
A'i châr a ddwg ei cherdd wyf.
Minnau fedraf o'm tafod
Mewn gwledd, ffordd y mynnai glod,
Euro gan dant organ deg
Er ei mwyn, aur ei maneg.

Gŵr wyt, Phylib, helm grib hoyw,
Â deugledd odidowgloyw.
Er mwyn y ferch o Wynedd
Ynnill glod am y naill gledd,
Llathaid o ddur, lifaid lwyth,
Lliw'r gwydr i'm llaw rhag adwyth.
Brawd yw rhag bwriadau dig,
Bugail gŵr, bagl i Gurig.

Bwcled, er nas dywedwn,
Y sydd gyda'r eurdlws hwn,
Enllyn i gleddau unllaw,
Un llun buarth baban llaw.
Nid oedd annhebig ddigon
Fwriad ei grefft i'r Ford Gron.
Rhai a wŷl, fal rhyw eilun,
Rhod y cloc yn rhodio clun;
Anserchog onis archwn
Ydoedd i mi hoffi hwn.

Gormodd yn unrhodd i neb
Oedd un gan dda ei wyneb.
Os cleddyf, ail Selyf serch,
A roddai ym nai Rydderch,

Anodd yw i un ddeall,
Wyneb llew, un heb y llall.
Anos oedd, einioes hyddawn,
Ysgar dau gymar deg iawn.
Arfau glân fy niddan nêr,
Un ill dau, ni neilltuer.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14871 [= RWM 20], 263$^{r}$ B—BL Add 31090, 179$^{v}$ C—Card 5.44, 198$^{v}$ [= rhif 217] D—LlGC 970E [= Merthyr Tudful], 403 [= rhif 255] E—LlGC 6511B, 243$^{v}$ F—LlGC 13062B, 540 G—LlGC 20574A, 168 H—LlGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 166 [= rhif 392] I—Llst 124, 347 J—Llst 134, 182$^{r}$ [= rhif 282]

Pur debyg i'w gilydd yw'r testunau hyn. Ceir ambell amrywiad sylweddol yn A ac y mae perthynas agosach na'r cyffredin rhwng GI. Y mae rhai darlleniadau yn D a H yn aneglur neu'n anghyflawn oherwydd traul; ni nodwyd y rhain oni bai bod achos i gredu y byddai darlleniad yn wahanol i ddarlleniad y testun golygyddol pe bai'n gyflawn. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
2 *GI* masarn. 3 *B* Duw yd Rhys, *I* dvw air yt Rhys. 4 *GI* yn rhowiowgwlad, *E* y rywogwlad. 5 *A* o raff, *BFJ* eroff. 8 *A* benaeth; *CGI* ab. 9 *I* Jfan; *A* hiliav, *BC–FHJ* hiliaw. 10 *B* ar; *A* lle y devai'r; *J* lle daw aür gler. 11 *A* fry yn nevty'n iav. 12 *GI* waith fod. 13 *A* hyd lle, *G* yn lle i, *I* mal i. 15 *B* Oth; *CD* o dir; *B* Gwerthiniawn. 16 *GI* a gair. 18 *G* rhuddion; *A* a serch. 19 *A* rhodded dvw yt rhwydd wyt. 21 *AGI* vnwaith. 23 *A* helid, *BF* hailiyd, *CD* hiliyd, *E* heilyd, *G* heulud, *H* heiliyd, *I* heblid, *J* hailyd. 24 *Yn C rhagflaenir* Siankyn y *gan* Gyttynn y *a ll. drwyddo*. 25 *BDEFHJ* yn. 26 *A* dim; *I* anrhegi di. 27 *A* o bydd ymofyn. 28 *B* unlliw. 30 *A* a rydei glais. 32 *G* crai. 33 *A* os i ryfel yr elwn. 35 *C* delw y drindod ym gogylch; *DJ* ym gogylch. 37 *G1* yn. 39 *BC–FHJ* gwawn y llaüad. 40 *FJ* grairw; *D* o o lynn; *CJ* Dwfrdwy; *D* dad (*cywiriad:* wlad), *J* wlad. 42 *CG* havl; *FI* o Ruddallt. 43 *A* y ferch fydd lwyrblaid ym fi. 44 *I* gleddef. 45 *FGI* cherddwr. 46 *A* i ddwyn i. 47 *G* mi a fedra, *I* minav a fedraf; *AGI* am. 49 *G* gant. 51 *J* grip. 52 *I* odidowgliw. 55 *AI* llathaydd, *H* llathad; *A–HJ* llivaid llwyth, *I* llyfaid llwyth. 56 *D* lliw gwydr; *G* adnyth. 57 *A* brawd da yw, *G* brawd da oedd; *EI* oedd; *AG* bwriad, *I* bwriadv. 58 *A* gwŷr; *GI* gwr fal bagal Girig; *A* bagl gvrig. 59 *AGI* a bwkled; *ABEGHI* dwedwnn. 60 *CDEFJ* a sydd. 61 *A* gleddyf, *J* gleddy. 62 *A* yn; *I* un llvn a bvarth; *G* draw. 64 *CHJ* greff. 65 *A* rhyfelwr fal rhwyf. 71 *G* selef. 72 *BF* roddes, *J* rodder; *I* ym; *I* mai; *AG* Rydderch. 74 *A* llaw. 76 *C* gyma. 77 *A* arfav'n glav erfyn o glêr; *BC–FHJ* ni fynan fer. 78 *A* yn ill dav,

*B* Un yll tau, *CDEJ* vn ylldav, *FH* vn ylltav, *G* yn illtay, *I* yn evlldav; *AG* na.

*Teitl*

*B* Erchi cleddyf, *C* llyma gwydd arall i erchi kleddyf, *DHJ* llyma gywydd arall i erchi kleddyf, *E* llyma gywydd i erchi kleddyf, *F* kywydd arall i erchi kleddyf, *G* J ofvn cleddyf a bwcled, *I* Cyw. i ofyn cledde a bwcled gan Phylip ap Rys dros Siencyn y Glyn.

*Priodoliad*

*A* lewys glynn kothi; *B* Jeuan Llawdden, *CDFHJ* jeuan llawdden ai kant, *E* llawdden ai kant, *G* Llowdden.

*Trefn y llinellau*

*A* 1–40, [41–2], 43–8, [49–50], 51–78.

## *15*
## *Moliant Morgan ap Hywel o Groesgynon*

Morgan synnwyr anianol
(A Thad Nef ni'th ad yn ôl),
Mae metel Hywel a'i hyd,
Milwr gwyn, mal aur gennyd.
Bid arnad gampau'r tad du,
Bid urddas Phylib Dorddu.
Carw yn ynnill cyrn uniawn,
Cynnar ei ddarpar a'i ddawn.
Cwmpas dy frig a impir,
Cenau llew du Cynllo dir.

Mae arnad, flaen draen a drig,
Un dyfiad â phendefig.
I'th ruddiau mae wyth wreiddyn,
 had dawn yr hewyd hyn.
Eillio dy farf a ellid
Heb eillio'r gras be llai'r gwrid.
Fal yr wyd yn ddifalais,
Fal y'th gaf, dwy fil a'th gais.
Alisdotles gonffesawr
Er mwyn Alecsander Mawr,
Geiriau'r awdur a gredwn,
Gwna dithau gynghorau hwn.
Bydd hael am eurgael, Morgan,
Wrth wŷr, a bydd dda wrth wan.
Gwŷr a wna gŵr yn wrol,
Gŵr a wna gwŷr yn ei ôl:
E biau'r gwŷr, lle bo'r gwaith,
Biau'r tir a bwrw teiriaith.
Canmol wŷr i'th ôl, a thyn
Y did fal gwalch Rhydodyn.
Margain a fu, Morgan fydd
Mal yno ym Maelienydd.

Morgan, os daroganwr,
Mawr a wna Cymro yn ŵr.

Mae yt ran o'r Brytaniaid,
Morgan, n'ad dy ran, nid rhaid.
Mae o Wennwys ymwanwyr
I'th ôl pan fo rhaid wrth wŷr.
Llaw'r tad a'i fraich oedd gadarn.
Lle bych nid rhaid colli barn.
Nid yw yn un glod i neb
Eithr d'enwi a throi d'wyneb.
Byd a fai, be da ei fod,
Cytûn â'r barcutanod.
Gwisg di, gosawg wyd i wŷr,
Gwayw a tharian, gwaith eryr.
Ehedaist (mor hy ydwyd!)
Uwch eu llaw, teg a chall wyd.
Hawl plaid, cawn help o Lydaw,
Hyn o dir wrth ei henw y daw:
Gwlad Fael hael ei heolydd
Ac weithian gwlad Forgan fydd!

Nid mawr gennyd am arian
Ond er eu rhoi yn dair rhan.
Nid traha, mab gwrda gwych,
Yt fynnu'r maint a fynnych.
Na wna dithau byncia u balch
Na thrafael eithr i ryfalch.
Ni chair heb ofn a chariad
Yn llys dug ynnill ystad.
Ni'th dreisir â gwayw ir onn,
Ni'th gair heb fendith gwirion.

*Ffynonellau*
$A^1$—BL Add 14965, 50$^r$ $A^2$—BL Add 14965, 54$^r$ B—BL Add 14970, 47$^v$ C—BL Add 14976 [= RWM 22], 257$^v$ D—BL Add 15000, 163$^v$ E—BL Add 31090, 132$^r$ F—Card 2.617 [= Hafod 3], 158$^r$ G—Card 4.10 [= RWM 84], 252 H—Card 5.167 [= Thelwall], 69$^v$ I—LlGC 18B, 392 $J^1$—LlGC 9176A, 56$^v$ $J^2$—LlGC 9176A, 67$^r$ $K^1$—LlGC 13127A, 64 $K^2$—LlGC 13127A, 178 L—LlGC 17114B [= Gwysanau 25], 187 M—LlGC 19905B [= J. Gwenogvryn Evans II 2], 123$^r$

Ymranna'r rhain yn ddau brif ddosbarth: $A^1A^2$B–GI–M ac HL. Tebyg iawn i'w gilydd yw testunau'r dosbarth cyntaf, ac felly hefyd destunau'r ail. Barnwyd mai yn $A^1$CFHLM (ni chynhwyswyd $A^2$ gan ei debyced i $A^1$) y ceir y darlleniadau gorau, a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Ymhellach

ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
5 *A*[1]*C* hv. 6 *M* ddorddu. 7 *L* vniown. 8 *L* kyniar. 9 *CM* ai. 10 *M* ddu. 11 *HL* derwen. 13 *M* mae wreiddyn. 14 *HL* yn. 16 *A*[1]*CFHLM* pe. 18 *HL* kaf; *HL* kais. 19 *A*[1] Elis dotlws, *CM* Alys dotles, *F* alys dodlys, *HL* elis dotlys. 20 *F* alygssandyr, *L* alexandyr. 21 *A*[1] awdwr. 25 *A*[1] a gwyr. 28 *L* ebier. 29 *A*[1] kammol, *CL* kamnol; *H* a tyn. 30 *HL* idid; *M* gwailch. 31 *A*[1]*CF* morgain, *M* Morgan; *HL* morgan vv a morgan. 33 *F* os y droganwr; *HL* droganwr. 37 *H* ym wanyr. 38 *A*[1]*FL* raid; *H* gwaith ar, *L* gwarth ar. 41 *F* yw vn glod. 43 *HL* a vv; *F* fav; *CFHLM* pe. 44 *HL* ar y barkvtanod. 47 *HL* heddaist ow mor; *H* y ddwyd. 48 *HL* llaw a. 49 *H* klown, *L* klawn. 50 *H* dyr; *HL* dy henw draw. 51 *HL* hael heolydd. 54 *M* yn rhann. 58 *F* neithyr; *A*[1]*FHL* ar. 61 *H* Aeth.

*Teitl*
*A*[1] kowydd moliant morgan ap ffylyb dorddv, *C* K: da i forgan, *H* moliant morgan ap ffylip dorddv, *L* k moliant morgan ap howel ap ffilip dorddv, *M mewn llaw wahanol* C: Moliant a chyngor i Forgan o Felienydd.

*Priodoliad*
*A*[1]*CHL* llawdden ai k, *F* Jeuan devlwyn *yna mewn llaw wahanol:* medd rai llowdden *yna mewn llaw wahanol eto:* pwy bynnag da, *M* Llawdden.

*Trefn y llinellau*
*A*[1] 1–24, 26, 25, 27–62.
*HL* 1–40, [41–2], 41–62.

## *16*

## *I ddymuno gwellhad i Faredudd Fychan ap Maredudd o Arddfaelog*

Maredudd, marw yr ydwyd,
A marw a wnaf, mor wan wyd.
Moes dy gyngor o’th orwedd
Ym o’r Mars am aur a medd.
Pa fan y byddaf, f’annwyl?
Pwy naf, i ble’r af yr ŵyl?
Plwyfynt yw capel Ifor
A’n llys deg a’n holl ystôr,
A theml i Dduw a Thomas
Dwpa o grefft Ipográs.
Disgybl yn cadw d’esgair
Ydyw’r mab gan Bedr a Mair.
Dy feddyg, na wnaed faddau
Aur a cherdd er dy iacháu.
Dy ddolur, ail Arthur lys,
Draw a rennir drwy’r ynys:
Ar wyneb pob gŵr anael
A ddêl rhan o ddolur hael.
Asgwrn gynt, esgair neu gig,
Helm hir Hywel Amheurig,
Ef a ddug prif feddygon
Nannau â cherdd yn iach hon.
Mae’n glaf yn fy mwnwgl i
Am fod ar d’aelod weli:
Gwayw’n ymlid, gïau’n amlwg,
Gwyrthiau Duw yn graith a’i dwg.
Gwayw o gŵyr a gâi Gurig,
Gyr yn iach oll groen a chig.
Dialedd yw gorwedd gŵr
Yn cynnal deunaw cannwr.
Ofer yw hael i’r fro hon
Heb d’wyneb lle bo dynion.
Anghymen yw Maelienydd
Onid tra fych, un trew fydd.
Ef aeth gwahodd a rhoddi
A gwledd lle’r aeth d’annedd di.

Englynion gant yng nglan Gwy
A aeth hefyd, iaith afwy.
Och ŵr! hir yw'r carchar hwn,
O'th garchar ni a'th gyrchwn.
Megis y Llu Du yn dwyn
Delw Fair o Lwdlo Forwyn,
Yr oedd fil yng Ngarddfaelog
I'th alw'n gry' wrth lun y Grog.
Yfory'n iach i fwrw naid
Y'th gynnal bendith gweiniaid.
Duw a wnêl lle deui'n ŵr
Dy gerdded hyd y Gorddwr.
Troi ym mlaen tir Maelienydd,
Treio haint yw torri hydd.
Arwain di ddau filgi fawr
A baslard i Bowyslawr.
Bydd fugail carw ac eilon,
A bwrw naid a phaid â'r ffon.
Ni chei annerch gan ferch fud
O gorweddi, gŵr oeddud.
Wyth ar hugain o'th wragedd
Aeth i'r Mars i werthu medd.
Mewn cell y maen' yn colli
Mal gwenyn yn d'ofyn di.
Margred, cydgerdded a gâr
A'th ddisgwyl, Duw ni'th ysgar.
Dau lawenydd, deulu ynys,
A fo i'r lloer fry o'r llys.
Y rhain oll gwyrthiau a wnân'
A chwithau yn iach weithian.
Haul y dref o Ddinefwr,
Hon a gaiff ei hun ei gŵr.

*Ffynonellau*
A—LlGC 3049D [= Mos 146], 115  B—Llst 55, 63  C—Pen 77, 119

Tebyg iawn i'w gilydd yw AC. Dryll o un llinell yn unig yw B. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
1 *B* marwar ydwyd. 7 *AC* plovint. 18 *A* i, *C* y. 20 *AB* howel a meurig. 23 *A* mwngl. 36 *A* ac wledd. 38 *A* i eith avwy, *C* i eithafwy. 44 *C* goryf. 46 *AC* gweniaid. 49 *A* troi mylaen, *C* troi mlaen. 51 *AC* dav. 59 *AC* kyll. 63 *C* duyl. 65 *C* gwarthau.

*Priodoliad*
*A* llowdden ai kant, *C* Llowdden.

*Trefn y llinellau*
*B* 1, [2–68]

## *17*

## *I ofyn saled gan Fadog ap Hywel o Elfael dros Ddafydd ap Maredudd Fychan o Arddfaelog*

Mae seiri yn mesuraw
Milltir o aur ymhell draw;
Â thai teg y gweithiwyd hon
Ar liw nef ar lan afon;
Lle gwenith garllaw gwaneg
Llanfair dir, llyna fro deg!

Un o wenith ein ynys
Yw print Maredudd ap Rhys
A wnaeth deiliadaeth dwy wlad
I Fadog yn gyfodiad.
Fal gwalch neu fal eog yw,
Fal edn dros Elfael ydyw.

Deugar o'r un Cadwgawn,
Draw cyfnewidiaw a wnawn.
Nid oes arnaf ond siwrnai,
Eithr nod rhwng ewythr a nai.

Y mae i hwn, a mi a'i harch,
Saled fal mynwes alarch.
Caf o'r dref cwferd i'r iad,
Cyfan glas fal cefn gleisiad.
Lwfer fel y saith seren,
Lamp yw yn olau i'm pen.
Casged rhag cnwc i'w wisgaw,
Cloch hyd y ddwy foch a ddaw.
Cron fal coron cwncwerwr,
Clustog wen cylch clustiau gŵr.
Dêl am 'y nghywydd gan dant
Dur a graswyd drwy'r grisiant,
Saled fal crair San Silin,
Siopau o daselau Sin,
A ffin arian ffon eurych,
A phenwn fal y gitwn gwych.

Lliw'r iâ ydyw lle'r adain,
A lle aur mâl garllaw'r main,
Lleuad i'r iad wedy'r wau
Llyfnach no metel llafnau.
Tân neu haul, tenau yw hi,
Turnen a lle het arni.
Ei fiswrn a rydd f'aesawr
Fal blwch neu anifail blawr.
Lle'r gwallt yn y callor gwyn,
A lle golwg rhag llaw gelyn;
Tremyn a wŷl, dyn a'i dwg,
Trwy ddwy L treiddiai olwg.
Pen da mwyn pen Dewi Mynyw,
Pen Meugan, o arian yw.
Plaid i'r iad rhag pelydr ynn,
Penwisg meudwy capanwyn.

Bardd ydwy' yn breuddwydiaw,
Breuddwyd ym ebrwydd y daw,
Bod llong ym neu badell wen,
Neu bair Owain ab Urien,
A chrib fal maen uwch y ro,
Neu grogen o Gaer Iago.
Ei sail fal mail ym Maelawr,
A genau mwy no gwn mawr.
Pe caid uwch fy llygaid llus
Ben dur fal boned Iorus,
Hed o ddur cyfled â'r cawg,
Helm ydyw ar helw Madawg:
Henwi 'dd wyf hon i Ddafydd,
Helmog yng Ngarddfaelog fydd!

*Ffynonellau*
A—BL Add 14967 [= RWM 23], 84  B—BL Add 31090, $147^{\mathrm{v}}$

Tebyg iawn yw'r ddau i'w gilydd, a dichon mai copi o A yw B. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
2 *AB* Millidr aur; *A* ym vell. 12 *AB* edyn. 19 *AB* kwfert. 24 *B* Klod. 32 *AB* gwitwn. 34 *B* lle'r. 44 *AB* L. 49 *B* ydyw; *AB* brevddiaw. 53 *B* J chrib. 61 *AB* ddwy.

*Teitl*
*B* J ovyn Saeled – i.e. helmet.

*Priodoliad*
*A* llowddenn Ai kant, *B* Llowddden.

## *18*
## *Moliant Brycheiniog*

Y wlad a'r dref, farchnad fawr,
Y tai mâl gant a maelawr,
Chwannog wyf, Frycheiniog wen,
Weled dawn i wlad Dwynwen.

Daear gynnar a gwenith
Dan wybr a glaw, Duw'n bwrw gwlith,
Da dir gwyn, da Duw i'r gwŷr,
Deutu Wysg hyd at Esgyr.
Derw a main, dŵr a mynydd,
Deng milltir o heldir hydd,
Noddfa i hindda yw hon
A naw deifr yn ei dwyfron.
Trychantref yw ei threfydd,
A thrigaint o saint y sydd.
Wysg wendeg ni gwsg undydd,
A Thaf fawr a Thawy fydd.
Rhoed nef geir Hodni Afon,
Rhôl a naw heol yn hon.
Llawn yw'r gaer o'r llyn a'r gwŷdd
Llei gwŷl pob llu ei gilydd.
Duw, nid êl dan dy olwg
I'r wlad a'r dref lywiawdr drwg!
Da y gŵyr gwŷr, hyd Gaer-gaint,
Brycheiniog berchi henaint!
Mawr oedd imi o roddion,
Mwy draw 'mharch am dramwy hon.
Fy mendith rif gwlith ar glog
Fry ywch ynys Frycheiniog!
A gaid hael ac ŷd i'w hau
Eithr o fewn ei therfynau?

Dwyblaid, teg y dyblwyd hon,
Dros dir o drasau dewrion:
Rhyw Einion blanc o'r hen blaid,
Rhif o wyrda'r Hafardiaid.

Da wraidd o'r Deau 'r oedden',
Ac un parc a gawn a'u pen.
Cwmpas y caeau impiant,
Carennydd newydd a wnânt.
Cytûn fo rhyngtun yrhawg
Fry i'w chynnal Frycheiniawg.
Llawr mawr iawn Llŷr Merini,
Llew oedd hwn a'i llywiodd hi.
Brig Moreiddig ymwreiddiant
Yn bren a'i ffin, bryn a phant.
Cwmpas Cradog Freichfras fry,
Coed o hwn yn cadw hynny.
Mawr yw bonedd o Fleddyn,
Mawr a holl Gymry yw hyn:
Marchogion urddolion ddeg
Oni chawn un ychwaneg.

Mae dechrau'n canuau ni
O'r Fan hyd ar Y Fenni.
Ef a ddywad prif ddewin
Y rhed Wysg yn rhod o win.
Llenwi rhol proffwydoliaeth,
Llew gwyn o Went oll a'i gwnaeth;
Gwayw o Idwal a Godwin,
Gyrroedd Went fel gardd o win,
Ac iarll yw hyd Gaerlleon,
A gwlad ei hendad yw hon.

*Ffynonellau*
A—Llst 55, 157 $B^1$—Card 2.26 [= RWM 18], 19 $B^2$—Card 2.26 [= RWM 18], 18

Dryll yw A yn cynnwys llinellau 1 a 22 yn unig,[1] ac ymddengys mai adysgrif o $B^1$ yw $B^2$. Defnyddiwyd testun $B^1$ yn unig yn y golygiad. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Darlleniadau'r llawysgrif*
2 gwnt. 12 deifn. 15 wsc. 21 dan ayd. 29 a gyd. 38 newyd y nant. 46 a. 55 pryffydoliaeth.

*Priodoliad*
llawdden ay kant.

[1] Nodir hefyd y geiriau *hindha, trebhydh, perchi henaint* sy'n cyfateb i lau. 11, 13, 24.

*19*

## *I ofyn dau filgi gan Ddafydd ab Ieuan dros Faredudd Fychan ap Maredudd o Arddfaelog*

Dawn i dir, Duw yn ei dâl,
Dafydd, berchen tŷ dyfal,
Iawn etifedd, yn tyfu,
Ieuan, hil Forgan, hael fu.
Gŵr hael uwchben ei aelwyd,
Gŵr doeth, mawr ei gariad wyd.
Dy arfer, ŵr dioerfyw,
A’th swydd er yn ddengmlwydd yw
Magu fry o dŷ dy daid
Erchwys a’u rhoi i eirchiaid;
Magu milgwn, gwn dy ged,
A meirch, a magu merched.

Minnau yn ael Garddfaelawg,
Medd rhai, y’m meddy yrhawg,
Maredudd, waywrudd wiwrym,
Fychan, gŵyr ei amcan ym.
Am bethau teg ymbwythwn,
Am gig hydd a magu cŵn.
Cynydd fûm, canu ’dd wyf fi
Dy fawlgerdd er dau filgi,
Deugi wynion deg unoed
Decaf er Addaf erioed.
O chân’ fyned i redeg,
Uwch ŷn’ no dau ychen deg.
Ysgwieriaid is gorwydd,
Ysgaran’ hwy esgyrn hydd.
O chair hwy ym, ni ffeirwn,
Ysgubau calch, esgyb cŵn.

Ni bu yn Sieb wen os iach
Ddysglau arian ddisgleiriach.
Nid oes dim ond ystamin
O’u blew yn llwyr, a blaen llin.
Coredwyr ceirw ar adwy,
Cynt no’r gwanhwynwynt ŷn’ hwy.

Gelynion rhwng glyn a rhos,
Gorwynnach nog eiry unnos,
Gweision iach gloywach no’r gwlith,
Gwiw manachliw mynychlith.

Balch wyf o’r cair, nid gair garw,
Brenhingwn bro anhungarw.
Lle uchel y llewychynt,
Llun eirth dillad lliain ŷnt.
Cair gennyd, f’anwylyd, fedd,
Cair cŵn lliw cerrig Gwynedd.
Digon ym, da y gwn i,
O degwch, mi a’m deugi,
Aros hydd dros fynydd draw
A’m dau alarch i’m dwylaw.
Os cair, nid rhaid eisiau, cŵn,
F’ansodd fydd sew neu fenswn.

Deudal, a mi a’i dodai,
Am dy gŵn, ’y myd, a gai:
Gwawd didlawd, gydwaed Edlym,
A chŵn pan y’u herchych ym;
Caud gerdd rif y coed i gyd
Cŵn gwynion bes cawn gennyd.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14970, 62$^{r}$ B—BL Add 31090, 156$^{r}$ C—Card 2.40 [= RWM 26], 505 D—Card 2.630 [= Hafod 20], 44$^{v}$ E—Card 5.44, 193$^{v}$ [= rhif 206] F—LlGC 970E [= Merthyr Tudful], 391 [= rhif 242] G—LlGC 6511B, 90 H—LlGC 13062B, 302$^{r}$ I—LlGC 13063B, 71$^{v}$ J—LlGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 121$^{r}$ [= rhif 279] K—Llst 134, 299 [= rhif 268]

Tebyg iawn i’w gilydd yw’r rhain, a diau eu bod i gyd yn tarddu o’r un gynsail, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol. Barnwyd mai yn nhestunau C–K y ceir y darlleniadau gorau, a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Y mae rhai darlleniadau yn F sydd yn aneglur neu’n anghyflawn oherwydd traul; ni nodwyd y rhain oni bai bod achos i gredu y byddai darlleniad yn wahanol i ddarlleniad y testun golygyddol pe bai’n gyflawn. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
4 *CK* jean. 5 *D* dy aelwyd. 8 *C* oth. 10 *I* a roi. 13 *H* minnav o dalgardd valawg. 14 *CFHIK* yn; *CDG–K* maeddy. 16 *DH* yn amkan. 21 *DE* wnion.

23 *CK* chant. 24 *CEFH–K* vn. 27 *C–K* hwyr i ni. 29 *CK* o jach. 34 *GJ* na; *CE–K* gwanhawnwynt, *D* gwarchawnwynt. 37 *CEFIJK* na. 38 *C–IK* mynychlwith. 39 *F* o. 42 *FG* arth; *CK* lliaint. 44 *CK* kair y kwn; *CEFGIK* liw. 49 *CEIK* nid oes aisav, *F* ny bydd aisav. 50 *EFGI* yw. 51 *F* dwedai. 52 *C–HK* myd, *I* mvd. 53 *C–IK* ddidlawd; *CEGHIK* gydwaedd, *D* gydwaeth, *F* gydwawdd. 54 *CEF* harchych, *DGHI* harchech. 55 *EH* kaid; *CK* wawd. 56 *F* be.

*Teitl*
*C* Gan Jevan Llowdden, *D–K* llyma gywydd i erchi milgwn gwynion.

*Priodoliad*
*D* llawdden ai kant, *EFIK* jeuan llawdden ai kant, *GH* llawdden ai kant

*Trefn y llinellau*
*J* 1–42, [43–56].

*20*

## *Moliant Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Hergest a'i dri mab*

Mae eryr ym mawr ei rodd
Wedy'i roi o Wy drwodd,
Tomas, Gradog Freichfras fraint,
Tŵr ysgwâr, tros ei geraint.
Pwy a roes ond mab Rhosier
Arian y Pab ar win pêr?
Pam, ar fonedd a gwedd gwiw
Brawd iarll, na bwrid eurlliw?
Mae'n arglwydd er ys blwyddyn
Er na wisg ond harnais gwyn.
Ni ad roi aur ar neidr wen
Nes rhannu ynys Rhonwen.
Mae bryd y mab o Brydyn
Gadw rhan gŵr gyda'r hen gwyn;
Gallai'n hawdd fal Gollwyn Hen,
Gwaed Defras, gadw hyd Hafren.
Gŵr ymhlith gwenith a gwin,
Gwae Loegr o gwŷl ei egin!

Darllëwn dri llew ieuainc
Yn dri phren o windir Ffrainc:
Watgyn, llew mawrwyn lle mae,
Nai Gwatgyn o'r un goetgae;
Rhisiart, natur Herbart trwm,
Rhosier, Syr Rhosier reswm.
Neiaint iarll yn y teirllys
A gawn o'r llwyn gwyn a'r llys.
Ni ddyly bonedd Elen
Na chaen' eu parch uwch ein pen.
Mis haf yw Tomas a hon,
A'r blaen imp yw'r bobl wynion.
Deau wen a dwy Wynedd,
Dynion y meibion a'u medd.
Da yw'r ardd o dir urddol,
Duw a rôi had ar ei hôl.
Siartr fawr Syr Water farwn,
Syr Dafydd, Syr Gruffudd grwn.

Uchel yw nadredd Bleddyn
O wraidd gwaed Moreiddig Wyn.
Hyd tra fu’r trywyr ar faeth,
Am belau fu’u mabolaeth.
Tair tarian weithian a wn,
A thair ffon a thri phenwn.
Tair neuadd, tri o’r Nawyr,
Trychant a wisgant o wŷr.
Neuadd Domas, urddas oedd,
Nef fawr yn llawn niferoedd;
Neuadd Elen yn ddwylys
A wnaeth saer aur, nith Syr Rhys.
Chwellys yn unllys a wnân’,
O’r chwellys ar feirch allan.
Plant Tomas a deyrnasa
Pob rhyw dir fal pupur da.
Teiran yw’r byd daearol,
Traean hyn yn troi’n eu hôl.
Ar drichawr yr edrychem
Fal gwneuthur tri *i* o *m*:
Meistr Watgyn mewn maes drutgall,
Meistr Rhisiart mewn gwart mae’n gall,
Meistr Rhosier, emys drwsiad,
Mor dda tyf mawredd y tad!

Dwyn honsel Gabriel a gaid
I dri charw dan dyrch euraid.
Llawer cywydd fydd yn f’ôl
I’r llewod drwy’r holl heol.
Gwraidd da a gyrraedd hyd Went,
Gwedy’u llanw o goed Llinwent.
Gwest ar ieirll Hergest yr wyf
Gan gŵyl, ac yno y’u gwelwyf!

*Ffynonellau*
A—BL Add 14970, 39$^{v}$ B—BL Add 14976 [= RWM 22], 291$^{r}$ C—BL Add 31090, 135$^{r}$ D—Card 4.10 [= RWM 84], 264 E—Card 4.101 [= RWM 83], 145$^{v}$ F—LlGC 16B, 68 G—LlGC 18B, 738 H—LlGC 1553A, 82$^{v}$ I—LlGC 3056D [= Mos 160], 255 [= rhif 146] J—LlGC 9176A, 54$^{r}$ K—LlGC 13127A, 181 L—LlGC 19905B [= J. Gwenogvryn Evans II 2], 124$^{v}$ M—Pen 251, 221

Tardd y rhain i gyd o’r un gynsail ac ychydig o wahaniaethau a geir

rhyngddynt. Barnwyd mai yn BEFHILM y ceir y darlleniadau gorau a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*

2 *BHILM* wedy roi, *F* wedy rhoi; *M* roi Ov … drwodd (*sic*). 3 *BIM* gadog, *E* kradog. 8 *M* brawd i Jarll na bwried; *H* bụrt. 12 *M* cannu. 14 *I* gwy[ ]. 16 *E* denras. 18 *F* loegr a. 20 *E* o kan dir ffraingk; *F* ymdir. 22 *M* Nai i Watkin; *E* gatgvn. 25 *E* neiant; *E* yn yn. 26 *F* a llys. 28 *BFILM* chan; *M* i pharch; *M* un. 30 *BFL* wynnon, *EM* wnion. 32 *M* a; *EFILM* ai. 34 *M* ro hâd. 35 *E* Siartr. 36 *M* Davydd a S$^{r}$; *E* grnffydd, *L* Gruffyd. 37 *FM* nadred. 38 *F* moridig; *M* gwyn. 39 *F* y tra; *E* y tro wyr, *I* [hyd] tra fy y; *E* troe wyr, *M* trowyr. 40 *F* belan; *BFILM* fy mabolaeth. 41 *M* wen … an (*sic*). 42 *L* phenwyn. 45 *E* tomas. 47 *M* Neuawdd. 49 *EF* yn ddilys. 51 *BFLM* Domas; *E* tomas dyrnassa. 52 *BL* fab y pepur, *F* val y pepur, *I* fal y pypûr; *M* pepper *ac* u *uwchben yr* e *olaf*. 54 *M* hon; *F* troi ni hol, *M* troi yn i hol; *EI* i. 55 *E* edrychen. 56 *M* wneuthur; *E* en (*h.y. am y llythyren* n). 59 *BL* emrys. 60 *BFILM* morddwyd; *M* i. 62 *BI* tharw; *M* ddrych. 65 *F* da gyraed. 66 *BEFILM* gwedy. 67 *E* jerll. 68 *I* yno gwelwyf.

*Teitl*

*B* K: i Domas ap Rosser o Hergest (*ac* o Hergest *mewn llaw wahanol*) ai dri maib, *EM* kowydd i domas ap Roissier ai dri mab, *F* K. mol. Tomas ap Rosser ai drimab, *H* ḷoụḍen i Thomas ap Roesser ai dri maib, *IL* k: i domas ap rosser ai dri maib.

*Priodoliad*

*BEIM* llowdden ai kant, *FL* llawden.

*Trefn y llinellau*

*E* 1–60, [61–2], 63–8.
*H* 1–10, [11–68].

## *21*
## *Marwnad Elen Gethin o Linwent*

Y blaned heb oleuni
Yw duw Llun o’m deall i.
Duw Llun oedd dywyll i wen,
Dydd wylaw, diwedd Elen.
Llathrud, fal symud saint,
Fu ar hon heb fawr henaint.
Gwynfyd gwraig oedd ganfod gras,
Gael teml gwely Tomas.
Gwen a’i dug ei gnawd ef
O boen brwydr Banbri adref.
Ac yntau ’n eglwys Gintun,
O achos gwawr ni chwsg hun.
Hoff fu hon, hi a’i phennaeth,
Gael nef o’r gwely a wnaeth.
Mur mawr gwyn, marmor yw’r gwaith,
Fal clog Mwrog a Mariaith.
Llun gŵr mewn llan a’i gariad
Lle mae’r pridd gerllaw’r Mab Rhad.
Llen faen a mantell wen fydd
Wedy’r gau yn dragywydd.

Un gathl am Elen Gethin
Wyf â’i merch, da fu am win.
Eiddil yw lloer i ddal llys
Wedy Elen a’i dwylys.
Erydr oedd ar dir iddi,
Adail teg, ni bu dlawd hi.
Ni bu eisiau i’w neuadd
Am win i’r byd mwy no’r Badd.
Ni bu lain heb oleuni
Â chwyr a ffyn gyda’i chorff hi.
Aur a chwrel, ferch wirion,
I rifo’r saint ar fys hon.
Ofer yn ei hamser hi
Fu ceryddu câr iddi.
Ni adodd yn anudon
Nac yn dlawd o genedl hon.

Gwraig dda, Siwsanna'i synnwyr,
Ac yn ei chwrt gwin a chwyr.
Chwaer gwraig fu'n cyrchu'r Groes
Oedd hon ddiwedd i heinioes.
Merch Lŷr o flaen gwŷr ag onn,
Merch Goel, mawrwych galon;
Marsia wen mawr y soniynt
Am ei chyfraith a'i gwaith gynt.
Ac yn ffyrf bob gair o'i phen
Y disgwylir dysg Elen.
Saith oedd nesa' iaith iddi,
Wythfed dysg ei thafod hi.
Sibli oedd hi, dda ei hiaith,
Selyf i'w mynwes eilwaith.
O bu ddeufab i Ddafydd,
O'i dau fab gwyrda a fydd:
Meistr Watgyn, mab purwyn pêr;
Mae sy drawsach? Meistr Rhosier!
Os galw Tomas ac Elen
I nef fry a wnâi Fair wen,
Gwyliwn, Dduw, gael yn ddi-au
Â mwg aur am eu gwarrau.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14989, 62$^{r}$ B—BL Add 31090, 183$^{r}$ C—Card 2.1069, 24

Ymddengys fod BC yn tarddu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o A neu o gynsail debyg. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
5 *AB* llath fvd, *C* Llath fod. 10 *B* brydr; *C* ban briadref. 15 *ABC* mor mor. 16 *A* val *neu* mal, *C* Mae; *AC* mowrog, *B* mowrag. 20 *Yn A yn unig y ceir y ll. hon ac fe'i croeswyd allan a'i dilyn gan y darlleniad* draw agaaiyn dragowydd, *B* a gai y ty dragywydd, *C* Draw a gwae'n Dragowydd. 21 *B* Elin. 25 *C* Erider. 26 *C* teg ni bu ni bu Tylawd; *B* tlawd. 33 *B* ym hamser. 34 *B* Un. 35 *ABC* vn. 36 *ABC* [yn]; *C* Tlyawd. 37 *C* siws a wna. 39 *AB* kyrv kroess, *C* Cryw Croes. 42 *AC* mowych. 43 *AC* marissia; *A* ssonynt. 44 *A* gyn; *C* gwaith o wynt. 45 *C* pob. 52 *ABC* gwyr da fydd. 54 *B* drowach. 56 *A* in, *B* Jr. 57 *B* hael. 58 *B* gwarhau; *C* godreau.

*Teitl*
*B* Marnad Elin Gethin o Linwent; *C* Cowydd Ellan Gethyn.

*Priodoliad*
*A* llowdden ai kant yn farnad elen Gethin o linwent, *B* Llowdden, *C* Llowdden ai Cant yn farwnad Elen Gethyn o Lynwent.

## *22*
## *I ofyn march gan Watgyn ap Tomas o Hergest dros Siôn ap Watgyn o Frodorddyn*

Can ystad, wayw can ystâl,
Carw Tomas o'r cwrt owmal.
Wrth Danad yr aeth d'onnen,
Ein eryr llwyd, nai'r iarll hen.
Lluddiedig wyd, lladdiad gwŷr,
Llew Herast, gerllaw herwyr.
Tannu 'dd wyd, tyn yn ddidwyll,
Watgyn, bawb, eto gan bwyll:
Cydewain a Chaereiniawn,
Ceri, Arwystli, i'r iawn;
Cyfeiliog lle cai filioedd,
Cad gan waed Cadwgan oedd;
Mawddwy, o'r tir camweddol,
Mechain, doed Mochnan' yn d'ôl.
O wŷr wyd oll orau dyn
Yn geidwad hyd Langedwyn.
Cael dwy Wynedd, clo, danoch,
Costio llu Caer, Castell Coch.

Aur yw brodiad ar brydydd
At gŵyn Siôn ap Watgyn sydd.
Dau a wrantwyd o'r unty
Drwy ddawn o Fro-dorddyn fry:
Fy nhad at dy dad, a'u dwyn
(Brawd oedd o briod addwyn)
O Einion Sais, iawn ynn sôn,
A Moreiddig, am roddion.

Fo ddaw ym, fo fydd hy-wedd,
Farch gennyd o feirch Gwynedd.
Troi'i ball fal lliain allor,
Tynnu'i fwng fal ton neu fôr.
Ei ffrwyno, offer annwyd,
A chribo'i wallt ddechrau bwyd.
Gwnâi gawrnaid â llygaid llo,
Gwar baedd dan y grib iddo.

Clustau yn bigau o'i ben,
Cael lleisio, cell ei asen.
Ni ochel un rhyfelwr
O gyrrid was ag e' i'r dŵr.
Ysgwydd tarw wrth ei arwain
A'r ewyn fyth o'r ên fain.
Pump dyrnfedd lle'r eisteddwn,
Pedrain cryf yw padrwn crwn.
Ei rawn fal hyd ar winwydd
Llaes, un fath llysywen fydd.
Dyblwyd, cyweiriwyd pob carn,
Drwy hual, dŵr a haearn.
Dolau ar waith, dail ar wŷdd,
Dwyn gwydr dan ei egwydydd.
Rhedeg y bu yn fuan,
Rhoi stryd deg yn rhestri tân.
Ni chawn yn gyflawn o gig
I'm ystabl amws tebig.
Troter teg ei leferydd,
Tegan o farch, Watgyn, fydd.
Mae Cymry i'th garu heb gêl,
Mawr a chryf yw'r march rhyfel:
O'th flaen minnau'th foliannaf
At gan caer, Watgyn, o caf!

*Ffynonellau*
A—BL Add 31090, 188$^{v}$ B—Card 2.630 [= Hafod 20], 59$^{v}$ [= rhif 63] C—Card 5.44, 121$^{r}$ [= rhif 67] D—LlGC 970E [= Merthyr Tudful], 243 [= rhif 88] E—LlGC 6511B, 103$^{r}$ [= rhif 72] F—LlGC 13062B, 320$^{r}$ G—LlGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 126$^{r}$ [= rhif 288] H—Llst 6, 142 I—Llst 134, 179$^{v}$ [= rhif 277]

Ymranna'r rhain yn ddau brif ddosbarth, A–GI ac H. Tarddant i gyd o'r un gynsail ac y mae perthynas agos iawn rhwng testunau'r dosbarth cyntaf. Barnwyd mai yn B–I y ceir y darlleniadau gorau a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
1 *B–GI* Kynested waew, *H* Kynnestyd mawr; *B–I* kyn. 2 *B* kwrth, *I* kwr. 4 *B–I* yn; *H* jairll. 6 *B–GI* lle; *D* hvraist, *I* heraist. 7 *H* tan yn ddadl. 9 *B–EGHI* kyd owain, *F* Ryd owain. 10 *B* ar wystri; *I* ar. 12 *D* koed; *B* kadwgon. 13 *E* moddwy; *I* or amweddol; *B–G* amweddol. 14 *B–H* machain; *B–GI* mochian, *H* moch nant. 16 *B–GI* hen; *BEFG* llann gadyn, *CI* llan Gedyn, *D* llan

Gadan. 17 *A–I* kloi. 18 *I* kael. 20 *ABCE–I* gwyn. 21 *H* doy orentwyd. 22 *H* vro dorddy. 23 *I* had ath hendad; *B–G* oi. 27 *H* ve; *FH* ve; *BCDFGI* i wedd *EH* ywedd. 28 *H* vraych. 29 *E* toi. 30 *BD–GI* tan; *H* nay. 31 *F* i ffer, *H* yffor, *I* offor. 32 *B–EGI* rawn, *F* wâst. 33 *DG* gwnaid; *B–GI* gwrnaid. 34 *BEFGI* gwarr y baedd dan grib, *CD* gwarr y badd dan grib. 36 *B–GI* llaisav. 37 *H* yn. 39 *B–EGI* ysgwyddaü; *H* harwain. 41 *B–GI* gorweddwnn. 42 *H* kryf padrayn; *B–G* padraen. 43 *FG* rhawn; *C* hydd. 44 *A–I* llyswen. 45 *B–GI* kywiriwyd; *B–GI* bob. 46 *F* dwrn, *H* dyr. 48 *H* edwydd *neu* elwydd. 49 *B–I* rydec. 50 *G* a roi *neu* roi; *D* stret, *H* ystryd; *B–GI* restrav. 52 *B–EGI* omws, *F* o mws; *BE–I* debic. 53 *F* trater. 55 *CDEGI* dan gel. 56 *B–GI* yw. 57 *F* ath. 58 *BEG* kar; *H* y kaf.

*Teitl*
*B–EGI* llyma gywydd i erchi march gwyn, *F* kywydd i erchi march gwynn.

*Priodoliad*
*BEF* llawdden ai kant, *CDGI* je/n/n ai kant.

## *23*
## *I ofyn dau ych du gan Watgyn ap Tomas o Hergest*

Bûm yn aredig brig bron
Wrth did o nerth dau eidion.
Od erddir crindir croendwn,
Ni ddaw had newydd o hwn.
Aed iau iddo a dwyddol,
Nid ardd ddim o dir y ddôl.

Mae cywydd newydd a wnaf
I roi pwn ar y pennaf,
Ac i'r blaidd o geirw Bleddyn
Archwn help i'r ychen hyn.
Meistr Watgyn yn gofyn gwŷr,
Mae gennyd bum ugeinwyr.
Gorau llew â gwŷr a llys
Gwedy'r un i gadw'r ynys.
Gorau bugail i'r deiliaid,
Gwydr o'th ryw a gad wrth raid.
Doeth ar ôl d'ewythr Wiliam
Ydyw'ch gwaith, ni edwch gam.
Mae cyfoeth y Saith Ddoethion,
Myn Duw fry, i mewn dy fron.
Llyna'ch gwaith, lluniwch y gwŷs,
Lleihau beiau holl Bowys.
Tra fych fal drych yn y dref,
Lladron a gyll eu hydref.
Rhodio nis gwna'r ehedydd
Pan êl yr hobel yn rhydd.
Gwyllt edn i'r gwylliaid ydwyd,
Gwell no'r noddfa yma wyd.

Llafurio yw'n holl fwriad
Bara heb glera gwlad.
Dau ychen, ail Dydecho,
Od arddaf fyth, dy rodd fo:
Ych mwy'i ôl no'r Ych Melyn,
Ych fal y Brych ar fol bryn.

Os y gwelltor (nis gwylltiwn)
A gaf yn gryf ar gefn grwn,
Ar hyd rhych y rho’ y trechaf,
A’r gŵys yn gymwys a gaf.

Bardd od ardd broydd ei daid,
Bid gall rhag byd y gwylliaid.
Lle’r nos ar y llawr nesaf
At y gell i’m tŷ a gaf.
Gwely’r amaeth a’r geilwad
Wrth y côr, fal eirth, y’i cad.
Da y gallwn, a digellwair,
Canu gwawd, hwyntau’n cnoi gwair:
Cnoi cil megis canu cainc
Wych a wna ychen ieuainc;
A’u dau anal a dynnant
Yma wrth waith môr a thant
O chair y ddau garcharawr
A’u cyrn fel mêr esgyrn mawr.

Arglwydd o dad i dad wyd,
Iarll er hyn o’r lle’r henwyd.
Oedi ’r wyf, benadur iaith,
F’uchelwyr tra fych eilwaith.
Eich nawdd o chanwn iddun’,
Ni chaid dau yn dra chytûn:
Henwi gŵr hŷn nog arall
Fal yn llid o flaen y llall.
Henawdur hy iawn ydwyf,
Fal ar dy dad, arnad wyf.
Mae ’n Hirddywel fugelydd,
Ychen siop ywch yno sydd.
Mab Tomas, urddas yr iaith,
Moes di’r ddau, meistr y ddwyiaith.
Mawr yw’ch rhodd, ym erchir hwn
Wna fawr arglwydd neu farwn.

*Ffynonellau*

A—LlGC 3056D [= Mos 160], 257  B—LlGC 16129D [= copi ffotostat o Harvard MS. Welsh 8], 164  C—Llst 118, 197  D—Pen 251, 217

Y maent yn debyg i’w gilydd ac ymddengys eu bod oll yn tarddu o’r un gynsail. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*

2 *D* a. 3 *B* erdir. 5 *D* ddwy. 6 *B* ard dim. 7 *D* y. 9 *D* bleiddyn. 15 *D* yw. 16 *D* gaed. 19 *ABC* doethion. 25 *D* hedydd. 28 *B* nodua. 30 *BC* gelera, *D* golera. 32 *B* wyth. 33 *A–D* mwy ol. 34 *BD* vol y brynn. 35 *A* gwelltwr; gwllti[ ]. 37 *A* rho y, *BC* rho'r, *D* rhof y. 39 *D* o dardd; *B* broedd. 40 *D* byd gwilliaid. 42 *D* y gaf. 43 *D* gwelir. 45 *C* da gallwn. 46 *D* hwyntau knoi. 49 *D* afal *a dotiau dileu odano*; *D* y dynnant. 51 *D* garcharwr. 54 *BCD* jeirll. 56 *ABC* fychelwyr, *D* uchelwyr. 57 *B* i ddyn. 63 *B* hirdwel, *D* hirddwel; *A* figeilydd, *B* vngelydd, *D* fy mugeilydd. 66 *B* dau; *B* dwyiaith. 67 *ABC* y merchûr.

*Teitl*

*A* k: i ofyn dav ychen, *B* k. i erchi dau ychen dduon i Watkyn vychan o hergest, *D* Cowydd i erchi dau ychen duon i Watkin Vychan o Hergest.

*Priodoliad*

*AC* llowddden ai kant, *BD* Llawden ai cant.

## *24*

## *I ofyn gwalch gan Robert Chwitnai o swydd Henffordd dros Siôn Bromwych*

Siôn Bromych sy'n bwrw yma
I Fair ych dwn a'i farch da;
Mair a wnaeth fy mron yn iach
Dan ewyllys Duw'n holliach.
Ysgwïer a phererin
A heliwr wyf hael ar win.
Selu'r hydd islaw'r rhuddwr,
A chadw gwalch fu iechyd gŵr.
Câr a roes ym, cwyr ei sêl,
Dros baun bedwar ysbaniel.
Mastr Robert, rymus dribwrdd,
Ym a ry gwalch, Gymro gwrdd,
Arglwydd Chwitnai, Gwalchmai gwŷr,
Ac un carw o gwncwerwyr.
Iawn iddo wisgo ar wyn,
Orwyr milwyr, aur melyn,
Gwayw dur yn gyd â derwen,
A bord dâl Syr Robert Hen.

Mi a archaf i'm erchwyn
Darsel gwalch ar drosol gwyn.
Mae palf iddo 'mhob helynt,
Marchog yw mawr uwch y gwynt.
Dwrn dewr a dyrnod eryr
A fwrw uwchben â'i fraich byr.
Bwa croes yw ei big gron
A dyr gwallt adar gwylltion.
Ag ewinedd fal genwair
I gnithio cig noeth y'i cair.
Ei glych oedd bres, glochydd brau,
Ac a gân â'i gigweiniau,
A'i ddwy adain a ddoded
Weithiau fel llyfrau ar lled.
Ac eilwaith mi a'i gwelwn
Yn geiliog rhudd dan glog crwn.

Mâl y sydd a maels iddaw,
Mae fal draig i ’mafael draw.
Gafel gosog Llywelyn
A biau’r gwalch dan wybr gwyn:
Âi ddwrn gynt drwy dderwen gall
A charw aeth â’r braich arall.
Od â’r edn dewr i rodiaw
Â’r berrau drud i’r wybr draw,
Cysgu wna ar frig hesgoed,
Cael cwymp a wna’r ceiliog coed.
Iechyd corff yw o chaid cig
Ffesant, gwell yw no ffisig.
Iach yw’r hwyaid a chrëyr,
A seigio’r bwn dan siwgr byr.
Try gylfinir, treigl fynydd,
Fry’n bwn at frenin y bydd.

Mastr Robert, moesed rybudd,
O châr hwn iwrch na charw rhudd,
Ni thalaf, bennaeth haelwych,
Bwyth y gwalch ond o beth gwych.
Elis hir fal y seren,
Ŵyr Syr Rhys o Roser Hen,
Mewn un gair mynnwn gariad,
Mae saith help Tomas ei thad,
Nith iarll a ŵyr wneuthur lles,
Ni fyn nâg ar fy neges.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14970, 54$^{r}$ B—BL Add 31090, 164$^{r}$ C—LlGC 3056D [= Mos 160], 262 D—LlGC 5474A [= Aberdâr 1], 288 E—LlGC 13127A, 194 F—LlGC 19905B [= J. Gwenogvryn Evans II 2], 130$^{r}$ G—Llst 118, 209 H—Llst 133, 65$^{r–v}$ [= rhif 217] I—Pen 251, 225

Pur debyg i’w gilydd yw’r rhain. Ceir perthynas agosach na’r cyffredin rhwng ABE, CFG, DHI. Ni cheir unrhyw ddarlleniadau yn ABDHI sy’n rhagori ar eiddo CFG a seiliwyd y golygiad, felly, ar CFG. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
4 *C* wllys. 7 *FG* islaw rhûddwr. 13 *F* Chitnai. 24 *F* farw. 29 *C* oedd brû. 37 *CFG* gafael. 39 *CFG* ai. 43 *F* Cysgu a wna. 49 *CFG* tri; *C* glyfinir. 52 *G* iawrch.

*Teitl*
*CG* k: i erchi gwalch i Mr robert whitney.

*Priodoliad*
*CG* llowdden ai kant, *F* Llawdden.

## *25*
## *I ofyn cymorth gan Syr Water Defras o Weblai a Bodenham*

Rhyfel ar barsel o'r byd,
Trafael ar y tarw hefyd,
A beris, nawmis yn ôl,
Byd brau a bod heb reol.
Brytaniaid a wnaid yn un
Byd heddwch betai iddun'.
Duw a wnêl hyd ar Dŷ Non
Ryw lywodraeth ar ladron.
Gyrwyr mynydd ag aerwy
Heb ych a march na buwch mwy.

Y gŵr â'r milgi gwarwyn
Allai help i wellhau hyn:
Arglwydd, swydd y sy iddaw,
Fferis, dros bob fforest draw.
Ni châr frib â chywir fron
Eithr hela a threio holion.
Pob milltir lle cenir cyrn
Blodeuyn Weblai dëyrn,
Llandomas arglwydd grasol,
Llyna'i rent, llyna a'i rol.
Patrwn a Brytwn ein bro
Yw 'n lle edling yn Llwydlo.
Rhan marchog o'r Dwysogaeth
At ei ryw o'r tir a aeth.
Marchog trugarog o'r gart
O ras Duw yw'r ystiwart.
Ar y fainc ei ryw a fydd
Olynol ar Faelienydd.
Ei dad oedd (da Duw iddo)
Yntau, a'i fab, hwynt-hwy, fo,
Myn yr haul, nid tra chreulawn,
Ond ar y maes mae'n drwm iawn.
Tra fu ryfel y gwelynt
Tri maen gwn yn troi mewn gwynt.
Milgi gwyn, aml o gig oedd,
Aml gwaed i'r milgi ydoedd.

Treiglo'r wyf, triagl o ras,
Tân a dwfr at enw Defras.
Nid ufudd braint a defod,
Nid hylwydd heb f'arglwydd fod.
Edryched wedy'r achwyn,
Defras, o waed â dwfr swyn.
Galwed er Duw, gwladwr da,
Ato rwymwyr tir yma.
Rhaid i'r gŵr rhy drugarawg
Gyrchu rhai i garchar rhawg,
A gosod ffonnod a ffin,
A ffeiriadu'r cyffredin.
Nid â rhent na da i'r rhol
Oni thry i wneuthur rheol.
Ni mynnem ni golli'n gwŷr
A ddaliwyd yn gribddeilwyr.
Ni wnân' hafog ynn hefyd
Eithr ar bawb gwaethâu'r byd.

Nid archwn ni drochi'n iaith
Na dialedd Duw eilwaith;
Ni a roem yn wŷr yma
Dreth aur er llywodraeth dda.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14890, 405  B—BL Add 14970, $57^{r}$  C—BL Add 31090, $153^{v}$  D—Card 4.101 [= RWM 83], $147^{v}$  E—LlGC 16B, 208  F—LlGC 3056D [= Mos 160], 260  G–LlGC 13127A, 201  H —LlGC 19905B [= J. Gwenogvryn Evans II 2], $132^{r}$  I—Llst 118, 207  J—Pen 198, 198  K—Pen 251, 223

Y mae'r rhain i gyd yn ddigon tebyg i'w gilydd. Barnwyd mai yn ADEFH–K y ceir y darlleniadau gorau a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
2 *D* tir. 4 *D* rwol. 5 *K* Bryttaniad. 6 *K* betta. 7 *K* hyd a. 9 *ADEJK* gyrwyd. 10 *AK* na march; *DJ* a bvwch. 11 *D* a gwr. 12 *AEHIK* a allai; *AFHI* help wellhav, *K* help welhav. 13 *EHIJ* danaw. 16 *A* hêl; *J* [a]; *AD* haelion, *K* hoelion. 17 *K* lle i kenir. 18 *F* [blodeuyn] weblai *a hanner cyntaf yr* w *yn eisiau*. 20 *AEHIJ* llynal ai, *D* llawn i, *K* llyna lai (*cywiriad:* llyna ai *gan yr un llaw*); *D* llyna'r; *ADEHIJK* ail; *DJ* ol. 21 *K* y; *D* in. 23 *A* Rhom. 24 *E* ar; *K* y; *E* rhyw. 27 *A* ei faingc. 28 *D* i. 30 *K* ynteu; *H* eu; *D* hwyntwy a fo. 31 *A* thaulawn. 32 *F* iaw. 33 *H* fo. 34 *A* gwyn. 36 *D* gwaed ar y milgi; *EJ* yr. 37 *D*

wyf trwy gael i, *E* wyf lle cair y, *FIJ* wyf lle cair i, *F* wyf lle cair i (*cywiriad:* wyf trwy gael i *gan yr un llaw*); *H* tras. 38 *DH* y. 39 *DJ* fraint; *E* ddevod. 40 *D* heb arglwydd bod. 42 *J* Deüras; *DEJ* y, *HIK* i; *A* ai, *D* ar. 43 *DEJ* dvw'r; *DEFHIJ* gwladwyr. 44 *K* rwymwyr y tir. 46 *AEFHIJ* [i]; *J* garcher; *ADEFHIJ* y rhawg. 48 *ADEFIJ* o ffair adv'r, *H* o ffair edn ir, *K* a ffairad ur; *K* gyffredin. 49 *A* Nid da r, *D* ni da, *EFHIJ* nid da; *AK* i, *J* yr. 50 *DEFHIJ* [i]. 51 *A* fynnem, *D* mynwn; *DK* i. 52 *D* ddalied, *J* ddalieid. 54 *A* Eithr bawb er gwaetha r Byd; *D* gaethav r. 55 *DFJK* i. 56 *A* Dioledd. 57 *I* wyr *ac* i *uwchben yr* y. 58 *A* am Lywodraeth.

*Teitl*
*A* Cywydd i'r Arglwydd pherris, *DFHJK* k: i arglwydd fferis, *E* k. mol: Arglwydd fferis, *I* k: i arglwydd i fferis.

*Priodoliad*
*AH* Llawdden, *DFIJK* llowdden ai kant, *E* llawden ai kant.

## *26*

## *I ddiolch i Rys ap Dafydd Goch o Wynllŵg a Gwrhái am ddau alarch*

Y ddau gyw oedd wyau gynt,
Ar groywddwr y gorweddynt;
Dwyn anrheg, dau yn unrhodd,
Duw cadw Rys, deced ei rodd!
Rhys hael ym a roes eleirch,
Rhown y sêr er hwn os eirch,
Ap Dafydd Goch, bid feddw gwŷr
Ar ei gost lle ’r  â gwestwyr.
Un llaw a dyf yn lle’i dad
O Waunllŵg a’i un llygad.

Eleirch fal meirch ar y môr
I nofio rôi nai Ifor.
Môr esgyll mawr a wisgynt
Mal un waith â melin wynt.
Magu alarch y’m gwelir,
Mae’n dew ei fron, mewn dwfr ir,
A llun ei bais oll yn bêl,
A’i ben fal bwa annel.
Mae alarches mal iyrchell,
Mor rhyw ei chynnor a’i chell!
Undwf â’r iâ mewn dwfr oer,
Unlliw unllun â llawnlloer.
Dau gawell deg o ewyn,
Darnau lluwch draw yn y llyn.
Drwy galch y deryw eu gwau,
A thrwy haul eithr eu haeliau.
Plannwyd ar y plu hwnnw
Pedair S uwch pedwar W.
Aeliau mawr fal y meurwys,
A phennau baglau un bwys.
Adar a wisg du ar wyn
Fal cyrn anifail cornwyn.
Aeth y rhain â’u nyth yrhawg
O fewn llyn rhag ofn llwynawg.
Magu oll ym y gallant
Mal adar Noe ’m mol dŵr nant.

Mwy nog iarll ni mynna’ gig
Ond eleirch drwy’r Nadolig;
Gwneuthur siawdel i eleirch,
Gwledd yw hon, arglwydd a’i heirch.
Pan weler paun neu alarch
Ym ar y bwrdd, mawr ei barch,
Edwyn dyn glaredwin da
Ac ardal lle bo gwrda.
Mynfyr eu lliw, mae’n fawr lladd
Meibion wyau ’mhob neuadd.
Mal gwyddau amlwg oeddynt,
Mewn seigiau’r ieirll mân siwgr ŷnt.

Menig o fanblu mynydd,
Mynyglau’n daselau sydd;
Dwy bellen dew o beilliaid
Dan blu i gysgu a gaid;
Dail lledr eu dwylaw llydain,
Dŵr hallt a nofid â’r rhain.
Papir a fydd pob rhyw farch,
Bei gwelwn debyg alarch;
Halen tew ’mysg hwlont mân,
Haul morwyr, helmau arian.

Mab pennaeth ym a’u pennai
Ac a’u rhoes, arglwydd Gwrhái.
Arched ym lawer iwrch dof
A theirw am a wnaeth erof,
Ychen o glud a chŵn glân
A chywydd, gwych yw Ieuan!
Tri charw a’u tair chwiorydd,
Tri meirch tros eleirch y sydd.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14866 [= RWM 29], 168$^{r}$ B—BL Add 14970, 55$^{v}$ C—BL Add 31090, 129$^{r}$ D—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 343$^{v}$ E—Card 2.40 [= RWM 26], 118 F—Card 5.44, 217$^{v}$ [= rhif 252] G—Gwyn 3, 104$^{v}$ H—J 101 [= RWM 17], 451 I—LlGC 642B, 95$^{v}$ J—LlGC 970E [= Merthyr Tudful], 425 [= rhif 279] K—LlGC 3056D [= Mos 160], 263 L—LlGC 6511B, 178$^{v}$ M—LlGC 13062B, 333$^{r}$ N—LlGC 13127A, 198 O—LlGC 19905B [= John Gwenogvryn Evans II 2], 131$^{r}$ P—LlGC 20574A, 187 Q—Llst 6, 150 R—Llst 55, 113 S—Llst 118, 215 T—Llst 134, 211$^{v}$ [= rhif 336] U—Pen 69, 303 V—Pen 112, 96 W—Pen 251, 231

Pur debyg i'w gilydd yw'r rhain ond ymffurfia rhai yn grwpiau pendant fel a ganlyn: ACEGIV, BKNOSW, DH, FJLMT. Adysgrif yw H o D a chwpled agoriadol y gerdd yn unig a geir yn R. Barnwyd mai yn nhestunau AD–GI–MOPQS–W y ceir y darlleniadau gorau, a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Y mae rhai darlleniadau yn IJ sydd yn aneglur neu'n anghyflawn oherwydd traul; ni nodwyd y rhain oni bai bod achos i gredu y byddai darlleniad yn wahanol i ddarlleniad y testun golygyddol pe bai'n gyflawn. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
2 *T* gloewddwr; *J* gorweddyn. 3 *FJLMT* düw. 4 *A* dnw; *HQ* y. 5 *ADGIKO PSUVW* i rhoes. 6 *EGIV* sir; *ADEGOPS–W* i, *I* ir; *W* arch. 7 *FJT* a, *U* vab; *Q* bid veddwl, *FJLMT* o dwf, *U* gynnydd; *U* gwr. 8 *FJLMTU* gost yr a; *U* gwestwr. 9 *D* vn a llaw; *AEUV* llew. 10 *AEGV* Owain llwg, *DP* owen llwg, *FJKLMSTUW* J wavn llwc, *O* i Waullwg; *U* yn; *D* hvn. 11 *KOSW* alarch; *KOSW* march. 12 *I* [ ] a roe; *DJKOPSUW* or nef a roe, *Q* or nef y roi, *FLMT* o nef a roe; *G* nofio i roe, *V* nofio a roe (*cywirad:* nofio roe *gan yr un llaw*). 15 *DFHJLMT* eleirch. 16 *D* mae'n i fron, *K* mae hyd i fronn; *FJLMQT* dew vron. 18 *O* a; *Q* val y bwa; *D* bwa yw annel. 19 *KQS* alairchies; *I* Jrchell, *T* irchwell, *U* jyrchel. 20 *ADEGIKOPQSUVW* mor yw, *FJLMT* mor vydd; *U* yw chyngor; *DKMQ* chyngor, *AGV* choffor, *E* choffor (cyngor), *I* chyngor (choffor), *P* chymar, *W* chymor. 21 *W* Am; *Q* yn dwf; *AEIV* yn ddof ir ân i ddwfr, *G* yn ddof yr ant i ddwfr; *P* iaf; *T* dwfr yr oer. 22 *Q* yn llyn. 25 *G* galch deryw; *DP* darfy, *Q* derw. 27 *I* planwydd; *M* ar plu. 28 *AEG* bedair; *P* o; *FJLMTU* pedair. 29 *Q* mayrys, *J* maorwys, *O* murwys (merwys *mewn llaw wahanol*), *U* morwy[ ]. 30 *KOSW* o, *Q* yn. 32 *D* fel anivail anafwynn. 33 *U* a thy rrain; *P* noeth. 34 *G* o fewn; *FLT* ofn y llwynawg; *E* llwynog. 35 *K* magv allan i gallant; *Q* yn. 36 *D* noa; *I* noe n ol; *Q* mola dwnant. 37 *D* mynnai. 38 *D* onid; *KLMOQSW* alarch; *AEGU* y, *D* drwy, *FJLMT* bob, *V* drwy (*cywiriad:* y *gan yr un llaw*); *P* nadalig. 39 *P* gwneythr; *ADEGHIPV* siawndel, *FJLMT* siwdel, *U* siawtel; *AD–JLMPTV* o. 40 *FJMT* hwnn; *S* aglwydd. 41 *L* poen; *AEIPV* penn i, *D* pennav, *G* pen ei. 42 *DP* yma ar; *QTU* y, *I* a. 43 *D* gloywin. 44 *D* bytho. 45 *A* menvyr llin, *EGIV* menfyr lliw; *DFKLMOPSTW* i, *JQ* y; *DP* mwynvawr lladd; *AEGIV* fawr i lladd. 46 *W* nauodd. 48 *AE* seigiaü iarll, *FMT* saigr jairll, *KOSW* saig ir iarll; *DGIUV* iarll; *ADEGIKOPQSVW* main. 50 *J* [ ]nyglav daselav; *I* dasalav, *T* dalselav. 51 *M* bwyllen; *FJLMT* billiaid, *W* beilliad. 52 *U* da; *FJLMT* o; *D* yn cysgv i kaid. 53 *D* lledair ydwylo, *AEGIV* lledaü dwylaw, *FLMOSTW* lledr yw i dwylaw, *J* lledr ai dwylaw, *K* lledr yw dwylaw, *P* lledr a dwylo. 54 *GIV* dwfr; *Q* nofiad or hain, *FJLMT* noevid yr hain, *U* nofiand ar rrainn. 55 *U* pybyr. 56 *D* dav, *AEGIV* pei; *AEG* tebig, *I* diwig, *V* diwyc (*cywiriad gan yr un llaw:* tebic ). 57 *O* main. 58 *FJLMT* hael am arian. 59 *ADEP* pinniai, *GI* pinniau, *KOS* pynnai, *T* poenai, *U* pynia[ ], *V* piniav, *W* prynnai. 60 *G* rhoes wedi gwarhau; *FLMT* gwyr rai, *I* gwrhav. 61

*KOSW* march. 62 *Q* am wnaeth. 63 *AEGIV* i; *FJLMT* glos. 64 *FJLMTU* i; *L* aüan. 66 *FJM* a fydd.

*Teitl*
*A* i ddiolch am Eleirch, *E* J ddiolch am eleirch gan Llowdden o Fachynllaith, *FJL* llyma gywydd i erchi elairchod, *G* Cywydd i ddiolch am Eleirch, *I* llawdden *mewn llaw wahanol*, *KSW* k: ir alarchod, *M* llyma gywydd i ddiolch am elairchod, *O* cywydd i ofyn Eleirch gan Rŷs ab Dafydd Gôch *mewn llaw wahanol*, *P* J ofvn eleirch, *Q* kywydd eleyrchod, *T* llyma gywydd i erch (*sic*) eleirchod, *V* kowydd i Rys ap Dafydd Goch i ddiolch am Eleirch a roesse ef i lowdden.

*Priodoliad*
*AG* Llowdden o fachynllaith ai cant, *DIKLMQSVW* llawdden ai kant, *FJT* jeuan llawdden ai kant, *OPU* Llawdden.

*Trefn y llinellau*
*P* 1–60, 61, 61, 62–6.

## *27*
## *I ofyn dau ych coch gan Syr Dafydd Mathau o Landaf*

Duw a rannodd drwy einioes
Dau Ddafydd, Mathau, i'm oes:
Un a fu dda 'n ei fywyd,
Arall a fag yr holl fyd.
Mae un ni phlyg mwy no phlanc,
Matheias, Mathau ieuanc,
Gwaladr Dafydd ap Gwilym,
Ag un troed o dir Gwent rym,
Llwyth Godwin, Gustennin daid,
Lle dygir ieirll a dugiaid.

Mae ych mewn rhych ym yn rhaid,
Oes, o chair, a swch euraid.
Gwyddwn gynt y gweddai'n gall
Gwlltr aur i'r gwelltor arall.
Gwgawn oediog iawn ydwyf,
Gwartheca ar wyrda 'r wyf.
Yr atgor a rôi Watgyn
Ŵyr Roser ar gwrser gwyn.
Oes ych o Wy i Sycharth
Unllun a'u cyrff yn llawn carth?
Ni bu eryr na barwn
I'm bro a gymheirio hwn.
Aed f'ergyd i wlad Forgan,
Edn yw'r ail a dynn ei ran,
Dafydd Mathau, blodau blaid,
Drwy ganplas a'i drigeinplaid.
Llonaid iau, arglwydd Llandaf,
Ir fannau, a erfyniaf.

Dau ychen o'i fen a fydd
I'm iau lawn ym Maelienydd,
Dau dwrch dew a diarchen
A dry'r pridd â'r dur a'r pren.
Dau a dynnodd, dwy dunnell,
O'r dŵr y Pasg i dir pell.

Da le saing dau lo sangwyn
I gyrchu gwair neu geirch gwyn.
Ychen ŷn' cochion unoed,
Uwch eu cyrn na breichiau coed.
Ceirw yn deffro cyrn â dwyffriw,
Cwyr fflam ar eu cyrff o liw.
Felfed rhudd yn flew trwyddun'
Fal pe bai aur flew pob un.
Wrth faint Caer-gaint y'u peintiwyd,
Wrth ddau bawl yr aeth y bwyd.
Pâr o'r marwar a'r meurwys
A dynn i gyd danyn' gŵys.
Ychen da cochion yw dau,
Ni weddant i'm neuaddau.
Ni chawn dŷ i'r ychen duon
Eithr ar frig y llethr a'r fron.
Nid ofnan' allan y nos
Na lle drwg na lleidr o agos.
Nawdd i'r rhain, y ddau a'u rhoes,
Ag owdl Gurig ac Idloes.

Cadwed Watgyn, Bleddyn blaid,
Bowys hir â'i bais euraid.
Diwalled lle dyellir
Dafydd Mathau'r deau dir.
Uchel yw fy mugelydd,
Wyrion tywysogion sydd.

*Ffynonellau*
A—LlGC 3056D [= Mos 160], 259 B—LlGC 16129D [= copi ffotostat o Harvard MS. Welsh 8], 166 C—Llst 118, 198 D—Pen 54, i, 293 E—Pen 251, 219

Y mae ABCE yn debyg i'w gilydd ac ymddengys eu bod yn tarddu o'r un gynsail, ond gwahaniaetha D yn fwy. Y mae rhai darlleniadau yn C sydd yn aneglur neu'n anghyflawn oherwydd traul; ni nodwyd y rhain oni bai bod achos i gredu y byddai darlleniad yn wahanol i ddarlleniad y testun golygyddol pe bai'n gyflawn.Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
1 *D* aranno. 2 *E* Mathew. 6 *E* Mathew. 9 *D* gostennyn. 10 *E* lle i dgyri; *D* ierll. 11 *A* rhych yn rhaid. 13 *B* gwyddion; *E* gwedd yn gall. 14 *D* Gylldvr.

17 *ABCE* atkordd, *D* Aratkordd. 19 *E* a wy *ac* i *uwchben yr* y. 22 *D* yn; *A* gymharo, *C* gymhario; *E* gymhairio a hwn. 25 *D* dauit; *E* Mathew; *E* blodeu'r blaid. 26 *E* a. 27 *E* llonned. 28 *D* vanyev aer vynnaf. 31 *E* dwrch deu. 32 *E* y; *ABC* dŵr. 33 *B* a dyn o ddwy; *D* dynnoedd. 34 *D* y dir y pasc or dwr pell; *B* O dwr; *E* ar dir. 35 *D* le y seing; *B* saig. 36 *E* gyrch. 37 *BCD* vn; *B* coohion. 39 *E* yn y vro. 40 *D* dros y. 42 *E* blew. 43 *D* vaen kaer gein ny. 46 *D* dyn a heb dan gwys. 48 *D* yn. 50 *D* ethr; *E* frig llethr. 52 *D* lleidy; *E* lleidyr agos. 53 *B* dau. 54 *D* idlos. 57 *DE* lle y dyellyr. 58 *E* Mathew. 59 *A* fymeigelŷdd, *A* fymeigelŷdd. 60 *D* ysydd.

*Teitl*
*A* k: i dd mathev i erchi ych[ ] cochion, *B* k. i erchi ychen cochion i dd' Mathau, *C* k. i dd mathav i erchi ychen kochion, *E* Cowydd i Ddavydd Mathew i erchi ychen cochion—o waith Lhowden.

*Priodoliad*
*A–E* llawdden aekant.

*Trefn y llinellau*
*D* 1–10, 27–8, 11–26, 29–44, + *i*, 45–6, + *ii*, 47–60.

*i*

Os mev ychen is mychydd
Ereill ywr rrein or llyw rudd

*ii*

lly o gyrn ae lliw ae gwedd
mal lly gwyn hen llaw gwynedd

## *28*
## *I ofyn tarw coch gan Risiart ap Siancyn Twrberfil o Landudwg*

Edwart a'i wŷr âi drwy'r tân
A rôi darw ar ei darian.
Anifail iawn ei ofyn
Yw tarw ym mhob tir am hyn.
Â'm genau mi a ganaf
I darw rhudd o dir yr haf.

Gweais gywydd, gwaisg awen,
Gan gainc i Forgannwg wen.
Ennyn enw Siancyn i'n sir
A wnaeth Rhisiart, ni threisir.
Ei fwrdd ef a'i feirdd a'i wart
Y sydd eilbwrdd i Silbart.
O Dwrberfîl bwy gilydd.
Y daw'r gwalch o flodau'r gwŷdd.
Holl synnwyr y Lleisoniaid
Wrth ei gorff a'i nerth a gaid.
Gown gwyn i Forgannwg yw,
A gwydr Brycheiniog ydyw.
Urddedig yw o'r ddeudir,
O'r un tad gorau 'n y tir.
Nid rhaid at y mab trada
Erchi dim ond cyrchu da.
Eistedd a rhoddi'n wastad
A fernir ar dir ei dad.

Tair gwlad y cawn had o'i hil,
Tarw o borfa Twrberfil;
Twrci o rasbi'r Ýsbaen,
A'i grys o sangwyn a graen.
Gwisgodd yr haf, gosgedd rhwyd,
Gown ffres mewn gwin a ffrisiwyd.
Gorwedd y bu ar gwrel
Gyda'i fam ar y god fêl
Dan yr haul ar dyno 'r  haf
A'r nos aur yn ei nesaf.

I’r carl mae blew ysgarlad
A roddai lifrai i’r wlad.
Urddol yw, hardd ei lewys,
Yn euro lloi yn wŷr llys.
Blew ei glust, a dwbl ei glod,
Braich hwn fel pridd Brycheiniog;
Ei gyrn ef fel gwern neu onn,
Ac â’i dâl fel gwaed eilon;
Bol oedd fal bual iddaw,
A phen trwm oliffant draw;
Gwddwg tebig i Iddew,
A rhawn llaes mal yr hen llew;
Dyrnau baedd dewra ’n y byd,
Das o gŵyr diseguryd;
Dau afal wrth wialen
Yn dwyn llwyth un ffrwyth â phren.
Chwibanogl yw uwchben glan
A’r chwebuw yn rhoi chwiban,
Ac ar wich egori iad,
Ac â’i enau bugunad.
Mae ynddo lais ni threisir
Mal ton pan fai’n malu tir.
Mi a’i rhof lle mae’r hafod
(Mal byrdwn y gwn yw’r god),
Arth gwiw, ar wartheg Ieuan,
A fu yn tyfu ’n y tân.
E wna lloi yng Nghefn-y-llys
Drwy Gymru fel draig Emrys.

Ef a bores, gwres y graid,
Yr un erw â’r oen euraid.
Ef a ddaw, od wyf ddewin,
Eidion lled no’r dunnell win.

O serch y tarw nis archwn
Onid o serch annerch hwn.
Chwennych nid wyf dda chwaneg:
Chwant tad ychen cochion teg.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14866 [= RWM 29], 163$^{v}$ B—BL Add 14875 [= RWM 30], 190$^{r}$ C—BL Add 14882 [= RWM 31], 143$^{r}$ D—BL Add 14967 [= RWM 23], 20 E—BL Add 14970, 46$^{r}$ F—BL Add 14976 [= RWM 22], 111$^{r}$ G—

BL Add 31090, 126$^{r}$ H—Brog (y gyfres gyntaf) 1, 123$^{r}$ I—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 344$^{v}$ J—Card 2.114 [= RWM 7], 571 K—Card 3.2 [= RWM 27], 127 L— Card 4.10 [= RWM 84], 370 M—Card 5.44, 196$^{v}$ [= rhif 212] N—CM 12, 657 O— CM 242, 181 P—Gwyn 3, 95$^{r}$ Q—Gwyn 9, 29 R—J 101 [= RWM 17], 453 S—J 137 [= RWM 12], 24 T—LlGC 673D, 64 U—LlGC 970E [= Merthyr Tudful], 399 [= rhif 250] V—LlGC 3046D [= Mos 143], 179 W—LlGC 3050D [= Mos 147], 41 X—LlGC 3056D [= Mos 160], 252 Y—LlGC 3057D [= Mos 161], 307 Z—LlGC 5265B, 38$^{r}$ a—LlGC 6471B, 167 b—LlGC 6499B, 204 c—LlGC 6511B, 255$^{r}$ d—LlGC 8497B, 73$^{v}$ e—LlGC 13062B, 536$^{r}$ f—LlGC 13125B, 274 g$^{1}$—LlGC 13127A, 55 g$^{2}$—LlGC 13127A, 174 h—LlGC 17114B [= Gwysanau 25], 202 i—LlGC 19905B [= J. Gwenogvryn Evans II 2], 122$^{r}$ j—LlGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 170$^{r}$ [= rhif 400] k—Llst 35, 97 l—Llst 123, 348 m—Llst 133, 136$^{r}$ [= rhif 460] n—Llst 134, 237$^{v}$ [= rhif 386] o—Pen 114, 168 p—Pen 221, 167 q—Pen 251, 229 r—Stowe 959 [= RWM 48], 101$^{v}$

Gellir rhannu'r rhain yn grwpiau fel a ganlyn: ABDGIPRWXZhkm sy'n ymrannu ymhellach yn AGIPRXkm, B, DWZh; CEFJLNOQSTYbdfg$^{1}$g$^{2}$il sy'n ymrannu ymhellach yn CJOSTYbdl, Eg$^{2}$, FLNQg$^{1}$i; H; Kr, f; MUcejn, grŵp o destunau sy'n perthyn yn agos iawn i'w gilydd ac sy'n ymrannu ymhellach yn M, Uce, j, n; Vo; a; p (sy'n cynnwys llau. 1–2 o'r testun uchod yn unig); q. Barnwyd mai yn EGLNOQRTg$^{1}$g$^{2}$p y ceir y darlleniadau gorau a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*

1 *Ffi* drwy dan, *S* trwy r tan (*cywiriad*: drwy dan *gan yr un llaw*). 2 *K* U ry darw nyd arian, *r* yny darw nytharyan; *b* roes, *i* res; *JVb* ynn; *Ba* ar darian. 3 *e* anevail o jawn ovyn; *J* y-yfel *a'r llythyren rhwng y ddwy* y *yn ansicr*, *Kr* ü nevail, *MUcejn* anevail; *Yl* awn, *o* kawn; *FSZdi* yw, *Jb* ym, *Yl* oi. 4 *C* y, *Jb* fo ar, *MUaejn* ywr, *S* fo r (*cywiriad:* yw *gan yr un llaw*), *Yd* fyr, *l* mab; *K* ym heb; *d* ymhob tarian hyn. 5 *f* Dewr genau daroganaf; *K* geneay; *WZh* mine. 6 *f* y daw'r Rhudd; *DZhq* o wlad. 7 *K* Gwayes, *O* Gwëaist; *KVnr* gwisg. 8 *Ca* gen, *K* Gany, *f* gain; *b* grink; *m* or, *o* o; *A* forganawg, *b* forgannog. 9 *U* enyn Siankyn yw yn sir; *CJb* yn vn, *K* Yn n, *Z* Em yn, *l* yn nyn; *IXkm* enyn sieinkin, *a* Eginin siankin; *V* Jankyn; *C* vn, *er* yn. 10 *a* am waith; *Yl* wnaeth i rissiart; *B* risiar, *C* Ricyard, *K* Ryssiad, *V* Richart; *h* theisir, *o* thryssyr. 11 *CFIJSXYbdfiklm* fardd; *BDKWYZhlr* i; *FIJSXYbdfiklm* fwrdd, *C* vwrd, *n* vardd; *Bh* i; *C* wardd (*cywiriad:* ward *gan yr un llaw*). 12 *MUcejn* a sy; *Fi* eilbardd, *f* eilbarth; *C* selbard (*cywiriad:* selbardd); *q* y; *D* sal bart. 13 *b* J; *Jb* dwr babil, *K* ddwr Berfil, *Z* dwr vervail; *DWZh* yw gilydd, *IXk* pwy gilydd, *K* Bigaylydd, *f* bengilydd. 14 *M* o; *h* gweilch; *B* fal bloer, *DZ* val blodav, *MUcen* val blodav r, *W* va bledev (*cywiriad:* val blodev'r), *h* va bledev; *j* val blodav [ ] *AP* [Holl]; *AP* synnwyr yr holl

Saesoniaid, *a* howell synnwyr lle soniai; *Xm* A'i synwyr; *i* synwyr Lleisoniaid; *IJSXYbdklm* yn; *B* lle sonand, *IXYklm* llei soniant. 16 *a* dy gorph ith nerth di gai; *Xkm* yn i; *B* gand, *IXYklm* gant, *K* caid. 17 *Jbfq* o; *B* forganw; *MUcen* wyd. 18 *V [A]*; *Y* ac -wdwyr *a llythyren gyntaf yr ail air yn aneglur*, *l* ag owdwyr; *BS* gwedr, *j* gwdr; *B* bercheiniag, *a* morganwg; *j* brychain[ ]; *MUcen* ydwyd. 19 *V* y ddeydir, *o* ei ddevdir, *q* urdeu dir. 20 *Vo* ar; *c* taid; *MUVceno* yn tir. 21 *CFSi* raid ym at wr, *Jd* rhaid yn at wr, *a* rhaid y ti fab, *b* rhaid yn a wr, *n* raid yt y mab, *f* rhaid ym at wr, *o* rhaid ar i fab; *W* rraid itti fal y tad taf *a'r darlleniad amrywiol* wr tradaf *uwchben* fal y tad taf *mewn llaw wahanol*, *Z* rhaid gan hael hvala, *h* rraid i ti val y tad taf; *AP* at y gwr, *Bo* at fab, *D* at i val, *IXYklm* at wr, *V* at i vab; *o* tre o da. 22 *AP* eiriech; *h* on; *AP* erchi. 23 *B* eise; *o* rhoy, *o* rhoi da. 24 *o* arferv yr andir y dad; *IXfkm* i bernir, *Jb* ar fernir, *K* U farnyr, *W* arferir, *a* ith fernir; *CJSVW Yabdfil* dy. 25 *MUcen* tarw; *IXim* gwlad kan, *J* gwlad kawn, *K* gwlad cad, *b* gwlad kawn; *c* gwlad a had; *D* a gau, *MUen* a gad, *V* i kaf, *WZh* agan, *amo* a gaiff, *p* y kad; *B* a gaiff [had]; *h* hae; *CJ* ai, *FSdi* or, *MUcenq* a, *f* o. 26 *Kr* borfa r; *Jab* tir barfil, *m* Twr Beifil. 27 *DMUZaekmn* Twrki rrasbi, *X* [ ]rki Rasbi, *b* Twrki asbi, *c* torki rosbi, *q* Twrki Kasbi; *BYl* yr asbi, *IJVb* or asbi, *S* or rasbi, *f* o raspi'r, *h* o jasbi; *F* o rasbi yn ysbaen, *W* o rasbi nev rysbaen (*cywiriad:* o rasbi nev y rysbaen); *B* ar ysbaen, *DIXZackmq* ner ysbaen, *Jb* y rysbaen, *MUen* ner Sbaen, *Yl* or ysbayn, *h* nev rysbaen; *g* ysben (Ysbaen). 28 *Z* o; *X* [Ai] grys; *Z* gryc; *IMUVXcekmnq* fel, *K* ay, *Z* yn, *f* o'r; *V* sangwm; *DWh* yn, *Pq* y, *Jb* i, *k* ei; *IXk* i raen. 29 *MUcenor* gwisgoedd; *o* oer; *M* gwasgoedd, *Uen* gasgoedd; *o* gesgedd s lwyd; *C* rhwydd, *Kr* rwydd, *S* rwydd (*cywiriad:* rwyd *gan yr un llaw*). 30 *K* Gwnffris (Gwnffres); *q* ffrais, *r* ffris; *W* ffres gwn a (*cywiriad:* ffres mewn gwin ei *gan yr un llaw*), *h* ffres gwn a; *C* mawn [gwin] i; *Kor* gwyn; *DPCMUben* y; *C* ffasiwyd, *Kr* ffrisswydd, *MUcen* ffryswyd, *S* ffrisiwydd (*cywiriad:* ffrisiwyd *gan yr un llaw*), *o* ffryswayd. 31 *K* a by; *g* a; *KMUcenr* gwarel. 32 *K* Gida y fam; *o* fam y gad; *MUcen* vam i god o vel; *BDIKV–Zahklmqr* val y; *Jb* ar god; *K* goed=fel. 33 *Z* yn, *i* dawn; *Kr* hayl yordainor haf, *a* haül a down ir haf; *Jb* ar dan y rhaf; *km* dvno; *Wh* dyner haf, *Z* dyno yn haf. 34 *F* nos bydd avr yn nesaf, *K* nos a gayr n nessaf, *S* nos avr yw i nesaf (*cywiriad:* nos bydd avr yw nesaf *gan yr un llaw*), *W* nosswaith oer yw nessaf, *Z* ar noswaith avr yw nessaf, *a* nos mae aür yw nessaf, *h* noswaith aer yw nesaf, *fi* nos bydd aur yw nesaf, *r* nos ag ayr yn nessaf; *m* yn y. 35 *MUcen* y karl a blew r ysgarlad; *CFIJSXYZbdfiklmq* karl i mae; *a* ble; *C* [blew]; *D* y sarlad, *H* os garlad, *IXZ dfkmq* Sgarlad, *V* o scarlad. 36 *DH* ar; *q* rodde i lifre; *o* lyfrey; *BJb* i, *a* yw. 37 *Jb* yn wrol yw yn hardd lewys; *Wh* hwrddol, *o* vrdd. 38 *DZ* i, *Wah* a; *Wah* evre; *D* lloi wyr y llys, *K* lloi n y llys, *Wh* loe yn wyr oi lys, *a* lo i wyr lys; *Z* i wyr; *r* yn ü llys; *IJXbkmo* wr. 39 *MUcen* a blew i glüst abl yw i glog; *Wh* y; *h* o ddwbwl; *H* dwl, *q* doubl; *o* y. 40 *Y* barcheinioc. 41 *aq* ai; *Y* gern; *q* eef; *K* wern. 42 *H* ar, *IJYbkm* oi; *H* tal; *U* jlion. 43 *W* bwla (*cywiriad:* bola),

*a* bo[ ], *h* bwla; *WZah* [fal]; *Z* Bayol, *M* brol; *M* jddew; *B* eiddaw, *K* iddew. 44 + *MUcejn* ef a wna lloi ynghefn y llys / drwy gymry mal draig Emrys; *K* trwn, *h* trwyn; *W* trwyn o lyffant (*cywiriad:* trwm oliffant), *d* trwm val oliphant; *S* val eliffant (*cywiriad:* Eliffant *gan yr un llaw*). 45 *Ucen* bol oedd val büal jddew; *DFfiq* a gwddw; *D* tebic i ddew; *S* eiddew. 46 *K* llas; *F* fall; *P* i'r; *K* lew. 47 *H* dyrrnav bav bedd dewrra; *K* badd. 48 *a* a. 49 *V* da i eirial welh i wialenn, *o* da y eyryal wrth y wialen; *MUn* aval or vn jalen, *cen* aval ywr vn jalen. 50 *o* dav'n dwyn s lowyth vn frwydd a fren; *V* day 'n dwyn; *q* dwyn llwyth yn un ffrwyth. 51 *CJb* chwibanagl, *H* chwibenigyl, *Kr* hwibanog; *Wh* chwybanoc lew; *Jb* ywchi ben, *Kr* ar benn. 52 *g* a; *MUcen* arch chwebv; *H* ag ar chwebúw rroi; *JKPVWbhor* chwebywch; *CWZh* a roe, *D* yr hoe, *M* a roi *efallai, a* roi *yn aneglur*, *Ucen* ar i; *B* rhoddi; *K* whiban. 53 *C* ai wich, *MUcen* or wich; *o* ar y wych; *H* iwich; *W* wyth gawr oi iad, *h* wych gawr oi iad; *DFIMUXckmn* egorir, *o* agorei; *Fi* egori i jad, *K* agori y iad, *a* y gor ai iad, *e* agori r jâd, *f* agor ei iâd. 54 *V* a genay yny bugynad; *AMPceln* oi; *Kr* enay n byguyad; *Jb* bvgyniad, *MUcen* byganiad, *a* byganad. 55 *Z* vn Anwydav o nodir; *ADHVace* yndo, *IXYkm* yntho, *MUn* yndoe, *f* ganddo, *r* yddo; *K* iddo bais; *o* llas; *Wh* nis; *B* threiir, *Jb* thressir, *K* thrasir, *Wh* keisir, *f* saisir, *o* ddryssyr. 56 *V* val (*cywiriad:* mal *gan yr un llaw*), *Z* ar; *D* donn (tonn); *AXm* tonn yn emylaü, *B* ton pan fo ymalv, *H* ton af ar ymola, *FSfi* tonn pen vai yn ymyl, *I* tonn pen fo'n emylav, *J* ton yn malvr, *K* ton a fay n maly, *Mcen* tan pan vo n malv, *P* tonn yn ymylau, *U* tan a vo n malv, *Wh* ton pan valor, *Z* tonn pann vai'n malv'r, *a* ton ar ymylaü, *b* ton y malu'r, *k* tonn pen yn emylav (*cywiriad:* tonn yn emylav *gan yr un llaw*), *o* tonn pan fo'n malu, *r* tan vai n maly. 57 *Wh* mine; *CYdl* minay af lle, *JSb* mynne r haf lle; *Z* a rrof, *h* arro, *o* a rof; *Vo* ynn yr hafod; *Z* mae i havod. 58 *Z* y vann lle mynnwn i vod; *AP* un, *Jb* ffa; *MUcen* brytwn, *V* bûrddwn; *AP* a gwn or, *B* ir gwn ner, *D* y gwn ner, (*F*) a'r *ond dichon hefyd ei fod mewn llaw wahanol*, *HMUcein* y gwn ar, *IXkm* or gwnn ir, *Jb* fal gwn oi, *V* ir gwn ar, *Wh* i gwn nev, *a* y gwn or, *f* y gŵn a'r, *o* yr gwn ar, *o* ir gwn neu. 59 *W* areth, *f* aredd, *k* Ath; *Jb* wiw, *Wah* giw; *Vo* wrth; *l* ar warthegfan; *B* warthe, *h* warddec. 60 *BIWZ* yn tan, *C* miawn tan, *D* n tann, *FJSYbdfiloq* mewn tan, *h* yn etan. 61 *MUcejn* ef a wna, *i* A wna, *q* fo wna. 63 *C* fo; *Fai* fo bores, *HVWh* efo bores, *S* ef a bores (*cywiriad:* fo bores), *f* Fe bores; *K* borws; *b* bores y gwrês graid; *Y* gwers, *a* gweres; *CFSi* kynnes i kaid, *Jb* y gwres graid, *f* cynnes ai caid; *ADMPUZcen* a; *APcen* gwraid, *DZ* gwrraidd, *Kr* gyrraid, *MU* gaid, *o* grayd *ac* e *uwchben yr* y, *q* graid (*cywiriad:* gwraidd *gan yr un llaw*). 64 *Wh* or, *q* ar; *i* yr oen; *H* oenen; *DZ* eurraidd, *o* evred. 65 *C* fo; *H* efo ddaw, *Wh* j voddaw, *r* ef eddaw; *a* dwyfi ddewin. 66 *H* enidion; *I* [lled]; *m* dwnell. 67 *Vo* er; *AP* ir, *DIXkm* [y]; *H* ttarr; *Z* mi; *BKc* erchwn. 68 *ACIKPWXhkmr* ond; *BCFJSYbil* er, *q* oes; *AIPVXkm* Serch i annerch, *Kr* sserch ar anerch; *JMbcj* hanerch; *C* annerch a wn, *Y* anerch i hwn, *a* anerch y hwn; *D* wnn. 69 *K* Whenych; *q* ni wnaf; *MUcen* a wna da, *j* y wna da; *C* wyf y chwaneg;

*HMcjq* ychwaneg, *Kr* drachwaneg, *U* gwaneg, *o* vn chwanneg. 70 *APZ* ond chwant tad i ychen teg; *Wah* ond chwant; *b* Cwant; *a* ychen *a* lloi *uwch ei ben gan yr un llaw yn ddarlleniad amgen neu'n gywiriad*; *C* koch[ion], *h* kochlon.

*Teitl*
*APo* cowydd y tarw coch, *C* Kowydd ir tarw ryddgoch, *F* Kowydd i ofyn Carw, *JSVai* ko: y ofyn tarw, *Kr* Dyvalyad Tarw, *M* llyma gywydd arall ir tarw koch, *U* llyma g[ ] i'r tarw, *W* kowydd i ofyn y tarw coch (*yna mewn llaw wahanol:)* i Risiart Twrbarfyl o Forgannwg, *X* k: vn or teirw cochion, *Y* k: i ofyn tarw o waith llowdden, *Z* kowydd i ovyn tarw koch, *b* Cowydd ei ofyn tarw, *cj* llyma gywydd y tarw koch, *e* llyma gywydd i erchi tarw kôch i Siankin ap Risiart Twrbil, *h* k i ovyn y tarw koch, *l* Cyw: i ofyn tarw coch i Risiart … o Dwr Barfil ym Morganwg dros Siancyn …, *m* Etto i'r Teirw Cochion, *n* llyma gywydd i erchi tarw koch i Siankin ap risiar twrbil, *q* Cowydd i *erchi* Tarw coch i Rissiart Twrbil.

*Priodoliad*
*A–DFHIJSV–chj–oq* llowdden ai kant, *Kr* llawddyn ay kant, *MUe* jeuan llawdden ai kant, *P* Llowdden o fachynlleth yng-hyfeiliog a'i canodd (*ac yna mewn llaw wahanol:*) gwr o Gastell Llwchwr ym Morganwg oedd Llowdden, *di* Llowdden.

*Trefn y llinellau*
*AIPXkm* 1–18, [19–20], 21–48, [49–50], 51–60, [61–2], 63–70
*B* 1–18, [19–20], 21–44, [45–6], 47–8, [49–50], 51–60, [61–2], 63–70 (*llau. 63–4 wedi eu hysgrifennu ddwywaith*)
*CJSYbdl* 1–18, [19–20], 21–2, 25–6, 23–4, 27–44, 47–8, [49–50], 45–6, 51–60, [61–2], 63–70 (*llau. 57–60 yng nghwr y ddalen yn Y*)
*DZh* 1–18 (*llau. 15–18 yng nghwr y ddalen yn h*), [19–20], 21–22, [23–4], 25–48, [49–50], 51–60, [61–2], 63–70
*f* 1–6, + i, 7–18, [19–20], 21–2, 25–8, + iii, 23–4, + ii, 29–44, 47–8, [49–50], 45–6, 51–70
*Fi* 1–18, [19–20], 21–2, 25–6, 23–4, 27–44, 47–8, [49–50], 45–6, 51–70
*H* [1–32], 33–48, [49–50], 51–8, [59–60], 61–70
*Kr* 1–18, [19–22], 23–35, [35–6], 37–48, [49–50], 51–6, [57–62], 63–70
*M* 1–4, [5–6], 7–14, [15–16], 17–22, [23–4], 25–6, 28, 27, 29–32, [33–4], 35–6, [37–8], 39–40, 43, [44–5], 46–60, [61–2], 63–4, 41–2, 65–70
*Uce* 1–4, [5–6], 7–14, [15–16], 17–22, [23–4], 25–6, 28, 27, 29–32, [33–4], 35–6, [37–8], 39–40, 45–60, [61–2], 63–4, 41–2, [43–4], 65–70
*Vo* 1–12, [13–16], 17–60, [61–2], 63–70
*W* 1–18, [19–20], 21–2, 25–6, 23–4 (*mewn llaw wahanol*), 27–48, [49–50], 51–60, [61–2], 63–70
*a* 1–4, [5–6], 7–12, [13–14], 15–18, [19–20], 21–44, [45–6], 47–8, [49–50], 51–60, [61–2], 63–70

*j* 1–4, [5–6], 7–14, [15–16], 17–21, [22–40] (*y testun wedi ei ddileu*), 41–42, [43–63], 64–70
*n* 1–4, [5–6], 7–14, [15–16], 18, 17, 19–22, [23–4], 25–6, 28, 27, 29–32, [33–4], 35–6, [37–8], 39–40, 45–60, [61–2], 63–4, 41–42, [43–4], 65–70
*q* 1–6, [7–8], 9–12, [13–14], 15–34, 37–8, 35–6, 43–6, 39–42, 47–62, 63–70

*i*

Daw un o'r Teirw deune'r tân
Da fawrged o Wlad Forgan

*ii*

Llwydd orchwyl lle ydd archaf
O'r tir gwych a'r Tarw a gaf

*iii*

Teirw da nid ail Tir au dwg
A gawn o dir Morganwg

## *29*

## *Moliant Ieuan Gwyn ap Gwilym Fwyaf o Bryscedwyn a Goleuddydd*

Hir yr wyf, hwyr arofyn,
Hwy no deng mlynedd yw hyn,
Heb fyned, giried gwiwrym,
Hyd ar dir a elwir ym
(Gwlad eisoes caiff glod Asia),
Gwhyr deg lle mae gwŷr da.
Yna'n dda, iawnwin ddiod,
Y cefais tra fynnais fod,
Arial gwrdd ar ôl gyrddwawd,
Aur a gwyrdd am eiriau gwawd.
Cyd bo aml, ced heb omedd,
Ym aur ym Mhowys y medd,
Ni bydd llawenydd ynof,
Ni'm cair hanner awr i'm cof,
Yni welwyf yn wiwloyw
Y gŵr o lan Llychwr loyw
A roes, ni'm gad hir eisiau,
Er yn fab ei aur yn fau:
Gwrdd Ieuan, gwir a ddywawd,
Gwyn a gaiff cyfran o'm gwawd,
Fab Gwilym, drafn erddrym draw,
Fwyaf, hwyr ym ei feiaw.
Gwawr a mur yw, o'r gair mau,
Glan Llychwr, galon Llachau,
Gyrddhawdd llyw bawdd, llew â bar,
Gyrddgarw Deheubarth gerddgar.
Gwardain hoff, gŵyr dwyn ei hawl,
Gwhyr ydyw gwaredawl.
Gwân aer a ŵyr â gwayw noeth,
Gwaladr wtresgadr trawsgoeth.
Gyda'r mur, gwawdair morach,
Y bûm er yn herlod bach;
Yna y cefais, enw cyfiawn,
Yn ei lys yn annwyl iawn
Ifor wisg o fawr wasgawd,
Ef a ddywedir, wir wawd.

Pob difro, pab diwywfraint,
Â i'w fro'i hun i fwrw haint.
Y gleisiad, blaenuriad blin,
Naf, a gyrch ei gynefin;
Minnau a af lle mynnwn
I gael dadeni, od gwn,
I'r llys o lan, arlloes led,
Llychwr, yno y'm lloched.

Y dydd dros y mynydd draw
Y delwyf i Landeilaw,
Groeso a gaf, gares goeth,
Gan Oleuddydd gain loywddoeth.
Dyn o hil, dieiddil dasg,
Domas, rhoes gwin a damasg.
Amlwg cerdd a wnaf erddi,
Y mae'n ddiryfedd i mi
Dyfod yn wir heb hiraeth
Â mawl i ddiolch fy maeth.
Gorau merch ar y gair mau
Yw Goleuddydd o'i gwleddau;
Ac nid gwell, lin Cadell lân,
Garw nawosgl, gŵr no Ieuan.
Gorau dau ŷnt o Gaerdyf,
Gwn, hyd Gaer Arfon gennyf.
Gorau unwraig, gwir iawnrent,
A gorau gŵr hyd Gaer Gent.

Llwyr yr eurasant fy llaw,
Lled yw eu clod no Llydaw,
Llugyrn heirdd lle caiff beirdd bwyth
Llandeilo, llawen dylwyth.
Llys gynnal, lles a genynt,
Llyna rai da erioed ŷnt.
Llawen fydd beunydd bob un,
Llwyddiant yn wellwell iddun'!

*Ffynonellau*

A—BL Add 14970, $44^{v}$ B—BL Add 15003, $57^{v}$ C—BL Add 31090, $159^{r}$ D—CM 12, 114 E—LlGC 673D, 355 $F^{1}$—LlGC 13125B, 266 $F^{2}$—LlGC 13125B, 598 G—LlGC 13127A, 171 H—LlGC 19905B [= J. Gwenogvryn Evans II 2], $121^{r}$ I—Pen 99, 269

Y mae'r testunau hyn yn ddigon tebyg i'w gilydd. Ceir perthynas nes na'i gilydd rhwng B ac F[1] a mwy o amrywiaeth rhyngddynt a'r testunau eraill. Barnwyd mai yn HI y ceir y darlleniadau gorau a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Ychwanegwyd amrywiadau BF[1] er diddordeb. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*

2 *BF*[1] A hwy na denglwydd. 6 *H* Gwyhyr. 9 *BF*[1] gwrdd arail Gyrddwawd. 12 *BF*[1] a medd. 13 *B* bydd hoyw wenydd ynof; *F*[1] awenydd. 16 *F*[1] Lynllychwr. 20 *BF*[1] gyfran. 24 *BF*[1] Glynn; *H* llywr. 25 *HI* gyrddawdd; *BF*[1] Llyw'r; *BF*[1] Llew'r bâr. 28 *H* Gwhyr. 30 *BF*[1] wttresgar. 33 *BH* Yno. 37 *B* diwiwfraint, *I* di wyw fraint (*cywiriad:* di wiw fraint). 38 *BF*[1] Jw Fro hardd af i. 41 *BF*[1] Minnau af lle y mynnwn. 43 *F*[1] Lynn. 47 *BF*[1] Croeso; *BF*[1] cares. 48 *F*[1] gwen loywddoeth. 50 *BF*[1] win. 60 *BF*[1] Gaernarfon. 62 *BF*[1] Gwent. 63 *BHI* y heurasant.

*Teitl*

*B* Cywydd i Jeuan ap Gwilym Fwyaf o Lanllychwr o Fro Ụyr, ym Morganwg, *F*[1] Cywydd. i Jeuan ap Gwilym fwyaf o Lynllychwr o Fro Ụhyr ym Morganwg, *H* J Jeuan Gwyn ap Gwilym Fwyaf o fro Ŵyr ym Morgannwg plwy Llandeilo, *I* Llanllychwr. J Jeuan Gwyn ap Gwilym fwyaf o fro ŵyr ym morganwg, plwyf Llandeilo.

*Priodoliad*

*BF*[1]*HI* Llawdden ai k.

*Trefn y llinellau*

*BF*[1] 1–4, + i, 5–70

*i*

Gwlad ym yw golud ym oedd
Gael einioes yn un o'i glynnoedd

## *30*
## *Ymryson Hywel Swrdwal â Llawdden am ferch*

Balch yw Llawdden eleni,
Banw mawr, medd pob un i mi.
Marchog yw, pob merch a gâr,
Mae'n ŵr gweddw mwy no'r geuddar.
Os hyn fydd ni soniaf i
Mwy dianair amdani.
Talm o'm bwriad, nid gwladaidd,
Taro wrth hwn, liw torth haidd,
Wedy gwin a digoni,
A dwyn ei farch danaf i.

Mi a gawn farch, pes archwn,
A biau Rhys, er bwrw hwn,
Hil Dafydd, fynydd faenawr,
Hael o Dir Mael, heldir mawr;
Hael o'r aur, hwyl arwyrain,
Hael o'i feirch, ŵyr Hywel Fain.
Ni omedd un o'i emys:
Mae gre yn magu i Rys.
Tëyrn a arwedd wedd iau,
Tëyrn yn ein tir ninnau.
Da y gweddai dau gywyddol
Mewn twrn ffest yn taro'n ffôl:
Ninnau yw'r dreigiau d'rogan
Drwy'r tir fal y dŵr a'r tân.
Taro mae dwy gaterwen
Ynghyd—llyna'r byd ar ben!
Dinistr oedd, rhoi da yno,
I ddraig wen a'i phen ar ffo,
A'r ddraig goch gynddeiriog hen
Â'i maneg ar war meinwen.

Awn ein dau, awen diod,
I ben glan lle bo ynn glod,
Fy nghâr ymbilgar bolgest,
Lle na allon ffo yn ffest.

Wrth raid ail Arthur ydwyf,
Ffrolo o daw, ffriwlwyd wyf.
Meinir oedd, rhof a Mynyw,
Mynnwn fod meinir yn fyw.
Bwrw'n ddinam mewn amarch,
Er ei mwyn, dan dor y march
(O chair dall i chwarae dis
Am y da y mae dewis)
A rhannu da y truan
A'i ddwyn i gyd ar ddyn gwan.
Deued ar farch y dewin
Ac aed ar ei draed o'r drin.
Minnau ddof am y ddeufarch
Oddi arno fo a'i farch.
Os cerdd a ddywaid nas caf,
O ymdagu mi a'i dygaf.

## *31*
## *Ateb Llawdden*

Erchais farch dihafarch du,
Ac archwyd ym ei gyrchu.
On’d teg oedd anfon at ŵr
Talai a ganai gannwr?
Talodd am foliant Eli
Dros a ganwyf tra fwyf i.
Llyma’r maes lle y mae’r march,
Lle mae arfer lliw morfarch:
Neidio dŵr, naid aderyn,
Nofio tir wrth wynfyd dyn.
Mae ar ei gorff, myn Mair gain,
Blew du mal dwbled Owain.
Blew un sut â blaen satin
A dyf o’i fwng hyd ei fin.
Cerdded yn aeddfed a wnaeth,
Rygyng wrth ei rywogaeth.
Gweodd a’i draed yn gywair,
Gwau’r ffordd i ddwyn gŵr i’r ffair.

Gwilym lwydlym, ail Idloes,
Uwch no’r haul, Fychan a’i rhoes;
Beli yno a blaenawr
Brycheiniog gyfoethog fawr.
Ucha’ dyn, ei ach o dir,
Ei rodd ydiw o’r ddeudir.
Ei roddion a bair addef,
Arwydd y bydd arglwydd ef.
Anrhaith gŵr oedd ei unrhodd,
Êl ei rent yn ôl ei rodd!
Siôn Fychan, gusan y gog,
Rhoes gyfrwy ym, rhwysg Efrog.
Da y gweddai ar balffrai byr
Goron march o Grugeryr.
Fy nhrwsio mae fy nhrasau
I ddwyn y fun a ddaw’n fau.

Swrdwal ym mhob maeserdy,
Synnwyr twrch yn seinio'r tŷ,
Amod a wnaeth i ymwan
Er mwyn merch mewn eira mân.
Efô'n dwrch o fewn dôl
Yma'n weddw y mae'n waddol.
Mawrserch ar y feinferch fu,
Maen hual ei meinhäu.
March Rhys, o bydd mawr a chryf,
Rhag hyn, y mae'n ddrwg gennyf.
O daw'r gŵr dewr o Geri
Mewn maes i ymwan â mi,
Gwell march isel lle'i gweloch
No gormodd cwymp gŵr meddw coch.
Os â gwayw y cais gyhwrdd
(Tra safwy' ar gyfrwy gwrdd)
Hywel â'r gerdd Wyddelig,
Estynned ym bastwn dig.
Nid rhaid, fel carraid rhedyn,
Eithr rhoi gwth i athro gwyn,
Troi ei wyneb cyn trennydd
At rawn ei farch, truan fydd.
Minnau a gwympwn Ieuan
Pe clod cwympo pac o wlân.
Nis bwriaf—ansyberwyd—
Iarll y gest i'r llawr i gyd.
Aed ymaith wedy amarch
Dros ei fost ar draws ei farch!

## *32*
## *Ymryson Ieuan ap Hywel Swrdwal*
## *â Llawdden am lateiaeth*

Gorau swydd fal gyrru saeth,
Williad hoyw, yw llateiaeth.
Llyna swydd a'm lleinw o sâl—
Llatai wyf, llwyd diofal.
Llawdden at ferch a'm erchis
Ym ddwyn, er ys mwy no mis,
Arwyddion a sôn am serch
A rhoi hynny i'w hannerch.
Deuthum i'r wlad wastad wen,
Llariaidd fan, lle'r oedd feinwen.
Meinwen, pan ddeuthum yno,
Meddai ni fynnai efô.
D'wedais mai gwrda ydoedd—
Dros Lawdden anniben oedd.

Ateb o wen o'm tyb i
Fy neges dan fynegi:
'Beth fal hyn a fyn efô?—
Llawdden, mae arall iddo.
Dywed, ni wnaf orafun,
Drwsa teg, drosod dy hun!'

'F'annwyl, ni feiddiaf innau
Ddiswyddo y Cymro cau.'

'Beiddi, cais ei rybuddio—
Bid i'th fâr, bai doeth efô—
Nad rhyw anfadwr â hwn
O brydydd a briodwn.
Yr haf ni fynnaf yn fau
Fwrdeisiwr i fwrw disiau.
Ni chawn gan hwn, gwn dan gil,
Eithr gwg a throi gwegil.'

Naddwn benillion iddi
Nos Sul, am fy newis i.

Oni'm treisir, nam trasyth,
Ni chaiff Llawdden feinwen fyth.
Ni fyn hi ŵr gwraig briod,
Na fyn, ni wnêl Duw ei fod!
Gwir a rof a gwŷr o raith
At Annes eto unwaith.
O chlyw cymar fy ngharwr
Ym Machynllaith gwaith y gŵr,
Uchel fydd drwy'r coedydd cadr
Sôn y rhiain sy 'n Rhaeadr.
Ys gwelwyf mewn gwisg olew
Ôl ei dwrn ar ei ael dew!
Ag ystôl, os canmolwn,
Ei dial hi ar dâl hwn.
Tawed ef, berchen tŷ da,
Â sôn am y sy yma.
Oni haedd yma heddwch?
Mewn y dref y mae yn drwch,
A hawdd ym ddeall ei hynt,
Ei freuddwyd a'i afrwyddynt.
Cyn no hyn y cynhennwyd
Cael maethgen o Lawdden lwyd,
A chynnen yn ychwaneg
A minnau'n dwyn meinwen deg!

## *33*
## *Ateb Llawdden*

Gwir iawn fu'r geiriau, f'enaid,
Geisio, a choelio, o chaid,
Llatai a gerddai â gwir,
Llwybraidd, macwyaidd, cywir.
Gwae finnau os gofynnwn,
Gwae am ryw Gymro â hwn!
Nid felly, cywely cân,
Arwydd yw, yr oedd Ieuan
Ap Hywel, gwedd angel gwyn,
Swrdwal, priod Rhisierdyn,
Gwael brydydd un ffydd â Ffawg,
Gwael oedd, cyd bai gelwyddawg,
Lluniaidd wawd, llonydd ei waith,
Lle bu'r gwŷn, llwybr gweniaith.

Teg oedd Ieuan fal cannwyll—
Llyna deg yn llawn o dwyll!
A drwg yw, 'r unrhyw anrheg,
Cydwybod hwn cyd bo teg.
Brawd ffydd oherwydd hiraeth
Oeddwn gynt iddo yn gaeth.
Addef er maint a wyddwn
Gyfrinach haeach i hwn:
Caru, och Iesu na chaid,
Mwynen yn fwy no'm enaid!

Gyrrais Ieuan i'w hannerch,
Gŵr ffraeth, yng ngwasanaeth serch.
Pan gafas Ieuan, f'annwyl,
Olwg ar wen, ail Eigr ŵyl,
Aeth yr annerch, eithr ennyd,
Tros gof wrth wtres i gyd.
Deuair a ddwedai, 'm Dewi,
Iddo'i hun am un i mi.
Yn rhith hyn y'm anrheithiwyd—
Gwneuthur lles, gwenieithwr llwyd.

Blwng fu ym gredu, i'r gras,
Brawd ffydd i Wenlydd wynlas.

Hwyrach arni yr haerwn
Goelio hud y gŵr gwelw hwn.
Torri o ddiawl, taer oedd ef,
Ei ddeudroed na ddôi adref
I ymweled â moliant
Â'i blwyf ac â'i wraig a'i blant!
Deili a dyr â'i dwylaw
Droedfedd o'i ddannedd na ddaw.
Ysgared, rhodied yrhawg,
Â'i ferch wen o Frycheiniawg.

Od aeth ef â'm enaid i,
Aed i ddiawl i dŷ Ddeili!
Ynfyd ydoedd ym anfon
Gwas teg i neges at hon.
Od â fyth i dŷ y ferch
Ym gennad mwy ag annerch,
Danfonaf, o byddaf byw,
At feinwen latai fenyw!

## *34*
## *Ymryson Llawdden a Dafydd ab Edmwnd*

### *Llawdden*

Cam oedd i'r Guto roi'r gatair—i'r gŵr
Am ganu tôn deuair,
A gwedy rhoddi'r gadair
Dwyn dwy bunt neu dair.

### *Ateb Dafydd ab Edmwnd*

Deuair am gadair ac un—o'm genau
A genais i Ddywllun;
Ac o'r ddeuair, gwrdd oeddyn',
Taer wyt, ni wyddut ti'r un.

*Ffynonellau*
$A^1$—BL Add 14964, $21^v$ $A^2$—BL Add 14964, $185^r$ B—BL Add 15003, $71^v$ C—CM 129, 179  D—J 138 [= RWM 16], $12^r$ E—LlGC 3039B [= Mos 131], 42  F—Pen 239, 59  G—Pen 267, 61, 62

Y mae'r rhain yn debyg iawn i'w gilydd ond gyda pheth amrywio yn BC. Barnwyd mai yn C–G y ceir y darlleniadau gorau a chodwyd amrywiadau ohonynt hwy. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
1 *CDEF* Câm ir; *G* [i'r Guto roi cadair—i'r gŵr]; *DEF* roi cadair; *C* gwanûn.  2 *C* ddauair.  3 *DE* chwedi.  4 *C* e^n (*sic*) dwŷn.  5 *G* [ac un o'm genau].  6 *C* ganais; *E* ddvwlvn.  7 *C* o; *D* gwedd; *C* gwedd ewûn.

*Rhaglith*
*C* rhai or englynion a wnaethbwyd yn yr eisteddfod a fû o flaen ne gar bron Griffith ab Niccolas; *DEF* Englynion a wnaed yn halaeth Dinevor o vlaen Grvffvth ap Nicolas yr hwnn oedd yn roi barn am y gadair arian.

*Priodoliad*
*C–E* Davydd ap Edmwnt, *E* Dd ap Edmond ai cant.

*Trefn y llinellau*
*G* 1, [2–4], 5, [6–8].

## *35*
## *I blentyn maeth*

Mae imi fab a fydd abad,
Nid gwaeth ei dadmaeth no'i dad;
Os aml ei wallt, moes imi,
Os moel, na ddangos i mi.

Llawdden a'i gwnaeth pan (*B* llowdhen pan) enillasai ei feistr Meredudd o Faelienydd etifedd o forwyn o'r tŷ, ac a fagwyd (*B* vegyd) yn enw Llawdden heb wybod o'r (*B* yr) wraig. Ond pan wybu hi'r gwir y canai yntau fal o'r blaen:

Ceisier, tra seilier, trosoliaw—drysau,
A rhoi trosol wrthaw,
A rhoi clo haearn arnaw,
F'â gair drwg drwy'r fagwyr draw!

*Ffynonellau*
A—Llst 119, 139  B—Pen 94, iv

Y mae'r rhain yn debyg iawn i'w gilydd yw'r rhain a chodwyd amrywiadau ohonynt ill dau. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 277–84.

*Amrywiadau*
3 *A* aml yw i. 8 wa gair.

*Trefn y llinellau*
*B* 1–4, [5–8].

*36*

*Dychan i fardd gwael*

Y gadair a roed am gydaid—o bys
I boswrn ’r Hangmeriaid;
Oni elly o dŷ dy daid
Ddal d’einion, i ddiawl d’enaid!

*Ffynhonnell*
Pen 313, 100

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 248.

*Darlleniad y llawysgrif*
3 elli di o.

*Priodoliad*
llowdden.

# *Nodiadau*

## *1*

Awdl i'r Grog yng Nghaer yw'r gerdd hon,[1] ac ymddengys mai rhyw *annod* (ymhellach, gw. ll. 74n) oedd rheswm y bardd dros ymweld â hi. Yr oedd y Grog yng Nghaer yn enwog iawn yn ei dydd fel gwrthrych defosiwn,[2] ac y mae'r dystiolaeth yn gryf o blaid credu mai yng nghlas-eglwys St. Ioan Fedyddiwr y safai.[3] Yn ôl cred y cyfnod, delw gerfiedig firain o'r Crist dioddefus oedd y grog yn wreiddiol ac fe'i darganfuwyd ar lannau Afon Dyfrdwy y tu allan i furiau'r dref. Ceir cerddi eraill i'r grog yng Nghaer[4] gan Fedo Brwynllys,[5] Dafydd ap Hywel,[6] Ieuan Bol ab Ieuan ap Rhys o Brysg y Byddair,[7] Ieuan Brydydd Hir,[8] Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd[9] (dyma'r gerdd gynharaf i'r grog hon sydd ar glawr), Guto'r Glyn,[10] a Maredudd ap Rhys,[11] a cheir cyfeiriadau ati hefyd yn y farddoniaeth.[12] Gwyddys hefyd am ryw 23 o gerddi i grogau eraill.[13] Fel y dywed Dr Barry Lewis, cerdd Llawdden i'r Grog yng Nghaer yw'r un sy'n dweud mwyaf wrthym am y crair hwn.[14] Yn neilltuol, dywedir ei bod wedi ei dodi *Rhwng dau lanw* (ll. 2); fe'i cludwyd gan donnau'r môr o Iwerddon (ll. 10), ac yn fwy penodol o Ddulyn (ll. 20); y mae bellach yn crogi *Ar y llofft* (ll. 4); a chynhwysir disgrifiad o olygfa o eni Crist islaw iddi (llau. 45–52). Ar sail yr olygfa hon, gellid dadlau mai adeg y Nadolig yr ymwelodd Llawdden â Chaer;[15] ond gan fod y llun o eni Crist yn un o themâu pwysicaf celfyddyd yr Oesoedd Canol, nid oes o reidrwydd arwyddocâd tymhorol i ddisgrifiad Llawdden. Byddai'r ddau gyfeiriad at roi elusen (llau. 57, 64) yn gyson â

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 78–82 (XXV).

[2] Ar y grog hon a'i chefndir, gw. yn enwedig GIBH 148–50; Barry J. Lewis, *Welsh Poetry and English Pilgrimage: Gruffudd ap Maredudd and the Rood of Chester* (Aberystwyth, 2005).

[3] Barry J. Lewis, *op.cit.* 22–8. Gthg. GIBH 149 lle y cynigir yn betrus mai yn eglwys abaty'r Benedictiaid yr oedd y grog.

[4] Seiliwyd y rhestr ganlynol ar *ib.* 149; Barry J. Lewis, *op.cit.* 14–15.

[5] Bedo Aerddrem, &c.: Gw 145–6; CBPM 552–3.

[6] *Ib.* 551–2.

[7] Pen 57, 29.

[8] GIBH cerddi 10 ac 11.

[9] GGMD ii, cerdd 1.

[10] GGl$^2$ 283–4 (CX).

[11] GMRh cerdd 2.

[12] *Ex.inf.* Barry J. Lewis.

[13] *Ex.inf.* Barry J. Lewis.

[14] Barry J. Lewis, *op.cit.* 15–16.

[15] Fel y gwneir *ib.* 16.

thymor yr Adfent neu'r Pasg, ond yn wyneb pwysigrwydd elusengarwch ym muchedd y Cristion yn gyffredinol y mae'n anodd gwybod pa faint yn hollol y dylid pwyso ar y rhain. Dywed Llawdden y bydd yn ailymweld â'r grog yn yr haf (llau. 75–6), ond nid yw'n dilyn o reidrwydd mai cyn yr haf y bu ei ymweliad cyntaf gan y gall mai am yr haf dilynol y mae'n meddwl. Y mae'n bosibl fod Llawdden yn hen pan ganodd yr awdl, oherwydd dywed *At Addaf ydd af yn fyr ddefod* (ll. 53 a gw. y nodyn). Ai dyna hefyd ergyd y geiriau *nesnes mae'r nod* (ll. 65) a'r cyfeiriad at sagrafen yr Olew Olaf (llau. 67–8), er mai difrifwch salwch, boed y claf yn ifanc neu'n hen, oedd amod derbyn honno?[16] Ond hyd yn oed os yw'r geiriau hyn yn gweddu i henwr, erys y posibilrwydd fod Llawdden yn llefaru ym mhersona henwr. Ni wyddys pwy oedd noddwr yr awdl. Y mae ei chanu yng Nghaer yn rhagdybio cynulleidfa sylweddol o Gymry yno.

Ymddengys fod y gerdd yn hwy yn wreiddiol na'r hyn a gadwyd yn y llawysgrifau oherwydd yn nhestun llawysgrif D, wrth waelod td. 252, ceir llinell ddiffygiol sy'n ddechrau pennill newydd anghyflawn (gw. uchod yr amrywiad ar linell 40).

Y mae dau ganiad i'r awdl. Cadwyn o saith englyn unodl union yw'r cyntaf gyda diwedd pob englyn yn cysylltu â dechrau'r englyn canlynol trwy gyrch-gymeriad. Un pennill ar ddeg ar fesur gwawdodyn, ar y brifodl -*od*, yw'r ail ganiad, a chysylltir ei ddechrau â diwedd y caniad cyntaf trwy gyrch-gymeriad. Cloir ag englyn unodl union a'i air olaf yn cyrchu gair cyntaf yr awdl.

1–3 **Y Grog … / … / I dre Gaer i droi gwared** Cf. GGl² 283 (CX.1–2) *Y Grog i bob dyn o gred / O dre Gaer a dry gwared*. Deellir *Grog* yn gyfeiriad at Grist. Er na nodir yr ystyr hon yn GPC 608, defnyddiai'r beirdd y gair am y Crist a oedd wedi ei groeshoelio ar y ddelw bren yn ogystal ag am y ddelw bren ei hun (megis yn llau. 29, 80), gw. GILlF 57.

1 **y** Dyma ddarlleniad llsgr. F¹. Gellid hefyd ddarllen *o* llsgr. D gan ddehongli dau englyn cyntaf y gerdd yn un frawddeg.

2 **rhwng dau lanw** Sef yn yr ardal rhwng penllanw a llanw isel. Dyma'r ardal rhwng Afon Dyfrdwy ac ochr orllewinol Caer a lenwid gan y môr pan ddeuai'r llanw i mewn ac a elwid yn S. y *Roodee* 'maes/ynys y grog', gw. Barry J. Lewis, *Welsh Poetry and English Pilgrimage: Gruffudd ap Maredudd and the Rood of Chester* (Aberystwyth, 2005), 1.

4 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *freichiau ar*.

**ar y llofft** Y drefn yn fynych oedd dodi'r grog ar len (S. '*screen*') a'r

[16] Yn rhaglith testun llawysgrif D, *c.* 1625–9, cyfeirir at Lawdden fel *Llowdden: hen brydydd*. Felly hefyd yn rhaglith testun llsgr. A o'r gerdd (BL Add 14973, 30ʳ) ac olnod testun llsgr. C (Card 4.10 [= RWM 84], 123). Gellid dehongli'r geiriau hyn i olygu bod Llawdden yn hen ŵr pan ganodd yr awdl. Fodd bynnag, nis ceir yn llawysgrif F, yr un gynharaf (ail hanner yr 16g.), a dichon mai'r ystyr yw fod Llawdden yn brydydd o'r hen amser.

ddau ar fath o oriel uwchben a elwid yn S. yn *rood-loft* neu'n *rood-gallery*; gw. *The Catholic Encyclopedia* (15 vols., London, 1907–12), xiii, 181, d.g. *rood*.

5 **fu'r** Gellid hefyd ystyried darlleniad llsgr. $F^1$ *ywr*.

9–11 **golchyn' / … / … olchai'r** Ymddengys fod Llawdden yn chwarae ar ddwy ystyr y f. *golchi* yma, sef yn gyntaf 'curo', gw. GPC 1446, 2 (b), ac yn ail S. '*to wash*', ei ystyr arferol; cf. llau. 28–9.

9 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *gweli o*.

14 **heb** Yn yr ystyr 'heblaw', gw. GPC 1839, 3.

**teircroes** Croes Iesu a chroesau'r ddau leidr a groeshoeliwyd ar bob ochr iddo.

15 **mewn llyfr** Cyfeirir, fe ymddengys, at y geiriau y parodd Pontius Pilat eu gosod ar groes Iesu, 'Hwn yw Iesu, Brenin yr Iddewon' (Math xxvii.37, a cf. Marc xv.26, Io xix.19–20). Os deellir *llyfr* yn llythrennol, efallai mai mewn llyfr, e.e. yr Efengyl, wrth droed y grog, yn hytrach nag fel teitl neu arysgrif arni, yr oedd y geiriau yng Nghaer. Nid yw'n annichon, er hynny, mai 'llythrennau' a olygir am fod llythrennau yn gyffredin i arysgrif ac i lyfr.

16 **trydedd** Llsgrau. *drydydd*, ond anghywir yw defnyddio ffurf wrywaidd y trefnol gydag eb., felly diwygir; cf. 2.30 *y drydedd awr*.

17 **llychanwen** Fe'i deellir yn gyfuniad o *lluch* 'mellten, fflach' (gw. GPC 2216 d.g. *lluch*[1]) a *canwen* (*can* a *gwen*) 'disgleirwyn'—'disgleirwyn fel mellten'.

**ynnyn—cwyr** 'Rood-lights were kept burning before the rood in medieval times, consisting either of a wick and oil in a cresset, or rood-bowl, or of a taper on a pricket in the centre of a mortar of brass, lattern, or copper', *The Catholic Encyclopedia* (15 vols., London, 1907–12), xiii, 181, d.g. *rood*. Amrywiad yw *ynnyn* ar *ennyn*, gw. GPC 1224, 3819.

18 **uwch y côr** Gosodid y groglen rhwng cangell a chorff yr eglwys (h.y., rhwng y clerigwyr a'r bobl), gw. *The Catholic Encyclopedia* (15 vols., London, 1907–12), xiii, 181, d.g. *rood*.

19 **Gair** Sef Crist, y Gair, gw. GPC 1372, 6 (a).

**crys gwyn** Cf. y defnydd o'r gair *pais* wrth gyfeirio at y Crist croeshoeliedig yn GIBH 12.23–4, *Drwy'i ais a thrwy'i bais y bu / Un dall â gwayw'n Ei dyllu*. Fel y dywedir *ib.* 161, 'mantell' a olygir, 'nid y *perizona*, math o liain llwynau y tueddir i bortreadu'r Crist croeshoel-iedig ynddo erbyn hyn, ond *colobium*, sef gwisg litwrgïol'; ymhellach, gw. *ib.* 161–2. Defnyddid lliwiau litwrgïol, megis aur a choch, yn ôl y tymor eglwysig, gw. GIBH 162, ac y mae'n bosibl yr adlewyrchir hyn

yma (defnyddid gwyn ar ddyddiau gŵyl pwysig megis eiddo Crist, Mair a'r saint); gw. hefyd GLlBH 4.109n; Ann Parry Owen, 'Englynion Dafydd ap Gwilym i'r Grog o Gaer', YB xxi (1996), 25–6.

25 **Mab Rhad** Sef Crist, gw. GPC 2294.

28–9 **tyf. / … tyfu** Yr ystyr 'iacháu, gwella' sydd i'r f. yn yr enghraifft gyntaf, gw. GPC 3671 (c), a'r ystyr arferol yn yr ail; am chwarae cyffelyb ar ddwy ystyr gair, cf. llau. 9–11n.

29–30 **tyfu … tafod / … Dy eiriau moliant** Ar y syniad, cf. GLlG Atodiad 35 *Gwn wawd, o'm tafawd y tyf* (awdur ansicr). Deellir *Dy eiriau moliant* i olygu 'geiriau o foliant iti'.

30 **aelod** Y bardd fel aelod o gymdeithas Duw, ond gall hefyd mai ei dafod a olygir.

31–2 Trefn fwy arferol y gystrawen fyddai 'tyfiant gwŷdd tir llewenydd y tair lleianod a fydd am dy fod yn rhydd'.

31 **tyfiant gwŷdd** Ceir adlais yma o'r traddodiadau apocryffaidd fod pren croes Crist wedi tyfu o hadau a blannwyd dan dafod Adda wedi iddo farw gan ei fab Seth yng Nglyn Ebron (gw. HMSS ii, 243–50, yn enwedig 245, 250; ac ymhellach D. Simon Evans, *Medieval Religious Literature* (Cardiff, 1986), 43–5) a bod Adda wedi derbyn yr awen gan Dduw ar ôl ei alltudio o baradwys (gw. IGE$^2$ 170; GSCyf 176). Gan fod Llawdden, yntau, yn awenydd, gwêl ei hun yn rhannu'r un fraint ag Adda a'i awen yn prifio fel y pren a dyfodd ohono.

32 **tair lleianod** Nid yw'n eglur at bwy y cyfeirir, ond o ddeall *lleian* i olygu 'merch dduwiol', gellir cynnig yn betrus mai'r Forwyn Fair, Mair Fadlen a Mair mam Iago'r apostol (gw. Marc iii.18, xv.40) oeddynt. Am gyfeiriad arall, o bosibl, gw. GLD 17.82. Efallai fod delwau o'r tair o gylch troed y grog yng Nghaer.

33–6 Adleisir yma hefyd gred y beirdd Cymraeg fod yr awen farddol yn tarddu o Dduw.

36 **medd Pawl** Os dyfynnu Pawl a wneir yma, ni wyddys beth a ddyfynnir, ond y mae'n fwy tebygol mai ceisio credu *aura* o ddysg y mae Llawdden yma; cf. Iestyn Daniel, 'Awdl Saith Weddi'r Pader', yn CyT 230n3.

37 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *Dy osod.*

**seiliaist** Ei wrthrych yw *Sul* yn ll. 39.

38 Ai cyfeiriad sydd yma at y trydydd gorchymyn, i gadw'r Sabath?

41 **[y] Saith Bechod** Sef y Saith Bechod marwol: balchder, cenfigen, llid, llesgedd, cybydd-dod, glythineb a thrachwant.

43 **saith blaned** Yn ôl syniad yr Oesoedd Canol, y lleuad, Mercher, Gwener, yr haul, Mawrth, Iau, a Sadwrn oeddynt, gw. GPC 2816 (b) d.g. *planed*; hefyd DrOC 109–11; GIRh 2.35n. Yn 17.21 fe'u gelwir yn

*saith seren*, gw. GPC 3170 d.g. *saith*.

44 **saith seren** Cf. Dat i.16. Trwy ddilyn *saith blaned* gan *saith seren* y mae'n bosibl fod bwriad i gyffelybu harddwch y cyntaf i harddwch yr ail.

**gwisgwen** Cf. ll. 19 *crys gwyn*.

**gwasgod** Y tebyg yw mai 'mantell' a olygir; gw. GPC 1596 d.g. *gwasgod*[2] (2).

45–52 Yn y penillion hyn troir sylw oddi wrth y Grog at olygfa gerllaw iddi o eni Crist. Y tebyg yw fod yr olygfa hon ar y groglen.

45 **rhandir** Yng nghyd-destun gweddill y pennill, ymddengys mai rhan o dirlun y Tir Sanctaidd a olygir. Posibilrwydd arall, ond llai tebygol, efallai, yw arwynebedd mewnol yr eglwys lle y safai'r Grog, y llecyn a'i cynhwysai.

Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf. Gellid dilyn llsgr. F[1] a darllen *gwelyr* yn lle *gwelir y*, ond ni roddai hynny ddarlleniad ystyrlon. Sylwer hefyd ar y gynghanedd sain gytbwys ddiacen gydag odl ychwanegol yn y bar olaf.

47 **brenhinedd** Fe'i deellir yn gyfeiriad at y Tri Gŵr Doeth.

49 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *llyna eich*.

53 **at Addaf ydd af** Gan fod Adda yn dad y ddynoliaeth a'i gwymp wedi ei unioni trwy farwolaeth achubol Crist, mynega'r beirdd ar dro awydd dychwelyd ato ef hefyd, yn ogystal ag at brif gymeriadau eraill o'r Hen Destament; cf. Ieuan Brydydd Hir yn ei awdl i Dduw, GIBH 6.81–2, *O faith wylfa'r byd, af i'th elfydd / At Addaf, silltiaf â'i esylltydd*; Lewys Glyn Cothi yn ei awdl gyffes, GLGC 515 (238.49–52), *At Addaf a Noe tueddais—yn hen, / at Foesen a'i len [= lên] y penliniais, / at Abram ddinam eiddunais—ffordd rydd, / at Dafydd trennydd lle nid rhydd trais*.

**yn fyr ddefod** Ffordd arall, efallai, o ddweud 'cyn hir'. Byddai hynny'n gydnaws â'r cyfochrebau a ddyfynnir yn y paragraff blaenorol.

54 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf.

55 **hynaf** Yn yr ystyr 'pennaeth' (gw. GPC 1974 (a)).

56 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *rhifo i*.

57–8 Canmolir y sawl sydd, wrth ganlyn buchedd dduwiol (*glân ystod*), yn dangos haelioni a chariad (*[c]ardod ... [c]alon*) fel gwarant (*gwystl*) bywyd tragwyddol.

61 **cleddau** Ffurf arall ar *cleddyf* yn yr ystyr 'arwr', gw. GPC 494, yn hytrach na ffurf l. *cledd* (*ib.* 493 d.g. *cledd*[1]).

65–8 Yn llsgr. F[1] yn unig y ceir y pennill hwn ond gwedda'n burion i'r cynnwys.

65 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf.

**nesnes mae'r nod** Llsgr. F[1] *nes nes yni r nod*; cf. IGE[2] 267 (llau. 19–20) *Mair o nef! nesnes mae'r nod, / Difai mae'r gwaith yn dyfod* (Siôn Cent). Gellid hefyd ddarllen *nes inni'r nod* ond chwyrn braidd, efallai, fyddai'r newid o'r prs. 1 un. (*Meddyliaf fy*) i'r prs. un. ll. (*inni*) o fewn yr un ll., ac y mae arwyddion eraill yng nghanu Llawdden ei fod yn gyfarwydd â gwaith Siôn Cent (gw. uchod td. 15).

66 **maddeuant** Llsgr. F[1] *meddeyant*; diwygir er mwyn y synnwyr.

**pen** Yn yr ystyr 'genau'. Fel y dywedir yn GPhE 125, 'Ymddengys mai topos yn y cerddi penydiol yw i fardd ddiraddio ei swydd farddol neu hyd yn oed ymwrthod â hi.'

67 **rhag ffonnod—Iddew** Ffordd arall o gyfeirio at ddioddefaint Crist (*rhag* yn yr ystyr 'oherwydd' neu 'drwy'). Y dioddefaint hwnnw a wnaeth bob sagrafen yn bosibl, gan gynnwys yr un y mae'r bardd yn deisyf amdani (gw. y ll. nesaf).

69 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf. Gellid hepgor *a* neu dderbyn darlleniad llsgr. F[1] *am nef* er mwyn cael yr hyd cywir; ond cf. ll. 73.

71 **nawnaid** Y rhifolyn *naw* a *naid* yn yr ystyr 'ffawd dda' (gw. GPC 2550 (c))—'cwbl fad' neu'r cyffelyb. Defnyddir y rhif *naw* yn gyffredin i ddynodi cyflawnder neu berffeithrwydd; cf. 2.49, 11.59, 60, 61, 18.12, 18 (felly hefyd *saith*, megis yn 2.48, 24.58, *wyth* yn 15.13, a cf. GSCyf 16.1n).

72 **nofio** Dichon fod adlais yma o'r chwedl am y ddelw o'r grog yn hwylio o Ddulyn i Gaer (gw. llau. 5–12 a'r sylwadau rhagarweiniol uchod).

73 Ar hyd y ll., cf. ll. 69n.

74 **yn iach i'r** Cymerir mai'r ymadrodd *yn iach i* 'ffarwél' sydd yma (gw. GPC 1994–5 (3)). Gellid hefyd ystyried darlleniad llsgr. F[1] a darllen *yn iach o'r* 'wedi ei buro [sef Llawdden] oddi wrth'.

**yna … annod** Llsgrau. *yma ... amod*. Diwygir *amod* gan mai afreolaidd yw i'r un gair gynnal y brifodl ddwywaith mewn cwpled, a rhaid felly yw diwygio *yma* er mwyn y gynghanedd. Hawdd fuasai camddarllen *nn* am *m*. Rhydd GPC 145 i *annod* yr ystyr 'edliwiad, danodiad, cywilydd', ond y mae'n anodd gwybod at beth yn union y mae'r bardd yn cyfeirio—ei bechadurusrwydd neu ynteu ryw anhwylder corfforol.

75 **llei mae'r rhòd—bennaf** Deellir *rhòd* yn fenthyciad o'r S.C. *rod* yn yr ystyr '*a crucifix, esp. one stationed above the middle of a rood-screen*', OED[2] xiv, 3 (a), d.g. *rood*. Ni restrir y gair yn GPC 2987.

76 'Dyma ddyfod gerbron [y grog] o'r llecyn y byddaf yn mynd ohono', h.y., bydd y bardd yn ymadael maes o law â mangre'r grog ond yn dychwelyd yno drachefn.

**nychaf** Llsgr. D *Ni chaf*, F[1] *lle ny chaf*. Diwygir er mwyn y synnwyr.

**garllaw** Sef gerllaw'r Grog yng Nghaer.

79 **diwedd bradog** Gall mai mynd i uffern a olygir neu'r *subita mors* 'angau disyfyd' a ofnid gymaint yn y Oesoedd Canol.

*2*

Cerdd o fawl i'r Forwyn Fair yw'r cywydd hwn.[1] Ar y traddodiad o ddefosiwn i Fair yng Nghymru, gweler yn arbennig arolwg Jane Cartwright.[2] Perthyn diddordeb neilltuol i'r cyfeiriad at y *preimer* (ll. 28). Llyfr gweddi i leygwyr llythrennog ar gyfer addoliad preifat neu deuluol oedd hwn.[3] Yr oedd yn boblogaidd iawn yn Lloegr yn y cyfnod, a cheir digon o gopïau llawysgrifol a phrintiedig ohono, a chyfeiriadau ato, yn Lladin ac yn Saesneg.[4] Yng Nghymru, ar y llaw arall, nid oes yr un copi ar gadw, ac yn ôl Brynley F. Roberts, ceir y cyfeiriad cynharaf mewn ewyllys yn 1528.[5] Diau, er hynny, fod y preimer yn adnabyddus yng Nghymru, hithau, ac y mae cyfeiriad Llawdden yn y bymthegfed ganrif yn dystiolaeth bwysig i'w fodolaeth ac i'w ddefnyddio yno. Dylid crybwyll hefyd gywydd arall, ansicr ei awduraeth, i'r Forwyn Fair o'r un cyfnod lle y ceir cyfeiriadau at rai o oriau 'Gwasanaeth Mair',[6] oherwydd y gwasanaeth hwn oedd cnewyllyn y preimer. Diddorol fyddai gwybod ai yn Lladin ai yn Gymraeg yr oedd llyfr Llawdden. Yr oedd 'Gwasanaeth Mair' eisoes wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg o'r Lladin, a gall, felly, mai Cymraeg oedd ei iaith yn y preimer hefyd, ond amhosibl gwybod beth fyddai iaith y gweddill ac efallai fod ynddo gymysgedd o'r ddwy iaith. Y mae'r ffordd y mae Llawdden, yn llinellau 1–14, yn gwrthgyferbynnu cariad pur at Fair â serch anniwair at ferch ddaearol yn dwyn i gof gywydd Guto ap Siancyn i Syr Wiliam, person Merthyr Tudful,[7] lle y priodolir yr un rhinwedd iddo mewn perthynas â Santes Tudful (gw. hefyd lau. 5–6n).

5–6 Cf. GGl$^2$ 242 (XCIII.27–8) *Nid cariad, diymwad teml, / Ar fursen oer, oferseml.*

9 **chwannog** Cf. TN $101^r$ *Bod Mair yn chwanoc y wrando y 'air ef.*

11 **Siohasym uriad** Llsgr. I yn unig a rydd y darlleniad hwn, ond dyma'r

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 82–5 (XXVII). Am gerddi cyhoeddedig eraill i Fair, gw., e.e., GLlBH cerdd 11; GC cerddi 9, 10; GIG 139–40 (XXXI); GIRh cerdd 9; GDID 58–9 (Atodiad A3); GMRh cerdd 18; GPhE cerdd 11.

[2] J. Cartwright: ForF 15–75 *et passim*. Gw. hefyd GPhE 148; Gilbert Ruddock, 'Rhai agweddau ar gywyddau serch y bymthegfed ganrif', yn *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol*, gol. John Rowlands (Caerdydd, 1975), 97–102.

[3] Arno, gw. GM xiv–xix.

[4] *Ib.* xvi.

[5] *Ib.* xvvii.

[6] GDID 59 (Atodiad A3.48, 51, 52). Gw. hefyd isod llau. 25–38n, 26n.

[7] GGl$^2$ 242–4 (XCIII).

gair sy'n gweddu orau i ddisgrifio *Siohasym* sy'n ei ragflaenu; cf. IGE$^2$ 95 (XXXII, llau. 2–3) *Sioasym, hendad Siesus, / Pendefig bonheddig hael* (anh.); GHS 22.5 *Mawr fu urddas Siohasym*. Defnyddir *uriad* 'pennaeth, arglwydd' am Aron hefyd, *ib.* 21.43 *Dug llawffon Aron uriad*.

12 **mamaeth yw i'w thad** Cf. IGE$^2$ 96 (XXXII, llau. 11–14) *Yr un modd, iawnrhodd anrheg, / Y daeth Duw at famaeth deg, / Gorau mam, gorau mamaeth, / Gorau i nef y gŵr a wnaeth* (anh.). Sylwer hefyd, er hynny, ar ddarlleniad llsgrau. AGHKLM *thaid*: gelwid Duw weithiau yn daid yn ogystal, e.e. GLlLl 1.139–42 *Dybu yr g6ared G6r detua6l, / Crist yg kna6d, an Bra6d bu breinhya6l, / Mab an Tad, an tud Rwyf holla6l, / Ac an Teid ac an Tad d66ywa6l*.

14 **unfryd** H.y., â'r un bryd ag a oedd ganddo fel *arglwydd i mi* (ll. 13).

**yn frawd iddi** O ran ei natur ddynol, yr oedd Crist yn fab i Fair, ond fel mab Duw yn frawd iddi; ymhellach, gw. Andrew Breeze, 'The Virgin Mary, Daughter of Her Son', Études xxvii (1990), 267–83.

15–16 **chwech / … o eiriau** Sef y chwe gair Llad. a ddyfynnir yn llau. 17–22; ymhellach, gw. GPhE 59–60.

16 **tabl** Efallai mai rhyw ddarlun a olygir (cf. GPC 3403 (b)): arferid peintio geiriau'r angel ar luniau o'r Cyfarchiad i Fair (gw. y nodyn nesaf) ac ar furiau eglwysi yn yr Oesoedd Canol, gw. GPhE 60. Y mae'n bosibl hefyd, er hynny, mai tudalen o'r *primer* (ll. 28) a olygir.

17–22 ***Ave Maria … / … / Gratia plena … / … / … / … Dom'nus tecum*** Dyma eiriau cyfarchiad yr angel Gabriel i'r Forwyn Fair (gw. Luc i. 28). Yr ystyr yw 'Henffych well, Fair, gyflawn o ras, y mae'r Arglwydd gyda thi.' Yn llsgrau. CHJKMNO sillefir *Gratia* yn *grasia*, a'r tebyg yw mai fel y sain *s* yr yngenir y *t* yma; cf. GIRh 9.69n, hefyd *ib.* 9.66n. Yn ll. 17. treiglir *gofeg* gan fod *Ave Maria* yn ddibynnol arno: '[yr] ymadrodd *Ave Maria*'.

19 **pob planed** Efallai y defnyddir *planed* yma yn yr ystyr ganmoliaethus am ferch neu wraig, gw. GPC 2816 (d) a cf. 8.5n; cf. geiriau'r *Ave Maria* sy'n dilyn cyfarchiad Gabriel, 'Bendigedig wyt ti ymhlith gwragedd' (Luc i. 42).

20 **hyn** 'Y rhain', sef geiriau'r angel yn llau. 17 a 19. Felly hefyd yn ll. 23 (ar ddefnyddio *hyn* a *hynny* yn enwol yn y ll., gw. GMW 84).

**cred** Yn yr ystyr 'Cristnogaeth'; cf. IGE$^2$ 96 (llau. 5–6) *I Anna merch a aned, / Hon yw Mair crair cred* (anh.).

23–4 Yn llsgrau. ACIJMO y ceir y cwpled hwn, ond gan ei fod wedi ei ychwanegu yn A a bod M yn seiliedig i raddau helaeth ar A, i gynsail gyffredin CIJO yn unig y perthyn mewn gwirionedd. Nid yw darlleniadau geiriol y dosbarth hwnnw cystal gan amlaf ag eiddo'r llsgrau. eraill, ac felly y mae'n gwestiwn a ddylid ei gynnwys yn y

testun golygedig. Fodd bynnag, gan ei bod yn bosibl ddarfod ei golli trwy amryfusedd copïwr o gynsail gyffredin y llsgrau. eraill a'i fod yn rhoi synnwyr boddhaol, penderfynwyd ei gynnwys.

23 **hyn** Gw. ll. 20n. Credid bod Mair wedi beichiogi pan glywodd eiriau'r angel.

25–38 Dengys Llawdden yn eglur yn y llau. hyn ei fod yn defnyddio llyfr gweddi i leygwyr—*primer* (ll. 28). Cnewyllyn hwn oedd yr *Officium Parvum Beatae Mariae Virginis* ('Gwasanaeth Bach y Forwyn Fair', neu, yn symlach, 'Gwasanaeth Mair') a oedd wedi ei seilio ar yr *Officium Divinum* ('Y Gwasanaeth Dwyfol') gyda rhai newidiadau. Crybwyllir cam cyntaf y gwasanaeth, sef y *[p]lygain* (ll. 26), yna pedair *horae minores* 'oriau llai' y dydd, sef *Hora prima* (ll. 28) 'yr awr gyntaf', y *drydedd awr* (ll. 30), *Awr chweched* (ll. 31), *Awr nawn* (llau. 33, 35). Cyfeirir hefyd at gam cynderfynol y gwasanaeth, sef y *Gosber* (ll. 51). Ar hyn i gyd, gw. ODCC[3] a NCE dan y penawdau perthnasol; GM *passim*.

26 **plygain** Gw. llau. 25–38n. Fe'i hadroddid liw nos a chyn y wawr. Cf. y cywydd ansicr ei awduraeth i Fair yn GDID 59 (Atodiad A3.47–8) *Dy garu a wybuum; / Darllain dy bylgain y bûm*.

27 **pab** 'Ceimiad, campwr'. Ar ei ystyr ehangach gynt, gw. GIBH 101; RBCWP 19–25; GPC 2662.

28 ***hora prima*** Llad. yn golygu 'yr awr gyntaf' (S. '*prime*'). Fe'i hadroddid am 6 o'r gloch y bore. Gw. hefyd lau. 25–38n.

**preimer** 'Llyfr gweddi i leygwyr', benthyciad o'r S. *primer* (*book*), GPC 2872.

29–30 **Meddyliaid … / Ydd wyf** Cf. IGE[2] 255 (llau. 1–2) *Meddyliaid am addoli / I Dduw a'i fam ydd wyf i* (Siôn Cent). Ffurf amrywiol yw *meddyliaid* ar y be. *meddwl*, gw. GPC 2403; y ffurf *meddylied* a geir ym mwyafrif y llsgrau. (ffurf y dyddir yr enghraifft gynharaf ohoni yn 1711 yn *ib.*).

**gwŷdd elawr** Efallai fod yma adlais o'r cyngor canoloesol adnabyddus *memento mori* ('cofia angau').

30 **trydedd awr** 'Ters' (S. '*terce*'). Fe'i hadroddid am 9 o'r gloch y bore. Gw. hefyd lau. 25–38n.

31 **awr chweched** S. '*sext*'. Fe'i hadroddid am hanner dydd. Gw. hefyd lau. 25–38n.

32 **meddylied** Dyma ddarlleniad yr holl lsgrau. ac fe'i deellir yn 3 un.grch. y f. *meddwl* a *dyn* (ll. 31) yn oddr. iddo. Gallai hefyd fod yn amrywiad ar y be. *meddyliaid*, gw. ll. 29n, ac yn barhad o'r gystrawen *Meddyliaid … / Ydd wyf …* yn llau. 29–30.

**dau elyn** Cyfeirir at ddau o'r tri gelyn, sef y cnawd, y diafol a'r byd; gw. GSDT 15.2n ac *ib.* 15.1–8.

33 **awr nawn** S. '*none*'. Fe'i hadroddid am 3 o'r gloch y prynhawn. Gw. hefyd lau. 25–38n.

34 **pedair awr** Sef yr oriau a grybwyllir yn llau. 28, 30, 31, 33. Ffurfiai'r rhain 'oriau llai' y dydd, gw. llau. 25–38n.

35 **awr nawn** Gw. ll. 33.

**o'i wirion eni** 'Oherwydd / yn sgil Ei eni di-fai'.

36 Gw. Math xxvii.50.

37 Y mae'r ll. yn fyr o sillaf oni chyfrifir *marw* yn ddeusill.

38 **y** Gellid derbyn darlleniad llsgrau. GKM *un* ac ateb yr *n* yn ail hanner y ll., ond ceir cynganeddion perfeddgoll yma a thraw yng nghanu Llawdden.

43 **o bai** Gellid hefyd ystyried darlleniad llsgrau. AM *i mae*, ond er bod y llsgrau. hyn ymhlith y cynharaf, *o bai* a geir yn y llsgrau. eraill. Peth cyffredin ddigon yn y farddoniaeth hefyd yw brawddegau gyda chymal amod a gyflwynir gan *pei* neu *o* a'r brif f. yn cyfeirio at y dyfodol (cf. llau. 45–6).

44 Y mae'r ll. yn hir o sillaf onid yngenir *Yn* yn *'n*. Yn llsgrau. GHKLN ni cheir y gair.

**ufydd fal Dafydd** Cyfeirir at edifeirwch Dafydd gerbon Duw wedi iddo ladd Ureia yr Hethiad er mwyn priodi ei wraig Bathseba, gw. 2 Sam xi.3–xii.15, yn enwedig xii.13.

45 Crych a llyfn, gw. J. Morris-Jones: CD 147; cf. ll. 64.

**cloch Eilfyw** Sant o'r un cyfnod yn fras â Dewi Sant oedd Eilfyw; ymhellach, gw. LBS i, 128–36 d.g. *Ailbe*; G 468 d.g. *Eluyw*. Sonia Gerallt Gymro am y parch dwfn a ddangosai'r Cymry at 'greiriau'r saint, hefyd i'w baglau a'u clychau llaw, i lyfrau'r efengyl, ac i'r Groes', *Gerallt Gymro: Hanes y Daith trwy Gymru, Disgrifiad o Gymru*, cyf. Thomas Jones (Caerdydd, 1938), 205, ac y mae'n amlwg fod traddodiad am gloch Eilfyw.

47–8 **Mi a luniaf … / Gywyddau** Cf. y cywydd ansicr ei awduraeth i Fair yn GDID 59 (Atodiad A3.53–4) *Ar gywydd beunydd heb au / Y'th enwaf i'm gwaith innau.*

48–9 **salmau saith, / … naw antem** Deellir *salm(au)* yn ffigurol yma, sef 'cân o fawl' neu'r cyffelyb, gw. GPC 3172; cf. cerdd Dafydd ap Gwilym i'r eos, GDG[3] 74 (25.31–2) *Serchog y cân dan y dail / Salm wiw is helm o wiail*. Tebyg yw ystyr *antem*, gw. GPC 160. Ar arwyddocâd *saith* a *naw*, gw. 1.71n; ond y mae'n bosibl hefyd fod yma gyfeiriad anuniongyrchol at y Saith Salm Edifeiriol (Salmau vi, 32, 38, 51, 102, 130, 143).

51 **gosber** Fe'i hadroddid am 6 o'r gloch y nos. Gw. hefyd lau. 25–38n.

52 **y lle isod** Sef uffern.

53–4 Cf. IGE$^2$ 267 (llau. 23–6) *Unwedd ŷm, Gymry annwyl, / Â'r pumoes yn hiroes hwyl / Yn uffern gynt, iawn affaith, / Limbo patrum, cwm y caith* (Siôn Cent). *Limbo patrum* oedd y fan lle y credid bod eneidiau saint yr Hen Oruchwyliaeth yn aros hyd nes i Grist ddod i waredu'r byd, ac fe'i hystyrid yn adran o uffern. Sonia Llawdden amdano fel lle *Petrus* (ll. 54) am y byddai'n diflannu wedi gwaith achubol Crist a'i ddisodli gan y purdan a'r nef (llau. 56–8). Ar un olwg, y mae cyfeiriad Llawdden at y *limbo patrum* yn ddiangen gan ei fod yn sôn am uffern (ll. 52), y purdan, a'r nefoedd (llau. 56, 57), y tri lle a gyfrifai fwyaf yn nefosiwn yr Oesoedd Canol wrth fyfyrio ar y byd a ddaw, ac efallai fod yma elfen o arddangos gwybodaeth.

57 Twyll caled a meddal.

63 **Duw** Nis ceir yn y ll. hon yn y llsgrau., ond fe'i ceir yn llsgr. A ar ddechrau'r ll. ddilynol (gw. yr amrywiadau). Tyr ar y gynghanedd yn y safle hwnnw a gwneud y ll. yn hir o sillaf, tra bo'i angen yn ll. 63 er mwyn y synnwyr. Bernir, felly, ei fod wedi ei gamleoli yn llsgr. A ac fe'i dodir yn y ll. flaenorol. Fel hyn, ceir hefyd y nifer rheolaidd o sillafau.

64 Ar y gynghanedd, cf. ll. 45n.

## *3*

Y mae'r cywydd hwn,[1] ynghyd â cherddi 4 a 5, yn enghraifft nodweddiadol o ganu serch o'r math a eilw P.J. Donovan, gan ddilyn Peter Dronke, yn 'oddrychol', rhagor y math 'gwrthrychol' sydd â fframwaith storïol neu ddramatig.[2] Ffurfia'r cerddi hyn gorff rhyfeddol o gyfunrhyw lle yr ailgylchir yr un clwstwr o syniadau, a gall fod a wnelo hyn â phwyslais posibl a roddid ar lunio caneuon serch yn ystod prentisiaeth bardd.[3] Yn achos llawer ohonynt, y mae'n anodd gwybod pa faint o wir a pha faint o ddychymyg a berthyn iddynt, ac y mae Saunders Lewis wedi tynnu sylw at y ffaith fod Llywelyn Goch ap Meurig Hen a Dafydd ap Gwilym yn cydnabod ynglŷn â'u cywyddau gordderch mai ' "celwydd" oedd y canu, sef celwydd golau, stori wneud a ddeellid ac a dderbynnid felly'.[4] Ymddengys, er hynny, mai person go iawn oedd gwrthrych cerdd 5 (gw. y sylwadau

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 103–5 (XXXIII). Trafodir awduraeth y cywydd hwn, uchod td. 19.

[2] CSTB viii.

[3] Ymhellach, gw. E.I. Rowlands, 'Canu Serch 1450–1525', B xxxi (1984), 31–47, yn enwedig 32–3. Ond nid yw'n dilyn mai fel gweithiau prentis y dylid gweld pob cerdd serch, ac y mae'n amlwg fod rhai beirdd, e.e. Dafydd ap Gwilym a Dafydd ab Edmwnd, wedi prifio fel beirdd serch, *ib.*

[4] 'Dafydd ap Gwilym', LlCy ii (1952–3), 207.

rhagarweiniol). Yn y gerdd hon sonnir am ryw ferch (briod, efallai, gw. llau. 8n, 14n) y mae'r bardd yn ei chwenychu ond nad ydyw'n rhydd mwyach oherwydd (gellir tybio) gofal ei chymar a'i theulu rhag iddi fynd i'w afael. Erbyn diwedd y gerdd, gwelir bod y bardd yn caru'r ferch yn ddirgel ac nad yw am iddi wybod am ei serch mawr tuag ati. Oherwydd eu natur, hawdd credu mai dyn ifanc oedd Llawdden pan ganodd y gerdd hon a'r ddwy ddilynol.

1 Y mae'r ll. yn fyr o sillaf.

6 **cwyn** Cydier wrth *i'r* (*i* 'yn erbyn') yn ll. 8.

8 **dyn arall** Cymar y ferch. Efallai, ar sail ll. 14 *i'r blaid*, mai ei phriod ydoedd yn hytrach na chariadfab.

9 **tyst** Tystiolaeth o deimladau'r bardd.

10 **Duw'n fach** Ffurf dreigledig *mach* yn yr ystyr 'gwarantwr' (gw. GPC 2299) yw *mach*, gw. GSRh 12.95n, a gellir aralleirio'r ymadrodd yn 'Myn Duw' megis yn GLlG 12.50.

11 **o fod** Ymddengys fod *deau* 'deheuig, galluog' (gw. y ll. flaenorol) yn ddealledig ar ei ôl.

13 **allwydd** Llsgrau. *allwyd*, ffurf anh., felly diwygir yn *allwydd*, amrywiad ar *allwedd*, gw. GPC 79.

14 **plaid** Tylwyth a pherthnasau'r ferch. Gan fod eu gwrthwynebiad i'r bardd mor gryf, ymddengys yn fwy tebygol fod y ferch a geisiai yn briod. Ni nodir yr ystyr 'tylwyth' i *plaid* yn GPC 2815; cf. 12.10, 14, 26, 50, 62, 18.33, 27.25, 55 ond gthg. yr ystyr yn 17.47.

15 **Dewi** Sef Dewi Sant.

21 **un cyfnod cain** Ymadrodd adferfol (nid goddr. *dyfod*).

22 **du** Ffurf dreigledig *tu* 'o du, o gyfeiriad'.

26 **ym mhen neb** Sef 'yng ngenau rhywun'. Neges lafar sydd gan y bardd i'r ferch ac fe'i mynegir yng ngweddill y ll.

32–4 Y gystrawen yw *... llafur yw / Troi o'r min ... / Hanner gair ...*

35 **pwy** Ceir gwell ystyr o'i ddeall yn rh.pth. 'y sawl' nag yn rh.gof., er na nodir enghreifftiau o'r defnydd hwn sy'n gynharach na 1547 yn GPC 2947 (5).

35 **pe rhôn** Ar y cyfuniad hwn, gw. yn enwedig GMW 243 a GPC 2784–5. Fe'i dilynir yn fynych gan fe. ond yma saif ar ei phen ei hun a'r synnwyr yw 'a chaniatáu [bod hynny'n digwydd]', gan gyfeirio at *Pwy ... / A'i gwelai ...?* Cf. GDG$^3$ 156 (58.33–4) *O daw, pei rhôn, a dianc, / Oddyno, medr ffrwyno Ffranc*, 341 (128.41–2) *Pell ynfyd yw, pwyll anfoes, / Pei rhôn, gofyn pwy a'i rhoes*.

38 **tra blin fu** Cyflwyna'r rhestr o bethau a noda'r bardd o ddechrau ll. 39

hyd ddiwedd y gerdd.

**troi blaen ei fys** Cydier wrth *ni lefys* yn y ll. flaenorol. Cyfeiria *ei* at y bardd.

47 **bun roddiad** ‘Anrheg [i] fun’.

*4*

Ar *genre* y cywydd hwn, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 3.[1] Tebyg ydyw i honno o ran pwnc ac osgo ac wedi ei gyfeirio at ryw ferch ddienw.

1–2 Cf. GLMorg 21.17–18 *Blin yw taith y blaned hon, / Bileines, ar bobl Einon*; GDID 60 (Atodiad A4.27–30) *Euro plwm, ni wn pa les, / Yw moliannu mileines. / Ni ŵyr meinwar ei charu, / Ni ochel ddull y chwil ddu* (cerdd ddychan ansicr ei hawduraeth).

1 **planed des** Sef yr haul.

2 **bileines** Llsgrau. *milennies,* ond diwygir trwy ddefnyddio ffurf arall y gair er mwyn y gynghanedd a’r cymeriad a thrwy gywiro *-enn-* yn *ein*. Cyfeirir yn ffigurol at y ferch y mae Llawdden yn ei cheisio.

3 **i’r haul ysblennydd** Llsgrau. *ir ysplennydd* ond y mae’n amlwg fod rhywbeth ar goll (ac y mae’r ll. yn fyr o sillaf). Yn Llawdden, &c.: Gw 314, cynigir darllen *haul*, a’r tebyg yw fod hynny’n gywir, cf. *[p]laned tes* yn ll. 1 a’r gyfatebiaeth amlwg rhwng y ll. honno a ll. 3 (*Blin* ... */* ... */ Os blin* ...).

8 **bileinach** Llsgr. A *blin iach* (B *blinia choedd*). Diwygir er mwyn gwella’r synnwyr (cyfeirir at y *bileines*, ll. 2).

9 berfeddgoll dan yr acen.

14 Buasai’r bardd yn clera ers bron i ugain mlynedd, ond dylid gochel rhag derbyn ei eiriau fel ffaith hunangofiannol yn hytrach nag fel datganiad ystrydebol (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 3).

21–2 **tro … / A rodiais** Cf. GDG$^3$ 162 (61.17–18) *I rodio tro treigl anûn / Tan fargod to tŷ f’eurgain*.

25–6 H.y., gwelai’r dynion olion (*olau)* fel olion Adda ac Efa gynt. Yn Llawdden, &c.: Gw 315, tynnir sylw at y stori apocryffaidd ‘Ystoria Adda’ (anghywir yw’r teitl ‘Efengyl Nicodemus’) lle y cyfarwydda Adda ei fab Seth ynglŷn â mynd i baradwys i gyrchu olew trugaredd iddo, gw. HMSS ii, 244, *ti a geffy ar yfford ar llwybyr tec hwnnw oleuy dy vam a that yn wyw grin llosgedic. pan doetham o baradwys kyn wrthrymet vu yn pechodeu ac na thyuawd na blewyn na llessewyn y fford y sathryssam ac an traet y dayar*. Cf. hefyd GDG$^3$ 228 (83.49–50)

[1] Fe’i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 110–12 (XXXVI).

*Llun ein gwâl dan wial da, / Lle briwddail fal llwybr Adda.*

30 **y gŵr** Gŵr y ferch.

31 **od gwn** ‘Yn sicr’, gw. PKM 118–19; cf. 7.6.

33 Y mae’r ll. yn hir o sillaf.

**diymgais** Cyfeiriad at ddiffyg ymateb y ferch i geisiadau’r bardd. Yn GPC 1066, 1672 yw dyddiad yr enghraifft gyntaf a restrir o’r gair, ond ceir enghreifftiau i *ymgais* o’r 14g. (*ib.* 3778 d.g. *ymgais*[1]).

**dir** Fe’i deellir yn dreiglad o *tir* ar ôl y f. *[c]erddais—’i* dir’. Yn y gystrawen hon hepgorir yr ardd. ar ôl bf. yn dynodi symudiad a threiglo’r cyrchfan; cf. 10.41–2, 13.1–2 a gw. GMW 19; Treigladau 227–8. Gellid hefyd, er hynny, gymryd *dir allt* fel sangiad a deall *dir* i gynrychioli *dir* yn yr ystyr ‘caledi, gorthrwm’ (gw. GPC 1030), gan gyfeirio at y nychdod a deimla’r bardd yn yr *allt*.

**allt** Gallai olygu ‘bryn’ (cf. ll. 28 *rhiw*) neu ‘goed, llechwedd coediog’; ymhellach, gw. GPC 78, 1, 2.

40 ‘Rhoddodd [hi] arwydd o ffyddlondeb serch, [ond bellach] boed hwnnw’n ddi-rym.’ Ar *bedw* yn yr ystyr hon, gw. GPC 266.

42 **twn** Cf. GDID 46 (18.25–6) *Nid da ‘Nuw, gwen twn ei gair, / Nid da yno yt anair.*

43 **aeth i’r rhedyn** Ymddengys mai ‘mynd yn ddiddim’ a olygir; cf. yr ymadrodd ‘mynd i’r gwellt’.

47 **deuwedd ewyn** ‘[Yr un â] gwedd ddwy[waith mor brydferth ag] ewyn’.

49 **am** Llsgrau. *mab ovalon,* ond cyflenwir *am* er mwyn y synnwyr (ac unionir hyd y ll.).

50 **y gwnaeth** Y mae’n bosibl fod *ei dalu* yn ddealledig ar ei ôl (cf. ll. 49 *tâl*). Posibilrwydd arall yw mai ystyr y frawddeg yw ‘Yn / fel gweniaith a hud y gweithredodd hon.’ Trydydd posibilrwydd yw fod *y gwnaeth* yn sefyll am *a wnaeth* gan y ceir rhai enghreifftiau o *a* ac *y* yn ymgyfnewid yn y frawddeg gymysg. Cf. GLGC 410 (187.32) *ennyd fûm* [nid *(y) büm*] *yn ei dai fo*. Yn Maredudd ap Huw, ‘A Critical Examination of Welsh Poetry relating to the Native Saints of North Wales (*c.* 1350–1670)’ (D.Phil. Oxford, 2001), 156 (XXIII.55–8), ceir enghraifft dda iawn lle y gwelir y ddwy gystrawen y naill yn dilyn y llall, *O bob gwlad yn ffynadwy / I’r ffynnon a ddôn’* [nid *y dôn’*]*, bob ddwy; / Pob dwyfil dieiddil y dôn’ / Ar ffyniant, bawb i’r ffynnon*. Yn y rhyddiaith sylwyd ar CO[3] 2.30 *Mi a wydwn wreic a da it a wedei*; PKM 42.7–8 *a thrwy gynghor Branuen uu* [nid *(y) bu*] *hynny oll, ac rac llygru y wlat oed* [nid *(yr) oedd*] *genti hitheu hynny*. Sonnir ychydig am y gystrawen yn Treigladau 304–5.

Yn y cywydd serch hwn sonia'r bardd am anrheg arbennig a gafodd gan ferch, sef cusan.[1] Megis na fydd carwr yn rhoi anrheg gan ei anwylyd i neb arall, felly hefyd ni fydd y bardd yn rhoi'r cusan i neb arall, a bydd gerwinder ei farf yn gymorth iddo yn hyn o beth (gw. llau. 49–58n)! Awgryma'r cyfeiriadau daearyddol at y ferch (gw. ll. 2n) mai yng Nghaereinion Is Coed yr oedd yn byw (gw. ll. 2n). Awgryma hynny, yn ei dro, mai merch go iawn ydoedd, ni waeth pa mor ddilys neu annilys oedd serch Llawdden tuag ati.

Yn llawysgrifau AQ yn unig y ceir llinellau 13–20, ac yn A digwyddant yng nghwr y ddalen ynghyd â chwpled arall sy'n eu dilyn. Gellid dadlau mai ychwanegiadau at y gerdd a wnaed gan ryw ddatgeiniad yw'r llinellau hyn. Fodd bynnag, Q yw'r gynharaf o ddigon o'r llawysgrifau, ac er bod testun y gerdd yn fyrrach o ddau gwpled na'r testunau eraill ar ôl y llinellau hyn, eto y mae'r darlleniadau, er gwaethaf ambell wall, yn dda. Nid yn llai pwysig, y mae'r llinellau yn gwbl gydnaws â gweddill y gerdd a phenderfynwyd, felly, eu cynnwys yn y golygiad.

4 **cae Esyllt** 'Peth gwerthfawr', gw. GPC 383. Ar Esyllt, un o'r merched chwedlonol a ystyrid yn safon prydferthwch a chariad Trystan, gw. TYP[3] 350–2; CLC[2] 730–2.

2 **ein sir** Cyfeiria Llawdden at *Is Coed* yn ll. 52 ac Afon *Fyrnwy* yn ll. 61. Llifai Afon Efyrnwy trwy rannau gogleddol Powys Wenwynwyn (sef de Powys) a chwmwd Caereinion, a rhennid Caereinion yn Gaereinion Uwch Coed a Chaereinion Is Coed. Ymddengys, felly, mai Powys Wenwynwyn yw'r *sir* (mewn ystyr ffigurol megis 'bro' neu 'ardal') y sonia Llawdden amdani. Cf. 28.9.

6 **lifreifardd** Y mae'n debygol mai bardd wedi ei wisgo'n drwsiadus a olygir; ar *lifrai*, gw. GPC 2062.

**llyfr Ofydd** Cf. GIRh 2.1 *Da yw 'nghof am lyfr Ofydd*. Wrth *Ofydd* golygir y bardd Rhufeinig Publius Ovidius Naso (43 C.C.–17 O.C. ?) a ystyrid yn yr Oesoedd Canol yn ben-meistr canu serch. Tebyg nad yw *llyfr Ofydd* yn dynodi unrhyw waith neilltuol gan y bardd, ond y mae'n bosibl mai cyfeiriad ydyw at yr *Ars Amatoria*', *ib.* 138.

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 99–102 (XXXII). Cyhoeddwyd testun seiliedig ar lsgrau. FG yn *Y Flodeugerdd Newydd*, gol. W.J. Gruffudd (Caerdydd, 1909), 123–5. Am gerddi eraill ar yr un thema, gw., e.e., R. Geraint Gruffydd, '*Englynion y Cusan* by Dafydd ap Gwilym', CMCS xxiii (Summer 1992), 4–6; ID 4–6 (III), 18–19 (XI); GGH 373–5 (cerdd 114). Ar y pwyslais a rydd Cywyddwyr serch y 15g. ar ddisgrifio genau'r gariadferch, gw. Gilbert E. Ruddock, 'Rhai agweddau ar gywyddau serch y bymthegfed ganrif', yn *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol*, gol. John Rowlands (Caerdydd, 1975), 95–119; *id.* 'Genau crefydd a serch', YB x (1977), 230–56.

8 **cyfliw'r brig** Gellid hefyd ei ystyried yn sangiad trwy ddodi coma ar ôl *braisg* (cyfeirir at y ferch). GDG[3] 155 (58.15–16) *Cwfl manwallt, cyfliw manwawn, / Cam a wnai, ddyn cymen iawn.*

10 **Sieb** Benthyciad o'r S.C. *Cheap(side)*, ardal siopau yn Llundain, gw. EEW 124, 225.

15 **Enid** Enid ferch Yniwl Iarll, arwres y chwedl 'Geraint fab Erbin' a safon prydferthwch gan y beirdd. Rhestrir hi, Dyfr Wallt Euraid, a Thegau Eurfron yn y Trioedd fel 'Tair Rhiain Ardderchog Llys Arthur'; gw. TYP[3] 230, 349–50. Cf. ll. 27.

**Indeg** Indeg ferch Garwy Hir a ystyrid hefyd yn safon prydferthwch gan y beirdd, gw. TYP[3] 404–5.

19 **y'i rhown i neb** Y ll., yn llawn, yn y llsgrau. yw A *yn wir ni roddwn i neb*, Q *hwyr yn wir y [ ]eb*. Llenwais y bwlch yn narlleniad Q trwy ddefnyddio ac addasu *roddwn i neb* A. Gellid derbyn darlleniad A o'r ll. hefyd ond ni fynegir gwrthrych (sef y cusan) ynddi.

20 **hoyw … wyneb** Llsgr. Q *howy ... yn eb*, a diwygir er mwyn y synnwyr a'r brifodl ddiacen. Gellid hefyd ddarlleniad llsgr. A *Jorddonen iraidd wyneb*.

**Urddonen** Hen ffurf *Iorddonen*. Y tebyg yw mai cysylltiadau cysegredig yr afon yw sail y gymhariaeth.

21 **cired … gwared** Llsgr. A *cwred ... gwored*, ffurfiau anh., felly diwygir.

23 **dirperai** Llsgrau. *ddirprwyai*, *ddirpwyai*, *ddirpwr* a *ddirpwria* ond dilynir y diwygiad a gynigir yn Llawdden, &c.: Gw 100 (XXXII.13) er mwyn y synnwyr.

28 **deuliw lloer** '[Yr un â] lliw dwy[waith mor brydferth â'r] lloer.'

**er dialu llid** Ymddengys fod y ferch wedi digio wrth Lawdden yn gynharach. Os felly, gellir ystyried y cusan sy'n wrthrych y gerdd yn arwydd o gymod ag ef.

30 **do** Gellid ystyried hefyd ddarlleniad llsgrau. HO *doe*.

33 **Dyfr** Dyfr Wallt Euraid, un o'r merched chwedlonol a ystyrid yn safon prydferthwch gan y beirdd, gw. TYP[3] 336 ac uchod ll. 15n.

34 **da gan hon** 'Da [fu'r insel] oddi wrth hon.'

35 **Ieuan** Cyfeirir at y Preutur Siôn (*Prester John*), gwrthrych y stori ryddiaith boblogaidd 'Hystoria Gwlad Ieuan Fendigaid' (gw. YGIV) lle y disgrifir gwlad ryfeddol ac ynddi amryfal anifeiliaid, meini gwerthfawr, a thai hardd.

37 **blas** Yn yr ystyr 'sawr'. Cyffelybir hyfrydwch y cusan i hyfrydwch arogl myrr a thus.

38 **ym yr aeth hwn** Derbynnir darlleniad llsgr. G sy'n rhoi gwell synnwyr

nag *ymvarth hwn* y llsgrau. eraill.

40 **mwy les** Ar dreiglad meddal i e. sy'n dilyn a.cmhr., gw. Treigladau 48–51.

**simant** Oherwydd bod cusan y ferch hefyd megis yn cloi genau'r bardd, cf. ll. 36 *Y mae'n glo ar fy min glân*.

42 **mold sabl** 'Math o [gân ar gyfer merch] ddu [ei haeliau].'

**Sibli** Sibli Ddoeth, proffwydes y priodolwyd iddi gasgliad o waith eschatolegol; am ymdriniaethau arni, gw. GGM 146. Rhestrir hi a Chado Hen a Beda yn y Trioedd fel 'Tri dyn a gafodd ddoethineb Adda', TYP[3] 135. Ceir testun o'r broffwydoliaeth a briodolir iddi yn Llyfr Coch Hergest yn R. Wallis Evans, 'Proffwydoliaeth Sibli Ddoeth', LlCy xiv (1981–4), 216–23.

48 **ysbonc** Cf. GGH 373 (114.1–2) *Cefais, un cofus Wener, / Cyfa ysbonc gwefus bêr.*

49–58 Datblygir yn y llau. hyn y syniad a fynegir gyntaf yn llau. 35–6 o gusan y ferch fel clo ar fin y bardd. Bellach, nid yn unig y mae'r cusan yn diogelu ei fin, ond bydd ei farf yn diogelu'r cusan nes iddo ei heillio ac, megis *Capten* (ll. 54), *Clo deufin* (ll. 55), *Cwnstabl* (ll. 56), neu *bwcled* (ll. 58), yn ei rwystro rhag cusanu merched eraill. Ar y beirdd ac eillio a goblygiadau hynny i'w cariadon, gw. Dylan Foster Evans, 'Y Bardd a'r Farf: y Traddodiad Barfol', *Dwned*, ii (1996), 11–29.

51 **ei chusan** H.y., y cusan a gawsai Llawdden gan y ferch, ffordd o ddweud na fyddai'n cusanu merch arall.

52 **Is Coed** Gw. ll. 2n. Cydier wrth *merched* yn y ll. flaenorol.

53 **plethwyd** Cyfeirir at farf Llawdden.

54 **Llawdden llwyd** Ceir yr un ymadrodd gan Ieuan ap Hywel Swrdwal—*Cyn no hyn y cynhennwyd / Cael maethgen o Lawdden lwyd* (32.53–4). Y mae'n bosibl mai at farf Llawdden y cyfeirir; os felly, ar *llwyd* yn y cyd-destun hwn, gw. Dylan Foster Evans, *art.cit.* 17–20. Y mae'n bosibl hefyd, er hynny, mai lliw gwedd Llawdden a olygir. Gallai disgrifiad Hywel Swrdwal ohono fel *l[l]iw torth haidd* (30.8) awgrymu'r naill neu'r llall.

57 **llef** Llsgr. G *lle vis*. Gellid cadw'r darlleniad hwn ac ystyried *-e v-* yn odl gudd yn y gynghanedd lusg ond derbynnir darlleniad Llawdden, &c.: Gw 101 (XXXII.47) er mwyn y synnwyr. (Hawdd y gellid bod wedi hepgor y llythyren olaf dan ddylanwad *v-* y gair dilynol.) Dealler *llef* i olygu 'sain', cyfeiriad efallai at Lawdden yn barddoni; cf. GSCyf 1.25 *A llef gan dannau a llif gwirodau* (Sypyn Cyfeiliog).

58 **clod mawl** 'Clod [ar] gerdd fawl'. Yn Llawdden, &c.: Gw 101 (XXXII.48) diwygir *mawl* yn *mawr* ond nid oes angen gwneud hynny.

Twyll caled a meddal.

61 **y fernagl** GPC 1269, 'Llun wyneb Crist (yn ôl y traddodiad) a arhosodd ar y lliain neu'r cadach a roes y Santes Veronica iddo i sychu'r chwys oddi ar ei wyneb ar y ffordd i Galfaria.'

**Fyrnwy** Sef *Efyrnwy*, afon yn rhedeg o'r Berwyn yng ngogledd Powys i Hafren; ymhellach, gw. G 446; GMB 9.24n; GLlLl 22.26n. Ar arwyddocâd daearyddol yr afon i Lawdden, gw. td. 3.

## *6*

Cywydd moliant yw hwn i dri mab Owain ap Gruffudd ab Ieuan o Riwsaeson,[1] sef Hywel, Dafydd, a Llywelyn.[2] Trefgordd oedd Rhiwsaeson ym mhlwyf Llanbryn-mair yng nghwmwd Cyfeiliog (de Maldwyn),[3] a disgynnai Owain ap Gruffudd, ar ochr ei dad, o'r gŵr enwog o'r un enw a adwaenir gan amlaf fel Owain Cyfeiliog trwy un o ferched hwnnw, Annes.[4] Yr oedd yn y cartref draddodiad o noddi beirdd, megis Llawdden a Dafydd Llwyd o Fathafarn yn y bymthegfed ganrif ac, yn ddiweddarach, Siôn Ceri a Siôn Tudur.[5] Yn ôl P.C. Bartrum ganwyd meibion Owain tua'r flwyddyn 1400. Un o'r pethau mwyaf diddorol am y gerdd yw'r sylw a roddir i hoffter y tri mab o gerdd dafod a cherdd dant (llau. 9–10, 15, 23–4, 28, 64, 67) yn ogystal ag i'w milwriaeth a'u campau corfforol. Y mae hyn yn arwain Llawdden i gysylltu un ohonynt, Llywelyn, â'i gyndad Owain Cyfeiliog (llau. 21–2), tywysog nerthol de Powys yn y ddeuddegfed ganrif a gŵr a cherddi ar ei enw.[6] Dywed llawer o raglithiau'r gerdd mai meibion Owain Cyfeiliog oedd y tri mab a folir, ond diau mai camddeall arwyddocâd llinell 22 a barodd gredu hynny (a gw. ll. 22n). Rhennir y moliant i'r tri brawd yn gwbl gyfartal trwy'r holl gerdd, a chofiadwy yw'r modd y mae'r bardd yn eu cyffelybu i rannau cleddyf Maelgwn Gwynedd (llau. 39–44); fel y dywed Dr Enid Roberts ynglŷn â hyn, 'Medrai gwŷr o'r fath werthfawrogi

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 51–5 (XVII); GDID 55–7 (Atodiad A2), 142–3. Ymhellach ar awduraeth y cywydd, gw. td. 17–18.

[2] Ar eu hach, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 43; P.C. Bartrum: WG2 'Elystan Glodrydd' 43 (A, B, C); L. Dwnn: HV i, 298, 318. Ymhellach ar y teulu, gw. hefyd GSC 197. Dywedir yn GLGC 617 mai meibion Owain Fychan ap Gruffudd ab Ieuan Llwyd o Lanbryn-mair oedd Hywel, Dafydd a Llywelyn, ond er tebyced yr ach, gŵr arall oedd ef ac un mab iddo yn unig a nodir a hwnnw'n dwyn yr enw Ieuan Llwyd, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Seisyll' 3.

[3] Gw. WATU 54 d.g. *Cyfeiliog*, 104 d.g. *Llanbryn-mair*, 188 d.g. *Rhiwsaeson*.

[4] Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 42.

[5] Gw. Enid Roberts, *Braslun o Hanes Llên Powys* (Dinbych, 1965), 93.

[6] Gw. ByCy 649–50; CLC$^2$ 548. Ar y posibilrwydd, fodd bynnag, mai Cynddelw Brydydd Mawr yw gwir awdur y cerddi a briodolir iddo (sef 'Hirlas Owain' ac 'Englynion Cylchu Cymru', gw. GLlF cerddi 14 a 15), gw. Gruffydd Aled Williams, 'Owain Cyfeiliog: Bardd-dywysog?' yn BaTh 180–201.

pertrwydd ymadrodd Llawdden.'[7] Trawiadol hefyd yw'r modd y mae'r bardd yn cyffelybu eu tad a hwythau i Bumlumon a'r tair afon yn llifo ohoni, sef Hafren, Gwy a Rheidol (llau. 47–54). Tebyg yw'r gerdd hon o ran trefniant a chynnwys i gywydd moliant Hywel Swrdwal i dri mab Pasgen ap Gwyn o Gegidfa,[8] a cheir enghreifftiau eraill yn y farddoniaeth o gerddi sy'n sôn am dri gŵr neu dri mab ac ynddynt gyfresi o linellau yn dechrau â'r gair 'Tri …' neu'r cyffelyb.[9]

4 **Troea** Sef Caerdroea, lle ystyrlon iawn i'r Cymry gan y credent eu bod yn ddisgynyddion i Frutus o Gaerdoea, gw. WCD 62.

5 **mawr yw grym** Gellid hefyd ystyried darlleniad llsgrau. Ij *os mawr grym* (ceir cytseinedd ychwanegol trwy'r *s* a newidir y gynghanedd o draws fantach i draws gytbwys acennog arferol ond ceir enghreifftiau o'r draws fantach yng nghywyddau Llawdden).

**main** Credid gynt fod i feini rinweddau meddyginiaethol, gw. GGrG 68; David Green, 'A Welsh Lapidary', *Celtica*, ii (1952), 96–111.

7 **Hywel** Ac yntau'n fab i Owain, yn *moli rhiain* (ll. 9) ac yn filwr campus (llau. 11–12), dygir i gof ŵr arall o'r un enw, sef Hywel ab Owain Gwynedd, a ganodd awdlau i rianedd (gw. GLlF cerddi 7–11).

**croyw** 'Croyw [ei barabl]', cf. GC 1.47 *Boddlyw croyw heilhoyw haelhardd*.

13–14 **o'r unwydd … / O'r imp hwnnw …** 'O'r un pren o'r gangen honno yr aeth grym pennaeth [iddo].' Hywel a olygir wrth yr *imp hwnnw* ac i Ddafydd yr aeth y *[g]rym pennaeth*. Defnyddir *gwŷdd* ac *imp* yn drosiadol am wehelyth a disgynyddiaeth (cf. *impyn* yn y ddwy l. nesaf), a pherthyn y ddau frawd i'r un gangen o'r teulu; cf. GDEp 13–14, cerdd 11.10n, ac isod 20.65–6n.

15 'Mab nad yw'n tewi â [chanu] telyn.'

17 **uchelgrair Bryn-Mair** Cf. cywydd moliant Lewys Glyn Cothi i Owain Fychan ap Gruffudd, gŵr o'r un ardal, GLGC 434 (199.3–4), *Owain Fychan fy iechyd, / a chrair Bryn-mair yw fy myd*. Cyfeirir at Lanbryn-mair.

18 **maen gwn ym min Gwynedd** Cf. ll. 28 *Ac organau gwŷr Gwynedd* am y tri brawd. Yr oedd ffin ogleddol Cyfeiliog yn cyffwrdd â ffin ddeheuol Gwynedd, ond tybed a oes rhyw reswm dyfnach dros grybwyll Gwynedd yn yr enghreifftiau hyn? Ceir arwyddion ym marddoniaeth y cyfnod wedi'r Goncwest fod rhyw ragoriaeth yn perthyn i Wynedd ym

[7] *Op.cit.* 52.

[8] GHS cerdd 17.

[9] E.e. GCBM i, 21.196–203; GLMorg 84.1–3. Gw. hefyd Rhian M. Andrews, 'Triwyr a gollais: yr awdlau marwnad i dri mab Gruffudd ap Llywelyn', BaTh 166–79.

myd cerdd dafod, gw., e.e., GDC 56–7, ac efallai fod ganddi enw tebyg ym myd milwriaeth a gwleidyddiaeth. Byddai cysylltu'r tri brawd â Gwynedd, felly, un ai fel milwyr neu fel cerddorion, neu'r ddau, yn ychwanegu at eu clod. Cf. hefyd y cyfeiriad at gledd Maelgwn Gwynedd yn ll. 40.

Y mae'n bosibl, er hynny, fod ffactorau eraill ar waith. Ymddengys i Rwng Dyfi a Dulas, sef plwyf Llanwrin yng ngogledd-orllewin Cyfeiliog, fod yn asgwrn cynnen rhwng Gwynedd a Phowys yn hanesyddol, ac y mae'n bosibl i Einion ap Seisyll, un o gyndadau'r tri brawd ar ochr eu mam (gw. llau. 29–30n), ei newid o fod yn rhan o arglwyddiaeth Meirionnydd yng nghwmwd Ystumanner i fod yn rhan o Gyfeiliog, gw. GGrG 70–2. Yn wyneb amwysedd tiriogaethol a gwleidyddol o'r fath, gallai fod tuedd yng Nghyfeiliog i ymuniaethu â Gwynedd yn hytrach nag â Phowys, hyd yn oed mor ddiweddar ag yn oes Llawdden. Os felly, ymddengys fod Llawdden yn credu bod angen pwysleisio'r cyswllt â Gwynedd.

21 **ar hwn … ddwyn cof** Sef ei foli gan ddefnyddio dysg. Ystyr dechnegol sydd i *cof* yma, sef dysg y beirdd.

22 **Owain Cyfeiliawg** Trafodwyd ei gysylltiad achyddol â theulu Rhiwsaeson yn y sylwadau rhagarweiniol uchod. Fe'i crybwyllir yma er mwyn clodfori milwriaeth Llywelyn ab Owain, a chyfetyb hynny i'r sylw a roddir i filwriaeth Hywel a Dafydd, hwythau (llau. 9, 11–12, 18), yn ogystal â'u hoffter o gywyddau serch a cherdd dant. Ar fri Owain Cyfeiliog fel milwr, gw. GCBM i, 186.

23–4 Cyfeirir at Lywelyn nid Owain Cyfeiliog.

28 **organau** 'Cerddorion'; cf. ll. 64.

29–30 **Gwên … / … Seisyllt ac Ynyr** Disgynnai mam y tri brawd, Efa, o linach Seisyll o Feirionnydd, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Seisyll' 1, 2, 'Llywelyn ap Gwrgan' 4, ac yr oedd Gwên (ap Gronwy) yn orwyr i Seisyllt, gw. *ib.* 'Seisyll' 1, 4. Priododd Gwenhwyfar, disgynnydd i Seisyll yn y nawfed genhedlaeth, ag Ynyr Fychan o Nannau, gw. *ib.* 'Seisyll' 4, 'Bleddyn ap Cynfyn' 48.

29 **Elystan** Elystan Glodrydd, sefydlydd llawer o deuluoedd Rhwng Gwy a Hafren, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 1, &c.; WCD 247. Trafodwyd uchod sut y disgynnai'r brodyr ohono ar ochr eu tad.

36 **rhannu'r gamp** 'Dyfarnu'r wobr.'

40 **cledd Maelgwn Gwynedd** Ar Faelgwn, brenin Gwynedd yn y 6g., gw. ByCy 574; CLC[2] 485; TYP[3] 428–32; WCD 438–42. Ni welwyd cyfeiriadau eraill at ei gledd yn benodol, ond y mae'n bosibl hefyd nad tynnu ar draddodiad a wna Llawdden yma yn gymaint â 'dyfeisio'r' cledd, ar sail bri milwrol Maelgwn, at ddibenion ei gerdd.

41 **heb bai** Ar y calediad, gw. Treigladau 389.

42 **ys** Gellid hefyd ddarllen *os* megis yn y rhan fwyaf o'r llsgrau.

44 **ai llai ofn dyn?** 'A oes neb [â] llai [o] ofn dyn [arno]?'

46 Ceir yr un ll. yn GHS 17.34 (Hywel Swrdwal).

**y tair talaith** Sef Gwynedd, Powys, a Deheubarth; GBF 24.120 *Gan eurwawr aerbeir y teir taleith.*

47 **tair afon** Fe'u henwir yn llau. 49–50. At y rhain hefyd y cyfeirir yn GSC 13.28 *Y tair afon, nid rhyfedd*, gw. *ib.* 180–1.

48 **Pumlumon** Gw. hefyd sylwadau rhagarweiniol cerdd 10.

**llwyd** Efallai yn yr ystyr 'sanctaidd' yn hytrach nag am liw; cf. yr hyn a ddywed Dafydd Gorlech am yr Wyddfa, GDGor 6.9–10 *Hon o 'deilad hen dalaith / A luniodd Duw, gwiw yw'r gwaith!*

49 **hoywfron gwedd** Gellir ei ystyried yn frawddeg enwol, ond cf. hefyd ddarlleniad llsgr. g, *hafren gwy hoiwfron i gwedd* (cf. hefyd GXjl).

50 **Rheidiol** Sylwer mai ynganiad a sillafiad 'gogleddol' yw hwn.

**mawr anrhydedd** Gellid hefyd ystyried darlleniad llsgr. G *or vn anrrydedd.*

51 **tair geirw** 'Tair [afon] ferw'. Deellir *geirw*, ffurf l. *garw*, yn a. yn hytrach nag yn e. (megis yn 4.5; gw. GPC 1388).

**trwy'r goror** Gellid hefyd ystyried darlleniad llsgrau. MQ *trwy i* (= 'ei') *goror*. Ymddengys mai at oror Pumlumon y cyfeirir.

56 **teirllaw** H.y., 'tri gŵr', enghraifft o gydgymeriad.

57 **teiroes Garwy** Y mae ymadrodd fel 'boed iddynt' yn ddealledig o'u blaen. Ergyd *teir-* yw fod Llawdden yn dymuno i'r tri brawd fyw deirgwaith yn hwy na Garwy (cf. yr ymadrodd *teiroes hydd*, gw. GPC 1956). Crybwyllir Garwy Hir droeon yn y farddoniaeth ac yr oedd yn enwog fel carwr a milwr, gw. G 523; TYP[3] 356; WCD 272–3; GGLl 1.2n, 15.21n. Yn ôl y Trioedd, yr oedd hefyd yn dad Indeg, un o gariadon y Brenin Arthur, gw. TYP[3] 164.

58 **ynt-hwy** Amrywiad ar *hwynt-hwy*, gw. GPC 1942.

61–2 **tri … / … dewrion** Ceir y cwpled hwn yn llsgr. g yn dilyn ll. 56 ond yn rhagflaenu'r cwpled nesaf (llau. 63–4). Gan nas ceir yn un o'r llsgrau. eraill, y mae'n bosibl nad oedd yn rhan o'r gerdd wreiddiol.

61 Cf. ll. 70.

63 **term bywyd** Ar yr ymadrodd, gw. GPC 3485–6. Yma ffurfia gymal adferfol sy'n dibynnu ar y ll. nesaf—byddant yn *Tair organ ar fyd* am gyfnod eu bywyd.

65 **toreth arian** Yn llsgr. j yn unig y ceir y darlleniad hwn, ond cf. hefyd lsgr. I *torth arian*. Er bod llsgr. j yn gymharol ddiweddar, eto mwy

boddhaol yw ei darlleniad nag eiddo'r llsgrau. eraill *traeth (o) arian* (d *aran*). Y mae'n bosibl mai o gynsail goll y cafodd copïwr llsgr. j ei ddarlleniad. Ar y llaw arall, yn wyneb y cysylltiad agos rhwng darlleniadau'r llsgr. hon ac eiddo llsgr. I, y mae'n bosibl hefyd iddo ddyfalu'n dda, ar sail *torth* yr olaf, mai *toreth* y dylid ei ddarllen.

69 **geilw** Cyfeiriad, y mae'n debyg, at y tri yn gweiddi wrth filwrio.

**o** Cydier wrth *Tri*, nid *eilw*.

**Troilus** Mab ieuengaf Priam, brenin Caerdroea. Digwydd yn y gwaith ffug-hanesyddol 'Ystoria Dared' (e.e. RB 7 (ll. 29)). Yr oedd hefyd yn arwr rhamant serch gan Chaucer, gw. GLGC 526.

70 **a wna tair ffon us** Cf. GSC 15.10 *Mae'n us dy wayw, mewn ais dyn*, 33.3 *Gŵr a wnâi'r gwewyr yn us*.

74 **Torri cwlwm tair colon** Ystyr *torri cwlwm* yw 'llunio cân', ac amrywiad yw *colon* ar *colofn*, GPC 544. Y mae'n bosibl, er hynny, fod Llawdden yn defnyddio *cwlwm* a *colon* yn fwriadol amwys fel termau cerdd dant; cf. GSDT 12.13–14 *Ni bu raid ar dy daid ofn / Er cwlm no'r pedair colofn* ('I ofyn telyn').

75 **undod barch** 'Undod [sy'n destun] parch'. Gallai *undod* fod yn eb. yn ogystal ag yn eg., gw. GPC 3705–6.

76 **trywlwf** GPC 3626 (d.g. *trwlwf*), '(cwlwm yn symboleiddio) cariad cywir, anwylyd'. Benthyciad o'r S. *true-love*, *l.c.*

## *7*

Egyr y cywydd hwn gyda'r bardd yn mynegi awydd mynd i hela hydd coch gyda noddwr o'r enw Hywel (llau. 1–12).[1] Â rhagddo wedyn i fynegi ei hoffter o gig hydd,[2] ond yn y cwpled *Cig yt, hael, at y cog tau, / Crwn main, a'r croen i minnau* (llau. 17–18) y mae'r geiriau *a'r croen i minnau* yn drobwynt i ddechrau disgrifio croen hydd a gawsai gan Hywel ac i ddiolch amdano (ll. 19 hyd y diwedd).[3] Y mae'n ddiddorol sylwi mai diben y croen i

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 75–8 (cerdd XXIV). Ymhellach ar hela'r carw yng Nghymru, gw. DrOC 189–94; Dafydd Jenkins, 'Hawk and Hound: Hunting in the Laws of Court', yn *The Welsh King and his Court*, ed. T.M. Charles-Edwards *et al.* (Cardiff, 2000), 268–80; William Linnard, 'The Nine Huntings: A Re-examination of *Y Naw Helwriaeth*', B xxxi (1984), 119–32.

[2] Cf. a ddywedir yn W. Linnard, *Welsh Woods and Forests: a History* (Llandysul, 2000), 54, wrth sôn am barciau ceirw yn yr Oesoedd Canol: 'Though hunting was certainly sometimes practised within the confines of these medieval deer parks, as Oliver Rackham points out the real purpose of a park was the prosaic supply of venison, other meat, wood and timber. Descriptions of Welsh parks show that they contained not only deer (usually fallow deer, but sometimes red deer in addition) but also cattle. Indeed, cattle were often more important than deer.'

[3] Nid i ofyn amdano, fel y dywedir yn Llawdden, &c.: Gw 75 (teitl y gerdd).

Lawdden yw ei wisgo i dwyllo'r hydd y gobeithir ei ddal i feddwl mai hydd arall yw'r heliwr. Er mai sôn am y croen hydd a gafwyd sy'n llenwi'r rhan fwyaf o'r gerdd, gellid dadlau bod Llawdden hefyd, trwy hynny, yn ceisio dwyn perswâd yn gynnil ar ei noddwr i gydhela ag ef.

Y mae'n ansicr pwy oedd Hywel gan na sonnir dim am ei achau. Fodd bynnag, crybwyllir lle o'r enw Coed Cywryd (ll. 10) lle y gobeithiai Llawdden fynd i ddal hydd, a cheir fferm o'r enw hwn ym mhlwyf Meifod, rhwng Dolobran a Glasgoed, gynt ym maenor Mechain Uwch Coed ym Mhowys (ymhellach, gw. ll. 10n). Wrth edrych am wŷr o'r cyfnod o'r enw Hywel ymhlith noddwyr y beirdd ym Mechain, sylwyd ar Hywel, mab ac aer Gruffudd ap Siancyn o Lwydiarth ym mhlwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa,[4] tua phum milltir o Goed Cywryd fel yr hed y frân. Yr oedd ei dad yn un o bleidwyr Owain Glyndŵr a chredir mai ef a gododd y plasty. Canodd Tudur Penllyn gywydd i gymodi Hywel â Hywel ap Gruffudd Derwas,[5] a daeth y teulu yn un o'r pwysicaf yn nhraddodiad nawdd y sir. Y mae'n bosibl, felly, mai Hywel ap Gruffudd ap Siancyn o Lwydiarth oedd noddwr Llawdden, a diddorol sylwi bod Llywelyn ab Einion ap Celynnin o Lwydiarth, uchelwr o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, wedi rhannu ei ystadau ymhlith ei feibion gan roi i'w fab ieuengaf, Dafydd, Ddolobran a Choed Cywryd,[6] sy'n dangos bod cyswllt penodol rhwng y ddau le ar un adeg. Cyfeiria Llawdden ato'i hun fel un *iefanc* (ll. 63), a gellir ystyried y cywydd, gan hynny, yn un o'i gynhyrchion cynnar.

3 **Hywel** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

4 **hydd coch** W. Linnard, *Welsh Woods and Forests: a History* (Llandysul, 2000), 56, 'The classical hunt was of the red deer stag.'

**nid i wahodd caith** H.y., bydd y cwmni yn ddethol.

5 **yfory** Fe'i deellir yn wrth. y f. *[b]wriwn*.

6 **collais gais** Ymddengys fod Llawdden wedi methu â saethu hydd ar ryw helfa flaenorol.

8 **yr iarll** Efallai mai Hywel, noddwr Llawdden (ll. 3), a olygir, ond gan fod fforestydd Cymru wedi eu hen drawsfeddiannu gan y Goron a barwniaid Lloegr erbyn cyfnod Llawdden, y mae'n bosibl mai un o arglwyddi'r Mers a olygir. Delid Mechain Uwch Coed trwy'r Oesoedd Canol gan arglwyddi Powys, ac os oedd Llawdden yn ifanc pan ganodd

[4] Ar ei ach, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Aleth' 7; P.C. Bartrum: WG2 'Aleth' 7A; L. Dwnn: HV i, 291–2, 294. Fe'i dodir gan Bartrum yn y ddeuddegfed genhedlaeth, a anwyd tua 1400. Ar deulu Llwydiarth a'r canu iddynt, gw. ByCy 537, 937–8; CLC$^2$ 465–6; NBSD 147–59.

[5] GTP 37–8 (cerdd 22). Canodd Tudur gywydd i'w frawd Ifan hefyd, *ib.* 24–25 (cerdd 14).

[6] Canon Wynne-Edwards, 'History of the Parish of Meifod', Mont Coll ix (1876), 336. Diolchaf i Mr Richard Morgan, Caerdydd, am dynnu fy sylw at yr erthygl hon a hefyd am fanylion pellach ynglŷn â Choed Cywryd.

y gerdd hon (gw. y sylwadau rhagarweiniol), efallai mai Harri Grae, Iarll Tancrfil ac Arglwydd Powys, a ddienyddiodd Syr Gruffudd Fychan o Gegidfa yn 1447 (gw. 20.36n), yw'r *iarll*. (Bu farw Harri Grae yn 1450, gw. Morris Charles Jones, *The Feudal Barons of Powys* (London, 1868), 81.) Ceir achosion o Gymry yn derbyn caniatâd i hela mewn fforestydd, gw. Robert Richards, *Cymru'r Oesau Canol* (Wrecsam, 1933), 153–4, 162.

9 **pan dyfo'r ŷd** Sef adeg yr haf.

10 **Coed Cywryd** Gw. y sylwadau rhagarweiniol. Ymddengys mai fferm oedd Coed Cywryd a dyna ydyw heddiw (SJ 1298912349). Mwy naturiol, er hynny, yng nghyd-destun y gerdd, fyddai ei ddeall yma yn enw ar goedwig. Ni welwyd unrhyw gyfeiriadau at y lle fel coedwig ar y mapiau O.S. ond y mae'n hawdd i adeilad dderbyn ei enw oddi wrth nod tir cyfagos. Serch hynny, ni cheir coedwig ger Coed Cywryd heddiw. A oedd un yn arfer â bod yno? Ar y llaw arall, ceir tyddyn o'r enw Coedcywryd-bach (SJ 1300012826) nid nepell o Goed Cywryd i'r gogledd, a saif coedwig helaeth ar ei ochr ddwyreiniol. Y mae'n bosibl, felly, mai'r goedwig honno a olygir, ond ni ellir bod yn bendant ynglŷn ag union leoliad y fan a oedd gan Lawdden mewn golwg gan fod Cymru yn llawer mwy coediog yn ei gyfnod ef nag ydyw heddiw.

12 **llith** Abwyd i ddenu'r hydd i fagl.

**o ŵyl Fair i'r llall** Sef o un ŵyl Fair i'r ŵyl Fair nesaf. Yr oedd amryw o'r gwyliau hyn—gw. GPC 1759; J. Cartwright: ForF 180–6; dichon mai ffordd arall o ddweud 'o ddechrau hyd ddiwedd haf' yw hyn.

15 **wmlys** GPC 3735, 'syrth neu offal bwytadwy anifeiliaid neu bysgod, math o stiw wedi ei wneud o'r cyfryw'. Benthyciad ydyw o'r S.C. *oumles*, *l.c.*

19 **i** Llsgrau. *dy*, ond gwell yw *brodiwyd* gyda *Dwbled* yn y ll. nesaf na chyda *[p]rydydd*, felly diwygir.

20 **dwbled, gwell** Y drefn yw *Gwell fydd dwbled no'r felfed*, oni thrinnir *dwbled* fel eg., gthg. GPC 1104. Y croen hydd a gafodd Llawdden, wrth gwrs, a olygir wrth *dwbled*.

27 Y mae'r ll. yn hir o sillaf oni chywesgir *i am*.

31 **pei saethydd** 'Pe bai saethydd [i'w gwisgo (sef y bais)]', ffordd arall o ddweud 'ar gyfer saethwr'.

33 **ei** Sef *pais* (ll. 31).

34 Yr ystyr yw 'am na ffy'r hyddod [sydd] yn [y] goedwig'.

35–6 Y drefn yw *Ffroen dda carw 'n y llwyn ni chyffry'n ddiwall rhag croen y llall*.

37–40 Adleisir yma y stori ym 'Mrut y Brenhinedd' Sieffre o Fynwy am

Frutus ar ei grwydriadau yn gofyn i'r dduwies Diana ym mha wlad y dylai breswylio ac ymgartrefu. Gorweddodd ar groen ewig wen ac atebwyd ei gais gan y dduwies mewn breuddwyd pan ddywedwyd wrtho am fynd i *ynys parth h6nt y ffreinc*, sef Prydain; gw. RB 52–3 (cf. hefyd BRh 2–3).

38 **brat ais** Llsgrau. *brytas*, ffurf anh. a ddiwygir yn betrus yn *brat ais*, 'clogyn / mantell [ar gyfer] asennau', cf. *ais* a *gwisg* yn llau. 39–40.

39 Ffordd o ddweud 'pwysodd â'i holl gorff', h.y., gorweddodd.

41 **meudwy i Fedlem** Cf. llau. 43–6 ar Ioan Feddydiwr: yr oedd Ioan yn byw ar ei ben ei hun yn yr anialwch yn y Tir Sanctaidd. Yn ôl GPC 266, ystyron *bedlem* yw 'ysbyty Mair o Fethlehem yn Llundain a drowyd yn wallgofdy yn 1547, gwallgofdy' ac 'un o drigolion gwallgofdy, gwallgofddyn; dyn hanner gorffwyll wedi ei drwyddedu i gardota, cardotyn, crwydryn', ond nid yw'r ystyron hyn yn gweddu i'r testun ac nid yw enghreifftiau GPC yn gynharach na'r 17g. Yn hytrach, y mae'n amlwg mai pentre geni Iesu a olyga Llawdden. Y ffurf arferol mewn Cym.C. am Fethlehem oedd *Bethlem*.

44 **Ieuan Fedyddiwr** Gw. ll. 41n.

46 *r* berfeddgoll dan yr acen.

47 **ffaling** Benthyciad o'r Wydd.C. *fallaing*, GPC 1275. 'Clogyn trwm Gwyddelig a oedd yn boblogaidd iawn ledled Ewrop yn y cyfnod hwn' ydoedd, GDEp 169.

52 **blawd aur** Cf. ll. 61 *eurdonnen*.

53 **mae'n ystôr** Llsgrau. *Mae n ystor* a deellir hyn i olygu 'y mae'n gyfoeth' (sef *gweddill* yn ll. 54). Y mae'n bosibl, er hynny, mai *Mae 'n y stôr* y dylid ei ddarllen—'y mae yn y cyfoeth / y ddarpariaeth / ?y stôr weddill hon' (ar ystyron *ystôr*, gw. GPC 3338 d.g. *stôr*).

53–4 **wyd / … lluniwyd** Cyfeirir at y croen hydd.

54 **gweddill** Sef gweddill corff yr hydd y gellid ei ddefnyddio i wneud y pethau a restrir yn llau. 55–6.

55 **sierfel** O groen myn gafr y daw'r lledr hwn (gw. GPC 3273), ond ymddengys mai cyffelybu croen yr hydd i sierfel a wna Llawdden.

61 **eurdonnen** Llsgrau. *Evrddonen*, sef Iorddonen, ond derbynnir awgrym Llawdden, &c.: Gw 304 y byddai *aur-donnen* (*sic*) 'croen aur' (ar *tonnen*, gw. GPC 3521 d.g. *tonnen*[2]) yn fwy addas; cf. ll. 52 *Blawd aur*.

62 **rhag magu eilon** *Hela* eilon y mae Llawdden yn hytrach na'u magu.

63 **iefanc wyf** Atebir hyn yn ll. 65 lle y dymuna'r bardd oes hir.

66 **oed yr hydd** Sef oes faith, gw. GPC 1956 d.g. *hydd*[1]; cf. 13.48. Sylwer hefyd ar yr eironi.

*8*

Cywydd yw hwn[1] i ofyn am baun gan Ruffudd ab Ieuan Fychan a'i wraig Gweurful ferch Madog ap Maredudd o Abertanad, trefgordd ym mhlwyf Llanyblodwel yn swydd Amwythig,[2] dros Ddafydd Llwyd o'r Drenewydd (gw. ll. 56n). Y mae Llawdden yn diolch yn gyntaf i Weurful am baun a pheunes a gawsai ganddi o'r blaen, ond bellach y mae'r paun wedi marw gan adael peunes unig ar ei ôl. Gofyn Llawdden, felly, i Ruffudd a Gweurful am baun arall yn gymar iddi (llau. 35–8). Mewn cywyddau wedi eu cyflwyno i ŵr a gwraig, yr arfer yw cyfarch a chanmol y gŵr yn gyntaf, a dyna a wna Llawdden yng ngherddi 11, 12, 29 (a cf. cerdd 13 lle y molir plant y rhieni hefyd). Yn y gerdd hon, fodd bynnag, y wraig a folir yn gyntaf. Y mae'n ddiddorol hefyd mai i Weurful y gofynasai Llawdden am baun a pheunes, oherwydd yn y cywyddau gofyn a diolch dynion fel rheol a roddai bethau o'r fath. Fodd bynnag, uchafbwynt y cywydd hwn yw erchi paun arall, ac i'r gŵr, Gruffudd, y gofynnir yn gyntaf amdano. Nid yw'r gŵr yn ddarostyngedig i'r wraig, felly, fel y prif roddwr yn y gerdd, ac ychwanegid at ei bwysigrwydd gan briodoldeb rhoi aderyn gwryw gan ŵr. Ystyrid cig y paun yn amheuthun yn yr Oesoedd Canol (gw. llau. 55–60n).

1 **hawddfyd yt, hyfryd** Llsgr. *hawdd vryd talygvryd* Digwydd y gair *hawddfryd* fel a. yn golygu 'hydrin, hynaws', gw. GPC 1827, ond nid yw'n taro yma a haws credu mai *hawddfyd* 'byd da, llwydd', &c. (*l.c.*) oedd y darlleniad gwreiddiol. Y mae'r ffurf *talygvryd* yn anh. a chynigir yn betrus mai llygriad testunol ydyw o *yt hyfryd*, diwygiad sy'n adfer synnwyr boddhaol. Rhaid cydnabod bod hyn yn creu cynghanedd sain o gyswllt ewinog, na ddigwydd ond yn achlysurol yn y farddoniaeth, ond ceir enghreifftiau eraill yn 1.28, 59, 3.48.

2 **caer syndal** Cyfeiriad at breswylfod Gweurful Fychan lle y gwisgir neu y darperir moethau fel syndal, sef math o liain main sidanaidd. Gellid hefyd ddeall *kaer* y llsgr. i gynrychioli *cae'r* gyda *cae* efallai'n golygu math o benwisg, gw. GPC 382, 2 (b), a cf. GLlF 26.209 *Ar Dewi uab Sant syndal duted* ('… [a chanddo] fantell syndal') (Gwynfardd Brycheiniog); ond os felly ni ddisgwylid gweld rhagflaenu *syndal* gan y fannod.

3–5 **Gweurful ferch Fadog … / … / … o Fredudd** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

4 **y ddwy Faelawr** Sef Maelor Saesneg a Maelor Gymraeg, dau gwmwd

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 24–6 (IX).

[2] Ar eu hachau, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Tudur Trefor' 17, 'Bleddyn ap Cynfyn' 10. Yr oedd Gruffudd yn ail ŵr i Gweurful. Ar Weurful, gw. hefyd Llawdden, &c.: Gw xix–xx. Ceir marwnadau iddi gan Guto'r Glyn, GGl[2] 181–2 (LXVIII) a Lewys Glyn Cothi, GLGC 461–2 (cerdd 212).

yng ngogledd-ddwyrain Powys, gw. WATU 148.

5 ‘[A hithau’n] gyfryw ferch wych wedi disgyn o Fareddudd’. Ar *planed* yn yr ystyr hon, gw. GPC 2816 (d), a cf. 2.19n a’r defnydd tebyg o *lloer*, GPC 2198, 2 (b). Gthg. yr ystyr yn 21.1.

6 **Nudd** Nudd ap Senyllt a oedd, gyda Mordaf ap Serfan a Rhydderch ap Tudwal Tutglyd, yn un o ‘Dri Hael’ Ynys Prydain, a chyfeiria’r beirdd ato yn aml fel safon haelioni, gw. TYP$^{3}$ 464–6.

9 **penwn** Crib y paun a olygir.

10 Ni cheir ail l. y cwpled yn y llsgrau.

11 **angel** Term o ganmoliaeth uchel a ddefnyddir yn ffigurol; cf. ll. 38 *Archangel* am Ruffudd ab Ieuan Fychan.

14 **mawr ’y mhenyd** H.y., ‘mawr yw fy ngofid’. Ar ystyron *penyd*, gw. GPC 2765 d.g. *penyd*$^{1}$.

15 **lleianes** Llsgr. *vynaches*, ond tebyg iddo yw *lleianes* o ran ystyr, a diwygir er mwyn y gynghanedd; cf. GDG$^{3}$ 313 (118.10) *Lleian ym mrig llanw môr wyd*. Ergyd y gymhariaeth, y mae’n debyg, yw fod y beunes ar ei phen ei hun. Cyn 1592 a nodir ar gyfer yr unig enghraifft o *lleianes* a geir yn GPC 2144.

17 **gweddw** Llsgr. *Gweddwr*. Diwygir er mwyn yr ystyr (sef ‘amddifad’, gw. GPC 1614 (d)).

19–20 Ergyd y cwpled yw fod y beunes yn cadw sŵn aflafar, cwbl wahanol i eiddo’r eos, sy’n canu’n beraidd hyd berfeddion nos.

19 **breuddwyd** Gallai yn fynych olygu hunllef.

20 **tyru** Cymerir mai amrywiad ydyw ar *tyrfu* ‘gwneud twrw, seinio’, GPC 3682, er na cheir enghraifft o’r ffurf yno.

27 **lleidraidd** GPC 2146 ‘yn perthyn i leidr, lladratgar, o natur ladronllyd, chwannog i ladrata’. Fel y dywedir yno, ansicr yw’r enghraifft hon, ond efallai mai ar osgo’r aderyn y mae’r pwyslais: symuda yn ei fantell wydrin a’i holl fryd, fel lleidr, ar gael ei ddymuniad.

28 **llewych** Llsgr. *llewyrch*. Diwygir er mwyn cryfhau’r gynghanedd.

**gwaith Adar Llwch Gwin** Cyfeirir at chwedl a darddodd o stori am Alecsander Fawr a ddisgrifir yn DN 159 fel a ganlyn: ‘Alexander went up in the air in a cage borne by griffins, whereby he was enabled to reconnoitre the position of the armies of Gog and Magog, who were marching against him.’ Am liw ac ysblander yr Adar—y ‘*griffins*’—yn bennaf, wrth gwrs, y mae Llawdden yn meddwl yma wrth ddisgrifio’r paun yn hytrach nag am yr hyn a wnaethant (*gwaith*). Ymhellach gw. *ib.* 160–1, GPC 12; TYP$^{3}$ 330–1; WCD 205–6, 451–2; GGLl 14.64n.

30 **Gwalchmai adar Mai** Gall mai Gwalchmai ap Gwyar, un o farchogion y Brenin Arthur a olygir (gw. TYP$^{3}$ 367–71) neu ynteu Gwalchmai ap

Meilyr, y bardd. Y mae'r geiriau'n dwyn i gof orhoffedd yr olaf sy'n dechrau, GMB 9.1–4, *Mochdwyrea6c huan haf dyfestin, / Ma6s llafar adar, mygyr hear hin. / Mi ytwyf eurddetyf diofyn y nrin, / Mi ytwyf llew rac llu, lluch vyg gortin*. Os felly, anodd er hynny yw gwybod ai fel bardd ai fel gwron ai'r ddau y mae Llawdden yn synio yma am Ruffudd.

31 **â'i ran yr aeth** H.y., y mae'r mab wedi derbyn yr un ffawd dda â'i dad.

Anarferol iawn yw'r acen ar *a* sy'n ofynnol yn ôl y gynghanedd.

32 **a oes fechnïaeth** H.y., nid oes neb a all sefyll yn lle Gruffudd ab Ieuan Fychan, nid oes neb tebyg iddo.

33 **brodiwr** GPC 331, 'Un sy'n addurno â gwaith edau a nodwydd, yn aml yn *ffig*.' Efallai mai 'un sy'n harddu' (e.e. trwy gyfoeth ac anrhegion) a olygir. Gellid hefyd gynnig mai e. ydyw o'r f. *brodio* 'barnu, traddodi barn', gw. GPC 330 d.g. *brodiaf*[1], ond ni nodir y ffurf *ib.* 331.

34 **Brytaniaid** Llsgr. *Brytanaidd.* Diwygir gan ddilyn Llawdden, &c.: Gw 25 (IX.34) a darllen *Brytaniaid* sy'n rhoi gwell synnwyr. Trigai *Brytaniaid Abertanad* ym Maelor Saesneg (ar *Abertanad*, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod).

35 **gwlad y wledd** Gan mai ar ran Dafydd Llwyd o'r Drenewydd y mae Llawdden yn siarad yma, y mae'n dilyn mai Powys a olygir.

36 **o Wynedd** Yr oedd mam Gruffudd ab Ieuan Fychan, Tibod, yn perthyn i lwyth Osbwrn Wyddel, Meirionnydd, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 10, 'Osbwrn Wyddel' 1; ByCy 648.

37 **ei chlod** Sef clod y *ferch yngod*, h.y. Gweurful, yn y ll. nesaf.

38 **archangel** Gw. ll. 11n.

40 **esgob** Yn GPC 1243 yr ystyr ffigurol a roddir i *esgob* yw 'gwarcheidwad, bugail (enaid)', ond y mae'n debygol mai ar wychder neu ragoriaeth y paun y mae'r pwyslais yma; cf. 19.28 *esgyb* ynglŷn â milgwn.

**ysguboriaid** Nis nodir yn GPC 3848 ond fe'i deellir i olygu 'llond ysgubor', ar lun ffurf megis *cwpanaid.*

42 **ysgewyll** Llsgr. *ysgiwyll*. Ceir *ysgywyll* gan John Davies yn D fel amrywiad ar *ysgewyll*. 'Ysbrigau' yw'r ystyr.

44 **Melwas** Yr arwr chwedlonol a ddug ymaith Wenhwyfar, gwraig Arthur, o serch ati, gw. GDG[3] 496–7; TYP[3] lxiv, 379–80; WCD 469–70. Diau mai fel gordderchwr, megis Melwas, y mae Llawdden yn meddwl am y paun yma; cf. GIBH At. IV.57n; isod ll. 47n. Efallai hefyd yr awgrymir bod Melwas yn brydweddol.

45 **moled ar hwn** H.y., 'y mae moled ar hwn.' Ar *moled*, benthyciad o'r S.C. neu'r H.Ffr. *volet*, gw. GPC 2480 d.g. *moled*[1], 'cadach neu ddilledyn i'w roddi am y pen, y gwddf, neu'r ysgwyddau, penlliain

merch, cwrsi, gwimpl, fêl, gyddfwisg, sgarff, siôl; ffunen, cadach poced; ffedog; hefyd yn *dros.*' Yn y cyd-destun, y tebyg yw na olyga fawr mwy na 'mantell'.

47 'Dail mawr (sef y plu) [yn disgleirio] fel capel Myrddin'.

**capel Merddin** Y mae'n debygol mai'r hyn a olygir yw'r tŷ gwydr a gysylltid â Myrddin. Cyfeiriai'r beirdd ato nid yn unig fel bardd ond hefyd fel carwr, ac o'r 15g. cyfunir cyfeiriadau ato yn y swyddogaeth honno â chyfeiriadau at ei *dŷ gwydr*, e.e. DGA 65 (24.17–20) *Gwnaf yno i hudo hon / Glos o fanadl glas feinion, / Modd y gwnaeth, saernïaeth serch, / Myrddin dŷ gwydr am ordderch*. Gw. TYP[3] cviii, 461–3; WCD 499–500. O gofio hefyd mai un o nodweddion delweddaeth y Cywyddwyr yn eu canu serch yw rhoi statws lled-gysegredig i'r mannau yn y wlad lle y cadwent oed â'u cariadon, digon hawdd fyddai cyfeirio at y tŷ gwydr fel capel; cf. DGA 75 (27.21–2) *Capel glwysfrig ni'm digiai / O goed, fentyll defyll dai*. Ar bortreadu'r paun fel gordderchwr, cf. ll. 44n.

48 **camlod** GPC 402 d.g. *camlad*, 'Defnydd ysgafn o wlân, sidan a blew at wneud mentyll, &c. …' (benthyciad o'r S.C. *cham(e)lot*).

**rhod yr hin** Cf. yr ymadrodd *rhod yr haul*, gw. GPC 3084 d.g. *rhod*[1]. Ni olygir fawr mwy na'r wybren, a ddefnyddir yma yn bwynt cymhariaeth ar gyfer ysblander y paun; cf. uchod ll. 45 *mold yr haul*.

51–4 Cyfeirir at arfer cariadon lle y gofynnai'r cariadfab i'w gariadferch wneud penwisg iddo o blu (yn yr achos hwn) neu frigau'r coed; cf., e.e., GDG[3] 88–90 (cerdd 31), 91–2 (cerdd 32), 158–9 (cerdd 59); DGIA 95.

51 **hed** Llsgr. *hede*. Diwygir gan adfer cynghanedd i'r ll. (ac unioni nifer y sillafau).

**merched y medd** Cf. ll. 35n *[g]wlad y wledd*. Efallai mai'r merched a drigai ym mro'r bardd a olygir.

54 **dyrnaid** Sef dyrnaid o blu y paun (i'r bardd ei addurno ei hun).

55–60 Yr hyn a wna Llawdden yn y llau. hyn yw disgrifio pryd o baun wedi ei rostio yn llys Dafydd Llwyd ar gyfer Arglwydd Powys ar y pryd er mwyn egluro pam y mae'n gofyn i Weurful a'i gŵr am baun, sef er mwyn magu rhagor o'i epil er mwyn eu bwyta. Yn *The Encyclopædia Britannica* (11th ed., New York, 1910–11), xxi, 22, dywedir am y paun, 'Classical authors contain many allusions to its high appreciation at the most sumptuous of banquets; and medieval bills of fare on state occasions nearly always include it. In the days of chivalry one of the most solemn oaths was taken "on the peacock," which seems to have been served up garnished with its gaudy plumage.' Ar y pwynt olaf, gw. ymhellach isod llau. 59–60n.

56 **Dafydd Llwyd** Yr oedd gan Weurful fab o'r enw hwn, a chanodd

Guto'r Glyn, Lewys Glyn Cothi ac Ieuan ap Tudur Penllyn gywyddau mawl a marwnad iddo, gw. GGl[2] 197–9 (LXXIV), 230–2 (LXXXVIII); GLGC 459–60 (cerdd 211); GTP 88–90 (cerdd 50). Fodd bynnag, y mae'r cyfeiriad at Bowys yn ll. 55 ac, yn fwy penodol, at y *llew o'r Dre Newydd* yn ll. 61, yn awgrymu mai'r gŵr a olygir, yn hytrach, yw Dafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion o'r Drenewydd, gŵr o fri yng nghantref Cedewain yng nghanol y 15g. a noddwr pwysig a hael i'r beirdd, gw. R. Iestyn Daniel, 'Cywydd Moliant a Brud i Ddafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion o'r Drenewydd', *Dwned*, iii (1997), 53. Cyfeirir ato yma am mai ef oedd y gŵr y gofynnodd Llawdden am baun ar ei ran.

59–60 Gw. Enid Roberts, *Bwyd y Beirdd: 1400–1600* (Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru, 1976), 11, 'Dylid blingo paun, y croen a'r plu ynghyd, a'u cadw'n gyfan. Y ffordd orau i wneud hyn, meddai Siôn ab Ifan o ymyl Tref Drystan, sir Frycheiniog (*c.* 1566), yw gwneud twll yn ei ben, "ac â bôn adain [cwilsyn] chwyth rhwng y croen a'r cig yn ffest oni chodo'r croen oddi wrth y cig". Gosod y paun i'w rostio fel y byddai'n eistedd pan oedd yn fyw. Wedi iddo oeri, ei roi ar ddysgl gyda finegr a phowdr lwmbard drosto; yna rhoi'r croen a'r plu a'r gynffon yn ôl am y corff.'

58 **pwn gwyal** Holl blu a chwilsennau'r aderyn. Ar y ffurf *gwyal*, e. torfol a ll., gw. GPC 1653 d.g. *gwialen*.

60 **newydd wisgaw** Oherwydd y dull o'i baratoi, y mae'r aderyn wedi ei wisgo / ei orchuddio o'r newydd â'i blu, gw. llau. 59–60n.

61 **anrheg llew** 'Saig [megis eiddo'r] gwron …'

**[y] Dre Newydd** Gw. ll. 56n (S. *Newtown*).

62 **y penrhaith** Sef Gruffudd ab Ieuan Fychan (llau. 28–32). Sylwer mai ar y sillaf olaf yr acennir *penrhaith* (gw. GPC 2757).

63 **dan haul a gro** H.y., 'yn fyw neu'n farw'.

64 **a ŵyr ei hilio** 'Sy'n gwybod sut i'w fagu' (sef y paun).

## *9*

Cywydd yw hwn i ofyn march gan Syr Siôn Bwrch, Arglwydd Mawddwy, dros *Fab Syr Gruffudd … / Dafydd … / Llwyd …* (llau. 28–31).[1] Yn ôl Mary Gwendoline Headley, gall mai mab Gruffudd ab Ieuan Fychan o Abertanad y gofynnodd Llawdden iddo a'i wraig am baun (gw. cerdd 8) yw'r Dafydd Llwyd hwn,[2] ac mai ei dad yng nghyfraith, Maredudd ab Ieuan, yw'r

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 56–60 (XVIII).
[2] *Ib.* 295.

*Maredudd* a grybwyllir yn llinell 33.[3] Fodd bynnag, heblaw na wyddys bod Gruffudd ab Ieuan wedi ei urddo'n farchog, haws tybio mai mab yr enwog Syr Gruffudd Fychan o Gegidfa[4] a olygir, ac ategir hyn gan y cyfeiriadau at *Gwennwys* (llau. 37, 59), oherwydd dyna enw'r gwehelyth y perthynai Syr Gruffudd Fychan iddo[5] (ar y cyfeiriad at *Maredudd* yn ll. 33, gw. y nodyn). Yn ôl P.C. Bartrum, perthynai Dafydd i'r drydedd genhedlaeth ar ddeg, a anwyd tua 1430. Bu'n gwasanaethu yn lluoedd y brenin yn Ffrainc,[6] a bu farw yn 1489[7] trwy foddi pan lamodd ei farch o long, fel y dywed Dafydd Llwyd o Fathafarn wrthym mewn marwnad iddo.[8] Disgrifir Syr Siôn Bwrch (John Burgh) gan G.T.O. Bridgman fel 'person of great magnificence',[9] ac ategir hyn gan gerdd Llawdden. Daeth yn Arglwydd Mawddwy yn 1430 ac yr oedd wedi ei urddo'n farchog erbyn 1444–5. Bu farw yn 1471. Rhan fechan a chymharol dlawd o'i ystad, fodd bynnag, oedd arglwyddiaeth Mawddwy, y mae lle cryf i dybio na threuliai lawer o amser yno, ac ni wyddys pa le yn union yr oedd llys y teulu. Llawer mwy prysur ydoedd yn swydd Amwythig lle yr oedd y rhan fwyaf o'i gyfoeth a'i swyddi pwysicaf, a chadwai ei brif ganolfan yn y Drefrydd, sef Wattlesborough. Cyfeiria Llawdden at y dref hon yn nechrau ei gywydd (ll. 3) ac y mae hynny, ynghyd â'r darlun a geir ganddo o ysblander llys Syr Siôn, yn awgrymu'n gryf mai yno y cyflwynodd ei gerdd iddo, megis y gwnaeth Guto'r Glyn yntau.[10]

1 **y llew 'n aer** 'y [gŵr sydd yn] wron mewn brwydr.'

3 **y Drefrydd** Sef Wattlesborough, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

5 **fal llanw ar draeth** Y mae llys Siôn Bwrch yn chwyddo gan bobl

[3] *Ib.* 296. Ar ach Maredudd ab Ieuan, Ystumcegid (sir Gaernarfon) a'i ferch Catrin, gwraig Dafydd Llwyd ap Gruffudd, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gruffudd ap Cynan' 15; P.C. Bartrum: WG2 'Gruffudd ap Cynan' 15 (A1); *ib.* 'Bleddyn ap Cynfyn' 10 (F2).

[4] Gw. 20.36n.

[5] Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gwenwys' 3.

[6] GTP 117.

[7] *L.c.*; P.C. Bartrum: WG1 'Gwenwys' 3.

[8] GDLl 130–2 (cerdd 58). Yn ôl E.D. Jones, yn ByCy 295, 'ni ellir derbyn tystiolaeth rhai llawysgrifau mai iddo ef y canodd Dafydd Llwyd ap Llywelyn y farwnad … Y mae ei gefnder, Dafydd Llwyd ab Ieuan, yn gweddu'n well i'r capten ieuanc a foddodd pan neidiodd ei farch o long'. Fodd bynnag, ymddengys mai mab henaint i Syr Gruffudd Fychan oedd Dafydd Llwyd, ac os ganwyd ef *c.* 1430 neu'n ddiweddarach, ni fuasai ond tua 40 oed adeg ei farw. Yr unig gyfeiriad at oed Dafydd a geir yn y farwnad yw'r geiriau ... *fyrred ei oes* (GDLl 131 (58.32), ond math o dopos yw hyn ac ni raid iddo olygu mwy na bod y gwrthrych wedi marw'n gynamserol (cf. GC 2.115n).

[9] G.T.O. Bridgeman, 'The Princes of Upper Powys', Mont Coll i (1868), 96. Ar Siôn Bwrch, gw. yn bennaf *History of Merioneth, Volume II: The Middle Ages*, ed. J. Beverley Smith and Llinos Beverley Smith (Cardiff, 2002), 163–7, 611–12. Ar ei ach, gw. *ib.* 167; L. Dwnn : HV ii, 242; PACF 295; P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 29–31 (ond nid â ymhellach na Huw Bwrch, tad Siôn, ac nis parheir yn P.C. Bartrum: WG2).

[10] Gw. GGl[2] 121–2 (XLV). Canodd hefyd i Siân, gwraig Siôn Bwrch, *ib.* 123–5 (XLVI).

megis ymchwydd y môr; cf. ll. 15.

7 **Tŵr Gwyn** Cf. GLGC 277 (123.52–3), *Tŵr Maestr Robert ynn, / tŵr gwell no'r Tŵr Gwyn, / tŵr claerwyn Gwynfryn ydiw'n ysgwâr*. Tŵr Llundain a olygir wrth y Tŵr Gwyn, gw. *ib.* 584.

**y gannaid** Ar ystyron *cannaid* fel eb., gw. GPC 413–14. Efallai mai'r haul a olygir yma: cyffelybir gwynder y tŵr i ddisgleirder yr haul ar ei rawd.

9–10 **caer … / Llïon** Cyffelybir llys Siôn Bwrch i Gaerllïon ar Wysg, lle ac iddo gysylltiadau chwedleuol ysblennydd â Macsen Wledig ac Arthur, gw. WCD 89.

13 **gynner** Amrywiad ar *gynnwr* 'taniwr neu saethwr gwn …' (S. '*gunner*'), gw. GPC 1795. Ar y gwn yng nghanu'r Cywyddwyr, gw. Dylan Foster Evans, ' "Y carl a'i trawai o'r cudd": ergyd y gwn ar y Cywyddwyr', *Dwned,* iv (1998), 75–105.

15 **Mawddwy** Cymharer y ll. â ll. 5. Diau bod i'r cyfeiriad hwn at Fawddwy amcan penodol, sef atgoffa'r gynulleidfa fod Syr Siôn Bwrch yn bwysig nid yn unig yn y Drefrydd ond hefyd yng Nghymru fel arglwydd Mawddwy.

16 **tŵr Ewsam** Cyfeiriad at dŵr eglwys mynachlog ysblennydd Evesham yn swydd Gaerwrangon; cf. GLGC 266 (118.1) *Siôn Abad dison fal tŷ Ewsam—bris*.

17–18 **Egin … / Gwynedd oll** Disgynnai Siôn Bwrch o linach Hwfa ap Cynddelw, Môn, ac Owain Gwynedd, gw. PACF 295. Ystyr *egin* yma yw '[aelod o] wehelyth', cf. ll. 19 *gwreiddyn*.

18 **Gwynionydd** Cwmwd yn neau Ceredigion, gw. WATU 85–6. Yr oedd gan arglwyddi Mawddwy ystadau yn ne-orllewin Cymru yn ogystal, gw. *History of Merioneth, Volume II: The Middle Ages*, ed. J. Beverley Smith and Llinos Beverley Smith (Cardiff, 2002), 165.

20 **Gwenwynwyn walch** Disgynnai Siôn Bwrch o Wenwynwyn ab Owain Cyfeiliog, tywysog Powys (bu f. 1216), gw. J. Beverley Smith and Llinos Beverley Smith, *op.cit.* 167.

26 **eirch rhodd** Ar y diffyg treiglad i wrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. Treigladau 207–8.

27–8 Ymddengys fod y bardd yn olrhain perthynas achyddol Dafydd Llwyd â Syr Siôn Bwrch o ddwy linach (*deugyff*, ll. 27). Ni pherthynai Dafydd Llwyd i Siôn Bwrch ar ochr ei dad, Syr Gruffudd Fychan, ond gellir nodi bod gwraig gyntaf Gruffudd Fychan, Margred, yn dod o ardal Brochdun a Bishop's Castle yn swydd Amwythig, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gwenwys' 3, 'Broughton'. Cysylltir ei ail wraig, o'r un enw, â Hope (Tre-wern), *l.c.*

28–30 **Mab Syr Gruffudd … / Dafydd … / Llwyd …** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

31 O'r ll. hon ymlaen hyd l. 50 siarada Llawdden â llais Dafydd Llwyd.

33 **Maredudd** Nid yw'n eglur at bwy y cyfeirir, ond gellir crybwyll mai dyna oedd enw tad yng nghyfraith Dafydd Llwyd, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gwenwys' 3.

34 **aur rhudd** Mynegir dyhead am i Ddafydd Llwyd gael ei urddo'n farchog. Urddid dyn yn farchog trwy ei wisgo â choler aur, gw. GPC 1257 d.g. *euro* a GDEp 9.27–8n. Fel y dywed Dylan Foster Evans, GHS 141, peth cyffredin yn y cyfnod fyddai i fardd ofyn am urddo'i noddwr yn farchog, a cheir yr enghraifft enwocaf yng nghywydd Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion Lygliw i Owain Glyndŵr (gw. GGLl cerdd 12). Cf. llau. 38, 63–8, 18.49–50, 20.7–8, 24.15–16.

35–8 Y mae i'r llau. hyn naws y canu brud lle y sonnir yn fynych am y cymorth a ddaw i Gymru o Iwerddon a Dulyn pan ddaw'r Mab Darogan, gw. EVW *passim* a'r mynegai. Nid yn unig y mae Llawdden yn dymuno ar i Ddafydd Llwyd gael march rhywiog, ond y mae hefyd yn gobeithio, os daw'r Mab Darogan, y bydd iddo, trwy ei wrhydri ar y march, gael tir ac anrhydedd; cf. 15.33–4n, 49n, 18.53–6n, 20.11–18n.

35 **Môr Dulyn** Sef Bae Dulyn neu Fôr Iwerddon.

36 **y tair gwart** Cf. y darn o gerdd frud a ddyfynnir yn EVW 158, *a disgwyl ar wybyr a llawer llwybr ar for llydan / ac o'r tri niver ner y neidian / un i ddeheubarth gyvarth gyvan / ar ail ir berveddwlad or wlat erwan. / ar drydedd i Englont angladd gwynfan.*

**tarw** Yr oedd *tarw* yn un o'r termau niferus a ddefnyddiai'r brudwyr am y Mab Darogan, gw. R. Wallis Evans, 'Trem ar y Cywydd Brud', yn *Harlech Studies: Essays Presented to Dr. Thomas Jones, C.H.*, ed. B.B. Thomas (Cardiff, 1938), 162.

37 **Gwennwys** Gallai *Gwennwys* olygu 'gŵr neu wŷr o Went' neu 'un o'r ddau gostoglwyth ym Mhowys', G 661; GPC 1638, a gw. hefyd GTP 116–17. Yma, fodd bynnag, fe'i defnyddir am Ddafydd Llwyd gan mai i lwyth Gwennwys y perthynai (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod); cf. ll. 59.

**draig wynias** Sef y march a ddeisyfir.

38 **euraw** Gw. ll. 34n.

40 **[y] Bwrch** Sef Syr Siôn Bwrch.

**taro'r bêl** Gallai *pêl* olygu 'maen gwn', felly efallai mai ystyr yr ymadrodd yw 'gollwng / tanio maen gwn', gw. GPC 2721 (b), gan olygu cyflymder y march pan fyddai'r marchog ar ei gefn—cf. llau. 47–8 *Un wedd ar ei gefn oeddwn / Ym min y gad â maen gwn*. Posibilrwydd arall

yw mai benthyciad o'r S. *bell* 'cloch' yw *bel* y llsgrau. Ceir enghreifftiau ohono yn yr ymadrodd *dwyn y bel* 'rhagori, bod ar y blaen', gw. GDG[3] 475–6; GSRh 11.71–2n (ond gthg. GPC 1130 lle y cymerir mai *pêl* sydd yn yr ymadrodd), ac efallai mai rhywbeth tebyg fyddai ystyr *taro'r bel*, er na welwyd enghraifft arall o'r ymadrodd.

41 'Â'r march [sy'n perthyn] i'r gŵr urddasol [sy'n disgyn] o Rys.'

**Rhys** Sef Rhys ap Tewdwr, un o gyndadau Siôn Bwrch, gw. PACF *l.c.*; cf. GGl[2] 122 (XLV.44, 47).

42 **draig Emrys** Sef y ddraig goch, gw. TYP[3] 347–8, 460. Cf. GDID 37 (15.55–6) *Y ddraig goch ddyry cychwyn / Ar ucha'r llall ar ochr llwyn*; DGGD 110 (30.75) *Lliw draig goch, llew dewr cuchiog*; GSC 18.51 *Dragwn byw drwy gan buarth*.

43 'Un tebyg i ddur tarian'.

44 **tyrch** Y tebyg yw mai ffurf l. *torch* yn yr ystyr 'coler a roddir o gwmpas gwddf anifail, penffrwyn …', GPC 3525, sydd yma, yn hytrach na ffurf l. *twrch* (gw. *ib.* 3661).

47 **oeddwn** Nid yw'n eglur pam y cyfeirir at y gorffennol yn hytrach nag at y dyfodol. A yw Dafydd Llwyd yn dychymygu ei fod eisoes wedi cyflawni gwrhydri ar ei farch er mwyn cryfhau ei gais?

53 **Gorwydd Syr Ffwg ap Gwarin** Yr oedd *Fulk* neu *Fouke fitz Waryn* yng ngeiriau Rachel Bromwich, *Aspects of Welsh Poetry: collected papers* (Cardiff, 1986), 150, yn 'outlaw in the reign of King John, and a member of a powerful family of Marcher Lords, owners of the castle of Whittington in Shropshire, and long-lasting enemies of their neighbours across the border, the princes of Powys'. Daeth yn arwr chwedlonol a chyfeirir ato'n fynych gan y Cywyddwyr; ymhellach, gw. *ib.* 151; DNB vii, 223–4; GDG[3] 438; GIG 195; GGLl 11.57n. Cyfeiria Iolo Goch at farch Syr Ffwg, gw. GIG 148 (XXXIII.50) *Sarff oer megis march Syr Ffwg*, a dywedir, *ib.* 355, 'Ymddengys fod march Syr Ffwg yn arbennig o lamsachus', ond nid yw cyfeiriad Llawdden ato, o reidrwydd, yn ategu'r farn hon: gall mai ar enwogrwydd Syr Ffwg y mae'r pwyslais ac mai oherwydd byrdwn y cywydd, sef erchi march, y crybwyllir yr anifail. Felly hefyd yn achos Syr Gei o Warwig yn y llau. nesaf.

54 **a droes henw 'n y drin** 'A roes yn y frwydr [ddyn o] enwogrwydd'. Yr un yw ystyr *[t]roes* yn y ll. nesaf hefyd.

55 **un** Sef march.

56 **Gei o Warwig** *Sir Guy of Warwick*, arwr rhamant S. boblogaidd, gw. DNB viii, 829–31; IGE[2] 371; GSH 7.65n. Fel Syr Ffwg ap Gwarin, cyfeirir ato'n aml gan y Cywyddwyr.

57 'A'r trydydd [march] adeg ffyniant rhyfelwr'.

58 **Iarll Llawdden** Dichon mai Llawdden ab Iorwerth ap Uchdryd a olygir, sef gŵr a drigai yn y 12g. ac a oedd yn dad gwehelyth yn Uwch Aeron; gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Aleth’ 1, ‘Llowdden’ 1; LGCD 138, 152. Yr oedd hefyd yn gyndad i Ddafydd Llwyd ar ochr ei nain, Mawd ferch Griffri, gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Gwenwys’ 2, ‘Llowdden’ 9, a chyffelybir Dafydd Llwyd iddo o ran gwrhydri; cf. disgrifiad Lewys Glyn Cothi o Faredudd ap Dafydd Fychan, GLGC 397 (181.33–4), *Edn o hil Elystan hen, / a chleddau o ach Lawdden*.

59 **Gwennwys** Gw. ll. 37n.

60 **sêr** Cyfeirir at y gwreichion yn tasgu wrth i garnau’r march daro’r llawr (delwedd gyffredin iawn yn y cerddi sy’n disgrifio meirch); cf. 22.50 lle y disgrifir march yn *Rhoi stryd teg yn rhestri tân*.

61–8 Y ddadl yn y llau. hyn yw, os caiff march Dafydd Llwyd wisgo aur, ei bod yn briodol y dylai ei farchog hefyd fwynhau’r un fraint, sef cael ei urddo’n farchog (gw. ll. 34n).

61 **rebwnt** Nis nodir yn GPC 2977 na 3042. Yn ôl Llawdden, &c.: Gw 296, daw o’r e. neu’r f. S. *rebound*. Ar ystyron y f. *rebound*, gw. MED d.g. *rebounden*. Efallai mai’r ystyr a fyddai’n gweddu orau fyddai 1 (b) ‘*to spring or leap*’, gan olygu cyflymder blaengyrchol grymus y waywffon.

64 **yn felyn** H.y., ei wneud yn farchog, gw. ll. 34n.

65 **rhudd** Sef aur rhudd, cf. ll. 19 *r[h]uddaur*. Ar *rhudd* fel e., gw. GPC 3100.

66 **Gwasgŵyn** GPC 1597 (b) ‘march (neu gaseg) o Wasgŵyn (prawf bod masnach gynnar rhwng Cymru a Gwasgŵyn)’.

67–8 Yr ystyr yw ‘Byddaf yn anrhydeddu[’r] march a gaf gan arglwydd [sy’n eistedd] ar farch.’

68 **gorwydd** Tebycach mai *gorwydd* ‘llethr’ a olygir, yn hytrach na *gorwydd* ‘march’, gw. GPC 1506–7.

## *10*

Y cywydd hwn yw’r cyntaf o bum cywydd (cerddi 10–14) sy’n ymwneud â Phylib ap Rhys ap Phylib Fychan a’i deulu.[1] Yr oedd cartref Phylib yng Nghenarth ym mhlwyf Saint Harmon yng nghwmwd Gwrthrynion (Maesyfed) ac yr oedd yn briod â Gwenllïan, merch i Owain Glyndŵr.[2] Fe’u

[1] Fe’i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 39–42 (XIV).

[2] Arnynt, gw. CSF ii, 113–16; Cledwyn Fychan, ‘Llywelyn ab y Moel a’r Canolbarth’, LlCy xv (1984–8), 302–5. Ceir eu hachau yn P.C. Bartrum: WG1 ‘Bleddyn ap Cynfyn’ 5, ond lleolir Cenarth yno ar gam yng nghantref Maelienydd a oedd ar ffin ddwyreiniol Gwrthrynion. Ni nodir enw taid Phylib, Phylib Fychan, ond yn *ib.* vii, 711; cf. llau. 7–8 o’r gerdd. Ar y cnwd o gerddi i’r teulu, gw.

ganwyd yn ôl Bartrum tua 1400. Ni cheir mwy o wybodaeth yn yr achau am dras Phylib, ond dengys y gerdd nesaf (gw. 11.7–8, 22, 53n), a cherddi eraill, ei fod hefyd yn disgyn o'r enwog Ieuan Llwyd o Lyn Aeron, ac y mae'r geiriau *Elystan lwyth* (11.11) yn awgrymu cyswllt â llwyth Elystan Glodrydd. Dadleua Cledwyn Fychan mai ar ochr ei fam, y mae'n debyg, y disgynnai Phylib o Ieuan Llwyd ac y dylid, o bosibl, uniaethu ei daid, Phylib Fychan, â Phylib Fychan ap Phylib, ŵyr i Einion Sais, brawd Phylib Dorddu o Arddfaelog (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 17).[3]

Y mae Ralph A. Griffiths yn uniaethu Phylib ap Rhys â'r gŵr o'r un enw a oedd yn *beadle* Mabudrud (cwmwd yn y Cantref Mawr[4]) yn 1465–6,[5] ond gan na noda enw ei daid,[6] nid oes sail ddigonol i'r uniaethiad, a Gwrthrynion, yn ôl tystiolaeth y cerddi, oedd bro Phylib. Sylwyd hefyd yng ngwaith Howell T. Evans ar gyfeiriadau at ŵr neu wŷr o'r enw Phylib ap Rhys. Yr oedd un yn 'Governor of Strat [*sic*] Florida in 1443, with Lord Audley and Merdith ap Owen'[7]; yr oedd un a dderbyniodd, ynghyd ag Owain ap Gruffudd ap Gruffudd ap Nicolas, bardwn cyffredinol gan y Goron ym Medi 1452 'for trespasses against the statute of liveries';[8] ac yr oedd un a dderbyniodd 'parcel of Knighton' gan Risiart III yn 1483.[9] Ond ni wyddys ai'r un gŵr a olygir ynteu dau neu dri o wŷr gwahanol, chwaethach a ellir uniaethu un neu ragor ohonynt â Phylib ap Rhys ap Phylib Fychan.

Yn wahanol i'r achos yng ngherddi eraill Llawdden i Phylib, deellir yma nad yw Phylib gartref yng Ngwrthrynion eithr yn absennol ar herw ac yn destun hiraeth i'w *genedl* (llau. 27–8, 41–2, 53–6). Gan fod Llawdden yn dymuno i Phylib ddychwelyd yn fuan o Arwystli i dir ei dadau (llau. 57–62), gellir casglu mai yn Arwystli yr oedd ar herw, ac y mae'r geiriau *Cyd bo da cymanfa medd / Gwlad Arwystl a'i gloyw diredd* (llau. 57–8) yn awgrymu—onis deellir fel ystrydeb—ei fod yn aros yn nhŷ, neu yn nhai, uchelwyr.[10] Byddai hynny'n gyson hefyd â datganiad Llawdden ei fod yn mynd at Phylib â chywyddau iddo *drwy Bumlumon draw* (ll. 35) oherwydd, os oedd Llawdden yn byw ym Machynlleth ar y pryd (gw. tt. 3, 5), byddai'n naturiol iddo basio'r mynydd-dir hwn ar ei ffordd i Arwystli.

NBSBM 358–75.

[3] Cledwyn Fychan, *art.cit.* 302. Ceir ach Phylib Fychan ap Phylib yn P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 24.

[4] Gw. WATU 147.

[5] R.A. Griffiths: PW i, 364.

[6] Dywed hefyd, *l.c.*, y gall mai'r un gŵr oedd Phylib ap Rhys ag un Phylib ap Rhys *ab Iorwerth*, ond Phylib Fychan oedd taid Phylib ap Rhys yn ôl tystiolaeth y cerddi.

[7] WWR$^2$ 158, n60.

[8] *Ib.* 49.

[9] *Ib.* 165, n22.

[10] Cred Cledwyn Fychan, *art.cit.* 303, mai yn Elenid yr oedd Phylib ar herw ac y byddai'n meddiannu Arwystli, ond camddeallodd lau. 57–60 o'r gerdd (yn enwedig l. 57 sy'n golygu 'er bod y cynulliad [o bobl sy'n yfed] medd yn dda').

Diddorol iawn yw cefndir gwleidyddol y gerdd. Y mae'r hyn a ddywedir am Phylib ap Rhys yn llinellau 53–6 ac am y sawl a grybwyllir yn llinellau 47–50 gan gyffelybu Phylib iddo (llau. 51–2) yn dwyn i gof amodau gwrthryfel Owain Glyndŵr a'r cyfnod dilynol.[11] Dichon, yn wir, mai i Owain Glyndŵr ei hun y cyffelybir Phylib (gw. ll. 47n). Ceir yr argraff fod Phylib yn gefnogol i achos Glyndŵr ac yn ei barhau mewn rhyw ffurf. Os felly, dyma enghraifft brin o gerdd genedlgarol o'r cyfnod yn dilyn diwedd gwrthryfel Glyndŵr.

Ar sail ei ddamcaniaeth fod llinellau 51–2 yn cyfeirio at wrthgiliad Maredudd, mab Owain Glyndŵr, yn 1421 ac at ei olynu gan Phylib ap Rhys fel arweinydd y Gwrthryfel (gw. llau. 51–2n), cynigia Cledwyn Fychan mai rywbryd 'heb fod yn rhy bell ar ôl 1421'[12] y cyfansoddwyd y gerdd. Er na chytunir â'i ddehongliad o'r cwpled hwn (llau. 51–2n), eto gall fod yr amseriad yn agos i'w le ac mai i ugeiniau'r bymthegfed ganrif y perthyn y cywydd. Gellid dadlau nad yw llinellau 53–6 yn ein gorfodi i gredu bod achos Glyndŵr yn mynd rhagddo mewn ffurf eang a threfnedig ac mai achub ei groen rhag awdurdodau dialgar ymhell wedi i gynyrfiadau mawr olaf y Gwrthryfel ddistewi yr oedd Phylib pan ganodd Llawdden iddo. Os felly, gellid dyddio'r gerdd yn nhridegau neu hyd yn oed ym mhedwar-degau'r bymthegfed ganrif. Ond nid oes angen tybio felly; byddai rywbryd yn yr ugeiniau—ac yn sicr nid yn hwyrach na'r tridegau—pan oedd Llawdden yn ŵr ifanc yn berffaith gyson â'r hyn y gellir ei gasglu am ei ddyddiadau.[13]

Canodd Ieuan Gyfannedd gywydd i Phylib,[14] a chanodd Lewys Glyn Cothi gywydd moliant i Phylib a Gwenllïan,[15] cywydd marwnad i Wenllïan,[16] ac awdl farwnad i ddau o'u meibion, Rhys ac Owain.[17] Canodd gywydd hefyd i ofyn gwely gan bedair gwraig a Gwenllïan yn un ohonynt.[18]

1 **anfon** Yn yr ystyr 'hebrwng, mynd â' (gw. GPC 118 (b)). Dywed Llawdden yn glir ei fod yn mynd ei hun i weld Phylib, gw. ll. 33 *Siwrnai deg y sy arnaf*, ll. 38 *Mi ymwelaf â'm alarch*.

4 **y ddeheuwlad hon** Sef Gwrthrynion. Yr oedd de Powys ar un adeg yn cynnwys ardal Rhwng Gwy a Hafren, gw. J.E. Lloyd: HW$^3$ 252–3, a'r tebyg yw mai mewn perthynas â de Powys, yn hytrach nag â de Cymru, y mae Llawdden yn meddwl am y cwmwd fel *deheuwlad*; cf. ll. 27 ar Gynan a ll. 59n ar Bowys.

[11] Gw. Cledwyn Fychan, *art.cit.* 303.
[12] *L.c.*
[13] Gw. uchod td. 7.
[14] LlGC 728D, 113. Dyma'r unig lsgr. sy'n cynnwys copi o'r gerdd—yr unig gopi hyd y gwyddys—a nodir yn y mynegeion. Fe'i printiwyd yn CSF ii, 114–16.
[15] GLGC 410–11 (cerdd 187).
[16] *Ib.* 412–13 (cerdd 188).
[17] *Ib.* 414–15 (cerdd 189).
[18] *Ib.* 408–9 (cerdd 186).

6 **ar gymorth** Fe'i deellir yn ymadrodd adferfol; cf. ymadroddion megis *ar air*, *ar weithred*, &c. Gellir ei aralleirio yma 'yn gynhaliaeth'.

**aur ac** Llsgr. *air ar*. Derbynnir diwygiad Llawdden, &c.: Gw 39 (XIV.6) er mwyn y synnwyr a'r gynghanedd.

8 **Bendigeidran** Sef Bendigeidfran fab Llŷr. Arno, ac ar y ffurf heb *-f-*, gw. TYP[3] 290–2.

10 '[Un â] statws Arthur [yng] Ngwrthrynion'.

11–12 **… nêr o Lyn Aeron, / Ieuan Llwyd …** Yr oedd Ieuan Llwyd o Lyn Aeron yn gyndad i Phylib ap Rhys, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

12 **'nilled iôn** Llsgr. *enilledion*. Deellir *'nilled* yn 3 un.grch. y f. *ennill* gyda rhyw wrth. megis *clod* neu *anrhydedd* yn ddealledig ar ei ôl. Phylib ap Rhys a olygir wrth *iôn*.

13 **profi** Yn yr ystyr 'rhoddi prawf o (rywbeth), dangos gwirionedd neu ddilysrwydd (rhywbeth)', GPC 2902 (a).

14 **mab** Sef Phylib ap Rhys.

18 **y Fêl Ynys** Hen enw am Ynys Prydain, gw. TYP[3] 246, 248–9; GPC 2418.

19 **ar farwn** Llsgr. *arverwnn*. Diwygir er mwyn y synnwyr; ar *barwn*, cf. 13.39 *... hwy no barwn*.

20 **rho** Llsgr. *Roi*. Ar yr ebychiad *rho Duw*, gw. GDG[3] 599; GPC 3109.

21 **Einiawn** Einion ap Cynwrig ap Meurig, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd'. Yr oedd yn dad i Ricert, gŵr Angharad Hael, gwraig Ieuan Llwyd o Lyn Aeron, gw. 12.9n a'r sylwadau rhagarweiniol uchod.

27–8 Yr ystyr yw, 'y mae hiraeth ar ei genedl [am] lywodraeth lân ŵyr Cynan.'

28 **Cynan** Y tebyg yw mai at Gynan Garwyn ap Brochwel Ysgithrog, brenin Powys yn y 6g., gw. P.C. Bartrum: WG1 td. 14, y cyfeirir. Er mai rhan o Rwng Gwy a Hafren, nid Powys, oedd Gwrthrynion lle y trigai Phylib ap Rhys, eto yr oedd y ddau ranbarth yn ffinio â'i gilydd; cf. awdl gan Lewys Glyn Cothi i ddiolch i Ddafydd ap Maredudd Fychan o Arddfaelog (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 17) am farch lle y cyfeiria at *gwlad Gynan* a *'Lystan* (h.y. Elystan Glodrydd) o fewn yr un englyn, GLGC 385 (175.5–8) *Yt Dafydd, gwinwydd gwlad Gynan,—mae rhad, / Amheredudd Fychan; / dyro i bawb o dri ban, / fal iestus, arfe 'Lystan*. Un o hynafiaid gwraig Phylib, Gwenllïan, oedd Rhys ap Tewdwr, brenin Deheubarth (ymhellach, gw. 11.14n), ac un o'i ddisgynyddion, a anwyd yn ôl P.C. Bartrum tua 1230, oedd Cynan ap Maredudd ab Owain o Garon, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Rhys ap

Tewdwr' 6. Cymharol ddi-nod, er hynny, oedd y gŵr hwn ac nid yw'n debygol mai ef a olygir yma. Cf. 14.6 lle y cyfeirir at Phylib ap Rhys fel *[b]rawd i Gynan*.

29–30 'Nid oes yn ein gwlad ond adar na neb yn ein bro sy'n ei garu, [dim ond] brig coed.' H.y., nid oes ar hyn o bryd bobl i garu neu foli Phylib. Gthg. hyn â'r sefyllfa gynt, a ddisgrifir yn y cwpled nesaf, pan oedd Phylib yn ganolbwynt sylw pob *[c]erddor*.

35 **anfon** Gw. ll. 1n.

**drwy Bumlumon draw** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

37 **'y nghred** Fe'i deellir yn dalfyriad o'r ebychiad *myn fy nghred*.

**parch** H.y., y gwrthrych parch, sef Phylib ap Rhys.

39 **mawr** Cydier wrth *Eisiau*, nid *Iesu*.

**Iesu** Cyferchir Crist.

41–2 **… aeth … / … fro'r heldir** Ar y gystrawen, gw. 4.33n.

41 **hir** Cydier wrth *mab*, nid *pennaeth*; ar yr ystyr, cf. 11.1–2n.

43 **gafael ar ben** Fe'i deellir i olygu '[y mae] gafael / meistrolaeth yn perthyn i['r] pennaeth', ffordd arall o ddweud bod Phylib ap Rhys yn arweinydd grymus.

44 **Bwriad Owain ab Urien** Ceir yr un ymadrodd gan Huw Cae Llwyd, gw. HCLl 73 (XXIII.21–2) *Bwrw a ŵyr fab ara' Wen / Bwriad Owain ab Urien*. Ar ystyr *bwriad*, cf. GPC 355 (2 (a)) d.g. *bwriad*², 'tafliad, naid, syrthiad, cwymp; tuedd, gogwydd'. Efallai mai'r ystyr a fyddai'n gweddu orau yn y ddwy enghraifft fyddai 'ergyd'. Ar Owain ab Urien Rheged, gw. TYP³ 467–72, yn enwedig 470; WCD 518–20.

45 **y gŵr o draeth Llychwr** Cf. geiriau Lewys Glyn Cothi i Ddafydd Goch ap Maredudd, GLGC 381 (173.21–4), *Ail wyd wedy ei lidiaw / i'r gŵr o draeth Llychwr draw, / yr hwn a wyliodd y rhyd / yn fywiog yn ei fywyd*; a'r Prydydd Bychan i Owain ap Gruffudd, GBF 5.33–4, *Mew alar llachar mur traeth Llychwr—gwychyr, / Llew gwychddrud Dynefwr* ac *ib*.n. Dywedir yn GLGC 607 am enghraifft Lewys Glyn Cothi, gan gymharu llau. 45–50 o'r testun uchod (eithr ar y gyfeiriadaeth yn llau. 45–50, gw. ll. 47n), 'Rhaid bod chwedl am ŵr a wyliai'r rhyd ger Cas-llwchwr.' Fodd bynnag, y mae'n bosibl mai Owain ab Urien, a grybwyllir yn y cwpled blaenorol, oedd y gŵr hwn. Y mae lle i gredu bod traddodiadau am Owain, a hanai o'r Hen Ogledd yn wreiddiol, wedi eu hail-leoli yng Nghymru, gw. TYP³ 470, ac yn un o 'Englynion y Beddau' dywedir *Bet unpen o Priden* ['*from the North*'] *yn lleutir Guynassed, / yn yd a Lliv yn Llychur*, gw. Thomas Jones, 'The Black Book of Carmarthen "Stanzas of the Graves" ', PBA liii (1967), 124. Tybed ai Owain ab Urien oedd yr *unpen* hwn? Os felly, gellid cynnig

mai'r rheswm nas enwir yng ngherddi Lewys Glyn Cothi a'r Prydydd Bychan nac yn yr englyn yw ei fod mor enwog. Cf. Llawdden, &c.: Gw 290, 'yr hen syniad ydoedd mai gŵr o Lychwr oedd Owain ap Urien' ond ni ddywedir mwy na'i fod yn hanu o'r Hen Ogledd. Yr wyf yn ddyledus i Cledwyn Fychan am dynnu fy sylw at y posibilrwydd hwn.

**Llychwr** Afon Llwchwr ger Casllwchwr ym Morgannwg; gw. GBF 5.33n.

46 Ymddengys mai'r hyn a olygir yw fod Phylib ap Rhys wedi llwyddo i wneud neu efelychu yr hyn a adroddid yn y chwedl am y gŵr o draeth Llychwr, sef amddiffyn ei dir neu'r cyffelyb (gw. y nodyn blaenorol).

47 **hen iawn … hwnnw** Y mae'n anodd gwybod at bwy y cyfeirir yma hyd l. 50—y *gŵr o draeth Llychwr* (ll. 45) ynteu rhywun arall. Yn ôl GLGC 607, y gŵr o draeth Llychwr a olygir. Os felly, dywed Llawdden fwy o dipyn amdano yma nag y gwna'r Prydydd Bychan a Lewys Glyn Cothi (gw. ll. 45n). Ar y llaw arall, y mae Cledwyn Fychan, 'Llywelyn ab y Moel a'r Canolbarth', LlCy xv (1987–8), 303, ar sail y gair *hen* (ll. 47) a ddefnyddir gan rai o feirdd y 15g., yn y cyfuniad *Owain Hen*, ynglŷn ag Owain Glyndŵr, wedi dadlau y dichon mai ef a olygir. Yn sicr, byddai'r llau. yn ddisgrifiad cwbl briodol o'r hyn a wnaeth Owain Glyndŵr yn ei wrthryfel (sylwer yn enwedig ar l. 48), a naturiol i Lawdden, ar ôl cyfeirio eisoes at un arwr neu ddau, fyddai crybwyll un arall. Llai fyth o syndod fuasai iddo ddewis crybwyll Owain o gofio ei fod yn adnabod ei ferch Gwenllïan a Siancyn y Glyn, ei fab y mae'n debyg (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 14). Am enghreifftiau o alw Owain Glyndŵr yn *Owain Hen*, gw. GTP 135; GLGC 397 (181.18), 408 (186.6), 412 (188.4) a cf. isod 20.14n ar yr *hen gwyn*. Y tebyg yw mai e. yw *hen* yma ('un hen') ac mai a. yn hytrach nag adf. yw *iawn* yn yr ystyr 'cymwys, priodol' (cf. 14.7 *Ricart iawn*).

47–8 **… a wnaeth, / Hir … brig herwriaeth** Cf. Gwyn 3, 168 (ll. 33) *ci a wnaeth herwriaeth hir* (Rhys Goch Eryri).

49 **nes cael** Cydier wrth l. 50 *heddychai*.

50 **odduchod** Ai cyfeiriad daearyddol sydd yma at ogledd-ddwyrain Cymru (mewn perthynas â de Cymru) lle yr oedd bro Owain Glyndŵr? Sylwer mai 1551 yw blwyddyn yr enghraifft gyntaf o'r gair hwn a restrir yn GPC 1620.

51–2 Deellir y cwpled (sydd braidd yn drofaus) i olygu 'Os ciliodd Phylib (h.y., y mae wedi cilio), mab uchelwr, gŵr cyffelyb ydyw', h.y., cyffelyb i'r sawl a ddisgrifir yn llau. 47–50. Ar giliad Phylib a'r disgrifiad ohono fel *mab uchelwr*, cf. llau. 41–2 *Pan aeth hwn, mab pennaeth hir, / ... fro'r heldir*. Y mae Cledwyn Fychan, ar y llaw arall, *art.cit.* 303–4, yn cynnig dehongli ll. 51 yn gyfeiriad at wrthgiliad Maredudd, mab Owain Glyndŵr, yn 1421 pan dderbyniodd bardwn gan

Harri V am ei ran yng ngwrthryfel ei dad, a'r ll. ddilynol yn arwydd fod y beirdd, yn sgil hynny, yn dymuno gweld mantell y Gwrthryfel yn disgyn ar ysgwyddau Phylib ap Rhys. Fodd bynnag, os yw ll. 51 yn cyfeirio at Faredudd, y mae ei geiriad mor amhenodol fel mai teg gofyn a fyddai cynulleidfa Llawdden yn gwybod hynny. Hefyd (ll. 52), ni ddisgwylid gweld cyffelybu Phylib ap Rhys i ŵr a gefnasai ar y Gwrthryfel. Gellid dadlau mai *arweinyddiaeth* Maredudd cyn iddo wrthgilio yw sail y gymhariaeth ond nid adlewyrchir hynny digon yn y geiriau.

52 **cyffelyb** Llsgr. *gyffelib* ond gan fod y treiglad yn ramadegol anghywir fe'i diwygir. Gellid darllen *yw ei* yn lle *yw'r* a gadael *gyffelyb* fel y mae, ond gwna hynny'r ll. yn rhy hir o sillaf.

55 **tra gâi** Am y treiglad meddal yma'n dilyn y cys. *tra*, gw. Treigladau 378–80.

56 **hyddod** Cf. geiriau Tudur Penllyn am Ddafydd ap Siancyn pan oedd ar herw yng Ngharreg y Gwalch, GTP 3 (I.11–12) *Glanaf y medrud, Ddafydd, / Gerddwriaeth, herwriaeth hydd*.

58 **Arwystl** Ffurf arall ar *Arwystli* (megis yn 22.10). Ymhellach ar y cantref hwn, gw. WATU 7–8.

59 **Powys** Yr oedd Arwystli yn wreiddiol yn rhan o Bowys, gw. J.E. Lloyd: HW[3] 249.

62 **gorhendad** Ni wyddys ei enw.

63 **unoed** Ansicr yw'r gyfeiriadaeth yma ond cf. 12.65 lle y disgrifir Phylib a'i wraig Gwenllïan fel *[d]euddyn unoed*. Efallai, felly, mai ystyr *Unoed Rhys* yw '[mab] Rhys o'r un oed [â Gwenllïan]'.

64 Y mae'r ll. yn hir o ddwy sillaf, ond gellir cael wyth sillaf o gywasgu *Yno* ac *y*.

65 **drwy enw a serch** 'Gydag enwogrwydd a chariad [ato].'

66 **Rhydderch** Sef Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Lyn Aeron, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Cydifor ap Gwaithfoed' 3 a'r sylwadau rhagarweiniol uchod.

## *11*

Y cywydd hwn yw'r cyntaf o ddau gywydd moliant (cerddi 11–12) Llawdden i Phylib ap Rhys ap Phylib Fychan o Genarth yn Uwch Coed, Gwrthrynion, a'i wraig Gwenllïan ferch Owain Glyndŵr.[1]

1–2 **… ei gorff a welir, / … uwchlaw'r tir** Cf. ll. 20 *Peri gwawd i'r mab*

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 30–2 (XI); ac ymhellach ar Phylib a Gwenllïan, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 10.

*hir gwyn*, ll. 24 *Uwch ei gorff no'r iachau gynt*, 10.41 *mab pennaeth hir*, 13.39 *hwy no barwn*. Y mae'n amlwg fod Phylib ap Rhys yn ddyn tal iawn.

6 **y Glyn** Gallai gyfeirio at Lyn Aeron, lle yr oedd cartref Ieuan Llwyd, perthynas i Phylib ap Rhys, gw. ll. 7n, ond y mae'n debycach mai Glyndyfrdwy a olygir lle yr oedd un o gartrefi Owain Glyndŵr (cf. llau. 28, 35) tad Gwenllïan, gwraig Phylib.

7 **Ieuan Llwyd** Y noddwr beirdd enwog o Lyn Aeron, Ceredigion, gw. GLlBH 6–13; GC 93, a sylwadau rhagarweiniol cerdd 10.

8 **tafod aur** 'Huodledd'. Yr enghraifft gynharaf o'r ymadrodd a roddir yn GPC 3417 yw 1604–7.

**Gwaithfóed** '[Llwyth] Gwaithfoed'. Yr oedd Gwaithfoed yn gyndad i Ieuan Llwyd ac yn sefydlwr y llinach, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Cydifor ap Gwaithfoed' 1, a sylwadau rhagarweiniol cerdd 10.

9 **hepil** Amrywiad ar *epil*, gw. GPC 1226.

10 **cefn urddas** Sef Ieuan Llwyd. Ymddengys mai 'cynheiliad' yw ystyr *cefn* yma; cf. GPC 446.

11 **teiran** Cymerir mai'r tylwythau a gyfansoddai dras Phylib ap Rhys a olygir, sef eiddo Elystan Glodrydd (gw. y nodyn nesaf), Owain Glyndŵr ac Ieuan Llwyd.

**Elystan** Elystan Glodrydd, gw. 6.29n. Ar gyswllt Phylib ap Rhys â'i gyff, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 10.

12 **brenhinllwyth** Cf. ll. agoriadol cywydd moliant Ieuan Gyfannedd i'r un gwrthrych, *Ffylib, frenhingyff haelion*, gw. CSF ii, 114.

14 **nai deuRys** Disgynnai Owain Glyndŵr, ar ochr ei fam, o Rys ap Tewdwr Mawr, brenin Deheubarth a hendaid yr Arglwydd Rhys, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Rhys ap Tewdwr' 1, 6 a 7.

17 **nod** Cf. yr ymadrodd *glain nod* '*illustrious one, person of distinction*', gw. GPC d.g. *glain*[1].

19–22 Yn y ddau gwpled hyn mynegir y syniad oesol ymysg y beirdd o'r bardd yn rhoi cerdd i'w noddwyr a'r noddwr yn rhoi gwobr i'r bardd.

21 **pennaf … fy** Llsgr. *pena … y*. Deellir *y* i gynrychioli *'y*; cf. Llawdden, &c.: Gw 31 (XI.21).

22 **Rhydderch** Gw. 10.66n. Y mae'n bosibl hefyd, fodd bynnag, mai Rhydderch Hael fab Tudwal Tutglyd, un o 'Dri Hael Ynys Prydain', gw. TYP[3] 493–5; WCD 585–6, a olygir, neu ynteu fod yma amwysedd bwriadol; cf. 13.8n.

24 Fel y mae corff Phylib ap Rhys yn dalach na'r cyffredin, felly hefyd y mae ei achau yn rhagorach nag eiddo neb o'i flaen, gor-ddweud amlwg.

**no'r** Llsgr. *noi*. Diwygir er mwyn gwella'r synnwyr.

25 **derwgoed** Cyfeiriad at linach y noddwr; cf. GGl$^2$ 110 (XLI.33–4) *Yng ngwar Rhiw, yngo y rhoed, / Angel diargel derwgoed*.

26 **Uwch Coed** Rhan ogleddol cwmwd Gwrthrynion lle yr oedd cartref Phylib ap Rhys, gw. WATU 218.

27 **cildant** GPC 479 'un o'r tannau manaf ac uchaf yng nghil neu ran uchaf y delyn'.

31 **Owain** Sef Owain Glyndŵr, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 10.

**heinyf** Ymddengys mai amrywiad seinegol ydyw ar yr a. *heinif* (*heini*); cf. rhai o'r enghreifftiau a restrir yn GPC 1840 d.g. *heini*$^1$.

32 **y trydydd Gruffudd** Crybwyllir pum gŵr o'r enw Gruffudd yn ach Owain Glyndŵr, sef Gruffudd Fychan ei dad; Gruffudd o'r Rhuddallt (Gruffudd Llwyd), ei daid; Gruffudd Farwn Gwyn, ei hen hen hen daid; Gruffudd, Arglwydd Dinas Brân, ei hen hen hen hen daid; a Gruffudd Maelor, ei hen hen hen hen hen hen daid; gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 1, 3–5. Tad Owain oedd y trydydd Gruffudd ond nid yw mor eglur pwy oedd y Gruffudd cyntaf a'r ail. Efallai mai ei daid oedd yr ail a Gruffudd Maelor (a grybwyllir yn y ll. nesaf) y cyntaf. Ynglŷn â'r olaf, y mae'n ddiddorol sylwi bod Iolo Goch, wrth adrodd achau Owain Glyndŵr ar ochr ei dad, yn gadael allan y pedair cenhedlaeth rhwng Madog Fychan ei hendaid a Gruffudd Maelor, fel pe bai'n ystyried Gruffudd Maelor yn bwysicach na Gruffudd Farwn Gwyn a Gruffudd Arglwydd Dinas Brân, gw. GIG 36 (VIII.19–22), 220.

33 **Gruffudd Maelawr** Gw. y nodyn blaenorol.

36 **Cynfyn** Tad Bleddyn ap Cynfyn y disgynnai Owain Glyndŵr ohono ar ochr ei dad, gw. ll. 32n.

45 **meibion** Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 13.

**arth** Sef Owain Glyndŵr.

51–4 Ar gyfeirio at y beirdd Dafydd ap Gwilym ac Iolo Goch a'u noddwyr Ifor a Rhydderch ynghyd, cf. GLGC 365 (165.25–6) *Dafydd i Ifor oedd fardd dyfyn, / Iolo i Rydderch a hen felhyn*. Cf. hefyd GGl$^2$ 68 (XXV.3–6) lle y sonnir am wraig Rhydderch, Mawd (gw. ll. 52n isod), yn rhoi rhodd i Iolo, *Menig pendefig Dafydd, / Ifor Hael, pwy'n fyw a'u rhydd? / A'r ail [*sc. rhodd] *oedd fodrwy Iolo / A roesai Fawd o'i ras fo*. Ymhellach ar y bobl a enwir yn y llau. hyn, gw. y nodiadau isod.

51 **cafas** Llsgr. *lowas*, ffurf anh. a allai fod yn wall am *llewas*, ffurf 3 un.grff.myn. y f. *llewa* 'bwyta'n wancus', &c., gw. GPC 2169, ond nid yw'r ystyr na'r syniad yn briodol yma. Y mae'r diwygiad *gafas* (3 un.grff.myn. *cael* a'r treiglad wedi ei achosi gan y rh.pth. *a* dealledig) yn cyflenwi'r diffyg yn foddhaol (ar beidio â threiglo *da* ar ei ôl, gw. Treigladau 216).

**Dafydd … Ifor** Dafydd ap Gwilym a'i noddwr Ifor Hael.

52 **Efa** Gwraig Ifor Hael yn ôl y ll. hon (cf. Rhydderch a'i wraig Mawd yn llau. 53–4); cf. GLGC 331 (148.23), 402 (183.40), 596; GTP 17 (10.42). Fodd bynnag, yn ôl Dafydd ap Gwilym, Nest oedd enw gwraig Ifor, gw. yn enwedig GDG[3] cerdd 11 a cf. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 56 a 'Cydifor Fawr' 16. Ai '[Un megis] Efa' (sef Efa llyfr Genesis) a olygir? Os felly, y mae'n drawiadol fod tri bardd gwahanol yn cyfeirio ati yn yr un modd.

**wreigdda'r** Llsgr. *grwaigdda'r*. Gan mai'r arfer oedd treiglo'r traethiad ar ôl ffurf 3 un.amhff.myn. y f. *bod* (gw. Treigladau 305–6), diwygir yn *wreigdda'r* gan adfer hefyd gynghanedd i'r ll.

53–4 **Iolo … Rydderch, / … Fawd** Sef Iolo Goch, Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Lyn Aeron a'i ail wraig Mawd (ar y ddau olaf, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Cydifor ap Gwaithfoed' 3 a sylwadau rhagarweiniol cerdd 10). Fel y dywedir yn GLGC 552, 'Ni chadwyd cerddi gan Iolo Goch i Rydderch ab Ieuan Llwyd, ond sonnir amdano yn y gerdd sy'n disgrifio un o gylchoedd clera Iolo …', gw. GIG 66 (XIV.73–80). Am gyfeiriadau eraill at Iolo Goch mewn cysylltiad â Rhydderch a Mawd, gw. GLGC 135 (58.21–4); GGl[2] 68, 69 (XXV.5–6, 41–2).

53 **rhodd** Dealler yn wrth. y f. *[c]afas* yn ll. 51.

54 **ail** H.y., ail rodd, sef y fodrwy a roddodd Mawd i Iolo, gw. llau. 51–4n.

55 **dynionda** Llsgr. *dynion da* ond o dderbyn y darlleniad fel y mae, ceir dwy odl acennog yn y cwpled. Ni welwyd enghraifft arall o'r ffurf *dynionda* ond cf. y ffurf *gwyrda*.

59–61 **Naw cywydd … / naw gŵyl … / Nawpasg …** Ar arwyddocâd *naw*, gw. 1.71n.

60 **gŵyl uchel** Cyfeiriad at y tair gŵyl arbennig pan fyddai'r beirdd yn ymweld â'u noddwyr, sef y Nadolig, y Pasg a'r Sulgwyn. Ond gan fod cyfatebiaeth rhwng *naw gŵyl* yn y ll. hon a *Nawpasg* yn y ll. nesaf, gall mai am y Pasg yn unig y mae Llawdden yn meddwl; cf. 16.6n.

61–4 Yr ystyr yw na fydd y rhoddion a gaiff y bardd wrth ymweld â Phylib a Gwenllïan i'w moli yn ddim byd llai nag aur a medd.

63 **rhaid** Ymddengys fod Llawdden yn meddwl am nawdd ei noddwyr fel peth angenrheidiol iddo.

64 **er ein mwyn ond** Llsgr. *er in onid*, a diwygir er mwyn y synnwyr a'r gynghanedd. Ar yr e. *mwyn,* gw. GPC 2519 d.g. *mwyn*[3].

68 **merch Owain** Dyma ail oddr. y f. *Peri … / A wnâi* (llau. 65–6).

*12*

Y cywydd hwn yw ail gywydd moliant Llawdden i Phylib ap Rhys ap Phylib Fychan a'i wraig Gwenllïan.[1]

2 **cun** Gallai fod yn e. 'pennaeth, rheolwr' neu ynteu'n a. 'aruchel, gwych', gw. GPC 629, 630 d.g. *cun*[1], *cun*[3].

3 **proffwydiad** Y topos bod arwr yn un yr oedd y daroganwyr wedi rhagweld ei ddod. Ni restrir y ffurf yn GPC 2907.

7 **oroff hoywlwys** Llsgr. *oeroff hoywbwys*. Y mae *oeroff* yn ffurf anh. felly fe'i diwygir, a *hoywbwys* er mwyn y gynghanedd.

8 **bych a'n pwys** Llsgr. *vychan pwys*. Diwygir er mwyn y synnwyr.

9 **Ricert ab Einiawn** Tad Angharad Hael, gwraig Ieuan Llwyd ab Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Cydifor ap Gwaithfoed' 2 a sylwadau rhagarweiniol cerdd 10.

14 **plaid y Deau** Yr oedd Phylib ap Rhys yn briod â Gwenllïan ferch Owain Glyndŵr; disgynnai Owain ar ochr ei fam o Rys ap Tewdwr Mawr, brenin Deuheubarth, gw. 11.14n.

15 **rhannu** Yr ystyr yn y cyd-destun yw 'rheoli rhan' (o Wrthrynion, sef Uwch Coed).

17 **ystad y tad** Llsgr. *ystad ystad*, ond anghyffredin yn y farddoniaeth yw ailadrodd gair yn ddi-fwlch, felly diwygir.

19–20 Yr hyn a olygir yw na fu unrhyw ddyn yn y llys a oedd o'r un oed â Rhys (tad Phylib) erioed mor ddawnus ag ef.

20 **ar** Cydier wrth *câi* yn ll. 19, a cf. yr ymadrodd *cael y trechaf ar*.

21 **ellwng** Llsgr. *ellyngodd*. Diwygir er mwyn y gynghanedd, ac fe'i deellir yn yr ystyr 'rhoi', gw. GPC 1390. Gallai ddod o *gellwng* neu'r ffurf amrywiol *ellwng,* gw. *l.c.*

25 **adwaen** Llsgr. *adwaeden*, ffurf anh. Diwygir er mwyn y synnwyr a'r gynghanedd.

28 **deuRys** Gw. 11.14n.

32 **tir Garmon** Cyfeirir at Garmon Sant o Auxerre (gw. LBS iii, 52–60) yr enwyd ar ei ôl blwyf Sain Harmon (S. *St Harmon*), lle yr oedd Cenarth, cartref Phylib ab Rhys.

33 **fy mrodir** Y tebyg yw mai am Sain Harmon y mae Llawdden yn meddwl yn hytrach nag am ei briod fro.

34 **blaen y tir** Cf. *blaeneudir* 'mynydd-dir … eithafoedd gwlad …', GPC

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 33–5 (XII); ac ymhellach ar Phylib a Gwenllïan, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 10.

281, ac isod 13.32 *blaenau*.

36 **â thi** H.y., gyda Duw hefyd yn rhan o'r rhwymyn cariad rhwng Llawdden a Phylib ap Rhys.

39–40 **… ni haeraf hiroed / … â'ch cerdd** Nid yw'r bardd yn treulio gormod o amser yn moli Phylib gan ei fod yn awyddus i foli ei wraig hefyd (ll. 41, &c.).

42 **Marchog y Glyn** Owain Glyndŵr, tad Gwenllïan.

44 **ielant** Llsgr. *Jelant*, darlleniad na rydd synnwyr na chynghanedd. Y mae angen gair heb gytsain rhwng y ddwy sillaf, ond y mae'n anodd cynnig un addas.

45 **caith** Sef gwŷr caeth y gelyn, a ffurfiai ran helaeth o fyddin; cf. GDC 17.6–7 *(Caith a ddioddef rhag llef a llosg), / Câr encil eiddil, eiddun hedd dichlais* (Y Mab Cryg).

46 **Cynllaith** Cwmwd ym Mhowys Fadog lle yr oedd Sycharth (ar ororau swydd Amwythig), un o ddau gartref Owain Glyndŵr.

48 **Gruffudd** Gruffudd Fychan, tad Owain Glyndŵr, neu Ruffudd Maelor, cyndad iddo, gw. 11.32n.

52 **Eigr** Mam y Brenin Arthur. Ystyrid hi gan y beirdd yn ddelfryd o harddwch, gw. GDG[3] 458.

**Maelawr** Gw. 8.4n. Yr oedd i'r gogledd o diroedd Owain Glyndŵr yng Nghynllaith Owain a Glyndyfrdwy.

55 **gwryd** Yn yr ystyr ffigurol 'corff', gw. GPC 1740 d.g. *gwryd*[1]*, gwrhyd*, ond yn fwy penodol, corff byw, 'person' yma.

56 **Gwenddydd** Chwaer neu gariad Myrddin, gw. G 659; GBF 30.60n.

**Gruffudd Gryg** Gruffudd Gryg ab Ieuan Fychan ab Ieuan, tad Margred, gwraig gyntaf Rhydderch ab Ieuan Llwyd, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Llawdden' 3, 5, 'Cydifor ap Gwaithfoed' 3.

58 **yr un sain** Llsgr. *ir vn ffair*. Ni rydd *ffair* gynghanedd y disgwylid ei gweld yn y ll., a chan y gallai'r symbolau am lythrennau *f* ac *s*, felly hefyd am *r* ac *n*, edrych yn debyg i'w gilydd, cynigir yn betrus mai *sain*, amrywiad ar *saint* 'sant(es)' neu 'sanctaidd', gw. GPC 3169 d.g. *saint*[1], oedd y darlleniad gwreiddiol; cf. ll. 61 *[g]wyry*. Gwell hefyd o ran synnwyr yw *yr* nag *i'r*. Gellir deall *un* i gynrychioli'r fannod neu'r a. 'arbennig, unigryw' (os yr ail, yna cf. 5.2, &c.).

59 **y Deau dir** Gw. ll. 14n.

60 **nawdd-dud** Llsgr. *novÞdvd*. (Dichon mai ffrwyth camgopïo yw'r llythyren debyg i'r S. *thorn*.) Cynigir y diwygiad yn betrus gan ei fod yn rhoi ystyr foddhaol. Ceir y ffurfiau amrywiol *nawdir / nowdir* hefyd, gw. GPC 2556, 2559, ond gan fod y gair nesaf wedi ei ddiwygio hefyd y mae angen y ffurf yn *-dd-* er mwyn y gynghanedd. Gellir deall *nawdd-*

*dud* i olygu 'pobl sy'n rhoi amddiffyn / noddfa'.

**Gwynedd-dir** Llsgr. *gvynedir*, ffurf anh., felly diwygir. CLC[2] 549, 'Yr oedd ei [sef Owain Glyndŵr] gysylltiadau â Gwynedd, er yn bell, yn ddigon i'w alluogi i'w ystyried ei hun yn olynydd i Lywelyn ab Iorwerth (Llywelyn Fawr) a Llywelyn ap Gruffudd ('Y Llyw Olaf') …'

61 **gwyry'** Llsgr. *wefry*, ffurf anh. Derbynnir awgrym Llawdden, &c.: Gw 289. Fodd bynnag, er mwyn y gynghanedd deellir y gair fel y ffurf ddeusill *gwyryf* heb yr *-f* yn hytrach na'r ffurf unsill *gwyry*.

62 **Hiriell** Arwr traddodiadol a mab darogan yng Ngwynedd, gw. Ifor Williams, 'Hiriell', B iii (1926–7), 50–2; TYP[3] xcviii. Fe'i henwir hefyd yng nghywydd moliant Iolo Goch i Owain Glyndŵr, GIG 43 (IX.17).

63 **pen** Sef Phylib ap Rhys; cf. ll. 8 *ein pen*.

Croes wreiddgoll.

64 **Einioes … unoed** 'Bywyd o'r un hyd'.

## *13*

Cywydd moliant yw hwn i Phylib ap Rhys ap Phylib Fychan, ei wraig Gwenllïan ferch Owain Glyndŵr, a'u pum mab.[1] Enwir pedwar o'r meibion, sef Rhys (ll. 43), Maredudd (ll. 44), Owain (ll. 47n) a Dafydd (ll. 47).[2] Canodd Lewys Glyn Cothi farwnad i Wenllïan lle y crybwyllir Maredudd a Dafydd,[3] ac un arall i Rys ac Owain.[4] Yn ôl Lewys, Owain oedd y brawd ieuengaf a Rhys oedd y brawd hynaf.[5]

1–2 **Af … / Uwch Coed** Ar y gystrawen, gw. 4.33n (nid yw'r cyrchfan yn dreigladwy yn yr achos hwn). Gellid hefyd, er hynny, gydio *Af* wrth *fry*, dodi coma ar ôl *wahodd*, a chymryd *Uwch Coed* mewn cyfosodiad â *fry*, ond ymddengys hynny'n llai naturiol.

1 **fry** Yr oedd Cenarth mewn ardal fryniog. Defnyddir *fry* yn aml yn y farddoniaeth, megis *draw,* heb fod o reidrwydd unrhyw arwyddocâd daearyddol neilltuol. Ymddengys, er hynny, mai'r ystyr lythrennol sydd iddo yng nghanu Llawdden; cf. ll. 33, 14.11, 18.28n, 40, 45, 22.22n, 24.50.

3 **Deled … dilys** Llsgr. *deved* … *dillys*. Y mae *dillys* yn ffurf anh. ac yn

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 36–8 (XIII); ac ymhellach ar Phylib a Gwenllïan, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 10.

[2] Y mae'n bosibl fod ll. 45 yn llwgr a'i fod yn cynnwys enw'r pumed mab yn wreiddiol, gw. *ib.* n.

[3] GLGC 412 (188.33).

[4] *Ib.* 414 (cerdd 189).

[5] *Ib.* 414 (189.16–18) *Owain y ieuaf, / hwn a'r brawd hynaf / fu'r haelaf, pennaf fal pren pinys.* Ni nodir plant Phylib a Gwenllïan yn P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 5.

ddiau yn fai am *dilys*, a diwygir *deved* er mwyn y gynghanedd.

7–8 Cf. GDG[3] 19 (7.9–10) *Rhoist ym swllt, rhyw ystum serch, / Rhoddaf yt brifenw Rhydderch*.

8 **Rhydderch** Ceir yr un chwarae ar yr enw yn 11.22, gw. *ib.* n.

11 **merch y mae** Llsgr. *verch mae*; diwygir er mwyn hyd y ll.

16 **ar gynnig** 'Yn cynnig'. Ar y defnydd hwn o'r ardd. *ar.* gyda be., gw. GMW 186.

17 **llaw'r** Llsgr. *llwr*; diwygir er mwyn gwella'r synnwyr.

**allor Garmon** Ar Garmon, gw. 12.32n. Diau mai yn eglwys Sain Harmon, a oedd dan nawdd y sant, yr oedd yr allor.

21–2 **Garmon … / Gwenfrewy …** Diben crybwyll y saint hyn yma yw cyffelybu Phylib a Gwenllïan iddynt. Ar Garmon, gw. ll. 17n; ar Wenfrewy, gw. LBS iii, 185–96.

21 **Glyn Aeron eirwir** Fe'i deellir i olygu 'un cywir (sef Phylib ap Rhys) [yn disgyn o lwyth] Glyn Aeron'.

23 **lili lamp** 'Merch bur [sydd fel] lamp', h.y., sy'n ddisglair.

28 Y mae'r ll. yn fyr o sillaf.

28 **ewythr cellïau** Ansicr yw'r arwyddocâd. Y mae'r cyd-destun yn awgrymu y gallai *Cellïau* fod yn yn e. lle (cf. yr enw cyffredin *Y Gelli,* GPC 459), ond ni chafwyd hyd iddo.

29–32 Ar gyflwr terfysglyd llawer rhan o Gymru yn oes Llawdden, gw. uchod td. 11.

29 **na bwrw'r bêl** Ni fu dim cyfle i gael adloniant ychwaith. Cf. 20.39–40 *Hyd tra fu'r trywyr ar faeth, / Am belau fu'u mabolaeth*.

31 **brân a barcutanod** Yr adar a fwydai ar gyrff y meirw adeg rhyfel; cf. 15.43–4 *Byd a fai, be da ei fod, / Cytûn â'r barcutanod* a'r topos cyffredin yng nghanu'r Gogynfeirdd.

34 **hwn** Sef y *byd* a ddisgrifir yn llau. 29–32.

37–8 Ffordd o fynegi haelioni Phylib: yr oedd mor gyfarwydd â rhoi saig i eraill fel mai peth cwbl anarferol fyddai iddo dderbyn un gan rywun arall yn unman.

39 **hwy no barwn** Deellir hyn i olygu bod Phylib yn dalach nag arglwydd cyffredin. Cf. 11.1–2n.

43 **mewn … oedran** H.y., y mae Rhys yn oedolyn, yn ŵr aeddfed; ar yr ymadrodd, gw. GPC 2623 (er mai 1588 yw dyddiad yr enghraifft gyntaf a restrir yno).

**rhwysg** Llsgr. *rrwystr*. Diwygir er mwyn y synnwyr a'r gynghanedd.

45 **os had** Y mae'n bosibl fod y ll. yn llwgr gan nad atebir *d* yn ail hanner

y ll. Y mae hefyd yn rhy fyr o sillaf. Yn wyneb y ffaith fod enwau pedwar o feibion Phylib yn cael eu crybwyll yn y cwpled blaenorol ac yn yr un dilynol, naturiol fyddai gweld crybwyll enw'r pumed yn y cwpled hwn, ac efallai mai gweddillion hynny sydd yn *had*. Ni chafwyd hyd i enw dyn yn diweddu yn *-(i)ad* a fyddai'n cyflawni gofynion y gynghanedd a'r mydr, ond byddai darllen *Ieuan*—enw sydd hefyd fel y lleill yn un digon cyffredin—yn ateb y diben.

48 **dwylaw** Sef Owain a Dafydd.

**daly oed hydd** Llsgr. *dalyr,* ond anarferol yw cael y fannod o flaen yr ymadrodd *oed hydd* (gw. 7.66n), felly diwygir. Ceir *r* berfeddgoll yn hanner cyntaf y ll.

51 **rhoddi** Y mae rhyw wrthrych(au) a roddir trwy haelioni'r meibion yn ddealledig ar ei ôl; cf. y ll. flaenorol *rhoi gwleddau*.

52 **cyhyd ag Owain** Sef Owain Glyndŵr, gw. ll. 14n. Yr oedd yntau'n ŵr tal.

53 **coel** Llsgr. *kael*; diwygir er mwyn y synnwyr.

**o'r un ffunyd** 'Yn yr un modd' (ag Owain Glyndŵr, gw. ll. 52).

54 **pumbys** Gellid defnyddio *bys* hefyd am 'gyfrwng', gw. GPC 367 (a).

## *14*

Cywydd yw hwn i ofyn cleddyf a bwcled gan Phylib ap Rhys dros Siancyn y Glyn.[1] Y tebyg yw mai mab i Owain Glyndŵr oedd y Siancyn y Glyn hwn a hynny am y rhesymau canlynol. Yn gyntaf, yr oedd gan Owain Glyndŵr fab o'r enw Ieuan a anwyd yn ôl Bartrum tua 1400,[2] a chan mai ffurf anwes ar *Siôn* (ffurf arall ar *Ieuan*) yw *Siancyn*,[3] hawdd y gallesid ei alw'n Siancyn y Glyn (h.y., Glyn Dyfrdwy). Yn ail, y tebyg yw mai ym mhersona'r eirchiad, Siancyn y Glyn, y mae Llawdden yn llefaru yn llinellau 21–2, gan gyfeirio ato'i hun fel *Brawd o gyfraith* (ll. 21) i Phylib ap Rhys: yr oedd Phylib yn briod â Gwenllïan, merch Owain Glyndŵr.

Am enghreifftiau eraill o gerddi'n ymwneud â chleddyf neu fwcled, neu'r ddau, gweler astudiaeth Dr Bleddyn Owen Huws.[4]

4 **gleisiad** Yn ôl GPC 1407 fe'i defnyddir hefyd yn ffigurol am offeiriad neu ŵr eglwysig, ond nid oes dim rheswm pam na ellid bod wedi ei ddefnyddio yn ehangach. Efallai mai 'campwr' a olygir yma. Os felly,

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 42–6 (XV); trafodir awduraeth y cywydd uchod td. 18. Ymhellach ar Phylib ap Rhys, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 10.

[2] P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 5; P.C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Cynfyn' 5(A).

[3] Gw. W Surnames 137–8.

[4] CGD *passim* a'r mynegai.

gthg. ei ystyr yn 17.20. Y darlleniadau sy'n cyfateb i *rhywiog leisiad* y testun yn llsgrau. GI yw *yn rhowiowgwlad*, E *y rywogwlad*, a gellid ystyried y rhain hefyd.

6 **brawd i Gynan** Ar *Gynan*, gw. 10.28n. Gallai *brawd* olygu 'câr, gŵr o'r un tylwyth, cyd-wladwr' yn ogystal, gw. GPC 311, 1 (b) a cf. ll. 22. Cf. hefyd y disgrifiad o Phylib yn 10.28 fel *ŵyr Gynan*.

11 **fry** Gw. 13.1n.

17 **Rhydderch** Sef Rhydderch Hael, gw. 11.22n.

19 **rhoddid** Ffurf 3 un.grch. y f. *rhoddi*; am y terfyniad, gw. GMW 129.

20 Cf. 12.21–2 *Duw a ellwng d'ewyllys / I ddwyn rhan o ddoniau Rhys*.

21–2 Siarad y mae Llawdden yn y llau. hyn â llais yr eirchiad, Guto ap Siancyn.

22 **brawd yt o bryd** Ffordd arall, y mae'n debyg, o ddweud bod Siancyn y Glyn yn debyg i Phylib ap Rhys yn gorfforol, h.y., yn fawr a chydnerth, rheswm arall dros y cais a wneir.

28 **bliant** Y cleddyf a olygir: cyffelybir ei wychder i eiddo bliant.

35–6 Yr ergyd yw y byddai'r cleddyf, am fod ei garn yn debyg i groes gain, yn rhoi nerth i'w ddefnyddiwr mewn brwydr.

35 Saif y ll. mewn cyfosodiad â *hwn* yn y ll. flaenorol.

**delw'r Grog** GPC 927 '*image of the Crucifixion*'; cf. *amlwg groes* yn ll. 32. Y mae'r ll. yn rheolaidd ei hyd os trinnir *delw'r* fel dwy sillaf.

39–50 Ynglŷn â'r llau. hyn o fawl i Wenllïan y mae'n wiw dyfynnu yr hyn a ddywed Dr Bleddyn Owen Huws am y cerddi gofyn, CGD 109, 'Rhoir yr argraff weithiau y disgwylid i'r wraig ddylanwadu ar ei gŵr a'i gymell i roi'r rhodd a ddeisyfid.'

40 **Creirwy** Creirwy ferch Ceridwen, merch a oedd yn ddiarhebol am ei phrydferthwch ac yr oedd Garwy Hir, yn ôl y bardd Hywel ab Einion Llygliw, yn garwr iddi, gw. TYP$^{3}$ 208, 315–16; WCD 148–9; GGLl 21.

42 **hil yr hydd** 'Hil hirhoedlog'. Ar fywyd maith yr hydd, gw. 7.66n.

**hael o'r Rhuddallt** Sef Gruffudd o'r Rhuddallt (Gruffudd Llwyd), taid Owain Glyndŵr, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 5.

43 **llwyrblaid** Gellir cynnig mai rhywbeth fel 'cwbl gefnogol' yw'r ystyr.

46 **dwg** Yn yr ystyr 'cludo, lledaenu'; cf. yr ymadrodd *dwyn clod* 'enwogi', GPC 1130.

53 **y ferch o Wynedd** Sef Gwenllïan.

55 **lifaid lwyth** Ffurfiau cysefin a geir yn y llsgrau., ac o dderbyn hynny gellid yma frawddeg enwol.

58 **Curig** Sant a gysylltid â Llangurig yn Arwystli, gw. LBS ii, 192–200;

WCD 155. Credid ei fod ar un adeg yn filwr, gw. LBS ii, 195, a cf., e.e., GLGC 265 (117.45) *Aed llurig Cirig, farchog gŵraidd*. Priodolid iddo hefyd weddi amddiffynnol o'r enw Emyn Gurig, gw. IGE[2] 354; Brynley F. Roberts, 'Rhai Swynion Cymraeg', B xxi (1964–6), 202–3; GIG 79 (XVII.67–8) *Emyn Gurig dda ddigawn / A ganaf, fy naf, yn iawn*. Cf. 16.27n, 27.54n.

59 **bwcled** 'Tarian gron, astalch', benthyciad posibl o'r S. *buckler* 'small round shield', tan ddylanwad *targed*, yn ôl GPC 351. Fe'i disgrifir yn fanylach yn CGD 174–5: 'Tarian fechan gron a cheugrwm … a wneid o ledr gydag adenydd dur. Gosodid arni gylchoedd, neu weithiau lathau haearn, a gysylltid â'r sylfaen o ledr gan nifer o hoelion, a chodai bwlyn pigfain o'i chanol gyda dolen yn y ceudod y tu ôl i'w dal.'

62 **buarth baban** GPC 343 (d.g. *buarth*), '*baby ring or circlet, ring of fire made with a blazing stick, turned round and round to divert a child*'; gw. hefyd GDG[3] 546–7. Fodd bynnag, mwy boddhaol yw esboniad Bl B XIV 180 a GLGC 595 mai 'corlan fechan gron i gadw baban yn ddiogel' a olygir.

64 **bwriad** Yn yr ystyr 'cynnyrch, ffrwyth', cf. GPC 355 d.g. *bwriad*[2].

**Bord Gron** Y bwrdd yr eisteddai Arthur a'i farchogion wrtho mewn chwedloniaeth Arthuraidd ddiweddarach. Cyffelybir y bwcled iddo o ran ei grynder a'i fireinder.

66 **rhod y cloc** 'Wyneb cloc', cf. y cyffelybiad i'r Ford Gron yn ll. 64.

70 **un** Un rhodd (sef y cleddyf a / neu'r bwcled).

71 **Selyf** Solomon fab Dafydd Broffwyd, a ystyrid yn batrwm o ddoethineb, gw. TYP[3] 497; trosiad ydyw yma am Phylib.

72 **Rhydderch** Gw. 10.66n. Gellid hefyd ddarllen *nai Rydderch* megis yn llsgrau. AG (ar y treiglad, gw. Treigladau 108–9).

73 **deall** Yn yr ystyr 'cymryd gafael yn, cydio yn, meddiannu' neu 'dwyn ymaith, cludo', gw. GPC 908, 1 (c), 2.

78 **ni neilltuer** 'Na foed [iddynt] (h.y. y cleddyf a'r bwcled) gael eu gwahanu.'

## *15*

Cywydd moliant yw'r gerdd hon i Forgan ap Hywel o gantref Maelienydd,[1] sef Morgan ap Hywel ap Phylib ap Cadwgan ap Phylib Dorddu.[2] Fe'i ganwyd yn ôl P.C. Bartrum tua 1430, ac awgrymir yn y gerdd ei fod yn ŵr

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 72–5 (XXIII); ID 70–2 (XXXVIII). Ar awduraeth y gerdd, gw. uchod td. 21.

[2] Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 28, 30; P.C. Bartrum: WG2 'Elystan Glodrydd' 30 (B); L. Dwnn: HV i, 266.

ifanc pan ganodd Llawdden iddo (gw. llau. 7–8n, 15–16n, 19–22n). Disgynnai ei wraig Gwenllïan, hithau, o Phylib Dorddu trwy ei thad Maredudd Fychan,[3] gwrthrych cerdd 16 a mab Maredudd ap Hywel ap Phylib Dorddu o Arddfaelog. Cartref Morgan oedd Croesgynon ym mhlwyf Llanbister.[4] Canodd Lewys Glyn Cothi hefyd iddo.[5]

5 **du** Oherwydd fod tad Morgan, Hywel, yn disgyn o Phylib Dorddu (ll. 6); cf. ll. 10 *Cenau llew du*.

9 Twyll caled a meddal.

10 **llew du** Sef Hywel ap Phylib.

**Cynllo** Mabsant plwyf Llangynllo a llawer o blwyfi eraill ym Maesyfed a Cheredigion, gw. LBS ii, 263.

11 **blaen draen a drig** Sonnir yn chwareus am farf Morgan ap Hywel.

13 **wyth wreiddyn** Deellir [*g*]*wreiddyn* i olygu 'bonedd' (gw. GPC 1705 (b)) ac *wyth* i ddynodi cyflawnder neu berffeithrwydd (cf. 1.71n), ffordd arall o ddweud bod Morgan o dras dra dethol.

15–16 Ymddengys mai'r ergyd yw fod Morgan bellach yn ddigon hen i fod â barf lawn.

19–22 Awgryma'r cyngor a roddir yma, unwaith eto, mai gŵr ifanc sy'n dechrau cael ei draed dano a gyferchir; cf. llau. 7–8, 15–16.

19–20 **Alisdotles gonffesawr / … Alecsander Mawr** Aristoteles, yr athronydd Groeg enwog (384–322 C.C.), ac Alecsander Fawr (356–323 C.C.), cadfridog mwyaf yr hen fyd, y mae'n debyg, a fu'n ddisgybl iddo. Y mae'n debygol fod Llawdden yn meddwl yma am y testun rhyddiaith 'Cyngor Aristotlys at Alecsander' a seiliwyd ar ran o gerdd adnabyddus Walter de Châtillon, 'Alexandreis', ac a honnai fod yn gyngor a gynigiwyd gan Aristoteles i Alecsander; ymhellach, gw. GLMorg 47.41–2n.

Rhydd GPC 551 i *conffesor* (benthyciad diweddar o'r Llad. *confessor*) yr ystyron 'un sy'n proffesu ei ffydd yn gyhoeddus ac yn glynu wrthi yn wyneb erledigaeth; offeiriad sy'n gwrando cyffesu pechodau ac yn gorchymyn penyd am y cyfryw a rhoi gollyngdod'; ond yn ôl OED[2] iii, 705 (3), gallai *confessor* olygu hefyd '*the private spiritual director of a king or other great personage*' (cf. MED d.g. *confessour*, '*a priest serving as spiritual advisor*'), ac ymddengys mai mewn ystyr debyg y mae Llawdden yn defnyddio *conffesor* am Aristoteles yn ei berthynas ag Alecsander. Er mai gair hanfodol Cristnogol yw *conffesor*, eto yn yr Oesoedd Canol synnid am y byd cyn-

[3] P.C. Bartrum: WG2 'Elystan Glodrydd' 29 ($C_1$).

[4] Gw. L. Dwnn: HV i, 266; NBSBM 384–9.

[5] GLGC 395–6 (cerdd 180).

Gristnogol fel rhagarwydd o'r byd Cristnogol ac nid oedd toriad pendant rhwng y ddau.

21–2 **awdur … / … hwn** Sef Aristoteles. Er ei fod yn filwr, eto anogir Morgan i ddilyn doethineb yr athronydd, megis y gwnaeth Alecsander Fawr, cadfridog mwyaf yr hen fyd, ond odid.

23 **eurgael** Ni welwyd y ffurf mewn man arall ond y mae'r ystyr yn ddigon eglur, sef 'cael aur' ac felly ei roi.

27–8 **E biau'r gwŷr … / Biau'r …** 'Yr hwn sy'n rheoli'r milwyr … piau'r tir …'

27 **gwaith** Dichon mai 'brwydr' a olygir yma (gw. GPC 1564 d.g. *gwaith*[2], 2 (b)).

28 **teiriaith** 'Tair cenedl', ond gan mai dwy hil yn unig a oedd (Cymry a Saeson), efallai mai rhyw elfennau gwrthryfelgar neu elyniaethus yn y rhanbarthau a ffiniai â Maelienydd a olygir (cf. sylwadau rhagarweiniol cerddi 22, 25). Ond y mae'n bosibl hefyd mai ystrydebol ac amhenodol yw'r defnydd o'r gair yma. Cf. ll. 54n.

29 **tyn** Cf. 22.7–8 *Tannu 'dd wyd, tyn yn ddidwyll, / Watgyn, bawb, eto gan bwyll*; GLGC 285 (127.17–18) *Gwatcyn a dynn ac a dau, / ac a orfydd ag arfau*; GOLlM 47 (24.1–2) *Y drych ar dyrau uchel / a dynn sy uwch dan ei sêl*. Trosiad amaethyddol sydd yma.

30 **gwalch Rhydodyn** Dywedir yn ID 111 ei bod yn debygol mai'r Dafydd Morgan y canodd Lewys Glyn Cothi iddo a olygir, gw. GLGC 88–9 (cerdd 35). Bu'r Dafydd hwn a'i frodyr, meibion Morgan ap Dafydd Fychan o Rydodyn yng nghwmwd Caeo, a folir gan Lewys, yn dal swyddi lleol o'r 1430au hyd y 1450au, gw. R.A. Griffiths: PW i, 301, 383. Fodd bynnag, yn wyneb y ffaith mai cywydd i Forgan sydd gan Lawdden, disgwylid mai Morgan o Rydodyn yn hytrach na'i feibion sydd dan sylw. Ymhellach ar deulu Rhydodyn, gw. GLGC 540. Ni sylwyd ar unrhyw gyswllt neilltuol rhyngddo a theulu Croesgynon yn yr achau.

31 **margain** Llsgrau. *morgain* a *morgan*. Dilynir darlleniad ID 71 *margain* er mwyn y synnwyr, er mai *morgain* a geir yn y llsgr. a ddefnyddiwyd yno (F). Ar y trawiad, cf. GDG xv, *Mawl Dafydd heb undydd bai / morganwg nis margeiniai* (Huw Arwystl).

32 **yno** Sef Rhydodyn (ll. 30).

**Maelienydd** Cantref gogleddol gynt yn Rhwng Gwy a Hafren, Maesyfed, gw. WATU 148, 287.

33–4 'Os [y] mab darogan yw Morgan, bydd [y] Cymro'n cyflawni peth mawr fel milwr.' Adlais y canu brud, cf. ll. 49n a 9.35–8n.

35–8 Yn ôl Cledwyn Fychan, 'Llywelyn ab y Moel a'r Canolbarth', LlCy xv (1987–8), 291, y tebyg yw mai cyfeirio at ymwneud Morgan ap Hywel

â herwyr a wneir yn y llau. hyn.

37 **Gwennwys** Gw. 9.37n (nid '*men of Gwent*' a olygir yma, fel y dywedir yn ID 72).

40 **nid rhaid colli barn** H.y., y mae Morgan yn dod â threfn a chyfiawnder y ffordd yr elo.

42 **a throi d'wyneb** 'Edrych ohonot yn ffafriol' (ar y sawl sy'n ei gyfarch). Ar y llaw arall, er mai *a* sydd yn y llsgrau., gellid hefyd ystyried ei ddiwygio yn *o:* 'os troi'.

43–4 Cf. 13.21–2, 31n. Â ll. 43 hefyd, cf. GILlV 31 (XII.1) *Be daf oedd y byd a fu*: y mae'n amlwg fod ymadrodd diarhebol a soniai am y byd da a fu.

43 **byd a fai** Dywedir yn ID 72 am *byd a fav* llsgr. F mai *bydafeu*, S. '*hives*', a gynrychiolir, ond byddai hynny'n groes i'r gynghanedd ac yn rhoi synnwyr anfoddhaol.

49 **help o Lydaw** Y canu brud eto, gw. llau. 33–4n. Yr oedd Llydaw, yn ogystal ag Iwerddon, yn un o'r gwledydd y disgwyliai'r Cymry gymorth oddi wrthynt yn erbyn y Saeson, gw. EVW 88, 110, 113, 114, 117, 118, 154.

50 Y mae'r ll. yn hir o sillaf oni chywesgir *ei henw*. Yr ystyr yw y bydd Maelienydd yn cael ei enwi ar ôl Morgan ap Hywel (*wrth ei henw*), fel yr esbonnir yn y cwpled nesaf.

51 **Gwlad Fael** Sef Maelienydd. Ar Fael Maelienydd, gw. P.C. Bartrum, 'Pedigrees of the Welsh Tribal Patriarchs', Cylchg LlGC xiii (1963–4), 96, 114; GDG$^3$ 519; WCD 437.

52 **gwlad Forgan** Sylwer fel y chwaraeir ar y geiriau hyn a'r enw *Gwlad Forgan*, sef Morgannwg.

54 **tair rhan** Pam *tair*? Efallai mai ffordd yw hyn o ddweud bod Morgan yn hoffi rhannu arian yn deg rhyngddo ef ei hun ac eraill.

57 **bynciau** Yn ID 72 darllenir *byngliav* a dywedir mai'r S. '*bungle'* a olygir, ond *byngkiav* (gyda'r *k* braidd yn aneglur) a geir yn y llsgr. (= llsgr. F). Yr un gair a geir yn y llsgrau. eraill hefyd.

## *16*

Cywydd yw hwn i Faredudd Fychan ap Maredudd ap Hywel ap Phylib Dorddu o Arddfaelog,[1] plas uchelwyr enwog eu nawdd ger Llanbister, Maelienydd,[2] i ddymuno'n dda iddo wedi iddo glwyfo ei goes. Maredudd

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 61–3 (XIX). Ar ach Maredudd Fychan ap Maredudd, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 29; L. Dwnn: HV i, 260, 263.

[2] Ymhellach, gw. CSF ii, 75–7; NBSBM 432–47; isod 17.1–6n. Dywedir yn CSF ii, 76, fod

Fychan oedd tad y Dafydd hwnnw y gofynnodd Llawdden i Fadog ap Hywel ap Madog Fychan o Elfael am saled ar ei ran (cerdd 17); a thros Faredudd y canodd Llawdden gerdd 19. Cymharer hefyd gerdd 35. Ceir cywydd ansicr ei awduraeth yn dymuno gwellhad i Hywel Sele ap Meurig Llwyd o Nannau wedi iddo ddisgyn oddi ar ei farch (gw. llau. 19–22n), a chanodd Guto'r Glyn gywydd i Hywel o Foelyrch wedi iddo frifo ei lin.[3]

1–2 Cf. GGl² 118 (XLIV.7–8) *Od wyd glaf, y Mordaf mau, / Claf wan y'm clywaf innau.*

6 **yr ŵyl** Yr oedd tair gŵyl arbennig, sef y Nadolig, y Pasg, a'r Sulgwyn, pan ymwelai'r beirdd â'u noddwyr. Os at un o'r rhain y cyfeirir, ni wyddys pa un, ond gall hefyd y defnyddir *yr ŵyl* yma yn gyffredinol am y tair; cf. 11.60n.

7 **plwyfynt** Llsgrau. *plovint*, ffurf anh. Fe'i deellir, yn bur betrus, yn gyfuniad o *plwyf* 'plwyfolion' a *hynt* 'llwybr', h.y., 'cyrchfan i blwyfolion'.

**capel Ifor** Capel personol i Faredudd Fychan, a gyffelybir i Ifor Hael (gw. 11.51n); cf. GSCyf 2.39n.

9–10 **Tomas / Dwpa** Y mae'n amlwg oddi wrth y cyd-destun mai meddyg ydoedd a oedd yn gofalu am Faredudd Fychan. Mewn cywydd i ofyn ci gan Gutun Siancyn, dywed Llywelyn ap Gutun am y ci ei fod *Yn iacháu o grwyn a chig, / Nes fydd no Thomas feddig! (*GLlGt 5.19–20) a gall mai Tomas Dwpa a olygir. Ceir gŵr o'r enw yn P.C. Bartrum: WG2 'Rhys ap Tewdwr' 15 (C, D) a anwyd, yn ôl Bartrum, tua 1470 ac a briododd â merch i Siencyn ap Rhys ap Llywelyn Fychan o Faesyfed (yr oedd Llywelyn Fychan yn fab i Lywelyn Crugeryr ap Phylib, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Rhys ap Tewdwr' 15). Ymddengys tua 1470 braidd yn ddiweddar ar gyfer Tomas Dwpa y gerdd, ac eto cyfeiria Llawdden ato fel *mab* (ll. 12). Yn L. Dwnn: HV i, 252, dan 'y Mynachdy ymhlwyf Bleddfach', troednodyn 8, dywedir am Elizabeth, gwraig Edward Dwpa, 'The Duppa family resided at Cusop, in the county of Hereford, but were originally from Ireland.' (Sylwyd hefyd ar Feurig Dwpa ap Maredudd Goch, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 23.)

10 **Ipográs** Sef Hippocrates (469–399 C.C.), y meddyg enwog o wlad Groeg. Am y ffurf, cf. H.Ffr. a S.c. *Ypocras.*

12 **gan** 'Gyda, yng nghwmni'. Yr hyn a olygir yw fod Pedr a Mair yn gofalu am y meddyg neu'n ei gynorthwyo wrth iddo wneud ei waith.

14 **aur a cherdd** Cyfeiria *aur* at dâl y meddyg a *cherdd* at gerdd Llawdden. Ynglŷn â'r ail, cf. llau. 21–2. Sonia Guto'r Glyn hefyd am sain cerdd fel peth a all iacháu clwyf, GGl² 119 (XLIV.35–42).

Llawdden yn 'fardd teulu i' Faredudd Fychan, gosodiad camarweiniol gan mai'r cywydd hwn yw'r unig gerdd o'i eiddo sydd ar glawr i'r noddwr hwnnw.

[3] GGl² 118–20 (XLIV).

15 **ail Arthur lys** Cyfeiriad at Gelliwig, llys traddodiadol Arthur yng Nghernyw a ystyrid gan y beirdd yn llys delfrydol, gw. GGrG 1.34n.

17–18 **anael / … hael** Cf. GGl$^2$ 119 (XLIV.19–20) *Gresyn yw rhwymyn ar hael, / Ys cwynwn nas câi anhael.*

19–22 Cyfeirir at gywydd i Hywel Sele ap Meurig Llwyd o Nannau (sef *Hywel Amheurig,* ll. 20) i ddymuno gwellhad iddo wedi iddo ddisgyn oddi ar ei farch ac anafu ei goes, gw. GLlG Atodiad. Fe'i priodolir i Lywelyn Goch ap Meurig Hen, ond dichon mai Gruffudd Llwyd yw'r gwir awdur, gw. *ib.* 97.

20 **helm** Ansicr yw ei arwyddocâd yma. Efallai mai'r pen, yn hytrach na'r helm drosto, a olygir. Er hynny, ni ddywed awdur y cywydd i Hywel Sele (gw. y nodyn blaenorol) fwy am ei anaf na bod ei farch wedi sathru ar ei goes (gw. GLlG Atodiad.19–20, 39).

**Hywel Amheurig** Llsgrau. *howel a meurig*, ond fe'i diwygir yn unol â thystiolaeth y llau. Yr oedd Hywel Sele ap Meurig Llwyd yn fab i'r Meurig Llwyd o Nannau a folwyd, ynghyd â'i frawd Hywel, gan Lywelyn Goch ap Meurig Hen a Gruffudd Llwyd, gw. GLlG cerdd 8 a GGLl cerdd 14.

22 **Nannau** Plasty yng nghyffiniau Llanfachreth, Meirion, gw. WATU 163, 292. Ymhellach ar y teulu enwog a drigai yno, gw. ByCy 640–1; GGLl 279.

**hon** Sef *esgair* Maredudd Fychan, gw. llau. 11, 19.

26 **craith** Mynega Llawdden ei hyder y bydd Duw yn gwella'r aflwydd trwy adael craith (arwydd fod y clwyf wedi gwella).

27 **Curig** Gw. 14.58n. Ymddengys y crybwyllir ef yma mewn perthynas â chrair ar lun gwayw o gŵyr a gysylltid ag ef.

28 **gyr** Gellir deall Curig neu Faredudd yn oddr. y f.

33 **Maelienydd** Gw. 15.32n.

34 **un trew fydd** H.y., y mae hi mor ddu ar Faelienydd fel nad oes angen ond un *trew* i ddwyn aflwydd pellach. Ystyrid tisian yn y gorffennol yn arwydd o anlwc, gw. GC 7.114n.

38 **iaith afwy** Llsgr. A *i eith avwy*, B *i eithafwy*. Diwygir er mwyn y synnwyr a hyd y ll. Ffurf dreigledig yr a. *gafwy* yw *afwy*.

39–40 **carchar … / … carchar …** Cf. GGl$^2$ 119 (XLIV.35–8) *Sain cerdd Taliesin ein câr / A gyrchodd meistr o garchar. / Mae i'm bryd, am a brydwyf, / Gyrchu'r glin o garchar glwyf.*

39 **gŵr** Cf. ll. 56 *gŵr oeddud*, ond gall hefyd mai Crist a olygir.

41–2 Ni welwyd cyfeiriadau eraill at y digwyddiad hwn; rhaid hefyd fod delw (enwog, efallai) o Fair yn Llwydlo. Ymddengys yn od cyffelybu cyrchu Maredudd Fychan o garchar i ddwyn delw o Fair gan farbariaid,

ond efallai mai'r elfen o benderfyndod yw craidd y gymhariaeth.

41 **Llu Du** Sef y Llychlynwyr a anrheithiodd Gymru a gwledydd eraill yn yr Oesoedd Canol cynnar, gw. GPC 2215.

42 **Llwdlo** Sef Llwydlo (S. *Ludlow*), megis yn 25.22; cf. GLGC 359 (162.7–8) *Llwdlo a'm gwnâi yno'n iach, / llyn Gweble oll yn gwbliach.*

45–6 'Er mwyn iti yfory, yn iach, fwrw naid, y mae bendith tlodion yn dy gynnal.' Gw. hefyd y nodyn nesaf.

46 **gweiniaid** Llsgrau. *gweniaid*; diwygir er mwyn y synnwyr.

48 **y Gorddwr** Cwmwd i'r gogledd o Faelienydd a Cheri a Chydewain rhyngddynt, gw. WATU 79, 264. Yr ergyd yw y gallai Maredudd Fychan gerdded cyn belled â hynny.

49 **blaen** Gw. 12.33–4n.

51 **mawr** Fe'i treiglwyd oherwydd ei fod yn dilyn y rhif deuol *dau filgi*, gw. Treigladau 61–2 a cf. 19.21–2, 24, 27.31.

**ddau** Llsgrau *dav*. Fe'i diwygir er mwyn cywirdeb gramadegol.

55 **mud** Ar ei ystyron, gw. GPC 2499 d.g. *mud*[1]. Efallai mai 'gwylaidd' neu'r cyffelyb a olygir yma.

59–60 Ymddengys mai'r ystyr yw fod y gwragedd (ll. 57) fel gwenyn yn ymgolli mewn coed cyll wrth holi ynghylch Maredudd.

59 **cell** Llsgrau. *kyll*. O ystyried *gwenyn* yn y ll. nesaf, ceir gwell synnwyr o'i ddiwygio a'i ddeall i olygu 'cwch gwenyn'.

61 **Margred** Gwraig Maredudd Fychan, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Einion ap Llywarch' 7, 'Elystan Glodrydd' 29.

63 **deulu** Gallai fod yn gyfuniad o *dau* a *llu* (gw. GPC 938–9) neu'n dreiglad o *teulu*.

67 **Dinefwr** Yr oedd Margred yn ferch i Ruffudd ap Nicolas o Ddinefwr (arno, gw. ByCy 293).


## *17*

Cywydd yw hwn[1] i ofyn i ŵr o'r enw Madog am saled, sef math o helm,[2] dros Ddafydd o Arddfaelog (llau. 61, 62). Ynddo disgrifir Madog fel *print Maredudd ap Rhys* (ll. 8) ac *Fal edn dros Elfael* (ll. 12). Dywedir ymhellach fod Madog a Dafydd yn *ddeugar o'r un Cadwgawn* (ll. 13) ac yn *ewythr a nai* (ll. 16). Gellir bod yn bur hyderus mai Dafydd ap Maredudd Fychan ap

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 27–9 (X).

[2] Arno, gw. ymhellach e.e. Eduard Wagner, Zoroslava Drobná & Jan Durdík, *Medieval Costumes, Armour and Weapons* (New York, 2000), 40–1; Ewart Oakeshott, *The Archaeology of Weapons* (Woodbridge, 1994), 291–2.

Maredudd ap Hywel ap Phylib Dorddu, a anwyd yn ôl Bartrum tua 1430,[3] yw'r Dafydd a grybwyllir yma. Canodd Lewys Glyn Cothi awdl iddo yn diolch am farch,[4] a chanodd Llawdden ddau gywydd i'w dad Maredudd Fychan (cerddi 16 a 19). Ynglŷn â Madog, yn ôl yr achau, nid oedd gan Ddafydd ewythr o'r enw hwn ar ochr ei dad, ac ni nodir dim brawd neu frodyr i'w fam Gwenllïan. Fodd bynnag, enw tad Gwenllïan oedd Madog ap Hywel ap Madog Fychan,[5] a chan y gallai'r gair ewythr olygu brawd i daid yn ogystal ag i dad,[6] dichon mai hwn yw'r Madog y cyfeirir ato yn y gerdd. Ymhellach, yr oedd Madog ap Hywel yn briod â Gwenllïan arall, merch Cadwgan o Elfael Uwch Mynydd o lwyth Rhys ap Tewdwr,[7] ac un o ddisgynyddion hwnnw oedd yr enwog Faredudd ap Rhys Gryg, tywysog Deheubarth (*ob.* 1271).[8] Dichon, felly, mai hwy yw'r Cadwgan a'r Maredudd ap Rhys y cyfeirir atynt, a gallai cysylltiad Cadwgan ag Elfael Uwch Fynydd fod yn arwyddocaol:




Os Madog ap Hywel ap Madog Fychan yw'r sawl yr aeth Llawdden ar ei ofyn, ac os yw Bartrum yn gywir yn dodi adeg ei eni tua 1370, rhaid bod y cywydd hwn, megis cerddi 7 a 10, yn perthyn i gyfnod cynnar y bardd, efallai i ddauddegau'r bymthegfed ganrif.

Ceir cywydd arall i ofyn saled gan Guto'r Glyn.[9]

3 Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 29; P.C. Bartrum: WG2 'Elystan Glodrydd' 29 (C1); L. Dwnn: HV i, 260, 263.
4 GLGC 385–6 (cerdd 175).
5 P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 27, 29.
6 Gw. GPC 1265.
7 *Ib.* 'Elystan Glodrydd' 27, 'Rhys ap Tewdwr' 20.
8 *Ib.* 'Rhys ap Tewdwr' 11.
9 GGl[2] 78–80 (XXIX).

1–6 Cymerir mai at Arddfaelog (ger Llanbister) a'r cyffiniau, cynefin Dafydd ap Maredudd Fychan, y cyfeirir oherwydd safai Garddfaelog *ar lan afon* (ll. 4) Ieithon a gellir uniaethu *Llanfair dir* (ll. 6) â Llanfair Trelwydion gerllaw, gw. WATU 118. Ni all mai trigfan Madog ap Hywel a olygir gan mai yn Elfael (gw. ll. 12) yr oedd ef yn byw, nid ym Maelienydd. Rhaid cydnabod, er hynny, mai anghyffredin yw agor cerdd trwy gyfeirio at yr eirchiad. Ymddengys oddi wrth lau. 1–4 fod gwaith helaethu neu adnewyddu ar droed.

2 **milltir o aur** Llsgrau. *Millidir aur*. Diwygir er mwyn ystyr a hyd y ll.

3 **hon** Y mae'n debygol y cyfeirir ymlaen at *bro* yn ll. 6.

8 **print Maredudd ap Rhys** Cyfeirir at Fadog ap Hywel (ll. 10), gan ei gymharu â Maredudd ap Rhys Gryg, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod a ByCy 579–80.

9–10 Gellir awgrymu mai ergyd y cwpled yw fod Madog ap Hywel wedi ennill bri trwy lwyddo i reoli Elfael Uwch Mynydd yn ogystal ag Elfael Is Mynydd (*dwy wlad* a gw. ll. 9n), ac nid un ohonynt yn unig. Cofier bod ei dad yng nghyfraith, Cadwgan, yn hanu o Elfael Uwch Mynydd, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod a ll. 13n.

9 **deiliadaeth** Ar ei ystyron, gw. GPC 922 d.g. *deiliadaeth*[1]. Ymddengys mai 'busnes neu ofal llywodraeth, llywodraethiad' a olygir yma.

**dwy wlad** Sef cymydau Elfael Is Mynydd ac Elfael Uwch Mynydd, a ffurfiai gantref Elfael yng ngwlad Rhwng Gwy a Hafren, gw. WATU 66.

10 **Madog** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod. Gan mai ef yw goddrych y cymal pth. *A wnaeth* yn ll. 9, bron nad yw ei enw yn gyfystyr ag 'ef ei hun'.

**cyfodiad** Gw. GPC 527 d.g. *codiad* '… dyrchafiad, amlhad, cynnydd (am arian, anrhydedd, &c.)'.

12 **edn** Llsgrau. *edyn*. Gellid cadw'r darlleniad hwnnw (er ei fod yn peri i'r ll. fod yn hir o sillaf) a'i ddeall yn ffurf l. *adain*, ond bernir bod *edn* yn fwy cydnaws (cf. y defnydd o *gwalch* am uchelwr, &c.).

13 **Deugar o'r un Cadwgawn** Y *deugar* yw Madog ap Hywel a Dafydd ap Maredudd Fychan. Wrth *Cadwgawn* golygir Cadwgan ap Hywel Fychan ap Hywel Sais o Elfael Uwch Mynydd, tad yng nghyfraith Madog a hendaid Dafydd ar ochr ei fam, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod a P.C. Bartrum: WG1 'Rhys ap Tewdwr' 20.

15–16 Ymddengys mai ergyd y cwpled yw fod siwrnai'r bardd ychydig yn wahanol i'r arfer gan ei fod ar berwyl (*nod*) yn ymwneud â dau ddyn sy'n perthyn yn agos i'w gilydd (gw. y ll. nesaf).

17 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf onis cywesgir.

18 **saled** Math o helm; y mae'r ffurf yn fenthyciad o'r S.C. *salet*, gw. GPC 3156 d.g. *saeled*.

21 **fel y saith seren** H.y., '[disglair] fel y saith blaned', gw. 1.43n.

26 **cylch** Sylwer mai ardd. ydyw yma, 'o amgylch', gw. GPC 747.

29 **crair San Silin** Cymreigiad yw *San Silin* o'r S. *St. Giles*, y sant o Sais (?8g.) a ddaeth yn boblogaidd yng Nghymru hefyd. Nid yw'n sicr at ba grair y cyfeirir yma. Ceir tri cherflun o San Silin gyda'i briodoleddau ar dŵr eglwys enwog plwyf Wrecsam a gysegrwyd iddo. Yr oedd hefyd, fodd bynnag, ddelw ohono yn eglwys Llansilin, sir Ddinbych a ddinistriwyd yn 1646. Gw. LBS iv, 203–6.

30–2 Cyffelybir y saled i'r gwrthrychau hyn o ran gwychder yn unig.

30 **Sin** Benthyciad o'r S. *Sheen*, sef y plas brenhinol ger Richmond, cf. GLGC 529.

32 Y mae'r ll. yn hir o sillaf.

34 **lle** Gellir ei ddeall i olygu'r saled.

**main** Sef meini gwerthfawr.

35 **i'r iad wedy'r wau** 'Wedi ei wau i'r pen', h.y., y mae'r helm yn ffitio'r pen i'r dim ac yn dilyn ei siâp. Ar *'r,* ffurf ar y gn. rhagferfol *rhy* pan fo'n dilyn bf. yn diweddu â llaf., gw. GPC 3123 d.g. *rhy*[2] (g); GMW 168–9; cf. 19.39, 21.20.

39 **fiswrn** Rhestrir y ffurfiau *fiswr*, *miswrn*, *miswr* yn GPC 1270, 2466 ond nid *fiswrn*. Fodd bynnag, gan mai eb. yw *saled* ac mai ati hi y cyfeiria *ei*, disgwylid *miswrn* os *miswrn* oedd y ffurf gysefin. Cymerir felly mai *fiswrn* yw'r ffurf gysefin yn yr achos hwn. Hawdd iawn y gellid ei ffurfio ar sail *miswrn*. Daw o'r S.C. *viso(u)r*, *l.c.*

**a rydd** 'Sy'n gweithredu fel.'

42 Y mae'r ll. yn hir o sillaf.

43 **dwg** Sef y *tremyn*; cf. GLlLl 20.28 *Ducost, ut dremrut, dremyn*.

44 **dwy L** Cyfeirir at siâp y ddwy agen ym miswrn y saled i'r milwr gael gweld trwyddynt. Am ffurf llythyren *l* fechan, yn ddiau, yn hytrach nag *l* fras (sydd a throed iddi) y mae'r bardd yn meddwl gan mai dyna'r ffurf sy'n cyfateb i eiddo agennau'r math o helm dan sylw.

**treiddiai olwg** Treiglid y goddr. ar ôl 3 un.amhff.myn. y f., gw. Treigladau 214.

45 Y mae'r ll. yn hir o sillaf.

**Dewi Mynyw** Sef Dewi Sant. Hen enw Tyddewi ydoedd *Mynyw*.

46 **Meugan** Meugan Sant, gw. LBS iii, 478–81. Crybwyllir ef ymysg tri mabsant ar ddeg Elfael gan Lewys Glyn Cothi yn ei gywydd moliant iddi, GLGC 317–8 (cerdd 141.21), ac y mae'n bosibl fod eglwys iddo

gynt ar lan Afon Gwy sy'n rhedeg ar hyd ffin orllewinol y cantref (y mae Llanfeugan ym Mrycheiniog), gw. *ib.* 593. Y mae'n bosibl mai oherwydd cysylltiadau Madog ag Elfael y crybwyllir y sant hwn yma.

49 **breuddwydiaw** Llsgrau. *brevddiaw* ond y mae angen cyflenwi *-wyd-* er mwyn hyd y ll. a'r gynghanedd.

51–6 Rhestr o drosiadau am y saled.

52 **pair Owain ab Urien** Gw. R.L. Thomson: Owein 7, 8 (lle y'i gelwir yn *kawc*). Am gyfeiriadau eraill gan y Cywyddwyr at Owain ab Urien, gw. TYP[3] 470–2.

53 Crib ysblennydd neu foethus neu ddisgleirwen, efallai, a olygir.

54 **crogen o Gaer Iago** Ar *crogen Iago*, S. '*scallop*', gw. GPC 578. Santiago de Compostela yng ngogledd-orllewin Sbaen yw *Caer Iago*. Yr oedd yn ganolfan bererindota dra phoblogaidd, gw. ODCC[3] 392–3, a byddai'r pererinion yn gwisgo cregyn megis cocos a chregyn bylchog ar eu dillad.

55 **mail** Gw. GPC 2322 d.g. *mail*[1]: efallai mai'r ystyr 'gorflwch' (S. '*goblet*') fyddai'n gweddu orau yma, gan gyfleu crymedd gosgeiddig cwr isaf y gragen.

**Maelawr** Gw. 8.4n, 12.52n. Ymddengys ei fod yn lle enwog am ei orflychau.

58 **Iorus** Sef St. Siôr (*George*), nawddsant Lloegr a gŵr a ystyrid yn batrwm o farchog Cristnogol yn yr Oesoedd Canol.

## *18*

Mawl i dir a phobl Brycheiniog yw'r cywydd hwn,[1] ac yn hyn o beth dwg i gof gywyddau Siôn Cent a Hywel Dafi ar yr un pwnc.[2] Y mae bodolaeth y cerddi hyn, gyda'u disgrifiadau heulog, dibryder, o'r fro hon a'u diffyg sôn am noddwr, yn ffenomen ddiddorol ynddi ei hun, a thelir teyrnged debyg yn ddiweddarach mewn rhyddiaith gan y dyneiddiwr Siôn Dafydd Rhys.[3] Efallai, er hynny, nad oedd pethau, mewn gwirionedd, mor dawel â hynny dan yr wyneb. Ar ôl nodi rhai ffeithiau gweinyddol caled am Frycheiniog, dywed D.J. Bowen am gywydd Siôn Cent iddi ei fod 'yn dangos pa mor drwyadl gamarweiniol y gallai tystiolaeth canu'r Cywyddwyr fod',[4] a

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 85–8 (XXVII).

[2] IGE[2] 268–9 (LXXXIX). Ceir cywydd Hywel Dafi yn Pen 96, 623.

[3] Pan ddywed ei fod wedi dewis byw yno nid yn unig am ei fod yn Gymro ond hefyd *o ethryb fy môd yn tybieid ynn fy nghallon, nad oedd vnwlad ynn Nghymru o rann Pendefigion, a Bonheddigion, a Chyphrêdin, well ei phobl, lanach eu cynheddfeu, syberwach eu moeseu, na hawddach cáel cymwynas ddâ ganthynt, ym mhôb môdd y ceisiyd na gleindid, na hawddgârwch, na chymwynas, na syberwyd, na dim dâ arall mywn vndyn; no phobl Wlâd Frycheinioc*, Garfield H. Hughes, *Rhagymadroddion 1547–1659* (Caerdydd, 1976), 78.

[4] D.J. Bowen, 'Siôn Cent a'r Ysgwieriaid', LlCy xxi (1998), 17.

chanodd Hywel Dafi, cyfoeswr i Lawdden, gywydd arall i ddymuno gweld heddwch rhwng siroedd Brycheiniog a Morgannwg.[5] Fel ffordd o foli Brycheiniog ymhellach, yn adran olaf y gerdd (llau. 51–60) cysyllta Llawdden hi â rhywun o bwys nas enwir ganddo. Dengys y geiriau *Llew gwyn o Went* (ll. 56, cf. ll. 58) a *Godwin* (ll. 57) mai un o Herbertiaid Gwent ydoedd, oherwydd arwyddlun herodrol yr Herbertiaid oedd tri llew arian,[6] a Godwin, 'Iarll Cernyw', oedd sefydlwr llinach yr Herbertiaid. Yn fwy penodol, y mae'r gair *iarll* (ll. 59) yn awgrymu mai Syr Wiliam Herbert, Iarll Cyntaf Penfro, a olygir, a chyson â hynny yw'r cwpled *Mae dechrau'n canuau ni / O'r Fan hyd ar y Fenni* (gw. llau. 51–2n) a phopeth arall a ddywedir amdano yn yr adran hon. Gan mai ar 8 Medi 1468 yr urddwyd Herbert yn Iarll Penfro ac mai ar 27 Gorffennaf 1469 y dienyddiwyd ef,[7] rhaid mai rywbryd rhwng y dyddiadau hynny y canodd Llawdden ei gerdd. Ymddengys ei fod yn hen ar y pryd (gw. ll. 24n).

2 **tai mâl** Y mae'n debygol mai melinau a olygir.

**cant** Llsgr. *gwnt*, ffurf anh. Fe'i diwygir er mwyn y synnwyr.

**maelawr** Fe'i deellir yn betrus yn ffurf l. *mael* 'pennaeth', er na nodir ffurfiau ll. yn GPC 2305 d.g. *mael*[2]; y mae blas hynafol i'r terfyniad -*awr*, gw. GMW 28.

4 **gwlad Dwynwen** Santes a gysylltir yn bennaf â Llanddwyn ym Môn ond a oedd yn ferch i Frychan Brycheiniog, gw. LBS ii, 387–92. Fel rheol, treiglir e.p. yn dilyn eb. ond yma hepgorwyd y treiglad (o bosibl oherwydd calediad) er mwyn y gynghanedd.

8 **Esgyr** Llifa Afon Ysgir i Afon Wysg ger Aberysgir (ar yr amrywio seinegol *e* / *y*, cf. e.e. *esgair* / *ysgair, esgar* / *ysgar* a gw. hefyd Richard Morgan & R.F. Peter Powell, *A Study of Breconshire Place-names* (Llanrwst, 1999), 36 d.g. *Aberysgir*).

12 **naw** Cf. ll. 18 a gw. 1.71n ar *nawnaid*.

**deifr** Llsgr. *deifn*. Diwygir er mwyn y gynghanedd a'r synnwyr. Ystyr *deifr* ywyddai 'dyfroedd, afonydd'.

13 **trychantref** Dengys gweddill y ll. mai 'tri chan tref' yn hytrach na 'tri chantref' a olygir. Pedwar cantref a oedd ym Mrycheiniog.

[5] Llst 134, 146v (= rhif 216); gw. hefyd NBSBM td. i. Yn *Gerallt Gymro: Hanes y Daith trwy Gymru, Disgrifiad o Gymru*, cyf. Thomas Jones (Caerdydd, 1938), 35, dywedir am fynyddoedd Talgarth ac Euias, 'Ni phaid eu trigolion, yn eu gelyniaethau diddiwedd a'u casineb anghymodlawn, â thywallt gwaed gan archolli ei gilydd, ac ymroddi'n ddyfal i laddfeydd. Ond rhoddwn y cyfle i eraill adrodd maint ac anghymedroldeb y troseddau ynglŷn â phriodasau gwaedlyd iawn, wedi eu hanodi, er hynny, yn hytrach na'u hamodi, ac wedi eu hatal ag ysgar hyd at waed, a llawer o helyntion creulon eraill, a ddigwyddodd o fewn ein hamser ni yn yr ardaloedd hyn.'

[6] Gw. DWH ii, 226.

[7] ODNB xxvi, 730, 731.

14 **trigaint o saint** Cyfeirir at blant Brychan Brycheiniog; IGE[2] 382, 'Amrywia'r MSS. ar nifer ei blant, ond rhoir iddo o 11 i 32 o feibion, ac o 20 i 31 o ferched, gan mwyaf yn saint!' Ymhellach, gw. LBS i, 303–21.

15–17 Ar yr afonydd a grybwyllir yma, ac eraill ym Mrycheiniog, gw., e.e., *Atlas Brycheiniog* (Llandysul, 1960), 50.

15 **gwsg** Llsgr. *wsc*, ffurf anh. Fe'i diwygir a'i ddeall yn 3 un.pres.myn. y f. *cysgu* wedi ei dreiglo mewn cymal pth.neg. (ar y gystrawen, gw. GMW 61–2).

18 **rhôl** Fe'i deellir yn amrywiad ar *rheol* yn yr ystyr 'llywodraeth, arglwyddiaeth', gw. GPC 3055 (b), 3056; gthg. ystyr ll. 55 *rhol.*

19 **caer** Sef tref Aberhonddu a'i chastell.

**o'r llyn a'r gwŷdd** 'O [gynnyrch] llynoedd a choedwigoedd', sef pysgod, cig carw, &c.

20 **pob llu** Tybed ai preswylwyr y dref, y castell, a'r abaty a olygir? Cf. R.R. Davies, 'Brecon', yn *Boroughs of Mediaeval Wales*, ed. R.A. Griffiths (Cardiff, 1978), 49, 'Castle, town and priory, as so often in the Norman conquest and settlement of Wales, were the triple bastions of the new régime … [and] formed a closer-knit physical unit in the early stages of Brecon's history than at any subsequent point in its development.'

21–2 Cf. IGE[2] 268 (llau.3–4) *Brychan wlad Ifan dwyfawl, / Braich Duw i'th gadw rhag broch diawl!* (Siôn Cent).

21 **dy** Llsgr. *ayd*, ffurf anh. Gellid ei gymryd gyda *olwg* a darllen *adolwg* 'arch, deisyfiad', gw. GPC 25 d.g. *adolwg*[1]. Os felly, ystyr *dan adolwg* fyddai rhywbeth fel 'trwy ddeisyfiad', ond gellir gofyn a fyddai ymadrodd o'r fath yn cyfateb i idiom Cymraeg y cyfnod: ni welwyd enghraifft arall, ac un enghraifft yn unig o *adolwg*[1] cyn 1567 a nodir yn GPC *l.c.* Diwygir *ayd*, felly, er yn betrus, yn *dy*.

23 **hyd Gaer-gaint** Cyfeiriad confensiynol; cf. GLGC 140 (60.33–4) *Eu gair a gaf hyd Gaer-gaint, / islaw cefais sêl cwfaint*, 282 (125.43–4) *Cad ail bedd Huail ei hun, / Caer-gaint i'r carw o Geintun*, 373 (169.27) *Gwyrth arnad a gad fal maen Caer-gaint.*

24 **henaint** 'Bardd hen', sef Llawdden, fel yr awgrymir gan y rhoddion y dywed iddo eu derbyn gan bobl y sir yn y cwpled nesaf.

27 **clog** 'Craig': efallai mai Mynydd Epynt i'r gogledd o Gantref Selyf a olygir.

28 **fry** Felly hefyd yn llau. 40, 45, oherwydd natur fynyddig Brycheiniog; cf. disgrifiad Siôn Cent o'r lle, IGE[2] 268 (llau. 7–10) *Brenhines mewn bryn hynod, / Bronnydd, llun closydd llawn clod. / Uchaf gwlad, wyd ben cadair, / O Gymru oll, gem ar air*; cf. 13.1n.

29 **ac ŷd i'w hau** Efallai fod yma amrywiad ar yr ymadrodd 'hau clod' rhywun sydd mor gyffredin gan y beirdd, gydag *ŷd* yn cynrychioli 'clod'. Os felly, ergyd llau. 29–30 yw mai ym Mrycheiniog yn unig y ceir noddwr (*hael*) gwerth ei foli.

31 **dyblwyd hon** 'Dyblwyd' Brycheiniog trwy ddyfodiad diweddarach teulu estron yr Hafardiaid (gw. ll. 34n) i dir hen deulu brodorol Einion Sais (ll. 33n); cf. IGE[2] 266 (llau. 5–6) *Yno y llas yn un llu / A'r ddwyblaid wedi'r ddyblu* (Siôn Cent).

33 **Einion** Sef Einion Sais, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 13 ac isod 22.25n.

**planc** Ar ei ystyron (benthyciad o'r S. *plank*), gw. GPC 2816 d.g. *planc*[1]; GIG 293. Y mae'n debygol mai 'cynheiliad' a olyga yma.

34 **Hafardiaid** Teulu a ddaeth i Frycheiniog yn sgil y goncwest Normanaidd gan ymsefydlu yno ac ymgymreigio. Mawr oedd eu dylanwad yn yr ardal, a hyd heddiw gelwir un o gapeli eglwys Aberhonddu yn Gapel yr Hafardiaid; gw. GDEp 108; GHS 208. Ar achau'r teulu ym Mrycheiniog, gw. Theophilus Jones, *A History of Brecknockshire* (2 vols., Brecknock, 1805–9), ii, 125–32; P.C. Bartrum: WG1, yn enwedig 'Bleddyn ap Maenyrch' 4, 6, 7, 8, 10, 13, 17, 19, 21, 22, 29, 30, 'Maenyrch' 2, 'Drymbenog' 7, 8; P.C. Bartrum: WG2 'Havard' 1–9.

36 **parc** Yn ffigurol am Frycheiniog—'tir hardd' neu'r cyffelyb.

**a'u pen** Arweinydd i'r Hafardiaid a disgynyddion Einion Sais. Ai Syr Rhisiart Herbert a olygir?

37 Yr ystyr yw fod y ddau deulu yn ychwanegu caeau (h.y. tir) at gaeau.

38 Cyfeiriad at briodi rhyngddynt.

41 **Llŷr Merini** Llŷr Merini (neu Marini) ab Einion Yrth, tad Caradog Freichfras (gw. ll. 44n), hwnnw'n un o gyndeidiau Bleddyn ap Maenyrch y disgynnai llawer o uchelwyr Brycheiniog ohono; gw. P.C. Bartrum, 'Pedigrees of the Welsh Tribal Patriarchs', Cylchg LlGC xiii (1963–4), 105; TYP[3] 421; WCD 422; mynegai EWGT 200.

Cynghanedd groes gydag odl fewnol.

43 **Moreiddig** Moreiddig Warwyn, mab Drymbenog, o Gantref Selyf, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Drymbenog' 1 ac isod 20.38n.

44 **pren a'i ffin** Efallai mai'r hyn a olygir yw defnyddio pren i warchod ffin; cf. WML 55 (llau. 14–16) *Croesuaen sef yỽ hỽnnỽ maen ffin neu pren ffin neu peth arall enwedic a vo yn kadỽ ffin. wheugeint atal*. Wrth ymwreiddio y mae *brig Moreiddig* (ll. 43) yn gosod ffiniau i'w tiriogaeth ac yn ymledu dros fryn a phant.

45 **Cradog Freichfras** Arwr traddodiadol, gw. TYP[3] 304–5 ac uchod ll. 41n. Ystyrid ef hefyd yn gyndad llywodraethwyr Brycheiniog a

Morgannwg, J.E. Lloyd: HW$^3$ 90; cf. cywydd Siôn Cent i Frycheiniog, IGE$^2$ 268 (LXXXIX.29–30) *Cyff Cradog fu ddiogan / Freichfras o'r Gogledd, gledd glân*.

46 **coed** Ar yr ystyr ffigurol, cf. 6.13–14n, 20.65–6.

**o** Llsgr. *a*. Fe'i diwygir er gwella'r ystyr.

47 **Bleddyn** Sef Bleddyn ap Maenyrch, gw. ll. 41n.

48 **hyn** Cyfeirir at y marchogion yn y ll. nesaf (yn hytrach nag at aelodau'r teuluoedd a grybwyllwyd eisoes).

49 **Marchogion urddolion ddeg** Nid enwir y rhain.

50 **oni** Mynegir y gobaith y caiff uchelwr arall hefyd ei urddo'n farchog; cf. 9.34n. Efallai na ddylid deall *un* yn rhy lythrennol: gallai awgrymu o leiaf un.

51–2 Gellir cynnig mai'r ystyr yw fod gwrthrych caneuon mawl y beirdd (gan gynnwys Llawdden) â'i awdurdod yn ymestyn o'r Fan hyd y Fenni. Y tebyg yw mai'r lle a arferai fod yn drefgordd ym mhlwyf Bedwas a olygir wrth *[Y] Fan*, gw. WATU 10, 220. Y mae'n bosibl fod yr ymadrodd *o'r Fan i'r Fenni* yn un ystrydebol (cf., e.e., o Fôn i Fynwy), ond cofier hefyd mai Colbrwg (*Coldbrook*) ger y Fenni oedd prif drigfan Syr Rhisiart Herbert, brawd iau Syr Wiliam Herbert, felly byddai'r Fenni yn fan cyfleus i ddynodi terfyn awdurdod Wiliam yn y rhan honno o Gymru.

52 **[y] Fan** Dichon mai'r Fan Fawr, yr uchaf o Fannau Brycheiniog, a olygir.

**hyd ar** Gthg. ll. 8 *hyd at*. Yr un yw ystyr y ddau.

53–6 Yr hyn a draethir yw fod brudiwr o fri (*prif ddewin*) wedi proffwydo y byddai Rhisiart Herbert yn llenwi Afon Wysg â gwin (h.y., darparu gwin yn afradlon o hael i'r beirdd) ac i Herbert wneud hynny. Dyma enghraifft, felly, o'r topos yn y canu fod noddwr yn cyflawni yr hyn yr oedd brudiwr wedi ei ddarogan.

57 **Idwal** Idwal Foel ab Anarawd, brenin Gwynedd yn y 10g., gw. J.E. Lloyd: HW$^3$ 337. Yr oedd Rhisiart Herbert, ar ochr ei fam Gwladus Gam, yn disgyn o Fleddyn ap Maenyrch (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod), a oedd yn ddisgynnydd i Lŷr Merini ab Einion Yrth (gw. ll. 41n). Yn ôl yr achau, yr oedd Idwal hefyd yn ddisgynnydd i Einion Yrth (mab Cunedda Wledig), gw. EWGT 38, 95. Y mae Lewys Glyn Cothi yntau'n cysylltu Rhisiart ag Idwal, GLGC 258 (114.51) *Gŵr yw i Edwart sydd gâr Idwal*, ac y mae Siôn Cent yn cysylltu Brycheiniog ag arwyr o'r gogledd yn ogystal â rhai o'r de, IGE$^2$ 268 (LXXXIX.30)–269 (LXXXIX.4) *Cyff Cradog fu ddiogan / Freichfras o'r Gogledd, gledd glân … Cyff arglwydd Cemais, lais lân, / Canol cyff Gruffudd Cynan*.

**Godwin** Godwin, 'Iarll Cernyw' (bu f. 1199), sefydlwr llinach yr Herbertiaid, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Godwin' 1, 8.

58 **gyrroedd** 'Parodd fod'. Yr oedd Wiliam Herbert, megis ei frawd Rhisiart, yn nodedig o hael ei nawdd i feirdd. Ar y terfyniad 3 un. grff.myn. *-oedd,* gw. ASCent 2.35n.

59 **Caerlleon** Sef Caerllïon ar Wysg, gw. 9.9–10n.

60 **hendad** Os 'taid' a olygir, yna taid Rhisiart Herbert ym Mrycheiniog, sef Dafydd Gam, milwr a thirfeddiannwr (gw. ByCy 93), ydyw. Fodd bynnag, gan y gallai *hendad* olygu 'cyndad' hefyd (gw. GPC 1850), efallai mai rhywun cynharach yn y llinach a olygir megis Llŷr Merini (ll. 41) neu Garadog Freichfras (ll. 45).

## *19*

Cywydd yw hwn i erchi milgwn gwynion i *Dafydd / ... etifedd ... / Ieuan, hil Forgan ...* (llau. 2–4) dros Faredudd Fychan,[1] sef Maredudd Fychan ap Maredudd ap Hywel ap Phylib Dorddu o Arddfaelog, yn ôl pob tebyg (cf. ll. 13 ... *ael Garddfaelawg*), gwrthrych cerdd 16. Ni wyddys i sicrwydd pwy oedd Dafydd ab Ieuan, ond yn achau llwyth Bleddyn ap Maenyrch (Brycheiniog) gwelir bod Margred ferch Rhys ap Dafydd ap Hywel o'r bymthegfed genhedlaeth, a aned yn ôl P.C. Bartrum yn 1500, wedi priodi ag Ieuan ap Phylib ap Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Morgan.[2] Buasai'r Dafydd ab Ieuan ap Morgan hwn yn perthyn i'r ddeuddegfed genhedlaeth, a anwyd yn ôl Bartrum tua 1400, ac y mae ei flynyddoedd a'i leoliad ym Mrycheiniog yn gweddu'n dda i'r hyn a wyddom am flynyddoedd a symudiadau Llawdden.

Yr oedd milgwn ymysg yr anifeiliaid y gofynnid amdanynt amlaf gan y beirdd, ac yn ôl Dr Bleddyn Owen Huws, y mae ar glawr 11 o gerddi i ofyn milgwn yn y cyfnod *c.* 1350–*c.* 1500, a 14 yn y cyfnod *c.* 1500–*c.* 1630.[3]

1 **dawn i dir** Cf. 18.4 *dawn i wlad Dwynwen.*

7 **dioerfyw** Nis rhestrir yn GPC 1024. Fe'i deellir yn gyfuniad o *dioer* 'twym, brwd, cynnes, siriol', GPC d.g. *dioer*$^2$, a *byw* 'bywiog', &c.

10 **'i** Gan fod *erchwys* hefyd yn e. torfol, gellid darllen *'u.*

13–16 Yn y llau. hyn cyflwyna Llawdden gais Maredudd Fychan i Ddafydd ab Ieuan am filgwn. Cyfarcha Faredudd fel pe bai'n bresennol (ll. 14 *meddy*) ac yna ei grybwyll yn y trydydd person (ll. 16 *gŵyr*) cyn

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 67–9 (XXI).

[2] P.C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 5 (D).

[3] CGD 231, 232. Am enghreifftiau, gw., e.e., DGG$^2$ 160–2 (LXXXVI); GGl$^2$ 194–6 (LXXIII); GTP 56–8 (cerdd 33); WLl 24–6 (X), 257–60 (XCVIII); GOLlM 33–4 (cerdd 17); GST i, 157–9 (cerdd 38).

ailgyfeirio ei sylw at Ddafydd ab Ieuan. Y mae'n bosibl, er hynny, fod llau. 14–15 yn llwgr.

13 **Garddfaelawg** Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 16.

17 **ymbwythwn** Yn GPC 3762 cynigir yn betrus yr ystyr 'ymdrechu, ymegnïo', ond tebycach mai 'pwytho'—h.y., llunio—cerdd a olygir yma.

22 **Addaf** Fe'i hystyrid gan y beirdd yn batrwm o brydferthwch, gw. TYP$^3$ 271.

27 **hwy ym** *hwyr i ni* a geir yn y llsgrau. a diwygir er mwyn y synnwyr.

28 **esgyb** Gw. 8.40n a cf. isod ll. 40 *Brenhingwn*.

29 **Sieb** Gw. 5.10n.

38 **manachliw** Gan mai am filgwn gwyn y sonnir (gw. llau. 21, 30, 36, 56), efallai mai am y mynaich gwynion (y Sistersiaid) y mae Llawdden yn meddwl.

39 **o'r cair** Ar y gn. rhagferfol *'r*, gw. 17.35n. Pair dreiglad i'r ffurf f. sy'n ei ddilyn (megis yn 17.35 *wedy'r wau*, 21.20 *wedy'r gau*), ond efallai mai'r rheswm am y diffyg treiglad i *cair* yw fod y rh. mewnol 3 ll. *'u* yn ddealledig ar ei ôl (os felly, y mae hefyd, trwy brolepsis, yn achub y blaen ar *Brenhingwn* y ll. nesaf). Ymddengys mai dynodi posibilrwydd a wna *'r* yma (gw. GMW 168). Gellid, er hynny, ddarllen *o cair* megis yn llsgr. F (er mai *o chair* a ddisgwylid, ond cf. 22.58 *o caf* a gw. *ib*.n) neu *o'u cair*.

44 **lliw cerrig Gwynedd** Cyfeiriad, yn ôl pob tebyg, at yr amlder o gerrig cwarts a geir ym mynyddoedd Eryri.

50 Cf. cywydd Huw Pennal i ofyn milgi du, DGG$^2$ 161 (LXXXVI.31) *Fy ansawdd fydd gig fenswn* (ar awduraeth y gerdd, gw. GDG lxxxi, troednodyn 3).

53 **didlawd, gydwaed** Diwygir er mwyn y gynghanedd a'r synnwyr. Ceir yn y ll. gyfatebiaeth -d + d- = t.

**Edlym** Edlym Gleddyf Goch, cyfaill Peredur fab Efrog, gw. G 494.


54 **herchych** Dilynir darlleniad llsgr. K ond gellid hefyd ddilyn DGHI *harchech*, 2 ll.amhff.dib. *erchi*. Nid yw newid o 2 un. (megis yn llau. 52, 55) i 2 ll. y f. wrth gyfarch gwrthrych un. yn beth anghyffredin yn y farddoniaeth.

### *20*

Y cywydd hwn yw'r cyntaf o bedwar cywydd (cerddi 20–3) sy'n ymwneud

â theulu Fychaniaid Hergest.[1] Moliant ydyw i Domas ap Syr Rhosier Fychan o Hergest a'i dri mab, Watgyn, Rhisiart a Rhosier. Yr oedd Tomas yn un o dri mab Syr Rhosier Fychan o Frodorddyn (S. *Bredwardine*) yn swydd Henffordd, gŵr a hanai o linach Drymbenog, Brycheiniog. Tomas oedd yr aelod cyntaf o'i deulu i ymsefydlu yn Hergest (neu Herast), a daeth y gangen hon, fel y ddwy gangen arall ym Mrodorddyn a Thretŵr, yn hynod am noddi beirdd.[2]

*Achau Tomas ap Syr Rhosier Fychan a'i feibion*




Y mae'r tri mab i gyd yn ddynion ifainc yn y gerdd hon (gw. ll. 19) ac yn barod i filwrio (gw. llau. 41–2, 44, 57–9). Ni chrybwyllir Rhisiart yn yr achau,[3] ac esboniad yr Athro Dafydd Johnston ar hyn yw iddo, y mae'n

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 1–4 (I).

[2] Ar y gangen hon yn benodol, gw. ByCy 936–7; NBSBM 658–89; ODNB lvi, 156–7. Ceir arolwg ar y gwahanol ganghennau a'u nawdd i feirdd gan D.J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r Beirdd', yn YB xxiv (1998), 60–93. Ceir achau'r teulu yn P.C. Bartrum: WG1 'Drymbenog' 2, P.C. Bartrum: WG2 'Drymbenog' 2($A_1$), &c.

[3] Gw. *Ib.* 'Drymbenog' 2($B_1$) lle y rhestrir meibion Tomas ap Syr Rhosier fel Watgyn, Rhosier I, Tomas, Gruffudd, Rhosier II, a Siancyn.

debyg, farw'n ifanc, yn fuan ar ôl ei dad.[4] Gan fod y bardd yn cyfeirio at Wiliam Herbert, Iarll Cyntaf Penfro, fel *iarll* yn llinell 8, rhaid fod y gerdd wedi ei chyfansoddi rhwng 8 Medi 1468, pan urddwyd Herbert yn Iarll Penfro (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 18), a 26 Gorffennaf 1469 pan fu farw Tomas ap Syr Rhosier Fychan.[5] Os felly, perthyn i'r un cyfnod â cherdd 18. Canwyd cerddi i Domas hefyd gan Fedo Brwynllys,[6] Huw Cae Llwyd[7] a Lewys Glyn Cothi,[8] a cheir cywydd moliant iddo a'i ddau frawd gan Ieuan ap Hywel Swrdwal.[9]

2 **o Wy drwodd** Yr oedd Tomas yn fab i Syr Rhosier Fychan o Frodorddyn, plas a safai ar ochr ddeheuol Afon Gwy yn swydd Henffordd. Dweud a wna'r bardd yma fod Tomas wedi dod o'r fan honno dros Afon Gwy i Hergest (a oedd ar ochr ogleddol yr afon). Cf. y ffordd y cyfeiria Hywel Swrdwal at Domas ap Syr Rhosier Fychan o Dretŵr (nai i'r Tomas hwn), GHS 3.11, fel *Ŵyr i'r gwalch o oror Gwy*. Ar *drwodd*, S. '*over, across*', gw. GMW 60.

3 **Cradog Freichfras** Gw. 18.45n.

4 **tŵr** Cf. cerdd Ieuan ap Hywel Swrdwal i Domas a'i ddau frawd lle y disgrifia hwy fel tyrau, GHS 29.58, 63, 66; felly hefyd ei ddisgrifiad o dri mab Pasgen ap Gwyn o Gegidfa, *ib.* 17.38, 43.

6 **arian y Pab** Sef llawer o arian, ffortiwn.

7–12 Yn llau. 7–8 gofyn y bardd y cwestiwn rhethregol pam na chaiff Tomas ei urddo'n farchog; yn llau. 9–10 rhydd ei reswm dros ofyn hyn; ac yn llau. 11–12 rhydd yr ateb i'r cwestiwn. Ar y syniad a fynegir, gw. 9.34n.

8 **brawd iarll** Yr iarll y cyfeirir ato yw Wiliam Herbert, Iarll Cyntaf Penfro. Yr oedd Tomas ap Syr Rhosier Fychan yn hanner brawd iddo trwy briodas ei fam, Gwladus, merch Dafydd Gam, â'i hail ŵr, Wiliam ap Tomas o Raglan (y 'Marchog Glas o Went'), gw. ByCy 936. Yr un modd, cyfeiria Llawdden at feibion Tomas yn ll. 25 fel *Neiaint iarll*, ac at ei ferch, Elis, yn 24.59, fel *Nith iarll*.

**eurlliw** Gw. 9.34n.

9 **arglwydd er ys blwyddyn** Cyfeiriad, efallai, at ryw ddigwyddiad o bwys yng ngyrfa Tomas ap Syr Rhosier Fychan. Os rhwng 8 Medi 1468 a 26 Gorffennaf 1469 y canwyd y gerdd, rhaid mai rywbryd yn 1467 neu 1468 y bu hyn. Yn ByCy 936 dywedir amdano, wedi iddo fynd

[4] GLGC 587. Ceir marwnad iddo *ib.* 287–8 (cerdd 128).
[5] ByCy 936–7.
[6] W. Rhŷs Watkin, 'The Poems of Bedo Brwynllys' (M.A. [Bangor] Cymru, 1909), cerdd 19.
[7] HCLl 59–61 (XV).
[8] GLGC 279–80 (cerdd 124), 281–2 (cerdd 125).
[9] GHS cerdd 26.

drosodd at blaid Iorc, ‘Fe’i gwelir gyda hwy ar gomisynau “oyer et terminer” yng ngogledd Cymru yn 1467 …’ Nid oes rhaid deall y gair *arglwydd* yn llythrennol: gellid ei ddefnyddio hefyd, megis *barwn*, *iarll* (cf. ll. 67n), &c., fel term canmoliaethus yn unig; cf. 23.53–4 *Arglwydd o dad i dad wyd, / Iarll er hyn o’r lle’r henwyd*; hefyd GLGC 290 (129.61–4) *Ddoe yn ysgwier yn golerog, / Heddiw yn arglwydd yn gyhoeddog, / ’fory neu drennydd, myn delw Fwrog-wyn, / Watcyn fy erchwyn, ydd ai’n farchog*. Ar y llaw arall, y mae’n bosibl mai am feddiannau Tomas y mae Llawdden yn meddwl.

10 **harnais gwyn** Cf. yr ymadrodd *hwit harnais* (*hwit* = S. *white*) a ddefnyddia Lewys Glyn Cothi am Watgyn, mab Tomas ap Rhosier Fychan, GLGC 285 (127.9–10), *Llawer barn â’r hwit harnais / lle daw’r sant o Wallter Sais*, ac am Lewys ap Gwatgyn (mab i Watgyn Fychan o Frodorddyn, un o frodyr Tomas ap Syr Rhosier Fychan), *ib.* 302 (133.45–6), *Ef a wisg am gorf ei ais / y teÿrnwalch hwit harnais*. Yn ôl *ib.* 586, ‘ymddengys fod hwn yn rhyw arwydd herodrol a berthynai i deulu’r Fychaniaid’. Ar y llaw arall, cf. disgrifiad Lewys Glyn Cothi o Domas ym mrwydr Banbri yn ei farwnad iddo, GLGC 279 (124.19–20) *Tomas yn ei guras gwyn / a’i talodd hwnt i’w elyn*. Gan fod ystyr *harnais* yn eithaf eang ac yn gallu golygu ‘arfogaeth milwr, rhyfelwisg, arfau’, gw. GPC 1825, gall ei fod yn gyfystyr yma â *curas*, sef ‘dwyfronneg’ (S. ‘*breastplate*’), *ib.* 630, a lliain gwyn drosto; cf. 24.15–16 *Iawn iddo wisgo ar wyn, / Orwyr milwyr, aur melyn;* GHS 2.69 *Mae dy ddwyais oll yn harnais*.

11–18 Ceir yn y llau. hyn adlais o’r canu brud; cf. 9.35–8n.

11–12 Ymddengys mai’r ymresymiad yw: er mor ddymunol fyddai i Domas gael ei urddo’n farchog, y mae’n rhy brysur i hynny ar y foment am ei fod â’i fryd ar *[r]annu ynys Rhonwen*, ond bydd yn sicr o dderbyn yr anrhydedd wedyn.

11 **neidr wen** Cyfeiriad at arwyddlun herodrol y Fychaniaid, sef tri phen bachgen a neidr liw arian o amgylch gwddf pob un, gw. DWH i, 95–6, 209–10, ii, 386–7; GDEp 13.13n, a cf. uchod ll. 37 *nadredd*. Fe’i defnyddir yma yn drosiadol am Domas.

12 **ynys Rhonwen** Digwydd yr ymadrodd hefyd yn Pen 94, 176, mewn llau. a briodolir i’r Bardd Bach o Ystum Llwyniarth, *Llyma vyd rhyvedh Ruvain ar ben bys / llyma ynys Ronwen, llyma r wialen vlaenvain / llyma r Seren waetlet ai gwryd dros Lvndain / llyma’r deaû ar gychwyn, llyma ryvel owain*. Merch Hengist, arweinydd y Saeson a ddaeth i Brydain gyntaf, oedd Rhonwen, gw. WCD 559; J.E. Caerwyn Williams, ‘Ronwen: Rhawn Gwynion’, B xxi (1964–6), 301–3, a’r tebyg yw mai ‘Lloegr’ a olygir wrth *ynys Rhonwen*, cf. yr ymadrodd cyfochrog *plant Rhonwen* am genedl y Saeson, gw. GGM 7.51n. Ar *ynys* yn yr ystyr

'talaith, gwlad, teyrnas', gw. GGrG Atodiad i.32n; CO[3] 97–8. Wrth sôn am *rannu*, sef 'rhoi', *ynys Rhonwen* (i'r Cymry), y mae Llawdden yn meddwl am 'Frut y Brenhinedd' gan Sieffre o Fynwy lle y dywedir i Frutus, sefydlwr Prydain, rannu Prydain rhwng ei dri mab, Locrinus, Camber ac Albanactus yr enwyd Lloegr, Cymru a'r Alban ar eu holau. Collodd y Brytaniaid Loegr yn ddiweddarach a dymuna'r bardd yn awr weld ei hadfer i'w pherchnogion cyfreithlon. Nid yw'n debygol iawn mai 'Prydain' a olygir wrth *ynys Rhonwen*. Nid atodwyd Cymru wrth Loegr tan yr 16g. ac yr oedd yr Alban yn dal i fod yn wlad annibynnol. *Ynys Brydain* hefyd y gelwid Prydain Fawr gan y beirdd.

13–14 'Y mae bwriad [gan] y mab o['r] Alban i amddiffyn …'

13 **y mab o Brydyn** Cf. disgrifiad Hywel Swrdwal o frawd Tomas, Rhosier Fychan o Dretŵr, GHS 2.18, fel *Syr Garwy Prydyn*, ac eiddo Ieuan ap Hywel Swrdwal o'r brawd arall, Watgyn o Frodorddyn, *ib.* 26.12, fel *Prydyn Beredur* (ar ystyr *Prydyn*, gw. GPC 2919). Y mae'n bosibl y bu Tomas a'i frodyr yn milwrio yn yr Alban dros y Goron (fel y gwnâi llawer o Gymry'r cyfnod, gan gynnwys Owain Glyndŵr), ond y mae'n fwy tebygol, efallai, na wna Llawdden yma ond canmol Tomas trwy ei gyffelybu i ryw wron o wlad yr Hen Ogledd a oedd yn enwog am ei harwyr (ar ystyr *Prydyn*, gw. GPC 2919).

14 **cadw rhan gŵr** Ai 'chwarae rhan gwron, brwydro' a olygir?

**hen gwyn** Ffigwr symbolaidd a grybwyllir yn y canu brud ynglŷn â'r mab darogan ac adfer Ynys Prydain i'r Cymry. Fe'i crybwyllir gyntaf yn y 'Prophetiae Merlini' yng ngwaith Sieffre o Fynwy 'Historia Regum Britanniae' fel *niueus ... senex* (sef 'hen ddyn gwyn [fel eira]') y cyfieithwyd y Gym. ohono; gw. BD 254; GDGor 1.90n; GIBH 4.62n. Felly y cyfeiria Lewys Glyn Cothi at Owain Glyndŵr, GLGC 410 (187.18), 613. Fel y dywedir yn BD 254, defnyddir *hen* fel e. ac felly ni threiglir yr a. sy'n ei ddilyn—'yr hen ŵr gwyn'.

15 **Gollwyn Hen** Sef Gollwyn ap Tangno, yn ôl pob tebyg, gw. WG1, td. 51, 'Gollwyn' 1. Fe'i cofir yma fel llywodraethwr cadarn. Ymfudodd ei fab, Einion, o Wynedd i Flaenau Morgannwg adeg y goresgyniad Normanaidd ac yr oedd llawer iawn o feirdd a boneddigion yr ardal honno yn ddisgynyddion iddo, gw. TLlM 34–5, 184–9.

16 **Defras** Yr oedd gwraig Rhosier Hen o Frodorddyn (taid Tomas), Ann, yn ferch i Syr Water Defras, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Drymbenog' 2. Ar y ffurf Gym. (< *Devereux*), gw. EEW 246.

**cadw hyd Hafren** Os parhad yw llau. 15–16 o ganu brud y llau. blaenorol, dweud y mae'r bardd y gallai Tomas lywodraethu Lloegr (*cadw rhan,* ll. 14) yn ei therfynau hyd at y ffin â Chymru. Yr oedd Afon Hafren yn ffin naturiol rhwng Cymru a Lloegr; cf. BD 21 (llau. 17–21) *A Locrinus, canys hynhaf oed, a gymerth y rann berued o'r enys,*

*yr honn a elwir Lloegyr o'e enw ef; ac y kymerth Kamber o'r tu arall y Hauren, yr hon a elwir o'e env ef Kymry; ac y kymerth Albanactus y gogled, yr hon a elwis ynteu o'e enw ef yr Alban*. Ar y llaw arall, dichon fod y bardd wedi newid cywair erbyn hyn ac mai fel e. yn hytrach nag ardd. y dylid cystrawennu *hyd*. Os felly, ystyr cadw *hyd Hafren* yw gwarchod yr holl diroedd y llifa'r afon drwyddynt.

19 **darllëwn** Ymddengys mai 'deall' a olygir: meddylir am feibion Tomas fel gwinwydd o Ffrainc, a pharheir y trosiad hyd l. 34.

22 **Gwatgyn** Un o frodyr Tomas ap Syr Rhosier Fychan, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Drymbenog' 2. Etifeddodd Frodorddyn wedi marw ei dad, gw. ByCy 932.

**o'r un goetgae** Parhad o'r trosiad a geir yn ll. 20. Sylwer mai eg. yw *[c]oetgae* (gw. GPC 534) ac mai'r defnydd ansoddeiriol o *un* sy'n peri treiglad iddo, gw. Treigladau 39–40; cf. HCLl 94 (XXXV.55) *Triwyr o'r un bortread*.

23 **Herbart** Syr Wiliam Herbert, Iarll Cyntaf Penfro, gw. ll. 8n.

24 **Syr Rhosier reswm** '[Un a chanddo] ddeall Syr Rhosier'. Cyfeirir at daid Rhosier, Syr Rhosier Fychan o Frodorddyn. Nid oes unrhyw dystiolaeth iddo gael ei urddo'n farchog ym mrwydr Agincourt yn 1415 lle y bu farw, gw. WWR$^2$ 28, felly y mae'n bosibl nad oes sail i'r teitl.

25 **iarll** Syr Wiliam Herbert, Iarll Cyntaf Penfro, gw. ll. 8n.

**teirllys** Cf. ll. 43 *Tair neuadd* a gw. ll. 49n. Y mae'n llai tebygol mai cartrefi Tomas ap Syr Rhosier Fychan (Hergest) a'i ddau frawd, Watgyn (Brodorddyn) a Rhosier (Tretŵr) a olygir.

27–8 **Ni ddyly … / Na chaen' …** H.y., y mae bonedd Elen yn gwir haeddu *eu parch uwch eu pen*. Dau neg. sydd yma i fynegi syniad cadarnhaol cryf (*litotes*, 'lleihad').

**Elen** Elen Gethin, gwraig Tomas. Yr oedd hi'n ferch i Gadwgan ap Dafydd ap Cadwgan ap Phylip Dorddu o dylwyth Elystan Glodrydd, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 30; ByCy 936 (ond disgrifir Elen yno fel merch i Ddafydd ap Cadwgan ap Phylip Dorddu).

28 **chaen'** Dilynir darlleniad llsgr. E a'i ddeall yn 3 ll.amhff.myn./dib. y f. *cael*. *keffynt / kehynt* yw'r ffurfiau a restrir yn GMW 149 ond gallai'r ffurf ddiweddarach *caen(t)* fod wedi datblygu erbyn cyfnod Llawdden. Ceir *chan*, ffurf 3 ll.pres.myn. y f. *canu,* yn y llsgrau. eraill.

**uwch ein pen** Efallai y dylid ei ddeall yn llythrennol yn gyfeiriad at achlen y Fychaniaid, gan gynnwys achau Elen, yn crogi ar bared. Cf. GHS 26.5–6 *Dygwn ni, mae'n deg y nod, / Uwch ein pen achau'r peunod* (Ieuan ap Hywel Swrdwal). Ai syniad cyffelyb hefyd sydd y tu ôl i'r hyn a ddywed Hywel Swrdwal am Feurig fab Pasgen ap Gwyn o Gegidfa, *ib.* 17.12–13 *Maer eginyn mawr gynnydd, / Gŵr â chledd a*

*geir uwchlaw*, serch mai darlun, efallai, a olygir?

29 **mis haf** '[Fel] mis [o] haf yw …' Cf. disgrifiad Hywel Swrdwal o dri mab Pasgen ap Gwyn o Gegidfa, GHS 17.48, fel ... *tri mis Mai*.

30 **pobl wynion** Ar ddilyn e. torfol un. gan a.ll., gw. J. Morris-Jones: WS 17. 'Dedwydd' neu'r cyffelyb yw ystyr *wynion* yma, cf. ll. 26 *llwyn gwyn*. Y mae'n bosibl hefyd fod *Wynedd* yn y ll. ddilynol wedi dylanwadu ar ddewis Llawdden o'r gair os credai mai o'r a. *gwyn* y tarddai'r enw hwnnw.

31 **dwy Wynedd** Ffordd gyffredin gan y beirdd o gyfeirio at Wynedd Uwch Conwy a Gwynedd Is Conwy; cf. 22.17. Ar feirdd Gwynedd yn cyrchu aelwydydd noddwyr yn y de, gw. GDC 1.38n.

33 **gardd** Yn yr ystyr 'gwinllan', y mae'n debyg, gw. ll. 20 *windir*, ll. 22 *goetgae*.

34 **rhôi** Llsgrau. BEFIL *ro ei* ond ceir gwell synnwyr o'i ddiwygio, cf. ll. 28 *Ni chaen'*.

35 **siartr** Y mae'n debygol mai'n ffigurol y dylid ei ddeall (gw. GPC 3265)—'tras uchel / freintiedig' neu'r cyffelyb.

**Syr Water farwn** Syr Water Defras, tad Ann, nain Tomas, gw. ll. 16n. Yn ôl CP v, 296, bu farw yn 1376/7.

36 **Syr Dafydd** Syr Dafydd Gam y priododd ei ferch, Gwladus, â Rhosier Fychan o Frodorddyn, tad Tomas, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Drymbenog' 2.

**Syr Gruffudd** Ymddengys mai Syr Gruffudd Fychan o Gegidfa a olygir, y gŵr a ddienyddiwyd yn fradwrus yn 1447 gan Harri Grae, Iarll Tancrfil ac Arglwydd Powys, wedi iddo ladd Syr Christopher Talbot, efallai trwy ddamwain, mewn twrnamaint yng nghastell Cawres, gw. ByCy 294–5; GLGC 619–20; Glanmor Williams, 'Syr Gruffudd Fychan (? –1447)', Mont Coll lxxxvi (1998). Gan fod Llawdden yn crybwyll Syr Gruffudd ar yr un gwynt â Syr Water a Syr Dafydd, gellid disgwyl bod cyswllt achyddol rhyngddo a theulu Tomas ap Syr Rhosier Fychan. Ni welwyd cyswllt felly yn P.C. Bartrum: WG1, ond yn L. Dwnn: HV i, 51, dan achau Edwin ap Gronwy, Ceredigion, dywedir bod Elen, gwraig Llywelyn Fychan, yn ferch ac aer Owen ap Cadwgan ap Phylip Dorddu ab Ieuan ap Rhys ap Llawdden o'r Garth. Yr oedd Phylip Dorddu yn orhendaid i Elen Gethin, gwraig Tomas ap Syr Rhosier Fychan (gw. llau. 27–8n), ac os disgynnai o Lawdden o'r Garth, yna gallai hynny esbonio'r cyfeiriad yn y gerdd at Syr Gruffudd, gan fod gwraig Syr Gruffudd, Mawd yn orwyres i'r Llawdden hwn, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gwenwys' 2, 3, 'Llowdden' 1, 9. Ond yn *ib.* 'Elystan Glodrydd' 1, 22, 24, olrheinir achau Phylip Dorddu yn ôl i Elystan Glodrydd.

37 **nadredd Bleddyn** Wrth *nadredd* golygir tri mab Tomas ap Syr Rhosier

Fychan; gallai *neidr* olygu 'gwron', &c., yn ogystal â 'sarff', gw. GPC 2565. Y tebyg yw fod Llawdden, hefyd, yn meddwl am arwyddlun herodrol y teulu (gw. ll. 11n). Wrth *Bleddyn* golygir Bleddyn ap Maenyrch o Aberhonddu (bu farw 1093, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 1) y disgynnai Tomas ap Syr Rhosier Fychan a'i feibion ohono ar ochr eu nain, Gwladus Gam.

38 **Moreiddig Wyn** Mab Drymbenog, o Gantref Selyf. Priododd Elinor ferch yr Arglwydd Rhys; gw. P.C. Bartrum: WG1 'Drymbenog' 1. Trwy gyfeirio ato y mae Llawdden yn cwblhau'r darlun o dras ddeublyg Tomas ap Syr Rhosier Fychan a'i feibion.

40 **pelau** Ffurf l. arall ar *pêl*, gw. GPC 2721 (c).

41–2 H.y., y mae'r tri mab bellach yn ddigon hen i fod yn filwyr.

43 **Nawyr** Sef y Nawyr Teilwng, gw. GPC 2555 (b), 2560; GHS 15.19n.

45 **urddas** 'Urddasol'. Gallai fod yn e. hefyd, gw., e.e., GLlF 11.9 *Kyt gwnelwyf ar ddyn 6rddas—o 6olyant* (Hywel ab Owain Gwynedd) (yn GPC 3718 fe'i nodir fel a. yn y graddau cmhr. yn unig).

47 **dwylys** Efallai mai yn ffigurol y dylid ei ddeall, sef bod neuadd Elen wedi cael ei hadeiladu neu'i hehangu *gymaint* neu *gystal â* dau lys arferol. Pa fodd bynnag, y mae'n amlwg fod y bardd yn meddwl am y neuadd fel dau lys i ddibenion ei gerdd gan y sonia yn ll. 50 am *chwellys*. Cf. 21.23–4 *Eiddil yw lloer i ddal llys / Wedi Elen a'i dwylys*. A ellir casglu hefyd, ar bwys y cyfeiriadau hyn, fod gan Elen Gethin ei thrigfan ei hun?

48 **nith Syr Rhys** Y tebyg yw mai Syr Rhys ap Gruffudd Hen (*ob.* 1356) a olygir. Arno, gw. ByCy 789. Priododd ei ferch, Margred, â Phylip Dorddu, gorhendaid Elen Gethin, gwraig Tomas ap Syr Rhosier Fychan (gw. llau. 27–8n), gw. P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 15, 'Elystan Glodrydd'. Go brin mai mab Syr Rhys ap Gruffudd, sef Syr Rhys Ifanc, a olygir gan na chafodd ddim plant o'i briodas, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Eidio' 2; ac yn sicr, nid Syr Rhys ap Tomas a olygir gan nad urddwyd ef yn farchog tan 1485, gw. GHS 141. Ar ystyron *nith*, gw. GPC 2584. Ni olyga fawr mwy yma na pherthynas fenyw.

49 **chwellys** Sef tair neuadd y tri mab (ll. 43), neuadd Tomas (ll. 45), a *dwylys* Elen (ll. 47n). Ymddengys nad oes fawr o wahaniaeth rhwng ystyron *neuadd* a *llys* yn yr achosion hyn.

50 **allan** Rhaid deall rhywbeth fel 'wrth fynd' o'i flaen.

49–50 Disgrifiad byw o'r holl fynd a dod gan wahanol aelodau'r tylwyth rhwng y chwe llys.

52 **pupur** Ar y defnydd ffigurol cf., e.e., GLGC 392 (178.39–40) *ei dafod parod fegis peren—abl / a wnâi bob parabl yn bupuren*. Tebyg ydyw i'r syniad beiblaidd o ddilynwyr Crist fel halen y ddaear.

53 **Teiran … byd daearol** Cyfeirir at y gred a fodolai ar y pryd fod Duw, ar ôl y dilyw, wedi rhannu'r byd yn dair rhan, sef Asia, Affrica, ac Ewropa, gw., e.e., IGE[2] 285 (llau. 3–8) *Rhannodd y byd, ennyd awr, / Noe a'i drimeib yn dramawr, / Sem, Asia, som a esyd, / Heiniar budd hanner y byd. / Cam, Affrica, ŵr cymwys, / Siaffeth, Ewropa dda ddwys* (Siôn Cent).

54 **hyn** Cyfeiriad at *Teiran* yn y ll. flaenorol. Honnir bod un rhan o dair o'r *byd daearol* yn dilyn neu'n edmygu meibion Tomas: enghraifft amlwg o ormodiaith; cf. marwnad Lewys Glyn Cothi i Wladus ferch Syr Dafydd Gam lle y dywed amdani, GLGC 248 (110.41–2), *Mae'n gorwedd mewn y gweryd / draw'n y bedd draean y byd*. Ar y defnydd ffigurol o *traean*, gw. GPC 3542.

56 **tri *i* o *m*** Y syniad yw fod y tri mab mor syth a chydradd â thair coes y llythyren *m*, llythyren gyntaf y teitl *meistr* sy'n rhagflaenu eu henwau.

57 **mewn maes drutgall** 'Yn ffyrnig a hirben ar faes [y gad]'.

60 **da tyf** Dealler y gn. bf. *y* rhyngddynt o ran synnwyr y gystrawen.

61 **Gabriel** Sef yr angel Gabriel a gyhoeddodd genhedlu Iesu Grist i Fair Forwyn.

62 **tyrch euraid** Torchau euraid, a oedd yn symbolau marchog.

65–6 **Gwraidd … / … goed …** Ar yr ystyr drosiadol, cf. 6.13–14n.

65 **Gwent** Ail ŵr Gwladus Gam, nain meibion Tomas, oedd Wiliam ap Tomas o Raglan (gw. ll. 8n), ac felly yr oedd gan deulu Hergest berthnasau a thiroedd yng Ngwent hefyd.

66 **Llinwent** Maenor ym mhlwyf Llanbister, Maelienydd (sir Faesyfed), lle yr oedd cartref Elen Gethin, gwraig Tomas, gw. HCLl 150; P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 30; GLGC 585.

67 **ieirll** Yn yr ystyr fwy cyffredinol 'pendefigion', gw. GPC 2001.

68 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *yno* ac *y*. Ei hystyr yw 'A boed imi weld can gŵyl / gwledd yno!'

## *21*

Cywydd marwnad yw hwn i Elen Gethin,[1] gwraig gwrthrych y gerdd flaenorol, sef Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Hergest. Yr oedd yn ferch o gymeiad anghyffredin. Cludodd gorff ei gŵr adref ar ôl brwydr Banbri (gw. llau. 9–10n) a gwariodd yn helaeth ar adeiladu beddrod alabastr ysblennydd ar ei gyfer ef a hithau yn Eglwys Fair yng Ngheintun (S. *Kington*, swydd Henffordd) a ddisgrifir yn llinellau 15–20 ac sydd i'w weld yno hyd heddiw. Fe'i canmolir hefyd am ei dysg a'i meistrolaeth ar ieithoedd (llau. 45–8), er

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 4–6 (II). Ar Elen Gethin a'i thras, gw. 20.27–8n, 36n, 66n; Llawdden, &c.: Gw 268; CSF i, 29–32.

nad hawdd bob amser yw gwybod sut yn union i ddehongli cyfeiriadau o'r fath (gw. ll. 47n). Ni wyddys pa bryd y bu farw, oddieithr mai rhyw ddydd Llun y bu hynny (llau. 3, 4). Dywed y gerdd iddi farw *heb fawr henaint* (ll. 6), ond math o ystrydeb yw hyn gan y beirdd a allai olygu hefyd ei bod wedi marw cyn ei hamser.[2] Yn 1474, a hithau bellach yn byw yn Nash ger Llanandras, sicrhaodd bardwn gan y Pab i'r sawl a weddïai dros enaid ei gŵr.[3]

5 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf; gellid ychwanegu *y* o flaen *saint.*

**llathrud** Nid yw *llath fvd* llsgrau. AB a *Llath fod* llsgr. C yn rhoi synnwyr boddhaol a derbynnir *llathlud* Llawdden, &c.: Gw 4 (II.5), eithr gan ddefnyddio'r ffurf *llathrud*, y ffurf ddeheuol o bosibl, gw. GPC 2103. Ar ystyron *llathrud*, gw. GPC 2103. 'Cipiad ymaith grymus' a olygir yma.

**fal symud saint** Cyffelyba'r bardd *lathrudd* Elen i waith Duw yn dwyn ymaith yn eiddgar saint o'r fuchedd hon (megis Enoch ac Elïas yn yr Hen Destament). Ar yr ystyr hon i'r f. *symud*, gw. GPC 3388 (b). Cf. Act viii.39 *Pan ddaethant i fyny o'r dŵr, cipiwyd Philip ymaith gan Ysbryd yr Arglwydd, ac ni welodd yr eunuch mohono mwyach*.

6 **heb fawr henaint** Dywed Dafydd ap Gwilym yn ei farwnad i Angharad, gwraig Ieuan Llwyd o Glyn Aeron, GDG[3] 45 (16.33), *Pa un â'm aur fun mor fyr—ei hoedlddydd?*

8 **teml gwely Tomas** '[Yr] eglwys [lle y mae] bedd Tomas'. Cyfeirir at Eglwys Fair yng Ngheintun lle yr oedd gŵr Elen, Tomas, eisoes wedi ei gladdu. Ar ystyr *gwely* yma, gw. GPC 1629 (b).

Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf oni thrinnir *teml* yn ddeusill.

9–10 Cf. GLGC 281 (125.7–10) *Pan las Tomas letemaur / ym Manbri gynt mewn brig aur, / dduw Sul ei arglwyddes ef / i'w dai gwydr a'i dug adref*. Gw. hefyd CSF i, 29–30.

9 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf.

**'i** Achuba'r blaen ar y gwrth., *ei gnawd*, yn nes ymlaen yn y ll. (*prolepsis*).

10 Bu farw Tomas ap Syr Rhosier Fychan mewn ysgarmes ar faes Edgecote cyn y brif frwydr ym Manbri gerllaw yn 1469, gw. ByCy 936; E.D. Jones, *Beirdd y Bymthegfed Ganrif a'u Cefndir* (Aberystwyth, 1982), 34–9.

12 **ni chwsg hun** Ni all Tomas gysgu oherwydd galar pobl ar ôl Elen (*gwawr*).

[2] Gw. GC, sylwadau rhagarweiniol cerdd 21 a 21.115n.

[3] ByCy 937.

14 Cf. llau. 7–8. Yng ngoleuni llau. 55–6 *Os galw Tomas ac Elen / I nef fry a wnâi Fair wen*, efallai mai yn ffigurol y dylid deall *nef* yma.

15–20 Â'r disgrifiad hwn o'r beddrod, cf. y disgrifiad llawer hwy yn GLGC 281 (125.15–44). Ceir llun o'r beddrod yn CSF i, gyferbyn â thd. 16.

15 **marmor** Llsgrau. *mor mor* a derbynnir darlleniad Llawdden, &c.: Gw 4 (II.15).

16 **clog** Y tebyg yw mai *clog* 'clogyn, mantell' (benthyciad o'r S.C. *cloke*) sydd yma, gw. GPC 505 d.g. *clog*[1], ond ni welwyd cyfeiriadau eraill at glog *Mwrog* ac ymddengys oddi wrth y cyd-destun ei fod yn glaerwyn.

**Mwrog** Llsgrau. AC *mowrog*, B *mowrag* a dilynir Llawdden, &c.: Gw 4 (II.16). Sant oedd Mwrog a oedd yn gysylltiedig â Rhuthun a Llanfaethlu (Môn) yn ôl LBS iii, 505–6. Ceir cyfeiriadau ato gan, e.e., Iolo Goch, Dafydd Nanmor, a Lewys Glyn Cothi. Gw. WCD 490–1; E.R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge, 1987), 357.

**Mariaith** Sant a gysylltid ag Elfael; ymhellach, gw. GLGC 593.

20 Yn llsgr. A y mae'r ll. hon wedi ei chroesi allan ond fe'i dewiswyd yn lle'r darlleniad arall sy'n ei dilyn, sef *draw agaaiyn dragowydd*. Fe ellid, er hynny, ddiwygio hwnnw yn *draw a gaeai'n dragywydd* a'i ddeall yn gyfeiriad at y *Llen faen a mantell wen* (ll. 19) yn cau ar gorff Elen Gethin yn ei beddrod; cf. GLGC 281 (125.31–2) *coffr yn wyn, nis cyffry neb, / caer wen yn cau ar wyneb*, (llau. 37–8) *llun prenfol dan gŵyr golau, / llun côr ar frawd iarll yn cau*.

22 **merch** Yn ôl P.C. Bartrum: WG2 'Drymbenog' 2 (B1), yr oedd gan Domas ac Elen dair merch, un na wyddys ei henw, Elsbeth a Gwenllïan. Ni wyddys at ba un y cyfeirir yma.

24 **dwylys** Cf. 20.47n.

28 **[y] Badd** Sef Caerfaddon.

29–30 Byrdwn y cwpled yw nad oedd unman ar feddrod Elen (neu o'i gwmpas) heb oleuni canhwyllau.

29 **llain** Dichon mai llain o garreg a olygir. Yn GPC 2090 (b) dyddiad yr enghraifft gyntaf o *llain* 'darn (cul neu hirgul) o dir …', &c., yw 1547.

30 **cwyr a ffyn** Efallai y gwahanieithir yma rhwng gwahanol fathau o ganhwyllau, y naill yn gwta a'r llall ar ben 'ffyn' neu stondinau main. Gellid hefyd, er hynny, ddiwygio *ffyn* yn *ffin* 'tâl' (gw. GPC 1289 d.g. *ffin*[2]), a'i ddeall i olgyu tâl am weddïau dros enaid Elen Gethin.

Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf.

31–2 **Aur a chwrel … / … ar fys hon** Yn ôl CSF i, 32, ystyr y llau. hyn yw fod bysedd Elen yn dal paderau (sef llaswyr). Defnyddid cwrel (benthyciad o'r S. *coral*, *corel*, gw. GPC 647) ar gyfer addurnau, e.e. gleiniau, gw. MED d.g. *coral*, a gallai *cwrel*, felly, fod yn gyfeiriad at

leiniau'r llaswyr. Gallai *aur* gyfeirio naill ai at eraill o leiniau'r llaswyr (e.e. y prif rai) neu ynteu at yr aur a orchuddiai fedd Elen yn gyffredinol; cf. disgrifiad Lewys Glyn Cothi, GLGC 281 (125.21–2) *ac ar hwn gŵr o henaur / a gwraig wen dan grug o aur*. Dehongliad arall, ond llai tebygol, efallai, yw fod Elen yn rhoi rhoddion aur a chwrel a oedd mor niferus â rhifedi'r saint i'r beirdd.

35–6 **Ni adodd … / … o genedl hon** 'Ni chaniataodd i neb o'i theulu [orfod] tyngu anudon na [mynd] yn dlawd.' Darlleniad y llsgrau. yw *ni adodd vn anvdon / nag tlawd* (C *Tlyawd*) *o genedl hon*. Y mae'n amlwg fod angen cyflenwi gair rhwng *nag* a *tlawd* yn bennaf er mwyn y synnwyr (a hefyd i unioni hyd y ll.), a diwygio *tlawd* yn *dlawd* er mwyn y gynghanedd, felly cyflenwyd *yn* a diwygio *vn* y ll. flaenorol yn *yn* er mwyn y dehongliad. Gthg. Llawdden, &c.: Gw 5 (II.35–6) lle y darllenir *Ni adodd un anudon / Nag (un) [sic] tlawd o genedl hon*.

37 **Siwsanna** Y tebyg yw mai arwres llyfr Swsanna yn yr Apocryffa a olygir yn hytrach na'r santes brydferth a ferthyrwyd yn Rhufain yn y 3g. (gw. ODCC[3] 1572).

39 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf.

**chwaer** Yn yr ystyr 'cymhares', gw. GPC 838 (a).

**gwraig fu'n cyrchu'r Groes** Sef Elen, mam Custennin Fawr, yr ymherodr Cristnogol cyntaf, y dywedid iddi ddarganfod y Grog Fendigaid. Fe'i cymysgwyd yn y traddodiad Cymreig yn gynnar ag Elen Luyddog, gwraig Macsen Wledig, gw. TYP[3] 342–4; WCD 362.

**cyrchu'r** Llsgrau. AB *kyrv*, C *Cryw*, a derbynnir diwygiad Llawdden, &c.: Gw 5 (II.39) er mwyn y synnwyr a'r gynghanedd.

41 **merch Lŷr** Y tebyg yw mai Cordela, merch ieuengaf y brenin Llŷr ym 'Mrut y Brenhinedd' Sieffre o Fynwy a olygir, gw. WCD 145–6, yn hytrach na Branwen ferch Llŷr, arwres ail gainc y Mabinogi. Yr oedd hi'n nodedig am ei doethineb.

42 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf; ond gellid cynnig darllen *mawrwych o galon.*

**merch Goel** Ar y traddodiad ffug fod Elen (y mae Llawdden yn dal yma i gyffelybu Elen Gethin iddi, gw. ll. 39) yn ferch i Goel, brenin Caer Golun (S. *Colchester*), gw. TYP[3] 342; WCD 362.

43 **Marsia** Deddfroddwraig ddychmygol a grybwyllir gan Sieffre o Fynwy, gw. WCD 454. BD 40 (ll. 30)–41 (ll. 2), *Ac yn ol Gvrgant y doeth Kuhelyn y uab ynteu yn urenhyn, a hyt tra barhavs yn tagnheuedus y traethvs y tyrnas. A gureic oed ydav, sef oed y henv Marcia. A'r wreic honno o'e hethrylith a dechymygvs kyureith a alwei y Brytanneit Kyureith Marcia. A'r gyureith honno a ymchuelvs Aluryt urenhyn o Gymraec yn Saesnec.*

47–8 **Saith … / Wythfed dysg ei thafod hi** Cyfeirir yma at ddysg a doethineb saith gŵr doeth Rhufain (o'r chwedl 'Saith Doethion Rhufain'). Awgrymir bod Elen yn wythfed o ran ei doethineb. Cf. 23.19.

51 **deufab i Ddafydd** Cyfeirir at Ddafydd Broffwyd (cf. 2.44n). Lladdodd Duw ei fab cyntaf (nas enwir) am i Ddafydd ei genhedlu trwy odineb â Bathseba a pheri lladd ei gŵr Ureia yr Hethiad. Solomon (Selyf, gw. ll. 50n) oedd yr ail fab; gw. 2 Sam xi–xii. Ergyd sylw Llawdden yn y cwpled yw y bydd meibion Elin Gethin *ill dau*, nid un ohonynt yn unig fel yn achos meibion Dafydd, yn mwynhau bendith Duw.

52 **dau** Sef Watgyn a Rhosier a grybwyllir yn llau. 53 a 54. Yr oedd gan Domas ap Rhosier drydydd mab hefyd, Rhisiart, a fu farw'n ifanc yn fuan ar ôl ei dad, gw. ByCy 937; GLGC 587. Canodd Lewys Glyn Cothi farwnad iddo lle y sonia am Elen Gethin yn edrych ar ei fedd a oedd ger bedd ei dad, *ib.* 287 (128.31–4).

54 **trawsach** Gradd gmhr. yr a. *traws* 'grymus, nerthol', &c.

57 **cael** H.y., 'eu cael' (sef Tomas ac Elen, ll. 57), ond hepgorwyd *eu* er mwyn treiglo *cael* yn unol â gofynion y gynghanedd.

## *22*

Cywydd yw hwn yn gofyn i Watgyn ap Tomas o Hergest, un o dri mab Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Hergest, gwrthrych cerdd 20 (gw. y sylwadau rhagarweiniol yno), am farch dros Siôn ap Watgyn o Frodorddyn, ei gefnder (gw. ll. 20n).[1] Bu farw Tomas yn 1469, a pharhaodd Watgyn, yntau, y traddodiad o noddi beirdd a wnaeth Hergest yn gyrchfan prif feirdd Cymru yn y bymthegfed ganrif; ac â'r lle hwn, wrth gwrs, y cysylltir Llyfr Coch Hergest (er y dichon iddo ddod yno o Dretŵr lle y trigai cangen arall o'r teulu[2]). Gwyddys i Watgyn ddal swyddi dan y Goron.[3] Yn 1472 fe'i penodwyd yn gwnstabl castell Huntingdon, swydd Henffordd. Yn 1484 cafodd swyddi stiward a rhysyfwr castell ac arglwyddiaeth Huntingdon ac fe'i gwnaed yn synysgal arglwyddiaeth Aberhonddu. Yn 1485 yr oedd yn gyflafareddwr mewn achos llofruddiaeth. Cyfeiria Tudur Penllyn ato fel *Llywodraethwr holl drethi / Powys wen …*[4] Yn rhan gyntaf y gerdd (llau. 1–18) portreada Llawdden ei noddwr fel gwastrodwr elfennau anystywallt, megis herwyr, ym Mhowys yn bennaf, ac y mae hyn yn dwyn i gof awdl a chywydd Lewys Glyn Cothi i'r un gwrthrych,[5] ac yn enwedig yr olaf lle y cyfeirir at rai o'r un tiriogaethau (gw. llau. 9–14n). Ceir cerddi i Watgyn ap

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 12–15 (V).
[2] Gw. D.J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r Beirdd', yn YB xxiv (1998), 67.
[3] Ar yr hyn a ganlyn, gw. ByCy 937; ODNB lvi, 157; GLGC 586.
[4] GTP 18 (11.23–4).
[5] GLGC 283–4 (cerdd 126), 285–6 (cerdd 127).

Tomas hefyd gan Fedo Brwynllys,[6] Dafydd ap Maredudd ap Tudur,[7] Dafydd Llwyd o Fathafarn,[8] Lewys Glyn Cothi,[9] Tudur Penllyn[10] ac Owain ap Llywelyn ab y Moel.[11]

Yr oedd gan Watgyn ap Tomas ddau gefnder o'r enw John a oedd yn feibion i Watgyn ap Syr Rhosier o Frodorddyn, un o frodyr Tomas ap Syr Rhosier Fychan. Cysylltid y naill â'r Fenni a'r llall â Llangynwyd.[12] Yr oedd ganddo hefyd gefnder arall o'r un enw a oedd yn fab i Syr Rhosier Fychan ap Syr Rhosier o Dretŵr,[13] ond gellir casglu ar sail y cyfeiriad at Frodorddyn yn llinell 22 mai un o feibion Watgyn ap Syr Rhosier a olygir, eithr ni wyddys pa un.

Gan i dad Watgyn ap Tomas farw yn 1469, amlwg mai rywbryd ar ôl hynny y canwyd y gerdd hon.

1–2 '[Perchennog] cant ystad, [daliwr] gwaywffon [ger] can mintai / Yw['r] pendefig [sy'n fab] Tomas … '

**Can ystad … can** Diwygir *Kynested* a *kyn* y llsgrau. Y mae *Kynested* yn ffurf anh. ac anodd cael synnwyr ohoni. Anfoddhaol hefyd yw *kyn* yn y cyd-destun. Ar ddefnyddio *cant* ynglŷn â Watgyn ap Tomas, cf. ll. 58 *[c]an caer*; GLGC 288 (127.43–7) *cant castell dano bellach, / can tref fawr, can tyrfa iach, / cancaer cyn darffo' cwncwest, / cannwr rhif â'u canwayw rhest, / cant o feirch, cynta' o fil, / o ganmeirch i ugeinmil*; GTP 19 (cerdd 11.47–50) *Can tref yw ei gynefin, / Can tai'n llawn, can tunnell win; / Can pasg y câi wyneb byd, / Can haf i Watcyn hefyd*. Ar *ystad*, cf. GLGC 285 (cerdd 127.1–8) *Mair a roes nef ym mhresen / ar ystad yn Herast wen, / a'r Maestr Watcyn rymustad / a roes Duw yn ŵr ystad. / Ystad yw bod yn gadarn / a bod yn ddoeth i roi barn; / ystad yw costio dwy iaith, / a rheoli rhai eilwaith*.

2 **Tomas** Tomas ap Syr Rhosier Fychan, tad Watgyn a'r cyntaf o Fychaniaid Hergest, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 20; ByCy 936–7, E.D. Jones, *Beirdd y Bymthegfed Ganrif a'u Cefndir* (Aberystwyth, 1982), 34–40.

**cwrt owmal** Cyfeiriad at Hergest (neu Herast, gw. ll. 6), cartref Watgyn Fychan. Benthyciad yw *owmal* o'r S. *enamel*, gw. GPC 2660, ac efallai ei fod yn cyfeirio at wrthrychau moethus o enamel neu â

[6] W. Rhŷs Watkin, 'The Poems of Bedo Brwynllys' (M.A. [Bangor] Cymru, 1909), cerdd 21. Gw. hefyd MFGLl 58, 61.

[7] LlGC 1553A, 113.

[8] GDLl 31–3 (cerdd 5), 104–5 (cerdd 45).

[9] GLGC 283–4 (cerdd 126), 285–6 (cerdd 127).

[10] GTP 18–19 (cerdd 11).

[11] GOLlM 47–8 (cerdd 24).

[12] *L.c.*

[13] *Ib.* 'Drymbenog' 2 ($C_1$). Canodd Lewys Glyn Cothi iddo, gw. GLGC 639–40 (Atodiad III).

gorchudd o enamel drostynt.

3 **wrth** 'I, tuag at'; ar yr ystyr hon, gw. GMW 214.

**Tanad** GDB 18.82n, '… Afon Tanad yng ngogledd-ddwyrain Cymru, a ffurfiai ran o'r ffin rhwng Powys Fadog a Phowys Wenwynwyn …'. Gw. hefyd EANC 20–1.

4 **nai'r iarll hen** Cyfeirir at Godwin 'Iarll Cernyw', gw. 18.57n. Nid yw'n debygol mai Wiliam Herbert, Iarll Cyntaf Penfro, a olygir gan na fyddai'r gair *hen* yn gweddu iddo (ei flynyddoedd oedd *c.* 1423–69, gw. ODNB xxvi, 729). Ni olyga *nai* fawr mwy na 'disgynnydd' yma (gw. GPC 2549).

5 **lladdiad** 1606 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf a nodir yn GPC 2080 d.g. *lladdiad*² 'lleiddiad', ond y mae'n amlwg fod y ffurf yn gynharach.

6 **Herast** Ffurf arall ar *Hergest*, cartref Watgyn, ym mhlwyf Ceintun, swydd Henffordd, gw. ByCy 936.

**herwyr** Cf. GTP 19 (11.41–2) *Cwrseriaid tanbaid at wŷr, / Clych arian, ciliwch herwyr.*

7–10 Y gystrawen yw *... tyn ... / ... bawb ... /... /... i'r iawn.*

7 **tyn** Gw. 15.29n.

9–14 **Cydewain a Chaereiniawn, / Ceri, Arwystli … / Cyfeiliog … / … / Mawddwy … / Mechain … Mochnan' …** Yr oedd yr ardaloedd gweinyddol hyn yn cyfateb mwy neu lai i diriogaeth Powys Wenwynwyn gynt (yn ne Powys). Cyfeiria Lewys Glyn Cothi at chwech ohonynt yn ei gywydd moliant yntau i Watgyn ap Tomas, gw. GLGC 286 (127.37–42) *Galwer dan ei faner fo / ddeunawtir, hwy ddôn' ato: / Cedewain a Chaereinion, / Ceri ac Arwystli gron, / o Lundain i Fechain fawr, / o Gyfeiliog i Faelawr.*

10 **i'r iawn** Cf. yr ymadrodd *dyfod i'r iawn,* GPC 936.

11–12 **… lle … / … oedd** '[Yn y man] lle y cafodd filoedd, bu brwydr gan [yr un o] waed Cadwgan.' Cyfeiriad yw hyn, fe ymddengys, at ryw frwydr a ymladdodd Watgyn yn erbyn herwyr niferus (*filioedd*) yng Nghyfeiliog.

12 **Cadwgan** Yn ôl Llawdden, &c.: Gw 275, cyfeiriad at Gadwgan ap Bleddyn, ail fab Bleddyn ap Cynfyn o Bowys. Lladdwyd ef yn fradwrus gan ei nai, Madog ap Rhirid, pan oedd yn trefnu i adeiladu castell yn y Trallwng. Arno, gw. J.E. Lloyd: HW³ 398–421; ByCy 58; CLC² 75. Fodd bynnag, yr oedd Tomas, tad Watgyn, yn briod ag Elen Gethin, merch Cadwgan ap Dafydd ap Cadwgan ap Phylip Dorddu o dylwyth Elystan Glodrydd (gw. 1.27–8n) ac y mae'n fwy tebygol mai un o'r ddau Gadwgan hyn a feddylir.

13 **o'r tir camweddol** Cydier *o'r* wrth *tyn* yn ll. 7. Gan fod cwmwd

Mawddwy eisoes wedi ei grybwyll, gall mai rhan neilltuol ohono yw'r *tir camweddol*, ac yn ôl Llawdden, &c.: Gw 275, yr herwyr y cyfeirir atynt yn ddiweddarach fel Gwylliaid Cochion Mawddwy (gw. CLC$^2$ 310) a olygir.

14 **Mochnan'** Sef Mochnant.

16 **Llangedwyn** Yn sir Ddinbych.

17 **dwy Wynedd** Gw. 20.31n. Sonia Dafydd Llwyd o Fathafarn am Watgyn Fychan, GDLl 32 (5.17–18), fel *Pen cenedl penáig Gwynedd, / Powys achlân, pais a chledd*, a dywed Lewys Glyn Cothi amdano, GLGC 285 (127.35–6), *Gwlad Bowys, mamwys y medd, / yw ei genedl, a Gwynedd*.

**clo** Gallai *kloi* y llsgrau. olygu diogelu teyrngarwch (? pobl Gwynedd), ond bernir mai gwell o ran ystyr yw ei ddiwygio'n *clo* yn yr hen ystyr 'awdurdod' (gw. G 147, GPC 501).

18 **Caer** Tebyg mai Caer (*Chester*) a olygir yn hytrach na Chaerllïon ar Wysg. Cyfeirir at yr olaf fel *Caerlleon* yn 18.59.

**Castell Coch** Y Castell Coch ('*Powis Castle*') ger y Trallwng, gw. Lindsay Evans, *The Castles of Wales: a Guide* (London, 1998), 195–200.

19–26 Adran drawsnewidiol lle y try Llawdden o foli Watgyn Fychan i ofyn iddo am farch dros Siôn ap Watgyn (gw. ll. 20n). Wrth gyflwyno cais Siôn yn llau. 19–20, sonia Llawdden am yr aur a rydd i brydydd er mwyn tanlinellu ei bwysigrwydd ynglŷn â hynny. Bernir ei fod, yn llau. 21–6, yn llefaru â llais Siôn ap Watgyn.

20 **Siôn ap Watgyn** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

21 **unty** Sef Brodorddyn, gw. y ll. nesaf.

22 **Bro-dorddyn fry** Brodorddyn (S. *Bredwardine*) yng ngorllewin swydd Henffordd oedd cartref Watgyn a Thomas ap Syr Rhosier Fychan (gw. ll. 23n) cyn iddynt fudo i'w tai eu hunain. Saif Brodorddyn ar lethr crib serth; cf. 13.1n.

23 **Fy nhad … dy dad** Sef, yn eu trefn, Watgyn ap Syr Rhosier Fychan (Brodorddyn) a'i frawd Tomas (Hergest).

**at** Dylid ei gydio wrth *[g]wrantwyd* yn ll. 21. Yr ystyr yw fod y ddau frawd wedi eu clymu trwy waed.

24 **brawd** Y tebyg yw mai Tomas ap Syr Rhosier Fychan a olygir: gan mai i'w fab, Watgyn, yr oedd Siôn yn gofyn am farch, naturiol fyddai estyn canmoliaeth i'r tad yntau.

**priod addwyn** Sef Gwladus ferch Dafydd Gam y cyfeirir at un o'i chyndadau, Einion Sais, yn y ll. nesaf (gw. y nodyn).

25 **Einion Sais** Aelod o lwyth Bleddyn ap Maenyrch a chyndad i Syr Dafydd Gam; yr oedd Syr Rhosier Fychan, Brodorddyn, taid Watgyn,

yn ŵr cyntaf i'w ferch Gwladus; gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 13, 16, 20, ByCy 93; R.R. Davies: LSMW 225–6.

31 **offer annwyd** 'Harnais [ar gyfer anifail] nwyd[us]'.

34 **Gwar … iddo** Y mae blew'r ceffyl fel eiddo gwar baedd wrth iddo gael ei gribo.

36 **Cael … asen** Ffordd o ddweud bod y march yn gweryru.

38 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *e' i'r*.

'Pe gyrrid gwas gydag ef i'r dŵr'. Y rheol yw na threiglir gwrthrych ar ôl ffurf amhrs. y f., gw. Treigladau 229–31. Gellid trin *was* fel sangiad, ond chwithig felly fyddai'r gystrawen, a chyda *gyrrid* y mae'n mynd yn naturiol.

42 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf.

**padrwn** Amrywiad ar *patrwm / patrwn*, gw. GPC 2702 d.g. *patrwm*[1], *patrwn*[2].

43 **rhawn** Fel y dywedir yn Llawdden, &c.: Gw 276, cynffon y ceffyl, nid ei fwng, a olygir. Ar yr ystyr hon, gw. PKM 171; GPC 3041.

**hyd ar winwydd** H.y., fel tyfiant gwinwydd ar goed, sef yn hir.

44 **llysywen** Llsgrau. *llyswen*. Diwygir er mwyn hyd y ll.

45 **dyblwyd** Dyblwyd y carnau yn yr ystyr fod gan y march ddwy goes flaen a dwy goes ôl.

46 **hual** Sef y bedol.

**dŵr a haearn** Cyfeiriad at y proses o wneud pedolau o haearn a'u tymheru â dŵr.

47 **dolau** Ll. *dôl*. Cymhwysir un o'i ystyron, sef 'dolen, cylch, tro', &c. (gw. GPC 1073), at bedol, cf. y defnydd o *hual* yn ll. 46.

**dail ar wŷdd** Yn ôl Llawdden, &c.: Gw 276, cyffelyba'r bardd grynder y pedolau i eiddo dail y coed.

48 **gwydr** Cyfeiriad at loywder y pedolau, *l.c.*

50 **rhoi** Yn yr ystyr 'gwneud, troi'. Y mae pedolau'r march yn gwreichioni wrth garlamu trwy'r stryd; cf. 9.60n.

51 **yn gyflawn o gig** Nid oedd y march yn groenllyd neu esgyrnog. Cf. GEO 31.5–6 *Cyflawn o galon a chig, / Cyfliw blodau'r banadlfrig* (anh., i ofyn march), isod 25.35 *Milgi gwyn aml o gig oedd*.

55 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *Cymry* ac *i'th*.

58 **o caf** Y march y gofynnir amdano yw gwrth. dealledig y f. Ar y diffyg treiglad llaes ar ôl *o*, gw. Treigladau 374–5; gthg. 23.51 *O chair*.

*23*

Cywydd yw hwn lle y gofyn Llawdden i Watgyn ap Tomas o Hergest (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 22) am ddau ych iddo'i hun.[1] Disgrifir yr ychen hyn yn rhaglithiau llawysgrifau BD fel rhai duon. Er na sonnir yn y gerdd am eu lliw, y mae'r disgrifiad o ychen duon a geir yng ngherdd 27—*Ni chawn dŷ i'r ychen duon / Eithr ar frig y llethr a'r fron* (27.49–50)—yn dwyn i gof y llinellau *Bûm yn aredig brig bron / Wrth did o nerth dau eidion* (23.1–2), a'r tebyg yw fod yr hyn a ddywed y rhaglithiau yn gywir.[2] Yn ôl Francis Payne, du yn hytrach na choch yw lliw ychen yn y mwyafrif mawr o'r cywyddau sy'n sôn amdanynt, ac ychwanega, 'ymddangosai fod y rhai duon yn fwy niferus neu'n fwy dymunol na'r rhai cochion'.[3]

Fel y sylwodd Payne ymhellach, ymddengys fod Llawdden yma, ac yntau bellach yn hen ŵr (ll. 61), yn dymuno rhoi'r gorau i glera gwlad a byw ar ei dyddyn (llau. 29–30); ond gan nad yw'r ddau ych sydd ganddo (ll. 2) yn ddigon i drin y crindir, y mae angen cymorth dau arall (llau. 10, 31–2) arno i wneud gwedd o bedwar.[4] Ceir darlun byw o waith ac amgylchiadau hwsmon yn trin y tir â'i ychen, a rhai cyffyrddiadau diddorol, megis y camau a gymerir i ddiogelu eiddo rhag gwylliaid (llau. 40–4), sŵn yr ychen wrth bori a rhythm eu hanadliad a gyffelybir i gyfeiliant i gerdd (llau. 45–50), neu genfigen cyd-uchelwyr iau Llawdden (llau. 55–60).

Megis yn y cywydd blaenorol i'r un gwrthrych, sonnir llawer am waith Watgyn yn cadw trefn ar elfennau digyfraith yn y gymdeithas (llau. 21–8). Megis yn achos y cywydd hwnnw hefyd, amlwg mai wedi marw tad Watgyn, Tomas ap Syr Rhosier, yn 1469 y cyfansoddwyd hwn.

8 **pwn** Efallai mai 'pentwr [o glod]' a olygir.

**pennaf** Fe'i deellir yn gyfeiriad at Watgyn ap Tomas.

9 **Bleddyn** Bleddyn ap Maenyrch, un o gyndadau Watgyn ap Tomas ar ochr ei nain, Gwladus Gam, gw. 22.25n.

14 **gwedy'r un** Ar ôl yr un *llew* (ll. 13), sef tad Watgyn.

**ynys** Gallai olygu 'tir, gwlad, teyrnas' neu Ynys Prydain, a cheir yr un ansicrwydd ystyr mewn llawer o enghreifftiau, gw. 20.12n; GLGC 520.

16 **gwydr** Yn yr ystyr 'patrwm delfrydol, esiampl wiw', gw. GPC 1751 (c); cf. ll. 23 *drych*.

17 **ar ôl** 'Fel'; cf. ll. 14n.

**Wiliam** Sef Wiliam Herbert, Iarll Cyntaf Penfro, gw. 20.8n.

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 7–9 (III).

[2] Ar gysylltiadau pellach rhwng y ddwy gerdd, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 27.

[3] F.G. Payne, *Yr Aradr Gymreig* (Caerdydd, 1954), 175. Cf. hefyd sylwadau rhagarweiniol cerdd 27.

[4] *Ib.* 168.

18 **’ch … edwch …** Gan i Wiliam Herbert farw yn yr un flwyddyn â Thomas ap Rhosier, tad Watgyn, sef yn 1469, ac mai Watgyn bellach oedd arglwydd Hergest adeg canu’r cywydd hwn, rhaid mai at Watgyn y cyfeirir yma, nid ato ef a Wiliam. Ceir digon o enghreifftiau yn y farddoniaeth o gyfarch noddwr â ffurfiau un. a ll. y rh.prs. a’r f. yn gymysg â’i gilydd, weithiau ar yr un gwynt, megis yma (ll. 17 *d’ewythr*); cf. llau. 21, 57, 64, 67.

**gwaith** Fe’i diffinnir yn ll. 22 fel *Lleihau beiau holl Bowys*.

19 **Saith Ddoethion** Sef saith athro dysgedig chwedl ‘Saith Doethion Rhufain’, gw. GGLl 13.33n; SDR. Cf. 21.47–8n.

21–8 Ar ddyletswyddau Watgyn, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 22.

23 **drych** ‘Patrwm, esiampl’, GPC 1091, 1 (b); cf. ll. 16 *gwydr*.

24 **hydref** Gw. GPC 1953 (b), ‘y tymor o’r flwyddyn pan fo cig anifail neilltuol, &c., ar ei orau’. Un dehongliad, felly, yw y cyll y lladron y cyfle i fwyta cig blasus yr anifeiliaid y gobeithient eu dwyn. Fodd bynnag, y mae’n bosibl hefyd y dylid deall y gair yn drosiadol fel cyfeiriad at hydref bywyd y lladron: h.y., ni chânt fyw i fod yn hen.

26 **hobel** GPC 1880 d.g. *hobel*[1], ‘Math o walch neu o hebog bychan a ollyngid gynt ar ehedyddion a mân adar eraill’ (benthyciad o’r H.Ffr. *hobel*).

28 **noddfa** Dichon mai noddfa *rhag* y lladron, megis eglwys, a olygir.

29 **’n** Sylwer ar y ffurf l. Efallai fod Llawdden yn meddwl am ei weision hefyd; cf. ll. 27.59 *Uchel yw fy mugelydd*.

30 Y mae’r ll. yn rhy fyr o sillaf.

31 **ail Dydecho** Cyffelybir Watgyn i Dydecho am fod yr olaf yn berchen ychen ac yn sant. Arno, gw. LBS iv, 283–5; GDLl cerdd 52.

33 **mwy’i ôl** Llsgrau. *mwy ol*; deellir *mwy* yn gywasgiad o *mwy’i*. Ffordd arall yw *mwy’i ôl* (lle y mae *ôl* yn golgyu ‘ôl traed’) o ddweud ‘mwy o faint’.

33–4 **Ych Melyn / … y Brych …** Gw. TYP[3] 124, *Tri Phryf Ychen Enys Prydein: Melyn Gwaianhwyn, a Gvineu Ych Gwylwylyd, A’r Ych Brych*. Yn chwedl ‘Culhwch ac Olwen’ hefyd gofyn Ysbaddaden Bencawr i Gulhwch gyrchu’r tri ych hyn fel dau o’r anoethau, gw. CO[3] 22 (llau. 589–94). Gw. ymhellach y nodiadau perthnasol *ib.* 128.

35 **gwelltor** GPC 1633, ‘Yr ych ar y tu chwith i bâr o ychen a gerddai ar y tir glas gynt wrth aredig, tywarchor, ych gwellt …’; ymhellach, gw. F.G. Payne, *Yr Aradr Gymreig* (Caerdydd, 1954), y mynegai d.g. Ei gymar oedd y rhychor, gw. ll. 37n a cf. 27.14.

36 **grwn** GPC 1538, ‘Cefn neu drum o dir mewn cae, darn o dir (neu nifer o gwysi) mewn cae wedi ei aredig (a ffinnir ar y naill ochr a’r llall â

rhych) a chefn yn ei ganol sy'n ymestyn o dalar i dalar, a'r cwysi'n gogwyddo tua'r cefn o'r naill rych a'r llall.'

37 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf onis cywesgir.

**Ar hyd rhych … y trechaf** Cyfeirir at y rhychor, a ddiffinnir yn GPC 3125 fel 'ych neu geffyl sy'n cerdded y rhych wrth aredig (sef y gorau o'r pâr dan yr iau …'; gw. hefyd F.G. Payne, *Yr Aradr Gymreig* (Caerdydd, 1954), y mynegai d.g. Ei gymar oedd y gwelltor, gw. ll. 35; cf. 27.11.

39–44 Yr oedd yn rhaid i berchnogion anifeiliaid gymryd mawr ofal ohonynt rhag i wylliaid a lladron eu dwyn. Gw. ymhellach GDC, sylwadau rhagarweiniol cerdd 9; cf. isod 27.51–2.

39 Y mae'n anodd gwybod ai sôn amdano'i hun yn benodol y mae Llawdden yma ai am feirdd yn gyffredinol. Os y cyntaf, diddorol yw'r cyfeiriad at ei daid.

41–2 'Caf [yn ystod] y nos le nesaf at y storfa yn fy nhŷ.'

41–4 Dywedir yn G. Williams: RRR 65, 'Ploughmen usually had a real affection for their oxen and were much concerned for their welfare. The poet Llawdden gives a graphic cameo of the way in which the plough-beasts were brought into the typical long house and there slept securely in close proximity to the ploughman and the *geilwad* [caller].' Gw. hefyd F.G. Payne, *op.cit.* 198.

43 **geilwad** GPC 1387 d.g. *geilwad*[1], 'Gyrrwr ychen wrth aredig, gŵr a gerddai yn wysg ei gefn o flaen gwedd o ychen yn aredig, gan eu galw drwy ganu tribannau, &c., iddynt a'u symbylu'r un pryd â chethrau'r wialen alw, cethreinwr, gyrrwr anifail.' Ymhellach, gw. F.G. Payne, *op.cit.*, y mynegai d.g.

44 **côr** GPC 555 (3), 'Preseb, stâl, safle neu orweddle (buwch, ych, asyn, ceffyl, &c.) mewn beudy neu ystabl lle y clymir ac y porthir y creadur'.

45 Y mae'r ll. yn rhy hir oni chywesgir *Da* ac *y*. Yn llsgr. C ceir *da gallwn*.

45–8 Dywedir am y llau. hyn yn Bleddyn Owen Huws, 'Nodiadau', *Dwned*, ii (1996), 120, 'y mae'r sawl sy'n gyfarwydd â chlywed sŵn buwch yn pori ar gae (neu'n bwyta gwair o rastl mewn beudy) ac yn cnoi ei chil, yn gwybod yn iawn mai sŵn rhythmig rheolaidd a chyson ydyw. Gallwn gasglu, felly, mai ergyd y gymhariaeth hon yw fod y sŵn hwnnw y peth tebycaf a geid i'r math o gyfeiliant cerdd dant a fyddai gan y beirdd, sŵn ysgafn cefndirol na fyddai'n amharu ar allu cynulleidfa i glywed y geiriau.'

50 **wrth waith môr** Sef fel sŵn lleibio rhythmig y tonnau.

51 **carcharawr** Gallai *carchar* olygu 'lloc, corlan, ystabl' yn ogystal â dalfa, gw. GPC 423 (a), a defnydddia Cynddelw Brydydd Mawr y gair ynglŷn â march yn yr ystyr 'march wedi ei besgi mewn ystabl', gw.

GCBM i, 3.217 *Meirch ar geirch yn garcharoryon*, 25.16 *Karcharoryon keidron keirch*, GCBM ii, 371; GPC 423 d.g. *carcharfarch*.

52 **mêr** Yn yr ystyr 'y rhan orau, hanfod', gw. GPC 2432 (b).

53–4 Yr ystyr yw fod Watgyn yn ŵr mawr nid yn unig o ran tras ond hefyd o ran ei statws presennol yn Hergest. Ar ystyron *Arglwydd* ac *Iarll*, gw. 20.9n.

55–62 Esbonio i'w noddwr a wna Llawdden yn y llau. hyn, ac yntau'n gwneud ail gais iddo (ll. 56, *tra fych eilwaith*), pam y mae wedi achub y blaen ar ei gyd-uchelwyr a obeithiai gael rhoddion gan yr un gŵr. Teimlai nad oedd dim diben iddo hawlio blaenoriaeth ar sail ei henaint gan y byddent yn cenfigennu wrtho. Gan hynny, yn ei hyfder a chan apelio at ei adnabyddiaeth o dad Watgyn, penderfynasai beidio â sôn wrth yr uchelwyr eraill a neidio'n syth i ben y rhestr ddisgwyl gan wthio eu ceisiadau hwy gam yn ôl. (Y mae'n amlwg y rhoddid blaenoriaeth i eirchiaid hŷn mewn sefyllfa o'r fath.)

55 **oedi** Bf. anghyflawn yma; y gwrth. yw *F'uchelwyr* yn y ll. nesaf.

59–60 **gŵr hŷn nog arall / … o flaen y llall** H.y., 'gŵr hŷn na'r lleill i gael blaenoriaeth ar y lleill'. Llawdden a olygir.

62 'Fel [yr oeddwn yn hy] ar dy dad, yr wyf [yn hy] arnat [tithau].'

63 **Hirddywel** 'Bryndir yng ngogledd Maesyfed, a ffin ddeheuol Powys, a adnabyddir erbyn hyn fel Rhyddhywel', gw. GBF 27.38n. Fe'i disgrifir yn F.G. Payne, *op.cit.* 168–9, fel 'Mynydd ym Maelienydd, enwog am ei borfeydd (ac am ei niwloedd) … '.

**bugelydd** Un o ffurfiau ll. *bugail*, gw. GPC 347.

64 **ychen siop** 'Masnachdy ychen'.

66 **dwyiaith** Sef Cymry a Saeson y Mers.

67–8 **ym … / farwn** 'Gofynnir imi (h.y., gan Watgyn) am y cywydd hwn a fydd yn gwneud arglwydd neu farwn (sef Watgyn) yn fawr.' Enghraifft sydd yn y cwpled o thema gyffredin cyfnewid rhoddion rhwng bardd a'i noddwr.

## *24*

Cywydd yw hwn i erchi gwalch gan Robert Chwitnai o arglwyddiaeth Whitney, swydd Henffordd (gw. llau. 11–13n), ar ran Siôn Bromych (gw. ll. 1n).[1] Perthyn i'r math o gywydd gofyn lle y mae'r bardd yn gweithredu trwy 'dadogi'r cywydd ar yr eirchiad a llefaru trwy ei enau ef'.[2]

Cyfeirir yn ffynonellau'r cyfnod at dri math o aderyn rheibus a hyfforddid

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 10–12 (IV).

[2] CGD 116.

i hela:[3] yr hebog neu'r gwalch, sef yr hebog tramor (S. '*peregrine falcon*'), yr hwyedydd, sef y gosog, efallai,[4] a'r llamysten, sef y gwalch glas (S. '*sparrow-hawk*'). Gellir mentro nad yr olaf a olygai Llawdden, oherwydd adar mawr a ddelid gan y math o aderyn a ddymunai (gw. llau. 44, 46, 47, 48, 49), a defnyddid llamysten gan fenywod i ddal adar llai.[5] Cyfeiria Llawdden at yr aderyn fel *gwalch* (llau. 8, 12, 38, 54) ond ni olyga hynny o reidrwydd mai hebog tramor a feddyliai, oherwydd defnyddid y gair *gwalch*, megis *hebog*, yn llac, megis am osog.[6] Y disgrifiad mwyaf penodol yw'r geiriau *[T]arsel gwalch* oherwydd dynodant hebog gwryw (gw. ll. 20n), a chyfatebai hynny agosaf i'r *hwyedydd*, sef, y mae'n debyg, gosog. Ategir y dybiaeth hon gan ddisgrifiad Llawdden o un o adenydd yr aderyn fel *[b]raich byr* (ll. 24): ni fyddai hynny'n ddisgrifiad cywir o'r hebog tramor gan y perthyn i'r isteulu hwnnw o adar rheibus, y *Falconinæ*, sydd ag adenydd hir a main ac sy'n hedfan yn uchel.[7] Y mae'r gosog, ar y llaw arall, yn perthyn i isteulu gwahanol, yr *Accipitrinæ*, sydd ag adenydd llyfngrwn a chymharol fyr ac yn hela eu prae yn agos i'r ddaear;[8] ac y mae'n drawiadol mor fyr yw eu hadenydd mewn cymhariaeth ag aelodau eraill o'r un dosbarth megis y boda.[9] Cyfeiria Llawdden at yr aderyn fel *[c]eiliog rhudd* (ll. 34), ac nid yw coch yn un o liwiau'r gosog; ond cyfeirid at bob hebog ifanc yn y flwyddyn gyntaf fel hebog coch.[10] Sylwer hefyd at y cyfeiriad at *gosog Llywelyn* yn llinell 37. Nid oes dim, yn wir, yn y gerdd sy'n gwarafun credu mai gosog oedd yr aderyn y dymunai Llawdden ei gael, a cheir cywyddau i ofyn am yr aderyn gan Guto'r Glyn,[11] Gutun Owain,[12] Ieuan Deulwyn,[13] Hywel Dafi, Iorwerth Fynglwyd,[14] ac—y mae'n debyg—Owain ab Llywelyn ab y Moel[15] lle y gwelir cyfochrebau geiriol penodol, yn

[3] Ar heboca yng Nghymru, gw. DrOC 186–9; Dafydd Jenkins, 'Hawk and Hound: Hunting in the Laws of Court', yn *The Welsh King and his Court*, ed. T.M. Charles-Edwards, *et al.* (Cardiff, 2000), 255–68; W. Linnard, *Welsh Woods and Forests: a History* (Llandysul, 2000), 48–9. Er diddordeb, yn William Rees, *South Wales and the Marches 1284–1415: a Social and Agrarian History* (Oxford, 1924), 122n3, dywedir, 'Wales was famous for sparrow-hawks and falcons and the fledglings were keenly sought, frequently for dispatch to England.'

[4] Gw. hefyd GPC 1937 d.g. *hwyedydd*.

[5] DrOC 187.

[6] E.e. yn GGl² 253–4 (XCVII) defnyddir *gweilch* (ll. 36), *gwalch* (llau. 43, 55), *deuwalch* (ll. 56) ynglŷn â'r *gosawg* (ll. 41) a geisir; yn GOLlM 43–4 (cerdd 22) defnyddir *gwalch* (ll. 26), *hebog* (ll. 59), ac yn *hawc* (ll. 68) am y *[t]ersel hawc* (sef gosog, y mae'n debyg); yn DGGD 55–6 (cerdd 12), defnyddir *Hebog* (llau. 31, 48, 58) am y *[g]osawg* (llau. 34, 67); yn GIF 49–50 (cerdd 20), defnyddir *gwalch* (llau. 30, 61) am y *gosawg* (llau. 29, 61).

[7] Gw. OED² vii, 24, d.g. *hawk*.

[8] *L.c.*

[9] Gw. Walter Cerný, *A Field Guide in Colour to Birds* (London, 1975), 267.

[10] DrOC 187.

[11] GGl² 253–5 (XCVII).

[12] GO 86–90 (XII).

[13] ID 39–41 (XXIII); DGGD 54–6 (cerdd 12).

[14] GIF 49–50 (cerdd 20).

[15] GOLlM 43–4 (cerdd 22); cf. *ib.* 44 (22.62) *[t]ersel gwalch* ag uchod 24.20 *[T]arsel gwalch*.

enwedig o ran y math o adar a helid (gw. y nodiadau).

1–2 **… yma / I Fair …** H.y., i eglwys (neu gapel) wedi ei chysegru i Fair. Nid yw arwyddocâd *yma* yn eglur, ond gall mai eglwys yn y cyffiniau, a honno dan nawdd Robert Chwitnai, a olygir.

1–4 Yn y llau. hyn dywed Siôn Bromych, ei fod yn *bwrw yma / I Fair ych dwn* a *[m]arch da*, a cheir ar ddeall yn y cwpled nesaf mai rhodd o ddiolch yw'r anifeiliaid hyn i Fair am ei iacháu. Fodd bynnag, o gofio'r ffordd y byddai uchelwyr yn cyfnewid rhoddion, gall hefyd fod Siôn Bromych yn dymuno ffeirio'r un anifeiliaid â Robert Chwitnai am walch (cf. llau. 9–10), er yr ymddengys yn rhyfedd fod rhodd a offrymwyd i'r Forwyn yn cael ei chyfnewid wedyn am rywbeth arall. Gallai hebog gostio cymaint â march yn y 15g., gw. CGD 150, a deallwn oddi wrth gerdd gan Owain ap Llywelyn ab y Moel i Huw Cyffin erchi gwalch gan Risiart Bwlclai *am bwyth deufarch*, GOLlM 44 (22.63).

1 **Siôn Bromych** Yr unig berson a chanddo'r cyfenw *Bromych* a welwyd yng ngwaith Bartrum yw Ralph Bromage (neu Bromwich) a briododd ag un o ferched Watgyn Fychan o Hergest, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Drymbenog' 2 (B1). Tybed, e.e., ai tad neu daid Ralph Bromage oedd Siôn Bromych?

**bwrw** Efallai mai 'anfon' yw'r ystyr yma.

4 **dan ewyllys Duw** Enghraifft o ymwybyddiaeth y beirdd fod y grasusau a geid trwy eiriolaeth Mair yn llifo yn y lle cyntaf o'r Duwdod; ymhellach gw. R. Iestyn Daniel, 'Ffynhonnau yng nghanu'r Cywyddwyr', *Dwned*, vii (2002), 76.

5 **pererin** Efallai mai 'crwydrwr' a olygir yma.

7 **islaw'r rhuddwr** Yn ôl GPC 3102, golyga *rhuddwr* 'un sy'n tywallt gwaed'; os felly, ac yn wyneb yr ardd. *islaw*, efallai mai'r ci sy'n dal a lladd yr hydd a olygir. Ar y llaw arall, gall mai cyfuniad o *rhudd* a *dŵr* 'dŵr coch / brown' sydd yma; ond os felly nid yw arwyddocâd *islaw* yn eglur.

9 **câr** Y tebyg yw mai Robert Chwitnai a olygir.

**cwyr ei sêl** Cyfeiriad, efallai, at sêl gwyr a oedd gan Robert Chwitnai fel arwydd o uchafiaeth.

11–13 **Mastr Robert … / … / Arglwydd Chwitnai** Ar ei ach, gw. P.C.

Ceir cywydd hefyd gan Hywel Rheinallt i erchi gwalches gan Syr Siôn Aber, gw. Elsbeth Wendy Owen Davies, 'Testun Beirniadol o Waith Hywel Rheinallt ynghyd â Rhagymadrodd, Nodiadau a Geirfa' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1967), 92–3 (cerdd 31). Sylwer hefyd ar y cyfeiriad canlynol mewn cywydd gan Wilym Tew i ofyn march gan Siôn Watgyn Fychan o Dir Iarll, gw. Gwilym Tew: Gw 498 (XIV.41–2), *March fal carw garw heb goron, / Moes dros weilch y Meistr Siôn.*

Bartrum: WG2 'Whitney' 1. Yn ôl GLGC 583, 'Arglwyddiaeth fechan ar lan Afon Gwy, ychydig filltiroedd i'r gogledd o'r Gelligandryll, ond dros y ffin yn swydd Henffordd, oedd Whitney.' Ar ei wraig, Elis, gw. isod llau. 55–6n.

13 **Gwalchmai** Gwalchmai ap Gwyar, un o farchogion y Brenin Arthur, gw. $TYP^3$ 367–71; WCD 303–5.

14 **cwncwerwyr** Y mae'n ddiddorol sylwi bod Lewys Morgannwg yn defnyddio'r un term wrth gyfarch teuluoedd o dras Normanaidd ym Morgannwg. Adlewyrchai hyn draddodiad am y Normaniaid fel goresgynwyr y rhanbarth; gw. GLMorg 1.40n. Ystyrier hefyd y cyfeiriad at Robert Chwitnai yn ll. 16 fel *[G]orwyr milwyr*.

15–16 Dymunir yma weld Robert Chwitnai yn cael ei urddo'n farchog, cf. 9.34n.

15 **gwyn** Cf. 20.10n.

17 **cyd** Ffurf gywasgedig *cyhyd*, gw. GPC 744.

18 **Syr Robert Hen** Taid Robert Chwitnai, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Whitney' 1.

20 **tarsel** Benthyciad o'r S.C. *tarcel(le)*, un o ffurfiau *tercel* a ddiffinnir yn MED d.g. fel '*The male of any of several species of diurnal birds of prey, esp. a male hawk or falcon*'. Yn ôl $OED^2$ xvii, 795, d.g. *tercel*, daw o'r Llad. poblogaidd *tertiolus*, ffurf fachigol *tertius* 'trydydd'. Y rheswm y gelwid yr aderyn gwryw felly oedd ei fod fel arfer yn llai o ryw draean na'r fenyw. Cf. GOLlM 44 (22.61–2), *I dŷ esgob y'i dysgir, / dersel hawc, ar drosol hir*. Ni restrir y gair yn GPC 3452, 3487.

**trosol** Sef y glwyd arbennig y byddai'r aderyn yn gorffwys arni pan na fyddai'n hela; ymhellach, gw. *The Encyclopædia Britannica* (11th ed., New York, 1910–11), x, 143.

23 **dwrn** Ymddengys mai pig y gosog a olygir; cf. ll. 39.

24 **braich byr** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

25–7 Cf. Ieuan Deulwyn yn ei gywydd i erchi gosog, gw. DGGD 55 (12.35–6) *Ei big cam fel bwa y'i cair, / Ac ewinedd fel genwair*.

28 Cf. GIF 50 (20.52) *corfau cyrn yn cerfio cig* (i ofyn gosog).

29 **clych** Pan ddelid gweilch gwyllt i'w hyfforddi i hela, gosodid offer neilltuol arnynt, gan gynnwys clychau am y coesau er mwyn hwyluso eu darganfod pe baent yn mynd ar goll neu'n lladd eu prae o'r golwg, gw. *Chambers's Encyclopædia* (London, 1970), v, 547, sylw ar lun 3 gyferbyn, 548, a *The Encyclopædia Britannica* (11th ed., New York, 1910–11), x, 142, am ddarlun. Cf. hefyd GLMorg 5.9n am gyfeiriadau eraill.

30 **a gân** Y goddr. yw *[c]lych* yn ll. 29.

34 **clog crwn** Y cwfl, y mae'n debyg, a gedwid dros ben y gwalch ac eithrio pan oedd yn bwyta, gw. *The Encyclopædia Britannica* (11th ed., New York, 1910–11), x, 143, ac *ib.* 142 am ddarlun.

35 **maels** Cf. GOLlM 44 (22.49–50) *crys o faels curas o Fawns, / clog farugog yn frigawns* (i ofyn gosog).

37 **gafel** Defnyddiwyd y ffurf yn *-el* er mwyn y gynghanedd.

**gosog Llywelyn** Ni wyddys pa Lywelyn a olygir—ai Llywelyn ab Iorwerth neu Lywelyn ap Gruffudd gynt? Gellid disgwyl i ddynion o'u statws hwy feddu'r adar hela gorau, a buasai'n bosibl sôn am yr adar hynny fel safon ardderchowgrwydd. Benthyciad yw *gosog* o'r S.C. *goshauke*, gw. GPC 1514.

39–40 Cyfeiriad at stori anhysbys am y *Llywelyn* yn y ll. flaenorol a geir yn y llau. hyn. Ymddengys mai'r ystyr yw: 'Aeth ei grafangau trwy wron call gynt, ac aeth carw [i'w dranc] trwy [rym] yr adain arall.' Ymddengys mai byrdwn y cwpled yw fod gan Lywelyn osog hynod a niweidiodd (neu a laddodd) ryw arwr yn ogystal â charw.

39 **dwrn** Gw. ll. 23n.

43 **hesgoed** GPC 1861, yn betrus, 'Coed a dyf mewn hesgle, sef helyg o ryw fath'.

44–9 **… ceiliog coed. / … / Ffesant … / … hwyaid a chrëyr, / … bwn … / … gylfinir …** Dyma'r adar y mae'r gwalch yn eu hela er mwyn i'r hebogwr eu bwyta. Cf. GGl[2] 254 (XCVII.47–8) *Y bwn neu ŵydd byw ni ad / Na chrŷr hoyw, na chyw'r hwyad* (i ofyn gosog); GOLlM 44 (22.33–4, 39–40, 55–6) *Clochydd, ym mrig gwŷdd y'i caid; / canol hoewal, cnùl hwyaid / … / Daly'r bwns a'u dolurio bydd, / daly ffesawns ar dâl ffosydd / … / Mae'n bwrw ysgithr mewn brysgoed, / mynweiriau cyrn mewn ieir coed* (i ofyn gosog); gw. hefyd y nodyn nesaf.

44 **ceiliog coed** GPC 451, '*pheasant-cock, wood-cock; ?capercailye*'. Gan y crybwyllir y ffesant yn ll. 46, efallai mai un o'r ddau olaf a olygir.

48 **siwgr byr** Gallai *byr* olygu 'crintach, prin, anhael' hefyd, gw. GPC 364 (b) d.g. *byr*[1], felly efallai mai 'ychydig siwgr' yw'r ystyr yma.

49 **try** Llsgrau. *tri*. O'i ddiwygio ceir dwy f. 3 un.pres.myn. yn cyfateb i'w gilydd yn y cwpled, *Try … treigl.*

50 **pwn** Sylwer mai treiglad o *pwn* ('llwyth') yw *bwn* y testun (gthg. ll. 48).

51 **Mastr Robert** Gall mai cyfarchiad yw'r geiriau hyn, ond yn wyneb y ffurf 3 un.grch. *moesed* sy'n ei ddilyn lle yr ymddengys mai Robert yw'r goddr., dichon fod Llawdden (ym mhersona Siôn Bromych) yn cyfeirio at ei noddwr yma yn y trydydd prs.

52 **na** 'Neu'; gw. GPC 2545 d.g. *na*[2], 1 (a).

53–4 **Ni thalaf … / Bwyth …** 'Ni thalaf yn ôl / ni wnaf ad-daliad.' Ar y

motîf hwn yn y canu gofyn, gw. DGGD 215–16, 220.

55–60 Try Llawdden yn y llau. at wraig Robert Chwitnai, Elis, am gymorth yn ei gais.

55 **Elis** Ail wraig Robert Chwitnai a merch i Domas ap Syr Rhosier Fychan o Hergest, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Drymbenog' 2 (B1), 'Whitney' 1. *Elsbeth* yw ffurf ei henw yn yr achau, ac ymddengys mai o ffurf lawn yr enw hwnnw, *Elisabeth / Elizabeth*, y daw *Elis*. Canodd Lewys Glyn Cothi awdl briodas iddi hi a'i gŵr, GLGC 276–8 (cerdd 123). Elis, wrth gwrs, a gyffelybir i seren, nid ei thaldra. Ar *seren* fel gair canmoliaethus am ferched a gwragedd, gw. GPC 3226 (b).

56 **Syr Rhys** Ymddengys y defnyddir *Rhys* yma yn ffurf Gym. am Rosier; ymhellach, gw. GHS 3.35n. Os felly, Syr Rhosier Fychan o Frodorddyn, tad Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Hergest, a olygir (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 20 a 20.24n).

**Rhoser Hen** O Frodorddyn, tad Syr Rhosier Fychan, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 20.

58 **saith help** Ar arwyddocâd *saith*, gw. 1.71n.

59 **nith iarll** Yr iarll y cyfeirir ato yw Syr Wiliam Herbert, Iarll Penfro, gw. 20.8n.

*25*

Yn y cywydd hwn ymbilia Llawdden ar yr Arglwydd Fferis, sef Syr Water Defras o Weblai a Bodenham (swydd Henffordd),[1] i adfer heddwch a threfn i ardal a oedd wedi mynd yn ysglyfaeth i wylliaid.[2] Y mae'r cyfeiriadau at Dŷ Non (ll. 7n) a Maelienydd (ll. 28), ynghyd â'r hyn a wyddom am gysylltiadau'r bardd â'r ail (gw. uchod td. 3), yn rhoi pob lle i gredu mai gwlad Rhwng Gwy a Hafren (Maesyfed) oedd yr ardal honno. Wrth ystyried swyddogaeth Defras yn y gerdd, y mae'n briodol cofio'r grymoedd a gafodd gan Edward IV pan oedd y brenin, wedi iddo gael ei adfer i'r orsedd ym mis Hydref 1969, yn cymryd camau i gadw rheolaeth ar Gymru:

> On 7 November Edward made his brother Richard chief justice of North Wales. In South Wales he relied largely upon Lord Ferrers of Chartley. This man had not figured conspicuously for some time, having been completely overshadowed by Lord Herbert. But he had served on a number of commissions; in October Edward gave him a commission of array in the border counties, and a few weeks later the constableship and stewardship of Brecknock, Hay, and Huntingdon during the minority of

[1] Ar deulu Defras yn gyffredinol, gw. ByCy 156–8, ac ar Syr Water Defras yn benodol, WWR², y mynegai d.g. *Devereux, Sir Walter*; Llawdden, &c.: Gw xviii; CP 321–5. Yr oedd dros 26 oed yn 1459 a bu farw ar faes Bosworth yn 1485.

[2] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 21–4 (VIII).

> the duke of Buckingham, and power to seize the lands of rebels in the border counties.[3]

Y mae'n debygol, hefyd, mai Edward a olygir wrth *y tarw* (ll. 2n), a dengys y cyfeiriad at yr *edling yn Llwydlo* (ll. 22n) na ellid bod wedi cyfansoddi'r cywydd cyn 8 Gorffennaf 1471 (gw. ll. 22n). Efallai y gellir manylu ychydig ar hynny. Un o'r pethau, medd Llawdden, a oedd wedi arwain at y sefyllfa adfydus bresennol oedd *Trafael ar y tarw* (ll. 2), a hynny *nawmis yn ôl* (ll. 3). Er mai anodd gwybod a ddylid deall *nawmis* yn llythrennol ai peidio (gw. ll. 3n), eto y mae'n bosibl fod yma gyfeirio at y cyfnod rhwng Medi 1470 a Mawrth 1471 pan oedd Edward yn alltud o'i wlad ar ôl cael ei ddiorseddu gan Richard Nevill, Iarll Warwick, a ddododd Harri VI yn ei le. Pe deellid *nawmis* yn llythrennol, gellid dyddio'r cywydd, ar y cynharaf, naw mis wedi fföedigaeth Edward i'r Iseldiroedd ar 3 Hydref 1470,[4] sef rywbryd rhwng 8 a 31 Gorffennaf 1471; neu ynteu, ar yr hwyraf, naw mis wedi adfer Edward i'r frenhiniaeth ar 11 Ebrill 1471,[5] sef rywbryd yn Ionawr 1472.

1 'Rhyfel mewn rhandir o'r byd'. Gallai *Rhyfel* gyfeirio at ryfel neilltuol neu ryfela'n gyffredinol yn y wlad; cf. ll. 33. Tebyg mai Prydain a olygir wrth *barsel*.

2 **y tarw** Cyfeiriad, y mae'n debyg, at Edward IV gan fod y tarw yn un o'i symbolau herodrol, gw. Boutell 210, 211. *tir* yw darlleniad llsgr. D ond nid ychwanega at y synnwyr.

3 **nawmis** Cf. 1.71n.

7 **Tŷ Non** Dywedir yn LBS iv, 24, wrth sôn am y Santes Non, 'There were chapels, now extinct, called Llannon, under Llanbadarn y Garreg (Cregrina), in Radnorshire, and Ilston in Glamorganshire'. Yr oedd Llanbadarn-y-Garreg (neu Lanbadarn Garreg) yn Elfael Uwch Mynydd, un o gymydau Elfael, cantref mwyaf deheuol gwlad Rhwng Gwy a Hafren (Maesyfed), gw. WATU 66, 103. Y mae'n bosibl hefyd, er hynny, mai Llan-non ym Morgannwg a olygir a bod Llawdden yn mynegi syniad tebyg i 'ledled Cymru'.

11 **milgi** Yn ôl DWH ii, 122, yr oedd gan dad yng nghyfraith Water Defras, John Merbury, sêl a gynhwysai ddau filgi ar eu heistedd yn gynheiliaid. Dichon, felly, mai cyfeiriad sydd yma at arwydd herodrol. Ar y llaw arall, efallai mai trosiad sydd yma am Water Defras yn cyfeirio at ei allu i ymlid y gelyn yn chwim fel milgi, ond os felly darllener *a'r*, nid *â'r*. Yn llau. 35–6 gall fod Llawdden yn chwarae ar y ddwy ystyr.

12 **allai help i** Ar yr ymadrodd *gallu help i*, gw. GPC 1846. Deellir y

[3] WWR[2] 112.

[4] Gw. *Handbook of British Chronology*, ed. F. Maurice Powicke and E.B. Fryde (second ed., London, 1961), 38.

[5] *L.c.*

rh.pth. o flaen y f.

13–14 **Arglwydd … / Fferis …** Priododd Syr Water Defras Anne, merch yr Arglwydd Fferis (S. *Ferrers)* o Chartley, swydd Stafford, ac yn 1461 gwnaed ef yn Farwn, a thrwy hynny yn Arglwydd Fferis, gw. CP v, 322–3.

**swydd … / dros bob fforest draw** Dylai'r geiriau hyn olygu bod Water Defras wedi cael swydd fforestwr (neu stiward) rywle ym mro Llawdden, ond nid yw'r sefyllfa gyfansoddiadol yn eglur.

16 Y mae'r ll. yn hir o sillaf oni chywesgir *hela a* neu *threio holion*.

18 **Weblai** S. *Weobley*. Saif ger Brodorddyn, swydd Henffordd.

19 **Llandomas** Yn WATU 108 rhestrir eglwys o'r enw (S. *Thomaschurch*) yn Llaneigon (neu Lanigon—ychydig i'r de-orllewin o'r Gelli Gandryll), Brycheiniog. Gw. hefyd R.R. Davies: LSMW, 310. Nodir hefyd yn WATU 139 eglwys Llantomas yn Llanfihangel Troddi (S. *Mitchel Troy*) ym Mynwy, ond buasai hynny y tu allan i gylch awdurdod Water Defras.

20 Y mae darlleniadau'r llsgrau. yn amrywio ar gyfer y ll. hon, a phenderfynwyd dilyn llsgr. F. *llynal ai rent llyna ail rol* a geir yn AEHI ond nid hawdd cyfrif am yr *l* yn *llynal* onis cydir wrth *ai* sy'n ei ddilyn (cf. darlleniad K): fel hyn, gellid deall *llai rent* i olygu bod Water Defras yn drethwr caredig, ond nid yw'r syniad, rywfodd, yn taro ac anodd hefyd fyddai deall ergyd *ail* yn nes ymlaen yn y ll. (Posibilrwydd arall fyddai diwygio a darllen *Llyna le'i rent, llyna le'i rol*.) Nid yw darlleniad D, *llawn i rent llyna'r ail ol* yn rhoi synnwyr da ac nid yw'r gynghanedd o'i blaid. Ar *rhent* a *rhôl*, cf. ll. 49.

**llyna a'i rol** Tebyg mai'r hyn a ddynodir gan *rol* yw'r gofrestr a ddefnyddir i gofnodi talu rhenti. Gellir deall *'i rent* ar ôl *llyna* er mwyn esbonio'r cys. *a.* Ar *rent … rol*, cf. ll. 49.

21–2 Dywed Llawdden, gan arfer gweniaith a gormodiaith, fod Water Defras yn Gymro sy'n gyfysgwydd â'r *edling yn Llwydlo*, sef Edward V. Ac yntau wedi ei greu'n dywysog Cymru ar 26 Mehefin 1471, rhoddwyd iddo'n ffurfiol ar 8 Gorffennaf dywysogaeth Cymru ynghyd ag iarllaethau Palatin Caer a'r Fflint; castell Llwydlo oedd ei breswylfan, gw. $WWR^2$ 116.

23–4 Urddwyd Water Defras yn farchog ar ôl brwydr Towton, 29 Mawrth 1461, gw. CP v, 322.

23 **Twysogaeth** Sef tywysogaeth Cymru.

25 **gart** GPC 1383 d.g. *gartr*, 'Gardas, arwydd y bennaf a'r fwyaf anrhydeddus o urddau'r marchogion ym Mhrydain'.

29 **ei dad** Sef Syr Water Defras o'r un enw; bu farw ar 22 neu 23 Ebrill,

1459, gw. CP v, 321–2.

30 **fo** Sef *a fo* (gyda'r rh.pth. yn ddealledig).

31 **haul** Symbol Edward IV.

33 **rhyfel** Cf. ll. 1n.

35–6 **Milgi gwyn … / … milgi …** Cf. ll. 11n.

35 **aml o gig** Cf. 22.51n.

36 H.y., lladdodd y gŵr a allai ymlid y gelyn mor chwim ac effeithiol â milgi lawer o ddynion.

37 **triagl o ras** '[Megis] balm / eli o ran gras'. Ar ystyron ffigurol *triagl*, gw. GPC 3591 (c).

38 **tân a dwfr** Tanau a gynheuwyd gan wylliaid, gellir tybio, ac afon (neu afonydd) a groesodd y bardd.

39 Ymddengys mai'r hyn a olygir yw nad oes ufudd-dod (ymysg rhai) i'r rheini sydd mewn sefyllfa o fraint ac yn cynnal trefn.

41–2 **Edryched … / … o waed â dwfr swyn** 'Edryched … o [sefyllfa] waed[lyd trwy ddefnyddio] dŵr sanctaidd.' Efallai mai cychwyn yn seremonïol y proses o adfer trefn a olygir.

44 **rhwymwyr** Dichon y cyfeirir at rai a rwymai droseddwyr cyn eu cosbi (cf. y cwpled nesaf).

46 **rhai i garchar** Llsgrau. AEFHIJ *rhai garchar;* cymerir bod yr ardd. *i* wedi ei lyncu gan yr -*i* yn niwedd *rhai*.

49 **rhent … rhol** Cf. ll. 20n.

50 Y mae'r ll. yn rhy hir oni chywesgir *thry i*.

51 **colli** H.y., eu dienyddio.

54 Y mae'r ll. yn fyr o sillaf oni chyfrifir *eithr* yn ddeusill.

57 **yn wŷr** Safant mewn cyfosodiad â *Ni*, a deellir y ll. i olygu 'byddem ni wŷr [sydd] yma yn rhoi …'. Gellid hefyd, er hynny, ddarllen *yn wir*, gw. amrywiad llsgr. I.

## *26*

Cywydd yw hwn i ddiolch i Rys ap Dafydd Goch o Wynllŵg (llau. 4–5, 7, 10) a Gwrhái (ll. 60) am alarch ac alarches a gawsai Llawdden ganddo.[1] Crybwyllir yn yr achau ŵr o'r enw Rhys o Fynyddislwyn a oedd yn fab i Ddafydd Goch ap Dafydd Ddu o Gwrhái.[2] Gan fod cwmwd Mynyddislwyn

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 64–7 (XX). Y mae arnaf ddyled sylweddol i Dr Dylan Foster Evans am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â materion achyddol, tiriogaethol, topograffaidd, dogfennol a llenyddol wrth baratoi'r golygiad o'r gerdd hon.

[2] P.C. Bartrum: WG1 'Grant' 3; P.C. Bartrum: WG2 'Grant' 3(F).

a llys Dafydd Goch, Gwrhái (yn yr un cwmwd ger Argoed ar lan afon Sirhywi), ill dau yng nghantref Gwynllŵg, diau mai'r Rhys hwn yw gwrthrych diolch y cywydd.[3] Fe'i ganwyd yn ôl P.C. Bartrum tua 1400, ond gwelir isod fod lle i amau a anwyd ef mor gynnar â hyn. Crybwyllir gŵr o'r enw Rhys ap Dafydd Goch sawl gwaith yn rôl aséis y Sesiynau Mawr yn arglwyddiaeth Casnewydd yn y flwyddyn 1476.[4] Ceir yr enw drachefn fel fforestydd a rhysyfwr fforest Machen yn 1486–7,[5] eithr y mae'n ansicr ai'r un gŵr oedd hwn.[6] Boed a fo am hynny, diau y dylid, *pace* P.C. Bartrum, osod ei ddyddiad geni yn nes at tua 1430. Ymddengys mai i dad Rhys, Dafydd Goch, y canodd Iorwerth Fynglwyd i ofyn maharen dros Hywel ap Dafydd ap Hywel,[7] er y golyga hyn osod dechrau cyfnod blodau Iorwerth Fynglwyd yn gynharach nag y tybiwyd.[8] Ceir hefyd gywydd moliant gan Wilym Tew (*fl.* 1460–80) i bedwar mab Dafydd Goch, Morgan, Rhys, Phylib a Thomas.[9]

Yn Lloegr yn yr Oesoedd Canol cedwid elyrch fel adar wedi eu lled-ddofi. Un o'r rhesymau am hyn oedd er mwyn eu bwyta. Fel y dywed N.F. Ticehurst:

> Swans were kept because of the high esteem in which they were held as an article of food. Before the advent of the turkey they were customarily eaten at Christmas and no large banquet was complete unless graced by the presence of one or more swans on the menu, while occasionally they appeared in prodigious numbers.[10]

Yng Nghymru, yn ddiweddarach, diddorol yw sylwi ar yr hyn a ddywed W.R.B. Robinson am gofnodion sy'n ymwneud ag ystad Harri, Iarll Caerwrangon, yng Nghas-gwent, yn nhridegau cynnar yr unfed ganrif ar bymtheg:

> The estate accounts record comparatively few purchases of household provisions, but they show that the estate provided one of the delicacies consumed in contemporary noble households, as his [sef Harri] swan-keeper was paid an annual fee for keeping cygnets on Netherwent

[3] Cysylltid canghennau eraill o'r teulu â Gwynllŵg, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Grant' 2.

[4] T.B. Pugh, *The Marcher Lordships of South Wales 1415–1536* (Cardiff, 1963), 92, 107, 112, 116.

[5] A.C. Reeves, *Newport Lordship 1317–1536* (Ann Arbor, Michigan, 1979), 107.

[6] Yn ôl Dr Dylan Foster Evans (gohebiaeth bersonol), ymddengys fod Dafydd Goch yn ei fedd erbyn 1476. Fel arall, disgwylid gweld ei enw yn y rhestr o bobl a dyngodd lw corporal (S. '*corporal oath*') mewn achos llys parthed dwyn da a gynhaliwyd ym Machen yn y flwyddyn honno, gw. T.B. Pugh, *op.cit.* 92. Y mae'n bosibl, er hynny, ei fod yn rhy fusgrell i gymryd rhan.

[7] GIF 56–7 (cerdd 23), 114–15.

[8] Cyfnod blodau Iorwerth Fynglwyd, yn ôl CLC$^2$ 365, oedd 1485–1527.

[9] Gw. Gwilym Tew: Gw 486–8 (XI) a gw. hefyd 556–8. Heblaw Rhys, crybwyllir enwau Phylib a Thomas hefyd, ond nid Morgan, yn T.B. Pugh, *op.cit.*, gw. y mynegai yno.

[10] Norman F. Ticehurst, *The Mute Swan in England* (London, 1957), 14–15.

Marsh.[11]

Y mae'n amlwg oddi wrth linellau 37–48 y gerdd mai bwyta'r elyrch oedd rheswm Llawdden dros eu cael. Dylid crybwyll hefyd, er hynny, fod cadw elyrch yn gallu bod yn fusnes tra phroffidiol gan gymaint eu pris a lleied y gost o'u magu.[12] Ceir cywyddau i erchi elyrch gan Ddeio ab Ieuan Du,[13] Gruffudd Hiraethog[14] a Syr Dafydd Trefor,[15] a chyfeiria Siôn Cent at yr arfer o gadw elyrch.[16]

1 **cyw** Efallai mai alarch heb gyrraedd ei lawn dwf a olygir yn hytrach nag alarch newydd ei eni, oherwydd, os yr un elyrch a olygir yn llau. 11–14, yr oedd gan y rheini *esgyll mawr* (ll. 13).

**oedd** Gellir ei gystrawennu naill ai fel bf. mewn brawddeg annormal (h.y., 'yr oedd y ddau gyw yn wyau gynt') neu ynteu fel bf. mewn cymal pth. gyda'r rh.pth. *a* yn ddealledig o'i blaen. Os yr ail, ystyr llau. 1–2 fyddai 'gorweddai'r ddau gyw a oedd gynt yn wyau ar ddŵr croyw'; efallai mai hyn sy'n fwyaf tebygol.

**wyau** Cf. ll. 46 *Meibion wyau*.

2 **croywddwr** Fe'i disgrifir llau. 24, 34 fel llyn; cf. hefyd l. 16 *dwfr ir*, ll. 36 'm *mol dŵr nant*.

3 **dau yn unrhodd** Cyfeirir at yr alarch a'r alarches, gw. llau. 15, 19.

9–10 Yr ystyr yw fod Rhys ap Dafydd yn tyfu'n olynydd i'w dad ac yn arweinydd o bwys yng Ngwynllŵg. Y tebyg yw fod y tad wedi marw erbyn adeg canu'r gerdd.

11 **meirch** Cf. GDID 23 (10.32) *Ai halarch, ffriw march mewn ffrwyn*, 24 (10.35) *Deil frest fal march fforestwr*.

**môr** Cf. ll. 13 *Môr esgyll mawr a wisgynt*, ll. 54 *Dŵr hallt a nofid â'r rhain*, ll. 57 *Halen tew ...*, ll. 58 *Haul morwyr ...* Buasai'r elyrch yn nofio yn y môr cyn i Rys ap Dafydd Goch eu rhoi i Lawdden i'w dodi mewn *croywddwr* (ll. 2). Efallai mai yn aber Afon Taf, Caerdydd, neu yn aber Afon Wysg, Casnewydd, y bu hynny. Yr oedd yr alarch a'r alarches a erchodd Deio ab Ieuan Du gan Domas o Drefdraeth hwythau'n gynefin â dŵr hallt a glan y môr, gw. GDID 23 (10.29–30) *Dodwy mae ar dywod môr, / Tomas, dy edn bob tymor*, 24 (10.53–4) *Ym min y môr y mae'n pori, / Mal cywen Noe hen yw hi*, a bwriad Deio, os câi ei ddymuniad, oedd symud yr elyrch i ddŵr croyw, *ib.* 23 (10.23–4) *Prif*

[11] W.R.B. Robinson, *Early Tudor Gwent 1485–1547* (Welshpool, 2002), 33.
[12] *Ib.* 13–14.
[13] GDID 23–5 (cerdd 10).
[14] GGH 312–14 (cerdd 97).
[15] Card 2.114 [= RWM 7], 405–7; Pen 112, 161–4; Wy 1, 128–31.
[16] IGE$^2$ 290 (ll. 32) *Mae'r cadw eleirch? Mae'r meirch mawr?*

*afon yn sôn y sydd / A llyn dwfn yn Llwyndafydd*. Y mae'n amlwg fod rhywbeth ystyrlon iawn i'r ddau fardd yn y gwrthgyferbyniad rhwng bywyd alarch ar ddŵr hallt a'i fywyd ar ddŵr croyw.

12 **i nofio rôi** Dyma ddarlleniad llsgrau. AEGV ac, y mae'n debyg, I. Gellid darllen *o('r) nef a rôi* megis yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. ond ni cheir cystal synnwyr; cf. GGH 313 (97.32–4) *Hael a eirch dau alarch deg, / Cywion ifainc i nofiaw / Yn ei groyw lyn gar ei law*. Gellid darllen *nofio a rôi*, gan gywasgu *nofio a* yn ddeusill er mwyn hyd y ll., ond cyffredin yn y farddoniaeth yw hepgor y rh. pth. ar dro.

13 Cf. GDID 24 (10.65–6) *Ffustian Bendigeidfran gynt / Yw'r esgyll mawr a wisgynt*. Wrth *Môr esgyll* nid math o adenydd a olygir ond eu hadenydd ar y môr.

16 **dwfr ir** Cf. ll. 2n.

19 **mal iyrchell** Cyfeiriad at natur bigog ac ymosodol elyrch; cf. GSCyf 1.40 *A gwg alarchod elyrchedig* a'r defnydd o *iwrch* yn Arfon am ddyn cas, cwerylgar, gw. GPC 2043; WVBD 231.

20 **mor rhyw** *mor yw* a geir yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. a *mor fydd* yn FJLMT, ond nid ar y môr y mae'r elyrch yn nofio mwyach eithr ar ddŵr croyw (gw. ll. 16n). Gellid dadlau bod Llawdden yn cyffelybu llyn (cf. llau. 24, 34) i'r môr, ond haws credu bod y darlleniad *mor yw* yn gamraniad o *mor rhyw* 'mor naturiol', ac felly diwygir.

**ei chynnor a'i chell** Cyfeiriad efallai at nyth yr alarches yn y brwyn.

21 **undwf … dwfr** Gellid hefyd ystyried darlleniad llsgrau. AEGIV *yn ddof ir ân* (G *ant*) *i ddwfr*; cf. GDID 24 (10.57–8) *Adwen y caf edn o'u ced, / Adar dof o dir Dyfed*, *ib.* (10.67–8) *Dof yw'r adar wrth fara; /Diod yr ednod yw'r iâ.*

26 **eithr eu haeliau** Gan fod aeliau alarch yn ddu; cf. ll. 29 *Aeliau mawr fal y meurwys*.

27 **plu hwnnw** Trinnir yr e.ll. *plu* fel e.un.

28 Cynrychiola'r llythyren S wddf yr elyrch a'r llythyren W y ffordd y mae eu hadenydd yn plygu dros eu cyrff. Efallai fod pedwar o bob un am fod y bardd yn meddwl am adlewyrchiad yr adar yn y dŵr. Sylwer y defnyddir ffurfiau g. a b. y rhif. *pedwar* o flaen y llythrennau, efallai er mwyn amrywiaeth; trinnir llythrennau unigol yr wyddor fel eb. fel rheol, gw. e.e., GP *passim*.

29 **meurwys** Gair ansicr ei darddiad a'i ystyr. 'Sylwedd neu wrthrych du' yw cynnig petrus GPC 2438 (a), d.g. *merwys*, lle y cynhwysir yr enghraifft hon a'r un yn 27.45. Yn Richard Morgan a G.G. Evans, *Enwau Lleoedd Buallt a Maesyfed* (Llanrwst, 1993), 31, gofynnir ai 'yr aderyn dyn' yw'r ystyr ynghyswllt yr e. lle Cwm Merwys .

36 **adar Noe** Cf. GDID 24 (10.53–8) *Ym min môr y mae'n pori, / Mal cywen Noe hen yw hi. / Adar a gad o'r dŵr gynt, / Noe hen dug naw ohonynt, / Adwen y caf edn o'u ced, / Adar dof o dir Dyfed.*

37–8 Cf. GDID 24 (10.41–4) *Alarch â'i wddw yn olwyn / I fwrdd iarll arfer ei ddwyn. / Dim wynnach nis dymunwn / Ei roi dan haul, no'r edn hwn.*

39 **siawdel** Fe'i nodir yn EEW 201 d.g. *cawdel*, benthyciad o'r S. *caudel*, *ib.* 106, GPC 442, a gofynnir ai o ffurf yn dechrau ag *ch-* y daw. Un o ystyron *cawdel*, *l.c.*, yw 'gwin a brag wedi eu sbeisio', ystyr a weddai i'r cyd-destun. Ymhellach ar ffurfiau a tharddiad *caudel*, gw. MED d.g.

42 **parch** H.y., y parch *tuag at* yr alarch (oherwydd ei fri fel danteithfwyd).

45–6 **mae'n fawr lladd / Meibion wyau 'mhob neuadd** Yr ystyr yw fod lladd eleirch (*meibion wyau*, a cf. ll. 1) yn beth cyffredin mewn neuaddau lawer.

47 **mal gwyddau** Cf. y disgrifiad o alarch yn GGH 314 (97.73–4) *Dewrgyw flasrwy felysrwydd, / Drud gorff un doriad â gŵydd*; GDID 24 (10.33–4) *Gwddw main, ieir gwyddau Mynyw, / Gwalg y môr, gwegilgam yw*, *ib.* (10.47–8) *Pob trai nofiai hyd Nefyn / Palfau gŵydd yn y pluf gwyn.*

48 **mân siwgr ŷnt** H.y., y mae elyrch yn *flasus* fel siwgr mân.

49–58 Yn y llau. hyn dychwel y bardd i ddisgrifio'r elyrch fel y maent a chyn iddo eu cael.

50 **taselau** Ymddengys fod yr elyrch yn gwisgo taselau am eu gyddfau, efallai er mwyn dynodi pwy oedd eu perchennog.

55–6 Dweud y mae'r bardd fod pob march y mae'n ei weld yn debyg i alarch o ran gwyndra (*papir*, h.y., *lliw* papur); cf. ll. 11 *Eleirch fal meirch ar y môr*.

56 **tebyg alarch** 'Yn debyg i alarch'.

61–6 Y mae'n debygol fod gormodiaith yma; cf. ll. 6; GDID 24 (10.69–70) *Ni roddwn yn Hiraddug, / F'eleirch, er dengmeirch y dug.*

64 **Ieuan** Cyfeiriad gan y bardd at ei enw ei hun; cf. 28.59.

## *27*

Cywydd yw hwn i ofyn am ddau ych coch gan Syr Dafydd Mathau, arglwydd Llandaf, ynghyd â swch (ll. 12) a chwlltr (ll. 14).[1] Yr oedd gan y bardd eisoes bâr o ychen duon a dderbyniasai gan Watgyn ap Tomas o Hergest (llau. 14n, 17–20), a'r tebyg yw mai yn sgil canu cerdd 23 y bu hynny a bod y gerdd hon yn ei dilyn yn amseryddol ac yn perthyn yn agos iddi (gw. hefyd lau. 50n, 51–2n). Wedi i Lawdden dderbyn yr ychen

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 15–18 (VI).

cochion, bydd yn gallu eu cyplysu â'r rhai duon (llau. 27n, 45–6n). Y mae'n debygol mai er mwyn cryfhau ei gais i Ddafydd Mathau am ychen y rhydd y bardd le amlwg i Watgyn ap Tomas (llau. 17–22, 55–6).[2]

Trigai teulu Syr Dafydd yn Llandaf, Radur, a Chastellymynach, sir Forgannwg, a dywedir amdanynt yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*:

> Bu aelodau'r teulu hwn yn dal swyddi stiwardiaid a senesgaliaid yn ystod y 14eg g. dros arglwyddi Seisnig a oedd yn absennol o Gymru; yr oeddent o'r un llinach â Lewisiaid y Van, Caerffili, ac yn deillio, yn ôl achau'r 15fed g. o Gwaethfoed Fawr, Ceredigion. Yr oedd Syr David Mathew [sef Dafydd Mathau] (*fl.* 1428–84), mab i un o bleidwyr Owain Glyndŵr, yn un o ddibynwyr teulu Neville ac yn flaenllaw ym mhlaid y Iorcaid. O Syr David a'i wraig, Gwenllian Herbert, disgynnodd llinachau Llandaf a Radyr, dwy linach y bu cyd-briodi mynych yn eu hanes. Datblygodd dylanwad y llinach yn fawr wedi brwydr maes Bosworth o dan nawdd a swcr Syr Rhys ap Thomas, a briododd Janet Mathew, eithr yr oedd ei ddylanwad yn lleihau ar ôl marw (1557) Syr George Mathew, Radyr, aelod seneddol a siryf.[3]

Dylid ychwanegu mai blynyddoedd Dafydd Mathau, yn ôl Bartrum, ac yn wahanol i'r *Bywgraffiadur*, oedd 1425–94.[4]

Ceir yn nhestun Pen 54, i, o'r gerdd (D) ychydig o wahaniaeth yn nhrefn y llinellau a rhai llinellau ychwanegol hefyd, ond er cynhared y llawysgrif hon wrth y rhai eraill (tua 1480), nid yw'r testun yn un o'r goreuon ac ymddengys mai ffrwyth trosglwyddiad llafar yw'r gwahaniaethau hyn.

Cynnwys llawysgrif Pen 54 hefyd lawer o gerddi yn llawysgrifen eu hawduron,[5] ac y mae Daniel Huws wedi mynegi'r farn y gall y testun o'r cywydd dan sylw fod wedi ei ysgrifennu gan Lawdden.[6] Fodd bynnag, ar y rhagdybiaeth y disgwylid i destun gan fardd o'i waith ei hun fod yn un da, ac yng ngoleuni'r ffaith fod darlleniadau'r testunau eraill yn rhagori ar eiddo hwn, cesglir nad Llawdden a'i cofnododd.

2 **dau Ddafydd** Un yw Syr Dafydd Mathau o Landaf a'r llall yw ei dad yng nghyfraith Dafydd ap Gwilym (gw. ll. 7n). Nid yw'n eglur pam y crybwyllir yr olaf hefyd. Efallai ei fod yn ŵr o gryn bwys. Posibilrwydd arall yw fod Llawdden wedi derbyn rhoddion ganddo o'r blaen ac nad oedd am ei dramgwyddo y tro hwn trwy fynd ar ofyn ei fab yng nghyfraith.

**Mathau** Enwa Llawdden dad Dafydd Mathau er mwyn egluro pwy

[2] Yn llau. 17–22 nid gofyn am ychen dros Watgyn a wneir, *pace* Llawdden, &c.: Gw xix.
[3] ByCy 582. Ar achau'r teulu, gw. hefyd P.C. Bartrum: WG1 'Gwaithfoed' 5.
[4] *L.c.*
[5] Gw. MWM 63, 95–6.
[6] Mewn fersiwn drafft o gatalog llawysgrifau Cymraeg a Chymreig y bu mor garedig â rhoi ei fenthyg.

yw'r naill o'r ddau Ddafydd y cyfeirir atynt.

5 **planc** Fe'i deellir yn llythrennol yma; gthg. ei ystyr yn 18.33n.

6 **Matheias** Cyffelybir Syr Dafydd Mathau i awdur yr Efengyl yn ôl Sant Mathew.

**Mathau ieuanc** Sef Syr Dafydd Mathau.

7 **Gwaladr Dafydd ap Gwilym** Efallai mai'r hyn a olygir yw gwaladr *yn perthyn i* Ddafydd ap Gwilym, sef tad Gwenllïan, gwraig Syr Dafydd Mathau. Hanai tad Dafydd ap Gwilym, sef Gwilym ap Siencyn, o'r Fenni; gw. P.C. Bartrum: WG1 'Godwin' 2, 4.

8 **ag un troed** 'Ar un ochr', sef llinach ei wraig.

**grym** Yr oedd Gwent yn ddiarhebol am wrhydri ei gwŷr, gw. GDC 3.23n.

9 **Godwin** Gw. 18.57n. Yr oedd yn sefydlwr y llinach y perthynai Gwenllïan, gwraig Syr Dafydd Mathau, iddi (gw. P.C. Bartrum: WG1 'Godwin' 1).

**Custennin daid** 'A Chustennin yn gyndad [iddo]'. Gallai'r Custennin hwn fod yn un o dri pherson o fri mawr: Custennin Fawr, mab Cystaint ac Elen, yr ymherodr Cristnogol cyntaf, gw. G 188; Custennin ap Macsen Wledig, gw. WCD 156–7; neu Gustennin Fendigaid, taid y Brenin Arthur yn ôl Sieffre o Fynwy, gw. TYP[3] 318–19; WCD 157–8.

10 **Lle … dugiaid** 'Yr olrheinir [achau] ieirll a dugiaid ohono' (sef *Llwyth Godwin*, ll. 9); cf. 22.23–5 … *a'u dwyn / ... / O Einion Sais ...*

11 **ych mewn rhych** Gw. 23.37n.

12–14 **euraid / … / … aur** Fe'u deellir yn ffigurol yn yr ystyr 'rhagorol'. Dur fyddai ar y swch a'r cwlltwr; fel y dywedir yn ll. 32, byddai'r ychen yn troi'r pridd *â'r dur a'r pren*; gw. hefyd F.G. Payne, *op.cit.* 87.

14 **cwlltr** GPC 640 'llafn neu fath o gyllell haearn neu ddur ar ogwydd o flaen swch aradr i dorri'r gŵys yn rhydd: *coulter*'.

**gwelltor arall** Y mae dau welltor mewn golwg. Diau mai'r un a roddodd Watgyn ap Tomas o Hergest oedd y naill, cf. llau. 17–20. Y llall yw'r un y dymuna Llawdden ei gael yn awr gan Syr Dafydd Mathau. Ar y gwelltor, gw. 23.35n.

15 **Gwgawn** Yr oedd sawl person o'r enw hwn, gw. G 675–6; WCD 324–5. Gan mai bardd oedd Llawdden, efallai mai'r Gwgon mwyaf tebygol yma yw Gwgon Brydydd, bardd a ganodd gyfres o englynion i Lywelyn ab Iorwerth ac a oedd efallai'n hanfod o rywle yng nghanolbarth Cymru, gw. GDB 237–8; GGDT 77. Gellir gofyn, er hynny, pa mor ystyrlon fyddai'r cyfeiriad hwn, ac y mae'n bosibl fod y testun yn llwgr.

16 **ar** Efallai mai 'at, tuag at' a olygir yma (gw. GPC 173 d.g. *ar*[1], 7; GMW 187), ond gan mai 'erchi gwartheg' yw ystyr *gwartheca*, cf. *erfyn*

*ar*, *deisyf ar*.

17–18 **… Watgyn, / Ŵyr Roser …** Sef Watgyn Fychan ap Tomas ap Syr Rhosier o Hergest, gw. cerddi 22, 23.

17 **atgor** Llsgrau. *atkordd (*'llu, mintai', GPC 229), ond fe'i diwygir er mwyn y synnwyr.

18 **ar gwrser gwyn** Cydier wrth *Watgyn / Ŵyr Roser*, nid *a rôi*. Cynyddu urddas Watgyn a wna Llawdden trwy ei gysylltu â chreadur nerthol a hardd fel y rhyfelfarch hwn.

19 **Gwy** Yr oedd Hergest, lle y trigai Watgyn Fychan, ar ochr ogleddol Afon Gwy, gw. 20.2n.

**Sycharth** Lle sydd enwocaf fel un o gartrefi Owain Glyndŵr, a gall fod yn arwyddocaol yn hyn o beth fod tad Syr Dafydd Mathau, Mathau ab Ieuan, yn un o bleidwyr y gwron hwnnw, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

20 **yn llawn carth** H.y., yn goch eu lliw.

23 **ergyd** Gallai olygu arf hyrddiedig, megis saeth, gw. GPC 1233. Yma meddylia'r bardd am ei ddeisyfiad fel peth a hyrddir tua Morgannwg.

24 **ail** Sef Dafydd Mathau (gw. y ll. nesaf); y cyntaf yw Watgyn ap Tomas.

**a dynn ei ran** Cydier wrth l. 26. Efallai y gellid aralleirio'r ymadrodd yn 'mwynhau ei ran (mewn bywyd)'.

25 **blodau blaid** '[Aelod o] dylwyth [y] goreuon'. Gellid hefyd ystyried darlleniad llsgr. E, *blodeu'r blaid*.

27 **llonaid iau** Sef dau ych (coch) yn ychwanegol at y ddau (ddu) sydd ganddo eisoes; cf. llau. 45–6.

29 **o'i fen a fydd** Gwahenir yr ychen oddi wrth y gertwain yr arferant â'i thynnu.

30 **Maelienydd** Gw. 15.32n. Dyma gyfeiriad sy'n dangos mai yma yr oedd Llawdden yn byw pan ganodd y gerdd; cf. 23.63 ac *ib.* n.

31 **dau dwrch dew** Sef dau greadur mawr a nerthol. Ar y treiglad i'r a. *tew*, gw. 16.51n.

**diarchen** 'Dibedol', gw. GPC 949, ffordd arall o ddweud bod yr ychen yn rhai ifainc; cf. GGl$^2$ 61 (XXII.71–2) *Nid eirch dy nai hacnai hen, / Ond erchi un diarchen*.

32 Gw. llau. 12–14n.

33 **dwy dunnell** Trosiad am y ddau ych. Ar ystyr *tunnell*, gw. GPC 3653, 'baril neu gasgen fawr a ddefnyddir i storio hylifau, yn enwedig gwin, cwrw, &c., llestr mawr, cerwyn …'.

34 **dŵr** Nid yw'n eglur pa fath o ddŵr a olygir: afon neu lyn, efallai. Y

mae'n bosibl hefyd fod y testun yn llwgr.

35 **saing** Deellir y rh.pth. *a* o flaen *saing*, sef ffurf 3 un.pres.myn. y f. *sangu*, gw. GPC 3167–8.

39 Y mae'r ll. yn hir o sillaf.

43 **wrth faint Caer-gaint y'u peintiwyd** 'Yn ôl.' Gthg. y ll. nesaf lle y mae i'r ardd. yr ystyr S. '*by*'. Ystyr y ll. yw fod yr anifeiliaid wedi eu peintio / eu lliwio cystal â lle mor fawr a gwych â Chaer-gaint.

Cynghanedd lusg wyrdro deirodl.

44 **pawl** Ymddengys mai ystyr ffigurol sydd yma. Cf. y defnydd o eiriau fel *colofn, post, tŵr*, &c., am gynheiliad / arweinydd cadarn. Efallai mai'r syniad o gadernid sydd flaenaf yma.

45–6 'Y mae pâr o'r ychen cochion (*marwar*) a [phâr o]'r ychen duon (*meurwys*) gyda'i gilydd yn torri cŵys o danunt.'

**meurwys** Gw. 26.29n.

47 **dau** Crybwyllir y ddau arall, yr ychen duon, yn ll. 49.

49 Y mae'r ll. yn hir o sillaf onis cywesgir.

50–2 Cf. 23.1, 39–44.

52 Y mae'r ll. yn hir o sillaf onis cywesgir.

53–4 '[Boed] nawdd i'r rhain (sef Watgyn Fychan a Dafydd Mathau), y ddau a'u rhoes, trwy gân saint Curig ac Idloes.'

54 **owdl Gurig** Dichon mai Emyn Gurig a olygir, gw. 14.58n.

**Idloes** Cf. GIG 137 (XXX.54–5) *Hyn a geisiaf, hoyw negesau, / Nawdd y wirgroes a nawdd Idloes*. Ar Idloes Sant, nawddsant Llanidloes ym Maldwyn, gw. LBS iii, 291.

55–6 Ar arwyddocâd y llau. hyn, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

55 **Bleddyn blaid** Gw. 20.37n.

56 **pais** Yn yr ystyr 'peistur, curas', gw. GPC 2670 (e), cyfeiriad at yr agwedd filwrol ar waith Watgyn yn cadw trefn.

59 **bugelydd** Sef noddwyr Llawdden, Watgyn ap Tomas a Syr Dafydd Mathau; cf. 14.58 lle y cyfeirir at Phylip ap Rhys fel *Bugail gŵr*.

## *28*

Yn y cywydd hwn[1] gofynnir am darw coch gan Risiart ap Siancyn ap Gilbert Twrberfil o Landudwg ym Morgannwg er mwyn magu lloi (llau. 57–62). Yr oedd gwartheg coch yn gyffredin gynt ym Maesyfed a de-ddwyrain

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 18–21 (VII); trafodir ei awduraeth, uchod td. 17.

Cymru.[2]

Disgynnai'r Twrberfiliaid o Payn de Turberville a ddaethai i'r Coety yn sgil y Goncwest Normanaidd ac yr oedd ganddynt amryw o ganghennau mewn llawer o siroedd.[3] Yn ôl Bartrum, perthynai Rhisiart i'r genhedlaeth a anwyd tua 1430 ac yr oedd yn fyw yn 1479.[4] Heblaw'r cywydd hwn, ceir iddo hefyd gywydd gan Wilym Tew[5] ac awdl gan Lewys Glyn Cothi.[6] Ceir nifer o gerddi eraill i ofyn am darw neu i ddiolch am un,[7] a diddorol yw sylwi mor debyg i'w gilydd yw amryw o'r syniadau a'r ymadroddion a geir ynddynt. Ceir tri chwpled yn nhestun y llawysgrif ddiweddar LlGC 13125B (llsgr. f) nas gwelwyd yn yr un o'r testunau eraill. Fe'u nodwyd er diddordeb, ond dichon mai Iolo Morganwg a'u cyfansoddodd.

Y tebyg yw fod y gerdd hon yn perthyn i'r un cyfnod o fywyd Llawdden â cherddi 23 a 27. Ynddynt hwy fe'i gwelir wedi blino ar glera gwlad ac yn ymorol am ychen er mwyn ymgynnal ar ei dyddyn, a hawdd credu mai i'r un perwyl y gofynnodd am darw coch.

1–2 'Byddai Edward a'i filwyr a âi drwy'r tân yn rhoi tarw ar ei darian.' Golygir Edward IV (1442–83, teyrnasodd 1461–9 a 1471–83) ar faes y gad yn cludo tarian a llun o darw arno. Ceir cywydd iddo gan Guto'r Glyn, GGl[2] 157–9 (LIX).

6 **tir yr haf** Sef Morgannwg. Dygir i gof gywydd Gruffudd Llwyd i'r haul ac i Forgannwg, gw. GGLl cerdd 9.

7 **gweais gywydd** Ai'r cywydd hwn a olygir ynteu un blaenorol?

9 **sir** Cf. 5.2n.

10 **Rhisiart** Sef Rhisiart ap Siancyn ap Gilbert o lwyth Twrberfil ym Morgannwg, gwrthrych y gerdd, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Turberville' 2 a'r sylwadau rhagarweiniol uchod.

12 **eilbwrdd i Silbart** 'Bwrdd tebyg i [fwrdd] Silbart', sef Gilbert Twberfil, taid Rhisiart.

13 **Twrberfíl** Fe'i hacennir yma ar y sillaf olaf er mwyn y gynghanedd; gthg. ll. 26 lle y'i hacennir ar y goben.

15 **Lleisoniaid** Yr oedd nain Rhisiart Twrberfil, Catrin, yn ferch i Domas ab Ieuan ap Lleison o Freigan, Morgannwg, gw. P.C. Bartrum: WG1

[2] Gw. F.G. Payne, *Yr Aradr Gymreig* (Caerdydd, 1954), 187.

[3] Gw. ByCy 928–9, TLlM 20, Eirian E. Edwards, 'Cartrefi Noddwyr y Beirdd yn Siroedd Morgannwg a Mynwy', LlCy xiii (1974–81), 200–1.

[4] P.C. Bartrum: WG1 'Turberville' 2. Ymhellach arno, gw. Gwilym Tew: Gw 549–51 *passim*.

[5] *Ib*. 479–81 (IX).

[6] GLGC 237–8 (cerdd 105).

[7] Gw. CGD 231, 232 a'r mynegai d.g. *tarw*. Ymhlith y rhai a gyhoeddwyd gellir crybwyll GDID 36–7 (cerdd 15); GCBM i, cerdd 22; GSC cerddi 18, 32; GSH cerdd 6; DGGD 108–10 (cerdd 30); GIGlF cerdd 12 (Ieuan Llwyd Brydydd). Gw. hefyd F.G. Payne, *op.cit.* 175–9.

'Iestyn' 7.

17 **gown** Ymddengys mai 'amddiffynnwr' neu'r cyffelyb a olygir, ystyr nas nodir yn GPC 1517 nac *ib.* d.g. *gŵn*.

17–20 Ymddengys fod gan Risiart Twrberfil gysylltiadau pwysig neu diroedd ym Mrycheiniog yn ogystal ag ym Morgannwg. Dywedir yn George T. Clark, *Limbus Patrum Morganiæ et Glamorganiæ* (London, 1886), 448, am y gangen o Dwrberfiliaid swydd Dorset a ddaeth i Gymru, 'Their settlement seems to have been in Breconshire, where, towards 1300, the heiress of the main stem married Pauncefote who had Crickhowel … A Welsh line established itself at Coyty in Glamorgan, which was gained by conquest, but their title to which was prudently fortified by a marriage with the Welsh heiress. Here the Turbervilles flourished in considerable local splendour for eight generations …' Gw. hefyd *Burke's Genealogical and Heraldic History of the Landed Gentry*, ed. H. Pirie-Gordon (15th ed., London, 1937), 2299, a'r sylwadau rhagarweiniol uchod, a cf. yr erthygl yn ByCy 928 ar Dwrberfiliaid Crucywel, Brycheiniog.

24 **a fernir** H.y., 'a fernir / ystyrir [yn beth da]'. Byddai *arferir* llsgr. W (cf. *arferv* llsgr. o) hefyd yn rhoi synnwyr boddhaol.

25 '[Y mae] tair gwlad y cawn [ynddynt] ddisgynyddion o'i hiliogaeth.' Ar hepgor yr ardd. rhediadol mewn cymal pth., gw. GMW 66.

**tair gwlad** Brycheiniog a Morgannwg oedd dwy o'r gwledydd hyn, gw. llau. 17–20n; efallai mai Gwent oedd y drydedd.

27 **twrci** Yn ôl GPC 3661 d.g. *twrci*[2], 'epithet am darw', ac ni chynigir tarddiad. Fodd bynnag, gan y ceir y gair *Twrc*, sef brodor o Dwrci, mewn cywyddau gofyn a diolch am deirw fel disgrifiad o'r anifail (e.e. GSC 18.40, 32.36, GSH 6.59), tueddir dyn i ofyn ai cyfuniad yw *twrci* o *twrc* a *ci* (cf. *bawci*, *bolgi*, &c.). Diben galw tarw yn Dwrc fyddai cyffelybu ei dymer i ffyrnigrwydd enwog y Twrc fel ymladdwr.

**rasbi'r Ýsbaen** Am enghreifftiau eraill o'r trawiad hwn, gw. GPC 2975 d.g. *rasbi*.

28 **graen** Math o liw coch; ymhellach, gw. GPC 1522, d.g. *graen*[3] (2).

32 **cod fêl** Sef pwrs y fuwch.

34 Gellid hefyd ystyried darlleniad llsgr. Z *ar noswaith avr yw nessaf* (a cf. llsgrau. SWh).

**yn ei nesaf** 'Yn nesaf ato', gw. GPC 2574 d.g. *nesaf*[1] (b).

36 Yr oedd gwartheg brown neu goch yn nodweddiadol o sir Forgannwg yn y cyfnod (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod), felly sonnir amdanynt fel *lifrai* iddi.

45 **Iddew** Cyfeiriad dilornus; cf. disgrifiad Rhys Cain yntau o darw brych,

DGGD 109 (30.64), *Crefyddwr cryf o Iddew*. Gw. hefyd GSCyf 12.31n.

47 **dyrnau baedd** Cf. y ffordd y sonia Siôn Ceri am *Dyrnau gwadd* y tarw, GSC 18.57.

48 **cwyr diseguryd** Cyfeiriad at ffyrnigrwydd cynhenid y tarw a gyffelybir i danbeidrwydd cannwyll.

50 Cyfeiriad at yr holl loi a genhedlir gan y tarw; cf. DGGD 109 (30.50) ... *tad lloi gant*.

51–3 **Chwibanogl … / … chwiban, / … wich …** Cf. GSC 32.45–6 *Min a gân trwmp mewn gwynt draw, / A'r wich oedd arwach iddaw*; DGGD 110 (30.69–72) *Ail gwich cert, aelgoch y'i caid, / O bai orig heb iraid; / Rhydd fain waedd, rhudd fynyddwas, / A throi ei bwnc weithiau i'r bas*, *ib.* (30.94) *A chronni gwich arw'n ei geg*.

55–6 Diddorol yw'r amrywiad sylweddol a geir yn llsgr. Z yn unig, *vn Anwydav o nodir / ar tonn pann vai'n malv'r tir*. Cf. ei darlleniad ar gyfer ll. 58, *y vann lle mynnwn i vod*.

58 H.y., y mae cwd cerrig y tarw fel maen gwn.

59 **Ieuan** Y bardd ei hun; cf. 26.64n.

60 **tân** Sef yr haul.

61–2 Yn llsgrau. MUcejn dilyn y cwpled hwn l. 42 ond mwy boddhaol ydyw o ran cyd-destun yn dilyn ll. 60 (o ran hwylustod, triniwyd amrywiadau'r llsgrau. hyn fel pe bai'r cwpled yn digwydd yn yr un safle ynddynt hwy ag yn y fan hon).

61 **Cefn-y-llys** Cefn-llys, enw ar gantref a phlwyf yn ne Maelienydd. Yno yr oedd Llanfihangel Cefn-llys a chastell enwog; gw. WATU 38–9, 287; CSF i, 137–40; LGCD 154. Ymddengys mai yn yr ardal hon yr oedd Llawdden yn byw pan archodd y tarw coch (gw. hefyd uchod td. 3).

62 **draig Emrys** Gw. 9.42n.

67–70 Yn y llau. hyn dywed y bardd mai cariad at ei noddwr sy'n ei ysgogi i ofyn am y tarw, nid chwant am ychwaneg na'r hyn y mae eisoes wedi gofyn amdano. Ar y thema hon, a'r defnydd helaeth o'r cyfuniad o'r ddau air *serch* ac *annerch* (llau. 67, 68) ynglŷn â hi, gw. ymhellach CGD 141–2.

## *29*

Cywydd moliant yw hwn i Ieuan Gwyn ap Gwilym Fwyaf o Bryscedwyn ym mhlwyf Llandeilo Tal-y-bont a'i wraig Goleuddydd.[1] Awgryma P.C. Bartrum fod Ieuan Gwyn, a hanai o lwyth Bleddyn ap Maenyrch, wedi ei eni

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 47–51 (XVI).

tua 1370.[2] Ychydig a wyddys amdano, ond y mae'n amlwg oddi wrth linellau 23–30 ei fod (fel cynifer o uchelwyr Cymreig eraill y cyfnod) yn swyddog lleol dan y Goron. Canodd Lewys Glyn Cothi awdl i'w ŵyr Dafydd.[3] Ni chafwyd goleuni yn yr achau ar Oleuddydd. Yn ôl llinellau 49–50, perthynai i *hil Domas*, ond ni wyddys pwy oedd y Tomas hwn, er mai un posibilrwydd fyddai tad yr enwog Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan.[4]

Prif thema'r cywydd hwn yw hiraeth y bardd am Ieuan Gwyn a'i wraig a'i awydd i ymweld â hwy eto ar ôl absenoldeb o dros ddeng mlynedd (ll. 2). Ceir hefyd beth defnydd hunangofiannol. Dywed Llawdden ei fod wedi derbyn tâl ac enwogrwydd gan Ieuan Gwyn o'r blaen a hynny ers ei lencyndod (llau. 7–10, 17–18, 31–4), ac—mewn delwedd gofiadwy—ei fod bellach, megis gleisiad yn cyrchu ei gynefin *i fwrw haint* (ll. 38), yn dychwelyd i hen loches ei lys *I gael dadeni* (ll. 42). Yr oedd Llawdden, gan hynny, yn adnabod Ieuan Gwyn er yn llanc a'r adnabyddiaeth yn un ddofn ac agos. Ar sail hyn, casglodd G.J. Williams, ei fod yn hanu o Ŵyr yn wreiddiol[5] ond ar y posibilrwydd mai ymweld ag Ieuan a Goleuddydd fel prentis a wnaeth Llawdden mewn gwirionedd, gw. tt. 4–5).

Y mae lle i gredu bod y cywydd hwn yn perthyn i gyfnod cynnar Llawdden, oherwydd os canodd Lewys Glyn Cothi (*fl.* 1447–89) i ŵyr Ieuan Gwyn, yna gall mai tua 1420 y canodd Llawdden i'r taid. Byddai hynny'n cyd-fynd hefyd â'r dyddiad tua 1370 a gynigir gan Bartrum ar gyfer adeg geni'r olaf.

4 Yn dilyn ll. 4 ceir yn llsgrau. BF[1] y cwpled ychwanegol *Gwlad ym yw golud ym oedd / Gael einioes yn un o'i glynnoedd*. Fel y dywed G.J. Williams, *Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad* (Llundain, 1926), 90, 'Petai'r cwpled … yn ddilys, buasai gennym le i gredu mai o Ŵyr yr hanoedd Llawdden, ond nis ceir yn y copi sydd yn Peniarth MS. 99.' Nis ceir yn y llsgr. gynnar arall, H, ychwaith (nac yn yr un o'r saith testun arall o'r gerdd). Cf. hefyd sylwadau rhagarweiniol cerdd 28 a'r hyn a ddywedir yno am lsgr. f (= F[1] yma). Gw. hefyd td. 7n26.

**a elwir ym** Â *elwir* gyda *Gwhyr* yn ll. 6. Nid oes angen *ym* er mwyn y synnwyr ond fe'i cyflenwyd er mwyn y mesur a'r gynghanedd.

5 **gwlad, eisoes** Cyfeirir at lau. 4–6 ... *dir* ... / ... / *Gwhyr* ... Yr ergyd yw fod y tir hwn gymaint neu gystal â gwlad.

**clod Asia** Sef clod mawr iawn.

6 **Gwhyr** Ffurf gynharach ar *Gŵyr*, gw. G 676.

11–16 Ar y gwrthgyferbynnu hwn rhwng dwy fro wahanol a'r llawenydd a

[2] P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 34.
[3] GLGC 213–15 (cerdd 94).
[4] Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 32.
[5] G.J. Williams, *Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad* (Llundain, 1926), 90.

deimlir yn yr ail, cf. HCLl 54 (XI.69–74), *Er teced Gwent dan rent rydd, / A Morgannwg mawr gynnydd, / Dal hiraeth 'r wy'n gaeth heb gêl / Diorfod am Blwy Derfel; / O'r lle hwn a'r llu hynod / Llawen fyth ni allwn fod*.

12 **Powys y medd** Cf. 10.57–8 *Cyd bo da cymanfa medd / Gwlad Arwystl a'i gloyw diredd* (yr oedd Arwystli ym Mhowys Wenwynwyn); GLGC 285 (127.35–6) *Gwlad Bowys, mamwys y medd, / yw ei genedl, a Gwynedd*.

16 **y gŵr o lan Llychwr** Sef Ieuan Gwyn (llau. 19–20). Wrth *Llychwr* golygir Afon Llwchwr a red heibio i Landeilo Tal-y-bont lle y trigai Ieuan Gwyn.

18 **er yn fab** Fel y saif, gallai gyfeirio at Ieuan Gwyn neu Lawdden, ond yn gronolegol y mae'n amhosibl mai Ieuan Gwyn a olygir; cf. hefyd l. 32 *er yn herlod bach* lle y cyfeirir at Lawdden.

24 **Llachau** Arwr Arthuraidd, gw. TYP[3] 408–10.

25 **gyrddhawdd** Llsgrau. *gyrddawdd*, ffurf anh. fel y saif ond cymerir bod *h* yn ddealledig er nas dangoswyd. Fe'i deellir yn gyfuniad o'r a. *gwrdd* (cf. llau. 9 *gyrddwawd*, 26 *gyrddgarw*) a *hawdd*—'grymus a hyfryd'. Deellir *gyrddhawdd llyw* yn frawddeg enwol.

**bawdd** GPC 265 'boddiad, soddiad; llif', ond y mae'n anodd gweld priodoldeb yr ystyron hyn yma. Cf. ystyr ffigurol y f. *boddi*, *ib.* 294 'llethu, trechu, tagu, diffodd'. Cynigir, felly, mai 'dinistr' yw ystyr *bawdd* yma a bod Llawdden yn meddwl am Ieuan Gwyn ar faes y gad, cf. llau. 29–30.

27 **dwyn ei hawl** Efallai 'dangos ei awdurdod'. Ni threiglwyd *dwyn* ar ôl y f. *gŵyr*, ac ymddengys mai oherwydd y gynghanedd y bu hyn; ymhellach ar *gŵyr*, gw. Treigladau 210–11.

32 **er yn herlod bach** Y tebyg yw na ddylid deall hyn yn llythrennol; cf. GMBr 3.5–6 *Er yn flwydd fy swydd yw sôn, / Clera a hela haelion*.

33–6 'Yno y cefais, [a minnau ag] enw cymwys, [ac yn] annwyl iawn yn ei lys, wisg [deilwng o] Ifor gan noddwr mawr, [fel y] sonnir amdano, [gwrthrych] clod gwirioneddol.' Ar *Ifor*, gw. 11.51n.

37–8 Ni raid deall y cwpled yn llythrennol gan mai *cyffelybu* ei hun a wna Llawdden i alltud yn dychwelyd i'w briod fro i adnewyddu ei ysbryd.

37 **pab** Gw. 2.27n.

39–40 Â'r ddelwedd o'r gleisiad cf. GLGC 215 (94.69–70) *Yr wyf at Dafydd yn arofyn / fal tad y gleisiad i fôr glaswyn*, 491 (227.31–2) *ac yn noethach y'm gwnaethant / no'r gleisiad yn nofiad nant*.

**blaenuriad** Dyma'r unig enghraifft a nodir yn GPC 282.

43 **arlloes led** 'Helaethrwydd tywallt', cyfeiriad at haelioni Ieuan Gwyn yn darparu gwin yn ei lys.

50 **damasg** GPC 883, 'Defnydd (sidan) patrymog, lliain main a phatrwm gloyw ynddo …'.

54 **diolch** 'Diolch am'. Ar y gystrawen, gw. G 365 (2).

57 **Cadell** Sef Cadell ap Rhodri Mawr, pen Deheubarth, yn ôl pob tebyg; arno, gw. J.E. Lloyd: $HW^3$ 326, G 90. Ond disgynnai Ieuan Gwyn, yn ôl yr achau, o lwyth Bleddyn ap Maenyrch a gysylltir â Brycheiniog.

62 **Caer Gent** Fe'i deellir yn amrywiad ar Gaer-gaint, gw. G 95 a cf. 18.23 *hyd Gaer-gaint*, 27.43 *Wrth faint Caer-gaint y peintiwyd*. (Ceid porthladd o'r enw *Gent* yn nwyrain Fflandrys a oedd yn ganolfan fasnach fawr ar gyfer brethyn a nwyddau eraill yn yr Oesoedd Canol, gw. GDEp 19.2n, ond y mae'n llai tebygol mai'r lle hwnnw a olygir yma.)

63 **yr eurasant** Llsgrau. *y heurasant* ond diwygir er mwyn y synnwyr. Ar yr ymadrodd *euro llaw*, gw. GPC 1257. Gellid deall *heurasant* fel y f. *haeru* (gw. GPC 1807) a *llaw* i olygu 'awdurdod', &c. (gw. *ib.* 2104 (b)) ond ymddengys hyn yn llai tebygol.

66 **Llandeilo** Gw. ll. 46n.

*30*

Dyma'r cyntaf o ddau gywydd ymryson rhwng Hywel Swrdwal a Llawdden.[1] Fe'i golygwyd gan Dr Dylan Foster Evans yn GHS cerdd 18 ac atgynhyrchir ei destun uchod. Ar y cefndir i'r ymryson, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 31.

*31*

Ateb Llawdden yw'r cywydd hwn[2] i gywydd ymryson Hywel Swrdwal (cerdd 30). Fe'i golygwyd gan Dr Dylan Foster Evans yn GHS cerdd 19, ac atgynhyrchir ei destun uchod; gw. GHS am y sylwadau rhagarweiniol a'r nodiadau ar y testun. Yn fyr, yr hyn a symbylodd yr ymryson oedd awydd y ddau fardd i ordderchu rhyw ferch nas enwir. Heriodd Hywel Lawdden i gymryd rhan mewn twrnamaint dychmygol ag ef i'w hennill gan ofyn ar yr un pryd am farch gan Rys ap Dafydd ap Hywel Fain, gŵr o Westun ym mhlwyf Llangynllo (yng nghantref Maelienydd), bellach yn sir Faesyfed. Derbyn Llawdden yr her, ac megis y gofynnodd Hywel am farch gan Rys ap Dafydd, felly hefyd gofyn yntau am farch gan Wilym Fychan (llau. 19–20) a hefyd gyfrwy gan Siôn Fychan (llau. 29–30). Efallai mai Gwilym Fychan o'r Peutun, aelod o deulu a noddai Hywel Swrdwal yn hael, ac mai Siôn ab Ieuan ap Llywelyn Crugeryr, a anwyd tua 1427 ac a oedd eto'n fyw yn

[1] Fe'i golygwyd yn Llawdden, &c.: Gw 88–90 (XXVIII).

[2] Fe'i golygwyd yn *ib.* 90–3 (XXIX).

1507/8, yw'r gwŷr y cyfeiria Llawdden atynt.

*32*

Dyma'r cyntaf o ddau gywydd ymryson rhwng Ieuan ap Hywel Swrdwal a Llawdden.[1] Fe'i golygwyd gan Dr Dylan Foster Evans yn GHS cerdd 31 ac atgynhyrchir ei destun uchod. Ar gefndir yr ymryson, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 33. Cynnwys y cywydd hwn wybodaeth fywgraffyddol am Lawdden, oherwydd ymddengys ei fod yn byw ym Machynlleth ar y pryd (ll. 40) ac mai Annes oedd enw ei wraig (ll. 38 a gw. uchod td. 3).

*33*

Ateb Llawdden yw'r cywydd hwn i gywydd ymryson Ieuan ap Hywel Swrdwal (cerdd 32).[2] Fe'i golygwyd gan Dr Dylan Foster Evans yn GHS cerdd 32, ac atgynhyrchir ei destun uchod; gw. hefyd GHS am y sylwadau rhagarweiniol a'r nodiadau ar y testun. Yn fyr, yr oedd Llawdden wedi anfon Ieuan yn llatai drosto at ferch o Raeadr. Ni ddangosodd y ferch ddim diddordeb ynddo am ei fod yn ŵr priod, ond dangosodd ddiddordeb yn Ieuan, ac ildiodd yntau'n ddigon parod gan ei gyfiawnhau ei hun trwy ddweud mai gwell hynny na phe bai gwraig Llawdden wedi cael gwybod iddo odinebu. Yn ei ateb, digia Llawdden wrth Ieuan, gan ei gyhuddo o dwyll a'i atgoffa bod ganddo yntau wraig a theulu. Sylweddola, er hynny, mor ffôl ydoedd yn gofyn i Ieuan fod yn llatai yn y lle cyntaf, a dywed mai llatai benywaidd y bydd yn ei anfon y tro nesaf.

*34*

Ceir yr ymryson hwn mewn casgliad o englynion y ceir y copi cynharaf ohono yn llawysgrif LlGC 3039B [= Mos 131], 1605–12 (llawysgrif E).[3] Dywedir mewn rhaglithiau eu canu *yn halaeth Dinevor o vlaen Grvffvth ap Nicolas yr hwnn oedd yn roi barn am y gadair arian*, cyfeiriad at yr eisteddfod bwysig a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin tua 1451. Yn ddiweddarach, yn llawysgrif Pen 267, 1635–41 (llawysgrif G), disgrifiwyd amgylchiadau penodol yr ymryson rhwng Llawdden a Dafydd ab Edmwnd gan John Jones, Gellilyfdy, mewn hanes a gafodd *Am weithredoedd Dafydd ap Edmwnt bardd cadeiriog ar ei ffordd yn myned i'r eisteddfod y Nghaer vyrddin garr bron Gruffudd ap Nicolas*:[4]

[1] Fe'i golygwyd yn *ib.* 93–6 (XXX).
[2] Fe'i golygwyd yn *ib.* 97–9 (XXXI).
[3] Ar berthynas rhan Llawdden o'r ymryson â cherdd 36, gw. sylwadau rhagarweiniol y gerdd honno.
[4] G.J. Williams, 'Eisteddfod Caerfyrddin', *Y Llenor*, v (1926), 96. Ceir yr hanes yn Pen 267, 53–64.

> A phan ddodes Gruffudd ap Nicolas y prydyddion i ganu am y gadair y parodd ef ir penceirddiaid ganu y pedwar messur ar hugain, ar gywydd deuair: ag a ganodd rhai un ar bymtheg or messurau, eraill ddeunaw, eraill ugain, a Llowdden ni chanodd ond tri ar hugain gann dybied na fedrae Dafydd ap Edmwnt ganu y pedwar messur ar hugain : ond ef a ganodd Dafydd ap Edmwnt y pedwar messur ar hugain ar gywydd deuair, ag am hynny y barnwyd y gadair iddo ef. Sef y dyfod Llowdden yna: Baw diawl i mi na chanasswn hwynt ag yn eu medrud cystal a thithau.
> Ag yna gwedi ynil[l] o Ddafydd ap Edmwnt y gadair ai barnu iddo ar ganu cywydd deuair y dyfod Llowdden mae gobyr a roesse Dafydd [i] Gruffudd ap Nicolas am y gadair ag nid ar ganu yr enillasai ef y hi, ag a ganodd fal hynn. [*fe ddilyn englyn Llawdden*] . . . ag yna sef a orug Dafydd ap Edmwnt ar yr englyn sydd yn dilyn gann ddywedud [*fe ddilyn ateb Dafydd*] …[1]

Fel y dywed G.J. Williams, y mae hanes John Jones am yr eisteddfod yn 'ddiddorol oherwydd ei fod yn cynnwys y traddodiadau a ffynnai ymhlith y beirdd yn y wlad honno am a wnaeth Dafydd yn Eisteddfod Caerfyrddin', a'r tebyg yw ei fod yn wir yn ei hanfod.[2] Nid yw'n eglur, er hynny, beth a olygir wrth sôn am y beirdd yn canu'r pedwar mesur ar hugain *ar gywydd deuair* gan fod y cywydd deuair (hirion) ei hun yn un o'r pedwar mesur ar hugain. Ond pa fodd bynnag, y mae'r rhan o'r hanesyn sy'n sôn am yr anghydfod rhwng Llawdden a Dafydd ab Edmwnd yn ddiddorol o safbwynt bywgraffyddol.

Yn groes i'r disgwyl, y mae englyn Llawdden yn amherffaith ei chrefft: yn y paladr nid yw'r gair cyrch *gŵr* yn cytseinio ond yn rhannol â *ganu* ac y mae'r bedwaredd linell yn fyr o ddeusill. Gellid gwella'r darlleniadau hyn trwy ddarllen *gwanun* ac *E'n dwyn* yn unol â darlleniadau llawysgrif C, ond gwna hynny'r llinell gyntaf yn rhy hir o sillaf a deil yr olaf i fod yn rhy fyr o sillaf. Nid yw englyn Dafydd ab Edmwnd yn ddi-fai ychwaith gan fod y gynghanedd yn y drydedd linell yn anghyflawn. Efallai fod pwyntiau fel y rhain yn arwydd o drosglwyddiad mwy llafar nag ysgrifenedig yn hynt yr ymryson byr hwn.

1 **Guto** Sef Gruffudd ap Nicolas.

**catair** GPC 375, 2 (a), '… yng nghyfundrefn y beirdd y tlws arian ar lun cadair a wisgid ar yr ysgwydd chwith yn arwydd fod bardd naill ai'n bencerdd neu'n athro cerdd dafod neu gerdd dant …' Gw. hefyd GGl[2] 332 a cf. 36.1.

[1] G.J. Williams, *art.cit.* 100.

[2] Felly hefyd hanesyn arall gan John Jones, gw. R. Iestyn Daniel, 'Rhaglith i gerdd gan Sypyn Cyfeiliog', *Dwned,* i (1995), 55–65.

Cynghanedd groes wreiddgoll.

2 **tôn deuair** Yn GPC 3520 rhoddir yn betrus yr ystyr '*tune accentuating the two rhyming words in each line of a song*' a 1716–18 yw dyddiad yr enghraifft a nodir yno. Fodd bynnag, y mae'n bosibl mai'r hyn a wna Llawdden yma yw cyffelybu cerdd Dafydd ab Edmwnd (yn ddirmygus) i gywydd deuair fyrion, mesur poblogaidd a chyntefig ar gân; ymhellach, gw. Meredydd Evans, 'Deuair Fyrion ac Alawon', *Canu Gwerin*, viii (1985), 16–31.

4 **dwy bunt** Y llwgrwobr y dywedodd Llawdden fod Dafydd ab Edmwnd wedi ei rhoi i Ruffudd ap Nicolas i sicrhau ennill y gadair.

5 **deuair** Cf. ll. 2 *tôn deuair*.

**ac un** Ymddengys mai'r hyn a olygir yw'r mesur a ganodd Dafydd ab Edmwnd a oedd yn ychwanegol at y tri mesur ar hugain a ganasai Llawdden o'i flaen (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod).

7 **oeddyn'** Sef y pedwar mesur ar hugain a ganodd Dafydd ab Edmwnd.

*35*

Esbonnir cefndir y penillion hyn gan y darn rhyddiaith sy'n dilyn y cyntaf. Boed yr hanesyn yn wir neu beidio, gallai'r hyn a ddisgrifir fod wedi digwydd yn hawdd yng nghymdeithas y cyfnod (neu mewn unrhyw gyfnod arall, o ran hynny).[1] Y tebyg yw mai Maredudd Fychan ap Maredudd ap Hywel ap Phylib Dorddu o Arddfaelog, y canodd Llawdden gerdd 16 iddo (cf. hefyd gerdd 19), yw'r *Maredudd o Faelienydd* y cyfeirir ato fel tad y plentyn.

Y mae'r pennill cyntaf yn ddau gwpled o gywydd a'r ail yn englyn unodl union.

1 **abad** Dealler yn ffigurol am rywun o bwys.

6–7 **wrthaw / … arnaw** Cyfeirir at *gair* yn ll. 8.

8 **F'â gair** Llsgr. *wa gair*. Diwygir er mwyn gwella'r synnwyr a'r gynghanedd.

[1] Cf., e.e., y stori am San Ffraid a genhedlwyd gan ei thad priod, Dubtach, trwy ei hoff wasanaethferch, Brotseach. Pan wybu gwraig Dubtach, gorfododd ef i werthu'r ferch i dderwydd; gw. LBS i, 268–9.

## *36*

Englyn dychan yw'r gerdd hon i ddyn a ddisgrifir fel *poswrn 'r Hangmeriaid* (ll. 2) a oedd wedi derbyn y *gadair* (ll. 1) am *gydaid—o bys* (ll. 1). Y tebyg yw mai Dafydd ab Edmwnd oedd y gŵr hwn: yr oedd yn fychan o gorff,[1] perthynai i deulu'r Hanmeriaid,[2] derbyniasai'r gadair yn Eisteddfod Caerfyrddin ac yr oedd ei gerdd yn ddi-werth yng ngolwg Llawdden.[3] Os felly, y mae cysylltiad agos rhwng y gerdd hon a'r ymryson a fu rhwng Llawdden a Dafydd ab Edmwnd (cerdd 34), a gellid bod wedi ei chanu tua'r un adeg â'r ymryson neu'n ddiweddarach.

1 **cadair** Gw. 34.1n.

**cydaid—o bys** Sef, fe ymddengys, cerdd ddi-werth.

2 **poswrn** 1546 yw dyddiad yr enghraifft gyntaf o'r gair a restrir yn GPC 2862.

**[yr] Hangmeriaid** Teulu enwog o uchelwyr yn sir y Fflint, gw. ByCy 315.

3 **oni elly o** Llsgr. *oni elli di o*, darlleniad sy'n rhoi wyth sillaf i'r ll. a chynghanedd wan, felly diwygir. Y tebyg yw mai ymyrraeth destunol yw *di* y llsgr. gan rywun a oedd yn chwilio am air i odli ag *elli*. Cywasger *oni elly* yn deirsill.

4 **einion** Efallai mai un o'r tlysau y gellid eu hennill gan fardd a olygir. Cf. GO 323 (LXIII.17–18) *Dwyn o nerth, doe, yn i ôl / Dynion, avr a wnai yn wrol* (marwnad Guto'r Glyn) a'r amrywiadau *ib.* 326: gellid darllen *einion* yn lle *Dynion* (a dileu'r coma) gan roi cynghanedd gywir a gwell synnwyr. Efallai, felly, mai ergyd llau. 3–4 yw, os na allai Dafydd ab Edmwnd ennill (tlws llai) yr einion, nad oedd, yn sicr, yn haeddu'r gadair.

[1] Gw., e.e., GGl$^{2}$ 189 (LXXI.23–4, 56), 208 (LXXIX.1–2).
[2] CLC$^{2}$ 155.
[3] Gw. cerdd 34.

# *Geirfa*

**abad** 35.1n
**abl** medrus, galluog 12.55
**achos** oherwydd 5.46
**adain** 17.32, 24.31; *ll.* **adanedd** 8.52
**adar** 8.30n, 26.36n
**Adar Llwch Gwin** 8.28n
**adeilo** creu *3 un.grff.myn.* **adeilawdd** 5.18
**adnabod** medru, bod yn hyddysg yn, cyfarwyddo â *1 un.pres.myn.* **adwaen** 12.25n; *3 un.pres.myn.* **edwyn** 26.43
**adolwyn** gwrthrych dymuniad 3.5
**adwy** bwlch 19.33n
**adwyth** drwg, dinistr 14.56
**addfain** main, lluniaidd 5.60
**addwyn** gwych 22.24n
**ael** ael, bro, cymdogaeth 5.14, 12.48, 19.13, 32.44; *ll.* **aeliau** 26.26n, 29
**aelod** 1.30n, 68, 12.16, 16.24
**aer** brwydr, rhyfel 9.1n, 29.29
**aerwy** coler am wddf anifail 25.9
**aesawr** tarian 17.39
**afal** caill 28.49
**afon** 6.47n
**angel** 8.11n
**anghymen** ffôl, ffyrnig 16.33
**ail** ail, tebyg; yr ail 10.11, 11.54n, 14.71, 16.15n, 23.31, 27.24, 30.35, 31.19, 33.28
**allor** 13.17n
**allt** 4.33n
**allwydd** 3.13n
**amaeth** arddwr, llafuriwr, hwsmon 23.43
**Ámen** 13.41
**amherchi** amharchu, difrïo 3.25
**amhybyr** gwan, eiddil 1.40
**amws** march 22.52
**anael** crintachlyd, angharedig 11.15, 16.17–18n
**anal** anadl 23.49
**anfon** hebrwng, mynd â 10.1n, 35
**anheddu** byw, trigo 7.58; *amhrs.pres.myn.* **anheddir** 4.9
**anhunangarw** heb hun neu lonydd i garw 19.40
**anianol** cynhenid, cryf 15.1
**annedd** trigfan, preswylfod 12.64, 16.36
**annefod** anhrefn, anllywodraeth 10.53
**annel** wedi ei blygu 26.18
**annerch** cyfarch; cyfarchiad 2.15, 3.23, 4.37, 5.3, 10.32, 16.55, 28.67–70n, 33.29
**annod** 1.74n
**annwyd** 22.31n
**anrhaith** trysor, hyfrydwch, anwylyd 5.59, 8.62, 31.27
**anrheg** 8.61n
**anrhegu** *2 un.amhff.myn.* **anrhegud** 14.26
**anserchog** diserch, anhynaws 14.67
**ansodd** saig, gwledd 19.50
**antem** 2.48–9n
**anudon** 21.35–6n
**ar** 12.20n, 13.16n, 27.16n (a gw. **hyd ar**)

**arab** hyfryd, llon 8.29
**araul** disglair, hyfryd 8.46
**archaf** gw. **erchi**
**archangel** 8.38n
**ar dasg** mewn llafur 1.39
**ardd**, **ardda'** gw. **aredig**
**arddelw** arddel, honni 11.10
**aredig** 23.1; *1 un.pres.myn.* **arddaf** 23.32*; 3 un.pres.myn.* **ardd** 23.6, 39; *amhrs.pres.dib.* **erddir** 23.3
**arfaeth** pwrpas 7.29
**ar fyr ddefod** 1.53n
**arglwydd** 20.9n, 23.53–4n
**arglwyddwaed** un neu rai o waed arglwyddaidd 13.50
**ar gymorth** 10.6n
**ar helw** ym meddiant 17.60
**arial** dewrder 29.9
**arian** 6.65n, 17.31n, 20.6n
**ar … lawn redeg** yn gyflym 12.18
**arlwy** gwledd, ymborth 13.38
**arlloes** 29.43n
**arofyn** ceisio 12.41, 29.1
**ar ôl** 23.17n
**arth** arwr, gwron 11.45n, 28.59
**ar wahodd** wedi ei wahodd 13.1
**arwain** 10.48n
**arwydd** arwydd, argoel, rhyfeddod, gwyrth 31.26, 33.8; *ll.* **arwyddion** 2.24, 3.47, 32.7
**asen** ysgyfaint 22.36n
**asgell** pluen, adain *ll.* **esgyll** 8.8, 42, 46, 52, 26.13n
**at** 1.53n, 22.23n
**atgor** 27.17n
**aur** aur, cyfoeth; rhagorol, gwych 7.52n, 9.34n, 11.8n, 16.14n, 21.31–2n, 27.12–14n (gw. hefyd **mwg aur**)
***ave Maria*** 2.17–22n
**awdur** 15.21–2n
**awenydd** awen 1.33, 34
**awr** 2.34n (a gw. **trydedd awr**)
**awr chweched** 2.31
**awr nawn** 2.33n, 35
**baban** 14.62n
**baedd** 28.47n
**bagl** ffon 14.58; *ll.* **baglau** 26.30
**bai** 6.41n
**bar** amddiffynnydd 29.25
**barcutan** barcud bychan *ll.* **barcutanod** 13.31n, 15.44
**barn** cyfiawnder 15.40n
**barnu** *amhrs.pres.myn.* **bernir** 28.24n
**barwn** uchelwr, arglwydd 10.19n, 13.39n, 20.35n, 23.68, 27.21
**baslard** dagr neu gleddyf byr a wisgid wrth y gwregys 16.52
**bawdd** 29.25n
**bedrod** bedd 1.72
**bedw** 4.40n
**ber** coes *ll.* **berrau** 24.42
**bêr** cigwain 7.14
**bid** gw. **bod**
**bileines** 4.2n
**blaen** tarddell afon neu nant, blaenffrwyth, blaenoriaeth; blaen, prif 3.38, 4.5, 8.23, 59, 10.18, 12.26, 14.28, 15.11, 16.49, 19.32, 20.30, 31.13; *ll.* **blaenau** 13.32
**blaenuriad** arweinydd, pennaeth 29.39–40n
**blaidd** gwron 23.9
**blas** 5.37n
**blawd** blodau 7.52n
**blawr** llwyd, llwydlas 17.40
**bliant** lliain main 14.28n
**blin** 3.38n
**blodau** y goreuon 12.10, 59, 13.20, 27.25n, 28.14
**blodeuo** peri ffyniant i *2 un.grff.myn.* **blodeuaist** 12.14
**blwng** (achos) dicter, tramgwydd 3.14

**bod** *1 un.amhff.myn.* **oeddwn** 9.47n*; 3 un.amhff.myn.* **oedd** 26.1n*; 3 un.amhff.myn.* **bai** 2.43n; *3 un.grff.myn.* **bu** 3.38n; *2 un.pres.dib.* **bych** 12.5, 8n, 15.40, 16.34, 23.23, 56; *3 un.grch.* **bid** 4.40, 15.5, 6, 23.40, 26.7, 32.24
**boly** bol, canol 7.22, 26.36
**boned** penwisg 17.58
**Bord Gron** 14.64n
**bord dâl** bwrdd uchel 24.18
**bradog** bradwrus 1.79n
**braich** adain, cangen 24.24n, 40; *ll.* **breichiau** 27.38
**braisg** helaeth 5.8
**brân** 13.31n
**brat ais** 7.38n
**brau** bregus, tyner, cyflym 5.45, 24.29, 25.4
**brawd** brawd, cyfaill 2.14n, 14.6n, 22n, 20.8n, 22.24n; *ll.* **broder** 7.13
**brëyr** uchelwr, pennaeth 10.42; *ll.* **brehyriaid** 12.62
**brenhinllwyth** tylwyth brenhinol 11.12n
**brenin** *ll.* **brenhinedd** 1.47n
**breuddwyd** 8.19n
**breuddwydiaw** 17.49n
**brib** llwgrwobrwy 25.15
**brig** crib ton, uchafbwynt, hiliogaeth 4.4, 5.8n, 10.16, 30, 47–8n, 15.9, 18.43, 23.1, 24.43, 27.50
**briwaed** gwaed o glwyf 1.12
**bro** 10.41–2n
**broder** gw. **brawd**
**brodiad** brwydwaith 22.19
**brodio** addurno â gwaith nodwydd ac edau, *amhrs.grff.myn.* **brodiwyd** 7.19
**brodir** 12.33n
**brodiwr** 8.33n
**Brytaniad** Cymro *ll.* **Brytaniaid** 8.34n, 15.35, 25.5
**Brytwn** Cymro 25.21
**bual** ych gwyllt, byffalo 28.43
**buarth** 14.62n
**buchedd** cymeriad 11.4
**bugail** bugail, amddiffynnwr 14.58, 23.15; *ll.* **bugelydd** 23.63n, 27.59n
**bugunad** rhuad 28.54
**bwa annel** bwa plyg 26.18
**bwa croes** croesfwa 24.25
**bwcled** tarian gron 5.49–58n, 58, 14.59n
**bwn** 24.44–9n, 50
**bwrdd tâl** bwrdd uchel 8.57
**bwriad** 10.44n, 14.64n
**bwrw** taflu, taro, dodi, gosod, anfon, gorchfygu 7.12n, 13.29n, 15.28, 24.1n; *amhrs.amhff.dib.* **bwrid** 20.8
**byd** 5.43n, 20.53n
**byr** 24.24n, 48n (a gw. **ar fyr ddefod**)
**byrdwn** 28.58n
**bys** 21.31–2n
**byw** bywiog, llawn bywyd 2.12, 6.6
**cad** gw. **cael**
**cadair** 34.1n, 36.1n
**cadr** hardd, cryf 13.43
**cadw** gofalu am, meddiannu, perchenogi, amddiffyn 16.11, 18.46, 20.14, 16, 23.14, 26.4; *3 un.grch.* **cadwed** 27.55
**cae** tlws, garlant, gwregys 4.39, 5.11, 30
**cae Esyllt** 5.4n
**cael** 10.49n, 22.36n*;* *1 un.pres.myn.* **caf** 22.58n; *2 un.pres.myn.* **cai** 19.52, 22.11; *amhrs.pres.myn.* **cair** 1.19;

*2 un.amhff.myn./dib.* **caud** 19.55; *3 un.grff.myn.* **cafas** 11.51n, 33.27; *amhrs.grff.myn.* **cad** 1.7, 23.16, 44; *3 ll.amhff.myn./dib.* **caen'** 20.27–8n
**caer** 8.2n, 9.9–10n, 18.19n
**caeth** caethiwed, gŵr caeth 3.6; *ll.* **caith** 7.4n, 12.45n
**cangen** merch ieuanc 3.18
**cain** 3.21n
**cainc** cerdd, cainc 6.1, 23.27; *ll.* **ceinciau** 14.9 (a gw. **gan gainc**)
**cais** 7.6n
**caith** gw. **caeth**
**calennig** rhodd 2.1, 5.7, 9
**callor** crochan 17.41
**camlod** 8.48n
**camp** camp, rhagoriaeth 6.33, 36n; *ll.* **campau** 6.16, 32, 12.26, 15.5
**camweddol** 22.13n
**can** 22.1–2n
**caniad** 11.58n
**canllaw** cynheiliad 12.46
**cannaid** 9.7n
**cannwr** cant o wŷr 13.16, 16.30
**cannwyll** merch ragoraf 12.44
**canplas** can llys, can neuadd 27.26
**canu**[1] *bf. 3 un.pres.myn.* **cân** 24.30n
**canu**[2] *e.* cerdd *ll.* **canuau** 18.51
**capanwyn** â chap gwyn 17.48
**capel** 8.47n, 16.7n
**capten** pennaeth 5.49–58n
**câr** cyfaill, cyfaill annwyl 14.46; *b.* **cares** 8.2, 29.47
**carchar** 16.39–40n
**carcharawr** 23.51n
**cardod** elusen 1.57, 64
**carennydd** perthynas, cyfeillgarwch 18.38
**carl** taeog, un garw ac anfoesgar 28.35
**carreg** *ll.* **cerrig** 19.44n
**carw** pendefig, arweinydd, noddwr 10.5, 13.27, 14.7, 22.1–2n, 24.14; *ll.* **ceirw** 23.9
**cas** gelyn, un sy'n casáu neu a gaseir 4.30
**casged** math o helm ysgafn agored 17.23
**caterwen** pendefig cadarn *ll.* **cateri** 13.51
**cathl** cân 21.21
**caud** gw. **cael**
**cawell** bol, brest 26.23
**cawg** dysgl, powlen 17.59
**cawrnaid** naid anferth 22.33
**ced** rhodd, anrheg 10.2, 19.11, 29.11
**cefn** 11.10n
**ceiliog** gŵr dewr 6.68
**ceiliog coed** 24.44–9n
**cell** cell, storfa, cuddfan, cwch [gwenyn] 15.59n, 22.36, 23.41–2n, 26.20n; *ll.* **celliau** 13.28n
**cenau** mab 15.10
**cenedl** tylwyth 10.28, 21.35–6n
**cerdd** 16.14n
**cerddgar** yn caru cerdd neu brydyddiaeth 13.24, 29.26
**cerddor** cantor, prydydd 10.31, 14.45
**cerddwriaeth** cerddoriaeth, prydyddiaeth 12.28
**cig** 22.51n, 25.35
**cigwain** crafanc *ll.* **cigweiniau** 24.30
**cildant** 11.27
**cired** haelioni 5.21n **ciried** 29.3
**ciwdod** torf, llu 1.52
**claer** disglair, gwych 12.42
**claredwin** gwin *claret* 26.43
**clau** cywir, amlwg 5.55
**cledd** 6.40n

**cleddau** 1.61n
**clêr** beirdd 12.38, 14.10
**clera** teithio i ganu mawl 23.30
**clo** 5.49–58, 22.17n
**cloc** 14.66n
**cloch** 2.45n*; ll.* **clych** 11.60, 24.29n
**clod** 5.58n, 8.37n
**clod Asia** 29.5n
**clog**[1] clogyn, mantell 8.22, 25, 21.16n, 24.34n
**clog**[2] craig 18.27n
**clud** cyfoeth 26.63
**clych** gw. **cloch**
**cnithio** plicio 24.28
**cnwc** ergyd 17.23
**coch** 7.4n
**cod** ceillgwd, aelodau rhywiol 28.58
**cod fêl** 28.32n
**coed** 20.65–6n
**coel** arwydd 13.53n
**coetgae** lle wedi ei gau i mewn â gwrych 20.22n
**cof** meddwl, bryd 1.36, 6.21n, 29.14, 33.30
**cofl** llwyth 5.8
**cog** cogydd 7.17
**colon** cynheiliad 6.74n
**colli** 25.51n; *1 un.grff.myn.* **collais** 7.6n
**conffesawr** 15.19–20n
**côr** cangell 1.18n, 2.7, 23.44n
**coredwr** daliwr pysgod mewn cored, gofalwr cored *ll.* **coredwyr** 19.33
**corff** 11.1–2n
**cornwyn** â chyrn gwyn 26.32
**cost** darpariaeth 10.8, 26.8
**costio** cynnal 22.18
**crair** crair, rhywbeth wedi ei addurno'n wych 14.32, 17.29n; *ll.* **creiriau** 5.35
**craith** 16.26n
**crechwen** chwerthin croch 6.7
**cred** cred, ymddiriedaeth, addewid 2.20n, 4.43, 10.37n
**crëyr** 24.44–9n
**crib** 17.53n
**cribddeiliwr** ysbeiliwr *ll.* **cribddeilwyr** 25.52
**crindir** tir cras 23.3
**croendwn** toredig ei wyneb 23.3
**croes** croes, carn cleddyf 6.42n, 14.32, 21.39n
**crog** croesbren, crogbren, delw o'r Crist croeshoeliedig 1.1–3n, 2.60, 14.35n
**crogen** 17.54n
**croyw** 6.7n
**croywddwr** 26.2n
**crwn** tew, llyfndew, cydnerth 7.17, 45, 20.36, 22.42, 24.34n
**crys** 1.19n
**cun** arglwydd; aruchel 1.21, 12.2n
**cusan** 5.51n
**cwferd** gorchudd 17.19
**cwlwm** 6.74n
**cwlltr** 27.14n
**cwmpas** tir cylchynol 18.37, 45
**cwnstabl** ceidwad castell 5.49–58n
**cwr** *ll.* **cyrroedd** 18.58n
**cwrel** 21.31–2n, 28.31
**cwrser** rhyfelfarch 27.18
**cwrt** llys, plasty 21.38, 22.2n
**cwyn** cwyn, cais 3.6n, 22.20
**cwyr** cannwyll 1.17n, 21.30n, 38, 24.9n, 28.48n
**cyd** cyhyd 24.17n
**cydaid** llond cwd 36.1n
**cydwaed** câr 19.53
**cyfanheddrwydd** diddanwch, llawenydd 6.71
**cyfarch** deisyf mewn gweddi 2.55
**cyfiawn** priodol, cymwys 29.33

**cyflawn** 22.51n
**cyfled** cyn lleted â 17.59
**cyfliw** un o'r un lliw â 5.8n
**cyfnewidiaw** cyfnewid 17.14
**cyfnod** amser penodol 3.21n
**cyfodiad** 17.10n
**cyff** tras, llinach 11.43
**cyffelyb** 10.52n
**cyffroi** symud *3 un.pres.myn.* **cyffry** 7.35
**cyhyd** 13.52n
**cylch** *e.* cwmpas, parth; o amgylch 17.26n; *ll.* **cylchoedd** 1.6, 10
**cymanfa** cynullfan, cyrchfa pobl 10.57
**cymen** celfydd, doeth 4.20
**cymheirio** bod i'w gymharu â *3 un.pres.dib.* **cymheirio** 27.22
**Cymry** 18.48
**cynnal** *3 un.pres.myn.* **cynnail** 12.24
**cynnar** buan, amserol (ei gynnyrch) 15.8, 18.5
**cynnen** ymladdfa, brwydr 6.60
**cynnig** 13.16n
**cynnil** call, doeth 5.60
**cynnor** drws 26.20n
**cynydd** heliwr, ceidwad cŵn hela 7.16, 19.19
**cynnydd** lles, bendith, ffyniant 1.21, 9.57n
**cyrchu** 21.39n
**cyrroedd** gw. **cwr**
**cysegr** lle sanctaidd 1.70
**cysgu** *3 un.pres.myn.* **cwsg** 18.15n, 21.12n
**cyw** 26.1n
**cyweirio** trin *amhrs.grff.myn.* **cyweiriwyd** 22.45
**cywir** onest 25.15
**cywydd** 11.59–61n, 17.27n; *ll.* **cywyddau** 2.47–8n
**chwaer** 21.39n
**chwannog** awyddus, parod 2.9n, 18.3
**chwebuw** chwe buwch 28.52
**chwech** 2.15–16n
**chweched** 2.31n
**chwedl** 10.46n
**chwedyn** chwech o ddynion 4.36
**chwellys** 20.49n
**chwiban** 28.51–3n
**chwibanogl** 28.51–3n
**da** 5.34n
**dadeni** adfywio 29.42
**dadlau** cyfarfod 13.3
**daearol** 20.53n
**dail** 22.47n
**damasg** 29.50n
**dan** 8.63n
**dan sêl** yn y dirgel 11.59
**darfod** digwydd *3 un.grff.myn.* **deryw** 26.25
**darllen** *1 ll.pres.myn.* **darllëwn** 20.19n
**daroganwr** mab darogan 15.33n
**darpar** darpariaeth 15.8
**das** cruglwyth 28.48
**dau** 21.52n, 22.21n, 27.2n; *b.* **dwy** 17.9n, 44n, 20.31n, 27.33n, 33.4n
**dau elyn** 2.32n
**dau lanw** 1.2n
**dawn** rhodd, bendith, cynneddf, talent, un â chyneddfau neu allu godidog 3.8, 15.8, 14, 18.4, 19.1, 22.22; *ll.* **doniau** 14.20n
**deall** 14.73n
**deau** iawn 3.10
**defod** modd 25.39n (a gw. **ar fyr ddefod**)
**deffro** cyffroi 27.39
**deg** 18.49n
**deheuwlad** gwlad ddeheuol 10.4n
**deifr** gw. **dŵr**

**deiliadaeth** 17.9n
**deiryd** perthyn *3 un.pres.myn.* **deiryd** 11.14
**delw** 14.35n
**derwen** gwron, rhyfelwr cadarn 9.46, 24.39
**derwgoed** 11.25n
**deryw** gw. **darfod**
**deuair** 34.2n, 5n, 7
**deudal** dau dâl, tâl mawr 19.51
**deudir** dau dir 28.19
**deufab** dau fab 13.47, 21.51n
**deufaich** dau lwyth 6.11
**deufin** ac iddo ddau fin 5.49–58n
**deugar** dau berthynas 17.13n
**deugyff** dwy linach 9.27
**deuliw** 5.28n
**deulu** 16.63n
**deurudd** wyneb, gwedd 8.29
**deuwedd** 4.47n
**dewin** daroganwr 18.53
**dewr** *ll.* **dewrion** 6.61–2n
**dialu** 5.28n
**diarchen** 27.31n
**dibech** di-fai, perffaith 2.16
**diblyg** union, didwyll 12.55
**didlawd** dibrin, di-ball 19.53
**diddan** dymunol, hyfryd 14.77
**dieiddil** cadarn, cryf 29.49
**difilain** mwyn, tyner 11.17
**difro** alltud 29.37
**diffrwyth** di-werth 13.19
**dig** chwerw, llidiog 14.57
**digri'** hyfryd, dymunol 8.39
**dilys** gwir, diffuant 13.3n
**dioerfyw** 19.7n
**diolch** 29.54n
**dirper** *3 un.amhff.myn.* **dirperai** 5.23n
**diryfedd** naturiol 29.52
**diseguryd** prysur 28.48n
**diwair** pur, glân 4.22
**diwall** helaeth 7.35
**diwedd** 1.79n
**diwywfraint** cadarn ei ragorfraint 29.37
**diymgais** didaro 4.33n
**do** 5.30n
**dod** *3 un.grch.* **deled** 13.3n
**dôl** *ll.* **dolau** 22.47n
***dom'nus*** 2.17–22n
**dori** bod o ddiddordeb neu bwys i *3 un.pres.myn.* **tawr** 12.51
**dragwn** gwron 9.45
**draig** 9.37n, 42n, 28.62
**draw** 10.35n
**dros** am, yn gyfnewid am 24.10, **tros** 26.66
**drud** gwerthfawr 7.26
**drutgall** ffyrnig a hirben 20.57
**drwodd** 20.2n
**drwy** dros 10.35n
**drych** 23.23n
**du** 15.5n, 10n
**dug** 15.60
**durew** rhew du 4.29
**duw Llun** dydd Llun 21.2, 3
**dwbled** crysbais, is-siaced ledr 7.20n, 52, 31.12
**dweud** *amhrs.pres.myn.* **dywedir** 29.35–6n; *3 un.grff.myn.* **dywod** 1.66 **dywad** 18.53 **dywawd** 29.19
**dwfr swyn** 25.41–2n
**dŵr** dŵr, afon 22.46n **dwfr** 25.38n, 26.16n, 21n; *ll.* **deifr** 18.12n
**dwrn** 24.23n, 39
**dwn** gwineuddu, cochddu, brown 24.2
**dwrn** 24.23n, 39n, *ll.* **dyrnau** 28.47n
**dwyblaid** dau dylwyth 18.31n
**dwyddol** dwy ddôl 23.5
**dwyfron** mynwes 18.12
**dwyffriw** dau wyneb, dau dalcen 27.39

**dwyiaith** 23.66n
**dwylaw** dwylo (am draed alarch), gofal, awdurdod, 13.48, 26.53
**dwylys** 20.47n, 21.24
**dwyn** dwyn, cludo, gwisgo, olrhain, geni, cynhyrchu 6.21n, 22.23, 28.50, 29.27n; *3 un.pres.myn.* **dwg** 14.46n, 17.43n; *amhrs.pres.myn.* **dygir** 27.10n
**dyblu** *amhrs.grff.myn.* **dyblwyd** 22.45n
**Dydd Brawd** 1.79
**dyfal** diwyd, gweithgar 19.2
**dylyu** teilyngu *3 un.pres.myn.* **dyly** 10.64, 20.27
**dyn** 3.8n (a gw. **rhag dyn**)
**dynionda** pobl fonheddig 11.55
**dyrchafu** codi *3 un.pres.myn.* **dyrchaif** 8.24
**dyrnaid** nifer fechan 8.54n
**dyrnfedd** mesur lled llaw (pedair modfedd) 22.41
**dywad, dywawd** gw. **dweud**
**Dywllun** dydd Llun 34.6
**edling** aer y Goron 25.21–2n
**edn** aderyn 4.9, 8.16, 9.32, 17.12n, 23.27, 24.41, 27.24
**edwyn** gw. **adnabod**
**eddestr** march, ebol 9.51
**egin** gwehelyth, disgynyddion 9.17–18n, 20.18
**egori** agor 28.53
**egwyd** S. '*fetlock*' *ll.* **egwydydd** 22.48
**ei** 5.51n, 8.37n, 63n
**eigion** dyfnder 6.52
**eilbwrdd** 28.12n
**eiliw** lliw 5.32
**eilon** carw, hydd 7.62n, 10.3, 16.53, 28.42
**eilun** cyffelybrwydd, copi 14.66
**eilwaith** 23.56n
**einion** 36.4n
**eirch** gw. **erchi**
**eirchiad** deisyfwr 8.35*; ll.* **eirchiaid** 9.24, 19.10
**eiry** eira 3.34, 19.36
**eisoes** fodd bynnag 29.5
**eithr** 26.26n
**elawr** 2.29n
**emys** march 10.6, 11.66, 20.59, 30.17
**enllyn** peth amheuthun 14.61
**ennill** *3 un.grch.* **'nilled** 10.12n
**ennyn** peri disgleirio 28.9
**enw** 10.65n (a gw. **henw**)
**enwi** 3.19n (a gw. **henwi**)
**er** gw. **er ys**
**erchi** gofyn *1 un.pres.myn.* **archaf** 8.37, 24.19*; 3 un.pres.myn.* **eirch** 9.26n, 26.6, 40*; 1 un.amhff. myn./dib.* **archwn** 23.10; *2 un.pres.dib.* **erchych** 19.54n*; 3 un.grch.* **arched** 26.61
**erchwyn** noddwr, cynheiliad 24.19
**erchwys** haid o gŵn hela, milgwn 19.10
**erddir** gw. **aredig**
**erddrym** rhagorol, nerthol 29.21
**eres** hynod 5.10
**erfai** rhagorol, di-fai 8.3
**ergyd** 27.23n
**eryr** arwr, gwron, arweinydd 10.23, 15.46, 20.1, 22.4, 24.23, 27.21
**er ys** ers 20.9
**esgair** coes 8.41, 16.11, 19
**esgob** 8.40n*; ll.* **esgyb** 19.28n
**esgyll** gw. **asgell**
**euraid** 20.62n, 27.12–14n
**eurdlws** tlws neu addurn o aur 14.60
**eurdonnen** 7.61n
**eurgael** 15.23n

**eurgryf** ardderchog o rymus 1.27
**eurlliw** 20.8n
**euro** cyflenwi ag aur, anrhyd-eddu, urddo, urddo'n farchog, enwogi 9.38, 56, 14.49, 28.38; *1 un.amhff.myn. /dib.* **eurwn** 6.1; *amhrs.grff.myn.* **eurwyd** 5.47; *3 ll.grff.myn.* **eurasant** 29.63n
**eurych** gof aur neu arian 17.31
**ewybr** 13.28n
**ewyllys** dymuniad 12.5, 24.4n
**ewyn** 4.47n
**ewythr** 17.16
**fenswn** cig carw 19.50
**fernagl** 5.61n
**fiswrn** blaen symudol helm a ddiogelai'r wyneb 17.39n
**fry** 13.1n, 18.28n, 22.22n
**ffaling** 7.47n
**ffawd** llwyddiant 12.4
**ffeiriadu** gweini ar 25.48
**ffens** amddiffyn 7.30
**ffesant** 24.44–9n
**ffin**[1] 18.44n
**ffin**[2] dirwy, cosb 25.47
**ffiol** *ll.* **ffiolau** 14.2
**fflamgwyr** tors 14.37
**ffodiog** ffodus, yn argoeli'n dda 12.3
**ffon** ffon, gwaywffon 6.70n, 20.42; *ll.* **ffyn** 21.30n
**ffonnod** ergyd â ffon 1.67n, 25.47
**ffridd** coetir, coedwig 7.34
**ffrisio** cedenu, cyrlio *amhrs.grff.myn.* **ffrisiwyd** 28.30
**ffriw** wynepryd, gwedd 10.22
**ffyrf** cadarn, praff 21.45; *cmhr.* **ffyrfach** 7.29
**gadael** caniatáu, ystyried *3 un.pres.myn.* **gad** 7.50, 15.2, 36, 20.11, 29.17; *2 ll.pres.myn.* **gedwch** 23.18n; *3 un.grff.myn.* **gadodd** 21.35–6n
**gafael** meistrolaeth, cynheiliad 10.43n, 12.57 **gafel** 24.37n
**gafwy** bywiog, brwd 16.38n
**gair** enwogrwydd, y Gair ganedig (am Grist) 14.3, 16; *ll.* **geiriau** 1.30n, 2.15–16n
**galw** galw, dwyn i gof 6.22; *3 un.pres.myn.* **geilw** 6.69n; *amhrs.pres.myn.* **gelwir** 29.4n
**gallu** *2 un.pres.myn.* **gelly** 36.3n
**gallu help** *3 un.amhff.myn.* **gallai help** 25.12n
**gan** 16.12n
**gan dant** i gyfeiliant tannau 14.49, 17.27
**gan gainc** i gyfeiliant tôn 28.8
**gan mwyaf** 4.14n
**garbron** gerbron 6.73
**gardd** gwinllan 20.33n
**garir** hirgoes 9.49
**garllaw** 1.76n
**gart** 25.25n
**garw** *ll.* **geirw** 6.51n
**gau** celwydd 4.31
**gedwch** gw. **gadael**
**geilwad** 23.43n
**geir** ger 18.17
**geirw**[1] gw. **garw**
**geirw**[2] dŵr crych, ewyn 4.5
**geirwir** 13.21n
**gelyn** 2.32n
**gellwng** gollwng 3.14; *3 un.pres.myn.* **ellwng** 12.21n
**genwair** gwaywffon 24.27
**gewyn** *ll.* **gïau** 16.25
**girad** chwerw, poenus 3.31
**gitwn** baner, pennwn 17.32
**glaif** picell, gwaywffon 9.46
**glan** 29.16; *ll.* **glennydd** 7.2
**glân** 1.57–8n
**gleisiad** eog ifanc, campwr 14.4n, 17.20, 29.39–40n
**glennydd** gw. **glan**

**gloywddoeth** disglair a doeth 29.48
**gloywfain** disglair a main 3.37
**glwys** hardd 8.27
**gobeithiol** y gobeithir amdano 2.58
**godidowgloyw** gwych a disglair 14.52
**gofeg** ymadrodd 2.17n
**gofyn** deisyf ar, holi ynghylch 2.55, 16.60
**gogylch** cwmpas 14.35
**golchi** *3 un.amhff.myn./dib.* **golchai** 1.9–11n; *3 ll.amhff.myn.* **golchyn'** 1.9–11n
**goleuferch** merch ddisglair 5.3
**goleugain** disglair a phrydferth 11.54
**golwg** 17.44
**gordderchu** caru, ymgydio 8.24
**gordderchwr** carwr, cymar 8.17
**goreudeg** tra phrydferth, godidog 12.31, 14.30
**goreuraid** rhagorwych 12.43
**goreuro** anrhydeddu, enwogi *1 un.pres.myn.* **goreuraf** 9.68
**gorfod** gorchfygu *3 un.pres.myn. gydag ystyr brff.* **goryw** 3.31
**gorffennwr** cyflawnwr, perffeithiwr 12.1
**gorhendad** hendaid 10.62n
**goris** o dan, islaw 3.42
**gormodd** gormod 14.69
**goroen** lliw, tegwch 3.1, 8
**goroff** gwych, canmoladwy 12.7n, 14.5
**goror** ardal 3.34, 4.5, 6.51n
**gorwedd** *3 ll.amhff.myn.* **gorweddynt** 26.2
**gorwlad** gwlad gyffiniol, rhanbarth 13.38
**gorwydd**[1] march 9.53n, 60, 67
**gorwydd**[2] llethr, llethr goediog, coedwig 9.68n, 19.25
**gorwyn** disglair *cmhr.* **gorwynnach** 19.36
**gorwyr** disgynnydd 24.16
**goryw** gw. **gorfod**
**gosawg** milwr dewr 15.45 **gosog** 24.37n
**gosber** 2.51n
**gosgedd** golwg, ymddangosiad, dull 28.29
**gosod** *2 un.pres.dib.* **gosotych** 1.26
**gown** mantell, amddiffynnwr 28.17n, 30
**graen** 28.28n
**graid** brwydr 28.63
**gras** 25.37n
***gratia*** 2.17–22n, 19n
**grisiant** crisial 17.28
**gro** 8.63n
**groeso** croeso 29.47
**grwn** 23.36n
**grym** grymus, nerthol 1.30, 27.8
**gwaed** gwaedoliaeth 25.36
**gwaetháu** niweidio, drygu 25.54
**gwaisg** disglair, hardd 28.7
**gwaith** gwaith, gweithred, brwydr 8.28n, 15.27n, 46, 23.18n, 50n
**gwaladr** arglwydd, tywysog 12.6, 27.7, 29.30
**gwalch** gwron 9.20n, 10.24, 15.30n, 28.14
**gwallt** mwng, plu 22.32, 24.26
**gwan** *ll.* **gweiniaid** 16.46n
**gwân** trywaniad 29.29
**gwaneg** ton 17.5
**gwar** 22.34n
**gwardain** gwarcheidwad, amddiffynnydd 29.27
**gwared** gwaredigaeth 1.1–3n, 5.21n
**gwaredawl** sy'n gwaredu 29.28
**gwart** gosgordd, adran o fyddin, nawdd 9.36n, 20.58, 28.11

**gwartheca** erchi gwartheg 27.16
**gwarwyn** a chanddo war gwyn 25.11
**gwasgod** noddwr, mantell 1.44n **gwasgawd** 29.3
**Gwasgŵyn** 9.66n
**gwau** gwau, llunio 17.35n, 26.25
**gwawd** cân, cerdd 23.46, 29.10, 20, 36
**gwawdair** gair o gân neu o gerdd 29.31
**gwawr** arglwydd, arglwyddes 8.4, 21.12, 29.23
**gwayw** gwaywffon 9.14, 50, 61, 15.46, 61, 16.25, 27, 18.57, 22.1, 24.17, 29.29, 31.49
**gwaywrudd** coch ei waywffon 19.15
**gwedy** 23.14n
**gwedd** gwedd, ymddangosiad 6.49
**gweddill** 7.54n
**gweddw** 8.17n
**gweiniaid** gw. **gwan**
**gweld** *3 un.pres.myn.* **gwŷl** 4.30, 14.65, 17.43, 18.20, 20.18; *amhrs.pres.myn.* **gwelir** 11.1–2n; *1 un.amhff.myn.* **gwelwn** 14.33n; *3 ll.amhff.myn.* **gwelynt** 4.25
**gweli** briw, clwyf 1.9, 16.24
**gwely** 1.46, 21.8n
**gwelltor** 23.35n, 27.14n
**gwen** gw. **gwyn**
**gwendeg** prydferth 8.2
**gwenith** dynion da 17.7
**Gwennwys** 9.37n, 59n, 15.37n
**gwerin** pobl, llu 9.9
**gwestwr** gwestai, ymwelydd *ll.* **gwestwyr** 26.8
**gweunblu** plu'r gweunydd, sidan y waun 3.44
**gwëus** gwefus 5.48
**gwialen** cal 28.49
**gwich** 28.51–3n
**gwindir** tir lle y cynhyrchir gwin 20.20
**gwineulwyd** llwytgoch, brown 8.16
**gwinwydd** gwinwydd, tylwyth bonheddig 6.30, 22.43n
**gwirdda** eiddo personol cyfreithiol 13.36
**gwirgrog** croesbren dilys 1.27
**gwirio** tystio *1 un.amhff.myn./dib.* **gwiriwn** 4.41
**gwirion** pur 2.35, 3.41, 15.62, 21.31
**gwisgaw** 8.60n
**gwisgwen** ac arno wisg wen 1.44
**gwiw** gwych 28.59
**gwiwfawr** rhagorol 3.2
**gwiwloyw** gwych a disglair 29.15
**gwiwne** lliw prydferth, prydferthwch 14.39
**gwiwrym** godidog o rymus 19.15, 29.3
**gwlad** 8.35n, 17.9n, 18.4n, 28.25n, 29.5n
**gwladwr** cydwladwr 25.43
**gwlad y wledd** 8.35n
**gwledd** 1.47, 8.35n
**gwlith** gw. **rhif gwlith**
**gwn** gw. **maen gwn**
**gwneud** *3 un.myn.pres.* **gwna** 6.70n, 8.51–2n; *3 un.grff.myn.* **gwnaeth** 10.47–8n
**gŵr** 4.30n, 10.45n, 16.39n, 20.14, 29.16n; *ll.* **gwŷr** 25.57n
**gwraidd** cyff, gwehelyth 18.35, 20.65–6n
**gwraig** 21.39n
**gwrantu** sicrhau *amhrs.grff.myn.* **gwrantwyd** 22.21
**gwrdd** gwrol, cadarn, gwych 24.12, 29.9, 19, 34.7
**gwreiddyn** bonedd, gwehelyth

9.19, 15.13n
**gwreigdda** gwraig dda, gwraig fonheddig 11.52n
**gwrm** tywyll, du 5.14
**gwryd** 12.55n
**gwyal** 8.58n
**gwybod** *3 un.pres.myn.* **gŵyr** 8.64n, 19.13–16n; *2 un.amhff.myn.* **gwypud** 14.23 (gw. **od gwn**)
**gwydr** 22.48n, 23.16n
**gwydrin** gloyw, disglair 8.27
**gŵydd** *ll.* **gwyddau** 26.47n
**gwŷdd** pren, coed, llinach, tras, pobl o dras 1.31n, 2.29n, 4.4, 18.19n, 22.47n, 28.14
**gwŷl**[1] gw. **gweld**
**gŵyl**[2] 7.12n, 11.59–61n, 60n, 16.6n
**gŵyl Fair** 7.12n
**gwyn** 1.19n, 18.56, 20.10n, 14n, 24.15n, 25.35–6n; *ll.* **gwynion** 20.30n
**gwynias** gwyn gan dân 9.37n
**gwyrda** uchelwyr, pendefigion 18.34, 21.52, 27.16
**gwyrdd** dillad gwyrdd 29.10
**gwyry** morwyn, santes 2.62, **gwyry'** 12.61n
**gwystl** 1.57–8n
**gylfinir** 24.44–9n
**gynner** 9.13n
**gynt** 18.2n
**gyrddgarw** grymus a gerwin 29.26
**gyrddhawdd** 29.25n
**gyrddwawd** barddoniaeth wych 29.9
**gyrru** *2 un.grch.* **gyr** 16.28n
**gyrrwr** porthmon *ll.* **gyrwyr** 25.9
**haearn** 22.46n
**hael** un hael, un bonheddig 7.17, 14.42, 13.6, 16.31, 30.14; *ll.* **haelion** 8.64
**haelwych** hael a gwych, haelionus 11.43, 24.53
**haeru** mynnu *1 un.pres.myn.* **haeraf** 12.39
**haf** haf, yn yr haf 4.13, 7.50, 20.29 (a gw. **tir yr haf**)
**hafog** llanastr dirfawr, anrheithiad 13.30, 25.53
**hanfod** disgyn o, bod *2 un.pres.myn.* **henwyd** 23.54; *1 ll.pres.myn.* **henym** 1.54
**harddgamp** rhagorol ei rinwedd 13.24
**harddlun** hardd ei llun 3.23
**harnais** 20.10n
**hau** 18.29n
**haul** haul, merch hardd 4.3n, 8.63n, 16.67
**hawddfyd** 8.1n
**hawl** cais, achos cyfreithiol, awdurdod 15.49, 29.27n; *ll.* **holion** 25.16
**heb** 1.14n
**heb gêl** yn agored 22.55
**hed** het 8.51n, 17.59
**heilio** darparu *2 un.amhff.myn.* **heilud**
**heinyf** 11.31n
**heldir** tir hela 10.41–2
**helm** 16.20n
**helmog** yn gwisgo helm 12.46, 17.62
**help** 15.49n, 24.58n (a gw. **gallu help**)
**helynt** cwrs, hynt 11.23, 14.5
**hen** hen; hen ŵr 20.14n, 22.4n
**henaint** 18.24n, 21.6n
**henawdur** hynafgwr 23.61
**hendad** 18.60n
**henw** enwogrwydd 9.54, 11.31
**henwi** enwi, crybwyll 3.19, 17.61, 23.59

**henym, henyw** gw. **hanfod**
**hepil** 11.9n
**herlod** bachgennyn 29.32n
**herwr** *ll.* **herwyr** 22.6n
**herwriaeth** 10.47–8n
**hesgoed** 24.43n
**heulblaid** tras ddisglair 12.43
**hil** 14.42n
**hilio** 8.64n
**hir** hir, tal 10.41, 47–8n, 24.55; *cmhr.* **hwy** 13.39n
**hiroed** oediad hir 12.39
**hobel** 23.26n
**hoedl** oes, bywyd 13.60
**hoen** lliw, pryd a gwedd 3.3, 34, 44
**hoffi** hoffi, canmol 14.68
**holion** gw. **hawl**
**honsel** rhodd, ernes 20.61
***hora prima*** 2.28n
**hoyw** hardd, gwych 5.20n, 6.9, 14.51, 32.2
**hoywfron** hardd ei fryniau 6.49n
**hoywledd** gwledd wych 14.23
**hoywlwys** harddwych 12.7n
**hual** 22.46n
**hud** 22.43n
**hug** mantell, clogyn 7.32
**hun** cwsg 21.12n
**hwlont** math o liain 26.57
**hwn** 5.38n, 6.21n, 7.38n, 8.45n, **hon** 5.34n, 10.4n*; ll.* **hyn** 2.20n, 23n, 6.72n
**hwnnw** 26.27n
**hwy** gw. **hir**
**hwy** 19.27n
**hwyaden** *ll.* **hwyaid** 24.44–9n
**hwyr** annhebygol 5.19, 29.22
**hyd** hyd at 18.23
**hyd ar** hyd at 18.52n, 29.4
**hydref** 23.24n
**hydd** 7.4n, 14.42n; *ll.* **hyddod** 10.56n (a gw. **oed yr hydd**)
**hyddawn** haelionus 14.75
**hyddgen** croen hydd 7.24, 61
**hyfryd** 8.1n
**hyloywawr** arglwyddes ardderchog 12.47
**hylwydd** ffyniannus 25.40
**hynaf** 1.55n
**hynt** cyrch 14.34
**hy-wedd** dof, hydrin 22.27
**i**[1] *y llythyren* 20.56n
**i**[2] *2 ll.* **ywch** 12.65, 18.26, 23.64
**iach**[1] gw. **yn iach i**
**iach**[2] ach *ll.* **iachau** 11.24, 48
**iad** pen 17.19, 35, 47, 28.53
**iaith** iaith, dysg, pobl 16.38n, 21.47–8n, 23.55, 65, 25.55
**i am** oddi am 7.27
**iarll** 7.8n, 18.59n, 20.8n, 25n, 22.4n, 23.53–4n, 24.59n*; ll.* **ieirll** 20.67n
**iau** 27.27n
**iawn** cymwys, gweddus, priodol; cyfiawnder, cyfraith 10.47n, 12.10, 14.7, 16, 22.10, 25
**iawnbost** cynheiliad cywir 10.7
**iawnrent** da ei rodd 29.61
**iawnwin** gwin da, o win da 29.7
**Iddew** 1.67n, 28.45n
**iddi** gw. **i**[2]
**iefanc** 7.63n
**ielant** 12.44n
**i gyd** ynghyd 27.46
**imp** disgynnydd, mab, hil 6.13–14n, 10.18, 13.57, 20.30
**impio** peri ffynnu *amhrs.pres.myn.* **impir** 15.9
**impyn** disgynnydd, hil, gwehelyth 6.15, 16, 11.21
**insel** sêl 5.33
**iôn** arglwydd 10.12
**ir** 26.16n
**islaw** 24.7n
**isod** 2.52n

**iwrch** math o garw bychan 7.23, 26.61
**iyrchell** iwrch benyw, iyrches 7.23, 26.19n
**lamp** 13.23n
**lifrai** gwisg unffurf swyddogol 28.36n
**lifreifardd** 5.6n
**lili** 13.23n
***limbo patrum*** 2.53–4n
**lwfer** gorchudd 17.21
**L** *y llythyren* 17.44n
**lladd** 26.45–6n
**lladdiad** lladdwr 22.5n
**llafasu** beiddio, rhyfygu *3 un.myn.pres.* **llefys** 3.27, 37
**llain** 21.29n
**llall** 7.12n
**llanw** 9.5n (a gw. **dau lanw**)
**llath** disgynnydd 12.54
**llathaid** llathen 14.55
**llathrud** 21.5n
**llaw** awdurdod, rheolaeth 11.7, 26.9
**llawnlloer** lleuad lawn 26.22
**llawnwaith** ymdrech fawr 2.47
**llawrodd** anrheg 13.14
**lle** 22.11–12n (a gw. **llei**)
**lled** 29.43n (a gw. **llydan**)
**llei** lle y 1.7, 18, 75, 76, 6.20
**lleian** *ll.* **lleianod** 1.32n
**lleidraidd** 8.27n
**lle isod, y** 2.52n
**llef** 5.57n
**llefys** gw. **llafasu**
**lles** 5.40n
**llew** llew (herodrol), gwron 8.61n, 9.1n, 15.10n, 18.56, 23.13
**llid** 5.28n
**llifaid** awchlym 14.55n
**llin** S. '*flax*' 19.32
**llinon** gwaywffon 9.50
**llith** 7.12n
**lliw** 19.44n
**lliwio** edliw, dannod *amhrs.pres.myn.* **lliwir** 4.44
**llochi** anwylo, llochesu *amhrs.grff.myn.* **lloched** 29.44
**lloer** lloer, merch brydferth 5.28n, 13.14, 16.64, 21.23
**llofft** 1.4n
**llonaid** 27.27n
**llu** 18.20n
**Llu Du** 16.41n
**llugorn** un disglair *ll.* **llugyrn** 29.65
**llunio** *1 un.pres.myn.* **lluniaf** 2.47–8n; *amhrs.grff.myn.* **lluniwyd** 7.53–4n
**lluwch** lluchiad eira 26.24
**lluyddwr** milwr, ymladdwr 9.58
**llwyd** penllwyd, duwiol, sanctaidd 5.54n, 6.48n, 8.15, 22.4
**llwyddferch** merch ffyniannus 5.60
**llwyn** teulu, hiliogaeth 20.26
**llwyrblaid** 14.43n
**llwyth** 14.55n
**llychanwen** 1.17n
**llydan** helaeth 1.5; *cmhr.* **lled** 28.66, 29.64
**llyfr** 1.15n
**llyfr Ofydd** 5.6n
**llygad** arweinydd 26.10
**llyna** 25.20n
**llys** 16.15n
**llyswen** 22.44n
**llywiawdr** llywodraethwr 18.22
**llywydd** arglwydd 9.3
**m** *y llythyren* 20.56n
**mab** 9.28–30n, 10.14n, 51n, 20.13n, 29.18n; *ll.* **maib** 6.6, 63, 13.41 **meibion** 11.45n, 26.45–6n
**mach** 3.10n
**maddau** ymadael â, hepgor 4.36,

16.13
**maddeuant** 1.66n
**mael** *ll.* **maelawr** 18.2n
**maels** arfwisg o ddolennau metel 24.35n
**maen** *ll.* **main** 6.5n, 11.67, 17.34n
**maen gwn** pelen gwn 6.18n, 9.48, 25.34
**magu** magu, gofalu am, ymgeleddu 7.62n*; 3 un.pres.myn.* **mag** 27.4
**magwyr** mur 35.8
**Mai** 4.14n, 8.30n
**maib** gw. **mab**
**mail** 17.55n
**main** gw. **maen**
**mainc** bainc, sedd barnwr 7.63, 25.27
**mal** gw. **fel**
**mâl**[1] arian; llathriad, gloyw 12.67, 18.2
**mâl**[2] bag, cwd 23.35
**mamaeth** gwraig sy'n meithrin plentyn gwraig arall, mam 2.12n
**manachliw** lliw mynach 19.38n
**manblu** plu mân 8.43, 26.49
**manffris** ffris mân, ceden 7.28
**manod** eira mân 5.32
**mant** genau 5.39
**manwallt** gwallt mân 4.34
**march** *ll.* **meirch** 26.11n
**marchog** *ll.* **marchogion** 18.49n
**margain** bargen, cytundeb 15.31n
**marmor** 21.15n
**marwar** marwor 27.45
**masarn** 14.2
**mau** yn eiddo i fi 29.18, 55
**mawl** 5.58n
**mawlgerdd** cerdd fawl 19.20
**mawlwawd** cerdd fawl 5.42
**mawr** 10.39n
**mawrair** gair o bwys 2.25
**mawrdda** daioni mawr, golud mawr 10.2
**mawrwych** gwych iawn, ardderchog 21.42
**mawrwyn** mawr a gwych, mawr ei ragoriaeth 20.21
**mechnïaeth** 8.32n
**medd**[1] 8.51–2n, 29.12n
**?medd**[2] 1.36n
**meddu** bod ag awdurdod dros, meddiannu *2 un.pres.myn.* **meddy** 19.13–16n*;* *3 un.pres.myn.* **medd** 20.32
**meddyliaid** 2.29–30; *3 un.grch.* **meddylied** 2.32n
**meinael** main ei (h)ael 5.13
**meirch** gw. **march**
**melyn** 9.64n
**men** 27.29n
**menestr** darparwr 7.53
**mêr** 23.52n
**merch** 11.68, 14.53n, 21.22n, 41n, 42n; *ll.* **merched** 8.51–2n
**metel** natur 15.3
**meudwy** 7.41n
**meurwys** 26.29n, 27.45
**mewn** 27.11n
**mi** 2.47–8n
**milgi** 25.11n, 35–6n
**min** gwefus, ymyl, ffin 3.33, 5.47, 6.18n
**minws** gwefus neu enau bach 5.22
**mis haf** 20.29n
**modd** cyflwr 2.61
**moes** *bf.* rho, dyro *3 un.grch.* **moesed** 24.51
**mold** ffurf, llun 5.42n, 8.45
**moled** 8.45n
**mor** 26.20n
**môr** 23.50n, 26.11n, 13n
**morach** llawen 29.31
**mordwy** ymchwydd 9.15
**muchudd** du fel y muchudd 12.48
**mud** 16.55n

**mur** amddiffynnwr, gwarchodwr 29.23, 31
**mursen** hoeden *ll.* **mursennod** 2.6
**mwg aur** goleugylch 21.58
**mwnwgl** gwddf, corn gwddf 16.23n
**mwstrin** cynulliad o filwyr 9.22
**mwy** 5.40n, 23.33n
**mwyn** budd, cyfoeth 11.64n
**mwynen** merch ieuanc fwyn 5.25, 27
**mydrwr** mydryddwr, bardd *ll.* **mydrwyr** 6.35
**myn** (*mewn llw*) 3.15, 5.26, 8.7, 13.17, 25.31
**mynaches** 8.15n
**myned** *1 un.pres.myn.* **af** 1.53n*; 3 un.grff.myn.* **aeth** 4.43n, 5.38n, 8.31n, 10.41–2n
**mynfyr** math o ffwr gwyn seremonïol 26.45
**mynychlith** mynych ei fwyd 19.38
**myrr** 5.38
**naf** arglwydd 16.6, 29.40
**nâg** nacâd 24.60
**nai** nai, perthynas, un tebyg i 11.14n, 17.16, 22.4n, 26.12
**naw** 2.48–9n, 11.59–61n, 18.12n, 18
**nawdd-dud** 12.60n
**nawmis** 25.3
**nawn** 2.33n, 35n
**nawnaid** 1.71n
**nawosgl** â naw cangen o gorn carw 29.58
**nawpasg** 11.59–61n
**Nawyr, [y]** 20.43n
**neb** unrhyw un 3.26, 5.19n
**neges** gorchwyl 4.23
**neidiaw** llamu 6.56
**neidr** 20.11n; *ll.* **nadredd** 20.37n
**neilltuo** *amhrs.pres.dib.* **neilltuer** 14.78n
**nêr** arglwydd 10.11
**nes** 10.49n
**nesaf** 28.34n
**nesnes** 1.65n
**newydd** 8.60n
**nith** 20.48n, 24.59n
**nod** amcan, perwyl, arwydd 1.65n, 5.11, 31, 11.17n, 17.16
**noddfa** 23.28n
**nofio** 1.72n, 26.12n
**nos** nos, gyda'r nos 4.10, 16, 8.20
**nych** gofid 3.29
**nychaf** 1.76n
**o** os, pe 19.39n, 22.58n, (a gw. **od gwn**)
**o agos** yn agos 9.45
**od gwn** yn sicr 4.31n, 7.6, 29.42
**odduchod** oddi uchod 10.50n
**oed yr hydd** 7.66n **oed hydd** 13.48
**oedi** 23.55n
**oediog** oedrannus 27.15
**oedran** 13.43n
**oerfel** gwae 5.52
**oerwr** dihiryn, cnaf 4.29
**offer** 22.31n
**ôl** 23.33n; *ll.* **olau** 4.25–6n, 28, 30
**olew** 1.68
**oliffant** eliffant 28.44
**o newydd** o'r newydd 2.49
**oni** hyd oni 18.50, 36.3 **yni** 29.15
**onn** gwaywffon 6.61, 9.55, 21.41, *un.* **onnen** 22.3
**onnwayw** gwaywffon wedi ei gwneud o bren onnen 9.44
**o'r blaen** ar y blaen 8.59
**organ** cerddor 6.64*; ll.* **organau** 6.28n
**oriog** anwadal, ysbeidiol 1.77
**owdl** 27.54n
**owmal** 22.2n
**Pab** 2.27n, 20.6n, 29.37
**pacs** cusan 5.50

**padell** 17.51
**padrwn** ffurf, siâp 22.42n
**pair** 17.52n
**pais** siaced, côt, peistur, curas 7.31, 48, 64, 26.17, 27.56n
**paladr** gwaywffon *ll.* **pelydr** 17.47
**palf** crafanc 24.21
**pall** gorchudd 22.29
**papir** 26.55–6n
**parc** 18.36n
**parch** parch, gwrthrych parch, anrhydedd, braint 2.56, 6.75n, 10.37n, 26.42n
**parsel** 25.1n
**patrwn** noddwr, amddiffynnwr 25.21
**paun** un balch *ll.* **peunod** 6.31
**pawb** 22.7–9n
**pawl** 27.44n
**pedwar** 26.28n, *b.* **pedair** 2.34n, 26.28n
**pei** pe 2.46, 5.59, 7.31n, 14.23
**peilliaid** blawd mân 26.51
**pêl** 9.40n, 13.29n; *ll.* **pelau** 20.40n
**pellen** pêl 26.51
**pen** 1.66n, 3.26n, 10.43n, 18.36n, 20.28n; *eith.* **pennaf** pennaf; y pennaf 1.75n, 11.21n, 23.8n
**penadur** pennaeth, arglwydd 23.55
**pennu** rhoi *3 un.amhff.myn.* **pennai** 26.59
**penrhaith** pennaeth, arglwydd 8.62n
**penwn** baner fach 8.9n, 17.32, 20.42
**penyd** 8.14n
**perchi** 18.24n
**pererin** 24.5n
**peri** gwneud, creu, achosi 13.59; *3 un.grff.myn.* **peris** 25.3
**peris** gw. **peri**
**pe rhôn** 3.35n
**petrus** 2.53–4n
**peunod** gw. **paun**
**plaid** tylwyth, plât metel, amddiffyn 3.14n, 12.14n, 62, 17.47, 18.33, 27.25n, 55; *ll.* **pleidiau** 12.10, 26, 50
**planc** 18.33n, 27.5n
**planed** 2.19n, 4.1n, 8.5n (a gw. **saith blaned**)
***plena*** 2.17–22n
**plethu** *amhrs.grff.myn.* **plethwyd** 5.53n
**plu** 26.27n
**plwyfynt** cyrchfan i blwyfolion 16.7n
**plygain** 2.26n
**pob** 26.45–6n
**porfa** glaswellt 28.26
**post** cynheiliad *ll.* **pyst** 13.42
**poswrn** corrach 36.2n
**Powyslawr** 16.52
**preimer** 2.28n
**pren** 18.44n
**prifiach** prif linach, llinach ddisglair 11.42
**print** delw, un tebyg 17.8n
**priod** 22.24n
**profi** 10.13n
**proffwydiad** 12.3n
**pryd** 14.22n
**pryf** sarff, draig 1.25
**pumaib** pum mab 13.57
**pumbys** 13.54n
**pumnyn** pump o ddynion 13.58
**punt** 34.4n
**pupur** 20.52n
**pur** di-fai 6.39
**purwyn** pur a sanctaidd 21.53
**pwn** llwyth, iau, gwedd 8.58, 23.8, 24.50n
**pwnc** digwyddiad *ll.* **pynciau** 15.57n

**pwy** 3.35n
**pwyll** natur 3.2
**pwynt** blaen miniog *ll.* **pwynts** 7.55
**pwys** pwysau; pwysig 7.39, 12.8, 26.30
**pwyso** bod yn gyfwerth â *3 un.amhff.myn.* **pwysai** 6.34
**pwyth** tâl, gwobr 29.65 (a gw. **talu pwyth**)
**pys** 36.1n
**pyst** gw. **post**
**'r** gw. **rhy**[2]
**rasbi** math o win coch 28.27n
**rebwnt** 9.61n
**rhad** rhadlon, llawn gras 1.25n
**rhag** 1.67n
**rhag dyn** yn anad neb 14.26n
**rhaglaw** dirprwy lywodraethwr 14.4
**rhai** 25.46n
**rhaid** 11.63n
**rhamant** campus, rhagorol 12.37
**rhan** rhan, ffawd dda, rhandir, cyfran 8.31, 11.3, 12.19, 22, 14.15, 20n, 15.54n, 20.14n, 27.24
**rhandir** 1.45n
**rhannu** 6.36n, 12.15n
**rhawg** gw. **yrhawg**
**rhawn** 22.43n
**rhedyn** 4.43n
**rhên** arglwydd 1.35
**rhent** rhodd, tâl 13.35, 25.20n, 49
**rheol** trefn, llywodraeth 25.4, 50 **rhôl** 18.18n
**rhestr** rhes *ll.* **rhestri** 22.50
**rheswm** 20.24n
**rhif** nifer mawr 18.34
**rhif gwlith** rhifedi mawr
**rhifo** cyfrif, anrhydeddu, mawr brisio, moli 1.56, 21.31–2; *amhrs.grff.myn.* **rhifwyd** 6.47
**rhin** hudoliaeth, swyn 5.26
**rho Duw** rhof (rhyngof) a Duw 10.20n
**rhod** cylch, cwrs, rhediad 1.43, 14.66n, 18.54
**rhód** 1.75n
**rhod yr hin** 8.48n
**rhodio** *1 un.grff.myn.* **rhodiais** 4.21–2n
**rhodd** 11.53n
**rhoddi** 11.22n **rhoi** 22.50n *1 un.pres.myn.* **rho'** 23.37; *3 un.pres.myn.* **rhydd** 9.65n, 17.39n*; 1 un.amhff.myn. /dib.* **rhown** 5.19n*; 3 un.amhff.myn. /dib.* **rhôi** 26.12n, 27.17*; 3 un.grch.* **rhoddid** 14.19n
**rhoddiad** 3.47n
**rhôl**[1] rhôl, llyfr 18.55, 25.20n, 49n
**rhôl**[2] gw. **rheol**
**rhudd** 9.34n, 65n
**rhuddaur** aur coch 9.19
**rhuddwr** 24.7n
**rhwng** 1.2n
**rhwydd** hawdd 4.13
**rhwyddaur** aur helaeth 11.67
**rhwymo** gosod dan rwymedigaeth *amhrs.pres.dib.* **rhwymer** 12.37
**rhwymwr** *ll.* **rhwymwyr** 25.44n
**rhwysg** 13.43n
**rhy**[1] tra, dros ben 25.45
**rhy**[2] *gn. rhagferfol* **'r** 17.35, 19.39n, 21.20
**rhych** 27.11n
**rhydain** carw ifanc 7.22
**rhydd** hael 1.31
**rhyfalch** *e.* un rhy falch, balch iawn 15.58
**rhyfel** 25.1n, 33
**rhyw** rhywogaeth, llinach 18.33, 23.16, 25.24, 27, 26.20n
**rhywiog** urddasol, gwych 14.4

**s** *y llythyren* 26.28n
**sabl** du 5.42n
**saethydd** saethwr 7.31
**saing** gw. **sengi**
**sail** gwaelod 17.55
**sain** 12.58n
**saint** gw. **sant**
**saint**[1] sant 4.32, 21.5n
**saint**[2] gw. **sant**
**saith** 2.48–9n, 17.21n, 21.47, 24.58
**Saith Bechod, y** 1.41n
**saith blaned** 1.43n
**Saith Ddoethion, y** 23.19n
**saith seren** 1.44n, 17.21n
**saled** 17.18n, 29
**salm** *ll.* **salmau** 2.48–9n
**sangwyn** gwaetgoch 27.35, 28.28
**sant** *ll.* **saint** 18.14n
**sengi** *3 un.pres.myn.* **saing** 27.35n
**seigio** bwyta, gwledda ar 24.48
**seilio** *2 un.grff.myn.* **seiliaist** 1.37n, *amhrs.pres.myn.* **seilier** 35.5
**sêl** 24.9n
**selu** edrych ar, gwylio 7.32, 24.7
**sêr** 9.60n
**serch** 10.65n, 28.67–70n
**seren** 24.55n (a gw. **saith seren**)
**sew** cawl, danteithfwyd 19.50
**siartr** 20.35n
**siawdel** 26.39n
**sierfel** 7.55n
**simant** S. ‘*cement*’ 5.40n
**siop** 23.64n
**sir** gwlad, tiriogaeth 5.2n, 28.9
**siwgr** 24.48n, 26.48n
**sôn** *3 ll.amhff.myn./dib.* **sonnynt** 21.43
**sor** dicter 3.17
**swllt** trysor 13.7
**swydd** gwaith 4.13
**symlder** symlrwydd 4.38
**symud** cymryd ymaith 21.5n
**syndal** 8.2n
**synnwyr** doethineb 15.1, 21.37
**tabl** 2.16n
**tad** 2.12n, 22.23n, 25.29n
**tadmaeth** dyn sy’n magu plentyn rhywun arall 35.2
**taer** gerwin 34.8
**tafod** 1.29–30n, 11.8n
**taid** 27.9n
**tair talaith, y** 6.46n
**tâl**[1] gw. **bwrdd tâl**
**tâl**[2] talcen, gwedd 3.20, 8.1
**talm** ychydig 6.24
**talu pwyth** *1 un.pres.myn.* **talaf … bwyth** 24.53–4n
**tân** 25.38n, 28.1–2n, 60n
**tanllyd** o liw’r tân, yn fflachio 14.28
**tannu** gwasgaru *2 un.grch.* **tan** 22.7
**tant** gw. **gan dant**
**taro** 9.40n
**tarsel** 24.20n
**tarw** tarw, pennaeth dewr, arwr ffyrnig 9.36n, 25.2n, 28.1–2n; *ll.* **teirw** 6.46
**tasel** S. ‘*tassle*’ *ll.* **taselau** 17.30, 26.50n
**tasg** gw. **ar dasg**
**tau** gw. **tewi**
**tawr** gw. **dori**
**tebyg** 26.56n
**tebygu** tybio *1 un.grb.myn.* **tebygaswn** 5.37
***tecum*** 2.17–22n
**tegan** gem (yn ffig.) 22.54
**teiran** tair rhan 11.11n, 20.53n
**teircroes** 1.14n
**teiriaith** tair cenedl 15.28n
**teirllaw** 6.56n
**teirllys** tair llys 20.25n
**teirmil** tair mil 13.5
**teiroes** 6.57n

**telyn** 11.58n
**teml** eglwys 16.9, 21.8n
**têr** disglair, teg 10.19
**term bywyd** 6.63n
**tes** gwres 4.1n
**tewi** *3 un.pres.myn.* **tau** 6.15
**tëyrn** arglwydd, pennaeth 10.60, 25.18n
**teÿrnaidd** tywysogaidd, urddasol 10.26
**tid** cadwyn 15.30, 23.2; *ll.* **tidau** 6.62
**tir** 4.33n, 11.1–2n, 12.32n, 33–4n, 59n, 19.1n, 22.13n; *ll.* **tiredd** 10.58
**tir yr haf** 28.6n
**to** gorchudd 8.49
**ton** *a.* gw. **twn**
**tôn** 34.2n
**torch** *ll.* **tyrch** 9.44n, 20.62n
**toreth** 6.65n
**torri** torri, dofi, hyweddu 6.74n, 16.50
**tra**[1] iawn 3.17, 38n
**tra**[2] 23.56n
**trada** da iawn 28.21
**traen** 15.11n
**traeth** 9.5n, 10.45n
**trafael** helynt, trafferth 15.58, 25.2
**trafn** arweinydd, arglwydd 29.21
**traws** *cmhr.* **trawsach** 21.54n
**trawsach** gw. **traws**
**trawsgoeth** grymus a gwych 29.30
**trechaf** 23.37n
**treiddio** *3 un.amhff.myn.* **treiddiai** 17.44
**treiglo** crwydro *3 un.pres.myn.* **treigl** 24.49
**treiglo** troi, rhodio 8.26, 25.37
**treio**[1] penderfynu yn farnwrol 25.16
**treio**[2] lleddfu, atal 16.50n
**tremyn** golwg 17.43
**tremynt** golygfa 2.53
**trew** 16.34n
**tri** 6.61–2n, *b.* **tair** 1.32n, 6.47n, 51n, 9.36n, 15.54n, 28.25n (a gw. **tair talaith, y**)
**triagl** 25.37n
**tribwrdd** a chanddo dri bwrdd 24.11
**trichawr** 20.55
**trigaint** 18.14n
**trigeinplaid** trigain cwmni, trigain llu 27.26
**trin** 9.54n
**tro** taith, cast 4.21–2n, 45
**trochi** difwyno 25.55
**troed** 27.8n
**troell** cylch *ll.* **troellau** 8.50
**troi** troi, rhoi, trosglwyddo, 1.1–3n, 15.42n; *3 un.pres.myn.* **try** 24.49; *3 un.grff.myn.* **troes** 9.54n
**trosol** clwyd, bollt 24.20n, 35.6
**trosoliaw** bario, bolltio 35.5
**troter** tuthfarch (S. '*trotter*') 22.53
**trwm** llym, caled 2.21, 20.23, 25.32
**trwsiad** gwisg 20.59
**trychant** tri chant 20.44
**trychannyn** tri chant o ddynion 11.5
**trychantref** tri chantref 18.13n
**trydedd awr** 2.30n
**trydydd** 11.32n; *b.* **trydedd** 1.16n (a gw. **trydedd awr**)
**trywlwf** 6.76n
**trywyr** tri gŵr 6.2, 20.39
**tu** 3.22n
**tudded** gorchudd 7.44
**tunnell** 27.33n
**turnen** llestr crwn 17.38
**tus** thus 5.38
**twf** ffurf 5.27

**twn** toredig 4.42n, *b.* **ton** 1.13
**tŵr** arweinydd neu ryfelwr cadarn 6.65, 9.16n, 13.56, 20.4n
**twrci** 28.27n
**twrch** 27.31n
**twysogaeth** 25.23n
**tybiaid** ystyried 3.48
**tyfiad** datblygiad, cynnydd 15.12
**tyfiant** 1.31n
**tyfu** tyfu, iacháu 1.28–9n, 29–30n; *3 un.pres.myn.* **tyf** 1.28–9n, 20.60; *3 un.pres.dib.* **tyfo** 7.9
**tynnu** tynnu, mynd, dod *3 un.pres.myn.* **tyn** 27.24–5n; *2 un.grch.* **tyn** 15.29n, 22.7–9n, 7
**tyno** maes 28.33
**tyrch** gw. **torch**
**tyrfu** 8.20n
**tyrs** tors, ffagl 6.57
**tyst** 3.9n
**tywys** S. '*ears of corn*' 8.49
**uchel** 11.60n
**uchelgrair** trysor mawr, cadernid mawr 6.17n
**uchelwr** 10.51n
**ufydd** gostyngedig 2.44n
**ugain** 4.14n
**un** 12.58n, 20.22n, 10, 27.8n
**unawr** un awr, awr arbennig 2.33
**unben** pennaeth, uchelwr 10.7
**undasg** ar yr un perwyl 11.55
**undod** 6.75n
**undwf** o'r un ffurf â 26.21n
**unfryd** 2.14n
**uniaith** yn perthyn i'r un bobl, o'r un tylwyth 14.21
**unllaw** ar gyfer un llaw 14.28, 61
**unllun** o'r un llun neu siâp 27.20
**unnod** â'r un nod 1.71
**unoed** o'r un oed 10.63n, 12.19, 65, 19.21, 27.37
**unrhodd** un rhodd, rhodd arbennig 14.69, 26.3n
**unrhyw** o'r un natur â 3.33
**unsud** unfath 5.33
**unty** yr un tŷ 22.21
**unwraig** gwraig arbennig 29.61
**unwydd** 6.13–14n
**urddas** urddas; urddasol 11.10n, 20.45n
**urddedig** gŵr urddasol 28.19
**urddol** urddasol, gwych 9.63, 20.33, 28.37; *ll.* **urddolion** 18.49
**uriad** 2.11n
**us** 6.70n
**uwch** *ardd.* 1.18n
**uwchlaw** 11.2n
**w** *y llythyren* 26.28n
**weithian** bellach 20.41
**wmlys** 7.15n
**wrth** 15.50n, 22.3n, 23.50n, 27.43n
**wrth raid** yn ôl yr angen 23.16
**wtresgadr** gwych ei gyfeddach 29.30
**wy** *ll.* **wyau** 26.1n, 26.45–6n
**wybr** cwmwl, wybren, nen 18.6, 24.38, 42
**wyneb** wyneb, golwg, anrhydedd, statws 5.20n, 10.10n, 14.70, 74, 15.42n
**ŵyr** ŵyr, wyres, disgynnydd 24.56n; *ll.* **wyrion** 27.59–60n
**wyth** 15.13n
**y** 1.1n
**ych** 23.33–4n, 27.11n; *ll.* **ychen** 23.64n
**ŷd** 7.9, 18.29n
**yfory** 7.5n
**yngod** gerllaw 1.36, 8.38
**ymbwytho** *1 un.amhff.myn.* **ymbwythwn** 19.17n
**ymeiriaw** dadlau, ymddiddan 3.39
**ymlid** canlyn 16.25
**ymliw** ceryddu, edliw 4.27

**ymofyn** ceisio 14.27
**ymwan** brwydro 9.34
**ymwanwr** ymladdwr, rhyfelwr *ll.* **ymwanwyr** 9.62, 15.37
**ymwrandaw** gwrando, ystyried 1.48
**ymbwytho** *1 un.amhff.myn.***ymbwythwn** 19.17n
**yna** yna, yno 1.74n, 29.7, 33
**yni** gw. **oni**
**yn iach i** 1.74n
**ynnill** ennill *3 un.grch.* **'nilled** 10.12n
**ynnyn** 1.17n
**ynt-hwy** 6.58n
**ynys** talaith, gwlad, teyrnas, ardal, bro, Ynys Prydain 11.30, 38, 12.58, 13.12, 16.16, 63, 17.7, 18.28, 20.12n, 23.14n
**yrhawg** yn awr, bellach 6.21, 18.39, 19.14, 26.33 **rhawg** 25.46
**ys** 6.42n (a gw. **er ys**)
**ysbaddad** draenen wen, pigyn 4.12
**ysbaniel** sbaniel 24.10
**ysbïaw** edrych ar 7.7
**ysblennydd** 4.3n
**ysbonc** trawiad, ergyd 5.48n
**ysgar** gwahanu, rhannu 14.76, *3 ll.myn.pres.* **ysgaran'** 19.26
**ysgâr** cyfran, dogn 5.44
**ysgewyll** ysbrigau 8.42n
**ysgub** cawell saethau *ll.* **ysgubau** 19.28
**ysgubor** *ll.* **ysguboriaid** 8.40n
**ysgwâr** sgwâr, cadarn 20.4
**ysgwïer** gŵr bonheddig 24.5
**ystad** ystad, statws, urddas 12.17n, 15.60, 22.1–2n
**ystâl** 22.1–2n
**ystamin** math o wstid (S. '*worsted*') 19.31
**ystiwart** rhaglaw, dirprwy 25.26
**ystod** cwrs, llwybr 1.57–8n
**ystôr** darpariaeth 7.53n, 16.8
**yt** gw. **i**[2]
**ywch** gw. **i**[2]

## *Enwau personau a theuluoedd*

**Abram** 2.64
**Addaf** 1.53n, 54, 55, 56, 19.22n, **Adda** 4.25–6n
**Alecsander Mawr** 15.19–20n
**Alisdotles** 15.19–20n
**Anna** Anna fam Mair Forwyn 2.9
**Annes** 32.38
**Arthur** Y Brenin Arthur 6.12, 10.10n, 16.15n, 30.35
**Bendigeidran** Bendigeidfran fab Llŷr 10.8n
**Bleddyn** Bleddyn ap Maenyrch 18.47n, 20.37n, 23.9n, 27.55
**Brutus** 7.37–40n
**Brych, y** 23.33–4n
**Bwrch, [y]** gw. **Siôn**
**Cadell** 29.57n
**Cadwgawn**[1] Cadwgan ap Hywel Fychan ap Hywel Sais 17.13n
**Cadwgan**[2] 22.12n
**Cethin** gw. **Elen Gethin**
**Coel** 21.42n
**Cradog Freichfras** 18.45n, 20.3
**Creirwy** 14.40n
**Crist** 1.16, 20 ( gw. **Duw Iesu, Iesu, Mab Rhad**)
**Curig** Curig Sant 14.58n, 16.27n, 27.54n
**Custennin** 27.9n
**Cynan** Cynan Garwyn ap Brochwel Ysgithrog 10.28n, 14.6n
**Cynfyn** 11.36n
**Cynllo** Cynllo Sant 15.10n
**Dafydd**[1] Dafydd Broffwyd 2.44n, 21.51n
**Dafydd**[2] Dafydd ab Owain ap Gruffudd 6.13, 42
**Dafydd**[3] Dafydd ap Gwilym Gam 11.51–4n
**Dafydd**[4] Dafydd ap Phylib ap Rhys ap Phylib Fychan 13.41–7n
**Dafydd**[5] Dafydd ap Maredudd Fychan ap Maredudd 17.61
**Dafydd ap Gwilym** Dafydd ap Gwilym ap Siancyn 27.7n **dau Ddafydd** 27.2n (a gw. **Dafydd Mathau**)
**Dafydd … / … etifedd … / Ieuan, hil Forgan** 19.2–4n
**Dafydd Llwyd**[1] Dafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion 8.56n
**Dafydd Llwyd**[2] Dafydd Llwyd ap Gruffudd Fychan 9.28–30n
**Dafydd Mathau** Syr Dafydd Mathau o Landaf 27.25, 58 **Mathau** 27.6n **dau Ddafydd** 27.2n (a gw. **Dafydd ap Gwilym**)
**Dafydd, Syr** Syr Dafydd Gam 20.36n
**Defras** 20.16n, 25.38, 42
**Deili** 33.43, 48
**Dewi Mynyw** Dewi Sant 17.45n **Dewi** 3.15n, 30.37, 33.31
**Dofydd** 1.24, 51
**Duw** 1.20, 24, 25, 27, 35, 61, 62, 63, 2.7, 18, 27, 36, 42, 55, 59, 63n, 3.10n, 10.20, 26, 12.1, 21, 23, 24, 63, 13.59, 14.3, 19, 16.9, 26, 47, 18.6, 7, 21, 19.1, 20.34, 21.57, 23.20, 24.4, 25.26, 26.4, 27.1, 29, 43, 56, 32.36 **gwiwDduw** 1.78, 2.59 **Duw Iesu** 2.59
**Dwynwen** 18.4n
**Dyfr** 5.33n
**Edlym** 19.53n
**Edwart** Y Brenin Edward IV 28.1–2

**Efa**[1] Efa wraig Adda 4.25–6n
**Efa**[2] Efa wraig Ifor Hael 11.51–4n
**Efrog** 31.30
**Eigr** 12.52n, 33.28
**Eilfyw** 2.45n
**Einiawn** Einion ap Cynwrig ap Meurig 10.21n (a gw. **Ricert ab Einiawn**)
**Einion Sais** 22.25n **Einion** 18.33n
**Elen Gethin** 21.21 **Elen** 20.27n, 47, 21.4, 24, 46, 55
**Eli** 31.5
**Elis** Elis ferch Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Hergest 24.55n
**Elystan** Elystan Glodrydd 6.29n,11.11n
**Emrys** 9.42n, 28.62
**Enid** 5.15n, 27
**Esyllt** gw. **cae Esyllt**
**Ffawg** gw. **Ffwg ap Gwarin, Syr**
**Fferis, Arglwydd** 25.13–14n
**Ffrolo** 30.36
**Ffwg ap Gwarin, Syr** 9.53n, **Ffawg** 33.11
**Gabriel** 20.61n
**Garmon** Garmon Sant 12.32n, 13.5, 17n, 21–2n
**Garwy** Garwy Hir 6.57n
**Gei o Warwig** 9.56n
**Godwin** Godwin Iarll Cernyw 18.57n, 27.9n
**Goleuddydd** 29.48, 56
**Gollwyn Hen** 20.15n
**Gruffudd Gryg** Gruffudd Gryg ab Ieuan Fychan ab Ieuan 12.56n
**Gruffudd … / … / Mab Ieuan … / Fychan** 8.29–32
**Gruffudd Maelawr** 11.33n
**Gruffudd, Syr** Gruffudd Fychan ap Gruffudd ap Madog Fychan 9.28–30n, 20.36n **Gruffudd** 11.32n, 12.48n
**Guto** Gruffudd ap Nicolas 34.1n
**Gwaithfóed** 11.8n, 12.12, 14.12
**Gwalchmai**[1] 8.30n
**Gwalchmai**[2] Gwalchmai ap Gwyar 24.13n
**Gwatgyn** Gwatgyn ap Syr Rhosier Fychan ap Rhosier Hen o Frodorddyn 20.22n
**Gwên** Gwên mab Llywarch Hen 6.29n
**Gwenddydd** 12.56n
**Gwenfrewy** 13.21–2n
**Gwenlydd** 33.36
**Gwenllïan** Gwenllïan ferch Owain Glyndŵr 11.29, 44, 12.44, 13.13, 14.39
**Gwenwynwyn** Gwenwynwyn ab Owain Cyfeiliog 9.20n
**Gweurful ferch Fadog … / … / … o Fredudd** 8.3–5n
**Gwgawn** 27.15n
**Gwilym** gw. **Dafydd ap Gwilym**
**Gwilym … / Fwyaf** gw. **Ieuan … / Gwyn / Fab Gwilym … / Fwyaf**
**Gwilym … / Fychan** 31.20
**Hafardiaid, [yr]** 18.34n
**Hangmeriaid, [yr]** teulu'r Hanmeriaid 36.2n
**Herbart** gw. **Wiliam**
**Hiriell** 12.62n
**Hywel**[1] Hywel ab Owain ap Gruffudd 6.7n, 41
**Hywel**[2] 7.3n
**Hywel**[3] Hywel ap Phylib ap Cadwgan 15.3
**Hywel**[4] Hywel Swrdwal 31.51 **Swrdwal** 31.35
**Hywel Amheurig** Hywel ap Meurig Fychan 16.20n
**Hywel Fain** 30.16 (a gw. **Rhys … / Hil Dafydd**)

**Idloes** Idloes Sant 27.54n, 31.20
**Idwal** Idwal Foel ab Anarawd 18.57n
**Iesu** 2.37, 59, 10.39n, 33.23 (a gw. **Crist, Duw Iesu, Mab Rhad**)
**Ieuan** gw. **Dafydd … / … etifedd … / Ieuan, hil Forgan**
**Ieuan**[1] y Preutur Siôn 5.35n
**Ieuan**[2] gw. **Llawdden**
**Ieuan / Ap Hywel … / Swrdwal** 33.8–9, **Ieuan** 31.57, 33.15, 25, 27
**Ieuan Fedyddiwr** 7.44n
**Ieuan Fychan** gw. **Gruffudd … / … / Mab Ieuan … / Fychan**
**Ieuan … / Gwyn … / Fab Gwilym … / Fwyaf** 29.19–22, **Ieuan** 29.58
**Ieuan Llwyd** Ieuan Llwyd o Lyn Aeron 10.11–12n, 11.7n, 14.9–10
**Ifor** Ifor Hael 11.51–4n, 12.40, 13.33, 16.7, 26.12, 29.35
**Indeg** 5.15n
**Iolo** Iolo Goch 11.51–4n, 58n
**Iorus** Siôr Sant 17.58n
**Ipográs** Hippocrates 16.10n
**Llachau** 29.24n
**Llawdden, Iarll** 9.58n
**Llawdden** Ieuan Llawdden 5.54n, 30.1, 32.5, 14, 18, 34, 54 **Ieuan** 26.64n, 28.59
**Lleisoniaid, y** 28.15n
**Llŷr** 21.41n
**Llŷr Merini** 18.41n
**Llywelyn**[1] Llywelyn ab Owain ap Gruffudd 6.19, 43
**Llywelyn**[2] 24.37n
**Mab Rhad** 1.25n, 21.18
**Madog**[1] gw. **Gweurful ferch Fadog … / … / … o Fredudd**
**Madog**[2] Madog ap Hywel ap Madog Fychan 17.10n, **Madawg** 17.60
**Mael** gw. **Gwlad Fael**, **Tir Mael**
**Maelgwn Gwynedd** 6.40n
**Mair** Mair Forwyn 1.46, 2.9, 12, 26, 50, 62, 7.9, 12n, 16.12, 41–2n, 21.56, 24.1–2n, 3, 31.11 (a gw. **Maria**)
**Marchog y Glyn** gw. **Owain**[2]
**Maredudd**[1] 9.33n
**Maredudd**[2] Maredudd ap Phylib ap Rhys ap Phylib Fychan 13.41–7n
**Maredudd**[3] Maredudd Fychan ap Maredudd ap Hywel 16.1 **Maredudd … / Fychan** 19.15–16
**Maredudd ap Rhys** 17.8n
**Margred** Margred ferch Gruffudd ap Nicolas 16.61n
*Maria* 2.17–22n (a gw. **Mair**)
**Mariaith** 21.16n
**Marsia** 21.43n
**Mathau**[1] tad Dafydd Mathau 27.6n
**Mathau**[2] gw. **Dafydd Mathau**
**Matheias** yr Efengylwr 27.6n
**Mawd** Mawd wraig Rhydderch ab Ieuan Llwyd 11.51–4n
**Melwas** 8.44n
**Merddin** 8.47n, 10.2
**Meugan** Meugan Sant 17.46n
**Moreiddig Wyn** 20.38n, **Moreiddig** 18.43n, 22.26
**Morgan**[1] gw. **Gwlad Forgan**
**Morgan**[2] gw. **Dafydd … / … etifedd … / Ieuan, hil Forgan**
**Morgan**[3] 27.23
**Morgan**[4] Morgan ap Hywel ap Phylib 15.1, 23, 31, 33, 36, 52
**Mredudd** gw. **Gweurful ferch Fadog … / … / … o Fredudd**
**Mwrog** 21.16n
**Noe** 26.36n

**Nudd** 8.6n
**Ofydd** 5.6n (yn y cyfuniad **llyfr Ofydd**), 7.63
**Owain**[1] Owain ap Gruffudd ab Ieuan 6.6, 31, 63
**Owain**[2] Owain Glyndŵr 11.31n, 39, 68, 12.47, 13.14, 52n **Marchog y Glyn** 12.42n
**Owain**[3] Owain ap Phylib ap Rhys ap Phylib Fychan 13.47
**Owain Cyfeiliawg** 6.22n
**Owain ab Urien** 10.44n, 17.52n, **Owain** 31.12
**Pawl** 1.36n
**Pedr** Pedr Sant 16.12
**Phylib ap Rhys** Phylib ap Rhys ap Phylib Fychan 10.17, 11.13, 37, 65, 13.4, 54 **Phylib** 10.3, 52, 11.1–3, 43, 12.2, 14.2 **Phylib Dorddu** 15.6
**Phylib … / Fychan …** 10.7–8, 11.4, 12.7–8, 14.5–6
**Ricert ab Einiawn** 12.9n **Ricart … / … fab Einiawn** 14.7–8
**Robert, Mastr … / … / Arglwydd Chwitnai** 24.11–13n **Mastr Robert** 24.51n
**Robert Hen, Syr** 24.18n
**Rhisiart**[1] Rhisiart ap Tomas ap Syr Rhosier Fychan 20.23 **Meistr Rhisiart** 20.58
**Rhisiart**[2] Rhisiart ap Siancyn ap Gilbert Twrberfil 28.10
**Rhisierdyn** 33.10
**Rhonwen** 20.12n
**Rhosier** Rhosier ap Tomas ap Syr Rhosier Fychan 20.24 **Meistr Rhosier** 20.59, 21.54
**Rhoser Hen** Rhosier Hen o Frodorddyn 24.56n
**Rhosier, Syr** Syr Rhosier Fychan ap Rhosier Hen o Frodorddyn 20.24n **Rhosier** 20.5 (a gw. **Rhys, Syr**[2], **Watgyn, / Ŵyr Roser**)
**Rhydderch**[1] Rhydderch Hael fab Tudwal Tutglyd 13.8n, 14.17
**Rhydderch**[2] Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Lyn Aeron 10.66n, 11.22n, 51–4n, 12.30, 14.72n
**Rhys**[1] Rhys ap Phylib Fychan 10.5, 63, 12.6, 20, 22, 14.3, **deuRys** 11.14n, 12.28n (a gw. **Rhys**[3], **Phylib ap Rhys**)
**Rhys**[2] Rhys ap Phylib ap Rhys ap Phylib Fychan 13.41–7n
**Rhys**[3] Rhys ap Tewdwr Mawr, 9.41n **deuRys** 11.14n, 12.28n
**Rhys**[4] **… / Hil Dafydd** Rhys ap Dafydd ap Hywel Fain, **Rhys** 30.12–13, 18, 31.43
**Rhys**[5] 26.4 Rhys ap Dafydd Goch **Rhys … / … / Ap Dafydd Goch** 26.5–7
**Rhys**[6] gw. **Maredudd ap Rhys**
**Rhys, Syr**[1] Syr Rhys ap Gruffudd Hen 20.48n
**Rhys, Syr**[2] Syr Rhosier Fychan ap Rhosier Hen o Frodorddyn 24.56n
**San Silin** 17.29n
**Satan** 1.25
**Seisyllt** Seisyllt o Feirionnydd 6.30n
**Selyf** 14.71n, 21.50
**Siancyn** Siancyn ap Gilbert Twrberfil 28.9
**Siancyn y Glyn** ?Siancyn fab Owain Glyndŵr 14.24
**Sibli** 5.42n, 21.49
**Silbart** Gilbert Twrberfil 28.12
**Siohasym** 2.11n
**Siôn ap Watgyn** Siôn ap Watgyn ap Syr Rhosier Fychan 22.20n
**Siôn** Syr Siôn Bwrch 9.11n, 25, 30, 60 **y Bwrch** 9.40n

**Siôn Bromych** 24.1n
**Siôn Fychan** 31.29
**Sioseb** 1.50
**Siwsanna** 21.37n
**Swrdwal** gw. **Hywel**[4]
**Tomas**[1] Tomas ap Syr Rhosier Fychan ap Rhosier Hen o Hergest 20.3, 29, 45, 51, 21.8n, 55, 22.2n, 23.65, 24.58
**Tomas**[2] 29.50
**Tomas / Dwpa** 16.9–10n
**Trindod, y Drindod** 1.45
**Troilus** 6.69n
**Twrberfil** teulu'r Twrberfiliaid 28.26 **Twrberfîl** 28.13n
**Tydecho** 23.31n
**Urien** gw. **Owain ab Urien**
**Water, Syr** Syr Water Defras 20.35n
**Watgyn** gw. **Siôn ap Watgyn**
**Watgyn, / Ŵyr Roser** 27.17–8n Watgyn ap Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Hergest, **Watgyn** 20.21, 22.8, 54, 58, 27.55, **Meistr Watgyn** 20.57, 21.53, 23.11
**Wiliam** Syr Wiliam Herbert 23.17n **Herbart** 20.23n
**Ych Melyn, [yr]** 23.33–4n
**Ynyr** Ynyr Fychan o Nannau 6.30n

*Enwau lleoedd*


**Abertanad** 8.34n
**Aeron** gw. **Glyn Aeron**
**Arwystl** 10.58n, **Arwystli** 22.9–14n
**Asia** 29.5n
**Badd** Caerfaddon 21.28
**Banbri** 21.10n
**Bedlem** 7.41n
**Bro-dorddyn** 22.22n
**Brycheiniog** 18.3, 24, 28.18, 40, 31.22 **Brycheiniawg** 33.46
**Bryn-Mair** 6.17n
**Caer** S. *Chester* 1.1–3n, 22.18n
**Caer Arfon** Caernarfon 29.60
**Caerdyf** 29.59
**Caereiniawn** 22.9–14n
**Caer-gaint** 18.23n, 27.43n
**Caer Gent** 29.62n
**Caer Iago** 17.54n
**Caer … / Llïon** 9.9–10n **Caerlleon** 18.59n
**Castell Coch** 22.18n
**Cefn-y-llys** 28.61n
**Cenarth** 11.46
**Ceri** 22.9–14n, 31.45
**Cintun** Ceintun (S. *Kington*) yn swydd Henffordd 21.11
**Coed Cywryd** 7.10n
**Crugeryr** 31.32
**Cydewain** 22.9–14n
**Cyfeiliog** 6.68, 22.9–14n
**Cymru** 9.42, 28.62
**Cynllaith** 12.46n
**Chwitnai** gw. **Mastr Robert …Arglwydd Chwitnai**
**Deau, y** 12.14n, 59n, **Deau** 20.31
**Deheubarth** 29.26
**Dinefwr** 16.67n
**Dulyn** 1.20
**Elfael** 17.12
**Esgyr** Afon Ysgir 18.8n
**Ewsam** 9.16n
**Fan, [y]** 18.52n
**Fenni, y** 18.52
**Fyrnwy** 5.61n
**Ffrainc** 9.32, 20.20
**Garddfaelog** 16.43, 17.62 **Garddfaelawg** 19.13n
**Glyn,**[1] **y** gw. **Glyn Dyfrdwy**
**Glyn,**[2] **y** gw. **Glyn Aeron**
**Glyn Aeron** 10.11–12n, 13.21n **[y] Glyn** 14.10 **Aeron** 12.54
**Glyn Dyfrdwy** 13.22, 14.40 **y Glyn** 11.6n, 28, 35n
**Gorddwr, y** 16.48n
**Gwaunllŵg** 26.10
**Gwent** 18.56, 58, 20.65n, 27.8n
**Gwhyr** 29.6n, 28
**Gwlad Forgan** Morgannwg 27.23
**Gwlad Fael** Maelienydd 15.51n
**Gwrhái** 26.60
**Gwrthrynion** 10.10, 12.15 **Gwerthrynion** 14.15
**Gwy** 6.49, 16.37, 20.2n, 27.19n
**Gwynedd** 6.18n, 28, 8.36n, 9.17–18n, 14.53n, 19.44n, 20.31n, 22.17n, a gw. **Gwynedd-dir** 12.60n
**Gwynionydd** 9.18n
**Hafren** 6.49, 20.16n
**Herast** 22.6n
**Hergest** 20.67
**Hirddywel** 23.63n
**Hodni Afon** Afon Hoddni 18.17
**Is Coed** 5.52n
**Iwerddon** 1.10
**Llandaf** 27.27
**Llandeilaw** Llandeilo Tal-y-bont 29.46n **Llandeilo** 29.66
**Llandomas** 25.19n
**Llanfair** Llanfair Trelwydion

17.6n
**Llangedwyn** 22.16n
**Llinwent** 20.66n
**Lloegr** 20.18
**Llwdlo** 16.41–2n, 42n **Llwydlo** 25.21–2n
**Llychwr** Afon Llwchwr 10.45n, 29.16n, 24, 44
**Llydaw** 15.49n, 29.64
**Machynllaith** 32.40
**Maelawr** 12.52n, 17.55n **dwy Faelawr** 8.4n
**Maelienydd** 15.32n, 16.33n, 49, 25.28, 16.49, 27.30n
**Mars, [y]** 16.4, 58
**Mawddwy** 9.15n, 22.9–14n
**Mechain** 22.9–14n
**Mêl Ynys, y Fêl Ynys** 10.18n
**Mochnan'** 22. 9–14n, 14n
**Môr Dulyn** 9.35n
**Morgannwg** 28.8, 17–20n
**Mynyw** gw. **Dewi Mynyw**
**Nannau** 16.22n
**Powys** 6.34, 8.55, 10.59n, 23.22, 27.56, 29.12n (a gw. **Powyslawr**)
**Prydyn** 20.13n
**Pumlumon** 6.48n, 10.35n
**Rhaeadr** 32.42
**Rheidiol** 6.50n
**Rhuddallt, [y]** 14.42n
**Rhydodyn** 15.30n
**Sieb** 5.10n 19.29n
**Sin** 17.30n
**Sycharth** 27.19n
**Taf** Afon Taf 18.16
**Tanad** 22.3n
**Tawy** Afon Tawy 18.16
**Tir Mael** 30.14
**Trefrydd, y Drefrydd** 9.3n
**Tre Newydd, [y] Dre Newydd** 8.61n
**Troea** Caerdroea 6.4n
**Tŵr Gwyn** 9.7n
**Tŷ Non** 25.7n
**Urddonen** Afon Iorddonen 5.20n
**Uwch Coed** 11.26n, 48, 12.40, 66, 13.2
**Weblai** 25.18n
**Wysg** Afon Wysg 18.8, 15, 54
**Ýsbaen, [yr]** 28.27n

# *Llawysgrifau*

*Diolchir i Mr Daniel Huws am unrhyw ddyddiadau neu wybodaeth nas crybwyllir yn y ffynonellau printiedig a nodir.*

*Llawysgrifau yng nghasgliad Prifysgol Cymru Bangor*

**Bangor (Mos) 5**: llaw gynnar Thomas Wiliems, *c.* 1570x90, gw. E. Gwynne Jones & A. Giles Jones, 'A Catalogue of the (Bangor) Mostyn Collection', i (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1967).

*Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig*

**BL Add 10314**: Dafydd Jones, Trefriw, ail hanner y 18g. (nid yn gynharach na 1764), gw. CAMBM 1836, 29; W. Gerallt Harries, 'Un Arall o Lawysgrifau Dewi Fardd', B xxvi (1974–6), 161–8.

**BL Add 14866 [= RWM 29]**: Dafydd Johns, 1586–7, gw. CAMBM 1844, 16; RWM ii, 1022–38.

**BL Add 14871 [= RWM 20]**: Huw Machno, 1617, gw. CAMBM 1844, 18.

**BL Add 14875 [= RWM 30]**: llaw anh., rhwng 1547 a 1570, gw. *ib.* 19; RWM ii, 1039–48

**BL Add 14882 [= RWM 31]**: Wiliam ap Wiliam ap Robert o Dregarweth, 1591, gw. CAMBM 1844, 21–2, RWM ii, 1048–53.

**BL Add 14890**: Iaco ap Dewi, ail hanner yr 17g. (nid yn hwyrach na 1698), gw. CAMBM 1844, 24, Garfield H. Hughes, *Iaco ab Dewi 1648–1722* (Caerdydd, 1953), 19.

**BL Add 14964**: Owen Jones 'Owain Myfyr', 1768–99, gw. CAMBM 1844, 45

**BL Add 14965**: ?Edward Kyffin, *c.* 1580, gw. *ib.* 45–6.

**BL Add 14967 [= RWM 23]**: llaw anh., canol yr 16g. (nid yn gynharach na 1527), gw. *ib.* 47; RWM ii, 996–1014

**BL Add 14970**: Edward Williams 'Iolo Morganwg', *c.* 1800, gw. CAMBM 1844, 48–9.

**BL Add 14971 [= RWM 21]**: John Davies, Mallwyd, *c.* 1617, gw. *ib.* 49; RWM ii, 977–86; Rhiannon Francis Roberts, 'Bywyd a Gwaith Dr. John Davies, Mallwyd' (Cymru [Bangor], M.A., 1950), 342.

**BL Add 14973**: William Salusbury, ?1640, gw. CAMBM 1844, 50.

**BL Add 14976 [= RWM 22]**: un o gynorthwywyr John Davies, Mallwyd [llaw X5 yn ôl D.H., RWMS], *c.* 1617, gw. CAMBM *ib.* 52; RWM ii, 986–96.

**BL Add 14978**: llaw anh., *c.* 1600, gw. CAMBM 1844, 53.

**BL Add 14989**: ?Lewis Dwnn yn ifanc, ail hanner yr 16g., gw. *ib.* 57.

**BL Add 14991**: Owen Jones 'Owain Myfyr', 18g. / 19g., gw. *ib.* 57–8.

**BL Add 14997 [= RWM 24]**: llaw anh., *c.* 1500, gw. *ib.* 60; RWM ii, 1014–1018

**BL Add 14999**: llaw anh., canol i ail hanner yr 16g., gw. CAMBM 1844, 60.

**BL Add 15000**: Owen Jones 'Owain Myfyr', *c.* 1770, gw. *ib.* 60–1.

**BL Add 15003**: Edward Williams 'Iolo Morganwg', *c.* 1799–1800, gw. *ib.* 62–3.

**BL Add 15015**: llaw anh., ail hanner y 18g., gw. *ib.* 66–7.

**BL Add 31056**: llaw anh., ail hanner yr 17g. (ar ôl 1658), gw. CAMBM 1876–81, 154; YEPWC xxiv.

**BL Add 31061**: Llaw anh., 16g., gw. CAMBM 1876–81, 154.

**BL Add 31090**: Owen Jones 'Owain Myfyr' ($153^{v}$, $159^{r}$, $162^{r}$,$164^{r}$, $179^{v}$, $185^{v}$) a Huw Maurice ($126^{r}$, $129^{r}$, $132^{r}$, $135^{r}$, $138^{r}$, $144^{v}$, $147^{v}$, $150^{v}$, $156^{r}$, $183^{r}$, $188^{v}$, $191^{r}$) 18g. / 19g., gw. *l.c.*

*Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen*

**Bodley Welsh e 4**: Lewys Dwnn, *c.* 1580–1603, gw. SCWMBLO vi, 53; $CLC^{2}$ 203; Garfield H. Hughes, *op.cit.* 39.

**Bodley Welsh f 4**: Benjamin Simon, *c.* 1760, gw. SCWMBLO vi, 54.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Brog (y gyfres gyntaf) 1**: Trefnant y bardd, canol yr 16g., gw. 'Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents', i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1937), 1–2; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylchg LlGC vi (1949–50), 309–16.

**Brog (y gyfres gyntaf) 2**: Wmffre Dafis, 1599, gw. 'Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents', i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1937), 3–5; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylchg LlGC v (1947–8), 234–6 a phlât rhif 32.

*Llawysgrifau yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd*

**Card 2.26 [= RWM 18]**: Dafydd Benwyn (19) a llaw anh. o'r 18g. (18), *c.* 1581–97, gw. RWM ii, 172–8; Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *Summary of the Manuscripts ... commonly referred to as the ''Cardiff MSS''* (Aberystwyth, 1994), 77.

**Card 2.40 [= RWM 26]**: John Morgan, Matchin, *c.* 1714, gw. *ib.* 214–24; Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 79.

**Card 2.114 [= RWM 7]**: llaw anh., 1564–6, gw. RWM ii, 110–28; Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 88.

**Card 2.617 [= Hafod 3]**: Huw Machno, *c.* 1620x25, gw. RWM ii, 302–6; Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 142.

**Card 2.630 [= Hafod 20]**: Llywelyn Siôn, 16g. / 17g. (nid yn gynharach na 1592), gw. RWM ii, 323–8; Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 142.

**Card 2.1069**: Hugh Evans, *c.* 1775, gw. *ib.* 191.

**Card 3.2 [= RWM 27]**: llaw anh., 17g. / 18g., gw. RWM ii, 224–9; Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 222.

**Card 3.4 [= RWM 5]**: Elis Gruffydd, *c.* 1527, gw. RWM ii, 93–6.

**Card 3.37 [= RWM 20]**: llaw anh., 1614x36, gw. RWM ii, 193–202; Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 226.

**Card 4.10 [= RWM 84]**: Dafydd Jones o Drefriw, canol y 18g. (ar ôl 1736), gw. RWM ii, 790–3; Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 315.

**Card 4.101 [= RWM 83]**: Huw Machno, *c.* 1600–36, gw. RWM ii, 783–9.

**Card 4.330 [= Hafod 26]**: Syr Thomas Wiliems, *c.* 1574, gw. *ib.* 336–45; Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 353.

**Card 5.10i [= RWM 48]**: William Griffith o Ddolgellau, *c.* 1750, gw. RWM ii, 244–8.

**Card 5.44**: Llywelyn Siôn, cwblhawyd yn 1613, gw. Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 440; Llywelyn Siôn, &c.: Gw 157–60, 212–36.

**Card 5.167 [= Thelwall]**: llaw anh., *c.* 1565–72, gw. Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 451; BaTh 303, 311–12; GO 26.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**CM 12**: David Ellis, 1794, gw. RWM ii, 900–3; B.G. Owens & R.W. McDonald, 'A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts', i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 14–15.

**CM 22**: llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., gw. RWM ii, 919–20; B.G. Owens & R.W. McDonald, *op.cit.* 25.

**CM 23**: llaw anh. 16g. / 17g., gw. RWM ii, 921–3; B.G. Owens & R.W. McDonald, *op.cit.* 26.

**CM 27**: David Ellis, 1630, gw. RWM ii, 925–32; B.G. Owens & R.W. McDonald, *op.cit.* 30–1.

**CM 129**: Margaret Davies, *c.* 1760–2, gw. *ib.* 165–6.

**CM 242**: llaw anh., *c.* 1811, gw. *ib.* 278.

**CM 243**: David Ellis, hanner cyntaf yr 17g., gw. *ib.* 279.

*Llawysgrifau yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies ym Mhrifysgol Cymru, Bangor*

**Gwyn 1**: Wmffre Dafis, 16g. / 17g., gw. GSCMB 30.

**Gwyn 3**: Jasper Gryffyth, *c.* 1600, gw. *l.c.*; *Gwyneddon 3*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1931), v–xii; *Early Welsh Poetry: Studies in the Book of Aneirin*, ed. Brynley F. Roberts (Aberystwyth, 1988), 46.

**Gwyn 9**: Peter Bayly Williams, 1801, gw. GSCMB 30–1.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen*

**J 88 [= RWM 18]**: llaw anh., 17g. /18g., gw. RWM ii, 86–90.

**J 101 [= RWM 17]**: llaw anh., canol yr 17g., gw. RWM ii, *ib.* 68–86.

**J 137 [= RWM 12]**: llaw anh., *c.* 1600, gw. *ib.* 41–6.

**J 138 [= RWM 16]:** Robert Davies, Gwysanau, 1628, gw. *ib.* 64–8.

**J 140 [= RWM 15]**: llaw anh., hanner cyntaf yr 17g. (nid yn gynharach na 1613), gw. *ib.* 57–64; ymhellach ar y llaw, gw. E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, Cylchg LlGC vi (1949–50), 223.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**LlGC 16B**: cynorthwyydd i Wiliam Bodwrda, canol yr 17g., gw. NLWCM 37–47; Geraint Gruffydd, ‘Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)’, Cylchg LlGC viii (1953–4), 349–50; Dafydd Ifans, ‘Bywyd a Gwaith Wiliam Bodwrda (1593–1660) o Aberdaron’ (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1974), 565–71, 570; *id.* ‘Wiliam Bodwrda (1593–1660)’, Cylchg LlGC xix (1975–6), 300–10, *passim*.

**LlGC 18B**: David Ellis, 1794, AC / NEU Owen Williams ‘Owain Gwyrfai’, *ob.* 1874, gw. NLWCM 50–62.

**LlGC 170C**: Edward Jones ‘Bardd y Brenin’, 18g. / 19g., gw. *ib.* 140–2.

**LlGC 428C**: Howel W. Lloyd, canol y 19g., gw. NLWCM 299–302.

**LlGC 642B**: llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., gw. HMNLW i, 43.

**LlGC 673D**: William Jones, Llangollen, 19g., gw. *ib.*, 46 ?NEU 47.

**LlGC 695E**: llaw anh., canol yr 17g., gw. *ib.* 50.

**LlGC 728D**: llaw anh. (o Faelor, y mae'n debyg), 16g. / 17g., gw. *ib.* 54.

**LlGC 970E [= Merthyr Tudful]**: Llywelyn Siôn, 1613, gw. RWM ii, 372–94; HMNLW i, 77; D.H. Evans, 'Ieuan Du'r Bilwg (*fl. c.* 1471)', B xxxiii (1986), 106.

**LlGC 1247D**: Rhys Jones o'r Blaenau, canol y 18g., gw. HMNLW i, 101.

**LlGC 1553A**: Roger Morris, *c.* 1582–1600, gw. *ib.* 128–9; $CLC^2$ 520.

**LlGC 2030B [= Pant 64**], llaw anh., canol yr 17g. (nid yn gynharach na 1643), gw. RWM ii, 865.

**LlGC 3039B [= Mos 131]**: John Jones, Gellilyfdy, 1605–12, gw. RWM i, 87–97; Nesta Lloyd, 'A History of Welsh Scholarship in the First Half of the Seventeenth Century, with Special Reference to the Writings of John Jones, Gellilyfdy' (D.Phil., Oxford, 1970), 41–6.

**LlGC 3046D [= Mos 143]**: llaw anh., 16g., gw. RWM i, 124–31.

**LlGC 3048D [= Mos 145]**: llaw anh., 1644x50, gw. *ib.* 151–68; Dafydd Ifans, *op.cit.* 341–52.

**LlGC 3049D [= Mos 146]**: llaw anh., *c.* 1560x80, gw. *ib.* i, 168–79.

**LlGC 3050D [= Mos 147]**: Edward Kyffin, ?1570au, gw. *ib.* 180–96.

**LlGC 3056D [= Mos 160]**: Wmffre Dafis, *c.* 1600, gw. RWM i, 224–42; MWM 84–103.

**LlGC 3057D [= Mos 161]**: llaw anh., cyn 1563 (191, 307) a chanol yr 17g. (435), gw. RWM i, 243–55.

**LlGC 5265B**: ?Morys Kyffin, 1579, gw. HMNLW ii, 81.

**LlGC 5269B**: un o gopïwyr Dr John Davies, Mallwyd, *c.* 1626, gw. *ib.* 82.

**LlGC 5474A [= Aberdâr 1]**: Benjamin Simon, Abergwili, 1747–51, gw. RWM ii, 395–408; HMNLW ii, 104; GP xv.

**LlGC 6471B**: llaw anh., hanner cyntaf yr 17g. (cyn 1633), gw. HMNLW ii, 183; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylch LlGC vi (1949–50), 223.

**LlGC 6499B**: Dwy law anh. (126, 204; 687), hanner cyntaf yr 17g.–*c.* 1655 (126, 204), a *c.* 1800 (687), gw. HMNLW ii, 186.

**LlGC 6511B**: Llywelyn Siôn, 16g. / 17g., gw. *ib.* 188.

**LlGC 8497B**: Thomas Wiliems, *c.* 1570–90, gw. HMNLW iii, 54.

**LlGC 9176A**: Peter Bailey Williams (Llanrug), 19g., gw. *ib.* 123.

**LlGC 13061B**: Tomas ab Ieuan, ail hanner yr 17g., gw. HMNLW iv, 353–4.

**LlGC 13062B**: Thomas ab Ieuan, ail hanner yr 17g., gw. *ib.* 353–4.

**LlGC 13063B**: Thomas ab Ieuan, 1684, gw. *ib.* 354–5.

**LlGC 13125B**: Edward Williams 'Iolo Morganwg', 18g. / 19g., gw. *ib.* 410.

**LlGC 13127A**: Edward Williams 'Iolo Morganwg', 18g. / 19g., gw. *ib.* 411–12.

**LlGC 16129D [= copi ffotostat o Harvard MS. Welsh 8]**: llaw anh., canol yr 17g., gw. 'NLW Accessions 16049–18942' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth), dan rif y llawysgrif.

**LlGC 17113E [= Gwysanau 24]**: Thomas ap Llywelyn ab Ithel, canol yr 16g. (cyn 1547), gw. H.D. Emanuel, 'Catalogue of the Gwysaney Manuscripts (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1953), 29–31; *id.* 'The Gwysaney Manuscripts', Cylchg LlGC vii (1951–2), 339–40.

**LlGC 17114B [= Gwysanau 25]**: llaw anh., *c.* 1560, gw. H.D. Emanuel, *op.cit.* 31–45; *id.*, *art.cit.* 339; E. Bachellery, Études v (1950–1), 116–18; GO 21–2 (er iddo gamsynied am y dyddiad); BaTh 306.

**LlGC 19905B [= John Gwenogvryn Evans II 2]**: Robert Vaughan, Hengwrt, hanner cyntaf yr 17g., gw. 'Schedule of Manuscripts, Books … of the late Dr. Gwenogvryn Evans' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1930), 2.

**LlGC 20574A**: Siôn Prichard, Prion, 1652–7, gw. 'Llawysgrifau 20001–21700' (catalog anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth).

**LlGC 21248D**: llaw anh., [?Wmffre Dafis, gw. GHD 127] hanner cyntaf yr 17g., gw. 'Catalogue of Mostyn MSS purchased in 1974' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1975), 24–65.

**LlGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4]**: Llywelyn Siôn, 16g. / 17g., gw. Rhiannon Francis Roberts, 'A List of Manuscripts from the Collection of Iolo Morganwg among the Family Papers Presented by Mr Iolo Aneurin Williams and Miss H. Ursula Williams, 1953–4' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1978), 3–4.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llansteffan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Llst 6**: llaw anh., *c.* 1510x1530, gw. RWM ii, 428–33.

**Llst 35**: Wmffre Dafis, 16g. / 17g. (ar ôl 1598), gw. *ib.* 478–82; ByCy 117; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylchg LlGC v (1947–8), 234n3.

**Llst 52**: William Salusbury, *c.* 1625–9, gw. RWM ii, 531–4.

**Llst 53**: Siâms Dwnn, *c.* 1641–7, gw. *ib.* 534–45.

**Llst 55**: Siôn Dafydd Rhys, *c.* 1579, gw. *ib.* 549–53.

**Llst 118**: Wmffre Dafis (*ob.* 1635), 1601x1635, gw. *ib.* 579–92; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylchg LlGC v (1947–8), 234; ByCy 117.

**Llst 119**: William Phylip, *c.* 1647, gw. RWM ii, 592–602.

**Llst 122, 200**: Wiliam Bodwrda, *c.* 1644x50, gw. *ib.* 609–20; R. Geraint Gruffydd, *art.cit.* 350; Dafydd Ifans, *op.cit.* 384–98; *id.*, *art.cit.* 300–10, *passim*.

**Llst 123**: Wiliam Bodwrda, *c.* 1644x50, gw. RWM ii, 620–34; Dafydd Ifans, *op.cit.* 354.

**Llst 124**: Wiliam Bodwrda, *c.* 1648, gw. RWM ii, 634–49.

**Llst 133**: Samuel Williams ($65^{r-v}$, $136^{r}$, $369^{r}$) ac Iaco ab Dewi ($218^{v}$), *c.* 1712, gw. RWM ii, 664–94; Garfield H. Hughes, *op.cit.* 37–40.

**Llst 134**: Llywelyn Siôn, *c.* 1610, gw. RWM ii, 695–712; $CLC^2$ 478–9.

**Llst 135**: llaw anh., ail hanner yr 16g., gw. *ib.* 712–15.

**Llst 156**: Llaw anh., canol yr 17g., gw. *ib.* 732–8.

**Llst 167**: llaw anh., canol 17g. (nid yn gynharach na 1623), gw. *ib.* 754–7.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Pen 54, i**: llaw anh., *c.* 1480, gw. RWM i, 409–19, MWM 63, 95–6.

**Pen 57**: llaw anh., ail hanner y 15g., gw. RWM i, 428–32; Daniel Huws, *op.cit.* 93; Peniarth 57.

**Pen 69**: Rhys Cain, 1574–90, gw. RWM i, 469–70.

**Pen 73**: William Johnes, *c.* 1621, gw. *ib.* 486–91.

**Pen 76**: llaw anh., canol yr 16g., gw. *ib.* 503–8; Peniarth 76.

**Pen 77**: llaw gynnar Thomas Williems, *c.* 1576, gw. *ib.*, 509–18.

**Pen 94**: Thomas Wiliems, 1590au, gw. *ib.* 578–89.

**Pen 99**: John Davies, Mallwyd, ?1560au; *c.* 1610–20, gw. RWM i, 613–24.

**Pen 112**: John Jones, Gellilyfdy, cyn 1610, gw. *ib.* 671–86; Nesta Lloyd, *op. cit.* 28–33.

**Pen 114**: John Jones, Gellilyfdy, hanner cyntaf yr 17g., gw. *ib.* 689–95.

**Pen 195**: David Ellis, Gwanas, hanner cyntaf y 18g. (cyn 1727), gw. *ib.* 1023–5.

**Pen 198**: llaw anh., *c.* 1693–1701, gw. *ib.* 1026.

**Pen 221**: John Jones, Gellilyfdy, *c.* 1605–*c.* 1620, gw. *ib.* 1045; Nesta Lloyd, *op.cit.* 26–7; M.T. Burdett-Jones, 'Trydydd Llyfr Cywyddau John Jones, Gellilyfdy', YB xvi (1990), 127–40.

**Pen 239**: llaw anh., ail hanner yr 17g., gw. RWM i, 1063–6.

**Pen 251**: un o gynorthwywyr Edward Lhuyd, *c.* 1698, gw. *ib.* 1069–70.

**Pen 267**: John Jones, Gellilyfdy, 1635–41, gw. *ib.* 1077–1081.

**Pen 312i**: John Jones, Gellilyfdy, 1610–40, gw. *ib.* 1114–18.

**Pen 313**: John Jones, Gellilyfdy, ar ôl 1618, gw. *ib.* 1118–1119.

*Llawysgrif yng nghasgliad Stowe yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain*

**Stowe 959 [= RWM 48]**: llaw anh., chwarter olaf yr 16g., gw. RWM ii, 1110–1126; GLGC xxxii.

# *Mynegai i'r llinellau cyntaf*

*Td.*


Af fry lle'r wyf ar wahodd ....65
Balch yw Llawdden eleni ....120
Blin yw taith y blaned des....35
Bûm yn aredig brig bron....94
Calennig yw cael einioes ....29
Cam oedd i'r Guto roi'r gatair—i'r gŵr ....128
Can hawddfyd yt, hyfryd dâl ....50
Can ystad, wayw can ystâl....91
Caru 'dd wyf anfon cerdd dda ....56
Dawn i dir, Duw yn ei dâl....82
Duw a rannodd drwy einioes ....107
Edwart a'i wŷr âi drwy'r tân....110
Erchais farch dihafarch du ....122
Eurwn gerdd gyda'r un gainc....41
Ffyniant yt yw'r moliant mau ....67
Ffynnaist, Duw fo d'orffennwr....62
Gorau swydd fal gyrru saeth....124
Gwir iawn fu'r geiriau, f'enaid ....126
Gwn gur, gwen ei goroen....33
Hir yr wyf, hwyr arofyn....117
Mae eryr ym mawr ei rodd....85
Mae imi fab a fydd abad ....130
Mae seiri yn mesuraw ....77
Maredudd, marw yr ydwyd....74
Morgan synnwyr anianol ....71
Phylib, ei gorff a welir ....59
Rhyfel ar barsel o'r byd ....100
Siôn Bromych sy'n bwrw yma ....97
Tripheth, mawr y'u trahoffir....37
Y blaned heb oleuni ....88
Y ddau gyw oedd wyau gynt ....103
Y gadair a roed am gydaid—o bys ....131

Y Grog odidog y doded—Dy lun....25
Y gŵr â chŵn a gyrch hydd....47
Y llew ’n aer a’r llaw’n wrol....53
Y wlad a’r dref, farchnad fawr....80

# *Mynegai i'r noddwyr a'r gwrthrychau*


*Cerdd*

Bardd gwael ............ 36
Brycheiniog ............ 18
Crog Caer ............ 1
Cusan ............ 5
Dafydd ab Ieuan ............ 19
Elen Gethin, Llinwent ............ 21
Gweurful ferch Madog a Gruffudd, Abertanad ............ 8
Hywel ............ 7
Hywel Swrdwal ............ 31
Ieuan Gwyn ap Gwilym Fwyaf a Goleuddydd, Pryscedwyn ............ 29
Ieuan ap Hywel Swrdwal ............ 33
Llawdden30, 32
Llawdden a Dafydd ab Edmwnd ............ 34
Madog ap Hywel, Elfael ............ 17
Mair Forwyn ............ 2
Maredudd Fychan ap Maredudd, Garddfaelog ............ 16
Merch ............ 3, 4
Morgan ap Hywel, Croesgynon ............ 15
Plentyn maeth ............ 35
Phylib ap Rhys, Cenarth ............ 10, 14
Phylib ap Rhys a Gwenllïan, Cenarth ............ 11, 12
Phylib ap Rhys a Gwenllïan a'u pum mab, Cenarth ............ 13
Robert Chwitnai, Whitney ............ 24
Rhisiart ap Siancyn Twrberfil, Llandudwg ............ 28
Rhys ap Dafydd Goch, Gwynllŵg ............ 26
Syr Dafydd Mathau, Llandaf ............ 27
Syr Siôn Bwrch, y Drefrydd ............ 9
Syr Water Defras, Weblai a Bodenham ............ 25
Tomas ap Syr Rhosier Fychan a'i dri mab, Hergest ............ 20
Tri mab Owain ap Gruffudd, Rhiwsaeson ............ 6
Watgyn ap Tomas, Hergest ............ 22, 23